Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Arolwg o'r canu i deulu Mostyn, ynghyd â golygiad o'r cerddi o'r cyfnod c.1675-1692

Jones, Eirian

Award date:
2014

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 28. Mar. 2024

Arolwg o'r canu i deulu Mostyn, ynghyd â golygiad o'r cerddi o'r cyfnod c. 1675-1692

Eirian Alwen Jones

Traethawd a gyflwynir am radd PhD

Ysgol y Gymraeg

Prifysgol Bangor

2014

Cynnwys

CRYNODEB iv

DIOLCHIADAU v

DULL GOLYGU'R CERDDI vi

BYRFODDAU viii

RHAGYMADRODD .

Pennod 1: Y Pum Llys hyd at 1675 x

Pennod 2: Y Canu Mawl i deulu Mostyn: 1675-1692 lxxxii

Pennod 3: Bridget Savage (*c* 1656-1692) – Ei hachau a'i theulu .. cxxxi

Pennod 4: Llanw a thrai'r traddodiad barddol, 1692-1847 cxlix

Y CERDDI

1. Englyn i deulu Mostyn 1
2. Englyn i fyfyrgell 2
3. Englynion i Syr Rosier Mostyn 3
4. Croesi Mynydd Tegan 6
5. Englyn i ofyn porfa i Syr Rosier Mostyn 8
6. Cywydd Marwnad Syr Rosier Mostyn, 1690 9
7. Awdl Foliant Tomas Mostyn ar y Pedwar Mesur ar Hugain 15
8. Cywydd Moliant i Tomas Mostyn, wyneb a gwrthwyneb 22
9. Englynion i Tomas Mostyn 26
10. I Tomas Mostyn 28
11. Cywydd i groesawu Tomas Mostyn i Uwchmynydd 29
12. Cywydd i annog Tomas Mostyn adref o Lundain 31
13. Cywydd i ofyn am fytheiad gan Tomas Mostyn 34
14. I Tomas Mostyn yn ei afiechyd 40
15. Marwnad Rosier Mostyn, brawd Tomas Mostyn 41
16. Cywydd gofyn am gwrw i Siôn Edward 42
17. Cywydd yn Galennig i Tomas Mostyn 45
18. I ofyn diod i fwtler Gloddaith 48
19. I Gabriel, bwtler Gloddiath 49
20. Cywydd i ofyn cymod Tomas Mostyn 50
21. Cywydd Moliant i Tomas Mostyn 53

22. Cywydd ymddiddan rhwng y Prydydd a'i Awenydd 57
23. Englynion i Tomas Mostyn a Gloddaith 68
24. Cywydd marwnad 'Miss', gast Tomas Mostyn 70
25. Marwnad am golwyn Tomas Mostyn 73
26. Cywydd i'r Llech 75
27. Englyn i Loddaith 78
28. I garreg fawr mewn wal 79
29. Cywydd i annog Tomas a Bridget Mostyn i ddychwelyd o Lundain .. 80
30. I Bridget Mostyn pan oedd yn wael 84
31. Carol i Bridget Mostyn wedi iddi wella 87
32. Marwnad Siôn Edward 90
33. Cywydd marwnad Siôn Edward 97
34. Cywydd marwnad Siôn Edward 99
35. Cywydd marwnad Syr Tomas Mostyn a Bridget, ei wraig 103
36. Cywydd marwnad Syr Tomas Mostyn a'i Arglwyddes 109
37. Englyn marwnad i Tomas a Bridget Mostyn 117
38. Cywydd i Roger Mostyn 118
39. Englynion i Roger Mostyn 119
NODIADAU 120
GEIRFA 176
Enwau personau 203
Enwau lleoedd 205
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF 207
LLAWYSGRIFAU 209
LLYFRYDDIAETH 217
Gwefannau 254

Crynodeb

Bu teulu Mostyn yn gefnogol i'r traddodiad barddol yn eu pum llys ar draws gogledd Cymru am ganrifoedd, a chlodforir eu nawdd yng nghanu beirdd y cyfnod. Daeth penllanw'r nawdd barddol yn yr 16g, yn arbennig drwy'r cysylltiad agos rhwng y teulu ac Eisteddfodau Caerwys 1523 a 1567/8. Erbyn cyfnod y Rhyfel Cartref, fodd bynnag, roedd y canu wedi dirwyn i ben ar aelwydydd y teulu. Mae'r rhagymadrodd yn astudiaeth o hanes teulu Mostyn o'r pum llys hyd at 1847, a cheir dyfyniadau o rai o'r cerddi a ganwyd ar eu haelwydydd dros y canrifoedd. Ond ar ddiddordeb Tomas Mostyn (m.1692) mewn casgliadau llenyddol a nawdd barddol yn chwarter olaf yr 17g. y mae prif sylw'r traethawd hwn a chyflwynir golygiad o'r cerddi a ganwyd iddo ef a'i deulu fel tystiolaeth o'i waith yn atgyfodi'r traddodiad barddol ar aelwyd y teulu unwaith eto. Rhoddir sylw hefyd yn y rhagymadrodd i gefndir ei wraig, Bridget Savage, a dylanwad y ffydd Babyddol ar dynged ei theulu. Ceir gwybodaeth hefyd am gysylltiad y teulu â'r drefn farddol hyd at y 19g. i gloi'r rhagymadrodd.

Diolchiadau

Yn gyntaf, dymunaf ddiolch i'r Athro Peredur I. Lynch am ei arweiniad a'i gyfarwyddyd yn ystod yr ymchwil hwn, elwais yn fawr o'i wybodaeth a'r trafodaethau dros y blynyddoedd. Dymunaf hefyd ddiolch am gymorth parod staff Archifdy a Llyfrgell Prifysgol Bangor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Caerdydd, Y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Penarlag a Llyfrgell Dinbych. Gwerthfawrogaf barodrwydd yr Arglwydd Mostyn i ganiatáu i mi ymweld â chartref y teulu ym Mostyn a chymorth Shaun Evans gyda'i wybodaeth leol. Cydnabyddaf gyda diolch gymorth ariannol Cronfa 125 a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Bangor, dros gyfnod yr ymchwil. Yn olaf, ond nid y lleiaf, diolchaf am gyfeillgarwch ac anogaeth tiwtoriaid a myfyrwyr ôl-radd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, a chefnogaeth di-baid fy nheulu.

Dull golygu'r cerddi

Wrth greu golygiad o'r cerddi, diweddarwyd yr orgraff ond ceiswyd hefyd warchod arddull unigol y beirdd a chyfleu arddull y cyfnod a oedd yn gyfuniad o Gymraeg ffurfiol a pheth ieithwedd dafodieithol fel yr ymddengys o fewn y casgliad.

Defnyddiwyd y llawysgrif hynaf fel man cychwyn i bob golygiad pan oedd mwy nag un copi ar gael, i gyrraedd y fersiwn gynharaf o gerdd ond, yn gyffredinol, prin yw'r enghreifftiau o amrywiadau yn y geiriau, nifer neu drefn y llinellau. Cafwyd yr amrywiad mwyaf yn y llawysgrifau yng Ngherdd 22 – Cywydd ymddiddan rhwng y Prydydd a'r Awenydd – gan greu'r argraff fod nifer o'r copïau yn deillio o drosglwyddo'r cerddi o ddatganiad llafar i lawysgrif. Ceir dau gopi o Gerdd 26 – Cywydd i'r Llech – ac yma y ceir yr unig amrywio sylweddol yn nhrefn y llinellau yn y llawysgrifau. Cafwyd hefyd linellau yn brin a llinellau ychwanegol yn y ddau gopi a chan fod y ddwy lawysgrif o'r un cyfnod, efallai mai enghraifft yw hyn o fardd yn addasu a newid ei gerdd o ddatganiad i ddatganiad. Gan na fu modd darganfod pa lawysgrif yw'r hynaf, ni chyfunwyd y llinellau a defnyddiwyd y llawysgrif fwyaf cyflawn ar gyfer y golygiad, gan nodi amrywiadau'r ail lawysgrif ar ddiwedd y gerdd.

Roedd y mwyafrif o'r llawysgrifau eisoes â phriflythrennau ar ddechrau pob llinell (golygwyd gweddill y llawysgrifau i ddilyn yr un ffurf) ond yn nifer o'r copïau yn llaw Siôn Dafydd Las, cafwyd rhai geiriau o fewn y cerddi a oedd hefyd yn dechrau â phriflythyren. Gan nad oedd diben amlwg i'r priflythrennau hyn fe'u hepgorwyd. Prin iawn oedd y defnydd o atalnodau yn yr holl lawysgrifau a cheisiwyd gwneud cyfiawnder â gwaith y beirdd wrth atalnodi'r cerddi . Efallai fod y gwaith atalnodi yn fwy tyngedfennol i gyfleu ystyr ac ysbryd y cerddi na diweddaru'r orgraff, a thra gwnaed pob ymdrech i wneud hyn yn gywir, gellir amrywio rhywfaint ar ystyr rhai llinellau o'u hatalnodi'n wahanol.

Un penbleth a ddaeth i'r wyneb wrth greu'r golygiad oedd sut i ysgrifennu enwau personol, neu yn hytrach ym mha iaith. Gwelir Roger a Thomas, yn y fersiwn Saesneg, yn ymddangos yn y llawysgrifau a hefyd dalfyriad o'r enwau, megis R.M. neu Tho. Mostyn. Gan fod Rosier, yn y ffurf Gymraeg, hefyd yn ymddangos yn achlysurol ac i'w gael yn un o'r cerddi cynharaf, a Tomas yn cael ei ddefnyddio o dro i dro, penderfynwyd

mabwysiadau'r ffurf Gymraeg ar gyfer enwau'r ddau yn y golygiad o'r cerddi. I wahaniaethu rhwng y taid a'r ŵyr, defnyddiwyd Roger ar gyfer y gŵr ieuengaf.

Roedd rhai cerddi yn y casgliad yn ddi-deitl ac eraill â theitlau hirwyntog ac felly crëwyd teitlau o'r newydd neu aralleirio yn ôl y galw.

Gan fod blwyddyn y canu wedi ei nodi ar gyfer rhai cerddi, penderfynwyd eu trefnu yn gronolegol ar gyfer y golygiad a defnyddiwyd y manylion oddi fewn i'r cerddi eraill am amcan o amser eu canu, os oedd modd. Bu cyfrol Daniel Huws, *Repertory*, hefyd o gymorth i ddyddio'r llawysgrifau a thrwy gyfuno'r holl wybodaeth â dyddiad marwolaeth y beirdd unigol, cafwyd awgrym o ddyddiad canu nifer helaeth o'r cerddi. Pan nad oedd modd cael dyddiad pendant, trefnwyd y cerddi fesul thema neu achlysur.

Byrfoddau

ADSGC	Einir Gwenllian Thomas, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan', II, Traethawd PhD Prifysgol Cymru, Bangor (2001).
AFAG	Gwen Saunders Jones, '*Fy nhad a ddywede am hyn: Agweddau ar farddoniaeth Alis ferch Gruffudd'* , Thesis PhD, Prifysgol Bangor (Bangor, 2010)
BA	Y Bywgraffiadur Ar-lein
CSRM	Norman Tucker, 'Colonel Sir Roger Mostyn, First Baronet (1624-1690)', *Flintshire Historical Society Journal,* 17 (1957), 42-54.
FGGP	T A Glenn, *The Family of Griffith of Garn and Plasnewydd in the County of Denbigh* (Llundain, 1934)
GGH	D J Bowen (gol.), *Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd, 1990)
GM	A D Carr, 'Gloddaith and the Mostyns, 1540-1642', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 41 (1980), 33-57.
GPC	*Geiriadur Prifysgol Cymru*
GST	Enid Roberts (gol.), *Gwaith Siôn Tudur*, I/II (Caerdydd, 1980)
HFMM	Yr Arglwydd Mostyn a T A Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn* (Llundain, 1925)
HP	J Y W Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, IV (Llundain, 1884)
HPWH	Thomas Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford* and *Holywell* (Fleet Street, 1796)
LMM	Edward Bedingfield, *The Life of Margaret Mostyn (Mother Margaret of Jesus): Religious of the Reformed Order of our Blessed Lady of Mount Carmel, 1625-1679* (Llundain, 1878)
MM:1540-1642, I	A D Carr, 'The Mostyns of Mostyn: 1540-1642', I, *Flintshire Historical Society Journal,* 28 (1977-78), 17-37.
MM:1540-1642, II	A D Carr, 'The Mostyns of Mostyn: 1540-1642', II, *Flintshire Historical Society Journal,* 30 (1981-1982), 125-144.
MM: GLF	A D Carr, 'The Making of the Mostyns: The Genesis of a Landed Family', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* (1979), 137-157.
MWM	Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Aberystwyth, 2000)

ODNB	*Oxford Dictionary of National Biography*
PMFT	Yr Arglwydd Mostyn, 'Piers Mostyn, the First of Talacre', *Journal of the Flintshire Historical Society,* XI (1925), 45-48.
PMF	A D Carr, 'Pengwern: A Medieval Family', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 31 (1982), 5-27.
REDW	David N Klausner (gol.), *Records of Early Drama: Wales* (Llundain, 2005)
Siân Mostyn	D J Bowen, 'Siân Mostyn, 'Yr orav o'r mamav ar sydd yn traythv Iaith Gamberaec', yn J E Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol,* XVI (Dinbych, 1990), 111-126.
TMNB	R Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel Noddwyr y Beirdd', yn *Llên Cymru,* IX (1966-67), 74-110.

Pennod 1

Y Pum Llys hyd at 1675

Gyda gwŷr sir Fflint yn cipio'r tair prif wobr yn Eisteddfod Caerfyrddin, *c* 1451, y mae'n amlwg bod lle blaenllaw i'r traddodiad barddol yn y rhan hon o ogledd-ddwyrain Cymru yn y bymthegfed ganrif.[1] Un o'r teuluoedd lleol a fu'n cynnal y beirdd am genedlaethau oedd teulu Mostyn, teulu gyda'u gwreiddiau yn ddwfn yn Sir y Fflint ond a ddeilliai o linachau hynafol ar draws siroedd Gogledd Cymru. Y llys yn Sir y Fflint a roddodd y cyfenw Mostyn i'r teulu yn 1539, ond drwy briodasau manteisiol ag aeresau, roedd llysoedd Pengwern, Trecastell, Gloddaith a Thregarnedd wedi dod ynghyd â'r llys hwnnw i greu ystad helaeth ar draws arfordir y gogledd, o Fôn i'r Gororau. Yng ngeiriau A D Carr, 'marriage .... made the Mostyns',[2] trefniant nad aeth yn ddisylw gan y beirdd gan i'r pum llys gael sylw droeon yn y cerddi a ganwyd i'r teulu.

Nod y traethawd yw archwilio datblygiad y traddodiad barddol yng nghyd-destun y teulu, gan ddefnyddio'r cerddi a ganwyd i aelodau unigol dros y canrifoedd fel tystiolaeth o'u cefnogaeth i'r beirdd. Hwyluswyd y gwaith ymchwil trwy sefydlogrwydd y teulu mewn dau o'r llysoedd – Mostyn a Gloddaith – a pharhad llinell uniongyrchol o ddisgynyddion o'r ddeuddegfed ganrif hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nodwedd arall a fu o gymorth wrth gwblhau'r gwaith oedd y pwysigrwydd a roddwyd gan y Mostyniaid i gadw a diogelu papurau'r teulu, casgliad sylweddol sydd bellach yn destun sawl maes ymchwil dan nawdd y teulu presennol a phrifysgolion Bangor ac Aberystwyth, gyda'r traethawd hwn yn un o ffrwythau 'Prosiect Mostyn'.

Cysylltir teulu Mostyn yn arbennig ag Eisteddfodau Caerwys yn 1523 a 1567 drwy weithgarwch Rhisiart ap Hywel a'i ŵyr, Wiliam Mostyn, ac fe welir bod cefnogaeth y teulu i'r traddodiad barddol yn ei anterth yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae'r cyfnod hefyd yn cyd-fynd â phenderfyniad Tomas ap Rhisiart a'i frawd Pyrs i fabwysiadu Mostyn fel cyfenw'r teulu. Er bod yr enw Mostyn yn ymddangos am y tro cyntaf yng

[1] Cofnododd John Jones, Gellilyfdy bod Dafydd ab Edmwnd wedi ennill y 'gadair arian', Cynwrig Bencerdd, Treffynnon, y 'delyn arian', tra aeth y 'dafod arian' i Rhys Bwtting, Prestatyn. Gweler Hywel Teifi Edwards, *Yr Eisteddfod: Cyfrol Ddathlu Wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976* (Llandysul, 1976), 9.
[2] A D Carr, 'The Making of the Mostyns: The Genesis of a Landed Family', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1979), 139. Rwyf yn ddyledus iawn i A D Carr am ei erthyglau cynhwysfawr ar y teulu wrth lunio'r traethawd hwn.

nghanu'r beirdd yng nghanol y ganrif, fe welir bod yr arfer o noddi'r beirdd yn ymestyn i gyfnod cynharach, gyda sylfaenwyr y pum llys a'u disgynyddion wedi cynnal y traddodiad barddol o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad yn gynharach. Nid traddodiad newydd o noddi felly a ddatblygwyd yng nghyfnod Tomas ap Rhisiart, ond ymestyniad o draddodiad a oedd wedi ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ers canrifoedd, o dad i fab, ond hefyd o fam i fab yng nghyd-destun teulu Mostyn. Drwy'r mamau – aeresau Trecastell, Mostyn, Tregarnedd a Gloddaith – gwelir traddodiad llinachau hynafol yn dod ynghyd at linach Pengwern. Oherwydd natur lafar y traddodiad barddol, mae'n anorfod bod corff helaeth o'r cerddi cynnar wedi ei golli, ac er y ceir rhai cerddi prin o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, daw tystiolaeth fwy pendant am weithgarwch teulu Mostyn yn cynnal y traddodiad o'r unfed ganrif ar bymtheg. Er gwaethaf brwdfrydedd y teulu i ddarparu nawdd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, rhybuddiai beirdd y cyfnod am ddirywiad cyffredinol mewn cefnogaeth gan yr uchelwyr i'r traddodiad barddol, a gwelir hyn yn cael ei adlewyrchu ar aelwydydd y teulu erbyn diwedd y ganrif, ac eithrio neithior Rosier Mostyn yn 1596.[3] Prin yw'r cerddi yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg ac erbyn y Rhyfel Cartref yn 1642, roedd arfer y teulu o noddi'r beirdd wedi dirwyn i ben.

Prif ffigwr y gwaith hwn fydd Tomas Mostyn (m. 1692), gŵr a ymddiddorai mewn casglu hen lyfrau a llawysgrifau yn chwarter olaf yr ail ganrif ar bymtheg, gan hefyd adfer y traddodiad barddol ar ei aelwyd. Tra mae'r rhan fwyaf o'r casgliad hwn yn ymwneud â'r canu i Tomas Mostyn, gwelir bod gwaith ei feirdd hefyd yn cynnwys cerddi i'w dad a'i fab. Er bod y beirdd wedi canu i dair cenhedlaeth o'r teulu yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg, mae'r cerddi oll wedi eu cyfyngu i gyfnod o oddeutu deunaw mlynedd, rhwng *c.* 1675 a 1692, pan fu farw Tomas Mostyn. Drwy gyfrwng ei nawdd barddol, fe welir Tomas yn adfer cysylltiad â'i gefndir diwylliannol hynafol, gan hefyd gynnal to newydd o feirdd yn ogystal ag ymestyn y corff o farddoniaeth i deulu Mostyn.

Gall dyddiadau fod yn amherthnasol yng nghyswllt traddodiadau teuluol ond fe ellid cynnig bod 1532 yn flwyddyn arwyddocaol yn hanes teulu Mostyn, gan mai dyma'r flwyddyn y daeth yr olaf o'r llysoedd i etifeddiaeth Rhisiart ap Hywel (m. 1540). Bellach byddai llysoedd Pengwern, Trecastell, Mostyn, Tregarnedd a Gloddaith yn un uned, i'w

[3] Pan briododd Rosier Mostyn â Mari Gwyn, Gwydir, yn 1596, roedd naw o feirdd yn bresennol yn y neithior a chofnodwyd eu cerddi i ddathlu'r achlysur o fewn cloriau llawysgrif a ddiogelir bellach yn Archifdy Prifysgol Bangor – Bangor (Mostyn) 1.

throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Cyn diwedd y degawd roedd y teulu wedi mabwysiadu'r cyfenw Mostyn, a seiliau'r llinach bresennol wedi eu gosod.

Wrth ymchwilio i ddatblygiad y traddodiad barddol o fewn y teulu, gwelir bod y beirdd wedi cael eu cynnal ganddynt am genedlaethau, cyn ac wedi 1532. Gallai Tomas Mostyn (m. 1692) felly ymhyfrydu mewn traddodiad hynafol iawn pan adferodd y canu barddol ar ei aelwyd yng Ngloddaith yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Cyn trafod ei gyfraniad, byddwn yn olrhain y traddodiad barddol i'r pum llys, gan hefyd edrych ar gefndir hanesyddol teulu Mostyn.

Praffion da gyffion di-gêl, – parchuswaed
Mab Rhisiart ap Hywel
Pum lles eich pum llys uchel,
Pum plas mawr; urddas mwy êl.

Aeth pum plas, Tomas, yt yma – yn un,
O uniawn cyfa;
Un llys oedd yn lle sy dda,
Un bioedd Ieuan ab Adda.
Gruffudd Hiraethog (m. 1564)[4]

Cofnodwyd uniad y pum llys gan Gruffudd Hiraethog yn fuan wedi 1540, pan etifeddodd mab Rhisiart ap Hywel y llysoedd yn eu crynswth, cyfeiriad a fyddai'n cael ei ailadrodd yng ngweithiau'r beirdd wrth glodfori hynafiaeth llinach Mostyn. Nodwyd tarddiad y teulu yn llawysgrif *Welsh Bards: The Book of the Vaughans*, pan gofnodwyd llinachau'r pum llys yn 1682.

5 plas Sr Roger Mostyn

1 Pengwern yn Llangollen a ddaeth o dad i dad.
2 Tref Gastell ynghwmwd Tindaethwy yn Môn oedd eiddo Anghard vch Edn ap Tydyr ap Grono, yr hon a briododd Evan ap Adda.
3Yw Mostyn yn Nhegengl ag a fu eiddo Angharad vch Howell ap Tudyr yr hon a briododd Ienn Vychan ap Ienn ap Adda.
4 Tref garnedd ynghwmwd Menai yn Môn a thref y Nant bychan ynghwmwd twr colyn yn Môn, yr un etifeddiaeth ag a fu eiddo Morfydd vch Sr Gr Llwyd ag a briodes Madog Gloddaith.
5 yw Gloddaith ynghwmwd y Creyddyn yn Sir Gaernarvon ag a fu eiddo

[4] Detholiad o 'Moliant Tomas Mostyn o Loddaith', D J Bowen (gol.), *Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd, 1990), 1.

> Margred vch Gr ap Rhys ap Gr ap Mad Gloddaith yr hon a briododd Howell ap Evan Vychan.
> Mab hynaf Sr Roger Mostyn yw Tho: Mostyn Esqr sy yn byw yngloddaith yr hwn a briododd Bridget Savage merch Dorset Savage Esqr yr hon yw ei heiresse i estate ef sef, Layton ynghilgwri a chastell Biston yn [bwlch] yn Sir Gaer yr un etifeddiaeth. Mab hynaf Thomas Mostyn yw Roger Mostyn sy yr awrhon yn yr yscol. 1682.[5]

Gyda'r cofnod hwn, ceir man cychwyn cyfleus i olrhain cefndir y teulu, a thrafodir hanes cynnar y teulu fesul llys, ac yna fesul cenhedlaeth o Rhisiart ap Hywel ymlaen i 1675.

Pengwern

Iorwerth Fychan[6] = Catrin — Llywelyn ein Llyw Olaf

Iorwerth Foel

Ednyfed Gam

Iorwerth Ddu

Adda = Isabel — Owain Glyndŵr

Ieuan ab Adda (m. 1448) = Angharad ferch Ednyfed, Trecastell

Ieuan Fychan (m. 1477)

Fel mae'r llawysgrif *Welsh Bards: The Book of the Vaughans* yn cofnodi, disgynnodd Pengwern drwy linach wrywaidd y teulu. Gellir olrhain y cysylltiad yn ôl at Tudur Trefor, 'Iarll Henffordd ag Arglwydd or ddwy Faelor Croesyswallt ar Drewen Llwyth Marchog Cymry', gyda phedair cenhedlaeth ar ddeg yn cael eu cofnodi'n olynol ar yr un llawysgrif hyd at Roger Mostyn (m. 1690).[7] Sefydlwyd llinach Pengwern gan or-ŵyr Tudur Trefor, Iorwerth Hen, yn y ddeuddegfed ganrif, ac mae awgrym ei fod yn ddistain i arglwydd Powys Fadog, gyda'i fab a'i ŵyr, Iorwerth Fychan ac Iorwerth Foel, hefyd yn

[5] Llawysgrif yn y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 11087, 129.
[6] Mae llinellau achau'r pum llys yn seiliedig ar gynllun A D Carr. MM:GLF, 138.
[7] Llawysgrif yn y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 11087, 128.

dal y swydd yn eu tro.[8] Lleolir Pengwern i'r de-ddwyrain o Langollen, gyda'r safle yn cael ei gysylltu â llinach Mostyn ers o leiaf yr unfed ganrif ar ddeg. Cofnodwyd olion capel y teulu a neuadd fwaog o fewn yr adeilad gan Mostyn a Glenn yn 1925, er bod cryn ailadeiladu wedi ei wneud ar y llys gwreiddiol erbyn hynny.[9] Yn ogystal â'r cysylltiad â Tudur Trefor, gellir olrhain uniad Iorwerth Fychan, Pengwern, gyda Catrin – chwaer Llywelyn ap Gruffudd, Llywelyn ein Llyw Olaf – yn y drydedd ganrif ar ddeg.[10] Fel tenantiaid rhydd yn arglwyddiaeth Y Waun, roedd gan deulu Pengwern ddylanwad yn yr ardal, gydag Ednyfed Gam yn un o'r arweinyddion lleol yn yr ymgyrchoedd yn erbyn arglwyddi'r Mers, megis y Mortimeriaid, yn 1322 a 1331. Yn ddiweddarach, gwelir ei fab, Iorwerth Ddu, yn dal swydd prif goedwigwr yr arglwyddiaeth yn 1356 a rhingyll Llangollen rhwng 1377 a 1379, swydd a ddisgynnodd i'w fab, Adda, yn 1392.[11] O ganlyniad i briodas Adda ap Iorwerth Ddu ag Isabel, ferch Gruffydd Fychan, Arglwydd Glyndyfrdwy a Chynllaith Owain, cysylltwyd llinach Pengwern yn y bedwaredd ganrif ar ddeg gydag un o arweinyddion amlycaf Cymru.[12] Brawd Isabel oedd Owain Glyndŵr ac oherwydd y cysylltiad teuluol, roedd yn naturiol i fab Adda ac Isabel, Ieuan (m. 1448), ymgyrchu gyda'r gwrthryfelwr. Un canlyniad i hyn oedd i enw Ieuan ab Adda ac Angharad, ei wraig, ymddangos ar restr o herwyr gydag Owain Glyndŵr yn 1406.[13] Fel nifer o ddilynwyr Glyndŵr, llwyddodd i adfer ei diroedd yn ddiweddarach, ond ni welir y teulu mor amlwg yng ngweinyddiaeth yr arglwyddiaeth wedi hyn.[14] `

[8] A D Carr, 'Pengwern: A Medieval Family', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 31 (1982), 5-27.
[9] Arglwydd Mostyn a T A Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn* (Llundain, 1925), 179.
[10] PMF, 5-27.
[11] MM:GLF, 137-157.
[12] PMF, 19.
[13] Trafodir cysylltiadau teuluol Owain Glyn Dŵr yng nghyfrol R R Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Rhydychen, 1995), yn arbennig pennod 8, 'Friends and Foes', 197-228, lle nodir ei achau a'i berthynas ag Ieuan ab Adda yn fanwl ar ddwy goeden deuluol.
[14] Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr,* 19-21.

Trecastell

Tudur ap Goronwy ab Ednyfed Fychan (m. 1311)
|
Goronwy (m. 1331)
|
Tudur (m. 1367) = Margred Elen
| |
Ednyfed (m. 1382) Owain Glyndŵr
|
Angharad = Ieuan ab Adda, Pengwern (m. 1448)
|
Ieuan Fychan (m. 1477)

Roedd gwraig Ieuan ab Adda, Angharad, yn ferch ac aeres i Ednyfed ap Tudur, a thrwy'r briodas hon, daeth llys a thiroedd Trecastell yng nghwmwd Dinaethwy, Ynys Môn,[15] i feddiant Ieuan ab Adda,[16] gan uno dau o'r pum llys a ddaeth yn ddiweddarach yn ystad teulu Mostyn. Fel gyda llinach Pengwern, roedd teulu Trecastell yn ymestyn o linach hynafol, gyda disgynyddion Ednyfed Fychan, (*c*. 1170-1246), distain Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr), yn derbyn y tiroedd ar lan Afon Menai yn y drydedd ganrif ar ddeg. Rhai o ddisgynyddion amlycaf llinach Trecastell oedd Owain Tudur a'i ŵyr, Harri VII, gydag Owain ac Angharad, gwraig Ieuan ab Adda, yn rhannu yr un taid, sef Tudur ap Goronwy (m. 1367).[17]

Bu disgynyddion Ednyfed Fychan hefyd yn ddisteiniaid i Lywelyn ap Gruffudd ac nid annisgwyl yw gweld aelodau o'r teulu yn cynnal parhad y traddodiad barddol. Gwelir Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd (*fl.* 1352-1382)[18] ac Iolo Goch (*c.*1320 – *c.*1398) yn canu i Tudur ap Goronwy a'i feibion yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:

---

[15]Ailadeiladwyd y llys droeon a phrin yw'r olion bellach o unrhyw nodweddion hynafol. http://www.coflein.gov.uk/en/site/15893/details/TRECASTELL+FARMHOUSE/

[16] Yn ogystal â Threcastell, etifeddodd Angharad diroedd yng ngorllewin yr ynys, sef Tref Gwelaith, yn nghwmwd Llifon, ond er i'w mab, Ieuan Fychan, ei etifeddu, ni cheir cofnod o'r llys yn Aberffraw yn parahau ym meddiant y teulu wedi hyn. J Y W Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher and the Ancienty Nobility of Powys Fadog*, IV (Llundain, 1884), 146.

[17] Roedd hanner brawd Ednyfed, Maredudd (o ail briodas eu tad, Tudur ap Goronwy), yn dad i Owain Tudur. Peter C Bartrum , *Welsh Genealogies, A.D. 300-1400,* IV (Aberystwyth, 1974).

[18] Ceir tair cyfrol gynhwysfawr ar waith a bywyd Gruffudd ap Maredudd yn *Cyfres Beirdd yr Uchelwyr*. Barry J Lewis (gol.), *Gwaith Gruffudd Ap Maredudd, 1 – Canu i Deulu Penmynydd* (Aberystwyth, 2003); Barry J Lewis (gol.), *Gwaith Gruffudd Ap Maredudd – Y Cerddi Crefyddol* (Aberystwyth, 2005); Ann Parry Owen (gol.), *Gwaith Gruffudd Ap Maredudd,* III (Aberystwyth, 2007).

Môn yr af, dymunaf reg,
Mynydd-dir manwyeidd-deg,
Mam Wynedd, mae im yno
Geraint da eu braint i'w bro;
Claswriaeth deg glwys oror,
Clostr im yw ger clust o'r môr,
Buarth clyd i borth clêr
Heb wrthod neb a borther. [19]

Roedd perthynas agos hefyd rhwng llinach Trecastell ac Owain Glyndŵr, gyda thad Angharad, Ednyfed ap Tudur, yn gefnder cyntaf iddo.[20] Er i Ednyfed farw yn 1382, mae'n anorfod bod cysylltiadau teuluol Ieuan ab Adda ac Angharad, o ddwy ochr i'r teulu, wedi arwain at berthynas agos ag Owain Glyndŵr yn ystod y gwrthryfel ar ddechrau'r bymthegfed ganrif.[21] Pan fu Ieuan ab Adda farw yn 1448, ei fab, Ieuan Fychan, oedd yr aer ac etifeddodd y ddau lys – Pengwern a Threcastell – ynghyd â chysylltiadau teuluol hynafol a dylanwadol.[22]

Ieuan ab Adda, Pengwern (m. 1448) = Angharad ferch Ednyfed, Trecastell
|
Ieuan Fychan (m. 1477) = Angharad ferch Hywel, Mostyn
|
Hywel | Ithel (m. 1457) | Rhys (m. 1457)

Yn ŵr ifanc, bu Ieuan Fychan yn gwasanaethu Thomas FitzAlan, Iarll Arundel ac Arglwydd y Waun – un o arglwyddi'r Mers a fu'n erlyn teulu Pengwern am eu rhan yng ngwrthryfel Glyndŵr – a bu'n rhan o'i fintai yn ymladd yn Ffrainc yn 1415.[23] Cyn iddo ddod i'w etifeddiaeth yng nghanol y bymthegfed ganrif, roedd Ieuan Fychan wedi priodi ag Angharad, etifeddes Hywel ap Tudur, Mostyn,[24] ac fe'i gwelir yn dal swyddi cyhoeddus

[19]Detholiad o 'Moliant i Feibion Tudur o Fôn' yn D R Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), 22-27; hefyd 'Marwnad Tudur Fychan', 16-21, a 'Marwnad Meibion Tudur Fychan', 28-32.
[20] Roedd mam Owain Glyndŵr, Elen, yn chwaer i Marged, mam Ednyfed ap Tudur ap Goronwy. Gweler Y Bywgraffiadur Ar-Lein: Owain Glyndŵr.
[21] R R Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr,* 209, 210.
[22] D R Johnston, *Gwaith Iolo Goch*, 146.
[23]R Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel Noddwyr y Beirdd', yn *Llên Cymru*, IX (1966-67), 74-110. Hefyd BA: Ieuan Fychan ap Ieuan ab Adda.
[24] Mae lle i amau mai wyres, ac nid merch, Hywel ap Tudur, oedd Angharad, gyda Darell Wolcott yn credu bod achyddwyr wedi cymysgu rhwng modryb a nith o'r un enw, a hyn yn cael ei drosglwyddo o gyfrol i gyfrol. Cred Wolcott mai merch Ithel ap Hywel ap Tudur a briododd Ieuan Fychan ap Ieuan. Gweler gwefan Ancient Wales Studies – http://www.ancientwalesstudies.org/id84.html – am ei ddehongliad o'r achau.

yng ngweinyddiaeth y sir. Roedd felly wedi ymsefydlu yn Sir y Fflint cyn iddo etifeddu tiroedd Pengwern a Threcastell yn 1448 a chan fod yr ystâd yn Nhegeingl yn fwy o ran cyfoeth a dylanwad, bu yn fanteisiol i Ieuan Fychan ddefnyddio Mostyn fel ei brif gartref.[25] Dirywiodd pwysigrwydd Pengwern wedi marwolaeth ei dad, Ieuan ab Adda, a chyda marwolaeth Ieuan Fychan yn 1477, daeth cysylltiad agos y llys â'r teulu i ben. Ni chafodd Pengwern ei ddefnyddio fel cartref gan aelod o'r teulu wedi hyn, er i'r tiroedd barhau ym mherchnogaeth teulu Mostyn hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[26]

Gydag Ieuan Fychan, ceir tystiolaeth bendant o uchelwr a oedd nid yn unig yn noddi'r traddodiad barddol ond hefyd yn fardd ei hun, fel y cyfeiria Guto'r Glyn (*fl. c.* 1440-1493) yn ei gywydd 'I ofyn cymod Ifan Fychan ab Ifan ab Adda':

Perchen tŷ fu i luoedd,
Pencerdd ar y ddwygerdd oedd.
Ieuan a gân yn gynnil
Ac a wna maeth i gan mil:
Y glod i'w dafod a'i dŷ
A'i delyn, hwn a'i dyly![27]

Ni fu modd cynnig dyddiad ar ganu'r gerdd ond mae awgrym mai rhywbryd wedi 1448 yr oedd hyn, wedi marwolaeth ei dad, a chyn 1477, dyddiad marwolaeth Ieuan Fychan. Yn ddiddorol, ni cheir unrhyw gyfeiriad yn y gerdd at y cysylltiad â Thegeingl na Sir y Fflint, er bod y bardd yn cyfeirio at Hywel, mab hynaf Ieuan Fychan, a hefyd mam Ieuan, sef Angharad ferch Ednyfed ap Tudur.

Arched merch Ednyfed naf
Ym heddwch, mi a'i haeddaf.
Hywel ieuanc, hil Owain,
Yw'r ail nerth ar ôl ei nain.[28]

O'r cerddi sydd wedi goroesi, gwelir mai ymryson gyda'i gefnder, Siôn Eutun, yw sylwedd gwaith barddol Ieuan Fychan, gyda Maredudd ap Rhys yn ateb ar ran Siôn.

---

[25] Ceir cefndir rhan Pengwern yn hanes teulu Mostyn mewn erthygl gynhwysfawr yn PMF, 5-27.
[26] PMF, 26.
[27] Dyfynir yn John Llewelyn Williams ac Ifor Williams (goln), *Gwaith Guto'r Glyn* (Caerdydd, 1939), 73-75. Ceir hefyd olygiad o'r gerdd, ynghyd â nodiadau cefndirol o waith Ann Parry Owen, yn Guto'r Glyn.net, http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem=106&first-line=091.
[28] Williams a Williams, *Gwaith Guto'r Glyn*, 75, a http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem=106&first-line=091.

Gofyn am gwrwgl a wnaeth Ieuan Fychan, ar ffurf cywydd, fel y gallai fynd i bysgota:

Fy ngherdd a ddetyd fy nghwyn
Am gwrwgl i ymguraw
Am y pysg drud cyn Pasg draw.
A minnau, fel y mynnwn,
Dyn hael, yn dymuno hwn; [29]

Aflwyddiannus fu ei gais, yn ôl ymateb Maredudd ap Rhys yn ei gywydd, gydag ymryson y ddau fardd yn parhau drwy gyfrwng englynion.[30]

Ni cheir cerddi i fab hynaf Ieuan Fychan – Hywel ab Ieuan Fychan[31] – ond roedd carchariad ei feibion iau, Ithel a Rhys (m. 1457), wedi ysgogi dau fardd i gofnodi hyn mewn cywyddau. Tybir mai gwaith Gruffydd Nannau yw'r gerdd i Fwrog Sant, yn apelio am eu rhyddid:

O chuddiwyd gwŷr gwych addwyn,
Cant o rianedd a'u cwyn,
Meibion Ifan mae 'm obaith
Fychan y deuan o'r daith.
Am Ithel mi a euthum
Medde bawb o'r modd y bum.
Gwae fi bryderi dyrys,
Gŵyr fy mron gwewyr am Rys.
Er gallel o ddicell-wŷr
Roi llen gêl ar iairll i'w gwŷr.
Mwrog gwna i'n ymwared
Am ddau o ben creiriau cred,
Gwyddost lle mae dau flaenor
Mewn castell ym machell môr.
Cyfot dy fagl yn draglew,
Cur y tŵr cerrig tew,
Tyn er dy fendith Ithael
O'r tyrau hwnt ŵr tra hael.
Par un-waith help i'r ynys
I wlad yr haf weled Rhys.
Minne a wnaf myn y nef
Yn ddinidir pan ddon adref: [32]

[29] Dyfyniad o 'Cywydd i Ofyn Cwrwgl gan Siôn Eutun' yn Enid Roberts (gol.), *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion* (Aberystwyth, 2003), 41-3.
[30] Roberts, *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion*, 44-51.
[31] Canodd Guto'r Glyn (a hefyd Ieuan ap Gruffudd Leiaf) gywyddau i Hywel ap Ieuan Fychan, Moeliwrch, Llansilin, ond mae'r cyfeiriadau at ei wraig, Elen, yn cadarnhau nad i deulu Pengwern y perthyn y cerddi hyn. Gweler http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem=090 a http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem=092&first-line=090.
[32] Dyfyniad o 'Cywydd i Fwrog Sant' yn Ifor Williams (gol.), *Gwyneddon 3* (Caerdydd, 1931), 105.

Er bod y bardd yn cyfeirio at 'gastell ym machell môr', mae cywydd Rhys Goch, Glyndyfrdwy, (*fl. c.*1460), yn nodi mai yn y Dref-wen (Whittington, Swydd Amwythig) y carcharwyd y brodyr ac yma y lladdwyd y ddau ar y dydd Iau olaf yng Ngorffennaf, 1457, wedi iddynt gael eu cipio a'u carcharu gan Richard Trefor.[33]

Mostyn

Ithegl Gam ap Meredudd ab Uchdryd ab Edwyn
|
Ithel Llwyd
|
Ithel Fychan
|
Tudur
|
Hywel
|
Angharad= 1. Ieuan Fychan (m. 1477), Pengwern a Threcastell
| 2. Edmwnd Stanley
Hywel = Margaret Gloddaith

Drwy'r briodas rhwng Ieuan Fychan ag Angharad, aeres Hywel ap Tudur, daeth Pengwern a Threcastell ynghlwm ag un o deuloedd amlycaf Tegeingl.[34] Enwir Edwyn ab Goronwy, Tywysog Tegeingl, fel sylfaenydd llinach Mostyn, a chyfeiria Thomas Pennant ato fel brenin ar un o Bymtheg Llwyth Gogledd Cymru. Gydag wyres Edwyn, Angharad, yn wraig i Gruffudd ap Cynan (*c.*1055-1137), gellir hefyd gysylltu'r llinach ag un o deuluoedd brenhinol Cymru.[35] Un o ddisgynyddion Edwyn oedd ei fab, Uchdryd, Arglwydd Penllyn, Mawddwy, Meirionnydd a Chyfeiliog, ond parhaodd ei deulu yn Nhegeingl, gydag Ithel Llwyd ab Ithel Gam, yn cael ei gydnabod fel Arglwydd Mostyn, a chofnodir fod ei fab yntau, Ithel Fychan, yn trigo yng nghastell Ewlo yn 1300.[36] Cysylltir

[33] D J Bowen 'Carcharu Ithel a Rhys ab Ieuan Fychan', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 8, i (1953),
119-120. Mae J Y W Lloyd hefyd yn nodi i'r ddau frawd gael eu lladd yng ngharchar y Dref Wen. HP, 147.
[34] Saif Tegeingl yng ngogledd ddwyrain Cymru, y cantref ar yr arfordir rhwng Sir Gaer ac Afon Clwyd sydd yn cyfateb yn fras â Sir y Fflint. Yn enw Rhufeinig yn wreiddiol – fe'i cofnodir ar ddarn o haearn crai o'r ardal – gwelir Tegengle yn ymddangos ar ddogfennau o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen. Meredith J Hughes, 'Notes on Tegeingl', *Flintshire Historical Society Publications* , 7 (1920), 90-8.
[35] Thomas Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (Fleet Street, 1796), 307.
[36] HP, 147. Nodir y llinach mewn cyfeiriadau achyddol fel Ithel Fychan ap Ithel Llwyd ab Ithel Gam ap Maredudd ab Uchdryd ab Edwyn ond mae Peter C Bartrum yn mynegi amheuaeth yngylch cywirdeb hyn yn 'Bonedd Henrri Saithved', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 14 (1966), 330-334.

Ithel Fychan hefyd â phentref Helygain yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg, a chofnodir nifer o'i feibion, gan gynnwys Ithel Person a Cynwrig Sais, yn dal sawl swyddi yng ngweinyddiaeth Sir y Fflint, yn ogystal â manteisio ar bob cyfle, yn gyfreithlon ac anghyfreithlon, i gynyddu eu cyfoeth a'u tiroedd.[37] Yn 1387, daeth stiwardiaeth maenor Mostyn i law Hywel ap Tudur ap Ithel Fychan, gŵr mwyaf cyfoethog Sir y Fflint yn y cyfnod, a thrwy brynu tiroedd yn lleol, roedd seiliau ystad y teulu yn Sir y Fflint wedi eu sefydlu erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.[38]

Wrth uno ystad Mostyn gyda Phengwern a Threcastell, roedd gan Ieuan Fychan ac Angharad diroedd a oedd yn ymestyn o Fôn i'r Mers ac ychwanegwyd at hyn ymhellach gyda'r genhedlaeth nesaf pan briododd eu mab, Hywel ap Ieuan Fychan, â Margaret, ferch Gruffydd ap Rhys, Gloddaith (m. 1480). Gyda'r briodas hon, gwelir y sylfaen yn cael ei osod i ddod â'r llysoedd olaf ynghyd i greu y pum llys a arweiniodd at ystad teulu Mostyn.

Tregarnedd

Rhys ap Gruffydd ab Ednyfed Fychan
|
Syr Gruffydd Llwyd (m. 1335)
|
Morfudd (Teili) = Madog Gloddaith

Yn ogystal â Gloddaith, roedd Tregarnedd hefyd yn rhan o etifeddiaeth Margaret ac felly daeth tiroedd yng Nghreuddyn, Sir Gaernarfon, a Llangefni, Ynys Môn, yn rhan o etifeddiaeth Hywel ap Ieuan Fychan. Fel gyda llinach Threcastell, gellir olrhain teulu Tregarnedd yn ôl i Ednyfed Fychan (m. 1311), gyda'i fab, Gruffydd yn etifeddu'r tiroedd yn Llangefni.[39] Ymwelodd Thomas Pennant â Thregarnedd yn ystod ei daith oddi amgylch Cymru yn y ddeunawfed ganrif ac mae'n cyfeirio at y ffermdy wedi ei amddiffyn yn gadarn gyda rhagfur a ffos, ac yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.[40]

---

[37] Ymddangosodd chwech ohonynt – Cynwrig Sais, Llywelyn, Dafydd, Bleddyn, Tudur a Ieuan, ynghyd â mab Cynwrig, Ithel – o flaen y llysoedd am droseddau amrywiol, er bod dau ohonynt yn wŷr eglwysig. MM:GLF, 141-4.

[38] A D Carr, 'Lineage, Power and Land in Medieval Flintshire: the Descendants of Ithel Fychan', *Flintshire Historical Societ Journal*, 36 (2003), 59-81.

[39] http://www.coflein.gov.uk/en/site/302404/details/TRE-GARNEDD+MOAT%3BTRE+GARNEDD%3BTREGARNEDD/

[40] Thomas Pennant, *A Tour In Wales*, II (Llundain, 1783, ailgyhoeddiad Bridgend, 1991), 270-1.

Roedd un o ddisgynyddion Gruffydd, Syr Gruffydd Llwyd (m. 1335), yn flaengar iawn o blaid y goron yn ei gyfnod, gan wasanaethu'r frenhines Eleanor ac Edward II – yn dywysog ifanc a brenin – ac mae traddodiad i'r uchelwr gael ei urddo'n farchog gan Edward I am gludo'r newyddion da iddo am eni ei fab, Edward, Tywysog Cymru, yng Nghaernarfon yn 1284.[41]

Er bod traddodiad bod Edward I wedi crogi beirdd y cyfnod, gwelir Syr Gruffydd Llwyd yn parhau i gynnal arferiad llinach Tregarnedd o noddi'r beirdd, gyda Gwilym Ddu o Arfon yn un o'i feirdd.

Neud caeth y'm dilid llid llaweredd,
Neud caith beirdd cyfiaith am eu cyfedd.
Neud caethiwed ced nad rhydd cydwedd – Nudd,
Cadrwalch Ruffydd brudd, breiddin tachwedd.
Neud cwyn beirdd trylwyn meddw ancwyn medd,
Neud cawdd ym annawdd menestr canwledd,
Neud carchar anwar, enwiredd – Eingldud,
Aerddraig Llanrhystud, fynud fonedd. [42]

Roedd traddodiad o noddi hefyd yn perthyn i deulu gwraig Syr Gruffydd Llwyd, gyda Casnodyn (*fl.* 1320-1340) yn canu cyfres o englynion i Gwenllïan ferch Cynan.

Aelaw iawn yw dawn gne gwawn gwawtchweg,
Eiliw ewynfriw gwynwiw gwaneg;
Eiliais erod glod, gloywdeg – Wenllïant,
Eiliawdd dy foliant fil ychwaneg.[43]

Etifeddodd Morfudd,[44] merch Syr Gruffydd Llwyd a Gwenllïan, y tiroedd yng Nhregarnedd ar farwolaeth ei thad, a thrwy ei phriodas â Madog Gloddaith, unwyd dwy ystad hynafol.

---

[41] Pennant, *A Tour In Wales*, II , 270. Gweler hefyd BA: Gruffydd Llwyd, Syr, neu Gruffydd ap Rhys ap Gruffydd ab Ednyfed.
[42] Detholiad o 'Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd'. Dyfynir yn N G Costigan, R Iestyn Daniel, Dafydd Johnston (goln), *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth, 1995), 57-8.
[43] Detholiad o 'Moliant Gwenllïant wraig Gruffudd Llwyd o Dregarnedd', yn R Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth, 1999), 42-3.
[44] Teili a nodir fel enw merch Gruffydd Llwyd a gwraig Madog Gloddaith gan Peter C Bartrum yn *Welsh Genealogies: AD 300-1400*, III (Aberystwyth, 1974), 649.

Gloddaith

Madog Gloddaith = Morfudd ferch Syr Gruffydd Llwyd, Tregarnedd
|
Gruffydd
|
Rhys
|
Gruffydd (m. 1480)
|
Margaret (m. 1532) = 1. Hywel ab Ieuan Fychan, Pengwern, Trecastell a Thegeingl
| 2. Harri Salusbury
Rhisiart

Saif Gloddaith ar benrhyn y Creuddyn, ac ynghyd â thiroedd eraill Mabon Glochydd (*fl.* 1190) a'i ddisgynyddion ar yr arfordir, roedd y teulu yn rheoli safleodd pwysig a dylanwadol ger Conwy a Deganwy, cadarnle tywysogaeth Gwynedd.[45] Er eu teyrngarwch i dywysogion Gwynedd, llwyddodd y teulu i gynnal eu breintiau sylweddol a'u dylanwad yn y cenedlaethau dilynol wedi concwest Edward I, gyda Madog Gloddaith (*fl.* 1298-1358) yn dal sawl swydd yn Sir Gaernarfon, gan gynnwys siryf ar fwy nag un achlysur. Ymddengys ei enw droeon yn nogfennau'r cyfnod ond daw'r unig gyfeiriad ato gan y beirdd mewn un llinell yn unig yn un o'r areithiau pros, gan gofnodi un o nodweddion mwyaf anffodus Madog Gloddaith, sef ei hylltra:

> "Arglwyddes" heb y gwas,
> "Pa bryd vydd hynny?"
> Pann vo kynn hakred Madoc Kloddaith, a Morvran vab Tegid y gwr a ddiengys or Gadgamlan rrac i hakred gann bawb yn tybiaid mae kythraul o Uffern oedd ef pan i gwelid.[46]

Ni fu'r anfantais yma yn rhwystr iddo briodi merch un o wŷr mwyaf dylanwadol gogledd Cymru yn y cyfnod, a thrwy ei briodas â Morfydd, merch Syr Gruffydd Llwyd, Tregarnedd, unwyd dau o lysoedd y Mostyniaid yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Daliodd etifedd Madog Gloddaith, Gruffydd, hefyd swyddi o awdurdod ym Môn a Chaernarfon, a pharhaodd hyn gyda'i fab, Rhys ap Gruffydd, ond wedi iddo ymgyrchu

[45] Roedd ganddynt hefyd diroedd yn Nhegeingl. Mae'r manylion am linach Gloddaith o'r cyfnod cynnar hwn yn deillio o erthygl A D Carr, 'Medieval Gloddaith', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 38 (1977), 7-32.
[46] D Gwenallt Jones, *Yr Areithiau Pros* (Caerdydd, 1934), 15-16.

gydag Owain Glyndŵr, daeth diwedd ar swyddi gweinyddol y teulu, a chollodd Rhys hanner ei diroedd yn Nhregarnedd o ganlyniad i'w gefnogaeth i'r gwrthryfel.[47] Erbyn chwarter olaf y bymthegfed ganrif roedd gweddill y tiroedd ym meddiant gorwyr Madog Gloddaith, sef Gruffydd ap Rhys ap Gruffydd, ac er mai prin yw'r wybodaeth amdano, cafodd marwolaeth ei saith plentyn – pum mab a dwy ferch – o fewn wythnos yn 1448 ei gofnodi mewn marwnad iddynt gan Robin Ddu o Fôn:[48]

Sorri Dduw, 'n Pensaer, ydd wyd,
Saith o Gloddaith a gladdwyd.
Aethost, bu dost y byd ynn,
Er ys wythnos â'r seithnyn –
Yn blaid facwyiad cywir,
Yn blant i un sant o'n sir;
Yn frig oedd foneddigaidd,
O bren dihareb ei wraidd.
A'r pren oedd Ruffudd ap Rys,
Mwy no gwinllan mewn gwenllys;
A'i blant, dyhuddiant haeddwawd,
Ydoedd y brig cyn Dydd Brawd.
Gwae finau eu Gofynwr
Gwympio gwŷdd ac imp y gŵr.
Darfu o Benadurfainc
Eu dwyn i gyd ond un gainc.[49]

Cafodd Gruffydd ap Rhys ap Gruffydd ei farwnadu gan Tudur Aled (*fl.* 1480-1526) pan fu farw yn Hydref 1480, ac fel y gwelir o'r gerdd, aeth ei etifeddiaeth i'r unig blentyn i'w or-oesi, Margaret Gloddaith (*c.* 1451-1532), cyn ei huno â thiroedd Mostyn ar ei phriodas.

Ofer yw im, ple caf rodd?
Sarn Drewart, siwrnai drwodd;
Trist ar wŷr, torres Duw'r iaith,
Torri cleddau Tir Cloddaith.

[47] A D Carr, 'Medieval Gloddaith', 23.
[48] Ceir peth dryswch ynglun â phwy ganodd y farwnad, gydag Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli, Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffydd o Fathafarn yn ogystal â Robin Ddu o Fôn yn cael eu nodi fel y bardd ar lawysgrifau o'r gerdd, tri deg dwy i gyd. Nodwyd Dafydd Llwyd fel y bardd gan J Gwenogvryn Evans wrth lunio rhestr o gynnwys Llawysgrif Mostyn 96 yn *Report on Manuscripts in the Welsh Language: The Welsh Manuscripts of Lord Mostyn at Mostyn Hall, co. Flint*, I (Llundain, 1898), 21.
[49] Detholiad o 'Marwnad i Blant Gruffudd ap Rhys o Loddaith', yn Heledd Hâf Williams, 'Cerddi Mawl Robin Ddu o Fôn', Traethawd Ph.D. (Bangor, 2012), 75. Ceir llawysgrif y gerdd yn Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Bangor (Mostyn) 12, 1a.

Ei air i'w ferch, a'i âr fyth,
Ag i'w hil a'i gwehelyth;
Aed â Rhos, i dir i hun,
Arfau, ystod ar Fostyn. [50]

Priododd Margaret oddeutu 1467 â Hywel ab Ieuan Fychan ac er bod y ddau yn dod o deuluoedd a gefnogai'r traddodiad barddol, nid oes cerddi wedi goroesi i dystio bod beirdd wedi canu ar eu haelwyd. Gan fod rhieni Margaret, Gruffydd ap Rhys ap Gruffydd a'i wraig Sioned, yn dal yn fyw yn ystod y cyfnod yma, ni ellir bod yn sicr ai Gloddaith oedd cartref y cwpl ifanc a'u meibion, Rhisiart, Ieuan a Rhys, yn ystod eu bywyd priodasol. Canodd Tudur Aled yn ddiweddarach am dri llys yn gysylltiedig â Margaret Gloddaith ac efallai mai yn Nhregarnedd neu Threcastell y magodd Hywel ab Ieuan a hithau eu teulu.

Tair tref fawr, tair tyrfa ynn,
Tref Loddaith, tario flwyddyn;
Tref Garnedd Gwynedd a'i gwŷr,
Tref Gastell tyrfa gwestwyr;
Tri llety, tri llu, atun,
Tlodion,ewch, teulu Duw'n un. [51]

Ni cheir cofnod o farwnadau i Hywel, ond gan iddo farw yn ieuanc rywdro cyn 1477 a chyn ei dad, ni ddaeth tiroedd Mostyn, Pengwern na Threcastell i'w feddiant uniongyrchol. Ai marw'n ifanc a dietifedd yw'r rheswm felly pam na welir Hywel ab Ieuan Fychan yn cael ei gydnabod fel noddwr i'r beirdd? Ond o ystyried bod ei deulu, a theulu ei wraig, yn gysylltiedig â'r traddodiad barddol, mae'n annhebygol na chafodd ei farwolaeth gynnar sylw barddol a rhaid ystyried bod marwnadau iddo heb oroesi o'r cyfnod hwn.[52]
Bu farw tad Hywel, Ieuan Fychan, yn 1477 (gyda'i ddwy ferch, Margaret ac Alice, yn gweinyddu ei ystad) a gwelir etifeddiaeth llysoedd Mostyn, Pengwern a Threcastell yn disgyn i ŵyr Ieuan, Rhisiart ap Hywel, a oedd yn blentyn oddeutu naw oed.[53] Ailbriododd

[50] Dyfyniad o 'Cywydd Marwnad Gruffudd ap Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith', yn T Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled* , II (Caerdydd, 1926) , 340-341. Canodd Tudur Aled gywydd mawl i wraig, Gruffydd, sef Sioned ferch Dafydd ab Ieuan ap Hywel, Llwydiarth, Ynys Môn, yn Llawysgrif Caerdydd 4.10, 1023.
[51]Dyfyniad o 'Moliant Margaret Ferch Gruffudd ap Rhys'. T Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled*, II, 168.
[52] Mae'r Arglwydd Mostyn yn awgrymu mai clwyf marwol yn ystod un o frwydrau Rhyfel y Rhosynod a dderbyniodd Hywel. Yr Arglwydd Mostyn, 'Piers Mostyn, the First of Talacre', *Journal of the Flintshire Historical Society*, XI (1925), 45-48
[53] PMF, 26. Ni chofnodir y merched yn HP, ond cyfeiria A D Carr at ddwy ferch Ieuan Fychan, Margaret ac Alice.

gweddw Ieuan, Angharad, ag Edmund Stanley, ail fab Syr William Stanley, Hooton, Caer, a ganwyd pedwar o blant o'r briodas hon – William, Janet, Marslli a Gwenhwyfawr – gyda William yn etifeddu tiroedd ei fam yn Llaneurgain.[54]

Pan fu farw Gruffydd ap Rhys, Gloddaith, yn 1480, roedd Margaret, ei etifedd, yn naw ar hugain oed o leiaf, ac wedi ailbriodi â Harri Salusbury (Salesbury) Fychan o Lanrhaeadr yng Nghinmeirch, Dinbych, ail fab Tomas Salusbury Hen, Lleweni, Dinbych, a daeth Gloddaith yn gartref iddynt fel teulu.[55] Gydag etifeddiaeth Gruffydd ap Rhys, etifeddiaeth Hywel ap Ieuan Fychan ac adnoddau ariannol helaeth Harri Salusbury wrth law, roedd cyfnod o lewyrch sylweddol yng Ngloddaith. Un canlyniad i hyn oedd yr addasiadau a wnaethpwyd ar y plasty, gyda Harri Salusbury yn cael ei glodfori mewn cywydd am y gwaith adeiladu.[56]

Y tŷ gwyn fal Tegannwy,
Ac iddo fain a gwŷdd fwy:
Llys Faelgwn ein nasiwn ni
Llawr gwleddoedd holl arglwyddi:
Mastr Harri, Westmestr hirwen,
Dyna ddull dy neuadd wen.
Llawn olwg, lle ni welon
Yw dremio haul ar drum hon:
Dy lys a drig dan deils draw,
Dysglau aur yn disgleiriaw.
Nid ymg'leddwyd am Gloddaith
Nes i ti osod dy waith;
D'aur a fwriaist ar furiau,
Dyma hwynt wedi mwyhau.
Ti a wnai bob tŷ'n newydd:
Ti a wnaud un tŷ'n y dydd.
Mur o galch. Pand mawr y gwaith?
Mudo clawdd Madog Cloddaith. [57]

[54] HP, 155. Gwnaeth Lloyd gamgymeriad gydag enw'r ail ŵr a'i enwi'n Edward Stanley.
[55] Ganwyd plant ychwanegol i Margaret o'r ail briodas – un mab, Harri Goch Salusbury, a chwe merch – ac yn 1526 gwelir hi yn aildrefnu'r tiroedd a dderbyniai'r ddau fab hynaf o'r ddwy briodas. A D Carr, 'Medieval Gloddaith', 27.
[56] Roedd Harri Salusbury eisoes wedi adeiladu plasty newydd yn Llanrhaeadr, a'i wyres o'i briodas â Margaret Gloddaith, Catherine, a etifeddodd y cartref yn yr unfed ganrif ar bymtheg gan ei uno ag ystad Bodidris ar ei phriodas â John Lloyd. Gweler Derek Winterbottom, 'Llanrhaeadr Hall – The Fortunes of a Country House through Five Centuries', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 27 (1978), 178-189.
[57] Detholiad o 'Moliant Harri Salbri Fychan' yn Eurys I Rowlands (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975), 217-219.

Roedd Harri Salusbury yn hanu o deulu gyda thraddodiad o noddi'r beirdd, a byddai'n gyfarwydd â chlywed Guto'r Glyn, Gutun Owain a Thudur Aled yn ogystal â Lewys Môn yn canu ar yr aelwyd yn Lleweni, Dinbych. Gwelir dau o'r beirdd hyn yn canu ar aelwyd Gloddaith wedi ail briodas Margaret, gyda Tudur Aled (*fl.* 1480-1526) a Lewys Môn (*fl. c.* 1480-1527) yn clodfori Margaret am ei charedigrwydd a'i haelioni, fel y cafwyd gynt yng nghartref ei mam – Sioned, ferch Dafydd ab Ifan, Llwydiarth:

Ni bu lys gynt, blas y garth,
Well ei hadyd no Llwydiarth:
Ni fetha'r llwyth fyth o'r llin,
Nid aeth wagyd o'th egin.
Dwyn yr wyd, i dynnu'r iau
Law Sioned, a'i 'lusennau.
Dod fail a diod o fedd:
Diwair iawn yw dy rinwedd. [58]

Daw'r cerddi hyn o'r blynyddoedd wedi marwolaeth Harri Salusbury yn 1501, gyda'r ddau fardd yn cyfeirio at gyfnod gweddwdod Margaret pan oedd yn parhau yn egnïol gyda'i chymwynasau a'i haelioni:

Piau, unrhyw a'r Penrhyn,
Llwydiarth da, lle diwarth dyn?
Pyrth y gwin, porthai gannwr,
Pob gŵyl fal pe byw i gŵr;
Islaw 'r allt mae seler win,
Ag â'i ffrydiau 'n gyffredin,
Ffynnon Non, a phen y nod,
Fam Ddewi, fu, am ddiod;
Uchel yw ager o'i chegin;
Gwaith rhost ag with eiriastan,
Gwresog yw 'r côg, a'r siwgr can;
Gair y ferch gyda 'i gŵr fu,
Ag yn weddw, i gynyddu;
Sioned hael fal Saint Elen,
Synnwyr gŵr sy'n y wraig wen;
Teg a chann, tegwch Enid,
Troi lliw gras mewn troellau gwrid;
Da wraig i dau oreugwyr,
Da feibion ag ŵyrion gwŷr;
Da rhannwyd i'w rheini
Merched hon, Mair i'w chadw hi! [59]

[58]Eurys I Rowlands, *Gwaith Lewys Môn*, 220 – 'Moliant Margred Ferch Ruffudd ap Rhys'.

Er mai tair cerdd yw'r unig dystiolaeth o ganu'r beirdd ar aelwyd Gloddaith yn nechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, mae D J Bowen o'r farn fod Margaret Gloddaith yn gefnogol iawn i'r traddodiadol barddol a'i ffyniant, gyda'i gweithgarwch yn ymestyn i gefnogi'r ymgyrch i gynnal Eisteddfod Caerwys yn 1523.[60]

Ar hyd ei bywyd, roedd Margaret wedi dangos cryn ddiddordeb a gweithgarwch yn llewyrch yr ystad, gan ychwanegu tiroedd at ei hetifeddiaeth ar y cyd â'i hail ŵr, Harri Salusbury, ei mab hynaf, Rhisiart ap Hywel, a hefyd yn annibynnol, a gwelir hi yn parhau i brynu tir, yn weddw oedrannus, hyd flynyddoedd olaf ei bywyd.[61] Ni welir yr un gweithgarwch gan Rhisiart i ehangu ei ystad, ac ni cheir unrhyw dystiolaeth o gerddi yn cael eu canu iddo. Gan i'w fam fyw i'w phedwar ugain, fe all bod Rhisiart wedi byw yn ei chysgod i raddau helaeth a phan fu Margaret Gloddaith farw yn 1532, roedd Rhisiart yn 64 oed pan ychwanegwyd llysoedd Gloddaith a Thregarnedd at ei etifeddiaeth.[62]

Rhisiart ap Hywel (*c.* 1468-1540)

Hywel ab Ieuan Fychan (m. cyn 1477) [1.] = Margaret Gloddaith = [2.] Harri Salusbury
Thomas Salusbury Hen, Lleweni
Rhisiart ap Hywel (m. 1540) = **Catrin Salusbury**

Yn ôl traddodiad, roedd Rhisiart ap Hywel mewn cysylltiad agos â Harri Tudur, yn arbennig yn y cyfnod cyn iddo gael ei ddyrchafu'n frenin. Cofnododd Thomas Pennant fod Harri Tudur yn ymwelydd cyson â Mostyn cyn 1485, gan aros yn ddirgel yn y plasty wrth baratoi ei ymgyrch am goron Lloegr.[63] Roedd grant arglwyddiaeth Mostyn wedi dod i law Harri Salusbury yn 1474 ond nid oes cofnod pendant pwy oedd yn byw yn y plasty ar y pryd, ai Harri a Margaret Gloddaith gyda'r plant o'r ddwy briodas, neu ai Rhisiart ap Hywel a'i deulu? Rhaid cofio hefyd bod Ieuan Fychan hefyd yn dal yn fyw yn y cyfnod

[59] Detholiad o 'Gem o Wraig ar Gymry yw: Moliant Margret ferch Gruffudd ap Rhys'. T Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled,* II , 166-167.
[60] D J Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif' yn *Llên Cymru*, 18 (Caerdydd, 1994), 74.
[61] A D Carr, 'Medieval Gloddaith', 28
[62] A D Carr, 'Medieval Gloddaith', 28
[63] HPWH, 58.

hwn ac wedi ymgartefu ym Mostyn ers blynyddoedd. Yn ôl y traddodiad, ar un ymweliad dirgel â'r plasty, bu ymron i Harri Tudur gael ei ddal gan ddilynwyr Richard III, ond llwyddodd i ddianc drwy ffenestr fechan.[64] Roedd Rhisiart ap Hywel, ynghyd â 1,600 o lowyr o Sir y Fflint, yn rhan o fyddin Harri Tudur ym mrwydr Bosworth ac wedi iddo gael ei ddyrchafu'n frenin yn 1485, anfonodd Harri VII y gwregys a'r cleddyf a ddefnyddiodd yn y frwydr at Rhisiart fel arwydd o werthfawrogiad. Er ymbilio ar Rhisiart i'w ddilyn i'r llys yn Llundain, yr ateb yn ôl traddodiad oedd: "I dwell among mine own people".[65] Priododd Rhisiart â Catrin Salusbury, merch Thomas Salusbury Hen, Lleweni, (roedd Catrin yn chwaer i Harri Salusbury, llysdad Rhisiart) a ganwyd iddynt bum mab a saith merch.[66] O'r trydydd mab, Pyrs, (ceir amrywiadau eraill ar ei enw, megis Pirs, Pyers a Peter) y sefydlwyd cangen Talacre o'r Mostyniaid,[67] a chwe chenhedlaeth yn ddiweddarach gwelir canghennau Mostyn a Thalacre yn ailymuno drwy briodas Tomas Mostyn â Bridget Savage, merch Ann Mostyn, yn 1672.

Er bod Catrin Salusbury o deulu a gefnogai'r traddodiad barddol yn Nyffryn Clwyd, ni cheir unrhyw gofnod o feirdd yn canu yn neithior ei phriodas â Rhisiart ap Hywel ac nid oes cerddi wedi goroesi o unrhyw ganu ar aelwyd y ddau.[68] O ystyried y traddodiad bod cysylltiad agos wedi bod rhwng Rhisiart â Harri Tudur a'i ymgyrch lwyddiannus i feddiannu coron Lloegr, mae'n anodd esbonio pam na cheir cerddi yn clodfori'r cysylltiad a'r berthynas deuluol â llinach Tuduriaid Penmynydd. Fe ellid hefyd ddisgwyl gweld y beirdd yn cofnodi cyfraniad Rhisiart ap Hywel i Eisteddfod Caerwys yn 1523, gan iddo gael lle amlwg yng ngweithrediad y digwyddiad pwysig hwn yng nghyfundrefn y beirdd,

---

[64] HPWH, 58. Mae'r digwyddiad wedi ei gofnodi mewn gwydr lliw yn y ffenestr ym mhlas Mostyn. Fodd bynnag, ni fu modd cadarnhau hyn, na phresenoldeb Harri Tudur ym Mostyn cyn ei ddyrchafiad yn frenin, o ffynonellau eraill.

[65] HPWH, 58.

[66] Enwir Tomas, Huw, Pirs (Peyrs, Peter), Robert a Nicolas gan Bartrum, *Welsh Genealogies, A.D. 1400-1500,* X (Aberystwyth,1983), 1684, a cheir manylion am gefndir gwleidyddol Peter (Pirs, Peyrs), y trydydd mab, aelod seneddol dros Sir a Bwrdeistrefi y Fflint yn 1545 a 1558, ar wefan y senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1509-1558/member/mostyn-peter-1518-80. Enwa Bartrum y merched fel a ganlyn: Elen, Jonet I, Jonet II, Dows, Margred, Margred a merch ddienw. Bu un o wyrion Rhisiart ap Hywel, William Pennant, mab Sioned a'i gŵr, Hugh Pennant, yn eurof a gemydd, gyda'r llys brenhinol ymysg ei gwsmeriaid yn Llundain; HPWH, 42.

[67] Gweler HFMM, 191-195, am fanylion am ei ddisgynyddion. Prin yw'r manylion am y plant eraill ond ceir y sylw 'left issue' ar gyfer Wiliam, Rhisiart, Pierce a Robert yn William Betham, *The Baronetage of England; or the History of the English Baronets, and such Baronets of Scotland as are of English Families* (Harley-Street, 1802), 145.

[68] Tybiwyd bod Gruffudd Hiraethog wedi canu cywydd gofyn am feini melin ar ran Catrin Salusbury ond cydnabyddir bellach mai ar ran Catrin Llwyd, Bodidris, wyres Margaret Gloddaith o'r ail briodas, y canwyd y gerdd. Gweler D J Bowen, 'Siân Mostyn, 'Yr orav o'r mamav ar sydd yn traythv Iaith Gamberaec', yn J E Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol,* XI (Dinbych, 1990), 115.

ond eto ni cheir unrhyw dystiolaeth am gerddi yn cydnabod ei ran yn yr achlysur. Fel y mae Statud Gruffudd ap Cynan yn datgan, cynhaliwyd yr eisteddfod gerbron Rhisiart ap Hywel yng Nghaerwys yn 1523:

> Bid hysbys i bawb o vonheddigion a chredin vod Eisteddvod ar wyr wrth gerdd Tavod a thant o vewn: Tref gaerwys yn sir y fflint yr ail dydd o vis gorffenhaf y bymthegved vlwyddyn o goronedigaeth harri wythved gar bronn Rishart ap Howel ap Ieuan Vachan ysgweir o gydundeb syrWiliam Gruffudd a syr Roetsier Salusbury a thrwy bersonol gyngor Gruffydd ap Ieuan ap Lln vychan a thudur aled bardd kadairiawc a llawer o vonheddigion a doethion am benn hynny, Er gwnaethur ordr a llywyodraeth ar wyr wrth gerdd ac ar i kelvyddyd wrth Eiriav ystatus Gruff ap kynan Tywyssoc gwynedd nid amgen i gadarnhav a chonffirmio pennkerddiaid ar sawl a gavas gradd yny blaen ac i roddi ir sawl ai haeddai ac i roi i eraill ysbas i ddysgv ac i vyvyrio y nessaf i galler wrth gydwybod ac wrth ystatus y Tywyssoc Gruff ap kynan.[69]

Wrth edrych ar gomisiwn Elizabeth I i gynnal ail Eisteddfod Caerwys yn 1567, fe welir bod y ddogfen yn cyfeirio at gyfraniad blaenorol teulu Wiliam Mostyn (ŵyr Rhisiart ap Hywel) – 'that william mostyn Esquiour and his auncestors have had the gyfte and bestowing of the sylver harpe appertayning to the Cheff of that facultie'.[70] Gan mai Eisteddfod Caerwys yn 1523 yw'r unig achlysur blaenorol y gall hyn gyfeirio ato, fe ellir cysylltu darparu'r ariandlws ar ffurf telyn ymysg dylestwyddau Rhisiart ap Hywel yn yr eisteddfod. Fodd bynnag, mae D J Bowen yn awgrymu bod mam Rhisiart, Margaret Gloddaith, a'i ferch yng nghyfraith, Siân Gruffydd, Y Penrhyn (gwraig Tomas Mostyn) yn fwy egnïol dros gynnal yr eisteddfod, ac efallai mai eu gweithgaredd hwy oedd yn gyfrifol am gyfraniad y teulu gyda'r rhodd.[71] Mae hefyd yn cynnig 'mai o dan bwysau o du'r beirdd a'r cerddorion'[72] y gweithredodd y ddwy ac fe welir Cledwyn Fychan yn ehangu ar y ddamcaniaeth hon drwy awgrymu mai Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan oedd y ddau brif ysgogydd i gynnal eisteddfodd yng Nghaerwys yn 1523 a hynny er cof am Ieuan ab

---

[69] David N Klausner (gol.), *Records of Early Drama: Wales* (Llundain, 2005), 159; Hefyd J H Davies, 'The Roll of the Caerwys Eisteddfod of 1523', *Transactions of the Liverpool Welsh National Society*, Sessions 20-24 (Lerpwl, 1904/5 – 1908/9), 92.

[70] Dyfynir yn REDW, 170-171. Mae'r ddogfen wreiddiol yn parhau yn llaw'r teulu ym Mhlas Mostyn (gwelwyd ar ymweliad personol, Medi 2011).

[71] D J Bowen,'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif, I' yn *Llên Cymru*, 18 (Caerdydd, 1994), 74. Roedd oddeutu ugain mlynedd o wahaniaeth oedran rhwng Tomas ap Rhisiart a'i wraig, Siân Gruffydd.

[72] D J Bowen,'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif, I', 74.

Llywelyn Fychan, athro barddol y naill a thad y llall.[73] Gan i Ieuan farw oddeutu Hydref 1522 a chan iddo weithredu fel siedwr (escheator) i siroedd Fflint a Dinbych,[74] byddai rhoi trefn swyddogol ar y beirdd a'u canu wedi apelio at ei ddyletswyddau fel gweinyddwr yn ogystal ag athro barddol, ac fe â Cledwyn Fychan ymhellach i awgrymu mai breuddwyd Ieuan ap Llywelyn Fychan oedd cynnal yr eisteddfod. Ai cyd-digwyddiad ffodus oedd bod merch yng nghyfraith Ieuan ap Llywelyn Fychan – Sioned, sef gwraig Gruffudd ab Ieuan, y bardd – yn ferch i Rhisiart ap Hywel? Os mai gwireddu breuddwyd ei dad yr oedd Gruffudd ab Ieuan drwy drefnu eisteddfod, byddai'n hawdd a chymwys i Sioned neu Gruffudd ofyn i Rhisiart ap Hywel weithredu fel llywydd ar yr achlysur. Drwy ystyried mai trefniant 'teuluol' oedd achlysur Eisteddfod Caerwys yn 1523, gellir egluro bod swyddogaeth Rhisiart ap Hywel fel is-siryf Sir y Fflint a thirfeddiannwr lleol wedi hwyluso'r paratoadau i gynnal yr eisteddfod yng Nghaerwys.[75] Gall hyn hefyd gynnig esboniad pam yr estynnwyd gwahoddiad i Syr William Gruffdd a Syr Rosier Salusbury i fod yn rhan o'r eisteddfod, gyda'r ddau yn perthyn drwy briodas i deulu Rhisiart ap Hywel.

Gwelir bod yr eisteddfod i'w chynnal 'o gydundeb' Syr William Gruffydd a Syr Rosier Salusbury, yr unig ddau ŵr arall (a'r ddau yn gefndryd) i gael eu henwi ar Rhol Eisteddfod Caerwys 1523. Roedd Syr William Gruffydd, (*c* 1480-*c* 1531), Y Penrhyn, Llandygái, yn dad i ferch yng nghyfraith Rhisiart ap Hywel – Siân, gwraig Tomas, ei fab – a Rosier Salusbury (m. 1530), Lleweni, Dinbych, yn nai i Catrin, gwraig Rhisiart ap Hywel.[76] Yn ogystal â dal swyddi gweinyddol o awdurdod – roedd Syr William Gruffydd yn Siambrlen Gogledd Cymru a Syr Rosier Salusbury yn dal swydd Stiward Dinbych[77] – roedd gan y ddau hefyd draddodiad o noddi'r beirdd. Erys nifer o gerddi i William

---

[73] Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 23 (1983-84), 65. Mae lle i gredu bod Dafydd ab Edmund hefyd wedi bod yn athro barddol ar Tudur Aled, gweler erthygl D J Bowen, 'Graddau Barddol Tudur Aled' yn *Llên Cymru*, XVIII (Caerdydd, 1994), 90-103. Gweler hefyd BA – Tudur Aled; Dafydd ab Edmwnd – am fwy o fanylion am y beirdd. Am fwy o fanylion am Ieuan ap Llywelyn Fychan, gweler T A Glenn, *The Family of Griffith of Garn and Plasnewydd in the County of Denbigh* (Llundain, 1934), 81-8.

[74] FGGP, 81.

[75] Ceir sawl trafodaeth ar ddewis Caerwys fel lleoliad i eisteddfod Talaith Aberffraw, gyda chysylltiadau'r dref â thywysogion Gwynedd yn cael eu crybwyll yn ogystal â chysylltiad teuluol Gruffudd ap Cynan. Rhaid cofio hefyd mai yng nghyffiniau Caerwys y treuliodd Ieuan ap Llywelyn Fychan gyfran helaethaf ei fywyd. Cloriennir yr holl drafodaethau gan Einir Gwenllian Thomas yn 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan', II, Traethawd PhD Prifysgol Cymru (Bangor, 2001), 441-4.

[76] D J Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif, I', 73.

[77] ADSGC, 456 a 459. Ceir hefyd grynhoad o gefndir William Gruffydd yn BA: Griffith (Teulu), Penrhyn, Sir Gaernarfon.

Gruffydd, gyda rhai yn cyfeirio'n benodol at y beirdd a'r cerddorion a ymwelai â'i aelwyd a cheir awgrym ei fod hefyd yn bencerdd:

> Pob acen o'th awenydd
> Pob prifgainc, ar dy fainc fydd.
> Rhodio wnei'r hyd y neuadd,
> Rhuwlio a gwrando pob gradd.[78]

Er nad yw cerddi i Rosier Salusbury mor rhwydd i'w canfod – roedd yntau o deulu yn nodedig am eu nawdd i'r beirdd – roedd Lleweni yn gyfarwydd i Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn, a nawdd i'w gael ar yr aelwyd yn y dull traddodiadol.

Gyda'r holl gysylltiadau teuluol yn amlwg yn nhrefniant Eisteddfod Caerwys 1523, nid annisgwyl yw gweld bod gan Dudur Aled hefyd gysylltiad â Rhisiart ap Hywel, er nad un o waed. Canfu Enid Roberts fod Tudur Aled wedi graddio yng ngwledd briodas Ieuan ap Dafydd ap Ithel Fychan, gyda mab Ieuan – Hywel – yn priodi genhedlaeth yn ddiweddarach gyda Margaret, merch Rhisiart ap Hywel.[79]

> .....as the auncient Bard Tudur Aled doth recite of this *Tri chof* and his reward for the same at his commencement and graduacione at the Royall wedding of Ieuan ap Davyd ap Iethel vychan of Northopp in Inglfield in fflintshire..... And soe you may see that hee was exalted and graduated at the sayd wedding for his knowledge in the sayd *Tri chof*.....[80]

Fel y gwelir o'r Statud, swyddogaeth Tudur Aled oedd cynnig 'personol gyngor' i'r eisteddfod, a chan fod y Statud yn cyfeirio ato fel 'bardd kadairiawc', ni ellir dadlau nad oedd yn gymwys i ymgymryd â'r swydd hon.[81] Fel Tudur Aled, ystyrir Gruffudd ab Ieuan yn fardd 'a ganai ar ei fwyd ei hun' gan Dafydd Johnston gyda'r un medrusrwydd a gweithgarwch â beirdd 'proffesiynol' y cyfnod.[82] Fodd bynnag, fe welir bod W J Gruffydd yn llym iawn ei feirniadaeth o allu barddol Gruffudd ab Ieuan – 'Nid ydyw Gruffudd yn perthyn i'r ail radd o feirdd Cymreig, fel Ieuan Deulwyn, nac hyd yn oed i'r

---

[78] Dyfynir yn ADSGC, 457.
[79] ADSGC, 445. Gweler hefyd D J Bowen, 'Graddau Barddol Tudur Aled' yn *Llên Cymru*, XVIII (1994), 90-103.
[80] Dyfynir yn erthygl D J Bowen, 'Graddau Barddol Tudur Aled', 98.
[81] Am drafodaeth ar swyddogaeth Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan yn Eisteddfod 1523, gweler ADSGC, 439.
[82] Dyfynir yn Gwen Saunders Jones, '*Fy nhad a ddywede am hyn: Agweddau ar farddoniaeth Alis ferch Gruffudd'* , Thesis PhD, Prifysgol Bangor (Bangor, 2010), 13.

drydedd, fel Gutun Owain.'[83] Prin yw'r wybodaeth am raddau barddol Gruffudd, ond mae'n hysbys ei fod yn ysgolhaig diwyd, gyda llyfrgell werthfawr ac arbennig,[84] ac os oedd unrhyw amheuaeth am ei fedruswydd i raddio beirdd, byddai ganddo'r cefndir i ateb un o amcanion eraill yr eisteddfod, sef 'gwnaethur ordr a llywyodraeth ar wyr wrth gerdd', gan dderbyn mai Tudur Aled oedd â'r brif ddyletswydd o roi trefn 'ar i kelvyddyd'. Rhaid cofio bod gwŷr eraill, anhysbys, hefyd yn eu cynorthwyo, ond ni ellir gwadu gallai'r ddau fardd fod wedi cyfuno eu cryfderau i drefnu a chynnal yr eisteddfod, er cof am Ieuan ap Llewelyn, ac er budd llewyrch y gyfundrefn farddol.

O dderbyn bod Rhisiart ap Hywel wedi cael safle blaenllaw yn Eisteddfod Caerwys 1523, boed y swydd yn un o anrhydedd neu yn swydd weithredol, nid hawdd yw esbonio pam na cheir unrhyw gofnod o gerddi iddo ar yr achlysur unigryw hwn, nac ar unrhyw achlysur arall yn ystod ei fywyd. Ni ellir ychwaith esbonio pam nad oes cerddi iddo gan ei fab yng nghyfraith, Gruffudd ab Ieuan ap Llewelyn, yn arbennig gan iddo yntau fod â swyddogaeth bwysig yn yr eisteddfod, sef darparu cyngor personol ar y cyd â Thudur Aled. Efallai fod rhai o gerddi Gruffudd ab Ieuan wedi cael eu canu ar aelwyd Rhisiart ap Hywel, ond heb gynnwys cyfeiriad penodol at y gŵr a oedd yn dad-yng-nghyfraith iddo.[85] Ceir un gerdd – 'Cywydd merch o Degaingl yn rhoi cyngor iddi' – gan Gruffudd ab Ieuan ac ystyrir ei bod i Sioned, ferch Rhisiart ap Hywel, sy'n awgrymu y bu canu ar aelwyd y teulu ym Mostyn yng nghyfnod Rhisiart ap Hywel.

Dydd da i'r fwyna' ar y fu
Dig i wyr yw dy garu,
Dy gusan bychan oedd ber
Dy gael yw dig i lawer.
Tegwch ail Tegau wych wyd
Teg yng ngwlad Tegeingl ydwyd.[86]

Cyfeirir at lawer o ymgeiswyr am law Sioned ond tybed a oedd mantais gan Gruffudd gan iddo ei chyfarch ar gynghanedd?

---

[83] Dyfynir yn AFAG, 45.
[84] FGGP, 100.
[85] Gweler Maldwyn, Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau, adnodd electroneg y Llyfrgell Genedlaethol am restr o gerddi Gruffudd ab Ieuan, http://maldwyn.llgc.org.uk/.
[86] Llansteffan 125, 129. Ceir y gerdd mewn dros ddeg ar hugain o lawysgrifau, gyda rhai â'r teitl 'I'w wraig briod gynta a hi'n forwyn ifanc cyn iddo ei chael'. Ceir hefyd yn J C Morrice (gol.), *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan* (Bangor, 1910), 1-3.

Ymbil wyth deirmil a'th dad
Y mae dynion am danad,
Wrth dy fam araith dwyfil
Ydoedd addaw dieiddil.[87]

Rhaid ystyried a gollwyd cerddi i Rhisiart oherwydd treigl amser, yn arbennig os bu iddynt gael eu cofnodi mewn llyfrau llys na oroesodd, a'i fod wedi noddi'r beirdd a chynnal y traddodiad barddol yn y dull arferol. Yn rhinwedd ei swydd yn 1523, mae'n debyg bod Rhisiart ap Hywel wedi estyn ei nawdd i'r eisteddfod drwy gyfrannu rhodd o ariandlws gwerthfawr ond tybed a oedd amod yn dod gyda'r wobr hael? Er i Dai Nantglyn ennill yr ariandlws yn Eisteddfod Caerwys 1523 – 'Dai nan klyn a wnaethpwyd yn athro a Rroddi ariandlws telyn iddaw [88] – a fu raid iddo fodloni ar fraint ac anrhydedd y fuddugoliaeth yn unig gyda'r teulu yn cadw'r wobr? Dyfarnwyd ariandlws eto yn Eisteddfod 1567 yn rhodd gan deulu Mostyn, ond nid oes sicrwydd ai gwobr Dai Nantglyn oedd hon neu a drefnwyd gwneud tlws arall ar gyfer yr ail eisteddfod.[89] Beth bynnag fu rhan Rhisiart ap Hywel yn Eisteddfod Caerwys yn 1523, roedd ei threfniant ynghlwm ag unigolion â chysylltiadau personol, clos iawn, rhai a roddai bwysigrwydd mawr ar barhad y traddodiad barddol, a gwelir yr un dyhead yn amlwg iawn gyda'r ddwy genhedlaeth nesaf o linach Mostyn.

Pan fu farw mam Rhisiart ap Hywel, Margaret Gloddaith (gweddw Hywel ab Ieuan a Harri Salusbury) yn 1532, daeth llysoedd a thiroedd Gloddaith a Thregarnedd ynghyd at y llysoedd a etifeddodd Rhisiart yn 1477 pan oedd oddeutu naw oed, sef Pengwern, Trecastell a Mostyn, gan greu yr ystad a roddai bresenoldeb i deulu Mostyn ar draws gogledd Cymru am genedlaethau.[90] Tra bod perchnogaeth y pum llys wedi dwyn sylw'r beirdd mewn cenedlaethau diweddarach, nid dyma fu'r achos gyda Rhisiart ap Hywel, sydd yn rhyfeddol o ystyried ei ran amlwg yn Eisteddfod Caerwys naw mlynedd yn gynharach. Am gyfnod cymharol fyr y bu'r pum llys yn eu cyfanrwydd ym meddiant Rhisiart gan iddo farw ymhen wyth mlynedd, ar 31 Ionawr 1540, yn oddeutu saith deg a

[87] J C Morrice, *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan*, 1.
[88] Dyfynir o Peniarth 155 yn ADSGC, 473.
[89] Diogelir y tlws arian ym Mhlas Mostyn, gan aros ym mherchnogaeth y teulu. Yn mesur oddeutu 12 centimedr o hyd, mae'n parhau gydag wyth o'r naw llinyn tenau o arian sy'n cynrychioli tannau a cheir cylch bach arian arno i dderbyn rhuban. (Gwelwyd ar ymweliad bersonol, Medi 2011.) Cyfeirir at y tlws yn Sally Harper, *Music in Welsh Culture before 1650* (Aldershot, 2007), 54-55.
[90] MM:GLF, 157.

dwy oed.[91] Eto, ni cheir marwnadau iddo, ond gwelir bod sefydliadau crefyddol wedi nodi ei farwolaeth, gyda'i ewyllys yn cofnodi rhoddion ariannol i fynachdai Dinbych, Rhuddlan a Bangor ac at wasanaethau offeren yn Eglwys Chwitffordd at weddïau dros ei enaid a hefyd enaid ei wraig, Catrin Salusbury.[92]

Tomas ap Rhisiart, Tomas Mostyn (*c* 1490-1558)

Rhisiart ap Hywel= Catrin Salusbury
│ Syr William Gruffydd = Siân Stradling
│ │
Tomas Mostyn = **Siân Gruffydd**

Ganwyd Tomas ap Rhisiart ym Mhlas Mostyn oddeutu 1490,[93] yr hynaf o blant Rhisiart ap Hywel a Catrin Salesbury, a gyda'r genhedlaeth hon gwelir cysylltiad pendant â'r traddodiad barddol a chofnodion o lawysgrifau yn cynnwys cywyddau, awdlau, englynion a marwnadau i aelodau'r teulu. Mae nifer o'r cerddi i Tomas yn cyfeirio at ei feddiant o'r pum llys sy'n awgrymu mai wedi marwolaeth ei dad, Rhisiart ap Hywel, yn 1540 y gwelir Tomas yn dod i'r amlwg fel noddwr i'r beirdd.

Y llew sydd pumllys eiddod
A'u pum rhan, nid bychan bod;
Duw a wnaeth eu bod yn un,
Diwarthodd bumgwlad wrthun': [94]

Erbyn hyn, roedd Tomas yn briod â Siân Gruffydd, (1502-1571), merch Syr William Gruffydd, y Penrhyn, ger Bangor, uniad yr oedd y ddau dad wedi ei drefnu yn ofalus er budd y ddau deulu, gan lunio cytundeb ffurfiol cyn y briodas yn 1517. Mae'n ddiddorol nodi y byddai Tomas oddeutu tri deg pedwar oed erbyn hyn a Siân yn bymtheg, gyda bron

[91] A D Carr, 'Gloddaith and the Mostyns, 1540-1642', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 41 (1980), 33. Mae'r Arglwydd Mostyn a T A Glenn fodd bynnag o'r farn mai ar 7fed Chwefror, 1539-40 y bu Rhisiart ap Hywel farw a hynny ym Mhlas Mostyn; HFMM, 70.
[92] HP, 149.
[93] Dyma'r dyddiad geni a gynigir gan A D Carr, 'The Mostyns of Mostyn: 1540-1642', I, *Flintshire Historical Society Journal*, 28 (1977-78), 24.
[94] Llinellau agoriadol cywydd Gruffudd Hiraethog, 'Moliant Tomas Mostyn o Loddaith' – GGH, 177.

ugain mlynedd o wahaniaeth oedran rhyngddynt. Dan amodau'r cytuneb, byddai Rhisiart ap Hywel yn darparu mab arall ar gyfer y briodas pe byddai Tomas farw, gyda Syr William Gruffydd yn darparu merch arall pe byddai angen.[95] Ni fu achos i gymryd y camau hyn, a gwelir Tomas a Siân yn ymgartrefu ym Mostyn, gan fagu teulu o dros bymtheg o blant.[96] Yn ddiweddarach, o bosib wedi marwolaeth Rhisiart ap Hywel yn 1540, gwelir y teulu yng Ngloddaith. Nid yn unig yr oedd Gloddaith yn ddeniadol fel cartref oherwydd y gwaith adeiladu yng nghyfnod Margaret Gloddaith, ond roedd chwiorydd Siân Gruffydd hefyd yn byw yn lleol wedi iddynt briodi – Elinor yn byw ym Mryneuryn, Llandrillo yn Rhos, gyda Huw Conwy, a Doreth, ar ei hail briodas, yn byw yng Nghonwy gyda Robert Wynn.[97] Ni welir Tomas ap Rhisiart yn ymdrechu i elwa o'i safle manteisiol fel tirfeddianwr sylweddol ar draws siroedd gogledd Cymru, a'i unig gyfraniad i weinyddiaeth gyhoeddus oedd cyfnod fel siryf ym Môn yn 1554-4 ac ustus heddwch yn Sir y Fflint, swydd a nodir mewn awdl foliant iddo gan Lewys Morgannwg (*fl* 1520-65):

Llew Gloddaith lle gloyw addurn,
Llew Hywel â'r llu hëyrn;
Llin Ieuan Fychan hyd farn
Lle bu winged holl Bengwern.

Pen bonedd Gwynedd, mae'n dy gylch – Powys,
(Piau'r llwythau difylch?)
Pe dôi'r gad pwy draw a'i gylch?
Pen Tegeingl a'u pont ogylch.

Ti yw'r pen-perchen parchus – ar dy wledd
Tau eistedd: wyt iustus:
Tymerwaith wyt myrr a thus,
Ti o wryd Saint Iorus.

Tomas, Saint Tomas a'r Tad – goruchel
I'ch gadael, wych geidwad;
Torrech wenwyn trwch, ynad,
Triagl ywch, rhwng y tair gwlad.

[95] GM, 34. Ceir uniad teuluol pellach pan briododd mab Syr William Gruffydd, Syr Rhys, am y trydydd tro, gyda Catrin, ferch Pyrs Mostyn, Talacre, brawd Tomas ap Rhisiart. Gweler Siân Mostyn, 113, am fwy o fanylion am briodasau plant y Penrhyn.
[96] Mae A D Carr yn cyfeirio at ddogfen sy'n nodi teulu o ddeuddeg mab a saith merch tra mai deg mab a chwe merch a enwir gan J Y W Lloyd ond nid yw yn cofnodi Edward, sy'n ymddangos ym marwnadau ei rieni. Gweler GM, 34-35, a HP, 150.
[97] Siân Mostyn, 113.

Tair gwlad, dad i dad hyd Wy, – tros wŷr mawr,
Teirsir Môn hyd Ddyfrdwy,
Ti, 'r undyn, math Trwyndwn, mwy
Twysog hen tai Is Conwy. [98]

Noddwr cyntaf y bardd hwn o Lanilltud Fawr oedd Syr Edward Stradling, brawd i fam Siân Gruffydd, Siân Stradling, ac mae'n debyg bod y cysylltiad teuluol hwn wedi bod yn fodd i Tomas a Siân groesawu Pencerdd y Tair Talaith o Forgannwg i'w haelwyd yng Ngloddaith.[99] Er mai Tomas oedd y mab hynaf a'r aer, y trydydd mab, Pyrs, oedd y mwyaf amlwg o'r ddau ym mywyd cyhoeddus gogledd-ddwyrain Cymru, gan iddo gynrychioli Sir y Fflint fel aelod seneddol yn 1545 a 1558, a hefyd ymgymryd â nifer o swyddi gweinyddol eraill yn yr un cyfnod, megis ustus heddwch, siryf ac siedwr.[100] Tra bod natur Tomas yn ymdebygu i gymeriad ei dad – cofier i Rhisiart ap Hywel wrthod cynnig Harri VII i ymuno â'r llys brenhinol – a threulio ei fywyd ar ei ystad sylweddol yng ngogledd Cymru, nid felly Pyrs, a thrwy gynyddu ei diroedd, daeth yn un o wŷr cyfoethocaf y cyfnod yn y gogledd-ddwyrain.[101] Mae'n ddiau bod Pyrs wedi elwa o'r cyfleodd a ddatblygodd o ganlyniad i'r Deddfau Uno yn 1536 a 1543 – *An Acte for Laws & Justice to be ministred in Wales in like fourme as it is in this Realme* (27 Henry VIII c. 26) ac *An Acte for certaine Ordinaunces in the Kinges Majesties Domynion and Principalitie of Wales* (34 a 35 Henry VIII c. 26) – ond un canlyniad a ddaeth yn sgil hyn o gyfeiriad Cyngor Cymru a'r Gororau yn 1539 oedd y pwysau ar feibion Rhisiart ap Hywel i fabwysiadu cyfenw teuluol.

> 'Tomas ap Richard ap Howel ap Ieuan Vychan, being so called before Rowland Lee Bishop of Litchfield and Coventry and Lord Protector of the [Council] of the Marches of Wales at a great Session held in Flintshire in the year of our Lord 1539, the Lord President commanded that afterwards [he] should be always called Tomas Mostyn of the House where he leived at, and was the first [of his family] that was called by the Name of Mostyn.'[102]

---

[98] Rhan o 'Awdl foliant i Domas Mostyn', dyfynir gan A Cynfael Lake, *Gwaith Lewys Morgannwg*, II (Aberystwyth, 2004), 445.

[99] Ceir mwy o fanylion am y bardd yn BA: Lewys Morgannwg. Fel bardd yr Herbertiaid yn ddiweddarach, fe fyddai Lewys Morgannwg wedi dod i gysylltiad â Wiliam Mostyn, mab Tomas a Siân, gan iddo ymuno â byddin William Herbert ac ymladd ym mrwydyr Wyatt's Field.

[100] Gweler gwefan y senedd am fwy o fanylion am fywyd a dyletswyddau Pyrs Mostyn - http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1509-1558/member/mostyn-peter-1518-80. Hefyd PMFT, 45-48.

[101] PMFT, 45-48.

[102] Dyfynir yn HFMM, 83. Roedd yr Esgob Rowland Lee (*c*1487-1543) ymysg y cyntaf i gydnabod Harri VIII fel pennaeth Eglwys Loegr ac mae awgrym mai ef a weinyddodd wasanaeth priodas Harri VIII ag Anne Boleyn. Fel Llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau, cafodd ei gydnabod am ei ymdriniaeth lem â

Roedd hen arferiad yn anodd ei dorri, er gwaethaf gorchymyn Cyngor Cymru a'r Gororau, ac ni welir hyn yn digwydd dros nos gan y cyfeirir at Tomas fel Tomas ap Rhisiart ap Hywel yn 1541 a Tomas Mostyn *alias* Tomas ap Richard ap Hywel yn 1544, gyda'r enw Tomas Mostyn yn cael ei dderbyn erbyn 1547.[103] Gwelir Pyrs, ei frawd iau, yn cael cryn drafferth i ddewis enw derbyniol yn yr un cyfnod, gan amrywio o Pyers, Piers a Peter ap Richard ap Howel, hefyd Peter neu Piers Powel.[104] Fel Peter Mostyn y daw i gael ei gydnabod yn y senedd ond gwelir Pyrs Mostyn, Talacre, hefyd yn cael ei ddefnyddio fel ffurf ar ei enw. Tybiai Thomas Pennant mai Moston oedd ffurf wreiddiol y plasty a'r cyfenw ac mai llygriad o hyn yw'r enw Mostyn sydd wedi ei ddefnyddio bellach ers canrifoedd.[105]

Os mai bywyd tawel ar ei aelwyd yng ngogledd Cymru oedd dymuniad Tomas, gyda'i ddyletwsyddau wedi eu cyfyngu i weinyddu ei ystad sylweddol, rhoddodd gryn bwys ar gefnogi'r traddodiad barddol yn lleol a gwelir ei gartrefi ym Mostyn a Gloddaith yn ganolfannau nawdd i nifer o feirdd y cyfnod. Ymysg y beirdd a ganai ar ei aelwyd gwelir Gruffudd Hiraethog (m. 1564), Simwnt Fychan (1530?-1606), Lewys Morgannwg (*fl.* 1520-1565), Lewis ab Edward (*fl. c.* 1560), Siôn Brwynog (m. 1557?), ac mae'n debyg bod Wiliam Llŷn a Siôn Tudur hefyd wedi ymweld â'i gartref, gan iddynt ei farwnadu yn ddiweddarach. Gyda chenhedlaeth Tomas ap Rhisiart, gellir tybio mai dyma oes aur y traddodiad barddol, gyda'i frawd Pyrs Mostyn, Talacre, nid yn unig yn noddi ond hefyd yn barddoni:

> Un [ ] oedd denant i Pirs ap Rissiart ap Howel, ac o hyder ar i feistr ef a werthe win heb genn[a]d, ac o'r achos hwnnw y doeth un Sion Oks, promowter, a gwassnaethu gorchymyn y Cyngor ar[no] am werthu gwin heb gennad, ac yna y doaeth ynteu at i feistr, Pirs ap Rissiart, i erchi i gyngor. Yna y barnai Pirs fal hynn:
>
> Gochel fryfau a thyrau, o'th yrrwyd – i'r gyfraith,
> A gafran wyneblwyd,
> Gochel fil bril breulwyd,
> Gochel Oks â'r gochyl lw
> Gochel fryfau, selau a sum,

---

drwgweithredwyr, gydag Elis Gruffydd yn honni iddo fod yn gyfrifol am farwolaeth 5,000 o wŷr mewn cyfnod o chwe mlynedd. Gweler *ODNB* am fwy o fanylion am ei fywyd a'i yrfa: Michael A. Jones, 'Lee, Rowland (*c.*1487–1543)', *ODNB*, 2004; online edn, Jan 2008 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/16307, cyrchwyd 28 Mai 2013].

[103] GM, 34.

[104] PMFT, 45.

[105] HPWH, 53.

Gochel ustus y llys sydd ŵr llym,
Gochel garchar, trwy fâr trwm,
Gochel Oks â'r gochyl lom.[106]

Ai ymgais i addysgu Pyrs ymhellach yng nghrefft y traddodiad barddol a welir yn awdl foliant Simwnt Fychan ar y pedwar mesur ar hugain, un o'r beirdd a ganai i ddau o feibion Rhisiart ap Hywel? Dyma'r hyn a awgrymir o'r cyflwyniad i'r gerdd yn Peniarth 62: 'Ir M. Pers Mosden odl voliant ac ynddi'r y xxiiij mesur y rhai y notir eu enweu ar yr or gyferbyn ac wynt er mwyn athroaeth cynnil i ddanwared, a chlaer espysrwydd i ddiscipulon cerdd davot.'[107]

Merion coed perion lle caid puredd
Mostyn am arial moes dwyn mawredd
Maelgwn i'th rifwn a'th ryfedd, fowart
Mab Rhisiart ymhob rhysedd.

Llwyth Trefor llu waith trafael
Llew ebrwydd hael llywbraidd hedd
Llwyth Edwin oll y'th hadyd
Llawn dywys ŷd llin hyd sedd[108]

Mae awgrym bod crefft y gynghanedd o fwy o ddiddordeb i Pyrs nag i Tomas gan y canodd Wiliam Cynwal hefyd awdl i Pyrs ar y pedwar mesur ar hugain, tra na welir enghraifft o'r pedwar mesur ar hugain yn y canu i Tomas. [109]

Gyda Mostyn a Thalacre o fewn pedair milltir i'w gilydd ar arfordir Sir y Fflint, hawdd fyddai i'r beirdd a ganai ar aelwyd Tomas ymweld hefyd â chartref Pyrs yn Nhalacre, ac yn ogystal â Simwnt Fychan a Wiliam Cynwal, gwelir Lewis ap Hywel, Wiliam Llŷn ac Lewis ab Edward yn canu yn Nhalacre. Ceir hefyd farwnadau i Pyrs ac Elin, ei wraig, gan Siôn Tudur a Rhys Cain. Er nad oes cofnod o gerddi gan Gruffudd Hiraethog i Pyrs, gwelir ei fod yn ymwybodol o'i gymwynas i'r traddodiad barddol yn lleol:

---

[106] Dyfynir yn TMNB, 100.
[107] Dyfynir yn ADSGC, 491.
[108] Llawysgrif yn y Llyfrgell Brydeinig, B.Add. 31080, 176b
[109] R L Jones, 'Astudiaeth Destunol o Awdlau, Cywyddau ac Englynion gan Wiliam Cynwal', Traethawd MA Prifysgol Cymru (Aberystwyth, 1969), 718. Er bod Pyrs Mostyn wedi treulio cyfnodau yn y senedd yn Llundain, parhaodd ei ddiddordeb yn y diwylliant llenyddol Cymraeg a chyfeiria R Alun Charles at lawysgrifau Cwrtmawr 2, Mostyn 116 a Pant 30 fel y rhai a luniodd y noddwr â'i law ei hun. TMNB, 100-101.

After the ysteddfa att Caerwys there was a prohibiton that poets and minstrels should goe nowhere without their pasport unsent for, whereupon Gruffudd Hiraethog said:

Wrth weled sicred y siars,
Erchi i bawb eiriach ei bwrs,
Duw ado i mi, diwyd wers
Y ffordd at Tomas a Phirs.

meaning the 2 brothers Tomas and P. Mostyn, the one of Mostyn, the other of Talaccrey.[110]

Roedd y traddodiad barddol hefyd yn rhan annatod o aelwyd eu chwiorydd. Priododd Sioned â Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn, Llannerch, Dinbych (*c.* 1485-1553),[111] y bardd a gysylltir, ar y cyd â Thudur Aled, ag Eisteddfod Caerwys 1523.[112] Gwelir plant Sioned a Gruffudd yn cael addysg farddol gan eu tad, gan gynnwys y merched, gyda gwaith Alis yn bennaf wedi ei goroesi mewn llawysgrifau.[113] Yn ferch ifanc yn prydyddu, nid annisgwyl felly yw ei gweld yn canu am 'Y Gŵr Delfrydol':

Hardd, medrus, campus, ped caid, – a dewr
I daro o bai raid;
Mab o oedran cadarnblaid
A gŵr o gorff gorau a gaid.

Fy nhad a ddywede ym hyn – mai gorau
Ym garu dyn gwrthun,
A'r galon sydd yn gofyn
Gwas glân hardd, ysgafn ei hun.[114]

Yn ogystal â Sioned, gwraig Gruffudd ab Ieuan, roedd chwaer arall o'r un enw, gyda'r ail Sioned yn priodi Huw Pennant, Bychdyn, a thra na fu modd darganfod cerddi i'r ddau,

[110] GGH, 440.
[111] Y flwyddyn 1553 yw'r dyddiad a gynigir yn AFAG , 12.
[112] Gweler FGGP, 89-104, am fwy o fanylion am y bardd.
[113] Trafodir gwaith Alis yn benodol gan Gwen Saunders Jones, ond enwir dwy chwaer arall ganddi, sef Catrin a Gwen. AFAG, 23-24. Mae ffynonellau eraill yn enwi Margaret yn hytrach na Gwen fel merch o'r briodas gyntaf, megis T A Glenn. Prin yw'r enghreifftiau o waith meibion Gruffudd ab Ieuan a Sioned, sef Lewis a Robert, a ganwyd tri mab ac un ferch i Gruffudd o'i ail briodas. Gweler FGGP,101-103.
[114] Dyfynir yn AFAG, 63-64.

gwelir Siôn Tudur (m. 1602), mewn cenhedlaeth arall, yn canu i'w mab, Tomas a'i fab yntau, Huw Pennant, y ddau ym marw yr un flwyddyn.[115]

Collais dau ŵr call eu stad,
Ceraint yn haeddu cariad;
Mynd â Tomas o'i blasoedd,
Mwyn lew call, a'm anlwc oedd;
Duw Gwyn nid mynd ag anhael,
Mynd â Huw am henaid hael. [116]

Gyda phlant Rhisiart ap Hywel o fewn oedran i fod yn briod a chanddynt eu haelwydydd eu hunain erbyn 1523, efallai fod Eisteddfod Caerwys wedi ennyn brwdfrydedd newydd yn y genhedlaeth hon i gynnal y traddodiad barddol. Yn sicr, gwelir y grefft yn ei hanterth ar aelwyd y mab hynaf, Tomas a'i wraig Siân Gruffydd, gyda'r cywyddau, yr awdlau a'r englynion yn adlewyrchu'r mawl traddodiadol a gyflwynid gan feirdd i'w noddwyr. Gwaith Gruffudd Hiraethog a'i ddisgybl, Simwnt Fychan, sydd fwyaf amlwg yn y casgliad o gerddi i Tomas a Siân, a chanodd Gruffudd Hiraethog am y nawdd a dderbyniodd am gywydd:

Un a ofynodd i Gruffudd Hiraethog pa beth a gawsai efe am ei gywydd gan Tomas ab Richard ab Howel ab Ieuan Fychan, ac yntau a henwodd y cwbl fal hyn:

Rhywiog asgell het, gwregys, rhiain – Mostyn,
A chan y meistr chweugain,
A siaced o'r melfed main,
A dagr o bris deugain. [117]

Gyda chweugain yn gyfwerth â deg swllt (neu bum deg ceiniog yn gyfredol), a labrwr yn ennill swllt am ddiwrnod o waith, roedd rhoddion Tomas a Siân i'r bardd yn hynod o hael.[118] Ceir enghraifft bellach o haelioni'r ddau i'w gwesteion mewn cywydd gan Gruffudd Hiraethog ar ran Siân yn gofyn am fwrdd derw gan Elis Prys, Plas Iolyn:

---

[115] Enid Roberts (gol.), *Gwaith Siôn Tudur*, I, (Caerdydd, 1980), 430-433.
[116] GST, I, 430.
[117] GGH, 439.
[118] Cyfeiria Gwyn Thomas at gofnod o daliadau i Harry Howell a Griffith Phillip ym Mehefin 1654, gyda'r ddau yn derbyn deg swllt yr un am eu cywyddau a'r telynor John Morgan yn derbyn pum swllt am ei wasanaeth. Gweler ei erthygl,'Golwg ar Gyfundrefn y Beirdd yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg', yn R Geraint Gruffydd (gol.), *Bardos* (Caerdydd, 1982), 92.

Derw ystod ar ddau drestel,
Drostaw bydd fwydydd o fêl.
Aed dwy fain o'i ddeutu fo
I roi gannyn ar ginio.
Da yntau, bid hwnt, o beth,
Deintur i roi pob daenteth.
Allor fawr llawer o fwyd
A'i lliw'n weddus lle naddwyd,
Segur ni bydd dydd na dau
O siwgr ysgrafflawn seigiau.
Gwely gwych y gloyw gochion,
Galai o goed i gael gwin.
Grwn teg, gwŷr ânt o'i gylch.
Praffrodd hir pur hoffrwydd iôn,
Prifford y seigiau preiffion.
Cû dëyrnfort cadarnfawr,
Coed fydd cyd caeadfedd cawr. [119]

Cyfeiria'r cywydd at un o'r seigiau ar y bwrdd, sef elyrch, a gwelir Gruffudd Hiraethog yn canu cywydd ar ran Robert ab Einion, Deon Bangor, i ofyn am ddau alarch o gyflenwad ystad Tomas ap Rhisiart:

Deon well no dau o Nudd,
Brau hael a doeth brelad ynn,
Bangor, Wynedd ben-gronyn.
Hael a rydd, ufudd ofeg,
Hael a eirch dau alarch deg,
Cywion ifainc i nofiaw
Yn ei groyw lyn gar ei law,
A chnefin â gwych nofiad
Os mewn cors y man y'u cad. [120]

Os oedd Oes Aur y traddodiad barddol yn bodoli ar aelwydydd Tomas a Siân ym Mostyn a Gloddaith yn hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, fel ar aelwydydd plant eraill Rhisiart ap Hywel, roedd datblygiadau gwleidyddol y cyfnod yn newid cymdeithas yr uchelwyr Cymreig, newidiadau a fyddai yn dylanwadu ar y traddodiad barddol hynafol mewn amser. Syndod i Thomas Parry oedd bod y traddodiad wedi parhau cyhyd:

> Buddiol yw cofio bod yr arfer o ganu cerddi mawl a marwnad mewn gwth o oedran aeddfed iawn erbyn tua 1550, ac y gallai farw'n naturiol gan henaint; y rhyfeddod yw iddi fyw cyhyd.[121]

[119] GGH, 338.
[120] GGH, 312-313.

Gwelir Gruffudd Hiraethog a Simwnt Fychan, mewn dau gyfrwng gwahanol, yn dewis cyfleu eu pryderon am y bygythiad i'r iaith Gymraeg a'r traddodiad barddol mewn gweithiau sy'n gysylltiedig â Tomas ap Rhisiart a Siân. Gwelir Simwnt Fychan yn dewis ffurf draddodiadol y cywydd i wneud hyn, mewn cywydd moliant i'r ddau – 'Cywydd yn dangos fod y bŷd yn casau beirddion':

Gynt y cae feirdd digeirdd don
Gynheiliaeth oll gan haelion,
A ffyrwch glad a ffarch glau
A sidan yn drwsiadau,
Ac urddas deg rodd ystad,
Ac aur gwyr a gwir gariad.
Heddyw per rhodd yr haeddiant,
Ystad a chariad ni chant,
Nac golud na ffarch nac elw,
Nac urddas enwoc arddelw,
Na chynheiliaeth rwyddfaeth rad,
Na da wellwell na dillad.
Gylyniaeth gan benauthau,
Gerdd dafawd o fresgwawd frau,
Gwrthod mawl gweddawl gwiwddysg,
Awen y maent yn i mysg.
Gwaith angall os deallan,
Gwrthod ysbryd gloywbryd glan. [122]

Lluniodd Gruffudd Hiraethog gyfrol o ddiarhebion, gan ei chyflwyno i Rhisiart Mostyn, mab alltud Tomas ap Rhisiart a Siân, ac o'r teitl, gwelir mai ymgais i gadw'r iaith Gymraeg ar gof y rhai a oedd oddi cartref oedd y bwriad – *'Lloegr Drigiant Ddifyrrwch Bryttanaidd Gymro wedi Gasglv ynghyd o Amravaelion Lyfrav Kymraeg drwy Waith a Llafr Gruffudd Hiraethog i Goffau ac i Ddwyn ar gof i'r neb o Genedl Cymry a vo allan o'i wlad Iaith i Gnowdol Fam i hvnan a'i Nattvriawl Ddayaren o Anedigaeth'.*[123] Ceir sawl damcaniaeth am benderfyniad Gruffudd Hiraethog i gysylltu'r gyfrol â Rhisiart Mostyn. Fe ellid ystyried bod y bardd am roi cerydd caredig i'r rhai a oedd a'u golygon ar elwa'n economaidd a chymdeithasol dros Glawdd Offa, gan gefnu ar y Gymraeg a'i diwylliant cynhenid. Nid di-sail oedd y pryder hwn ond tybed ai ymgais i ddenu nawdd i

[121] Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1953), 126
[122] Llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig, B.Add. 31080, 246b.
[123] Siân Mostyn, 111. Gwelir sail i bryder Gruffudd Hiraethog o'r cofnod ar ddechrau marwnad Siân Stradling, gwraig gyntaf Syr William Griffith, y Penrhyn, a mam Siân Mostyn, Gloddaith – '*The Epitaph of dame Jane Stradling first wife to Sr Wm: Gruffith composed in Welsh [by]Lewys mon, converted into English meeter by D.G. at the request of Mrs: M. Th: her daughter, 8. Maye – 1573.* Cyfeiriad at Margaret Thelwall, chwaer Siân, oedd hwn. Mae'r farwnad a'r nodyn i'w cael yn NLW 3057D (Mostyn 161), 987.

gyhoeddi'r gyfrol mewn print oedd amcan Gruffudd Hiraethog? Gwelir bod gan y bardd feddwl uchel iawn o deulu Gloddaith – mae'n cyfeirio at Siân, gwraig Tomas ap Rhisiart, fel 'yr orau o'r mamav ar sydd yn trythv iaith Gamberaec' yn y gyfrol – ac fe fyddai'n ddealladwy iddo droi at aelod o'r teulu hwn am gefnogaeth i elwa o'r cyfleon cyffrous a ddeilliai gyda dyfodiad y wasg gyhoeddi. [124]

Ni ellir dyddio'r mwyafrif o'r cerddi i Tomas ap Rhisiart a'i briod, ond ceir cyfeiriad at Eisteddfod Caerwys yn yr englyn i Tomas a Pyrs[125] (sy'n ei osod yn y cyfnod ar ôl 1523), a chyfeiriad arall at y flwyddyn y bu Tomas yn ustus, sef 1553-4. Os dyma'r cyfnod y bu'r ddau yn cynnig nawdd i'r beirdd, byddai eu plant bellach wedi priodi a hefyd yn noddi ar eu haelwydydd, yn arbennig Wiliam ym Mostyn, Rhisiart ym Modysgallen, Catrin yng Nglynllifon, Dorothi yng Nghefnamwlch ac Elizabeth yn Iâl.

Cyfeiria A D Carr at restr achau sy'n cofnodi bod Siân, merch y Penrhyn, wedi cael pedwar ar bymtheg o blant, sef deuddeg mab a saith merch, gyda'r hynaf a'r ieuengaf yn marw yn eu plentyndod.[126] Dywed yr Arglwydd Mostyn a T A Glenn fod anghysondeb yn y wybodaeth a geir am y plant ond maent yn cynnig rhestr fel a ganlyn yn ôl trefn geni: William, Richard, Piers, Robert, Hugh, Rowland, John, Foulk, Edward, Roger, William (yr ail o'r enw hwn), Grace, Catrin, Dorothy, Elizabeth, Margaret ac Ann.[127] Bu farw Hugh a John yn blant ac Ann yn marw heb briodi, ond mae gweddill y plant yn cael eu henwi gan y beirdd ym marwnadau eu rhieni.[128]

Bu farw Tomas yn chwe deg ac wyth oed yn Awst 1558, gyda chladdedigaeth yn Eglwys Chwitffordd a rhodd i'r offeiriaid yno ac yn Llanrhos am weddïau am ei enaid.[129] Ceir pedair marwnad iddo – gan Wiliam Llŷn,[130] Siôn Brwynog,[131] Simwnt Fychan[132] a Siôn Tudur[133]:

---

[124] Gwelir William Salesbury yn cyhoeddi casgliad o ddiarhebion o eiddo Gruffudd Hiraethog yn *Oll Synnwyr pen Kembero y gyd*, cyfrol a ymddangosodd mewn print yn 1547. Trafodir hyn yn Siân Mostyn, 111-126, ynghyd â chefndir Siân Gruffydd, merch y Penrhyn.
[125] GGH, 440.
[126] GM, 34-35.
[127] Am fwy o fanylion am yrfaoedd y meibion a phriodasau y merched, gweler HFMM, 92-93.
[128] Cyfeiria ewyllys Tomas ap Rhisiart at £20 o waddol priodas i Katherine, ei ferch anghyfreithlon; GM, 37. Nid oes cyfeiriad at Ann yn y marwnadau ac fe ellid tybio ei bod hithau wedi marw yn ei phlentyndod. Mae A D Carr mewn erthygl arall yn cyferio at faban – Jane – a fu farw yn ddau fis oed. MM:1540-1642, I, 24.
[129] GM, 36-37.
[130] Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor 14676, 107.
[131] Rosemary Kerr, 'Cywyddau Siôn Brwynog', Traethawd MA, Prifysgol Cymru (Bangor, 1960), 157-159.

Bwriwyd un, briwyd ynys,
Bwrw sgwier llwyd, breisgarw llys.
Bwriwyd y gŵr briglwyd brau,
Brad ing fydd bwriad angau.
Bwrw dâr gref, burder gwraidd,
Bwriwyd henwalch Brytanaidd.
Bwrw cildant a brig haelder,
Bu'r glaw ar wynebau'r glêr.
Mae ia'n yr haf, mae'n oer hyn,
Marw meistr mawr y Mostyn. [134]

Un enw sydd ar goll o blith y marwnadwyr yw Gruffudd Hiraethog, ac er bod tri o'i ddisgyblion wedi canu i'r noddwr,[135] ni fu modd darganfod marwnad gan Gruffudd i Tomas ac nid oes esboniad pam na chanodd un o feirdd amlycaf Gloddaith am farwolaeth Tomas Mostyn. Mae awgrym mai yng Ngloddaith y treuliodd Siân ei gweddwdod, gan mai yn Eglwys Llanrhos y cafodd ei chladdu wedi ei marwolaeth yn 1571, a hithau yn chwe deg ac un oed, wedi oes o gynnig nawdd i'r beirdd.[136]

Gwelais gael aur, mael a medd
Yn llys Siân, iarlles Wynedd;
A'i gweles mewn gwiwlys maith,
Gae ni wŷl ei gwên eilwaith;
Mae'n alaeth am na welan'
Byth is haul un o'i bath, Siân.
Gwae nhwy rhawg, y gwan a'r hen,
A wŷl eisiau ei 'lusen.
Odidog, a da ydoedd,
At deulu Duw a'r tlawd oedd.
B'le'n ei hôl, heb lawenhau,
Y tyn y beirdd a'r tannau?
Ofer bod, o fâr bydol,
Aeaf na haf yn ei hôl. [137]

Ym marwnad Wiliam Cynwal (m. 1587/88), ceir manylion am ei man gorwedd olaf yn Eglwys Llanrhos:

---

[132] Dyfynir yn HFMM, 86-89.
[133] GST, I, 83-85.
[134] GST, I, 83.
[135] Roedd Gruffudd Hiraethog (m. 1564) yn athro barddol i Simwnt Fychan, Wiliam Llŷn a Siôn Tudur – BA: Gruffudd Hiraethog.
[136] Ceir y flwyddyn a'r oedran ym marwnad Wiliam Llŷn, ond dyfynnu 1572 ac oedran o 69 oed a wna A D Carr, GM, 37. Canodd Gruffudd Hiraethog gywydd gofyn am hwrdd dros Siân Mostyn, sy'n crybwyll bod ganddi ymron i ddwy fil o ddefaid, diadell sylweddol sy'n awgrymu mai yng nghyfnod ei gweddwdod y canwyd y gerdd boblogaidd hon, gyda dros ddeg ar hugain o gopïau ohoni wedi goroesi. GGH, 364.
[137] Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn', Traethawd PhD Prifysgol Cymru (1983), 289-290.

I gôr eglwys Rhos, gwir ogledd, – Medrod,
Ducpwyd modryb bonedd,
A'i rhwymo oll a'i rhoi 'medd,
Aml gwyn gwan, Maelgwn Gwynedd. [138]

Er bod Gruffudd Hiraethog bellach wedi marw er 1564, gellir gweld ei ddylanwad ar y traddodiad barddol yn parhau gyda dau o'i ddisgyblion yn marwnadu ar yr aelwyd lle canodd yr athro barddol yn ei ddydd.[139] Gyda disgybl arall, Simwnt Fychan (1530?-1606), wedi canu'n fynych i Tomas a Siân ym mlodau ei yrfa fel bardd, mae ei ddistawrwydd ar achlysur marwolaeth Siân yn annisgwyl, oni bai bod marwnad ganddo heb oroesi.
O wybod am ddiddordeb Siân yn y traddodiad barddol, ei nawdd iddo ar hyd ei hoes a'i chefnogaeth i Eisteddfod Caerwys yn 1523, fe ellid tybio ei bod wedi cael cryn foddhad a phleser o weld ei mab hynaf yn flaenllaw yn nhrefniadau'r eisteddfod yn nhref Caerwys yn 1567, ymron i ddeng mlynedd wedi marwolaeth ei dad, Tomas.[140] Tra bu i arfer Tomas a Siân o noddi'r beirdd ddylanwadu ar eu plant, fe ellid tybio bod cynnal ail eisteddfod yng Nghaerwys wedi bod yn gyfrwng i gadarnhau ac adfywio'r traddodiad ymhlith y genhedlaeth nesaf o deulu Mostyn.

Wiliam Mostyn (*c* 1518-1576)

Tomas Mostyn = Siân Gruffydd
│ Hywel ap Robert = Catherine
│ │ Syr William Brereton = Eleanor Brereton
Wiliam Mostyn = [1.] **Margaret Powell** │
[2.] **Margaret Goodman**, **nee Brereton**

[138] R L Jones, 'Astudiaeth Destunol o awdlau, cywyddau, ac englynion, gan Wiliam Cynwal', 608.
[139] Gweler BA – Wiliam Llŷn; Cynwal, Wiliam – am fwy o fanylion am y beirdd.
[140] Bu cryn drafodaeth am union ddyddiad ail Eisteddfod Caerwys, gyda D J Bowen a Gerallt Harries yn cyflwyno eu rhesymau o blaid 1567 neu 1568 yn *Llên Cymru*. Gwelir Enid Roberts yn dewis 1567 fel blwyddyn cynnal yr eisteddfod, felly hefyd Einir Gwenllian Thomas. Gweler D J Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', *Llên Cymru*, II, Gorffennaf 1952, 129-134; Gerallt Harries, 'Ail Eisteddfod Caerwys', *Llên Cymru*, III, Ionor 1954, 24-31; D J Bowen, 'Ail Eisteddfod Caerwys a Chais 1594', *Llên Cymru*, 18, Ionor 1955, 139-161; Enid Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych, Cyfrol 16*, 1967, 23-61; ADSGC, 503-17.

Daeth Wiliam Mostyn i'w etifeddiaeth yn 1558 ar farwolaeth ei dad, Tomas ap Rhisiart (neu Tomas Mostyn fel y daeth i gael ei adnabod yn ddiweddarach), wedi cyfnod fel milwr yng ngwasanaeth William Herbert, Iarll Penfro (1506/7-1570).[141] Gwelir ei ymgyrch olaf yn ystod y cyfnod y bu Herbert yn cynllwynio i ddyrchafu'r Arglwyddes Jane Grey i Goron Lloegr, cyn iddo roi ei deyrngarwch i ferch hynaf Harri VIII, Mary. Gyda Herbert, bu Wiliam Mostyn yn rhan o'r gweithredu o blaid Mary yng ngwrthryfel Wyatt yn nechrau 1554.[142] Ni cheir mwy o fanylion am Wiliam yn milwra wedi hyn, ond parhaodd i ddylanwadu'n genedlaethol y flwyddyn honno gan ddilyn trywydd gwleidyddol trwy gynrychioli Sir y Fflint yn y senedd yn Ebrill a Thachwedd 1554, a hynny pan oedd ei dad yn fyw. Gyda Tomas oddeutu 71 oed erbyn hyn, i ran Wiliam y daeth y cyfle i gael ei ethol yn aelod seneddol, gyda'i yrfa filwrol a'i gysylltiad â Herbert yn ddylanwadol yn yr etholiad.[143]

Oddeutu'r cyfnod hwn, collodd Wiliam ei wraig gyntaf, Margaret Powell, y Drewen, merch Robert ap Hywel, masnachwr dillad yn nhref Whittington (y Drewen), ger Croesoeswallt.[144] Drwy linach ei mam, Catherine, roedd Margaret hefyd yn hanu o lys Pengwern a Threcastell, gyda thaid Catherine, Iorwerth, yn frawd i Ieuan Fychan (m. 1477).[145] Ganwyd tri o feibion a dwy ferch i Wiliam a Margaret, sef Tomas, John, Henry, Grace a Catherine, a magwyd y plant ym Mostyn.

Roedd profedigaeth eisioes wedi dod i ran y teulu yn 1551, pan fu farw Catrin, chwaer Wiliam, gan adael tri o blant:

> Tri sy am un tros eu mam,
> Tri'n ôl Catrin o Wiliam.
> O'r tri rhoed dau a rhiain
> A fyddan' wrth fodd eu nain:
> Tomas, cofiant maes cyfan,
> Tywys aur, Rhisiart a Siân. [146]

---

[141] HFMM, 93.
[142] Ceir manylion am gefndir a gyrfa William Herbert (1506/7–1570) yn Narasingha P. Sil, 'Herbert, William, first earl of Pembroke (1506/7–1570)', *ODNB*, 2004; online edn, May 2009 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/13055, cyrchwyd 28 Mai 2013].
[143]Gwefan y senedd: www.historyofparliamentonline.org/volume/1509-1558/member/mostyn-william-1518-76.
[144] Priododd y ddau yn 1541. MM:1540-1642, I, 33.
[145] HFMM, 96.
[146] GGH, 272.

Bu Catrin yn briod â Wiliam Glyn (Wiliam ab Edmwnd), Glynllifon, Sir Gaernarfon,[147] ac yn ogystal â noddi'r beirdd, roedd Wiliam hefyd yn canu ar ei fwyd ei hun, gydag un o'i gerddi yn farwnad i Catrin ar ei marwolaeth.[148] Roedd tynfa'r Creuddyn yn gryf ar Catrin ac yn Eglwys Rhos y claddwyd ei gweddillion:

Os galar a wisg Wiliam,
Y sy un swydd â Sain Siâm,
Duw'n mynnu rhodd, dwyn mae'n rhaid
Du lir am y dail euraid:
A oes oernad am siwrnai
Eithr y ferch aeth o Wŷr-fai?
Oer ei myned o'r mannos
I dario hwnt i dir Rhos;
Hi â ennyd i hunaw:
Hyn fu'n drist, ei hanfon draw! [149]

Roedd chwaer arall – Dorothy – hefyd wedi ymgartrefu yn Llŷn wedi ei phriodas â Siôn Gruffudd ap Gruffudd ap Siôn, yng Nghefnamwlch, Tudweiliog.[150] Cafodd Dorothy oes faith i noddi'r beirdd a gwelir Gruffudd Hiraethog, Huw Pennant, Wiliam Cynwal a Bedo Hafesb yn canu ar yr aelwyd yng Nghefnamwlch. Ceir y cyfeiriadau traddodiadol at garedigrwydd a haelioni'r noddwraig yn y canu moliant i Dorothy, ond ddim heb sail, ym marn Siôn Phylip – 'O bu'n euro heb anwiredd'[151] – ac un o'r rhai a dderbyniodd ei gofal oedd Morys Dwyfech (*fl. c.* 1523-1590), bardd teulu Cefnamwlch a dreuliodd gyfnod yno pan oedd yn wael:

[147] Am fwy o fanylion am y tŷ, gweler Coflein, gwefan Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: http://www.coflein.gov.uk/en/site/26526/details/GLYNLLIFON+MANSION%2C+LLANDWROG/.
[148] Archifdy Prifysgol Bangor – Mostyn 9081 (Mostyn 96), 329. Ceir marwnad i Catrin hefyd gan Simwnt Fychan (Llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig, B. Add. 31080, 243a). Gwelir Tomas, y mab hynaf, yn etifeddu diddordeb ei dad mewn barddoni tra dilynodd ei frawd, Rhisiart, yrfa eglwysig. Daeth diwedd ar linach uniongyrchol teulu Glyn yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Am fwy o fanylion am deulu Glynllifon, gweler BA: Glyn (Teulu), Glynllifon, Sir Gaernarfon.
[149] CSB, 111.
[150] Mae'r tŷ a safai yn yr unfed ganrif ar bymtheg bellach wedi cael ei ddymchwel, gyda thŷ diweddarach yn sefyll. Gweler http://www.coflein.gov.uk/pdf/CPG023/. Fel gyda Glynllifon, daeth llinach uniongyrchol teulu Griffith Cefnamwlch i ben, gan ymuno ag ystad y Foelas yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Am fwy o fanylion am y teulu a ddylanwadodd ar wleidyddiaeth Sir Gaernarfon yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif gweler Iwan Llwyd Williams, *Llwybro â Llafur at Lynllifon* (Caernarfon, 1990), hefyd BA, GLYN (Teulu), Glynllifon, sir Gaernarfon.
[151] 'Marwnad Dorothi Mostyn gwraig Siôn Gruffydd o Lyn', yn llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig, B.Add 31098, 154b. Gweler hefyd Morgan Jones, 'Gwaith Siôn Phylip i noddwyr Sir Gaernarfon', traethawd Ph.D. (Bangor, 2000), 58-63.

Wrth weled prinned pur enwi – mawl
Lle y ceir mil yn rhoddi
Duw a Mair a ’dawo i mi
Sy’n dda wrth Sion a’i Ddor’thi. [152]

Bu farw Dorothi yn 1597 a chanwyd marwnadau iddi gan Huw Pennant[153] a Siôn Phylip:

Mawredd rhodd a gwledd a gladdwyd
‘’N Llŷn – Ynn lliniaeth an haelwyd,
Gwir Dduw gair a weddiwyd
A ga byth na gwin na bwyd. [154]

Fel ei chwaer, Catrin, priododd Grace Mostyn ŵr o’r enw Wiliam Glyn, Lleuar, a chyfeirir ato fel ‘Sergeant at Law’ neu ‘Sergeant to the King’ ond prin yw’r wybodaeth amdano ac ni fu modd darganfod a fu Grace yn cynnal y traddodiad barddol fel ei theulu.[155] Mae’n hysbys bod Grace wedi priodi unwaith, os nad dwywaith yn rhagor, gyda J Y W Lloyd yn cyfeirio at Lewys Llwyd fel ail ŵr iddi, a Mostyn a Glenn yn enwi Robert Massey a Maredydd Lloyd ap John Owain fel gwŷr diweddarach iddi.[156]

Ymgartrefodd Elizabeth, merch arall i Tomas Mostyn ap Rhisiart a Siân Gruffydd, yn Iâl ar ei phriodas â Siôn Wyn, Plas yn Iâl, trefgordd Bodanwyddog, Llandegla,[157] sef mab Dafydd Llwyd ab Elisau, gyda’r teulu yn noddwyr beirdd ers cenedlaethau.[158]
Wedi marwolaeth Siôn Wyn, priododd Elizabeth eilwaith â gŵr arall o Iâl, sef Syr Ieuan Lloyd, Bodidris, gyda llinach ei deulu yn ymestyn hyd at dywysogion Powys. Roedd hefyd gysylltiad teuluol cymhleth yn bodoli rhwng Elizabeth ac Ieuan cyn eu priodas, gyda mam Ieuan – Catherine – yn ferch i Harri Salusbury Goch, Llanrhaeadr, ac felly yn rhannu yr un nain â thad Elizabeth, Tomas Mostyn (m. 1558), sef Margaret Gloddaith (m. 1532).

---

[152] Ail englyn cerdd ‘I ddiolch am bar o drwsiad i Ddoreth Mostyn of Gefnamwlch’ yn Owen Owens, ‘Gweithiau Barddonol Morus Dwyfech’, Traethawd MA Prifysgol Cymru (Bangor, 1944), 17.
[153] R L Jones, *Casgliad teipiedig o waith Huw Pennant*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Misc Vol. 247 (1976), 178-9.
[154] Llawysgrif yn y Llyfrgell Brydeinig, B.Add 31098, 154b.
[155] Aneglur yw’r cyfeiriad gan A D Carr at William Glynne, Lleuar, fel mab i Siân Griffith, Y Penrhyn, o’i hail briodas. Bu farw Siân o flaen Syr Wiliam Griffith, ac nid yw marwnadau eu merch, Siân, gweddw Tomas Mostyn, yn cyfeirio at ailbriodas; GM, 39.
[156] HP, 150; HFMM, 93.
[157] Mae rhai cyfeiriadau yn cysylltu Plas yn Iâl â Bryneglwys, megis BA: Yale. Mabwysiadodd y teulu y cyfenw Yale ac o’r teulu hwn yr hanodd Elihu Yale (1649-1721), masnachwr llwyddiannus a gysylltir â Phrifysgol Yale yn America.
[158]Un o’r beirdd i ganu ym Mhlas yn Iâl yng nghyfnod Siôn Wyn oedd Gruffudd Hiraethog. GGH, 195-97.

Yn ychwanegol, roedd tad Ieuan, sef Siôn Llwyd, yn hanner brawd i Margaret Powell, gwraig gyntaf Wiliam Mostyn.[159] Bu Syr Ieuan Lloyd yn weithgar yn wleidyddol, gan gynrychioli Sir Ddinbych yn y senedd yn 1584 ac ymgymryd â nifer o swyddi cyhoeddus yn lleol, megis ustus a siryf, a cysylltir ef â'r achos llys yn erbyn y merthyr Catholig lleol, Richard Gwyn (*c.* 1557-1584).[160] Bu llinach Bodidris yn cynnal y traddodiad barddol ers cenedlaethau a gwelir y cysylltiad â theulu Gloddaith yn cael ei gadarnhau yn y canu ymryson rhwng Gruffudd Hiraethog ac un ai Rhisiart o'r Hengaer neu Gruffudd Llwyd ab Ieuan, gyda thad Ieuan, Siôn Llwyd, yn cael ei gyhuddo mewn cerdd o ddwyn cŵn Tomas Mostyn.[161]

Parhaodd Elizabeth ac Ieuan â'r arfer o gynnig nawdd i'r beirdd ar eu haelwyd, fel y tystia Siôn Tudur:

Rhannudd wyf, a rhoi'n ddyfal,
Fawl ar wawd i filwr Iâl.
Ifan Llwyd, fu'n llaw ydych,
Ennill beirdd yw'r fan lle bych.
Mae un gair mwy nag arall
Iwch, hyddgawr coch, hawddgar, call;
A mwy'r gair am ragorion
I Elsbeth hael, oes bath hon?
Seren Mostyns a eurwyd
Sy o fewn llys Ifan Llwyd,
Ac yn helaeth gynheiliad
Ar ford hon arfer y tad. [162]

Pan fu farw gŵr Elizabeth yn Llundain yn 1586/7 ar y ffordd adref o ymgyrch filwrol yn yr Iseldiroedd, canodd o leiaf saith o feirdd farwnadau i Syr Ieuan Lloyd.[163]

Roedd Tomas ap Rhisiart wedi marw ers dros bymtheng mlynedd pan briododd un o'i ferched ieuengaf, gyda Margaret yn ddeunaw ar hugain oed yn priodi Maurice Kyffin, Maenan, ger Llanrwst yn 1575, a'i thad wedi gwneud trefniadau am ei gwaddol priodas yn

[159] Dyfynir erthygl A D Carr – 'The Mostyn Family & Estate' – yn ADSGC, 490.
[160] Ceir manylion am fywyd a gyrfa Richard Gwyn yn BA: Gwyn, Richard.
[161] GGH, 396-401.
[162] GST, I, 230.
[163] E D Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts, IV' yn *National Library of Wales Journal*,6, 1, Haf 1949, 21; hefyd http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1558-1603/member/lloyd-evan-1587.

flaenorol yn ei ewyllys.[164] Bu Maurice yn siryf Sir Gaernarfon yn 1579 a Sir Fôn yn 1585, a thra mai prin yw'r cerddi iddo, mae'r gwaith adeiladu cywrain a wnaeth ar y plasty hynafol yn Nyffryn Conwy yn 1582 wedi goroesi.[165]

Prin yw'r manylion am fywyd teuluol Wiliam Mostyn, mab hynaf Tomas ap Rhisiart (m. 1558) a Siân, ac anodd fu darganfod dyddiad marwolaeth ei wraig ond digwyddod hyn rywbryd oddeutu 1554, y flwyddyn pan fu farw William Goodman, Maer Caer, gan i Wiliam Mostyn ailbriodi â gweddw'r gŵr, Margaret Brereton, yn 1556.[166] Tra fod cefndir Cymreig gan Margaret Powell a thebygrwydd ei bod yn siarad Cymraeg, nid dyma'r achos gyda Margaret Brereton, merch cyn brif ustus Iwerddon, Syr William Brereton, oni bai bod cysylltiadau teuluol trwy ei gŵr cyntaf â llinach Goodman yn Nyffryn Clwyd.[167] Yn ogystal â'i phriodas â Wiliam Mostyn, gwelir ei merch, Ursula Goodman, yn priodi mab hynaf Wiliam, Tomas, gyda'r ddwy felly yn cael eu derbyn i aelwydydd a fyddai'n Gymraeg eu hiaith. Canwyd marwnadau i'r fam a'r ferch yn ddiweddarach ac nid yw'r beirdd yn crybwyll bod y gwragedd yn ddi-Gymraeg yn y cerddi.[168] Ni cheir marwnad i Margaret Powell ac yn ddiddorol, prin yw'r cyfeiriad at y briodas gyntaf, ac eithrio sylw Wiliam Llŷn yn ei farwnad i Wiliam:

> Dwy wraig briod a nododd
> Duw i'r hael, a lle da i rhodd:
> Un, myned cyn 'y mhennaeth
> O'i flaen ef i nef a wnaeth;
> Arall, o hâd yr ieirll hen,
> Ar ôl mesur ail Moesen.[169]

Er nad oes cerddi wedi goroesi o'r cyfnod pan oedd Wiliam Mostyn yn noddi, roedd yn sicr ynghlwm â'r diwylliant Cymraeg ac yn ganolog iawn yn un o ddigwyddiadau

---

[164] Roedd chwarter o'i ystad i fynd i Margaret, gyda'i mam yn cael y gweddill. Roedd trefniadau eraill ar gyfer gweddill y teulu; MM:1540-1642, I, 24.
[165] http://www.coflein.gov.uk/en/site/16489/details/MAENAN+HALL/.
[166] Bu farw gŵr cyntaf Margaret Brereton, William Goodman, yn 1554.
[167] Prin yw'r wybodaeth am William Goodman ond roedd teulu o'r un enw wedi ymsefydlu yn Rhuthun yn yr unfed ganrif ar bymtheg, gyda Gabriel Goodman (1528-1601) yn cael ei benodi'n Ddeon Abaty Westminster yn 1561. Am gyfraniad Gabriel Goodman i fyd addysg yn Rhuthun, gweler C. S. Knighton, 'Goodman, Gabriel (1528–1601)', *ODNB*, 2004; online edn, May 2005 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/10976, cyrchwyd 28 Mai 2013].
[168] Ceir dwy farwnad i Margaret Brereton, gan Simwnt Fychan (Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 1, 34a) a Siôn Tudur (GST, I, 103-106), ac un farwnad i'w merch, Ursula Goodman, gan Wiliam Cynwal; S Rhiannon Williams, 'Testun beirniadol o gasgliad Mostyn 111 ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa.' Traethawd MA Prifysgol Cymru (1965), 341-343.
[169] Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn', 447.

pwysicaf y traddodiad barddol yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, sef Eisteddfod Caerwys 1567.[170] Fel un a oedd wedi sefyll fel aelod seneddol tra oedd ei dad yn fyw, yn ogystal â bod yn filwr, siryf ac ustus heddwch,[171] gwelir Wiliam yn barod i weithredu yn ei gymdeithas. Enwir ef hefyd ymysg comisiynwyr ail Eisteddfod Caerwys, ac mae'n glir ei fod mewn trafodaethau cynnar ynglŷn â chynnal yr eisteddfod ac wedi cymryd rhan ganolog yn y trefniadau cyn cyhoeddi comisiwn Elizabeth I:

> that the said william mostyn hath promised to see furnyture and thinges necessary provided for that assembly.[172]

Arwyddwyd y ddogfen yng Nghaer ar 23 Hydref, yn nawfed flwyddyn teyrnasiad Elizabeth I, sef 1567.[173] Llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau ar y pryd oedd Syr Henry Sidney (1529–1586) a gyfunai'r swydd â'i ddyletswyddau fel Arglwydd Ddirpwy Iwerddon mewn cyfnod cythryblus yn hanes y wlad.[174] Dychwelodd Sidney o Iwerddon yn Hydref 1567 gan dreulio cyfnod yng Nghaer y mis hwnnw, cyfnod sy'n cyd-daro â dyddiad arwyddo'r comisiwn. Gellid tybio y byddai ef, oherwydd ei brofiad yn Iwerddon, yn bleidiol iawn i unrhyw gam i reoli anhrefn cyhoeddus ac mae pwyslais y ddogfen ar 'vagraunt and idle persons naming theim selfes mynstrelles, Rithmers, and Barthes'. Gan iddo fod yn ymgyrchu yn Iwerddon er 1565, mae'n amheus a fyddai'n gyfarwydd â sefyllfa'r gyfundrefn farddol yng Nghymru ar y pryd, oni bai bod y comisiwn wedi bod ar y gweill gan y Cyngor cyn hyn. Yng ngofal Syr William Gerard (1518–1581), y Dirpwy Lywydd, y bu gwaith y Cyngor yn absenoldeb Syr Henry Sidney, a oedd yn uchel ei barch am allu ei ddirprwy: 'I ever found him the sufficientest man both for judgement and diligence, that ever I found attend that house [the council in the marches]'.[175] Gyda Elizabeth I yn deddfu i reoli a chynorthwyo'r tlawd gyda Deddf y Tlodion yn 1563, nid

---

[170] Hyd yma, ar wahân i Rhisiart Mostyn, Bodysgallen, ni chanfyddwyd cerddi i'r brodyr eraill a oedd yn fyw yn y cyfnod hwn – Piers, Edward, Roger, Rowland a Wiliam yr ieuengaf.

[171] Bu'n ustus heddwch yn Sir y Fflint, siryf yn Sir Ddinbych (1551-2), Sir y Fflint (1560-1; 1565-6; 1570-1) a Sir Gaernarfon (1567-8); MM:1540-1642, I, 25. Bu hefyd yn aelod seneddol unwaith eto dros Sir y Fflint yn 1572. http://www.llgc.org.uk/index.php?id=291&L=1.

[172] Dyfynir yn REDW, 170-1. Mae'r ddogfen wreiddiol yn parhau yn llaw'r teulu ym Mhlas Mostyn, (gwelwyd ar ymweliad personol, Medi 2011).

[173] Bu cryn anghydweld am eiriad y comisiwn ynglŷn â blwyddyn cynnal yr eisteddfod, gyda thrafodaethau Gerallt Harries a D J Bowen o blaid ac yn erbyn blynyddoedd 1567 a 1568 yn cael eu cyhoeddi yn *Llên Cymru*, III (Ionor 1954), 24-31; *Llên Cymru*, 18 (Ionor 1955), 139-161. Gweler hefyd ADSGC, 503-17.

[174] Wallace T. MacCaffrey, 'Sidney, Sir Henry (1529–1586)', *ODNB*, 2004; online edn, Jan 2008 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/25520, cyrchwyd 28 Mai 2013]

[175] Bu'r cysylltiad o fantais pellach i William Gerard gan iddo gael ei ddyrchafu i swydd Arglwydd Ganghellor Iwerddon yn 1576, drwy ddylanwad Henry Sidney; Penry Williams, 'Gerard, Sir William (*d.* 1581)', *ODNB*, 2004; online edn, Jan 2008 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/10561, cyrchwyd 28 Mai 2013]

amhriodol fyddai trwyddedu'r beirdd a chadarnhau eu hawliau traddodiadol er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a chrwydriaid. Digwyddiad mwy pellgyrhaeddol a dylanwadol yn 1563 oedd cyflwyno deddf i gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg ac yn arwyddocaol, roedd y Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Gyffredin wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg a'u cyhoeddi erbyn 1567, blwyddyn comisiynu Eisteddfod Caerwys dan awdurdod Cyngor Cymru a'r Gororau.

Nid oes dim i gadarnhau ai trafodaethau rhwng y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd a Wiliam Mostyn a fu'n gyfrifol am gynnal Eisteddfod Caerwys 1567 ond gan mai yn enw Elizabeth I y lluniwyd y comisiwn, byddai Cyngor Cymru a'r Gororau mewn cysylltiad â'r frenhines cyn cyhoeddi'r ddogfen. Er bod Deddfau Uno 1536 a 1543 Harri VIII wedi sefydlu trefn newydd o weinyddu yng Nghymru ar batrwm Lloegr, mae awgrym bod buddiannau Cymru yn dal sylw y frenhines Elizabeth. Un o ferched mwyaf dylanwadol y llys oedd yr uchelwraig Blanche Parry (1507/08-1590), Prif Foneddiges Siambr Gyfrin y Frenhines Elizabeth a Cheidwad Tlysau'r Frenhines,[176] ac mae gwaith ymchwil Ruth Elizabeth Richardson yn datgelu'r berthynas agos a fu rhwng y ddwy, ac mae'n anorfod y byddai'r ddwy wedi trafod y deddfau Cymreig. Ganwyd Blanche Parry yng Nghwrtnewydd (Newcourt), Bacton, sir Henffordd, ac roedd traddodiad o noddi'r beirdd yn perthyn i'r teulu. Roedd ei nain yn hanu o deulu Stradling, y noddwyr o Sain Dunawd, Morgannwg, a bu Guto'r Glyn yn canu i Harri Ddu ap Gruffudd, hen daid Blanche.[177] Bu Blanche Parry yn gofalu am Elizabeth ers babandod y dywysoges, tan o leiaf 1587, gan farw oddeutu 82 oed yn 1590. Nodir gan David Powel yn 1584 yn ei gyfrol *The Historie of Cambria*, bod Blanche Parry yn 'a singular well willer and furtherer of the weale publike of Wales' [178] ac fe fyddai comisiwn Eisteddfod Caerwys wedi dod i sylw Blanche yn rhinwedd ei swydd.[179] Fel gyda'r ddeddf i gyfieithu'r Beibl, byddai comisiwn Eisteddfod Caerwys 1567 yn sicr o fod wedi cael ei drafod gan Elizabeth I a Blanche Parry ym mhreifatrwydd ystafelloedd y frenhines ac ni ellir mesur dylanwad y Brif Foneddiges ar lenyddiaeth y Cymry. Er hwylustod, rhoddir copi llawn o'r comisiwn yma:

---

[176] www.blancheparry.co.uk; hefyd BA: Parry, ('Ap Harry', 'a Parry', 'Apparey', a ffurfiau eraill), BLANCH(E).

[177] Canfyddwyd naw cerdd yn perthyn i linach Blanche Parry. Gweler www.blancheparry.co.uk am fwy o fanylion am y cerddi ac am erthyglau Ruth Elizabeth Richardson.

[178] Dyfynir gan Ruth Elizabeth Richardson ar www.blancheparry,co.uk.

[179] Cofnodir Harry ap Harry fel un o gomisiynwyr yr eisteddfod ond ni cheir mwy o fanylion amdano ac ni bu modd darganfod a oedd cysylltiad teuluol â Blanche Parry.

By the Quene.

Elizabeth by the grace of god, of England ffraunce and Ireland Quene defendour of the fayth &c. To our trustie and right welbeloved Sir Richard Bulkley knight, Sir Rees Gruffith knight, Ellice Price Esquiour doctour in Cyvill Lawe, and one of our Counsaill in our marches of wales william mostyn, Ieuan lloyd of Yale, John Salusbury of Ruge, Rees Tomas, Maurice wynne, wiliam Lewis, Peres mostyn, Owen John ap houell vaughan, John william ap John, John Lewis owen, moris gruffyth, Symound Theloall, John Gruffyth, Ellice ap william lloyd, Robert Puleston, harry aparry, william Glynne, and Rees hughes Esquiours and to euery of them, Greating

Wheras it is come to the knowledge of the Lorde President and other our said Cunsaill in our marches of wales that vagraunt and idle persons naming theim selfes mynstrelles, Rithmers, and Barthes, are lately growen into such an intollerable multitude within the principalitee of north wales, that not only gentlemen and other by theire shameles disorders are oftentymes disquieted n theire habitacions/ But also thexpert mynstreles and musicions in tonge and Connyng therby much discouraged to travail in thexercise and practize of theire knowledges and also not a litle hyndred in theire Lyvinges and prefermentes The refourmacion wherof and the putting of these people in order the said Lorde President and Counsaill have thought verey necessarye and knowing you to be men both of wysdome and vpright dealing and also of Experience and good Knowledg in the scyence/ have apounted and aucthorized you to be Commissyores for that purpose/ And forasmuch as our said Counsaill of late travayling in some parte of the said principalite had perfect vnderstanding by credible report that thaccustomed place for thexecucion of the like Commissyon/ hath bene heretofore at Cayroes in our Countie of fflynt, and that william mostyn Esquiour and his auncestors have had the gyfte and bestowing of the sylver harpe appertayning to the Cheff of that facultie/ and that a yeares warning at the least hath bene acustomed to be geaven of thassembly/ and execucion of the like Commissyon Our said Counsaill have therefore apoynted thexecucion of this Commissyon to be at the said towne of Cayroes the monday next after the feast of the blessed Trynitee which shalbe in the yeare of our Lorde God/ 1568.

And therfore we require and commaund you by the aucthoritee of these presentes not only to cause open proclamacions to be made in all ffayours, markettes, Townes, and other places of assembly within our Counties of Anglizey, Carnarvon, meryonneth, denbigh and fflynt/ that all and euery person and persons, that entend to maynteigne theire lyvinges by name or Colour of mynstrelles, Rithmers, or Barthes, within the Talaith of Aberfrowe, comprehending the said fyve Shires, shalbe and appeare before you the said daye and place to shewe furth their learnings accordingly/ But also that you xx^{tie} xix^{en} xviij^{en} xvij^{en} xvj^{en} xv^{en} xiiij^{en} xiij^{en} xij^{e} xj^{n} x^{en} ix viij vij or vj of you, wherof youe Sir Richard Bulkley, Sir Rees Gruffith, Ellice Price, and william mostyn Esquiours or iij^{ee} or ij^{o} of you to be of the nomber to repayre to the said place the daye aforsaid/ And calling to you such expert men in the said facultie of the welshe musick. as to you shall be thought convenient to proceade to thexecucion of the premisses and to admytt such and so many as by your wisdomes and Knowledges you shall fynde worthy into/ and vnder the degrees, heretofore in semblable sort to vse exercise or folowe the seyences

> and facultes of theire professyons in such decent order as shall appertaigne to eche of theire degrees/ and as your discrecions and wisdomes shall prescribe vnto theim geaving straight monycion and comandment in our name, and on our behalf to the rest not worthy that they returne to some honest Labour and due Exercise, such as they be most apte vnto for mayntenaunce of theire lyvines vpon paine to be taken as sturdy and idle vacaboundes and to be vsed according to the Lawes and Statutes provided in that behalf/ Letting you wytt our said Counsaill looke for advertisement by due certificatt at your handes of your doinges in thexecucion of the said premisses forseeing in any wise that vpon the said assembly the peas and good order be observed and kept accordingly ascertayning you that the said william mostyn hath promised to see furnyture and thinges necessary provided for that assembly at the place aforsaid Yeven vnder our Signet at our Citie of Chester the xxiijth of October the nynth yeare of our Raigne/
>
> Signed her highnes Counsaill
> in the marches of wales.[180]

Mewn copïau Cymraeg o'r comisiwn, deuddeg gŵr a enwir ym mhob llawysgrif, a'r deuddeg enw hyn a nodir ar drwydded Simwnt Fychan:

> 'Elis Prys ysgwier Doctor o Gyfraith Syfyl ac vn o gynghoriaid Gras y vrenhines ym marches Cymru. Wiliam Mostyn. Pyrs Mostyn. Owain ap Sion ap Howel Fychan. Sion ap Wiliam ap Sion. Sion Lewys Ywain. Morys Gruffudd. Simwnt Thelwal. Sion Gruffydd Sersiant. Robert Pilstwn. Ieuan llwyd o Ial a Wiliam Glynn ysgwieriaid.'[181]

Mae'r dewis o gomisiynwyr ar gyfer Eisteddfod Caerwys 1567 yn ddiddorol gan fod gan ganran uchel ohonynt gysylltiadau teuluol uniongyrchol â Wiliam Mostyn.[182] Un o nodweddion cyffredin y gwŷr hyn yn ogystal oedd bod nifer fawr ohonynt wedi sefyll yn flaenorol fel aelodau seneddol, gyda rhai hefyd yn 'canu ar eu bwyd eu hunain'.[183] Fel gydag eisteddfod 1523, fe ellir galw eisteddfod 1567 yn ddigwyddiad teuluol, gyda Wiliam Mostyn yn gymeriad canolog i'r digwyddiad. O ystyried bod dau ewythr iddo yn gomisiynwr, Syr Rhys Gruffydd, y Penrhyn, a Pyrs Mostyn, Talacre, ceir hefyd dad yng nghyfraith i'w ferch, Grace (Morus Gruffydd), tri brawd yng nghyfraith (Ieuan Lloyd,

---

[180] Dyfynir yn REDW, 170-1. Mae'r ddogfen wreiddiol yn parhau yn llaw'r teulu ym Mhlas Mostyn (gwelwyd ar ymweliad personol, Medi 2011).

[181] Mae erthygl Enid Roberts yn cyfeirio'n fanwl at gefndir y comisiynwyr hyn; Enid Roberts, 'Eisteddfod Caerwys, 1567' yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* Cyfrol 16 (1967), 36. Hefyd ADSGC, 481.

[182] Mae'r cysylltiad teuluol yn fwy amlwg pan ystyrir nad yw noddwyr amlwg eraill Sir y Fflint yn yr un cyfnod yn ymddangos ar y rhestr, megis y Conwyaid a'r Hameriaid; gweler TMNB, 74-110. Am fwy o fanylion am y noddwyr, gweler ADSGC, 485-503.

[183] Ceir manylion am y gwŷr a fu'n aelodau seneddol ar wefan y senedd – http://www.historyofparliamentonline.org/.

Bodidris, John Griffith, Cefnamwlch[184] a William Glyn, Glynllifon), a rhaid ystyried bod gan Wiliam Mostyn ran allweddol yn eu dewis, gyda pherthynas waed hefyd yn clymu comisiynwyr eraill yr eisteddfod. [185] Gwelir hefyd ei fod yn gyfrifol am ddarparu dodrefn a gofynion ymarferol eraill – cadeiriau, byrddau, bwyd a diod – yn ogystal â thlws arian ar lun telyn yn ôl traddodiad hynafol y teulu yn eisteddfod Caerwys 1523 – 'william mostyn Esquiour and his auncestors have had the gyfte and bestowing of the sylver harpe appertayning to the Cheff of that facultie' – ond sylwer nad oes cyfeiriad at noddwyr na thlysau i'r prif gystadlaethau eraill.[186] Tybed a gafodd Wiliam Mostyn y cyfrifoldeb am lunio geiriad y comisiwn hefyd?

Gwelir bod y comisiynwyr yn cynrychioli haen o uchelwyr a fanteisiodd ar y swyddi gweinyddol a gwleidyddol a ddatblygodd yn sgil y Deddfau Uno – megis aelodau seneddol, ustusiaid, siryfion – ond gwelir eu bod hefyd yn parhau i gefnogi'r traddodiad barddol, drwy noddi a meithrin y grefft.[187]

Ceir yr unig enghraifft o Wiliam Mostyn yn barddoni mewn cyfres o englynion ymryson ynglŷn â graddio crythor Syr Rhys Gruffydd sy'n awgrymu nad oedd Syr Rhys yn yr eisteddfod:

Greddiwch a gyrwch i gario ffidl
A ffeidiwch ai dditio
Mewn kysvr nid mwyn keisio
I radd fyth fel yr oedd fo.
Syr grvffydd

[184] Ni ellir bod yn gwbl sicr mai brawd yng nghyfraith Wiliam Mostyn oedd y John Griffith a enwir ond gan bod dau frawd yng nghyfraith arall wedi eu cynnwys, gydag un ohonynt yn byw ym Mhen Llŷn fel y gwnâi gŵr Dorothy Mostyn, ni fyddai yn annisgwyl i aelod arall o'r teulu gael ei gynnwys fel comisiynydd. Mae Enid Roberts yn awgrymu mai gŵr o Llwynyglyniau, neu Plas-yng-Nghaerwys, Caerwys, oedd Siôn Gruffydd, a oedd yn briod â chyfnither i Ieuan Lloyd, Bodidris, sef Gwenhwyfar, merch i Dafydd Llwyd ap Tudur Llwyd, Iâl. Roberts, 'Eisteddfod Caerwys, 1567', 42- 44.

[185] Un enghraifft o hyn yw Simon Thelwall, drwy fod yn frawd yng nghyfraith i Syr Rhys Gruffydd a John Salesbury, Rug. Hefyd Richard Bulkeley a William Lewis, y ddau yn wyrion i Syr Wiliam Gruffydd, Y Penrhyn (tad Syr Rhys Gruffydd). Cofier bod Wiliam Mostyn hefyd yn ŵyr i Syr William Gruffydd. http://www.historyofparliamentonline.org/

[186] Yn y petisiwn am eisteddfod yn 1594, rhestrir gwobrwyon draddodiadol yr eisteddfodau: "for poetrie the sylver chayre, for harpeing the silver harpe, for Crowthinge the silver Crowth, & for the atcane or singing the silver tonge." Dyfynir o Gwenogvryn Evans *Report of Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission, vol i, pp 293-295, yn E Alfred Jones (gol.), *Memorials of Old North Wales* (Llundain , 1913), 111.

[187] Bu o leiaf deg o'r comisiynwyr yn aelodau seneddol cyn yr eisteddfod ac eraill yn ddiweddarach; mae cerddi ar gael gan Rhys Griffith, Wiliam Mostyn, Pyrs Mostyn, Simon Thelwall a William Glyn, a dichon bod rhai o'r comisiynwyr eraill hefyd yn barddoni.

Ni allai Wiliam Mostyn na Simon Thelwall gyflawni cais Rhys Gruffydd, gyda'r eglurhad yn mynd yn fwy pendant fel â'r ymryson ymlaen:

Owain law arwddrain a las wrth holi
Ai grwth helig diflas
Yw efel front ai wefl fras
Am vnradd y mae anras.
Wili mosvn

Yn dditiwr rhodiwr y rhwydo y bydd
Megis baedd ar bendro
E dditiwr wyneb llwyd llo
E dditir ryw ddydd et[o].
Simwnt thelwal[188]

Ymysg y noddwyr na chawsant wahoddiad i weithredu fel comisiynwyr yn Eisteddfod Caerwys 1567 yr oedd brawd Wiliam Mostyn, Rhisiart Mostyn, Bodysgallen, gŵr y cyflwynodd Gruffudd Hiraethog ei gyfrol, *Lloegr Drigiant Ddifyrwch Brytanaidd Gymro,* iddo. Mae'n hysbys o'r cyflwyniad fod Rhisiart Mostyn wedi treulio cyfnod y tu allan i Gymru, ond prin yw'r wybodaeth am y cyfnod hwn na'r hyd y bu oddi cartref. Fodd bynnag, roedd ganddo gryn ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg, gan gasglu a llunio cyfrolau yn ei law ei hun o farddoniaeth a rhyddiaith. Mae llawysgrif Mostyn 129 yn llaw Rhisiart ac yn cofnodi'r flwyddyn 1574. Roedd felly ar ei aelwyd ym Modysgallen erbyn hyn. Ond efallai mai'r drwgdeimlad rhwng Wiliam Mostyn a'i frawd oedd y rheswm pam na welir enw Rhisiart Mostyn ar gomisiwm Eisteddfod Caerwys. Oherwydd anghydfod am brydles ar dir yng Ngogarth, Llandudno, 'an unkindness grue' rhwng y ddau frawd a arweiniodd at achos llys gerbron Cyngor Cymru a'r Gororau.[189] Os bu drwgdeimlad rhwng y ddau o'r cyfnod y daeth y brydles i law Rhisiart yn 1558, hyd at ddyfarniad y Cyngor yn 1573, prin y byddent wedi cymodi i fynychu Eisteddfod Caerwys yn gyfeillion.

Ceir cywydd gofyn gan Gruffudd Hiraethog ar ran Rhisiart ynghyd â'r englyn yn *Lloegr Drigiant Ddifyrwch Brytanaidd*:

Einioes teiroes caterwen
Ac urddas i'm rhagorddyn;
At y Mastr Rhisiart Mostyn
Y rhoer y Cymraeglyfr hwn. [190]

[188] Dyfynir yr ymryson gan Gerallt Harris, 'Ail Eisteddfod Caerwys' yn *Llên Cymru*, I (1954), 29-30.
[189] GM, 39-42.
[190] GGH, 440.

Ceir hefyd gywyddau gan Siôn Tudur a Siôn Rhosier am sbectol Rhisiart Mostyn, cerddi a fu'n boblogaidd iawn gan y copïwyr:

Mae gŵr mwyn ar gwr maenol
Llew o râs a llu ar ei ôl,
A'i henw a fydd hynod,
Gŵr o'i fath, gore ei fod,
Master Richard Mostyn,
Da i ged, a luniodd Duw gwyn. [191]

Os oedd gwaed drwg rhwng Rhisiart Mostyn a'i frawd, Wiliam, roedd y beirdd yn ganmolaethus iawn yn ôl y traddodiad arferol pan fu farw Wiliam yn 1576 gyda Wiliam Llŷn,[192] Simwnt Fychan,[193] Siôn Tudur[194] a Wiliam Cynwal[195] yn ei farwnadu. [196] Ni roddir unrhyw sylw amlwg i ran Wiliam Mostyn yn Eisteddfod Caerwys yn y marwnadau a rhaid ystyried a ddylid pwyllo wrth ddehongli ei ran yn y digwyddiad. Un o weithgareddau mwyaf gweladwy Wiliam sydd wedi goroesi ym Mhlas Mostyn yw y Porth Mawr, adeilad sylweddol a rhan gyntaf ei gynllun i ehangu'r plas yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn sefyll ar wahân i'r plasty (bu farw Wiliam cyn iddo gwblhau'r gwaith o uno'r ddau adeilad) mae un trawst pren yn y porth yn nodi blwyddyn y gwaith – 'Anno Mundi 1555 W.M. 1570'.[197] Er nad oes cerdd yn clodfori'r adeilad, cyfeirir ato ym marwnad Simwnt Fychan.

Dechreuodd, growndwalodd dŷ,
Dibrin dechreuad obry;
Iesu Fab, na chawsai fo
Einioes i'w orffen yno. [198]

Er bod y bardd yn obeithiol y byddai'r tŷ yn cael ei gwblhau gan fab hynaf Wiliam – 'Aer Wiliam mewn aur eiliad, / A orffen fry dŷ ei dad' – nid felly y bu, gyda'r gwaith adeiladu

[191] Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor, Ba 5944,10. Cerdd Siôn Tudur – Llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig, B.Add 14888, 72b.
[192] Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn', 446-8.
[193] Llawysgrif Llansteffan 49, 23.
[194] GST, I, 86-90 a 91-95. Ceir dwy farwnad i Wiliam Mostyn gan Siôn Tudur.
[195] R L Jones, 'Astudiaeth destunol o awdlau, cywyddau ac englynion gan Wiliam Cynwal', 663-7.
[196] Cafodd ei gladdu yn Eglwys Chwitffordd, heb fod nepell o Blas Mostyn, fel ei dad.
[197] Gwelwyd ar ymweliad personol â Phlas Mostyn, trwy garedigrwydd Arglwydd Mostyn. Ceir manylion am yr adeilad ar Coflein – http://www.coflein.gov.uk/pdf/CPG101/ – a thrafodir y gwaith adeiladu yn MM:1540-1642, I, 31.
[198] Dyfynir llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, Mostyn 145, 426, yn TMNB, 86.

diweddarach yn canolbwyntio ar gynlluniau eraill i ehangu'r plasty, a gadael y Porth Mawr ar wahân i'r prif adeilad.

Bu farw Wiliam pan oedd oddeutu pum deg ac wyth oed, yng nghanol tymor fel aelod seneddol dros Sir y Fflint. Yn ogystal â'i wraig, dau fab a thair merch (enwir Tomas, Sion, Harri, Catrin a Gras yn y marwnadau), roedd teulu estynedig Wiliam hefyd yn hiraethu ar ei ôl:

Di-rym wyf, du oer yw 'myd,
Di-ddim yw dyddiau 'mywyd
Rhwyddlwybr ydoedd, a rhyddlys,
I'w gâr tlad i'w gwrt a'i lys.
Trist yw'r cri tros daear cred,
Troes mawrgwyn Meistres Marged.
Gofal aeth, gwae fil o wŷr,
Gwae chwiorydd gwych eryr.
Ewythredd, modrabedd draw,
Ar ei ôl a ŵyr wylaw.
Brodyr a chefndyr i'ch oes,
Ceraint a neiaint nawoes
Oer yw'r farn ar ei wŷr fu,
A'i denantiaid yn untu.
Pum cenedl, pam y'i cwynwn?
Pam y llas oll pum llys hwn? [199]

Er mai Saesnes oedd Margaret Brereton, ail wraig Wiliam Mostyn, cafodd ei marwnadu gan Simwnt Fychan[200] a Siôn Tudur yn yr arddull draddodiadol, gyda'r beirdd yn cofnodi ei hachau, ei haelioni a'i theulu, sef plant Margaret Powell a Wiliam yn ogystal â'i merch o'i phriodas gyntaf â William Goodman, sef Ursula.

Plas Wiliam, plannwyd haelion,
Plant yng nghyfraith hywaith hon,
Ni wybuon' i'w bywyd
Na bai eu mam yn y byd. [201]

[199] GST, I, 88. Yn yr un gyfrol (tudalennau 91-95), ceir hefyd ail farwnad i Wiliam Mostyn gan Siôn Tudur, sydd yn fwy anarferol gan mai cyfeillion Wiliam a enwir ac nid ei deulu. Am fanylion am y cyswllt rhwng Wiliam â'r gwŷr hyn, gweler erthygl MM:1540-1642, I, 33.
[200] Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor, Ba(Mostyn) 1, 34a. Cyfrol o gerddi ar achlysur priodas ŵyr Margaret Brereton, Rosier Mostyn, yn 1596 â Mari Gwyn, Gwydir, gyda'r farwnad wedi ei hychwanegu ar y diwedd, ynghyd â'r farwnad (hefyd gan Simwnt Fychan) i Ursula Goodman, merch Margaret a mam Rosier.
[201] GST, I, 105.

Chwaraeodd Margaret Brereton ran ganolog ym mywyd y teulu, a byddai priodas ei merch gyda mab hynaf Wiliam, Tomas, wedi sicrhau hyn ymhellach. Bu farw Ursula yn 1578, ac mae marwnad ei mam yn 1594 yn cynnwys manylion am blant Tomas ac Ursula, gan gynnwys priodasau y merched, manylion na ellid fod wedi eu cofnodi ym marwnad eu mam.[202]

Deufab sydd well na dwyfil,
Dwy ferch hon da fawrych hil,
Mastr Rosier, ysgwier gwyn,
A Master Tomas Mostyn.
Y ferch hynaf, fry chwaneg,
I'w rhan doeth y Penrhyn deg.
Yr ail i ddwyn rheolaeth,
Henw mawr iawn, i Hanmer aeth.
Eurer cainc ir o'r wraig hon,
Oes a hiroes i'w hwyrion.
Yn ei stad onest ydoedd,
Ys da nain ym Mostyn oedd. [203]

Tomas Mostyn (*c* 1535- 1618)

Wiliam Mostyn = [1.] Margaret Powell
│ [2.] Margaret Brereton = William Goodman
│ │ Pyrs Mostyn = Elen Gruffydd
Tomas Mostyn = [1.] **Ursula Goodman** │
[2.] **Catrin Gruffydd**, née Mostyn

Ganwyd Tomas Mostyn oddeutu 1535, yn fab hynaf i Wiliam Mostyn a'i wraig gyntaf, Margaret Powell, ac er bod Wiliam Llŷn yn ei gyfarch fel 'Meistr Tomas gloywlas ei gledd, / Milwr gwyn Maelor, Gwynedd' ym marwnad ei dad, Wiliam Mostyn,[204] nid oes cyfeiriad at yrfa fel milwr mewn cerddi diweddarach.[205] Priododd Tomas â merch ei lys-fam, Margaret Brereton, sef Ursula Goodman, oddeutu 1557, yn fuan wedi priodas eu

[202] Ailbriododd Tomas Mostyn yn 1582 â Catrin Mostyn, Talacre, gweddw Syr Rhys Gruffydd, y Penrhyn.
[203] GST, I, 105. Enwir William, y mab hynaf, ym marwnad Ursula, ei fam, ond roedd wedi marw erbyn 1594.
[204] Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn', 448.
[205] Mae Mostyn a Glenn yn cofnodi bywyd milwrol iddo – 'choosing his father's profession was trained to arms' – gan gyfeirio at farwnad Wiliam Llŷn ond nid yw'n hysbys a oedd ganddynt ffynhonnell arall i gadarnhau hyn; HFMM, 99.

rhieni,[206] a ganwyd tri mab a dwy ferch iddynt, Wiliam, Rosier, Tomas, Margaret a Catrin.[207] Bu farw y cyntafanedig, Wiliam, rywdro rhwng 1578 a 1594 pan oedd yn ei ugeiniau[208] ac er na fu modd darganfod marwnad iddo, mae Wiliam Cynwal yn cyfeirio ato ym marwnad ei fam:

> Wiliam, hil am wehelyth,
> Oes dyn o'i barch? – Mostyn byth,
> Gorau aer fyth, geirwir farn,
> Mur gwydr, yng Nghymru gadarn. [209]

Bu farw Ursula Goodman yn 1578 – 'Rhy gynnar, i rai gweinion, / Law oer i'w hil, yr âi hon' (Wiliam Cynwal)[210] – ac ailbriododd Tomas ymhen pedair blynedd â Catrin Mostyn, gweddw Syr Rhys Gruffydd, y Penrhyn (un o gomisiynwyr Eisteddfod Caerwys 1567) a merch Pyrs Mostyn, Talacre, sef ei hen-ewyrth (a chomisiynydd arall yn Eisteddfod 1576).[211] Yn wahanol i linach Mostyn (a Gloddaith), parhaodd Mostyniaid Talacre i addoli yn nhrefn yr Hen Ffydd ac mae'n annhebygol y byddai Catrin Mostyn wedi newid ei daliadau crefyddol ar ei phriodas ag aelod o linach Mostyniaid Mostyn. Gyda'r Creuddyn[212] hefyd yn gadarnle i Babyddion, nid annisgwyl yw gweld Tomas Mostyn, fel yr ustus lleol, yn ysgafn ei law wrth erlyn ei gymdogion. Mewn ogof ar dir y Creuddyn, yn ôl traddodiad, yr argraffwyd y llyfr Cymraeg gyntaf, sef *Y Drych Cristianogawl*, ddiwedd 1586 a dechrau 1587[213] a chafodd Tomas Mostyn ei feirniadu am fethu â dal dwsin o offeiriaid arfog mewn ogof ar y Creuddyn yn 1587.[214]

---

[206] Roedd hon yn ail briodas i Wiliam Mostyn ac i Margaret Brereton, gweddw William Goodman, maer Caer.

[207] Roedd trefniant yn y cytundeb priodas i Ursula briodi brawd arall, John Mostyn, pe byddai Tomas farw cyn cyflawni'r uniad; A D Carr, 'The Mostyns of Mostyn, 1540-1642' II, *Flintshire Historical Society Journal*, 30 (1981-82), 128.

[208] Cyfeirir ato fel yr aer ym marwnad ei fam, Ursula, ond roedd wedi marw pan ganwyd marwnad ei nain, Margaret Brereton, yn 1594. Mae A D Carr yn awgrymu mai oddeutu 1586 y bu farw; MM:1540-1642, II, 128.

[209] S Rhiannon Williams, 'Testun beirniadol o gasgliad llawysgrif Mostyn 111, ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa.', 342. Ar ddechrau'r gerdd yn llawysgrif Mostyn 111, mae darlun o arfbais William Goodman, tad Ursula, wedi ei gynnwys yn llaw Wiliam Cynwal.

[210] S Rhiannon Williams, 'Testun beirniadol o gasgliad llawysgrif Mostyn 111, ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa.', 341-343. Cafodd y gerdd ei chynnwys ar ddiwedd y gyfrol a luniwyd o'r cerddi i'w mab, Rosier, ar achlysur ei briodas â Mari Gwyn, Gwydir, yn 1596, sef Llawysgrif Mostyn 1, 38a, a geir yn Archifdy Prifysgol Bangor.

[211] Roedd Catrin yn drydedd wraig i Rhys Gruffydd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1509-1558/member/gruffydd-sir-rhys-1513-80

[212] Cwmwd ar benrhyn Llandudno.

[213] Mae awgrym mai ymgais i dwyllo'r awdurdodau oedd manylion y clawr, sy'n nodi Milan 1585, ynghyd â manylion Lladin. Gweler adnodd y Llyfrgell Genedlaethol, Y Drych Digidol: http://www.llgc.org.uk/index.php?id=291&L=1. Hefyd R Geraint Gruffydd, 'Gwasg Ddirgel yr Ogof yn Rhiwledyn', *Journal of theWelsh Bibliographical Societ*, Cyfrol 9, Rhif 1 (1958), 1-23.

Mae'r cywyddau a'r awdlau mawl i Tomas yn dyddio o'r cyfnod wedi 1582, sef y flwyddyn y bu i Tomas a Catrin briodi, ond gan fod marwnad i Ursula, fe ellid disgwyl bod Tomas yn noddi yn gynharach na'r dyddiad hwn. Mae'r cerddi yn cyfeirio at ei ddyletswyddau yn siroedd Môn, Caernarfon a Fflint fel siryf, ustus, *custos rotulorum* a lefftenant, swyddi a ddaliodd o 1574 ymlaen, ac aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau. Digwyddiad a wnaeth gryn argraff ar y beirdd oedd ymweliad Iarll Essex a'i luoedd â chartref Tomas Mostyn yn 1599, gyda'r achlysur yn cael ei gofnodi yn y mwyafrif o'r cerddi i Tomas wedi'r dyddiad hwn.[215] Dyma'r cyfnod y cafodd Tomas Mostyn ei urddo gan Robert Devereux, Iarll Essex, am ei gymwynas i luoedd Elizabeth I trwy eu lletya ar y siwrne i Iwerddon.[216] Nid ei leoliad hwylus oedd yr unig nodwedd ddefnyddiol i Essex mae'n debyg, gan yr ystyrir Tomas Mostyn ymysg y tirfeddianwyr mwyaf cyfoethog yn sir y Fflint yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, gyda dim ond John Hanmer yn fwy cyfoethog nag ef mewn rhestr o 160 o uchelwyr.[217] Yng ngeiriau Huw Roberts:

Iarll Essex, siwr ei wryd,
A'r llu gwych a'r Ieirll eu gyd,
Cadw o Arglwyddi cedyrn,
Enwogion Farchogion chwyrn
A gwŷr iriadd goreu-ryw
A fu'n dy lys ysbys yw.
Mil chwechant rwydd ond blwyddyn
Oedd oed Iesu gu Dduw gwyn,
Y bu'r carw bie'r cariad
Yn dy lys, enaid y wlad.
Pa enw? Neu pwy o Wynedd
Fyth i lu a 'nai fath wledd?
Ifor ydwyd o freuder
A mwy ei glod ym myw y glêr. [218]

---

[214] Bu Tomas Mostyn yn fwy gweithredol wedi hyn, gan erlyn William Davies, yr offeiriad a gafodd ei ddienyddio ym Miwmares yn 1592; GM, 45-46.

[215] Gwelir Huw Machno yn cyfeirio at y Brenin Siams (a ddaeth i'r orsedd yn 1603) yn ei awdl i Tomas Mostyn, felly ni ellir cysylltu'r cerddi'n benodol ag achlysur i ddathlu'r urddiad. Daniel Lynn James, 'Bywyd a gwaith Huw Machno', Traethawd M A Prifysgol Cymru (1960), Cerdd XIV. Ceir y gwreiddol yn Llawysgrif Mostyn 96, 312 (gyda chopïau ffacsimili y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 3027E, ac Archifdy Prifysgol Bangor, Mostyn 9081.)

[216] MM:1540-1642, II, 126. Daw'r awgrym bod Tomas Mostyn wedi ymgyrchu yn Iwerddon gydag Essex o wefan swyddogol y senedd – http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1558-1603/member/mostyn-Thomas-1543-1618 – ond yn ddiddorol nid yw'r Arglwydd Mostyn a T A Glenn yn cyfeirio at achos yr urddiad. Mae A D Carr yn nodi bod nifer o feibion teuluoedd Mostyn yn ymgyrchu yn Iwerddon ar ran Elizabeth I, ond gan fod nifer o ganghennau'r teulu feibion o'r un enwau, nid yw'n hawdd gwahaniaethu rhyngddynt. Yn fwy dadlennol, nid yw'r cerddi yn cyfeirio at bresenoldeb Tomas Mostyn yn Iwerddon yn 1599 nac ar unrhyw achlysur arall. Dyfynir llythyrau Iarll Essex i'r Cyfrin Gyngor pan oedd yn lletya ym Mostyn a Biwmares gan Enid Roberts. Gweler HFMM, 99-112; MM:1540-1642, I, 36; GST, II, 103.

[217] MM:1540-1642, II, 126.

[218] Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor – Ba 5946, 125.

Roedd Tomas yr un mor barod ei haelioni i'r beirdd a'r rhai anghenus yn ôl sylw Siôn Tudur –'Bu roi i bawb aur a bwyd'[219] – a thra bod hyn yn rhinwedd gyffredin i'w gynnwys mewn cerdd, nid oes lle i amau ei ddiffuantrwydd. Gyda chywydd Wiliam Cynwal fodd bynnag, ceir cyfeiriad unigryw at nawdd Tomas Mostyn a'i hynafiaid i'r traddodiad barddol yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Os ariandlws, aur andler,
Am ddal y claim a ddyl clêr,
Yma i ti, mae'n amod hyn,
A rhyw'r dalaith, rhoi'r delyn. [220]

Canodd saith o feirdd ar aelwyd Tomas Mostyn yn ystod ei oes – Syr Huw Roberts,[221] Siôn Mawddwy,[222] Siôn Tudur,[223] Wiliam Cynwal,[224] Huw Machno,[225] Rhys Cain,[226] ac Owain Gwynedd[227] – gyda phob un yn cyfeirio at haelioni a charedigrwydd Tomas Mostyn a'i ail wraig, Catrin Mostyn. Meddai Rhys Cain:

A rhoed ar dy fraich ŵr dewr di frad,
Arglwyddes deg orau i gwledd a'i stad,
O adail carw call dal aerau i cad,
Olwen o Byrs hael lan barhaus had.
Y Dâm Katrin llin penllad parch cyfan,
Aeth ag enw glan o wyth ugain gwlad. [228]

Pan briododd Tomas Mostyn â Catrin Mostyn, merch ei hen-ewythr o Dalacre a gweddw Syr Rhys Gruffydd, Y Penrhyn, yn 1582, roedd yn ailbriodas i'r ddau ac ynghlwm wrth y cytundeb priodasol roedd trefniant i fab hynaf Catrin ac aer Syr Rhys, Piers, briodi merch hynaf Tomas, sef Margaret.[229] Er mai darlun o hapusrwydd a gyflea'r beirdd o aelwyd

[219] GST, I, 97.
[220] R L Jones, 'Astudiaeth destunol o awdlau, cywyddau, ac englynion, gan Wiliam Cynwal', 182.
[221] Englyn i oriawr Tomas Mostyn - Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, Mostyn 131, 757; Cywydd gofyn am darw – llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor, Ba 5946.
[222] Awdl – llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor, Ba (M) 12, 6.
[223] Awdl a chywydd – GST, I, 96-102, 111-4.
[224] Cywydd – R L Jones, 'Astudiaeth destunol o awdlau, cywyddau ac englynion gan Wiliam Cynwal', 180-183.
[225] Awdl – llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor – Ba (M) 12, 4a.
[226] Awdl – llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig – B.Add. 14975, 314a.
[227] Cywydd – D Roy Saer 'Testun beirniadol o waith Owain Gwynedd ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa.' Traethawd MA Prifysgol Cymru (1961), 175-178.
[228] Llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig – B.Add 14975, 314a.
[229] GM, 46. Ni fu plant o briodas Tomas a Catrin.

Tomas a Catrin – 'Yn eich plas solas y sydd, / Llyna lle mae'r llawenydd [230] – mae A D Carr yn nodi nad oedd y briodas yn un hapus yn ddiweddarch ac i'r ddau wahanu, Tomas i fyw ym Mostyn a Catrin yng Ngloddaith.[231] Bu Piers Gruffydd yn ddraenen yn ystlys Tomas, er mai pedair ar ddeg oed oedd pan ailbriododd Catrin, ei fam, gyda'i helyntion mor drafferthus i Tomas 'so that he can scarce take tyme to eate his meat quietlye'.[232] Ymysg y pryderon am Piers yr oedd ei weithgareddau ar y môr, fel morwr (os nad môr-leidr) a'r modd y collodd ystad hynafol y teulu oherwydd dyledion. Os cafodd fywyd lliwgar – mae cofnod ohono yn dod â llong Sbaenaidd a ysbeiliodd ar hyd Afon Menai i Aber Cegin gyda llwyth o olew, sidan ac olewydd yn 1600 – bu'r ystad yn destun sawl anghydfod ynglŷn â'i pherchnogaeth, a threuliodd Piers flynyddoedd olaf ei fywyd yn Llundain mewn amgylchiadau anodd. Gyda merch Tomas Mostyn, Margaret, yn wraig i'r anturiaethwr, byddai ei thad yn gyfarwydd iawn â threialon ei theulu.[233] Tybed a oedd trafferthion Piers Gruffydd wrth wraidd yr anghydfod a gododd rhwng Tomas a Catrin, gyda Tomas yn anfodlon clirio dyledion Piers? Os oedd Tomas yn anfodlon eirioli dros ei lysfab a'i fab yng nghyfraith, roedd gwaed yn sicr yn dewach na dŵr, gydag ewyllys Tomas yn 1617 yn cyfeirio at arian a nwyddau i gynnal ei ferch Margaret, ar yr amod ei bod yn byw ar wahân i'w gŵr.[234] Daeth llinach hynafol a dylanwadol y Penrhyn i ben dan gwmwl gyda marwolaeth Piers Gruffydd yn 1628, ond nid yw lleoliad claddedigaeth yr aer olaf yn ategu'r gwarth, gyda Piers yn cael ei gladdu yn Abaty Westminster.[235]

---

[230] Rhan o awdl Siôn Tudur – GST, I, 96.

[231] Bu'r ddau yn briod am ymron i ugain mlynedd cyn i Tomas gael ei urddo yn farchog yn 1599, gyda'r beirdd yn canu'n ganmoliaethus i Catrin wrth gyfeirio at urddiad ei gŵr. Erbyn diwedd oes Tomas yn 1518 roedd y ddau wedi gwahanu. Ni cheir cyfeiriad at yr ail wraig yn ewyllysTomas Mostyn ac yn fwy rhyfeddol, Ursula, y wraig gyntaf, sy'n cael ei nodi yn Nhystysgrif Angladdol Tomas; GM, 4; HFMM, 107-109.

[232] Sylw Roger, aer Tomas Mostyn, wrth ei dad yng nghyfraith, Siôn Wyn o Wydir, yn 1608; GM, 51.

[233] Yn ogystal â thrafferthion ariannol, dioddefodd y teulu dristwch personol gyda phlant Piers Gruffydd a Margaret Mostyn – pedwar mab a saith merch – yn marw yn ieuanc; John C. Appleby, 'Griffith, Piers (1568–1628)', *ODNB*, 2004; online edn, Jan 2008 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/11605, cyrchwyd 28 Mai 2013]. Ceir hefyd gofnod o Tomas Mostyn yn mynd ag achos llys yn erbyn Piers Gruffydd yn 1616 am iddo fethu â gwneud taliadau ariannol i'w ferched; GM, 46-47.

[234] MM:1540-1642, II, 130.

[235]Wedi cyfnod o ddyledion a dirwyon, gwerthwyd ystad y Penrhyn i John Williams, Deon Abaty Westminster ar y pryd, a oedd yn perthyn i linach y Penrhyn, Cochwillan a Gwydir, ac mae'n debyg mai drwy ei ddylanwad ef y cafodd Piers ei gladdu yn yr abaty. "Here lyeth the body of Peeres Gruffith Esquire, sonne & heire to Sr. Ree. Gruffyth & grandchild to Sr William Gruffyth chamberlaine of North-wales, who dyed the 18 of Aug.1628". Gwefan Abaty Westminster – http://www.westminster-abbey.org/our-history/people/piers-griffith. Roedd cysylltiad agos rhwng John Williams a'i gyfnither, Mari Gwyn, Gwydir, gwraig aer Mostyn, Rosier (m. 1642), gyda'r gŵr eglwysig yn treulio ei flynyddoedd olaf yng Ngloddaith. Canodd Tomas Prys, Plas Iolyn, cyd-anturiaethwr Piers Gruffydd, nifer o gerddi i Piers ac o ystyried bod y petisiwn i ofyn am eisteddfod yn 1594 yn cynnwys enw Piers Gruffydd, gwelir ei fod yn parhau i gynnal y traddodiad barddol yn y Penrhyn; GM, 48.

Os mai bywyd o ddyledion a chaledi economaidd oedd tynged Margaret Mostyn, roedd bywyd ei chwaer yn gyferbyniad llwyr, gan iddi briodi ag aer yr Hanmeriaid, y teulu cyfoethocaf yn Sir y Fflint.[236] Priododd Catrin â Thomas Hanmer (m. *c* 1619) yn 1589, ac er y gellid tybio y byddai'r achlysur yn un o bwys i deulu Mostyn, mae'n drawiadol nad oes cerddi yn cofnodi'r briodas. Gwelir yn ddiweddarach yn 1596 bod nifer o feirdd yn bresennol yn neithior brawd Catrin, Rosier Mostyn, yng Ngwydir ar ei briodas â Mari Gwyn, ac o dan nawdd ei thad, Siôn Wyn.[237] O ystyried bod mam Thomas Hanmer, Siân, yn ferch i Syr Siôn Salusbury, Lleweni, Dinbych, ac o deulu o noddwyr yn Nyffryn Clwyd, mae'n annisgwyl na welir y beirdd yn cyfarch Catrin Mostyn a Thomas Hanmer mewn neithior o dan nawdd Tomas Mostyn. Gan mai ail briodas oedd hon i Thomas Hanmer (priododd yn gyntaf ag Anne Talbot[238]), efallai mai ar ei aelwyd ef y cynhaliwyd y wledd briodasol ac nid yng nghartref Catrin ym Mostyn, ond gyda dau o deuluoedd cyfoethocaf sir y Fflint yn cael eu huno mewn priodas, mae distawrwydd y beirdd am yr achlysur yn drawiadol.

Mae'r mwyafrif o'r cerddi i Tomas Mostyn (m. 1618) i'w dyddio wedi 1599 (gan fod ei urddiad yn farchog yn cael ei grybwyll) gyda Rhys Cain yn nodi 1604 fel dyddiad canu ei awdl i Tomas,[239] sef cyfnod deg i bymtheng mlynedd wedi priodas Catrin a Thomas Hanmer. Cafodd Tomas Mostyn ei benodi yn aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau yn 1603[240] a gwelir Huw Machno yn cyfeirio at hyn yn ei awdl foliant:

> Sadwalch i'r Martsus, cofus cyfion
> Sydd un o'r Cyngor, rhôi ansoddion. [241]

Canodd Siôn Tudur[242] a Wiliam Cynwal (m. 1588) i Tomas Mostyn cyn ei urddiad a'i gyfarch fel Mastr Tomas Mostyn:

---

[236] Mae ewyllys Thomas Hanmer yn datgelu iddo adael ei goets (moethusrwydd prin yn y cyfnod) i Catrin, ei wraig. Gweler http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1558-1603/member/hanmer-Thomas-1619.
[237] Trafodir y cerddi hyn isod, yn yr adran ar Rosier Mostyn (m. 1642).
[238] Gwefan y senedd: Hanmer, Thomas (m. *c* 1619), http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1558-1603/member/hanmer-Thomas-1619.
[239] Llawysgrif y Llyfrgell Brydeinig, B.Add. 14975, 314a.
[240] Penodwyd Tomas Mostyn yn 1602 ym marn Enid Roberts; GST, II, 107.
[241] Daniel Lynn James, 'Bywyd a gwaith Huw Machno', Cerdd XIV.
[242] GST, I, 96.

Pwy'n holl Gymru'n rhannu'n rhwydd,
Parhaus wirglod, pris arglwydd?
Mwstrut ymwan, Meistr Tomas,
Mostyn grym, oes dawn a gras. [243]

Gwelir bod y cerddi diweddarach yn cyfeirio ato fel Syr Tomas Mostyn:

Y Marchog glân mawr yw'ch clod,
Moes dwyn enw Mostyn hynod,
Swydd dy rym y sydd dramawr,
Syr Tomas, am urddas mawr.
D'euro'n Syr, dair einioes hydd,
Llyna fy holl lawenydd. [244]

Ceir blas o'r diddanwch y byddai'r beirdd yn ei gynnig mewn gwledd gyda'r englynion i Dick Hoofe – 'To Dicke Hoofe (horse keeper to Syr Tomas [Syr Roger ar lawysgrif NLW 1559B, 668] for provender to his horse being at Mostyn in the Christmas holydaye, 1583':

Dod wair glas addas iddo, – fy enaid
A bydd fanwl wrtho;
O rhoi brofant i'w fant fo,
Dic Hwff, d'enaid a'i caffo. [245]

Gyda'r dyddiad 1583 yn cael ei grybwyll, fe ellir dosbarthu'r cerddi yn ddau gyfnod penodol, gyda bwlch o bymtheng mlynedd rhyngddynt ac awgrym bod cyfnod pan nad oedd Tomas Mostyn yn noddi beirdd ar ei aelwyd. Pan luniwyd petisiwn i ofyn am eisteddfod yn 1594 gan y ddau anturiaethwr, Tomas Prys, Plas Iolyn a'i gyfaill (a llysfab Tomas Mostyn), Piers Gruffydd, Y Penrhyn, ynghyd â Siôn Wyn, Gwydir, mae'n drawiadol bod enw Tomas Mostyn yn absennol o restr yr uchelwyr a hefyd Rosier Mostyn o ystyried y berthynas agos oedd rhyngddo a theulu Gwydir.[246] Os ystyriodd Tomas Mostyn hyn fel sarhad, o gofio am gysylltiad y teulu ag eisteddfodau Caerwys, dichon bod gwŷr Sir Gaernarfon o'r farn bod y gogledd-orllewin hefyd yn deilwng o'r hawl i gynnal eisteddfod, ond nid felly y bu, gan na ddaeth dim o'r cais i Gyngor Cymru a'r Gororau.

[243] R L Jones, 'Astudiaeth destunol o awdlau, cywyddau ac englynion gan Wiliam Cynwal', 180.
[244] GST, I, 111.
[245] GST, I, 946. Ceir nifer o amrywiadau ar y gerdd a ddyfynir gan Enid Roberts, megis yn Cwrtmawr 24, 14, a gellid tybio bod Dic Hoofe wedi bod yn destun poblogaidd yn y wledd.
[246] GM, 47-48.

Ceir sawl argraff o Tomas Mostyn, gyda Mostyn a Glenn yn ei bortreadu 'of engaging presence, possessing great executive ability, and a kindly gracious, disposition, he enjoyed the lasting friendship of Buckhurst, Grey, Cobham, Essex, Lewkenor, Burghley, and many others of those who played leading parts in the history of England during the reigns of Elizabeth and James.'[247] Drwy'r cysylltiadau hyn, gwelir y sylfaen i'r casgliad o lawysgrifau sydd ym Mhlas Mostyn yn cael ei gosod, gyda Thomas Pennant yn cofnodi bod Tomas Mostyn wedi derbyn dwy gyfrol gyntaf o'r *Froissart's Chronicles* (cyfrolau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg) gan Burghley.[248] Gyda Tomas Mostyn (m.1618) yn anfon ei fab, Rosier, i Goleg Brasenose, Rhydychen, yn 1584, y genhedlaeth gyntaf i gael addysg brifysgol, gwelir y teulu yn cyfranogi'n gynyddol mewn dau ddiwylliant erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.[249] Dyma'r cyfnod y gwelir Tomas Mostyn yn cael ei bortreadu gan arlunydd, mewn gwisg o ddur a chyda dryll yn ei law, a'i Gymreictod yn cael ei gofnodi yn y rhuban gwyrdd a gwyn (lliwiau Cymru medd Mostyn a Glenn) o amgylch ei fraich chwith.[250] Nid oedd y noddwr bellach yn ddibynnol ar ddatganiad barddol yn unig i'w glodfori ac roedd y darlun yn gofnod gweledol parhaol i'w fwynhau a'i edmygu gan ymwelwyr o bob cefndir ieithyddol drwy gydol y flwyddyn ac nid wedi ei gyfyngu i wyliau traddodiadol.

Os mai gŵr mwyn yw'r ddelwedd a gyfleir o Tomas Mostyn gan Mostyn a Glenn, mae A D Carr yn hynod feirniadol ohono: 'what information is available suggests a strong-willed, obstinate, and not altogether likeable man'.[251] Diau fod ei aer, Rosier yn fwy cyfarwydd â'r darlun hwn o'i dad. Er bod llythyrau niferus Rosier Mostyn at ei dad-yng-nghyfraith, Siôn Wyn o Wydir, i'w cael yn y *Calendar of Wynn Papers*, ni cheir goleuni ar darddiad y rhwyg difrifol oedd rhwng Tomas Mostyn a'i fab, er bod anghydfod oherwydd Piers

---

[247] HFMM, 101. Y gwŷr y cyfeirir atynt yw Barwn Buckhurst, Thomas Sackville, (*c.*1536–1608), bardd a gwleidydd; Barwn Grey, Arthur Grey (1536–1593), Arglwydd Ddirprwy Iwerddon; Robert Devereux (1565-1601), Iarll Essex ac Arglwydd Raglaw Iwerddon; Syr Edward Lewkenor (1542-1605), gwleidydd; a Barwn Burghley, William Cecil (1520/21–1598), gwleidydd. Enwir Cobham hefyd, cyfeiriad efallai at y barwn a'r gwleidydd William Brooke (1527-1597). Roeddynt oll yn wŷr amlwg a chyhoeddus, a chanddynt ddiddordeb cyffredin mewn llenyddiaeth.

[248] Nid yw'r cofnod yn ymhelaethu ar y rhoddwr ond mae'n debyg mai cyfeiriad at William Cecil, Arglwydd Burghley, a geir yma. Mae Pennant yn cyfeirion'n fanwl yn ei gyfrol at y creiriau ym Mhlas Mostyn yn y ddeunawfed ganrif, gyda llawysgrifau a darluniau ymysg yr eitemau a gofnodir ganddo; MM:1540-1642, II, 131; HPWH, 75.

[249] Dyfynir gwaith A D Carr ar wefan y senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/mostyn-sir-roger-15668-1642

[250] Atgynhyrchir y darlun yng nghyfrol Mostyn a Glenn. Yn ychwanegol at ei swyddi fel *muster master, custos rotulorum* a lefftenant, bu Tomas Mostyn yn geidwad arfau'r Goron a'r delweddau hyn ohono sy'n cael eu cyfleu yn y darlun mae'n debyg ac nid un o filwr; HFMM, 99.

[251] MM:1540-1642, II, 131.

Gruffydd, ffrae wleidyddol rhwng Gwydir a Mostyn, neu ffrae rhwng Rosier a'i frawd, Tomas, ymysg yr esboniadau a gynigiwyd am y gwaed drwg – 'this unkyndness' – rhwng y tad a'r mab.[252]

Mae'n debyg mai anghydfod oherwydd Piers Gruffydd oedd tarddiad y rhwyg rhwng Tomas Mostyn a Catrin, gan arwain at ymwahaniad yn 1608, wedi dros chwarter canrif o fywyd priodasol. Gyda'i wraig bellach yn byw yng Ngloddaith a Tomas ym Mhlas Mostyn, ni welir y beirdd yn canu mwyach ar aelwyd y ddau. Ni cheir ychwaith farwnadau i Tomas Mostyn pan fu farw ym Mostyn ar 21 Chwefror, 1618. Erbyn hyn, roedd y mwyafrif o'r beirdd a ganai iddo yn eu bedd, gyda Syr Huw Roberts, Llên, ym marw flwyddyn ar ôl Tomas, gan adael Huw Machno fel unig fardd Plas Mostyn i'w oroesi.[253] Claddwyd Tomas Mostyn liw nos yn Eglwys Chwitfford rai dyddiau ar ôl ei farwolaeth, gyda'r gwasanaeth angladdol ffurfiol yn cael ei gynnal dros fis yn ddiweddarach, ar 29 Mawrth, wedi i'r trefniadau angenrheidiol gael eu cwblhau.[254]

Er y ceir rhai cerddi i ganghennau eraill o'r teulu,[255] gwelir oes aur y traddodiad barddol yn dirwyn i ben gyda Tomas Mostyn yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg, pan oedd pen-teulu Mostyn yn cynnig nawdd a chroeso i feirdd yn y modd traddodiadol. Yng ngeiriau Siôn Tudur:

Dy lys, lle rhoid elusen,
Yno cyrch ifanc a hen.
Llys Mostyn, er hyn, yrhawg
Lles am orchest, llys marchawg.
Y llys hwn, lle y sonier
Lle tariai glod, llety'r glêr,
Llety fu holl Gymru i gyd,
Lletyfwr ieirll wyt hefyd.
Rhai o urddas âi i'r Werddon,
Ac nid â neb heb dŷ Non.

---

[252] HFMM, 103-104. MM:1540-1642, II, 131-132.
[253] Bu farw Siôn Tudur yn 1602, Wiliam Cynwal yn 1588, Owain Gwynedd, *fl. c.* 1550-90, Rhys Cain yn 1614 a Siôn Mawddwy, *fl. c.* 1575-1613.
[254] MM:1540-1642, II, 131. Hefyd HFMM, 107-109, lle nodir y dystysgrif angladdol, sy'n rhestru'r plant a'u teuluoedd, a'r ewyllys.
[255] Mae Wiliam Mostyn, Rhyd, yn un enghraifft, gyda Siôn Cain yn canu iddo yn 1635. Roedd tad Wiliam yn ail fab i Tomas Mostyn (m. 1618) ac Ursula Goodman. Ceir y gerdd yn Llawysgrif Peniarth 116, 459. Un anhawster amlwg a geir wrth ddidoli'r cerddi i deulu Mostyn yw arferiad pob cangen i ddefnyddio yr un enwau, gyda'r enwau Wiliam, Rosier, Tomas, Siôn, Catrin, Margaret a Dorothy yn gyffredin iawn ym mhob cenhedlaeth. Ceir hefyd feirdd yn canu i fwy nag un genhedlaeth, gan greu anhawster pellach wrth geisio dyddio cerddi.

Llawer gwledd ieirll, arglwyddi,
Dwbl o stad, yn dy blas di;
Llawer saig deg o'th gegin,
A lli gwyllt dunellau gwin.[256]

Os na fu'r beirdd yn marwnadu Tomas Mostyn, fe welir mab Rhys Cain (m. 1614), Siôn Cain, yn marwnadu ei weddw, Catrin Mostyn pan fu farw *c* 1627, naw mlynedd ar ôl ei gŵr.[257] Meddai amdani:

Trawodd byth lle trodd y bâr
Trais llaw Duw tros holl [ddaear].
Trom yw'r boen tramawr heb wedd
Trist oer gŵyn tros dir [Gwynedd].
Mae'r galar mawr [y'i] gweloch,
Marw un wraig mawr iawn yw [och].
Mae'n golled blaned heb les
Fawr o gladdu arglwyddes.[258]

Mae geiriau Siôn Cain yr un mor berthnasol i dranc y traddodiad barddol ar aelwyd y teulu ag yw i weddw Tomas Mostyn, gan na welir beirdd yn ymgasglu ym Mostyn a Gloddaith yn yr un modd eto i dderbyn nawdd. Siôn Cain (heb dystiolaeth o fardd arall i'w gynorthwyo) oedd yr unig fardd i barhau y traddodiad barddol gyda'r genhedlaeth nesaf o deulu Mostyn.

Rosier Mostyn (*c.* 1559/1568-1642)

Tomas Mostyn = Ursula Goodman

Syr Siôn Wyn = Sydney Gerrard

Rosier Mostyn = **Mari Gwyn**

[256] GST, I, 111-112.
[257] Daw'r wybodaeth am flwyddyn ei marwolaeth gan AD Carr, GM, 47.
[258] Llawysgrif Peniarth 117, 51. Ceir bylchau yn y llawysgrif a diolchaf i'r Athro Peredur Lynch am ei gymorth i'w llenwi.

Ganwyd Rosier yn ail fab o bump o blant i Tomas Mostyn (m.1618) ac Ursula Goodman ond bu farw ei frawd hŷn, Wiliam, yn ei ugeiniau oddeutu 1586 pan oedd Rosier yng Ngholeg Brasenose, Rhydychen. Cofrestr Coleg Brasenose ar gyfer 1584 sy'n cynnig un o'r dyddiadau i flwyddyn geni Rosier, sef 1568:

> **Mosten, Roger** (Flints.). Matr. arm. 8 May 1584, aged 16.
> Knighted 23 May 1606; M.P. Flintshire 1621.[259]

Mae 1568 hefyd yn cyd-fynd â'r manylion a roddwyd ar ddarlun o Rosier Mostyn yn 1634, lle nodir ei fod yn chwe deg saith oed.[260] Daw'r dryswch am flwyddyn ei eni o gofnod gan Peter Roberts yn y *Cwtta Cyfarwydd*, lle nodir bod Rosier Mostyn oddeutu wyth deg a dwy yn marw yn 1642:

> Md' that upon Thursday being the first day of September 1642 S'r Roger Mostyn Kt aiged about 82 years (having dep'ted out of this life upon or abouts [sic] the xviijth day of August last) was bur' w'th great pompe'.[261]

Gyda Rosier Mostyn, gwelir gwerthoedd newydd yn cael eu mabwysiadau yn ystod ei genhedlaeth ef, gydag ef y cyntaf o'r teulu i dderbyn addysg prifysgol. Prin yw'r wybodaeth am ei frawd hynaf, Wiliam, ond ni cheir cofnod ohono yn cael ei dderbyn i Goleg Brasenose fel ei frawd.[262] Er i Rosier gael ei gofrestru yn y coleg, ni raddiodd yno ac efallai bod marwolaeth ei frawd, Wiliam, wedi amharu ar ei addysg. Fodd bynnag, yn 1588 gwelir ef yn mynychu Lincoln's Inn, Llundain, i astudio'r gyfraith, hyfforddiant a fyddai o ddefnydd iddo yng ngweinyddiaeth yr ystad ac yn y swyddi cyhoeddus a ddaliodd yn ddiweddarach yn ystod ei fywyd.[263]

---

[259] Cofrestr Coleg Brasenose yn *Brasenose College Register: 1509-1909* (Rhydychen, 1909), 67. Mae Mostyn a Glenn yn anghywir yn nodi mai deunaw oed oedd Rosier ar y cofrestr. HFMM, 113 (troednod).
[260] MM:1540-1642, II, 132. Ceir rhan o'r darlun ar wefan Amgueddfa Cymru, Casgliadau Celf Arlein: http://www.museumwales.ac.uk/en/art/online/?action=show_item&item=184, tra ceir copi o'r darlun cyflawn yng nghyfrol Mostyn a Glenn, HFMM, 96.
[261] Dyfynir yn HFMM, 127.
[262] Ni cheir ei enw ar gofrestr y coleg, *Brasenose College Register: 1509-1909.*
[263] Roedd wedi treulio cyfnod yn Thavies' Inn, cyn cofrestru yn Lincoln's Inn. http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/mostyn-sir-roger-15668-1642

Gwnaeth Rosier yn fawr o'i gefndir cyfreithiol, gan ychwanegu tiroedd at yr ystad ar raddfa na welwyd ers cyfnod Tudur ab Ithel yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.[264] Roedd yr etifeddiaeth a dderbyniodd ar farwolaeth ei nain, Margaret Brereton, yn 1594 wedi cyfrannu at iddo fod yn annibynnol yn ariannol o'i dad yn gynnar iawn ac roedd y pyllau glo a ddatblygodd ar raddfa fasnachol ar diroedd yr ystad yn Sir y Fflint hefyd yn ychwanegu at ei gyllid.[265] Yn ŵr ifanc, gwelir ef yn cael ei benodi'n ymddiriedolwr yn ewyllys Robert Wyn, Plas Newydd, Conwy, gŵr ei gyfnither, a thrwy'r cysylltiad teuluol byddai'n gyfarwydd â theulu Gwydir. Er bod anghydfod wedi bod rhwng Siôn Wyn, Gwydir, a Tomas Mostyn ynglŷn â thiroedd yn Sir y Fflint, gwelir Rosier Mostyn ar delerau hynod o dda gyda'r gŵr a ddaeth yn dad yng ngyfraith iddo yn 1596.[266]

Yn groes i briodas ei dad – priodwyd Tomas drwy drefniant teuluol â merch ei lysfam – dewisodd Rosier ei wraig ei hun, dewis nad oedd wrth fodd Tomas Mostyn oherwydd yr anghydfod gyda Gwydir, a dwysaodd hyn y berthynas wael rhwng y tad a'r mab.[267] Priododd Rosier â Mari Gwyn, Gwydir, (1581-1653), merch Siôn Wyn (1553-1627) a Sydney Gerrard,[268] a thra na ellir bod yn sicr a oedd Tomas a Catrin Mostyn yn y briodas, gwelir i'r achlysur gael ei ddathlu yn y neithior gan naw o feirdd. Cofnodwyd eu cerddi mewn un gyfrol, yr unig enghraifft o lyfr llys ar gyfer y teulu, mewn o leiaf pedair llaw wahanol, gyda cherdd Simwnt Fychan yn ei law ei hun. Lluniwyd y gyfrol dan gyfarwyddyd a nawdd Siôn Wyn, Gwydir, gydag awdl foliant iddo o waith Huw Pennant yn gyntaf yn y llawysgrif, a chywyddau i'r pâr priod yn ei dilyn. Ar ddiwedd y casgliad, ceir marwnad i nain Rosier, Margaret Brereton, a fu farw ddwy flynedd ynghynt yn 1594, gan Simwnt Fychan ac yn olaf, marwnad ei fam, Ursula Goodman (a merch Margaret Brereton) o waith Wiliam Cynwal.[269]

---

[264] MM:1540-1642, II, 132.
[265] Roedd glo yn cael ei allforio o'r pyllau ar yr ystad erbyn 1600. MM: 1540-1642, II, 133.
[266] J. Gwynfor Jones, 'Wynn, Sir John, first baronet (1553–1627)', *ODNB*, 2004; online edn, Oct 2006 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/30153, cyrchwyd 21 Mai 2013].
[267] Nid oedd yr arfer o drefnu priodasau wedi dirwyn i ben, gan y gwelir brawd Rosier, Tomas Mostyn, Rhyd, yn priodi gweddw Esgob Llanelwy, Gwen Parry, yn 1624, ar yr un dydd y priodwyd eu plant, Wiliam Mostyn ag Ann Parry, a Richard Parry â Mary Mostyn; *Archaeologia Cambrensis*, Hydref 1864, 321-322.
[268] Roedd tad Sydney Gerrard, Syr William Gerrard, yn Arglwydd Ganghellor Iwerddon; HFMM, 113 (troednod).
[269] Ceir y llawysgrif yn Archifdy Prifysgol Bangor – Bangor (Mostyn) 1. Yn ddiddorol, nid oes tystiolaeth bod beirdd wedi canu i ddathlu priodas merch arall Gwydir, Elizabeth, â Syr John Bodvel yn 1608, oni bai bod y cerddi mewn cyfrol sydd heb oroesi. Gweler J Gwynfor Jones, *The Wynn Family of Gwydir: Origins, Growth and Development c. 1490-1674* (Aberystwyth, 1995), 183.

Cynhaliwyd y neithior yng Ngwydir, gyda'r briodas yn cael ei dathlu mewn gwledd ac ar gân. Yng ngeiriau Owain Gwynedd:

Neithior sydd i wneuthur sôn
Amdani ym myw dynion,
Ym muriau da ym mro deg,
Yng Ngwedir eang wiwdeg.
Rhydid mawr ei anrhydedd
I nithio'r glêr wneuthur gwledd;
Aur goler fo ir galon
I'w nithio hwy a wnaeth hon. [270]

Os oedd drwgdeimlad rhwng Tomas Mostyn a Siôn Wyn, roedd Siôn Tudur yn ffyddiog na fyddai hyn yn tarfu ar y dathliadau gan bod gwaed yn dewach na dŵr:

Clymu deulys, cwlm dilyth,
Clymiad fry a bery byth.
Llys Gloddaith, perffaith hap oedd,
Llys Gwydir, nid llesg ydoedd.
Rhwym cariad heb ymadael
Rhwng y ddugar hawddgar hael.
Llawn credigrwydd, sobrwydd sad,
Yw'r llwybr cair lle bo'r cariad –
Y Mastr Tomas, aer Mostyn,
Oes un gwell? a Mastr Sion Gwyn.
Cyfyrdyr oedd y gwŷr gynt,
A brodyr obry ydynt. [271]

Mae'r cywyddau yn canolbwyntio ar achau'r priodfab a'r briodferch, ac enwir y pum llys – Mostyn, Gloddaith, Trecastell, Tregarnedd a Phengwern – ond mae cywydd Siôn Phylip hefyd yn cyfeirio at nawdd arbennig teulu Rosier yn Eisteddfod Caerwys:

Hwn a'i dad, tyfiad howyfael,
Piau rhoi, y mab pur hael,
I gerdd delyn gradd dwywlad,
Ariandlws hard, rowndel sad. [272]

[270] D Roy Saer, 'Testun beirniadol o waith Owain Gwynedd, ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa.' Traethawd MA Prifysgol Cymru, 1961. t. 75. Hefyd Llawysgrif Mostyn, 1, 30a yn Archifdy Prifysgol Bangor.
[271] GST, I, 107. Roedd neiniau Tomas Mostyn a Siôn Wyn yn chwiorydd ac yn ferched i Syr William Gruffydd, Y Penrhyn; GST, II, 100. Roedd Siôn Tudur yn un o'r beirdd a ganai i Tomas Mostyn yn y blynyddoedd cyn y briodas ac wedi elwa o'i haelioni.

Ynghyd ag Owain Gwynedd, Siôn Tudur a Siôn Phylip, canodd Huw Machno, Rhisiart Phylip, Edward ap Raff, Siôn Mawddwy, Gruffudd Hafren a Simwnt Fychan i Risiart Mostyn a Mari Gwyn ar achlysur eu priodas ym mis Awst, 1596.[273] Fel hyn y canodd Simwnt Fychan:

Gwledd Gwedir yn nawdd-dir ni,
Gwledd Arthur, gwael oedd wrthi.
Gwahoddwyd ar gyhoeddion
Luoedd heirdd at y wledd hon,
Dwy Wynedd, yn oed unawr
Dwy Bowys i'r faenllys fawr,
Neithior rhag mil ni chiliai
Neithior ieirll yn waeth rai.
Oed Duw hael, dau wythgant hwn
Ond pedair a hwynt peidiwn,
Dechrau Awst dichwerw ystod
A da byth i'n gwlad i bod.
Modrwy gron, am dreio gras
O hap rad, yw priodas.
O aur a maen, pa rwym mwy
Y medrir gwneuthur modrwy?
Ef yw'r aur o fawr wiwraen
I'w berchi, Mari yw'r maen.
Mae o waith Duw, *golsmuth* da,
Rwymiad y fodrwy yma,
Rwym a wnel, mewn aur melyn,
Duw tad, nis detyd dyn. [274]

Ni welir yr un o'r beirdd hyn yn canu i Rosier Mostyn a Mari Gwyn wedi achlysur eu priodas, er bod Rosier mewn sefyllfa gyfforddus iawn i noddi, ac ni welwyd yr un llewyrch ar y traddodiad barddol yng Ngwydir ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg ychwaith. Gwelodd y Parch John Gwilym Jones bod newid yn y nawdd yn y plasty ger Llanrwst – 'fe oerodd y berthynas rhwng Syr Siôn a'r beirdd yn ystod ugain mlynedd olaf ei fywyd' – (bu farw Siôn Wyn yn 1627) ac er bod beirdd wedi canu i'w aer, Syr Rhisiart

[272] William Davies, 'Phylipiaid Ardudwy', Traethawd MA Prifysgol Cymru, 1912, t. 343. Hefyd Llawysgrif Mostyn 1, 13b, yn Archifdy Prifysgol Bangor.
[273] Ceir y cerddi yn Llawysgrif Mostyn 1 yn Archifdy Prifysgol Bangor.
[274] Llawysgrif Mostyn 1, 22a yn Archifdy Prifysgol Bangor. Ychwanegwyd y gerdd at y gyfrol a luniwyd gan Siôn Dafydd Las ganrif yn ddiweddarach o'r cerddi a ganwyd i'r teulu, sef Llawsygrif Mostyn 96, sy'n parhau ym meddiant y teulu ym Mhlas Mostyn. Ceir copi o'r gyfrol hon yn Archify Prifysgol Bangor – Mostyn 9081, ac yn y Llyfrgell Genedlaethol – NLW 3027E.

Wyn (m. 1649), ceisio ei annog i ddychwelyd o Lundain i Wydir oedd byrdwn cyffredin eu cri aflwyddiannus ac ni welir bod ei aer, ei frawd Owen, wedi noddi'r beirdd.[275]

Ganwyd deuddeg o feibion i Rosier Mostyn a Mari Gwyn – Tomas (m. 1641), John (Siôn), William, Richard, Roger, Foulke, Rowland, Edward, William II, Robert, Roger II, Piers – a dwy ferch, Sydney a Catrin,[276] a gwelir o'r llythyrau rhwng Rosier a'i dad yng nghyfraith, Siôn Wyn, Gwydir, fod cryn bwyslais wedi ei roi ar gael addysg glasurol i'r meibion. Wedi iddynt gael eu dysgu gartref gan ŵr eglwysig, anfonwyd y meibion i ysgol ramadeg yn 1613, ac am gyfnod, roedd dau o frodyr iau Mari Gwyn yn Ysgol Ramadeg Penarlag gyda thri o'i meibion[277] a chyfle yno i feithrin 'the English tonge.... and there may learn to dance....' ond roedd anfanteision i'r ysgol hon a phenderfynwyd eu symud i Ysgol Ramadeg Rhuthun 'where there is a good school; the master hath an exceeding (good) report, where also house-room, grass and hay is to be had, and only fire is scant'.[278] Roedd Siôn Wyn wedi anfon ei fab hynaf i ysgol Bedford yn 1597 i dderbyn addysg Seisnig a chlasurol ond gyda'r ysgolion gramadeg yng Nghymru bellach yn ennill eu plwyf, gwelir yr uchelwyr Cymreig, gan gynnwys Rosier Mostyn, yn trwytho eu plant mewn addysg nad oedd yn cydnabod y Gymraeg na'i diwylliant.[279]

Roedd Rosier ei hun wedi profi diwylliant Seisnig a chlasurol yn Brasenose a Lincoln's Inn ac fe ellid ystyried ei fod, fel nifer o'i gyfoedion, yn troedio rhwng ei gefndir Cymraeg a'i addysg Seisnig. Gwelir bod yr adloniant yn Lleweni, Dinbych, cartref John Salusbury, yn 1595 yn cynnwys beirdd, crythorion a thelynorion, ac yn yr un degawd gwelir bod alawon Seisnig poblogaidd, at ddiben dawns a chaneuon, hefyd wedi ennill eu plwyf ar aelwyd a fu'n gefnogol iawn i'r traddodiad barddol yn Nyffryn Clwyd.[280] Os oedd natur y diddanwch yn y plastai yn newid i efelychu yr hyn a ddigwyddai dros y ffin, rhaid cofio

---

[275] Y Parch John Gwilym Jones, 'Cyfnod olaf y beirdd yng Ngwedir (1627-74)', yn J E Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol,* XV (Dinbych, 1988), 121-141. Gweler hefyd J. Gwynfor Jones, *The Wynn Family of Gwydir: Origins, Growth and Devlopment c. 1490-1674,* 181-184.

[276] HFMM, 129-130. Dyma'r rhestr fwyaf cynhwysfawr o'r plant a ddarganfuwyd, ond mae enw Catrin yn absennol yma. Bu farw nifer o'r bechgyn yn ifanc a hyn sydd i gyfrif mae'n debyg nad oes cyfeiriad atynt mewn ffynonellau eraill. Cyfeiria A D Carr at Tomas, John, William, Richard, Robert a Roger a'r ddwy ferch; MM:1540-1642, II, 140.

[277] GM, 54. Tybir mai gartref y cafodd y ddau fab hynaf eu addysg, cyn mynd ymlaen i brifysgol. http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/mostyn-john-1603-1675

[278] Rhan o lythyr a anfonodd Rosier Mostyn o'i gartref yng Nghilcain, 16 Chwefror, 1613/14 at Siôn Wyn, Gwydir. HFMM, 122-124.

[279] J Gwynfor Jones, 'Addysg a Diwylliant yng nghyfnod Syr John Wynn', *Taliesin,* 20 (1970), 91.

[280] Enwir tri bardd, Simwnt Fychan, Huw Pennant ac Ifan Goch, tri chrythor a saith telynor ar restr 159[9?] Lleweni, ac wythdeg alaw ar yr ail restr. Trafodir y rhestrau a'r cyfnod gan Sally Harper, ' Music in the Welsh Household *c* 1580-1620', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 21 (2003), 621-45.

bod mwyafrif y boblogaeth yn uniaith Gymraeg a chan fod Rosier Mostyn wedi priodi â Chymraes fe ellid disgwyl mai Cymraeg oedd iaith yr aelwyd ac iaith gyntaf eu plant.[281]

Daeth nifer o fanteision i Rosier Mostyn o'i gyswllt agos â Gwydir gan gynnwys cael ei urddo'n farchog yn 1606, a hynny drwy ddylanwad Siôn Wyn wedi ei urddiad ei hun rai misoedd ynghynt. Mantais arall oedd perchnogaeth barhaol am y tro cyntaf yn hanes y teulu ar arglwyddiaeth Mostyn, pryniant a fwriadwyd iddo fel anrheg priodas gan ei dad yng nghyfraith, er na throsglwyddwyd y gweithredoedd iddo tan 1631, wedi marwolaeth Siôn Wyn.[282] Gellid tybio na fyddai gweithredoedd Siôn Wyn yn Sir y Fflint ar ran Rosier Mostyn wedi bod wrth fodd Tomas Mostyn, a gwelir y gŵr yn ffafrio yr ail fab, Tomas Mostyn, Rhyd, er mawr bryder i Rosier.[283]

Daeth Rosier i'w etifeddiaeth yn 1618 ar farwolaeth ei dad, Tomas Mostyn, a thrwy ei weithgarwch bu yn llewyrchus iawn yn cynyddu maint a ffyniant ei ystad, ac erbyn 1620 ystyrid ef y tirfeddiannwr cyfoethocaf yn Sir y Fflint.[284] Defnyddiodd ran o'i gyfoeth i ehangu'r plasty ym Mostyn, gan greu un o blastai mwyaf y gogledd-ddwyrain, ymdrech a aeth yn ddisylw yng nghanu'r beirdd. Ychwanegwyd porth wedi ei addurno ag arfbeisiau'r teulu yn 1623 ond mae'r gwaith mwyaf sylweddol yn dyddio o 1631 a 1632 ac yn cynnwys ystafelloedd helaeth ac ystafelloedd gwely, gyda'r plasty ar ei newydd wedd yn cael ei ddarlunio gan Thomas Dineley yn 1684 pan fu Dug Beaufort ar ymweliad â'r sir.[285] Gwelwyd beirdd yn canu i glodfori gwelliannau gwaith adeiladu ar blastai noddwyr yn niwedd y ganrif flaenorol, megis cywydd Simwnt Fychan i barlwr newydd Plas y Ward,

---

[281] Tra mai Saesnes oedd un o chwiorydd yng nghyfraith Mari Gwyn, roedd Siôn Wyn yn ffyddiog y byddai wedi dysgu Cymraeg yn fuan ar ôl symud i Wydir i fyw ac y byddai hyn o fantais fawr iddi yn lleol. Llythyr 430, 15fed Ionawr, 1606/7 gan Siôn Wyn at ei chwaer yng nghyfraith, Lady Cave. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515-1690, in the National Library of Wales and elsewhere* (Llundain, 1926), 72.

[282] MM:1540-1642, II, 134.

[283] Roedd y berthynas rhwng y tad a'r mab wedi dirywio yn sylweddol erbyn marwolaeth Tomas Mostyn yn 1618 a Rosier yn pryderu am ei etifeddiaeth, fel y datgelir o'i lythyrau at Siôn Wyn, Gwydir. Llythyrau 820 a 821, *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers*, 132.

[284] Ceir amcan o'i gyfoeth yn Rhol Gymorth 1621, gyda Rosier Mostyn yn cael ei asesu yn £20, gyda'r swm agosaf ato yn £12 gan Syr John Hanmer, Syr John Conwy yn £11, Syr Thomas Brereton a Syr Richard Trefor yn £10 ac Edward Mostyn, Talacre yn £8. MM:1540-1642, II, 126.

[285] Thomas Dineley, *An Account of the official Progress of His Grace, Henry, The First Duke of Beaufort through Wales in 1684* (Llundain, 1888), 94. Mae darlun Dineley o'r tŷ wedi ei gynnwys gan Thomas Pennant yn ei gyfrol *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell*, 59. Ceir disgrifiad cyfoes o blasty Mostyn ar gronfa ddata Cadw, Cymru Hanesyddol: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21517.

Rhuthun,[286] hefyd Siôn Phylip, dau o'r beirdd a ganodd yn neithior Rosier Mostyn a Mari Gwyn, ond roedd y ddau bellach yn eu bedd. Er bod Rosier Mostyn yn gyfforddus iawn ei fyd, yn ariannol ac yn faterol, ni welir beirdd yn ymgynnull mewn gwleddodd yn ei gartrefi fel o'r blaen er iddo barhau i gadw cysylltiad gyda Siôn Cain, y bardd a farwnadodd Catrin Mostyn, ei lysfam, *c.* 1627. Efallai mai dan nawdd a threfniant Rosier Mostyn y canwyd y farwnad, gan y gwelir y bardd yn canu ym Mostyn flwyddyn yn ddiweddarach:

Y mae ustus ym Mostyn
Am ras ail Emrys ei hun,
Solon ragorion gariad
Syr Roesser lan siarsa'r wlad,
Marchog wyd osglog disglair
Mwy nag iarll am enw a gair,
Aml wŷr a gewch milwr gwyn
Mwya' i ystod aer Mostyn. [287]

Cyfeiria'r cywydd at ei linach hynafol – 'Dy lîn gwaed hael enwog wedd, Draw sy' annwyl dros Wynedd' – ac at linach ei wraig hardd:

Miliwn a ŵyr molwn ni
Mawrair Arglwyddes Mari,
Un air oedd, un arweddiad,
Un wledd i'w thuedd a'i thad,
Syr Sion, ragorion gwrol,
Wyn, a ddug Wynedd i'w ôl,
Hardd ydyw, glwys rhwyddwaed glân,
Hon o genedl hen Gynan,
Seren hawddgarus irwych,
Siwr euraid waed Sierard wych. [288]

Mae'r ail gywydd gan Siôn Cain eto yn olrhain yr achau hynafol ac yn cyfeirio at y llysoedd eraill ym meddiant Rosier Mostyn – Pengwern, Tref Gastell, Gloddaith a Thref Garnedd – a hefyd yn cyfeiro at ei fywyd cyhoeddus:

Marchog wyd, mawrwych gadarn
Mewn cryf waith mwya'n cau'r farn. [289]

---

[286] Robin Gwyndaf, 'Some References in Welsh Poetry to Sixteenth and Early Seventeenth Century New and Re-built Houses in North-East Wales', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 22 (1973), 87-8.
[287] Llawsgrif Peniarth 116, 97.
[288] Llawsgrif Peniarth 116, 97.
[289] Llawysgrif Peniarth 117, 211.

Bu Rosier Mostyn yn weithgar iawn mewn swyddi o awdurdod cyn ac wedi iddo ddod i'w etifeddiaeth, gan gynnwys ustus heddwch yn sir y Fflint o 1601 ymlaen, yn Sir Gaernarfon o 1621 ymlaen, ac aelod o Gyngor Cymru a'r Gororau o 1617 ymlaen, swyddi a ddaliodd hyd ei farwolaeth.[290] Er iddo dreulio cyfnod fel aelod seneddol yn cynrychioli Sir y Fflint yn 1621, gweinyddu yn lleol oedd yn mynd â'i fryd. Pan fu farw Rosier Mostyn ar 18 Awst, 1642, ar drothwy'r Rhyfel Cartref,[291] canodd Siôn Cain am alar Mari Gwyn am ei gŵr ac am eu mab hynaf, Tomas, a fu farw flwyddyn ynghynt:

Gwae ni bawb, drwy gŵyn a bâr
Ei gweled yn ei galar,
Dwyn ei gŵr, doniau Garwy
A'i haer aeth, mae hiraeth mwy. [292]

Mae rhai swyddi y bu yn eu dal hyd at ei farwolaeth, rhai am dros ugain mlynedd a mwy, yn cael eu crybwyll yn y farwnad:

Pen ustus, pwy onestach?
Lieftenant, wy[l]ant i'w ôl,
A chwstws fu'n orchestol.
Ni charai, ffieiddiai'n ffest,
Trin unmater anonest,
Difalch oedd, difwlch haeddiad,
Duwiol, ddefosiynol sad,
Llwyr gosbodd, ffrwynodd yn ffraeth,
Lladron ac anllywodraeth. [293]

Cafodd Rosier Mostyn ei gladdu yn Eglwys Chwitffordd ar 1 Medi, 1642, ac ymysg y rhestr o alarwr a gofnodwyd gan Peter Roberts, ceir cyfeiriad at wyth deg a dau o dlodion, ac mae'n debyg mai'r cyfeiriad hwn a greodd y dryswch am oedran yr uchelwr. Gyda'r Rhyfel Cartref yn dechrau effeithio ar Sir y Fflint, nodir hefyd nad oedd Rosier Mostyn (m. 1690) yn bresennol yn yr angladd – 'the grandchild and heyre was away'.[294]

---

[290] Ceir cofnod manwl o'r swyddi a ddaliodd ar wefan y senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/mostyn-sir-roger-15668-1642

[291] Un o weithredoedd cyhoeddus olaf Rosier Mostyn cyn ei farwolaeth oedd arwyddo'r '*Loyal Address'* ar ran trigolion Sir y Fflint, dogfen a gyflwynwyd i'r Brenin Siarl I yn Efrog ar 4 Awst, 1642. HFMM,135.

[292] Llawysgrif Peniarth 116, 797.

[293] Llawysgrif Peniarth 116, 797; bu hefyd yn siryf yn Sir y Fflint, 1608-9 a chomisiynydd ar sawl ymchwiliad yn siroedd y Fflint, Dinbych a Chaernarfon. Gweler gwefan y senedd am y rhestr lawn: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/mostyn-sir-roger-15668-1642.

[294] Dyfynir y rhestr o'r *Cwtta Cyfarwydd* gan Mostyn a Glenn. HFMM, 127-128.

Os mai prin oedd y nawdd i'r beirdd yng nghyfnod llewyrchus Rosier Mostyn, gwelir yr uchelwr yn gwahodd arlunydd i Blas Mostyn yn 1634 i greu darlun llawn maint ohono ac un cyffelyb o'i wraig, Mari Gwyn. Roedd Mostyn a Glenn o'r farn mai gwaith yr arlunydd brenhinol Daniel Mytens oedd y darluniau ond bellach mae amheuaeth am hyn.[295] Ynghyd â blwyddyn eu creu, nodir oed y gwrthrychau ar y darluniau, gyda Rosier yn 67 oed yn 1634, a Mari yn 49 oed (er iddi gael ei geni *c* 1581-2).[296]
Mae'r darluniau yn cael sylw craff gan Thomas Pennant:

> At the upper end of the room are two fine portraits by *Mytens*, full length. One is of *Sir Roger Mostyn*, knight, mentioned at p.17. His face is an excellent reprefentation of the *virdis fenectus*, his countenenace florid, his peaked beard of ftrong whitenefs. On his head is a black clofe cap, turned up with *Flanders* lace; round his neck a flat large ruff; his whole drefs befides is black; round the waiftband of his great breeches is a girdle ftuck with points. This piece of magnificence gave rife to a very coarfe proverb, applicable to inferior people, ambitious of acting beyond their ftation.[297]

Bu farw y mab hynaf a'r aer, Tomas Mostyn, o flaen ei dad yn 1641, gan adael dau fab, a mab hynaf Tomas, Rosier, a etifeddodd ystad ei daid yn 1642 pan oedd oddeutu pedair ar bymtheg oed. Treuliodd Mari Gwyn ei blynyddoedd olaf yng Ngloddaith, lle'r oedd ei chefnder, yr Archesgob John Williams (1582-1650), yn cael lloches yn ystod y Rhyfel Cartref.[298]

Pan fu farw Mari Gwyn yn oddeutu 72 oed yn 1653 cafodd ei chladdu gyda gweddillion ei theulu yng Nghapel Gwydir yn Eglwys Crwst, Llanrwst. Ni cheir marwnad iddi ond fe

---

[295] Symudodd Daniel Mytens yn ôl i'w famwlad yn yr Iseldiroedd *c.* 1634, ac os mai ef oedd yr arlunydd, byddai ei gomisiwn ym Mhlas Mostyn ymysg yr olaf iddo ei dderbyn ym Mhrydain. Anne Thackray, 'Mytens , Daniel (*c.*1590–1647)', *ODNB*, 2004; online edn, May 2009 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19712, cyrchwyd 28 Mai 2013].
[296] Efallai fod Mari bedair neu bum mlynedd yn hŷn na hyn. Gweler troednod 299 am gyfeiriad pellach at ei hoedran. Mae'r darluniau yn parhau ym Mhlas Mostyn a cheir copi du a gwyn ohonynt yng nghyfrol HFMM, rhwng tudalennau 112/113, a rhwng tudalennau 128/129. Gwelir y darluniau (gan arlunydd anhysbys) yn eu lliwiau gwreiddiol yng nghyfrol Peter Lord, *Diwylliant Gweledol Cymru: Delweddu'r Genedl* (Caerdydd, 2000), 41.
[297] HPWH, 60.
[298] Pan oedd yn Ddeon Abaty Westminster, trefnodd bod Piers Gruffydd, Y Penrhyn, yn cael ei gladdu yno yn 1628. Wedi gyrfa eglwysig lewyrchus a dylanwad yn y llys brenhinol, profodd John Williams ganlyniadau'r Rhyfel Cartref ac wedi cyfnod cythryblus, gan gynnwys cyfnod dan glo yn Nhŵr Llundain, treuliodd weddill ei oes gyda'i berthnasau yng Ngwydir a Gloddaith. Brian Quintrell, 'Williams, John (1582–1650)', *ODNB*, 2004; online edn, Jan 2008 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/29515, cyrchwyd 28 Mai 2013]. Hefyd Ivor Bowen, 'John Williams of Gloddaeth', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1927-28 (Llundain, 1929), 61.

gafodd ei choffáu mewn cofeb pres o waith Sylvanus Crue, eurych o Wrecsam a luniodd engrafiad ohoni ar ffurf darlun a'i osod gyda chofebau cyffelyb teulu Gwydir yn yr eglwys.[299]

Tomas Mostyn (*c.* 1598-1641)

Rosier Mostyn = Mari Gwyn
James Whitelock = Elizabeth Bulstrode
Tomas Mostyn = **Elizabeth Whitlock**

Nid yw'r wybodaeth mor helaeth am fab hynaf Rosier Mostyn a Mari Gwyn gan ei fod wedi marw yn ŵr priod cymharol ieuanc cyn dod i'w etifeddiaeth. Cafodd ei eni oddeutu 1598, ac wedi addysg ramadeg, ym Mhenarlag a Rhuthun mae'n debyg,[300] aeth ymlaen i Goleg y Breninesau, Prifysgol Caergrawnt, yn 1619, ac wedi blwyddyn gwelir ef yn cofrestru yn Lincoln's Inn, Llundain.[301] Er i'w dad, Rosier Mostyn (m. 1642), gael gwraig o'i ddewis ei hun, nid oedd am ganiatáu yr un rhyddid i'w aer, ac wedi ystyried sawl merch o deuluoedd dylanwadol, daeth i gytundeb gyda Phrif Ustus Caer, James Whitelock, i uno ei ferch, Elizabeth, mewn priodas â'i fab, Tomas Mostyn.

> In May 1623, after my circuit ended at Flint, I went to Mostin, whear Sir ROGER MOSTIN and I concluded a marriage, between Tomas his sun and heir and Elizabeth my eldest daughter. My agreement by endenture was to pay him 2,500*l*., of which he told me he wold forgive me on 100*l*, and shold bestow the other on the yong couple in utensils of house. I was also to apparel her, and to give them and theares a years enterteyment. He assured upon their issue male all his lands in the countyes of Caernarvon, Flint, Denbigh, Chester, and the countye of the citye of Chester, worthe per annum by survey 3000*l.*, withe his cole mynes. He was offered a baronye for the marriage of his sun, and refused it.
>
> I came from Mostin to Ludlow, and on the 24. of May I and my wife wear present at thear marriage, withe other frendes, in the parishe churche of Staunton Lacye, neer Ludlow.[302]

---

[299] Gwelir llun o'r engrafiad yng nghyfrol Peter Lord, *Delweddu'r Genedl*, 41. Mae'r gofeb yn nodi mai yn 1581-82 y cafodd ei geni ac felly yn anghytuno gyda'r oed ar y darlun ym Mhlas Mostyn.
[300] GM, 54.
[301] MM:1540-1642, II, 140.
[302] John Bruce (gol.), *Liber Famelicus of Sir James Whitelocke:A Judge of the Court of King's Bench* (Llundain, 1858), 94. Mae'r priodasau eraill a ystyriwyd yn cael eu trafod yn MM:1540-1642, II, 140.

Er i Rosier Mostyn wrthod barwniaeth yn deillio o'r uniad hwn, derbyniodd Tomas y mab ei urddiad yn farchog yn Nhachwedd 1623, drwy law Dug Buckingham, a thra bod ganddo gartref yng Nghilcain, ger yr Wyddgrug, treuliodd ran helaeth o'i fywyd yn Llundain.[303] Roedd ei dad, Rosier Mostyn, wedi ei ddarbwyllo i roi gorau i'w ymgais i sefyll fel aelod seneddol dros Sir y Fflint, gan y byddai rhaid iddo dreulio cyfnodau maith yn Llundain a gadael gwraig ifanc yn y wlad.[304] Ond roedd atyniadau Llundain a'r llys brenhinol yn galw ac yno y treuliodd Tomas Mostyn lawer o'i amser, er ei fod wedi ei benodi'n ustus heddwch yn Sir y Fflint yn 1624. Yn ystod un o'r cyfnodau hyn i ffwrdd o Gilcain y ganwyd ei fab hynaf, Rosier, pan oedd Elizabeth Whitelock (1603-1668) yn aros yn Llwydlo (Ludlow) gyda'i theulu ym Mawrth 1624. Ganwyd mab arall yn ddiweddarach, Tomas, a etifeddodd y cartref a'r ystad yng Nghilcain.[305] Prin yw'r wybodaeth am gyfnod eu tad yn Sir y Fflint nag yn Lludain ond fe wyddys ei fod yn cloddio pyllau dwfn ar ei dir yn lleol yn 1626.[306] Cafodd Tomas Mostyn ei benodi'n Ddirprwy Lefftenant Sir y Fflint ond bu rhaid iddo gael ei esgusodi rhag dal swydd siryf yn 1639. Nid yw'n glir ai gwaeledd oedd y rheswm am wrthod y pryd hwn ond bu farw ddwy flynedd yn ddiweddarach, ar 12 Tachwedd, 1641, pan oedd oddeutu pedwar deg a thri oed a chafodd ei gladdu yn Eglwys Chwitffordd ar 18 Tachwedd. Ni chafodd ei farwnadu ond ceir darlun ohono ym Mhlas Mostyn.[307] Ailbriododd ei weddw, Elizabeth Whitlock, yn Nhachwedd 1648 ag Owen Wyn, 'a man of no fortune', oedd sylw ei brawd a'r gwleidydd dylanwadol, Syr Bulstrode Whitelock.[308] Prin y cydnabu Whitelock y briodas gan iddo barhau i gyfeirio yn ei ddyddiadur at 'sister Mostyn'. Defnyddiodd Elizabeth ei chysylltiadau gyda'i brawd ar sawl achlysur i hyrwyddo ei chyfeillion ond daeth y berthynas yn fwy tyngedfennol yn ystod y Rhyfel Cartref pan oedd Bulstrode mewn sefyllfa i liniaru sefyllfa'i frenhinwr o nai, Rosier Mostyn. Plas Cilcain a barhaodd yn gartref i Elizabeth Whitelock hyd ei marwolaeth ar 16 Ionawr, 1668.

Mae'r cofnodion am Siôn Mostyn (1602/03-1675), brawd Tomas, a mab Rosier Mostyn a Mari Gwyn, yn llawer mwy helaeth nag yn achos ei frawd, o ganlyniad i'w swyddi

---

[303] HFMM, 132.
[304] HFMM, 133.
[305] J B Lewis, 'An account of the Penbedw papers in the Flintshire Record Office', *Flintshire Historical Society Publication*, 25 (1971-72), 127.
[306] J B Lewis, 'An account of the Penbedw papers in the Flintshire Record Office', 127.
[307] HFMM, 134.
[308] Tybir mai cyfeiriad at Owen Wyn (1592-1660), Gwydir yw hwn, gweddw Grace Williams, ond ni fu modd cadarnhau hyn o ffynonellau eraill. Ruth Spalding (gol.) *Contemporaries of Bulstrode Whitelocke, 1605-1675: Biographies, Illustrated by Letters and Other Documents* (Rhydychen, 1990), 208.

cyhoeddus a'i gysylltiadau teuluol manteisiol â'r Archesgob John Williams, cyn-Ddeon Abaty Westminster. Bu Siôn yn aelod seneddol dros Sir Fôn yn 1624, a thros Sir y Fflint ar bedwar achlysur rhwng 1640 a 1644, yn ogystal â dilyn gyrfa gyfreithiol yn Lincoln's Inn a'r Inner Temple. Ar farwolaeth ei dad yn 1642, dychwelodd i ogledd Cymru ac ymgyrchodd gyda'i nai ac etifedd ystad y teulu, Rosier Mostyn, o blaid y Goron yn ystod y Rhyfel Cartref. Pan fu farw'n ddibriod ar ddydd Gŵyl San Steffan, 1675, canodd Morys Parry, Person Llanelian, farwnad iddo, gan hefyd gyfeirio at y plasty brics a adeiladodd ym Maesmynan, Afonwen, ger yr Wyddgrug:

Lleian fab, llawen a fu,
Dilesg ymysg ei deulu,
Ei dŷ a fu llety llon
Fagad o bendefigion,
A llawenydd llu annwyl
I goethi gwin, gwaith a gŵyl.
Er cysur fe bwrcasai
At doreth wych dir a thai
Dewisiodd lle bu d'wysawg,
Unwedd rhoes i annedd rhawg
Seilio a wnaeth o sylwedd
Adail fawr ei gwawr a'i gwedd,
Dyna ragfur dianardd
O briddfeini heini hardd,
Perllenni, gerddi gwyrddion,
Gwymp y sydd o gwmpas hon. [309]

Cyfeiria'r bardd at ddwy brofedigaeth arall yn y teulu yn gynharach yn y flwyddyn, pan fu farw brawd a chwaer Siôn Mostyn, sef Rosier Mostyn a Sidney, gwraig Richard Grosvenor:

Ag ar Ŵyl Basg, arwyl bu,
T'wysed ei frawd at Iesu,
Rosier, gŵr o filwriaeth,
Mynd i lawr yn awr a wnaeth,
A'i chwaer Grafner llownder lles
Orau ei gwledd o arglwyddes. [310]

[309] Llawysgrif Mostyn 96, 34, sy'n parhau ym Mhlas Mostyn gyda chopïau yn Archifdy Prifysgol Bangor – Mostyn 9081, 34, ac yn y Llyfrgell Genedlaethol – NLW 3027E, 34.
[310] Ibid.

Claddwyd Siôn Mostyn yn Eglwys Bodfari, lle ceir cofeb iddo gyda'i arfbais a chofnod Lladin 'he hisselfe caused to be made'.[311] Ymysg y brodyr eraill yn y teulu yr oedd Wiliam, a fu'n Archddeon Bangor yn 1633 a ficer Chwitffordd yn 1639. Bu ef farw yn 1669. Roedd brawd arall, Richard, wedi marw yn Rochell yn 1627 o ganlyniad i anaf a gafodd wrth ddilyn Dug Buckingham i Ffrainc.[312]

Mae marwnad Siôn Mostyn, Maesmynan, yn 1675 yn cyd-daro â'r cyfnod newydd o noddi a welir yn hanes y brif linach ym Mostyn, cyfnod lle gwelir y traddodiad barddol yn ailymddangos ar aelwyd y teulu wedi cyfnod o edwino ar ddechrau'r ganrif a chyfnod cythryblus y Rhyfel Cartref. Gyda Morys Parry yn canu ar aelwyd Rosier Mostyn a'i deulu, yr aer y bu Siôn Mostyn yn cydymgyrchu ag ef yn ystod y Rhyfel, nid annisgwyl yw cael y bardd yn marwnadu'r ewythr. Wrth noddi marwnad i frawd ei dad, gwelir Rosier Mostyn (m.1690) yn dechrau ar gyfnod newydd o gefnogaeth i'r traddodiad barddol.

[311] HFMM, 198. Ceir manylion am ei yrfa ar wefan y senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1604-1629/member/mostyn-john-1603-1675.
[312] HFMM, 130.

Pennod 2

Y Canu Mawl i deulu Mostyn: 1675-1692

Fe ellid egluro'r prinder barddoniaeth i deulu Mostyn yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg fel canlyniad i'r Rhyfel Cartref, gyda'r penteulu, Rosier Mostyn (m.1690), yn arwain lluoedd milwrol yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Fodd bynnag, roedd y traddodiad barddol wedi dioddef dirywiad sylweddol cyn hyn, a gellir bod yn bur sicr mai neithior Rosier Mostyn (m. 1642) a Mari Gwyn yn 1596 oedd yr achlysur olaf i ddenu lliaws o glêr. Gyda Thomas Parry yn cydnabod bod y traddodiad barddol 'mewn gwth o oedran aeddfed iawn erbyn tua 1550, ac y gallai farw'n naturiol gan henaint',[313] nid annisgwyl felly yw gweld bod presenoldeb y beirdd ar aelwydydd y teulu wedi edwino erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Yr hyn sydd yn rhyfeddol yw ymddangosiad cerddi i deulu Mostyn yn chwarter olaf y ganrif, wedi bwlch o ddeng mlynedd ar hugain ers marwnad Rosier Mostyn yn 1642, ac ymron i bedwar ugain mlynedd ers ei neithior.

Ceir tri deg a naw o gerddi i dair cenhedlaeth o etifeddion yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg, Rosier Mostyn (m. 1690), ei fab Tomas Mostyn (m. 1692) a'i fab yntau, Roger Mostyn (m. 1734), ar ffurf englynion, awdlau a chywyddau. Wrth i'r traddodiad barddol gael ei adfer gan y teulu yn niwedd y ganrif, gwelir bod y pwyslais ar y canu caeth traddodiadol, gydag un garol yn unig yn dyst i'r canu caeth newydd, a hynny i Bridget Mostyn ac nid i'w gŵr, Tomas.

Ar gyfer anghenion y traethawd hwn, cyflwynir y cerddi fesul cenhedlaeth, ond canodd y beirdd i Rosier, Tomas a Roger oddeutu'r un cyfnod, ac nid yw cerddi i'r taid felly o angenrhaid yn gynharach na cherddi i'r ŵyr. Canwyd y gyfran helaethaf o'r cerddi i Tomas Mostyn a'i briod, Bridget, ac fe ellir casglu mai ei weithgarwch ef a fu'n gyfrifol am adfer y traddodiad barddol ar aelwydydd Mostyn a Gloddaith, a hynny oddeutu 1675. Gellid tybio bod sefydlogrwydd gwleidyddol y cyfnod wedi ei alluogi i adeiladu ar ei gefndir addysgol, sefyllfa na fu ar gael i'w dad yn ŵr ifanc. Fodd bynnag, roedd Rosier yn briod am y drydedd waith ac oddeutu hanner cant oed pan ganodd y beirdd iddo, ac ni pherthynai'r un brwdfrydedd am lenyddiaeth a llawysgrifau iddo ag a welir yn hanes Tomas.

[313] Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1953), 126

Nid oes modd dyddio rhai o'r cerddi ond mae dau gyfnod i'r canu, sef *c.*1675-1679 a 1683-1686, ac mae'n debygol bod y canu wedi ymestyn i'r blynyddoedd o boptu'r dyddiadau hyn. Gyda'r to newydd o feirdd, ceir cyfuniad o 'amaturiaid' crefftus, yn lleol i Gloddaith, cartref Tomas a Bridget Mostyn, a hefyd ymweliadau gan feirdd 'proffesiynol'. Gwŷr eglwysig oedd y tri bardd lleol a ganodd i Syr Rosier Mostyn (m. 1690), sef Morys Parry, Person Llanelian, Rhys Cadwaladr, Curad Llanfairfechan, a Siôn Edward, Clochydd Llanelian. Ymunodd Edward Morris, Perthi Llwydion, a Siôn Dafydd Las â hwy i ganu i Tomas Mostyn, a chanodd un bardd arall, Ffowc Wyn, Nantglyn, gywydd gofyn iddo. O'r chwe bardd, Rhys Cadwaladr oedd yr unig un i ganu i'r ŵyr ifanc, Roger Mostyn (m. 1734). Gellir ychwanegu enwau Owen Gruffydd, Llanystumdwy, a Huw Morys, at y rhestr o feirdd y teulu, ond gan mai marwnadau a ganodd y ddau, nid yw'n glir a fu'r gwŷr hyn yn bresennol yng Ngloddaith a Mostyn. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, gwelir y beirdd yn ddibynnol ar alwedigaethau eraill i'w cynnal, a gwelir Siôn Dafydd Las yn cael nawdd ychwanegol am geinder ei lawysgrifen wrth lunio llawysgrifau i Tomas Mostyn. Ymysg ei gynnyrch y mae cyfrol o farddoniaeth i'r teulu, cyfrol sy'n parhau yng nghartref y teulu ym mhlas Mostyn ac unig ffynhonnell nifer o gerddi a gyflwynir yn y traethawd hwn.[314]

Rosier Mostyn (*c.* 1624-1690)

Tomas Mostyn = Elizabeth Whitlock
│ Martin Lumley = Jane Meredith
│ │ Thomas Bulkeley = Blanche Coetmor
Rosier Mostyn = 1. **Prudence Lumley** │ George Coetmor
2. **Mary Bulkeley** │
3. **Lumley Coetmor**

Mae'n debyg mai yn Llwydlo (Ludlow) y cafodd Rosier ei eni oddeutu Mawrth 1624, man lle bu i'w rieni – Tomas Mostyn (m. 1641) ac Elizabeth Whitlock – briodi flwyddyn

[314] Mostyn 96, gyda chopïau ffacsimili yn y Llyfrgell Genedlaethol – NLW3027E – ac yn Archifdy Prifysgol Bangor – Mostyn 9081.

ynghynt.[315] Ganwyd mab arall, Tomas, rhai blynyddoedd yn ddiweddarach ac ymgartrefodd y teulu ym Mhlas Cilcain, ger yr Wyddgrug. Prin yw'r manylion am fagwraeth Rosier a Tomas yn ystod y cyfnod hwn ond mae'n hysbys bod eu tad, Tomas Mostyn (m. 1641), yn Llundain am gyfnodau hir ac efallai fod y meibion wedi treulio rhywfaint o'u plentyndod rhwng y ddinas a Chilcain. Bu cryn bwyslais ar addysg eu tad ac fe ellid tybio bod y meibion hefyd wedi derbyn addysg ramadeg ac addysg brifysgol, yn arbennig Rosier fel aer i ystad lewyrchus. Gwelir Rosier yn dilyn hyfforddiant yn y Deml Fewnol yn 1637, a gellid tybio bod ei daid, y Barnwr James Whitelock, wedi gobeithio y byddai ei ŵyr yn dilyn gyrfa yn y gyfraith.[316] Gobaith y taid arall, Rosier Mostyn, fe dybid, oedd y byddai'r aer wedi ei baratoi'n briodol ar gyfer etifeddu'r ystad ond amharodd datblygiadau gwleidyddol y cyfnod ar obeithion y ddau hen ŵr. Roedd marwolaeth ei dad, Tomas Mostyn, yn Nachwedd 1641, eisoes wedi gosod cyfrifoldebau newydd ar ysgwyddau ifanc Rosier, ond flwyddyn yn ddiweddarach, profodd newidiadau pellgyrhaeddol. Un o'r rhain oedd ei briodas â Prudence Lumley yng Ngorffennaf 1642, merch Syr Martin Lumley, Great Bradfield, Essex, a thra aeth gryn bellter i gael priodferch, da cofio bod mam Prudence, Jane, yn dod o Sir Ddinbych, ac yn ferch i Siôn Meredith.[317] Fis ar ôl ei briodas, roedd Rosier wedi etifeddu ystad y teulu ar farwolaeth ei daid, Rosier Mostyn, yn Awst 1642. Ond ddyddiau cyn claddu ei daid, roedd Rosier yn ymgyrchu o blaid Siarl I a'i enw yn absennol o restr y galarwyr yn yr angladd ar 1 Medi.[318] Gyda chynilion ariannol sylweddol ei daid wrth gefn, glowyr a mwynwyr yr ystad ar gael a phorthladd hwylus wrth law, roedd Rosier Mostyn mewn sefyllfa gref i arwain gwŷr Sir y Fflint i ryfel a dyna a wnaeth am y pedair blynedd nesaf. Er bod y flwyddyn anghywir wedi ei chofnodi gan Bulstrode Whitelock, ceir blas o weithredoedd Rosier yn 1646:

> '1643. The Castle of Flint was besieged by Sir William Brereton and Sir Thomas Middleton; the Governor of it for the King held it out till all provisions, even to horses, failing him, and then rendered it upon honourable terms.

---

[315] HFMM, 135.

[316] D. L. Thomas, 'Mostyn, Sir Roger, first baronet (*c.*1624–1690)', Rev. Sean Kelsey, *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19415, cyrchwyd 28 Mai 2013].

[317] Dyma'r unig wybodaeth a geir am gysylltiad Cymreig Prudence Lumley ac aflwyddiannus fu pob ymdrech i ddarganfod mwy am deulu ei mam. Roedd Prudence hefyd yn wyres i Syr Martin Lumley, Arglwydd Faer Llundain yn 1623. (Ceir pedair cenhedlaeth gyda'r enw Martin Lumley, yr ail i ddwyn yr enw oedd tad Prudence.) Edward A Fitch a C. Fell Smith (goln) *The Essex Review: An Illustrated Quarterly Record of Everthing of Permanent Interest in the County,* IX (Llundain, 1900), 8, 12-13.

[318] Daw'r sylwadau gan Syr Bulstrode Whitelock, ewythr Rosier Mostyn o ochr ei fam, gyda'r dyddiad yn cael ei gywiro gan Mostyn a Glenn. HFMM, 135.

> Then the Parliament forces took Mostyn House, belonging to Colonel Mostyn, the Governor of Flint, and in Mostyn they took four pieces of ordnance and some arms.
>
> This Colonel Mostyn is my sister's son, a gentleman of good parts and mettle, of a very ancient family, large possessions and great interest in that country, so that in twelve hourse he raised 1500 men for the King, and was well beloved there, living very nobly.'[319]

Dyrchafwyd Rosier yn fuan iawn o gapten i gyrnol a phenodwyd ef yn Lywodraethwr ar gastell a thref y Fflint, a defnyddiodd ei etifeddiaeth i ariannu'r gwaith o gryfhau'r adeiladau yn y ddau leoliad yn ogystal â phorthladd Mostyn a phlasty Mostyn rhag ymosodiadau.[320] Tra bod Rosier Mostyn a'i deulu yn gefnogol i'r Brenin Siarl I yn y Rhyfel Cartref, roedd aelodau o'u teuluoedd yng nghyfraith dros y ffin yn ymgyrchu o blaid y Senedd, megis Bulstrode Whitelock, Seneddwr ac Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr. Roedd cysylltiad teuluol hefyd â llinach Syr William Brereton, Arweinydd lluoedd y Senedd yn Sir Gaer, drwy briodasau Wiliam Mostyn (m. 1576) a Tomas Mostyn (m. 1618).

Ymgyrchu'n lleol fu Rosier Mostyn yn bennaf, gyda dinas Caer yn un cadarnle y bu'n ei amddiffyn ar ran y brenin. Yn osgystal ag arwain ymgyrchoedd milwrol yn ystod y rhyfel, bu yn Iwerddon am rai wythnosau ar ddiwedd 1645 i gasglu byddin o wirfoddolwyr, gan deithio gyda llythyr o gymeradwyaeth gan yr Archesgob John Williams yn ei boced yn nodi ei rinweddau arbenning: 'able to command either horse or foot, and not without means of his own, besides the help of a kind and loving mother'.[321] Daeth gweithredoedd milwrol Rosier Mostyn i ben ym mis Hydref 1646 wedi gwarchae o dri mis o hyd ar Gastell y Fflint, pan dderbyniodd ganiatâd gan Siarl I i ildio; caniatawyd i'r Brenhinwyr ymadael â'r castell yn wŷr rhydd ar yr amod eu bod yn talu dirwy yn ddiweddarach.

---

[319] Os cipiwyd y pedwar gwn, nid aethant ymhell o Blas Mostyn, gan bod Mostyn a Glenn yn nodi bod tri ohonynt yn parhau ger y plasty yn 1926, gyda'r pedwerydd wedi cael ei ddifrodi ychydig cyn y dyddiad hwn mewn dathliad pen-blwydd. HFMM, 137 a 140. Erbyn 1957, nodir bod pum gwn ym Mhlas Mostyn gydag Arglwydd Mostyn y cyfnod yn adrodd traddodiad teuluol mai o long Sbaenaidd yr Armada y daethant. Norman Tucker, 'Colonel Sir Roger Mostyn, First Baronet (1624-1690)', *Flintshire Historical Society Journal*, 17 (1957), 44-45.

[320] HFMM, 136.

[321] CSRM, 47. Roedd John Williams yn perthyn i deulu Gwydir ac wedi cael cartref ganddynt erbyn hyn, gan dreulio amser hefyd yng Ngloddaith gyda Mari Gwyn, nain Rosier.

Ymysg y rhai a ymgyrchai gyda Rosier yr oedd ei ewythyr, Siôn Mostyn, gŵr a fu o gryn ddylanwad a chymorth i'w nai 22 oed yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.[322]

Wrth ymgyrchu yn lleol, gallai Rosier gael rhywfaint o fywyd teuluol, er y bu rhaid i'r teulu symud i Blas Ucha gerllaw oherwydd y difrod a waethpwyd i Blas Mostyn gan y Seneddwyr. Ganwyd tri o blant iddo ef a Prudence Lumley rhwng 1643 a 1645 – Jane, Mary a Tomas (gyda'r mab yn marw yn fabi ym Mehefin 1645). Bu Rosier ar sawl ymweliad â Llundain wedi diwedd y gwarchae i drafod ei ddirwy – £825, sef degfed rhan o'i ystad[323] – a materion eraill ac yma y ganwyd ei ail fab, Roger, yn Rhagfyr 1647 ond bu farw Prudence yn fuan wedi'r enedigaeth.[324] Ni fu modd darganfod a fu Roger farw oddeutu'r un cyfnod neu'n ddiweddarach ond dychwelodd ei dad i Blas Uchaf yn ŵr gweddw yn 23 oed, gyda dau os nad tri o blant bach dan bedair oed, ac mewn tlodi enbyd oherwydd canlyniadau'r rhyfel; tybia'r teulu ei fod wedi gwario £60,000 yn ariannu'r ymgyrchoedd o blaid y brenin.[325] Mae'n debyg nad hyn oedd y diwedd ar weithgaredd milwrol Rosier, fodd bynnag, a'i fod wedi ailafael ar ymgyrchu ym Mawrth 1650:

> In the same month a party of soldiers came to Merionethshire and took Rowland Vaughan, Caer Cai; William Wyn, Junior, of Glynn; William Owen, of Clenenna (Clenennau); Colonel Mostyn, of Mostyn; Mr Wynn, Bodysgallen, with 500 volunteers went to Ireland.[326]

Ailbriododd Rosier Mostyn oddeutu 1648 â Mary Bulkeley, merch Thomas Bulkeley, Baron Hill, Biwmares, a'i wraig, Blanche Coetmor. Roedd cysylltiad teuluol eisoes rhwng y ddau deulu, gyda chwaer Rosier, Catrin, yn briod â brawd Mary, Richard.[327] Fel Rosier, roedd Thomas Bulkeley wedi cefnogi Siarl I yn ystod y Rhyfel Cartref a roedd hyn yn sicr

---

[322] CSRM, 48. Trafodir rhan Rosier Mostyn yn y Rhyfel Cartref yn drefnus a manwl gan Norman Tucker. Gweler hefyd HFMM, 135-155, a D. L. Thomas, 'Mostyn, Sir Roger, first baronet (*c.*1624–1690)', Rev. Sean Kelsey, *ODNB*, 2004, [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19415, cyrchwyd 22 Ebrill 2013].

[323] D. L. Thomas, 'Mostyn, Sir Roger, first baronet (*c.*1624–1690)', Rev. Sean Kelsey, *ODNB*, 2004.

[324] CSRM, 49.

[325] CSRM, 49. Talodd o'i boced ei hun am gyflogau, bwyd, dillad ac offer i'w filwyr yn ogystal â thalu am y gwaith cryfhau ar gastell Fflint, porthladd Mostyn a phlas Mostyn. Roedd costau'r ymgyrchoedd recriwtio a'r teithio i Iwerddon hefyd wedi disgyn ar ysgwyddau Rosier, ac nid aeth yr ychydig daliadau a gafodd yn ddiweddarach yn agos at ad-dalu'r treuliau.

[326] Mae Norman Tucker yn cydnabod bod yr atalnodi yn aneglur ac na ellid bod yn sicr a yw'r cofnod yn cyfeirio at garcharu Rosier Mostyn neu at ymgyrch yn Iwerddon. CSRM, 50.

[327] Thomas Nicholas, *Annals & Antiquities of the Counties and County Families of Wales, Anglesey (Môn)*, II (Llundain, 1872), 39.

wedi dylanwadu ar uniad y ddau deulu.[328] Ganwyd saith o blant i Rosier a Mary Bulkeley – Elizabeth, Tomas, Margaret, Richard, John, Roger, Richard II – gyda'r teulu wedi symud yn ôl i Blas Mostyn erbyn 1651.[329] Os oedd y Rhyfel Cartref wedi ei wneud yn dlotach, roedd mewn sefyllfa digon cyfforddus erbyn 1652 i gomisiynu un o arlunwyr amlycaf y cyfnod, Syr Peter Lely (1618-1680), i greu darlun maint llawn ohono. Dyma'r arlunydd a fu'n derbyn comisiynau gan y llys brenhinol a theuluoedd Percy, Herbert a Sidney, ac un yr oedd Oliver Cromwell hefyd wedi eistedd iddo.[330] Ceir disgrifiad o'r darlun o Rosier gan Norman Tucker:

> It hangs in Gloddaeth Hall. It depicts him wearing a cuirass over a buff-coat with short sleeves which are piped with red. Red, too, is the scarf which crossed his right shoulder: it was the king's colour. For some reason he chose to don a huge falxen wig. He was then 28 years old.[331]

Er gwaethaf ei dueddiadau brenhinol, croesawodd Rosier y Seneddwr Henry Cromwell a'i osgordd i Blas Mostyn yn 1655, gyda dylanwad ei ewythr, Bulstrode Whitelock, efallai ar y trefniadau wrth geisio cymodi Rosier gyda'r gyfundrefn newydd.[332] Aflwyddiannus fu hyn ar adegau, gan i Rosier Mostyn dreulio cyfnod byr dan glo yng Nghastell Conwy yn 1658 gyda Bulstrode Whitelock yn gweithredu i'w ryddhau – 'I procured Sir Roger Mostyn's Liberty on Parole to be at his House at Mostyn, engaging to do nothing prejudicial to the present government.'[333]

Gydag adferiad y goron yn 1660, urddwyd Rosier yn farchog a rhai wythnosau yn ddiweddarach yn farwnig ond un tristwch a ddaeth i'w ran yn ystod y cyfnod hwn oedd marwolaeth ei wraig, Mary Bulkeley, yn 1662, gyda'i phlant rhwng 4 ac 13 oed ar y pryd.[334] Oddeutu'r cyfnod hwn y priodwyd y ddwy ferch o briodas gyntaf Rosier â

---

[328] Ibid.
[329] HFMM, 144.
[330] Diana Dethloff, 'Lely, Sir Peter (1618–1680)', *ODNB*, 2004; online edn, May 2009.
[331] CSRM, 49. Mae'r darlun yn parhau yng Ngloddaith, sydd bellach yn ysgol breswyl, St David's College, a gwelwyd y darlun ar ymweliad preifat yn Awst 2011. Ceir darlun diweddarach o'r uchelwr ym Mhlas Mostyn, yn cynnwys Rosier a'i wragedd ac felly yn dyddio wedi 1667. Ceir disgrifiad o'r darlun hwn gan Thomas Pennant yn ei nodiadau am y plasty. HPWH, 61-62.
[332] D. L. Thomas, 'Mostyn, Sir Roger, first baronet (*c.*1624–1690)', rev. Sean Kelsey, *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19415, cyrchwyd 22 Ebrill 2013]
[333]CSRM, 50. Nid yw cefndir ac achos y carchariad yn glir ond ysgrifennwyd y cofnod rai blynyddoedd wedi'r digwyddiad, gan mai yn 1660 y cafodd Rosier ei urddo'n farchog.
[334] Claddwyd Mary Bulkeley yn Eglwys Chwitffordd. CSRM, 53.

Prudence Lumley, Jane, y ferch hynaf, gyda Roger Puleston, Emrallt, ger Wrecsam, a'r ail ferch, Mary, gyda William Salesbury, Rug, Corwen.[335]

Gyda sefydlogrwydd gwleidyddol yn lledaenu dros y wlad wedi adferiad grym Siarl II, gwelir Rosier mewn swyddi o awdurdod yn lleol, megis Dirprwy Lefftenant yn Sir y Fflint yn 1660, siryf Sir y Fflint yn 1665/6 a siryf Sir Gaernarfon yn 1666/7. Ond gwelir ef hefyd yn cynnal y cysylltiad gyda *militia* gwirfoddol Sir y Fflint, gyda'i benodiad yn gapten ar un cwmni yn 1661, tra oedd hefyd yn gyrnol ar y gatrawd, dyletswydd a barhaodd hyd at ei farwolaeth.[336]

Priododd Rosier am y trydydd tro yn Eglwys Chwitffordd ar 24 Chwefror, 1667, â Lumley Coetmor, merch hynaf George Coetmor, Coetmor, Llanllechid, Sir Gaernarfon, yr un flwyddyn y cofrestrwyd yr aer, Tomas (mab Mary Bulkeley) ym mhrifysgol Rhydychen.[337] Roedd Lumley yn chwaer i ficer Chwitffordd, Richard Coetmor (m. 1684),[338] ond mae awgrym bod perthynas deuluol gyda Mary Bulkeley, ail wraig Rosier Mostyn, gyda'r ddwy yn gyfnitherod os oedd tad Lumley, George, yn frawd i Blanche Coetmor, mam Mary.[339] Wedi'r briodas hon, ni welir Rosier mewn swyddi o awdurdod, ar wahân i *Militia* Sir y Fflint, a'i fab hynaf, Tomas (m.1692) a gafodd ei benodi yn ustus heddwch yn Sir y Fflint yn 1672 pan oedd yn 21 oed, y gyntaf o'r swyddi iddo eu dal wedi iddo briodi.

Ceir argraffiadau cyferbyniol am sefyllfa ariannol Rosier yn y cyfnod hwn, gyda chyfnod o gyni yn cael ei gyfleu mewn llythyr yn 1674, i ofyn am ad-daliad o £4 gan Pyrs Pennant:

---

[335] HFMM, 152. Ceir manylion am fab hynaf Jane Mostyn, Syr Roger Puleston (*c* 1663-97), ar wefan y senedd, http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/puleston-sir-roger-1663-97. Hefyd am ei hail ŵr, Syr John Trefor, Bryncinallt, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin cyn iddo gael ei ddiarddel am lygredd. http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/trevor-sir-john-1637-1717.

[336] Yn ychwanegol, cafodd ei benodi yn *Custos Rotulorum* yn Sir Gaernarfon yn niwedd 1674. HFMM, 146, 149, 150.

[337] HFMM, 152. Gwefan y Senedd – http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/mostyn-Thomas-1651-92

[338] HFMM, 152. Drwy ddylanwad Rosier Mostyn y cafodd Richard Coetmor y swydd yn Ebrill 1668. Thomas Richards, 'The Whitford Leases: A battle of wits.' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1924-25* (1926), 21.

[339] Nid yw Mostyn a Glenn yn cyfeirio at y berthynas hon, ond mae'r enw yn awgrymu hyn, gyda mam George a Blanche, Lumley Coetmor, yn ferch i Humphrey Llwyd, yr hynafiaethwr o Ddinbych. Ceir achau teulu Coetmor gan J Y W Lloyd ond nid yw yn mynd i fanylder ynglŷn â phlant y teulu nac yn cynnwys dyddiadau. Gall fod cenhedlaeth arall rhwng Lumley Coetmor a George Coetmor gan wneud brawd Blanche yn daid i Lumley ac nid tad. HP, 200-201.

Mostyn, 1674

Dear Pyers
I hope you will excuse me for asking for the 4*l* you owe me for the pair of oxen; for I want the money to make up 20*l* to send my son to Oxford next week,
I am, dear Pyers
Yours &c
Roger Mostyn
P.S. How does your head do this morning? – mine aches confoundedly.[340]

Erbyn 1678, roedd ei sefyllfa ariannol wedi gwella yn ddigonol iddo ymgymryd â gwaith adeiladu ym Mhlas Mostyn. Canwyd englyn i 'gloset newydd Syr Roger Mostyn' gan Siôn Edward,[341] ac os yw'r englyn yn cyd-ddyddio â'r gwaith plaster addurnedig ar nenfwyd un o'r ystafelloedd, dyma'r dystiolaeth gynharaf am feirdd yn ymgasglu ar aelwyd Rosier Mostyn (m 1690):

M
S^{r} R L
1678[342]

Daw'r unig ddyddiad pendant o ganu'r beirdd i Rosier Mostyn (m.1690) o deitl Cerdd 3 – 'Englynion i Syr Rosier Mostyn o Fostyn, 1679' o waith Rhys Cadwaladr – sydd yn cyfeirio at arglwyddes y noddwr. Gan y bu Lumley Coetmor farw yn Hydref 1680, fe ellid cyfyngu canu'r beirdd ar aelwyd Rosier Mostyn (m. 1690) i gyfnod eithaf byr, ac efallai i un neu ddau achlysur. Gyda cherdd arall o waith Rhys Cadwaladr, 'Dychan mynydd Tegeingl pan oedd y prydydd yn dowad trosto i Bembed ar dywydd temhestlog', ceir cyfeiriad at Rosier a Lumley ym Mhlas Penbedw:

Gwlad lân, ail Canan, le cynnes – Syr Rosier
A'i rasol arglwyddes,
Llawen hynod llon hanes
O ryw a gradd, orau ei gwres.[343]

[340] Dyfynir yn HFMM, 146. Richard, ail fab Rosier a Mary Bulkeley oedd y mab y cyfeirir ato yn y llythyr. Cofrestrodd yng Ngholeg Crist, Rhydychen, yn 15 oed ac etifeddodd stad Penbedw yn ddiweddarach. HFMM, 153.
[341] Cerdd 2 – 'Englyn i fyfyrgell' – t. 2.
[342] Mae'r cofnod yn dynodi Mostyn, Syr Roger, Lumley a'r flwyddyn. (Gwelwyd y cofnod ar ymweliad preifat yn 2011.) Gwelir ei fab, Tomas Mostyn (m.1692) hefyd yn adeiladu yng Ngloddaith yn fuan ar ôl ei briodas, gyda'r dyddiad 1673 ar y gwaith yno. Gweler gwefan Cadw – Cymru Hanesyddol: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=3411
[343] Cerdd 4 – 'Croesi Mynydd Tegan i Benbedw' – t. 6-7.

Gan mai yn 1675 y daeth ystad Penbedw, Nannerch, Sir y Fflint, yn eiddo i Rosier, gellid efallai ymestyn y cyfnod y bu Rosier Mostyn (m. 1690) yn noddi'r beirdd, oni bai bod casgliad o gerddi iddo heb oroesi.[344] Yn ddiddorol, ni cheir cerddi yn perthyn i blas Penbedw mewn unrhyw gyfnod, heblaw am y gerdd i'r daith yno.

Yn ogystal â dwy gerdd Rhys Cadwaladr ac englyn Siôn Edward, ceir englyn gan Morys Parry – 'Englyn i ofyn porfa i Syr Roger Mostyn'[345] – ac un englyn arall gan Siôn Edward – 'Englyn i deulu Mostyn'.[346] Mae dyddiad marwolaeth Morys Parry yn 1683 hefyd o gymorth i ddyddio'r canu barddol i Rosier Mostyn, gyda'r cyfnod yn ymestyn rhwng 1675 a 1683 ar ei ehangaf ond yn fwy tebygol o fod oddeutu 1678 i 1680. Gyda mwy o gerddi gan y beirdd hyn wedi eu canu i fab hynaf Rosier Mostyn (m.1690), sef Tomas Mostyn (m. 1692), mae awgrym mai o ddiddordeb Tomas mewn llenyddiaeth y deilliodd y gefnogaeth i'r traddodiad barddol yn wreiddiol ac nid o arfer ei dad yn cynnal y traddodiad barddol.[347]

Ni welir bod Rosier wedi noddi'r beirdd cyn ei drydedd priodas, ac er y gellid disgwyl y byddai ei weithredoedd yn y Rhyfel Cartref wedi cynnig cyfle i'r beirdd ganu am ei arweinyddiaeth filwrol, un gerdd yn unig sy'n cyfeiria at hyn a honno o waith Rhys Cadwaladr.

Dewr filwr âi drwy filoedd – megis llew
Yn ymgais lladd lluoedd.
Oen cu yn ifainc oedd,
O gadarn enwog ydoedd.

Gwrol ymhlaid y goron – am lwyddiant
Ymladdodd yn ffyddlon
Galonnau y gelynion
Dibrin i'w frenin o'i fron.[348]

---

[344] Un copi o'r englynion unigol sy'n bodoli (Cerddi 1 a 2) yn Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor (Mostyn) 9 a Cerdd 5 yn Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 11999, gyda dau gopi o'r cyfresi o englynion, Cerdd 3, yn Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor (Mostyn 9) a Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 11087B a Cerdd 4 hefyd yn Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol NLW 11087B ond gyda'r ail gopi yn Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, Cwrtmawr 206B.
[345] Cerdd 5 – 'Englyn i ofyn porfa i Syr Roger Mostyn' – t. 8.
[346] Cerdd 1 – 'Englyn i deulu Mostyn' – t.1. Gan ei bod yn llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor – Mostyn 9, 30b – gyda'r englyn i gloset newydd Syr Roger Mostyn, cafodd ei chynnwys yn y casgliad hwn gyda'r cerddi i Roger Mostyn, ond byddai yr un mor briodol i'w fab, Tomas Mostyn (m. 1692) hefyd ac ni ellir bod yn hollol sicr i pa un o'r ddau y canwyd yr englyn yn wreiddiol.
[347] Ni cheir tystiolaeth fod traddodiad o noddi'r beirdd yn perthyn i deulu Lumley Coetmor, yn arbennig yn yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, ac er efallai nad oedd ganddi brofiad blaenorol o noddi mae geiriau'r beirdd yn cadarnhau ei bod wedi estyn croeso iddynt yn y modd arferol.
[348] Cerdd 3, t. 4.

Er y gwelwyd Morys Parry yn marwnadu ewythr Rosier, Siôn Mostyn, Maes Mynan, yn 1675, nid oes cofnod o farwnad i Lumley Coetmor pan fu farw ar 8 Hydref, 1680.[349] Cafwyd cyfeiriad ati yng ngwaith Rhys Cadwaladr yn yr englynion i'w gŵr yn 1679, flwyddyn cyn iddi farw:

Ardderchog farchog, ei fawl – a ganaf
A'i gynnydd anfarwawl
A'i arglwyddes bryd lesawl,
Barod iaith ferch brydferth fawl.

Llon dylwyth llawen deulu – yw Mostyn
A mawr ystad Cymry,
A'i arglwyddes gynnes gu
Orau ei rhinwedd yn rhannu.[350]

Ceir darlun o Lumley gyda Rosier Mostyn ynghyd â'r ail wraig, Mary Bulkeley, gyda Chastell y Fflint, safle gwarchae'r Rhyfel Cartref, yn y cefndir, a cheffyl a gwas croen tywyll hefyd wedi eu cynnwys gan yr arlunydd. Cyfeiriodd Thomas Pennant at y darlun mewn un o'i gyfrolau gan honni bod y teulu wedi ei blygu fel bod Lumley o'r golwg gan fod plant Rosier Mostyn yn ei chasáu ond ni ellir rhoi llawer o goel i'r honiad erbyn hyn.[351]

> His third wife is doubled up, and concealed behind the frame. This lady fhewed fuch a mercenary difpofion, and fo mifchievous to the children of her predeceffor, that one of the family affixed this ftigma. I have taken a peep at her, and may pronounce her countenance to be truly fymptomatic of her interior.[352]

Wedi marwolaeth Lumley Coetmor, mae llythyrau'r teulu yn cyfleu bod Rosier Mostyn (m.1690) wedi cael cyfnodau o iselder ysbryd, gyda'r mab hynaf, Tomas, yn ceisio adfer iechyd ei dad drwy ei annog i sefyll fel aelod seneddol yn niwedd 1681. Ond ofer oedd ei ymgais, gyda'i dad yn gweld gwaeledd corfforol a phrinder dybryd o arian fel rhwystrau, gan gyfeirio at drafferthion ei byllau glo a diffyg cyllid ohonynt.[353] Os oedd Rosier yn cael anhawster i dalu cyflogau i'w weision, fel sy'n cael ei grybwyll yn ei lythyr at Tomas

[349] Cafodd ei chladdu yn Eglwys Chwitffordd, 18 Hydref, 1680. HFMM, 152.
[350] Cerdd 3, t. 3-4.
[351] HFMM, 154-155. Gwelwyd y darlun ar ymweliad preifat â Phlas Mostyn yn 2011, nid oes arwydd o ddifrod plygiad i'w weld ar y darlun a gwelir y ddwy wraig gyda Rosier Mostyn.
[352] HPWH, 62
[353] Diogelwyd y llythyrau yng nghasgliad y teulu yn Archify Prifysgol Bangor. Llawysgrifau Mostyn 9068, 5 a 7.

yn Rhagfyr 1681,[354] ni fyddai ychwaith am ystyried gwariant ychwanegol dros gyfnod y Nadolig drwy gynnig nawdd barddol yn ystod un o gyfnodau traddodiadol y canu caeth.

Os nad oedd mewn sefyllfa i dalu cyflogau yn Rhagfyr 1681, roedd llewyrch ysblennydd yn cael ei arddangos ganddo yn 1684 pan ddaeth Henry Somerset – Dug Beaufort – a'i osgordd helaeth ar ymweliad â phlas Mostyn am dridiau yng Ngorffennaf y flwyddyn honno. Cafodd yr ymweliad ei gofnodi'n fanwl gan Thomas Dineley yn ei gyfrol am daith Dug Beaufort drwy Gymru yn ystod ei dymor fel Llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau, gyda'r nodiadau am y cyfnod yn Sir y Fflint a Mostyn yn cynnwys darluniau manwl o Blas Mostyn, peirianwaith olwyn ddŵr ddiwydiannol Rosier Mostyn, ac arfbais cymhleth teulu Mostyn.

> Wednesday July, 23 d. in the Evening Sr Roger Mostyn brought his Grace ye Duke of Beaufort the Earle of Worcester Sr John Talbot and all the gentry of Flintshire and ye adjacent countries with his Graces Officers and Attendants to his House at Mostyn, where a very great and noble enterteinment was provided, each course appearing as if it were the last...
> The next day being Thursday, July 24: 84 his Grace the Duke of Beaufort rested, and spent in viewing the lands and various works and Machines of the Lead and Colemines belonging to Sr Roger Mostyn. [355]

Gan nad oes cerddi yn dathlu'r achlysur, mae'n debyg nad oedd y beirdd yn rhan o'r 'great and noble enterteinment' a ddarparodd Rosier Mostyn i'w ymwelwyr dylanwadol. Rhys Cadwaladr oedd yr unig un o feirdd Rosier a oedd yn fyw erbyn hyn[356] ond nid oes awgrym bod y clerigwr wedi canu ym Mhlas Mostyn ar ôl marwolaeth Lumley Coetmor a ni welir beirdd eraill yn ymddangos ar yr aelwyd yn Sir y Fflint.

Ni welir Rosier Mostyn (m.1690) yn dangos yr un ddiddorddeb mewn llawysgrifau â'i fab hynaf, Tomas. Gan mai'r gyfrol o gerddi ar achlysur priodas ei daid, Rosier Mostyn (m. 1642) â Mari Gwyn yw'r unig enghraifft yng nghasgliad y teulu sy'n ymdebygu i lyfr

---

[354] Archify Prifysgol Bangor. Llawysgrifau Mostyn 9068, llythyr 7.
[355] Thomas Dineley, *An Account of the official Progress of His Grace, Henry, The First Duke of Beaufort through Wales in 1684* (Llundain, 1888), 90-97. Dyfynir rhan o'r sylwadau am Mostyn yn HFMM, 146-148. Mae llythyr diddorol gan Richard Mostyn at ei frawd, Tomas Mostyn, Gloddaith, ar 23 Gorffennaf, 1684, yn datgan dymuniad Llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau ar i Tomas ddod i Mostyn i'w weld. Er nad oedd Tomas a'r Llywydd ar delerau da iawn am reswm anhysbys, mae ei dad yn ategu'r gwahoddiad, gan ddatgan y byddai'n fuddiol i Tomas gytuno â'r cais. Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, 55.
[356] Bu farw Rhys Cadwaladr yn 1690. BA: Cadwaladr, Syr Rhys.

llys,[357] prin yw'r dystiolaeth yn y cyfnod hwn o gasgliad o lyfrau ym Mostyn. Fodd bynnag, cyfeiriodd Edward Parry, Caer, cyhoeddwr a gwerthwr llyfrau, yn 1842 at lyfrgelloedd niferus y teulu gan gynnwys Pengwern, un o bum llys y teulu, sy'n awgrymu bod casgliad cynnar yn bodoli.[358] Cyfeiriodd Thomas Dineley at ardd lewyrchus Plas Mostyn yn ei gyfrol ac efallai ei bod yn cynrychioli un o ddiddordebau Rosier Mostyn:

> Belonging to Mostyn House are a fair garden, good Walks and excellent walled Fruit, not a little rare so neer ye Salt Water.[359]

Bu farw Rosier Mostyn ym Mhlas Mostyn ar 4 Hydref, 1690, gyda'i dystysgrif angladdol yn nodi ei fod yn 66 oed.[360] Canwyd marwnad iddo gan Owen Gruffydd (*c* 1643-1730), Llanystumdwy, a chyda'r gerdd hon gwelir bod y traddodiad barddol wedi newid ac ymaddasu ar gyfer cyfnod newydd o nawdd yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Ar achlysur marwolaeth Rosier Mostyn, gwelir bardd 'proffesiynol' yn cael ei gomisiynu i greu marwnad, gyda'r gwaith yn cael ei ddyfarnu i fardd y tu allan i'r sir, ymron i saith deg milltir i ffwrdd, a bardd heb gysylltiad blaenorol â'r teulu.[361] Ychwanegwyd ar lawlyfr Owen Gruffydd, mewn llawysgrif wahanol:

> Cafodd y Bardd 50 swllt am wneud y cywydd uchod £2-10-0.[362]

O gofio am lythyr Rosier at Pyers Pennant chwe mlynedd yng nghynt yn 1674 yn gofyn am ad-daliad o £4 am bâr o ych a'r sylw am anfon £20 i anfon Richard Mostyn i Rhydychen,[363] roedd y taliad i Owen Gruffydd yn arian sylweddol, ac yn ddigon anarferol iddo gael ei gofnodi ar lawlyfr y bardd.[364]

---

[357] Cyfrol o gerddi ar achlysur y briodas yn 1596. Llawysgrif Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 1.

[358] Daw'r cyfeiriad o'i lythyr at Gwallter Mechain yn trafod ei waith yn rhestru llawysgrifau a hen lyfrau'r teulu yn Llyfrgell Gloddaith a oedd wedi eu trosglwyddo i Blas Mostyn. Dyfynir gan Daniel Huws yn *Medieval Welsh Manuscripts* (Aberystwyth, 2000), 305.

[359] Thomas Dineley, *An Account of the official progress of His Grace Henry the first Duke of Beaufort*, 96. Mae waliau'r ardd yn parhau i sefyll, gyda'r ardd wedi ei hadfer yn ddiweddar gan wirfoddolwyr a fydd hefyd yn ei chynnal mewn menter gydweithredol. (Gwelwyd yr ardd ar ymweliad personol yn 2011.)

[360] HFMM, 50-151.

[361] Nid oedd Owen Gruffydd yn ddibynnol ar nawdd barddol am gynhaliaeth gan ei fod yn wehydd wrth alwedigaeth ac felly nid yn fardd proffesiynol yng ngwir ystyr y gair. Ceri W Lewis, 'The Decline of Professional Poetry' yn R Geraint Gruffydd (gol.), *A guide to Welsh literature c. 1530-1700* (Caerdydd, 1997), 57.

[362] Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, Cwrtmawr 467, 232.

[363] HFMM, 146

[364] Am gefndir y bardd gweler BA: Gruffydd, Owen.

Wedi canu am y galar o golli Rosier Mostyn, mae marwnad Owen Gruffydd yn olrhain yr achau yn fanwl, gan gyfeirio at aer pob cenhedlaeth hyd at Ieuan Fychan ac yna cyfeirio at linach mamau'r teulu, gwybodaeth a fyddai'n hysbys i'r bardd fel hynafiaethydd. Ceir hefyd gyfeiriad at y pum llys:

Hir gwynwn oeri gwaneg
Ei bum plas, twf addas teg.
Pengwern oedd, pa winoedd well
Fu gostus? A Thref Gastell
A Mostyn glir maes dan glod,
Annedd pur winoedd parod,
Gloddaith hawl gloywddoeth helynt,
Mawr oedd gwledd Tref Garnedd gynt.[365]

Ni cheir cyfeiriad at ei dair gwraig – Prudence Lumley, Mary Bulkeley na Lumley Coetmor – ond enwir y plant a'i goroesodd, Tomas, Richard Penbedw, Siân a Margaret, gan gyfeirio hefyd at yr wyrion. Mae'n pwysleisio rhan amlwg ail ŵr Siân, Syr John Trefor (1637-1717), fel Llefarydd Tŷ'r Cyffredin:

Och roi briw i ochre bron
Merch gynnes marchog union,
Honno yw Siân, hynaws wedd,
Gwraig marchog, enwog annedd,
Syr John Trefor, rhychor rhin,
Ged freiniol gyda'i frenin,
Ceidwad grym er codiad gras,
Sail a dwrn sêl y Deyrnas.

Ychydig a wyddai Owen Gruffydd y byddai mab yng nghyfraith Rosier Mostyn ymhen pum mlynedd yn creu hanes drwy golli ei swydd am lwgrwobrwyo.[366]

Gyda dros hanner can mlynedd ers y Rhyfel Cartref, efallai nad oedd gweithredoedd milwrol Rosier Mostyn pan oedd yn ei ugeiniau wedi ysbrydoli bardd nad oedd ond yn faban yn ystod y gwrthryfel. Fel uchelwr o dras fonheddig y cyfleir Rosier Mostyn gan Owen Gruffydd, a chyfeiriad byr yn unig a geir at ei fywyd milwrol. Gyda Rosier wedi

[365] Gweler Cerdd 6, t. 11.
[366] Gweler BA: Trevor (Teulu), 'Brynkynallt', Sir Ddinbych, am fwy o wybodaeth am John Trefor. Daeth gwarth Syr John i sylw unwaith eto yn 2009 yn dilyn archwiliad i dreuliau aelodau seneddol, gyda Michael Martin yn ymddiswyddo fel Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hytrach na dioddef tynged Syr John a chael ei orfodi o'r swydd.

ymddeol o swyddi cyhoeddus yn siroedd Fflint a Chaernarfon ers degawdau, ni allai'r bardd ond canu yn gyffredinol am ei nodweddion fel arweinydd:

Prudd i wael priddo ei wên,
Aml les, am ei elusen.
Am Syr Rosier llawer llu,
Syn oer waith, sy'n hiraethu,
Gwladwr bro, gwiw lediwr braint,
Trwy fwyn garu trefn gywraint,
Colofn bro oedd o i'w ddydd
A'i hwyl odiaeth wyliedydd
Milwr llu ymaelwr llon,
Dewr gwrol o du'r goron,
Llew wrth drawsion blinion blaid
Ac oen gwyn i gŵyn gweiniaid.
Ni wnaid gam, ŵr dinam doeth,
Dros unawr o drais annoeth,
Na cham gan ŵr cwsniwr cau,
Ddu ddyfais ni ddioddefau.
Diwair fu hyd awr ei fedd
Oen rhadol ei anrhydedd. [367]

Cafodd Rosier Mostyn ei gladdu yn Eglwys Chwitffordd ar 16 Hydref, 1690, yn ôl cofrestr yr eglwys, cyfrol a gyflwynodd Rosier i'r plwyf yn 1657 i gymryd lle un gynharach a gollwyd yn ystod y Rhyfel Cartref. Ef oedd yr olaf o'r teulu i gael ei gladdu yn yr eglwys, gydag Eglwys Llanrhos, ger Gloddaith a Llandudno, yn cael ei defnyddio gan y teulu wedi hyn.[368]

[367] Cerdd 6, t. 12-13.
[368] HFMM, 150-151. Cyfeiria Norman Tucker at 'Porch Syr Roger' a hefyd at un o dair cloch yr eglwys sy'n dwyn ei enw ynghyd â'r dyddiad 1662. CSRM, 53. Ailadeiladwyd yr eglwys yn 1845/6, gyda rhai nodweddion o'r eglwys gynharach yn goroesi. Gweler gwefan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys: http://www.cpat.demon.co.uk/projects/longer/churches/flint/102357.htm. Defnyddiwyd Eglwys Llanrhos, ger Llandudno, ar gyfer claddedigaethau teuluol yn ddiweddarach gan y teulu. Mae Thomas Pennant yn cyfeirio at gladdedigaeth Rosier Mostyn yn Eglwys Chwitffordd ond noda'n anghywir mai yn 1651 y bu farw. HPWH, 109.

Tomas Mostyn (1651-1692)

Rosier Mostyn = Mary Bulkeley
|
| Darcy Savage = Ann Mostyn
| |
Tomas Mostyn = Bridget Mostyn

Er mai trydydd mab oedd Tomas Mostyn i Rosier Mostyn (m. 1690), bu farw'r meibion o'r briodas gyntaf â Prudence Lumley yn eu babandod, ac fel mab hynaf Mary Bulkeley, yr ail wraig, ef oedd i etifeddu ystad eang y teulu. Roedd ymgyrchoedd milwrol ei dad yn y Rhyfel Cartref wedi dod i ben pan gafodd Tomas ei eni ym Mawrth 1651 a'r teulu bellach yn ôl ym Mhlas Mostyn[369] ond fe ellid tybio bod y mab ifanc wedi ei fagu ar straeon am weithgaredd ei dad. Fodd bynnag, roedd cynnwrf y Rhyfel Cartref yn parhau i ddylanwadu ar blant ieuanc y cyn-filwr yn enwedig pan garcharwyd eu tad yng Nghastell Conwy am rai dyddiau yn 1658.[370] Daeth tristwch mawr i ran y teulu yn 1662 gyda marwolaeth eu mam, Mary Bulkeley, pan oedd Tomas yn un ar ddeg oed ac mae'n debyg y byddai wedi gadael cartref oddeutu'r cyfnod hwn i gael addysg ramadeg. Ceir cofnod ohono yn cofrestru yng Ngholeg Crist, Rhydychen, ar 17 Mai, 1667, yn un ar bymtheg oed, dri mis ar ôl i'w dad briodi â Lumley Coetmor.[371]

Roedd Tomas yn ŵr priod erbyn 1672 gyda'i wraig, Bridget Savage, yn ferch ifanc oddeutu un ar bymtheg oed ac yn aeres i ystad sylweddol dros y ffin yn Sir Gaer, yn ogystal â bod yn wyres i Edward Mostyn, Talacre.[372] Ymgartrefodd Tomas yng Ngloddaith gyda'i wraig, ac fel Mr Mostyn, Gloddaith, y caiff ei gydnabod hyd at farwolaeth ei dad yn 1690. Er mai 21 oed oedd Tomas yn priodi, wedi hyn gwelir ei dad yn llai amlwg mewn swyddi cyhoeddus a Tomas y mab a gaiff ei benodi'n ustus yn Sir y Fflint yn 1672.[373] Tomas hefyd a benodwyd yn Ustus a Dirprwy Lefftenant yn Sir Gaernarfon flwyddyn yn ddiweddarach yn ogystal â chomisiynydd yn Fflint a

---

[369] HFMM, 155.
[370] Roedd Henry Cromwell a'i osgordd hefyd wedi ymweld â phlas Mostyn yn 1655 ac mae'n sicr y byddai'r achlysur wedi aros yng nghof y bachgen bach pedair oed. D. L. Thomas, 'Mostyn, Sir Roger, first baronet (*c.*1624–1690)', rev. Sean Kelsey, *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19415, cyrchwyd 22 Ebrill 2013].
[371] HFMM, 155.
[372] Gweler y bennod ar Bridget Savage am fwy o fanylion am y ferch a'i chysylltiad teuluol â theulu ei gŵr.
[373] HFMM, 155.

Chaernarfon, swydd a ddaliodd yn ychwanegol ym Môn a Meirionnydd rai blynyddoedd yn ddiweddarach.[374] Fel ei dad, gwelir Tomas yn gyfrifol am y *militia* yn lleol, gyda'i benodiad yn gapten ar filwyr troed yn Sir Gaernarfon a hefyd yn gyrnol yn yr un sir a hefyd yn Sir Feirionnydd rhwng 1675 a 1677.[375] Gyda'i dad, Rosier Mostyn, wedi byw drwy gyfnod cythryblus y Rhyfel Cartref, profodd Tomas gyfnod gwleidyddol ansefydlog yn ystod ei dymhorau fel aelod seneddol dros Gaernarfon, gyda Siarl II yn gohirio a diddymu sesiynau'r senedd yn 1679.

Er bod ei wraig, Bridget, yn babyddes, siaradodd Tomas Mostyn yn erbyn cynnig Siarl II i sicrhau'r olyniaeth i'w frawd pabyddol, James, Dug Efrog, a chyfeiriodd at rym peryglus Duges Portsmouth, meistres y brenin. O ganlyniad, collodd ei swyddi fel Lefftenant ac Ustus Heddwch yn 1680.[376] Treuliodd dymor arall fel aelod seneddol yn 1681 ond am rai blynyddoedd wedi hyn ceir bwlch pan nad oedd Tomas mewn swyddi cyhoeddus, er ei fod yn parhau i ymddiddori yng ngwleidyddiaeth y cyfnod.[377]

Mae llythyrau'r teulu yn datgelu gwybodaeth helaeth Tomas Mostyn mewn sawl maes ac fe ellir bod yn sicr fod ei addysg brifysgol wedi meithrin ei ddiddordeb sylweddol yn y celfyddydau. Er iddo ysgwyddo cyfrifoldebau yn ifanc – roedd wedi priodi yn 21 oed a dechrau magu teulu, yn ogystal â dal swyddi o awdurdod yn lleol – gwelir Tomas yn ymddiddori mewn nifer o weithgareddau hamdden y byddai uchelwyr cefnog yn eu mwynhau, gyda garddio yn un o'r rhain.[378] Gellid tybio ei fod yn cael ei ystyried yn gryn arbenigwr yn y maes gan y ceir llythyr gan Bridget ato i gyfleu bod Arglwydd Bulkeley am ei gyngor ar dyfu pys, marchysgall (artichokes), blodfresych a melonau ac am gael dau

---

[374] Gwefan The History of Parliament: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/mostyn-thomas-1651-92

[375] Ibid.

[376] Ibid. Roedd ei araith yn destun chwerthin ar adegau gan nad oedd ei Saesneg yn rhugl a chan iddo ddefnyddio geiriau anghymwys wrth ddisgrifio Dug Efrog.

[377] Mae llythyrau personol y teulu yn datgelu diddordeb byw yn nigwyddiadau'r cyfnod, gyda gwaith ymchwil penodol yn cael ei wneud gan Sam Garland ar y cylchlythyrau gwleidyddol a dderbyniodd Tomas Mostyn (m. 1692) yn gyson o Lundain ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Gweler www.imems.ac.uk/mostyn.php am faes yr ymchwil, hefyd Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9066-9076, am lythyrau'r teulu.

[378] Ysgrifennodd Syr Thomas Hanmer, Sir y Fflint, lawysgrif ar arddio yn 1659, *The Garden Book of Sir Thomas Hanmer*, er na chafodd y gyfrol ei chyhoeddi tan 1933. Gyda pherthynas deuluol â theulu Mostyn, (roedd nain y gŵr yn chwaer i Rosier Mostyn (m. 1642)), roedd Thomas Hanmer yn aelod seneddol dros Sir y Fflint ac yn frenhinwr. Mae'n sicr y byddai Tomas Mostyn yn gyfarwydd â gwybodaeth sylweddol y gŵr, os nad oedd wedi gweld y llawysgrif. Roedd Hanmer yn gyfrifol am fewnforio bylbiau tiwlip i'r wlad, gan enwi un yn Agate Hanmer. John Martin, 'Hanmer, Sir Thomas, second baronet (1612–1678)', *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/38539, cyrchwyd 25 Ebrill 2013].

bysgodyn carp o Loddaith.[379] Ni wyddys pryd yn union y cyflwynwyd y pysgodyn hwn i Brydain, ond tybed a oedd ffermio carp yn fenter newydd i Tomas Mostyn oddeutu 1680? Aeth cyflenwad o'r pysgod o Loddaith i Iwerddon ym Mawrth 1681/82 ar gais Arglwydd Longford i Tomas ei gynorthwyo i gyflenwi ei lynnoedd yno.[380] Gwelir Humphrey Humphreys, Esgob Bangor, hefyd yn mynd ar ofyn Tomas Mostyn am gymorth yn Ebrill 1690, pan nad oedd ei goed platanus (planwydd) yn ffynnu fel y dylent.[381] Rai misoedd ynghynt (yn Chwefror 1689/90), roedd Philip Foulke yn diolch i Tomas am gyflenwad o goed a gafodd ganddo, a rhaid tybio bod Tomas yn ymddiddori mewn prynu neu dyfu coed ar gyfer tirlunio yn y cyfnod hwn.[382] Roedd y gerddi ymysg y rhestr hirfaith o hynodion a ymddengys yn awdl foliant Edward Morris wrth ganu am yr ystad yng Ngloddaith:

Eurddawn urddol, wyrddion arddau
A'u perllannau, pur eu lloned,
A llwyn breiniol, llawn o breniau,
A dyfr lynnau, difyr loned. [383]

Gwelir yr uchelwr hefyd yn ymddiddori mewn hela a physgota, gyda'r pysgod yn y llynnoedd yn cael heddwch i hamddena pan oedd Tomas ar ymweliad â Llundain:

A'ch pysgod da, hynod oedd
I lenwi eich amryw lynnoedd,
Yn eu rhith ni ddôn i'r rhwyd
O wlybwr i gael abwyd. [384]

Roedd gan Tomas Mostyn ddiddordeb hefyd mewn pysgota ar y môr. Hwyliai yng nghyffiniau Gloddaith a defnyddiai oredau hynafol mynaich Abaty Aberconwy yn

[379] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9067, llythyr 76, (ysgrifennwyd rywdro yn 1680).
[380] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyr 10. Gwelir Tomas Mostyn yn anfon y pysgod fel rhoddion i'w gyfeillion, gyda William Lloyd, Esgob Llanelwy, yn derbyn cyflenwad ganddo ar sawl achlysur. Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyr 27 (Hydref 1683) a llythyr 52 (Mawrth 1684).
[381] Rai wythnosau yn ddiweddarach, ceir llythyr arall gan Humphrey Humphreys at Tomas Mostyn yn diolch am 'things for my garden', gyda chyfeiriad at 'Gwŷnochrog'. Tybed ai math o goeden afalau oedd hon, gan ei fod yn cyfeirio at y rhain yn 1692? Ni wellodd y platanus, gan i'r esgob ysgrifennu at Tomas ym Mai 1692 i ddweud bod y goeden/coed wedi marw, ond roedd y coed afalau yn tyfu'n dda. Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9071, llythyrau 54 a 63; Casgliad Mostyn 9072, llythyr 68.
[382] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9071, llythyr 56.
[383] Cerdd 7 – 'Awdl Foliant Thomas Mostyn ar y Pedwar Mesur ar Hugain' – t. 18.
[384] Cerdd 12 – 'Cywydd i annog Tomas Mostyn adref o Lundain' – t. 32.

Llandudno a Llandrillo yn Rhos i'w gynorthwyo i ddal gleisiaid neu eogiaid ifanc. Yng ngeiriau Ffowc Wyn:

Da in o gored Dudnaw,
Gleisiadau'n ddiau a ddaw.
Gyda'r don daeth i honno
Taliesyn yn burwyn i'n bro.
Cael y bardd, nid yn harddwych,
Trwy siawns yng nghwr y tir sych
Hawdd, hawdd i'n wybod heddiw
Y gwyrthiau'n ddiau o Dduw.
Trallawn fu gored Trillo,
Ildiai a fynnai fo.[385]

Arweiniodd ei ddiddordeb mewn pysgota at iddo greu lloches unigryw mewn ogof ar lethr y Gogarth, ger Llandudno, ac ysgogwyd Siôn Dafydd Las i ganu cywydd i'r annedd arbennig:

Pan êl i'r môr, drysor draw,
Hyd ei rydid i rodiaw,
Gaiff hefyd gymryd ei gwch,
Da fwriad, er difyrrwch,
A myned o rym waneg
Heibio i Landudno deg
A physgota 'wna yn wir
Yn ddiofal, yn ddifir
A myn i'r lan at 'r annedd
I'r ogo' wych, rywiog wedd
A chael yn hon, fodlon fyd,
Loches i gynnal iechyd.[386]

Nid oedd prinder prae i'w hela yng Ngloddaith a gyda Tomas Mostyn i ffwrdd, gwelai Rhys Cadwaladr nid yn unig y colomenod a'r brain yn mynd yn haerllug – 'Yn sythion eisiau'u saethu, / Egni taer a'r gynnau'n tŷ'[387] – ond hefyd y llwynog a'r dyfrgi.[388]

[385] Cerdd 13 – 'Cywydd i ofyn am fytheiad gan Tomas Mostyn' – t. 36-7.
[386] Cerdd 26 – 'Cywydd i'r Llech' – t. 76.
[387] Cerdd 12 – 'Cywydd i annog Tomas Mostyn adref o Lundain' – t. 33.
[388] Cyhoeddodd Izaak Walton gyfrol ar bysgota yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg gan gyfeirio hefyd yn gyffredinol at arferion hela'r cyfnod, yn cynnwys hela dyfrgwn, gelyn y pysgotwr. Gyda llynnoedd carp yng Ngloddaith, byddai'r dyfrgi wedi bod yn brae haeddiannol i Tomas Mostyn. *The Complete Angler* (Llundain, 1853).

Nid oes draw ddim yn llawen
Yn y coed ond llwynog hen,
A'r dyfrgi sydd heb 'guddio
Gan ddoedyd 'Gwyn i fyd fo
Fod drymer swrth a chlog wrtho
Yn brudd', a chwithau o'ch bro. [389]

Mae cynnwrf yr helfa pan oedd Tomas Mostyn gartref yn cael ei gyfleu gan Edward Morris, Perthi Llwydion, a gwelir bod ceirw ac adar ysglyfaethus yn parhau yn rhan o'r traddodiad hela ar yr ystad:

Y cynyddion â chŵn hirion
A bath hoywon yw bytheied,
Craff saethyddion, cwning tyrfion
Cyrraedd olion, ceirw ddalied; [390]

Gyda chywydd gofyn Ffowc Wyn, ceir manylion am y cŵn hela yng Ngloddaith a bwrw bod y bytheiad yr oedd yn ei geisio yn nodweddiadol o'r cŵn yno:

Mae yn gi torgoch glustgoch glew,
Cefndu sy' gan y ci c'fndew,
Yn ei fyw fo fyn yfô
Y geinach bach i'w ginio. [391]

Mae hoffter Tomas Mostyn o gŵn yn cael ei gyfleu mewn dau gywydd i ast o'i eiddo, ci anwes o'r enw 'Miss' a ysgogodd Siôn Dafydd Las a Rhys Cadwaladr i ganu marwnad iddi yn 1684:

Un fechan, hoywlan helynt,
Lluniedd gorff, llawenydd gynt.
Mwyn ydoedd, bob munudyn,
A chryno'i gwedd a'i chroen gwyn
A nodau duon wedi
O'i deutu i'w harddu hi. [392]

[389] Cerdd 12, t. 33.
[390] Cerdd 7 – 'Awdl Foliant Thomas Mostyn ar y Pedwar Mesur ar Hugain' – t. 18.
[391] Cerdd 13, t. 37.
[392] Cerdd 24 – 'Cywydd Marwnad '*Miss*', gast Tomas Mostyn' – t. 70. Gweler hefyd Cerdd 25 gan Rhys Cadwaladr, t. 73-4.

Roedd ei ffyddlondeb i'w pherchennog yn amlwg:

Diamau od âi ymaith
O'i dŷ a myned i daith,
Yn dirion hi a darief,
Ddull da, ar ei ddillad ef.[393]

Os oedd gan Tomas Mostyn amser i hamddena, roedd ganddo hefyd ddyletswydd tuag at ei ystad, gan fod amaethu yn parhau yn rhan bwysig o'r economi wledig yng Ngloddaith. Tra byddai etifeddiaeth Bridget Mostyn wedi sicrhau bywoliaeth gyfforddus i'r teulu drwy incwm y rhenti yn sir Gaer, dewis magu eu teulu yn awyrgylch gwledig Gloddaith a wnaeth y ddau, a gellid tybio oddi wrth awdl Edward Morris, Perthi Llwydion, fod gan Tomas ran yn yr amaethu yn Llanrhos. Yn ddiddorol, Edward Morris, porthmon a mab i amaethwr o Gerrig-y-drudion, yw'r unig fardd i gyfeirio at y diwydiant amaeth ar yr ystad.

Yr ŷd ar rodir a'r clud o'r cleidir
A gwair morfadir, gŵyr mawr fuded,
A deilwair dolydd, ir wellt ar elltydd
A llyna foelydd llu anifeilied. [394]

Er gwaethaf y difyrion amrywiol a oedd ar gael i Tomas ar yr ystad yng Ngloddaith, roedd ei ddiddordeb pennaf y tu mewn i furiau'r plasty, fel y canodd Ffowc Wyn yn ei gywydd gofyn:

Caru'r gân, wrth dân ydyw,
Gymraeg, ie, yma o ryw,
A'i lyfr ydi ei fyf'rdod,
Yn ddi-gêl rhown iddo glod.
Gwych yw pob tro ar y gŵr
Hwylus ond nid â'n heliwr. [395]

Gosododd diddordeb Tomas Mostyn (m.1692) mewn llawysgrifau a llyfrau prin seiliau cadarn i gasgliad sylweddol o lenyddiaeth a fyddai'n sylfaen bwysig i'r llyfrgell yng Ngloddaith. Roedd ganddo ddiddordeb mewn henebion mewn sawl ffurf, ac ymddangosodd manylion am ei gasgliad o greiriau yn *Camden's Wales*:

[393] Cerdd 25, t. 71.
[394] Cerdd 7, t. 17.
[395] Cerdd 13, t. 35.

> The late Sir *Thomas Mostyn* Baronet, who may be justly stil'd a Gentleman of exemplary qualifications, shewed me amongst his valuable Collection of Antiquities, some Curiosities which he had received from this place. Amongst these, I noted a hollow brick, taken from the Hypocaust above-mention'd, thirteen inches long, and five and a half square, having a round hole in the midst, of about two inches diameter, the thickness of the brick not exceeding three quarters of an inch.[396]

Ceir cadarnhad o werth hanesyddol casgliad Tomas Mostyn yn llythyrau ei frawd, Richard Mostyn, Penbedw, yn nechrau'r ddeunawfed ganrif.[397] Bu Richard yn gohebu droeon gyda'r hynafiaethydd, Edward Lhuyd, ac yn un o'r llythyrau hyn ceir cyfeiriad at un o ddiddordebau eraill Tomas Mostyn, sef casglu darnau o arian (coins):

> J wish I ed have look'd over his collection of medals J think he had severall brittish ones yt are not in Cambden, but you know nothing is certain is made out by those, soe yt they are a bare curiosity.

Roedd Richard Mostyn yn ymwybodol iawn o gyfoeth llenyddol ei frawd, a chyfeiriodd at hyn mewn llythyr at hynafiaethydd amlwg arall yn y cyfnod ac arbenigwr ar lawysgrifau, sef cyn-lyfrgellydd Bodleian, Thomas Hearne, wrth drafod casgliad Tomas Mostyn yn 1717:

> He who collected these MSS (besides many qualification yt it do's not become me to mention) had ye best tast of books & learning of any country Gentn yt ever I saw in these parts, & while it pleas'd God to spare him to me, his family & country I must own I improv'd my selfe more by his conversation yn by my reading.[398]

Roedd Richard Mostyn ei hun yn gasglwr llyfrau ac yn berchennog ar lyfrgell bwysig, rhan o lyfrau'r casglwr Sir Kenelm Digby drwy etifeddiaeth ei wyres, Charlotte Theophilia

---

[396] Mae lleoliad yr Hypocaust yn cael ei gofnodi fel *Kaer Lheion ar Gynwy*. Cynhwysir darluniau o rai o greiriau Tomas Mostyn yn y gyfrol. T James (gol.), *Camden's Wales being the Welsh chapters taken from Edmund Gibson's revised & enlarged edition of William Camden's BRITANNIA (1722)* (Caerfyrddin, 1984), 77. Ceir cyfeiriad at gasgliad o ymron i hanner cant o bennau bwyelli cerrig hynafol a ddarganfuwyd mewn cae ger Gloddaith yn 1686 yn mynd yn eiddo i Tomas Mostyn. Christopher Draper, *Llandudno before the hotels: 10,000 B.C. – 1854 A.D.* (Llwyndyrys, 2007), 57.

[397] Nesta Lloyd, 'The Correspondence of Edward Lhuyd and Richard Mostyn', yn *Flintshire Historical Society Journal*, 25 (1971-72), 35. Gellir gweld rhai o'r llythyrau ar wefan Early Modern Letters Online: http://emlo.bodleian.ox.ac.uk/profile/work/13c338a0-942a-4d48-aa72-755fe91e087d

[398] Lloyd, 'The Correspondence of Edward Lhuyd and Richard Mostyn', 32. Collodd Thomas Hearne (1678-1735) ei swydd yn Llyfrgell Bodleian, Rhydychen, am wrthod talu gwrogaeth i Sior I, ac er iddo gael cynnig sawl swydd bwysig wedi hyn, dewisodd weithio yn annibynnol yn golygu croniclau fel y gallai barhau i wrthod talu gwrogaeth i'r brenin. Theodor Harmsen, 'Hearne, Thomas (*bap.* 1678, *d.* 1735)', *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/12827, cyrchwyd 25 Ebrill 2013]

Digby, a gwraig Richard Mostyn. Un o'r llyfrau prin a oedd ym Mhenbedw drwy'r casgliad hwn oedd 'Great Bible of 1539', cymar i gopi Coleg Sant Ioan, Caergrawnt.[399] Cyflwynodd Moses Williams ei gyfrol, *Cofrestr o'r Holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn yr iaith Gymraeg, neu a gyfieithwyd iddi hyd y flwyddyn 1717,* i Richard Mostyn, Penbedw, er mai cyfrolau hanesyddol yn hytrach na llenyddiaeth Gymraeg oedd diddordeb Richard. Mae'r rhestr o lyfrau a phamffledi ym Mhenbedw yn llawysgrifen Richard ei hun hefyd yn dangos diddordeb sylweddol yn nadleuon crefyddol y dydd, testun na thrafodwyd yn yr ohebiaeth gydag Edward Lhuyd.[400]

Nid Tomas Mostyn a'i frawd, Richard, oedd yr unig aelodau o'r teulu i ymddiddori mewn casglu llyfrau a llawysgrifau yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Gwelir Humphrey Humphreys yn cyfeirio mewn llythyr at Tomas yn 1684 at *Volaires of St Wenefried,* gan nodi bod y gwreiddiol yn Nhalacre gan Mr Peter Mostyn (cefnder Bridget Mostyn).[401] Roedd ei dad, Syr Edward Mostyn, yn ŵr diwylliedig iawn, ond collodd gynnwys ei lyfrgell sylweddol yn ystod y Rhyfel Cartref.[402] Mae sylw Humphreys yn cadarnhau bod teulu Talacre wedi ailafael yn eu diddordeb yn ddiweddarach, er mai prin yw'r wybodaeth am y llyfrgell yno.

Gwelir oddi wrth lythyrau Tomas Mostyn fod ganddo ddiddordeb llenyddol sylweddol a chryn frwdfrydedd dros gasglu llyfrau a llawysgrifau ar ystod eang o bynciau ac ieithoedd, a bod nifer o unigolion yn ei gynorthwyo i gyflawni hyn. Daw rhai o'r llythyrau gan wŷr a brynai lyfrau ar ei ran yn Llundain, gyda llyfrau a chatalogau arwerthiannau llyfrau yn cael eu hanfon at Tomas yng Ngloddaith. Dechreuodd ei ddiddordeb yn ieuanc a gwelir Tomas yn prynu nifer sylweddol o lyfrau yn 1675/76 pan oedd oddeutu 24 oed, gyda

---

[399] Lloyd, 'The Correspondence of Edward Lhuyd and Richard Mostyn', 32.

[400] Lloyd, 'The Correspondence of Edward Lhuyd and Richard Mostyn', 32. Mae Nesta Lloyd yn pwyso ar yr wybodaeth a geir yn *Schelude of Peniarth MSS. and documents,* Peniarth 512; 'Catalogue of the Penbedw Library ?17'th cent. and a catalogue of the 17th and early 18th cent. pamphlets.' Trosglwyddwyd rhywfaint o gasgliad Richard Mostyn, Penbedw, i'r Llyfrgell Genedlaethol gan Cyrnol Wynne, Peniarth, Sir Feirionnydd.

[401] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyr 47. Mae'n debyg mai Pyrs Mostyn (m. 1720) oedd hwn, gan y gwelwyd yr enw yn cael ei gyfnewid am Peter unwaith o'r blaen mewn cenhedlaeth gynharach (yn achos trydydd mab Rhisiart ap Hywel). Roedd Pyrs Mostyn (m. 1720) yn nai i Ann Mostyn, mam Bridget Savage.

[402] Cyfeiriodd Richard Mostyn, Penbedw ato fel: 'a Learned man and great Collector but his books and papaers were pillagd this last civil war to ye great losse of ye publick made away.' Dyfynir gan J Gwynn Williams yn 'Witchcraft in Seventeenth-Century Flintshire', *Journal of Flintshire Historical Society,* 26, 1973-74, 32.

Christopher Wilkinson, Llundain, yn anfon bil iddo am 30 llyfr.[403] Ceir llythyr gan lyfrwerthwr arall, Isaac Litteebury, yn 1691, ynghyd â bocs o lyfrau, a'r sylw bod llyfrau o Ffrainc wedi mynd yn ddrud iawn oherwydd y rhyfel dramor.[404] Erbyn 1691, gwelir George Maior yn weithredol iawn yn Llundain yn canfod llyfrau i Tomas Mostyn ac yn prynu ar ei ran mewn arwerthiannau. Mae gohebiaeth Tomas Mostyn â Maior yn dangos nad cyfrolau di-nod oedd yn cael eu hychwanegu at y llyfrgell yng Ngloddaith ond llyfrau yr oedd casglwyr amlwg y cyfnod, megis Samuel Pepys ac Esgob Norwich, hefyd yn eu chwennych, gyda George Maior yn nodi bod y ddau ŵr wedi holi a fyddai Tomas yn ystyried gwerthu llyfrau penodol o'i gasgliad.[405]

Gŵr arall a fu'n weithgar iawn yn chwilio am lyfrau i Tomas yn Llundain ac yn Ffrainc oedd Philip Foulke, gyda Beibl yr Iddew (Jew's Bible) a Beiblau Sbaenaidd ymysg y cyfrolau yr oedd yn eu ceisio yn 1682/83.[406] Ceir cyngor meddygol yn fynych gan Philip Foulke i Tomas Mostyn yn ei lythyrau ac mae'n debyg mai meddyg neu apothecary oedd y gŵr o Swydd Amwythig ac nid llyfrwerthwr wrth ei alwedigaeth. Roedd Philip Foulke hefyd yn benthyg llyfrau a llawysgrifau i Tomas Mostyn, ac roedd yr arferiad hwn yn gyffredin ymysg llawer o gyfoedion Tomas. Un o'r gwŷr a ohebai fynychaf â Tomas am lawysgrifau prin oedd Humphrey Humphreys (1648—1712), Deon ac yn ddiweddarach Esgob Bangor, gyda'r ddau yn cyfnewid copïau yn fynych. Ymysg y llawysgrifau a anfonodd Humphrey Humphreys at Tomas yr oedd llythyr Owain Gwynedd at Becket a'i ateb ynglŷn â chysegru Esgob Bangor, a hefyd Llyfr Achau Lewis Dwn a'r Chester Chronicles.[407] Cyfrol bwysig arall a anfonodd Humphrey Humphreys i Loddaith yn 1686/87 oedd Llyfr Esgobol Bangor, gyda'r nodyn mai hwn oedd yr unig gopi yn y byd a'i

---

[403] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9066, llythyr 42. Noda Christopher Wilkinson fod un o'r llyfrau ail-law yn ddrud iawn, sef bron yn ddeugain swllt.
[404] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9072, llythyr 18.
[405] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9072, llythyr 50. Roedd Samuel Pepys am brynu'r *Quattuor Evangelistae* a'r esgob am brynu'r *Terence* yn Chwefror 1692. Rai dyddiau yn gynharach, George Maior oedd y collwr ar *Wickliff's Sermons,* cyfrol a brynwyd gan Samuel Pepys. Casgliad Mostyn 9072, llythyr 49. Ceir blas ar Lundain y cyfnod yn achlysurol yn y llythyrau, gyda George Maior yn cynnwys manylion am ei daith yn Ionawr 1691/92 i weld addasiad Christopher Wren i'r Chelsea College, sef Ysbyty Brenhinol Chelsea, cartref y Chelsea pensioners. (Casgliad Mostyn 9072, 46). Mae gwaith manwl Daniel Huws yn olrhain y cyfrolau a'r llawysgrifau a gasglwyd gan Tomas Mostyn yng Ngloddaith yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg yn ei gyfrol *Medieval Welsh Manuscripts*, 303-329. Lluniwyd catalog o gynnwys y llyfrgell yng Ngloddaith wedi marwolaeth Tomas Mostyn yn 1692 a bu hwn, a chatalogau diweddarach y teulu, yn gyfrwng i Daniel Huws greu darlun cynhwysfawr o weithgarwch yr uchelwr.
[406] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyrau 17 (6 Ionawr, 1682/83) a 22 (4 Mai, 1683).
[407] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyr 31, 56; Casgliad 9071, llythyr 66. Am fwy o fanylion am y llyfrau a'r llawysgrifau y bu'r ddau yn eu trafod a'u cyfnewid, gweler llythyrau'r teulu yn yr archifdy, Casgliadau Mostyn 9066-9076.

fod yn bedair canrif oed.[408] Cafodd y llyfr unigryw – *Bangor Pontifical* – ei ddychwelyd i Eglwys Gadeiriol Bangor yn 1701,[409] y flwyddyn y gadawodd Humphrey Humphrey am esgobaeth Henffordd.

Ymysg y gwŷr eraill a ohebai â Thomas Mostyn ynghylch llyfrau prin a llawysgrifau yr oedd William Lloyd, Esgob Llanelwy, Henry Wharton, Lambeth, eglwyswr, awdur a hanesydd, a Jonathan Edwards, Is-ganghellor Prifysgol Rhydychen.[410] Yn ddieithriad, Saesneg oedd cyfrwng cyfathrebu Tomas mewn llythyrau a'r unig gyfeiriad at ei Gymreictod yw sylw yn 1688 gan Humphrey Humphreys y gallai anfon copi Cymraeg o weddi pe dymunai.[411] Yn ddiamau, Cymraeg oedd iaith gyntaf Tomas gan mai dyma iaith beddargraff ei ferch fach, Mari, yn Eglwys Llanrhos – 'Yma mae corff Mari ferch Tomas Mostyn o Loddaeth Esq yn aros i ail gysvlltv ar enaid a ddychwelodd at i wnevthvr cvn gwybod drwg, Medi 17, 1675'.[412]

Daw'r unig gyfeiriad yn yr ohebiaeth at ddiddordeb Tomas Mostyn mewn casgliad Cymreig o lawysgrifau mewn llythyrau gan ei frawd yng nghyfraith, William Salesbury, Rug, Corwen, yn 1676. Ceir cyfeiriad at y llyfrau yn 'study' Robert Vaughan, Hengwrt, a fyddai'n cael eu rhestru mewn catalog gyda'r bwriad o'u gwerthu, ac er bod cryn ddiddordeb ymhlith casglwyr y cyfnod yn y casgliad pwysig hwn o lawysgrifau prin, bu anghydfod teuluol a difaterwch yn gyfrwng iddynt barhau heb eu gwerthu, er siomiant i lawer y gellid tybio, gan gynnwys Tomas Mostyn.[413] Efallai mai cynnwys y stydi yn Hengwrt oedd yr ysbrydoliaeth i Tomas greu casgliad cyffelyb yng Ngloddaith, a chydag etifeddiaeth Bridget yn gefn iddo, roedd mewn sefyllfa gyfforddus nid yn unig i brynu llyfrau a llawysgrifau yn Saesneg a nifer o ieithoedd tramor a chlasurol ond hefyd i greu a chynnal casgliad Cymraeg. Gŵr ifanc a'i cynorthwyodd i gyflawni hyn oedd un o feirdd y

---

[408] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9070, llythyr 7. Tybir bellach nad yw'r gyfrol cyn hyned, ac mai rhwng 1310 a 1320 y lluniwyd y llawysgrif ar gyfer Anian Sais, Esgob Bangor, 1309-1328. Er ei bod yn parhau ym mherchnogaeth Eglwys Gadeiriol Bangor, cedwir y gyfrol yn Archifdy Prifysgol Bangor. Gweler gwefan y brifysgol am fanylion am y gyfrol: http://www.bangor.ac.uk/archives/bangorpontifical.php.cy?

[409] Sally Harper, *Music in Welsh Culture Before 1650* ((Aldershot, 2007), 230.

[410] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyr 18 (1682/83); Casgliad 9072, llythyr 5 a 15 (1690/91), Casgliad 9072, 32 (1691).

[411] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9070, llythyr 46. Flwyddyn yn ddiweddarach, penodwyd Humphrey Humphreys yn esgob ym Mangor.

[412] Symudwyd y garreg i'w harddangos ar wal fewnol Eglwys Llanrhos, eglwys sydd o fewn tafliad carreg i Loddaith. Gwelwyd y garreg fedd ar ymweliad personol â'r eglwys, Medi 2011.

[413] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9066, llythyr 47 a 50 (Ebrill a Mai 1676). Ceir cyfeiriad at ddiddordeb Tomas Mostyn yn y casgliad ym mhennod Daniel Huws ar Robert Vaughan. MWM, 287-302, yn benodol tt. 296-7.

cyfnod, Siôn Dafydd Las, ac mae'n debyg bod y cysylltiad wedi deillio o ddiddordeb Tomas Mostyn yn y traddodiad barddol.[414] Ni ellir dweud gyda sicrwydd pryd y dechreuodd Tomas ymddiddori yn y traddodiad barddol wedi ei briodas, ond gwelir yr uchelwr yn dilyn dau drywydd i'w ddiddordeb, sef noddi beirdd i ganu ar yr aelwyd a chasglu a chopïo llawysgrifau barddoniaeth. Roedd y ddau weithgaredd yn cydblethu'n gyfleus iawn ac yn creu perthynas adeiladol rhwng y beirdd a'r uchelwr, gyda'r beirdd yn cael nawdd am eu crefft, a'r uchelwr yn cael eu harbenigedd hwy i lywio ei gasgliad, yn arbennig y deunydd Cymraeg.

Er bod beirdd wedi canu i'w dad, mae'n debyg mai trwy weithgarwch Tomas y cafwyd adfywiad yn y canu barddol traddodiadol ar aelwydydd y ddau, ac roedd cnewyllyn y beirdd yn byw o fewn pum milltir i'w gartref yng Ngloddaith. I Tomas hefyd, ac nid i'w dad, y canwyd y mwyafrif llethol o'r cerddi, a gwelir bod mab ifanc Tomas, Roger (m. 1734), hefyd yn wrthrych i ddwy gerdd.[415] Gan na chyfeirir at briodas Tomas a Bridget gan y beirdd, rhaid tybio bod rhai blynyddoedd wedi mynd heibio cyn y dechreuodd y noddi unwaith eto gan y teulu, adferiad wedi bwlch o dair cenhedlaeth.[416] Gellir dyddio peth o weithgarwch Tomas Mostyn ym maes y traddodiad barddol, ond ni fu modd darganfod gyda sicrwydd ai'r canu a ddaeth yn ôl gyntaf i Gloddaith neu a fu perchenogi llawysgrifau barddoniaeth a diddordeb ynddynt yn symbyliad i ailgroesawu beirdd ar yr aelwyd.

Prin iawn yw'r cofnod o ddyddiadau yn y cerddi ond mae marwnad Siôn Mostyn gan Morys Parry[417] yn awgrymu bod y canu cynharaf yng Ngloddaith yng nghyfnod Tomas Mostyn (m.1692) oddeutu 1675. Canodd Rhys Cadwaladr i annog Tomas adref o Lundain pan oedd ei ddau fab hynaf yn blant ifanc, gan ategu'r cynnig o blaid 1675, ond mae arddull ddireidus y gerdd yn awgrymu bod cerddi cynharach wedi eu canu gan y bardd i'w noddwr.

---

[414] Trafodir cyfraniad Siôn Dafydd Las i lyfrgell Tomas Mostyn gan Daniel Huws, MWM, 303-329.
[415] Cerddi 38 a 39, tt. 118-119.
[416] Yn yr ystyr hon, diystyrrwyd tad Tomas Mostyn, Roger Mostyn (m. 1690), fel noddwr gan mai beirdd Gloddaith a fu'n canu iddo. Hefyd diystyrrwyd Siôn Mostyn, Maesmynan, hen ewythr Tomas, gan fod ei farwnad yn 1675 yn dyddio o gyfnod yr adfywiad yn y noddi, gydag un o feirdd Gloddaith yn canu iddo. Cyn hyn, yn achos Roger Mostyn (m. 1642) y gwelwyd y nawdd traddodiadol ddiwethaf, gyda Siôn Cain yr unig fardd i ganu iddo ym Mostyn.
[417] Gweler Pennod 1, tt. lxxix-lxxxi.

A Rosier, ifanc rosyn
Mewn hiraeth helaeth yw hyn,
A'ch mab, Tomas urddaswych
Rhwng dwylo Gwen yn dal a gwych
Mewn iaith deg berffaith a da
Yn d'wedyd, 'P'le mae dada?'[418]

Canwyd cywydd gofyn i Tomas Mostyn yn 1677 ar ran John Lloyd, Bryn Lluarth, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, y gerdd gyntaf o ran amser i gadarnhau fod Tomas mewn cysylltiad â'r gyfundrefn farddol.

Mil chwechant, meddant i mi,
Chwedeg – on'd gwych, ydi? –
Maith yw, a dwy ar bymtheg
Yw oed ein Pryniawdr yn deg. [419]

Mae awdl Edward Morris yn cyfeirio at feirdd yn ymgynnull yng Ngloddaith ar y gwyliau barddol traddodiadol:

Bydd yno glod byddin glau,
Beraidd gwlm, a beirdd gwyliau.
Byw ddawn hir a bydd ein hiaith
Bryn Gloddaith, bron y gwleddau. [420]

Gwŷr eglwysig lleol oedd y beirdd eraill i ymgynnull yng Ngloddaith, dau yn gysylltiedig ag Eglwys Llanelian-yn-Rhos, ger Bae Colwyn, sef y person, Morys Parry (*fl.* 1661-83) a Siôn Edward, clochydd yr eglwys, gyda'r trydydd bardd, Rhys Cadwaladr (m. 1690) yn gurad Eglwys Llanfairfechan. Yn ddiweddarach, gwelir bardd o Lanuwchllyn, Siôn Dafydd Las, yn ymuno â'r cylch barddol yng Ngloddaith *c.* 1683. Er bod Tomas Mostyn wedi adfywio'r traddodiad barddol, gwelir bod y to newydd hwn o feirdd yn adlewyrchu cyfnod gwahanol o ran nawdd a'u bod bellach yn ddibynnol ar alwedigaethau eraill i'w cynnal. Dyma'r drefn a welir hefyd yn achos Edward Morris a enillai ei fara menyn fel porthmon, a marwnadydd y teulu, Owen Gruffydd, a oedd yn wehydd. Er na ddilynai Siôn Dafydd Las alwedigaeth benodol, roedd copïo llawysgrifau yn weithgaredd ychwanegol at

[418] Cerdd 12, t. 31.
[419] Cerdd 13, t. 37.
[420] Cerdd 7, t. 15.

y nawdd barddol a dderbyniai yntau. Er bod rhai o bryderon Gruffudd Hiraethog am y traddodiad barddol wedi eu gwireddu – Seisnigo'r bonedd, newid mewn diddordebau ac arafwch y beirdd i fanteisio ar y wasg argraffu[421] – gwelir bod y grefft farddol yn parhau i gael ei hymarfer, gyda Tomas Mostyn yn ail-greu'r traddodiad nawdd, gweithred a oedd yn ennyn sylw yn fynych gan y beirdd:

Colofn yr iaith, odiaith ŵr
Am glau addysg, a'i 'mg'leddwr.
Sêl o fewn oes, sylfaen iaith,
A brawd hynaf Brutaniaith.
Cais i'r fan, cysur a fydd,
Tyn di yno tan ei 'denydd.
Penna' o'r llwyth, pwy wna'r lles,
Aer Gloddaeth a'i Arglwyddes. [422]

Roedd y diddordeb hwn mewn noddi beirdd yn cael ei rannu gan gymydog Tomas Mostyn, sef Robert Wyn, Bodysgallen. Rhoddai yntau groeso i'r beirdd ar ei aelwyd, a gwelir Edward Morris yn cyfeirio at weithgarwch y ddau uchelwr:

Gyda hwn i'w gyd-henwi
Yn glod a nerth i'n gwlad ni
Mae un arall, mwyn eryr,
O'i gymdogeth, gobeth gwŷr,
Ei gâr, enaid gwirionedd,
Robert Wyn, oeubert wedd,
Aer y Berth Ddu, rwyddgu ran,
Dwys gall, a Bodysgellan. [423]

Bu Morys Parry, person Eglwys Llanelian eisoes yn canu i dad Robert Wyn, Huw Wyn, Bodysgallen (m. 1674) a thybed ai o Fodysgallen y tarddodd yr adferiad yn y noddi yng Ngloddaith, gyda Tomas Mostyn yn dechrau'r arferiad oddeutu'r un amser ag y daeth ei gydnoddwr i'w etifeddiaeth.[424] Yn ogystal â bod yn noddwr i Morys Parry, roedd Tomas

[421] Gwelir y beirdd yn cyfeirio at ddirywiad yn y traddodiad nawdd ers yr 16 g. er i'r traddodiad barhau. Gweler trafodaeth Gwyn Thomas am y datblygiadau cymdeithasol a ddylanwadodd ar y newidiadau yn y 17g. Gwyn Thomas, 'Golwg ar Gyfundrefn y Beirdd yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg', 76-94.
[422] Cerdd 22 – 'Cywydd ymddiddan rhwng y Prydydd a'i Awenydd' – t. 60.
[423] Cerdd 22, t. 60. Cyfeiria Edward Morris at Robert Wyn fel noddwr hefyd yng Ngherdd 32, (t. 93) sef ei farwnad i Sion Edward. Ceir cadarnhad pellach ym marwnad Siôn Dafydd Las bod Siôn Edward hefyd yn canu ar aelwyd Bodysgallen, yng Ngherdd 34, t. 100.
[424] Ceir y gerdd yn y llawysgrif a luniwyd yng Ngloddaith i Tomas Mostyn gan Siôn Dafydd Las, Mostyn 96, 31 (NLW 3027E, Bangor (Mostyn) 9081).

Mostyn ac yntau hefyd yn rhannu diddordeb mewn llawysgrifau. Oddeutu 1674, cafodd Tomas Mostyn fenthyg llawysgrif brin gan Morys Parry – *The History of the Gwydir Family* o waith Siôn Wyn o Wydir – fel y gallai wneud copi ohono ar gyfer ei gasgliad ei hun, lle nododd:

> "This book was transcrib'd from a Coppy belonging to Sr Morris Parry of Llan Elian Clerck. in the year 1674. And afterwards compar'd with, and corrected by two coppys, the one belonging to the Reverend Dr. Humphreys, the other found among the Evidences att Gweder, which last was in many places corrected and interlin'd, and much of it writt with the hand of Sir John Wynn himselfe the Author. 1683.
> THOMAS MOSTYN,
> Gloddaeth."[425]

Cyfeiriodd Humphrey Humphreys at lawysgrif Siôn Wyn mewn llythyr at Tomas Mostyn yn Rhagfyr 1683 gan addo ei hanfon iddo cyn y Nadolig, a rhai misoedd yn ddiweddarach trafodir sut i ysgrifennu geiriau wrth gopïo talfyriadau mewn llawysgrifau.[426] Ni ellir bod yn sicr pwy oedd copïydd cyfrol Tomas Mostyn o hanes teulu Gwydir os mai yn 1674 y gwnaethpwyd y gwaith, ond yn 1683 gwelir Tomas yn dechrau ehangu ei gasgliad o lawysgrifau yng Ngloddaith ymhellach drwy noddi'r bardd ifanc Siôn Dafydd Las (m. 1694) i gopïo llawysgrifau amrywiol.[427] Ymysg y llawysgrifau i Siôn Dafydd Las eu cynhyrchu yn ystod y cyfnod rhwng oddeutu 1683 a 1686 yr oedd *Bede Historia* (NLW 21234D), teithlyfr Leyland drwy Gymru (NLW 21246D), ail hanner *History of the Gwydir Family* (NLW 3075D), casgliad o groniclau Cymraeg a Lladin (NLW 3065E) a chyfrol o farddoniaeth Gymraeg (NLW 3027E). Mae nifer o'r llawysgrifau hyn wedi eu rhwymo gyda chlawr o felwm gwyn.[428]

---

[425] Syr John Wynn, Gwydir, John Ballinger (gol.), *The History of the Gwydir Family* (Caerdydd, 1927), *ix*. Er mai fel clerc y cyfeiria Tomas Mostyn at Morys Parry, roedd wedi cael ei benodi yn rheithor Eglwys Llanelian yn 1660/61, a gwasanaethodd yno hyd ei farwolaeth yn 1683. BA: Parry, Morris (fl. 1661-1683).

[426] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9068, llythyrau 31 (1683) a 44 (?1684). Yn yr un casgliad, ceir llythyr gan Humphrey Humphreys yn holi a oedd Tomas Mostyn wedi darfod gyda'r gyfrol, llythyr 45 (Mai, ?1684). Roedd Morys Parry wedi marw ym Medi 1683 ac ni ellir bod yn sicr i ble'r aeth ei lawysgrif ef wedi hyn.

[427] Trafodir gweithgarwch Siôn Dafydd Las yng Ngloddaith yn fanwl gan Daniel Huws; MWM, yn arbennig t. 314-15.

[428] Catalogwyd llawysgrifau'r teulu yn 1692 ac eto yn 1744; o'r dogfennau hyn y lluniodd Daniel Huws restr gynhwysfawr o gynnwys llyfrgell Mostyn. I arbed dryswch gyda rhifau catalogau, defnyddir cyfeirnodau'r Llyfrgell Genedlaethol i adnabod y llawysgrifau. Am y rhestr yn ei chyfanrwydd, gweler MWM, 317-29. Nodwyd lliw y clawr wrth archwilio llawysgrifau ar gyfer y gwaith hwn.

Er bod y bardd yn cael ei gysylltu'n bennaf â theulu Nannau, mae lle i gredu ei fod wedi cael rhywfaint o addysg yn ystod ei gyfnod cynharach yng Ngloddaith.[429] Yn ei farwnad i Edward Morris, Perthi Llwydion, canodd Siôn Dafydd Las am ei addysg farddol:

Prif awdwr puraf ydoedd
Pen Beirddion yn union oedd,
Fo wyddau o gelfyddyd
Roddi barn ar gerdd y byd
A rhodd i dysg mewn rhwydd don
Ddwys gwbl iaith i'w ddisgyblion
F'athro oedd ef a thrwy ddull
Fy nwned fwyn Awenydd. [430]

Mae cerddi Edward Morris i Tomas Mostyn yn awgrymu ei fod, wrth ganu mawl i'w noddwr, yn arddangos ei ddysg farddol, gyda'i awdl foliant wedi ei chanu ar y pedwar mesur ar hugain ac un o'i gywyddau wedi ei ganu wyneb a gwrthwyneb, cyfryngau na welwyd mohonynt gan yr un o'r beirdd eraill.[431] A oedd nawdd Tomas Mostyn felly yn ymestyn i hybu addysg farddol ymysg ei feirdd? Gwelir Siôn Dafydd Las yn defnyddio ffurf y cywydd a'r englyn, felly hefyd Rhys Cadwaladr, a thybed a oedd y ddau wedi pwyso ar wybodaeth Edward Morris i loywi eu crefft? Canodd Siôn Dafydd Las farwnad i un arall o feirdd Tomas Mostyn, Morys Parry, yn 1683 gan gyfeirio ato fel un o'r prydyddion gorau yn ei amser, a gellid tybio ei fod yntau wedi meithrin addysg farddol y bardd ieuanc o Lanuwchllyn.[432] Gwelir o'i gywydd moliant i Tomas Mostyn fod Siôn Dafydd Las wedi elwa a gwerthfawrogi'r cyfle i ymdroi gyda beirdd a llawysgrifau barddoniaeth tra bu yng Ngloddaith:

A minnau a ddymunwn
Fy mod yn fardd hardd i hwn,
I brydu mawl, bwriad mwyn,
Yn anneddfawr, yn addfwyn,
I chwilio dawn a chael dysg,
Pencerddiol pynciau eurddysg. [433]

[429] MWM, 314. Er mai fel bardd Nannau yr adwaenir Siôn Dafydd Las gan amlaf, mae dyddiadau ei gerddi yn awgrymu mai yng Ngloddaith yr oedd yn nechrau ei yrfa fel bardd. Tybia Daniel Huws fod caplan Tomas Mostyn, neu un o'r gwŷr eglwysig, efallai Rhys Cadwaladr, wedi hyfforddi Siôn Dafydd Las mewn Lladin. Gweler hefyd W. Gareth Morris, 'Gwaith Siôn Dafydd Las', Traethawd PhD, Llanbedr Pont Steffan/Bangor, 1998.
[430] Llawysgrif Peniarth 241, 309.
[431] Cerddi 7 ac 8, tt 15-21 a 22-5.
[432] Ceir y farwnad ym Mostyn 96, 85, gyda chopi ffacsimili yn Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9081, ac yn y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 3027E.
[433] Cerdd 21, t. 55.

Er bod y grefft o gynganeddu a llunio cerddi caeth wedi cael ei mabwysiadu gan feirdd Gloddaith, nid yw nodweddion eraill y traddodiad barddol yn amlwg yn eu gwaith, megis cofnodi achau ac arfbeisiau'r noddwyr, a phrin yw'r cyfeiriadau at nodweddion addysg farddol, megis gramadegau a chyfarwydd traddodiadol.[434] Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, cymeriadau o fytholeg Groeg a Rhufain sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyffelybiaeth, gyda Rhys Cadwaladr yn pwyso ar arwyddion y sidydd (zodiac) a gwaith Fferyll (Virgil) yn ei gywydd calennig, tra gwelir Edward Morris yn defnyddio enwau duwiau Rhufeinig yn ei farwnad i Siôn Edward.[435] Ceir cyfeiriad at waith Dafydd ap Gwilym gan Huw Morys wrth iddo gymharu haelioni nawdd Tomas Mostyn â lletygarwch llys Ifor Hael:

Ei fawr fudd fu ryfeddol
Fel yr âi fil ar ei ôl.
Ifor Hael, â'i fawr helynt,
A fu i'w gael fwya' gynt.
Syr Tomas lownfras ei law
Oedd haelach ei ddeheulaw.
Mwyn gyfaill, mwy nag Ifor,
Am rannu gwin ym min môr. [436]

Mae tair o'r cerddi yn cyfeirio'n benodol at un o'r cyfnodau clera traddodiadol, sef tymor y Nadolig, gydag Edward Morris yn cyfeirio at galennig i Siôn Edward, Rhys Cadwaladr yn gofyn am galennig mewn cywydd, a Morys Parry yn cyfeirio at yr Ystwyll (6 Ionawr):

Yr Ystwyll deuaf i'm restio – i Loddaith
Bo hir lwyddiant yno,
Duw weithian a fendithio
Bob un yn Fostyn a fo. [437]

Fodd bynnag, ni ellir derbyn y cerddi hyn fel cadarnhad pendant o ymlymiad y beirdd wrth gyfnod clera traddodiadol, gan y byddai'r Nadolig yn gyfnod o wledda ac ymestyn lletygarwch, ond fe ellid tybio bod y beirdd a'r noddwr yn mwynhau cynnal arferiad hynafol.[438] Ym marwnad Siôn Edward, canodd Edward Morris am feirdd yn ymgynnull yng Ngloddaith yn ystod y gwyliau, ond gan y cyfeirir at y Nadolig ar lafar yn lleol fel y

[434] Gweler trafodaeth Gwyn Thomas am y nodweddion traddodiadol a ddiflannodd o ganu'r beirdd yn yr ail ganrif ar bymtheg. Gwyn Thomas, 'Golwg ar Gyfundrefn y Beirdd yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg', 76-94.
[435] Cerddi 17 a 32, tt 45-6 a 90-5.
[436] Cerdd 36 – 'Cywydd Marwnad Syr Tomas Mostyn a'i Arglwyddes' – t. 110-111.
[437] Cerdd 9, t. 27. Hefyd Edward Morris, Cerdd 16, t. 42; Rhys Cadwaladr, Cerdd 17, t. 45.

‘gwyliau’, ni ellir dibynnu ar y gerdd fel tystiolaeth am ddilyn tymhorau clera traddodiadol:

> “Dos, Edward, nid oes oedi,
> Dos i Loddaith, dwys lwyddiant,
> Llawer a’i cyrch lle’r â cant.
> Y cyscladur cais godi
> Y gwyliau, dos a gwêl di
> Fod yno groeso gwresawg
> A llys rhydd a lles y rhawg.” [439]

Nid oes dim i awgrymu bod cyfnodau traddodiadol eraill y clera yn cael eu cadw, sef y Pasg a’r Sulgwyn, a gwelir dwy gerdd yn cyfeirio at gynnyrch y cynhaeaf. Cyfeirwyd eisoes at awdl Edward Morris sy’n cynnwys cyfeiriadau amaethyddol[440] a gwelir Rhys Cadwaladr yn canu yn nhymor yr haf, os nad yr hydref:

> Darfu’r amod penodol
> A wnaed i ddyfod yn ôl,
> Y Sulgwyn aeth ymaith amod
> Yn ddiball ac addo bod
> Gyda’ch plas a’ch perthnasau
> Mewn llon hedd i’w llawenhau.
> Yr ŷd oedd heb aredig,
> Ei le i’n bro sy’n lawn brig,
> Yn colli ei rawn a’i ddawn dda
> I’ch amod na ddoech yma. [441]

Mae awgrym felly mai ar achlysuron arbennig y byddai’r beirdd yn canu i Tomas Mostyn, a chan fod nifer o englynion unigol ymysg y cerddi iddo, gwelir bod ‘canu wrth y bwrdd’ i destun dewisedig yn adloniant poblogaidd gan y beirdd a’r noddwr. Ceir cystadleuaeth rhwng Siôn Edward a Morys Parry ar un achlysur gyda bwtler Gloddaith, Gabriel, wedi ei ddewis fel gwrthrych, ac o ran difyrrwch, mae’n debyg mai englyn Morys Parry a fyddai wedi ennill yr ymryson:

---

[438] Mae rhestr Nadolig o feirdd a cherddorion Salsbriaid Lleweni yn 1595 yn cynnig darlun o adloniant yr ŵyl yng nghartrefi uchelwyr yr 16 g. a’r 17 g., gyda dawnsio a chanu hefyd yn rhan o’r difyrrwch. Gweler David Klausner, ‘Diddanwch Teuluaidd ymysg Salsbriaid Lleweni a’u Cylch, 1595-1641’ yn Sally Harper (gol.), *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 6 (Caerdydd, 2004), 143-153.
[439] Cerdd 32 – ‘Cywydd Marwnad Siôn Edward’ – t. 90.
[440] Cerdd 7 – ‘Moliant Tomas Mostyn mewn awdl ar y Pedwar Mesur ar Hugain’ – t. 15-21.
[441] Cerdd 12 – Cywydd i annog Tomas Mostyn adref o Lundain’ – t.32.

Cwyd, Gabriel dawel, a dod, – adolwg,
I'm dwylo beth diod;
Oni chaf, ni thry 'nhafod,
Ddyn deg lais, i ddwyn dy glod. [442]

Yn ogystal â beirdd, croesawodd Tomas Mostyn gerddorion i'w aelwyd yng Ngloddaith, ond yn ddiddorol, dim ond Edward Morris sy'n cyfeirio at hyn, ac mewn dwy gerdd yn unig. Fe all fod yr ymweliadau mor gyffredin fel nad oedd angen i'r beirdd eraill gyfeirio atynt ond rhaid ystyried a oedd Edward Morris yn ymweld ar achlysuron arbennig, pan oedd beirdd a cherddorion yn rhan o'r adloniant?

"Apolo sydd i'r plas hwn,
Awn â cherdd, yno chwarddwn.
Yno y mae, awn i'w mysg,
Prydyddion parod addysg.
Mae Parry ymhob puriaith,
Mae Syr Rhys yn mesur iaith,
A gardd aur o gerddorion,
Athro serch, i'th aros Siôn." [443]

Gydag Edward Morris ar deithiau porthmona yn Lloegr, gellid disgwyl y byddai'r gwŷr eglwysig yn parhau i ganu yn ei absenoldeb ac efallai fod eu hymweliadau â Gloddaith ar yr adegau hyn yn achlysuron llai cyhoeddus. Gwelwyd eisoes fod Morys Parry yn berchen ar lawysgrif brin ac yn sgil diddordeb Tomas Mostyn mewn barddoniaeth a llawysgrifau, byddai ymweliad y beirdd diwylliedig yn gyfle i drafod llenyddiaeth yn gyffredinol ac o gymorth wrth ehangu'r casgliad o lawysgrifau yng Ngloddaith. Roedd Rhys Cadwaladr yn gyfarwydd â'r bardd ifanc o Lanuwchllyn, Siôn Dafydd Las,[444] a thrwy'r cysylltiad yma, cafodd ei gomisiynu gan Tomas Mostyn i gopïo nifer sylweddol o lawysgrifau, gan greu cyfrolau pwysig o lenyddiaeth (gweler uchod). Byddai angen gwybodaeth helaeth am fodolaeth a lleoliad y llawysgrifau a fenthycwyd i greu y copïau, a byddai gwybodaeth a chysylltiadau'r gwŷr eglwysig o Lanelian a Llanfairfechan wedi bod o fudd mawr i Tomas ac i Siôn Dafydd Las. Er bod gan Tomas Mostyn gaplan yng

[442] Cerdd 18 – 'I ofyn diod i fwtler Gloddaith' – t. 48.
[443] Cerdd 32 – 'Marwnad Siôn Edward' – t. 92. Mae'r cyfeiriadau at Morys Parry a Rhys Cadwaladr.
[444] Canodd Siôn Dafydd Las ddwy gerdd am fedd-dod Rhys Cadwaladr a gŵr eglwysig arall yn 1676, gan ofyn am faddeuant am ei hyfdra mewn trydedd gerdd. Cyhoeddwyd y cerddi yn J Fisher (gol.), *The Cefn Coch MSS* (Lerpwl, 1899), 226-31.

Ngloddaith, ni rannai'r gŵr ei ddiddordeb mewn barddoniaeth a llawysgrifau, gan fod ei fryd pennaf ar ei Feibl a'i ddyletswyddau eglwysig. Yng ngeiriau Ffowc Wyn:

A'i siaplen sydd yn hapus
Yn ei le o fewn ei lys,
Gŵr ffeind yw Mastr Gryffydd
Yn ystudio nos a dydd.
Gair Duw, y mae y gŵr dwys
Da ei glod mewn dwy eglwys.
F'enaid, os dysg a fynni,
I Eglws Rhos, oh! Dos di,
A'i dro i Landudno draw
I weini cyn ei giniaw. [445]

Mae'r cyfeiriadau at gymeriadau o lenyddiaeth glasurol yng ngwaith Edward Morris yn cadarnhau bod ei wybodaeth yntau yn helaeth, ac o ganlyniad i'w waith fel porthmon ledled y wlad byddai mewn sefyllfa dda i feithrin cysylltiadau gyda gwŷr llengar eraill ac i ddarganfod llawysgrifau. O fod yn Llundain yn rheolaidd, deuai cyfle i ymweld â llyfrwerthwyr a chael clywed am gynnyrch Cymraeg diweddaraf y gweisg argraffu.

Pan ddeuai'n ôl i Loddaith, byddai Edward Morris yn mwynhau cwmni telynorion a chrythorion:

Caer bwrdd hael, caer beirdd yw hon,
Caer y ddwyradd cerddorion. [446]

Mae rhestr y difyrrwch dros y Nadolig yn Lleweni yn 1595 yn cadarnhau bod telynorion a chrythorion yn cadw cwmni'r beirdd ar eu hymweliad fel 'gwŷr wrth gerdd' â chartref Thomas Salesbury ac er bod cyfeiriadau barddol at ddirywiad mewn nawdd a noddwyr yn ystod y ganrif,[447] mae sylw Edward Morris yn awgrymu bod beirdd, telynorion a chrythorion hefyd yn bresennol yng Ngloddaith yn yr 17g. Gellid disgwyl felly fod datganiad o'r cerddi yn dilyn trefn draddodiadol ar aelwyd Tomas Mostyn ar rai

[445] Cerdd 13, t. 35-6. Ceir rhestr addurnedig wedi ei fframio o ddeiliaid Eglwys Llanrhos yn yr eglwys, gyda John Griffiths yn cael ei nodi ar gyfer y flwyddyn 1683. Gwelwyd ar ymweliad personol, Medi 2011.
[446] Cerdd 20 – 'Cywydd i ofyn cymod Tomas Mostyn' – t. 50. Roedd telynorion a chrythorion wedi cael eu graddio yn Eisteddfod Caerwys yn 1567 ac yn 1595, ac ymddengys telynorion, crythorion a beirdd ar restr 'Henwe y gwr wrth gerdd a fu yn lleweny wile r natolic 159[5?] sef cartref Salsbriaid Lleweni, ger Dinbych. Sally Harper 'Music in the Welsh Household *c.* 1580-1620', *The Welsh History Review*, 2, 4 (2003), 627.
[447] D J Bowen, 'Gruffudd Hiraethog ac Argyfwng Cerdd Dafod' yn *Llên Cymru*, II, 3, 147-160; Goronwy Wyn Owen, 'Argyfwng y Beirdd a'r Dyneiddwyr yn yr Unfed a'r Ail Ganrif ar Bymtheg', *Llên Cymru*, 33, 107-123.

achlysuron yn y cyfnod hwn. Gwelir Lewis Morris yn trafod arddull y datganiad barddol gydag Owen Meyrick mewn llythyr yn 1738:

> 'It is a custom in most counties of North Wales (but better preserved in the mountainous parts of Meirionethshire &c.) to sing to the Harp certain British verses in theme (called pennills) upon various subjects. Three or 4 kinds of them they can adapt and sing to the measures of any of the tunes in use amonth them either incommon or triple times making some part of the tune a symphony....' 'these Penills that our Countrymen....at this day sing to the Harp & Crwth, a method of singing perhaps peculiar to our selves.'[448]

Fodd bynnag, o gofio bod bwlch o dair cenhedlaeth wedi bod yn y noddi barddol yng Ngloddaith a thoriad yn y traddodiad a oedd eisoes yn cael ei ystyried yn hynafol, rhaid ystyried a oedd arddull y datganiad wedi goroesi yn ei ffurf flaenorol.[449] Gyda rhestr arall o Lewenni yn niwedd yr 16g. yn nodi pedwar ugain o alawon poblogaidd y cyfnod, gan gynnwys alawon dawns a baledi, oll o darddiad Seisnig ac eithrio un, gwelir bod cerddoriaeth draddodiadol Gymreig yn colli tir ar aelwyd yr uchelwyr.[450] Ymron i ganrif yn ddiweddarach, gyda Thomas Dineley yn canmol y 'great and noble entertainment' a ddarparodd ei dad ym Mostyn yn 1684, gellid disgwyl mai cerddoriaeth gyfoes a phoblogaidd y cyfnod fyddai'n diddori gwesteion Tomas Mostyn hefyd yng Ngloddaith. Ond os oedd alawon Cymreig yn cael eu disodli gan alawon megis *Grisial Ground*, *Leave Land*, *Heavy Heart* a *Crimson Velvet* a'u tebyg, roeddynt yn cael eu mabwysiadu gan y beirdd ar gyfer y canu caeth newydd, a gwêl Enid Roberts y datblygiad yn addasiad 'trwyadl Gymreig'.[451] O gofio'i deithiau porthmona, nid annisgwyl felly yw gweld Edward Morris yn addasu alawon Seisnig gan eu defnyddio ar gyfer canu caeth ei garolau Mai a Haf,[452] ond gwelir bod Rhys Cadwaladr hefyd yn canu ar y mesur hwn yn ei gerdd i Bridget Mostyn i lawenhau am adferiad iechyd iddi:

---

[448] Dyfynir gan Daniel Huws yn ei erthygl ' Gwisgo Merched â Mesurau' yn Sally Harper a Wyn Thomas (goln), *Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru: Cynheiliaid y Gân* (Caerdydd, 2007), 173.
[449] Mae datblygiad cerdd dafod a cherdd dant (canu gyda thannau'r delyn) yn cael ei drafod gan nifer o arbenigwyr yn y maes, gan gynnwys Osian Ellis, *The Story of the Harp* (Caerdydd, 1991) a Phyllis Kinney, *Welsh Traditional Music* (Caerdydd, 2011), a cheir gwahaniaethau barn ar adegau. Ceir crynhoad o'r safbwyntiau a datblygiadau'r traddodiad yn erthygl gynhwysfawr Daniel Huws , 'Gwisgo Merched â Mesurau', 145-79. Gweler hefyd waith Sally Harper, yn arbennig *Music in Welsh Culture Before 1650* (Aldershot, 2007).
[450] Sally Harper, 'Music in the Welsh Household *c.* 1580-1620', 621 a 636.
[451] Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 15 (1966), 105.
[452] Ibid.

Chwi a roesoch arwydd i'r holl fyd
Fod ynoch ysbryd bywiol,
A bod hefyd tan eich bron
Yn aros galon wrol,
Orchfygodd drwy amynedd pur
Rym soriant cur amserol. [453]

Yn ddiddorol, mesur y cywydd a ddefnyddiodd Rhys Cadwaladr wrth ganu i Bridget pan oedd yn wael,[454] a chan mai un garol yn unig a geir yn y casgliad o gerddi i'r teulu, gwelir bod y beirdd am feithrin y cyfle yng Ngloddaith i ganu yn arddull draddodiadol y canu caeth.

Gyda chyfeiriad Edward Morris at y 'ddwyradd cerddorion' a'r defnydd o garol gan Rhys Cadwaladr, ceir awgrym bod cerddoriaeth delyn neu delyn a chrwth yn rhan o ddatganiad y cerddi yng Ngloddaith. Ond ceir hefyd awgrym bod datganiad pen pastwm i'w gael yno hefyd mewn un cwpled gan Edward Morris:

Llys gwir gerdd, llais ac ergyd,
Llys y gerdd a'i lles i gyd. [455]

Os mai curiad pastwm oedd y cyfeiliant i ddatganiad cerdd ar aelwyd Tomas Mostyn, byddai modd i'r noddwr glywed ffrwyth llafur y beirdd ar achlysuron anffurfiol, heb angen i delynor na chrythor fod yn bresennol. Er bod y datgeiniad pen pastwm yn cael ei ystyried gynt yn ddatgeiniad ansoffistigedig, mae'n bosibl mai'r beirdd eu hunain a fyddai wedi cadw'r curiad yng ngyfnod Tomas Mostyn.[456]

Gan nad oes tystiolaeth bendant am arddull cyflwyno'r cerddi i Tomas Mostyn, ni ellir ond damcaniaethu am ffurf y datgan, ond gwelir bod Enid Roberts yn amau ai cael eu perfformio yr oedd y cerddi erbyn diwedd yr 17 g., a chynigia mai cyfrwng i'w ddarllen oedd barddoniaeth erbyn hyn.

---

[453] Cerdd 31 – 'Carol i Briged Mostyn wedi iddi wella' – t. 87.
[454] Cerdd 30 – 'I Briged Mostyn pan oedd yn wael' – t. 84-6.
[455] Cerdd 8 – 'Cywydd Moliant i Tomas Mostyn' – t.23. Mae'r gerdd yn unigryw yn y casgliad gan ei bod yn cael ei chanu 'gwyneb wrth gwrthwyneb'. Gweler nodiadau'r gerdd am fwy o fanylion am ddatganiad pen pastwm ac am yr arddull 'gwyneb wrth gwrthwyneb'.
[456] Ceir trafodaeth ar gyfeiliant y datganiad, ynghyd ag atgynhyrchiad o ddarlun Moses Griffith o ddatgeiniad pen pastwm, gan Sally Harper, 'Dafydd ap Gwilym, Bardd a Cherddor', t. 26-27 yn Dafydd ap Gwilym.net. http://www.dafyddapgwilym.net/essays/sally_harper/index_cym.php

> A fyddai ambell gywydd ac awdl sy'n ymddangos yn ddigon cyffredin o'u darllen yn troi'n odidog o glywed eu datganu yn y ffordd iawn? Ac a ddarfu am hynny yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg? Rywsut daw imi'r teimlad fod newid yn digwydd yn naws y cywyddau mawl a marwnad rywdro oddeutu'r cyfnod hwnnw, eu bod yn mynd yn llai o ddifyrrwch i'r glust ac yn apelio mwy at y deall, yn mynd yn bethau i'w darllen yn hytrach nag i'w gwrando.[457]

Ceir dwy gerdd i Tomas Mostyn yn ei annog i ddod adref o Lundain, a gellid cytuno â damcaniaeth Enid Roberts yn yr achosion hyn mai cael eu hanfon ato oedd dull cyflwyno'r cerddi hyn. Meddai Siôn Dafydd Las yn un o'r cerddi:

> Y ffordd a wyddost o'i phen
> Lawndaith i fynd i Lunden,
> I'r hen ddinas urddasawl
> Pan y'r elych, fwynwych fawl,
> Yno gofyn yn gofus
> Am Bloomesbury Squâr, liwgar lys,
> Lle mae llety, llawndy lles,
> Aer Gloddaith a'i arglwyddes. [458]

Gyda gweithgaredd llawysgrifol Siôn Dafydd Las, ceir enghraifft ô'r modd yr oedd y cerddi yn cael eu trosglwyddo i fod yn ddeunydd darllen. Roedd Edward Morris, Perthi Llwydion, yn fyw iawn i beryglon caethiwo cerddi o fewn muriau llyfrgell, a gallai difaterwch a diffyg diddordeb arwain mewn amser at ddifrodi iaith, mewn sawl ystyr.

> A gwaith ein beirdd, gwaeth yw'n byd,
> Mewn llai achles, mae'n llychlyd.
> Llafur ein hoes, llyfrau'n hiaith
> A dalennau dilanwaith,
> Pob barcutan llyfran llwyd
> Heb lai acw a bliciwyd.
> Colli'r plu, cael llawer plant,
> A rhai eger ai rhwygant.
> Pob dalen, gwelen' g'wilydd,
> Yn tanio tybaco bydd.
> Mae iaith gain Prydain heb pris,
> Mae'n ddiobrwy, mae'n ddibris. [459]

---

[457] Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', 108.
[458] Cerdd 29 – 'Cywydd i annog Tomas a Bridget Mostyn i ddychwelyd o Lundain' – tt 80-1. Hefyd Cerdd 12 – 'Cywydd i annog Tomas Mostyn adref o Lundain' – tt 31-3.

Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa yng Ngloddaith medd y bardd ac edmygai weithgarwch uniongyrchol Tomas Mostyn – 'Colofn yr iaith, odiaith ŵr'.[460] Mae Siôn Dafydd Las hefyd yn ategu ar gân ei werthfawrogiad o gyfraniad pwysig y noddwr i ddiwylliant Cymraeg yr 17g.:

Twŵr a sai'n hir tros ein hiaith
Teg oleuddawn tŷ Gloddaith,
Llys Madog, lles mwy ydoedd,
Gwiwlewddoeth ŵyl Gloddaith oedd.
Yno'r aeth yn awr weithian,
Cymraeg lwys y Cymry glân
I holl gysur eglur iaith
A'i gwiw lwyddiant yw Gloddaith. [461]

Yn gyffredinol felly, mae canu'r beirdd i Tomas Mostyn yn glodfawr iawn o'i gymwynas i'r traddodiad barddol, ond er hynny, gweithred a effeithiai ar gylch cymharol fach o unigolion dros gyfnod o oddeutu deunaw mlynedd oedd hon. Yr hyn sy'n amlwg yn y cerddi yw'r parch a roddwyd i Tomas Mostyn, a'i wraig, Bridget, am eu caredigrwydd a'u haelioni, nid yn unig tuag at y beirdd ond hefyd at anghenus yr ardal. Er bod hon yn thema draddodiadol mewn cerddi mawl, nid oes lle i amau serch hynny diffuantrwydd y beirdd:

Nid oes dyn a'ch edwyn chwi
Na chaffom yn eich hoffi.
Cael hybarch eglurbarch glau
Yw cael ennill calonnau. [462]

Er bod tad Tomas Mostyn, Roger Mostyn (m. 1690) yn parhau yn fyw, roedd Tomas yn ymwybodol iawn o'i gyfrifoldebau fel uchelwr, a gwelir bod Gloddaith yn cael ei ystyried yn noddfa mewn cyfnod o angen gan drigolion yr ardal, fel y dengys geiriau Siôn Dafydd Las:

Trugarog rhywiog yn rhaid – y gweddwon
Ac eiddil ymddifaid;
Dyfal i gynnal gweiniaid,
Daioni i'w plith Duw'n eu plaid. [463]

---

[459] Cerdd 22 – 'Cywydd ymddiddan rhwng y Prydydd a'i Awenydd' – t. 58.
[460] Cerdd 22, t. 60.
[461] Cerdd 21 – 'Cywydd Moliant i Tomas Mostyn' – t. 54.
[462] Cerdd 11 – 'Cywydd i groesawu Tomas Mostyn i Uwchmynydd' – t. 29.
[463] Cerdd 23 – 'Englynion i Tomas Mostyn a Gloddaith' – t. 68.

Gyda gwaeledd a marwolaeth Siôn Edward, daeth cyfle i ganu'n fwy penodol am y caredigrwydd hwn, gan i Tomas a'i wraig roi ymgeledd i'r bardd yn eu cartref yng Ngloddaith, a chan i Tomas hefyd dalu am yr angladd. Meddai Rhys Cadwaladr:

Nid allai bendefig hollawl,
Tomas Mostyn, fwyn o fawl,
Na'i gynnes arglwyddes glau
G'redigrwydd, na'i gri dagrau,
Na gyrru am bisigwriaeth,
Na dim i rwystro mo'i daith. [464]

Bu iechyd Tomas Mostyn yn achos pryder ar sawl achlysur, a chadwyd nifer o lythyrau ato yn holi am ei iechyd. Daw'r cyfeiriad cynharaf yn 1674 mewn llythyr gan Syr Richard Wynn, Gwydir, sy'n holi am 'any fits of the colic since he saw him'. [465] Ni cheir sylw penodol at natur afiechyd Tomas ac ni fu'n rhwystr iddo fynd i Lundain i ymgymryd â'i swydd fel aelod seneddol yn 1679 a 1681. Ond gwelir y cyfeiriadau at waeledd yn cynyddu o 1683 ymlaen, gyda Tomas yn gwrthod cyfle i sefyll fel aelod seneddol yn 1684/85 am fod ei iechyd mor wael a galwadau eraill hefyd yn ei orfodi i aros gartref.[466] Roedd iechyd Bridget hefyd yn achos pryder ac efallai fod hyn yn rheswm ychwanegol dros aros gartref. Canodd Rhys Cadwaladr ddwy gerdd – carol a chywydd – ynghylch iechyd Bridget ond dau englyn dienw a ganwyd i Tomas pan oedd yn wael:

Pob gloesau, glwyfau neu glefyd – o'r galon
A gilia'r fyr ennyd,
A chwedi'r boen, Iechawdwr byd
A rydd ichwi rwydd iechyd.[467]

Gan Philip Foulke, Swydd Amwythig, daw cyngor meddygol drwy gyfrwng llythyrau, a dyma'r gŵr a fu hefyd wrth gwrs yn canfod llyfrau prin a llawysgrifau ar ran Tomas. Yn wir, mewn llythyr gan Philip Foulke y ceir y cyfeiriad olaf at waeledd Tomas a Bridget yn

[464] Cerdd 33 – 'Cywydd Marwnad Siôn Edward' – t. 98; hefyd Cerdd 32, t. 94, a Cherdd 34, tt. 99-100.
[465] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9066, llythyr 22 (28 Hydref, 1674).
[466] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9069, llythyr 8 (14 Chwefror, 1684/85) – ymateb i lythyr Syr Robert Cotton, San Steffan. Cafodd ei esgusodi o wasanaethu fel siryf Sir Gaernarfon yn 1689 ond ni cheir rheswm am hyn; cafodd ei ddewis yn siryf Sir Fôn yn 1691. Gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/mostyn-thomas-1651-92.
[467] Cerdd 14 – 'I Tomas Mostyn yn ei afiechyd'- t. 40. Ceir englynion gan Siôn Edward i Tomas Mostyn ar yr un dudalen o'r llawysgrif, a chan mai englyn oedd ffurf arferol ei ganu, mae'n debygol mai ei waith ef yw'r ddau englyn. Gwelir gwaith Rhys Cadwaladr i Bridget yng Ngherdd 30 a Cherdd 31, tt. 84-6 a 87-9.

1691. Erbyn hyn, roedd tad Tomas, Rosier Mostyn, wedi marw y flwyddyn flaenorol a Tomas wedi dod i'w etifeddiaeth, ac ym Medi 1691, gwelir dŵr Mostyn yn cael y bai am waeledd y ddau. Efallai mai diffyg ffydd yn nŵr Mostyn oedd y rheswm pam y parhaodd Tomas a Bridget i fyw yng Ngloddaith.[468]

Ac yng Ngloddaith y bu Tomas Mostyn farw ym Mehefin 1692, gyda Bridget yn marw ychydig ddyddiau yn ddiweddarach. Meddai Huw Morys:

> Syr Tomas â'i air twymyn
> Oedd wres haf, mae'n ddiwres hyn,
> Oer lafur ar Ŵyl Ifan,
> Rhy oer y tŷ'n rhewi'r tân. [469]

Ni cheir unrhyw awgrym am natur eu gwaeledd a chyda'r ddau yn gymharol ifanc, Tomas yn 41 oed a Bridget oddeutu 36 oed, byddai afiechyd heintus yn achos tebygol.[470] Er hynny, ni welir bod cynnydd mewn marwolaethau eraill yn lleol yn yr un cyfnod i gadarnhau hyn a rhaid ystyried ai torcalon fu achos marwolaeth Bridget pan oedd mewn gwendid o ganlyniad i un o'i hanhwylderau.[471] Claddwyd Tomas a Bridget Mostyn yn yr un bedd o fewn muriau Eglwys Llanrhos ar 24 Mehefin, 1692.[472] Er bod beirdd Gloddaith, ac eithrio Siôn Dafydd Las, wedi marw yn ystod y degawd blaenorol, gwelir Owen Gruffydd, Llanystumdwy, a Huw Morys, Pontymeibion, Llansilin, yn marwnadu'r uchelwr a'i wraig mewn cywyddau. O ystyried bod Siôn Dafydd Las wedi treulio cyfnodau hir yng Ngloddaith a'i fod wedi mireinio ei grefft farddol yng nghwmni beirdd Tomas Mostyn,

---

[468] Er y byddai plas Mostyn ar gael iddo, gwelir ei ohebiaeth yn parhau i gael ei hanfon i Loddaith, gyda dim ond tri llythyr wedi ei hanfon ato ym Mostyn. Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9072, llythyrau 21, 36 a 53.

[469] Cerdd 36 – 'Cywydd Marwnad Syr Tomas Mostyn a'i Arglwyddes' – t. 109.

[470] Mae Huw Morys yn nodi mai 42 oed oedd Tomas yn marw – 'Duw a'i dug, dwy a deugen', Cerdd 36, t. 113.

[471] Ni welir cynnydd mewn claddedigaethau yng nghofnodion Eglwys Llanrhos am y flwyddyn i awgrymu bod afiechyd heintus wedi taro'r boblogaeth leol. Gweler y bennod ar Bridget Mostyn am fwy o fanylion am ei hiechyd.

[472] Eglwys Chwitffordd oedd man claddu arferol y teulu ond gyda Tomas a Bridget wedi ymgartrefu ar hyd eu hoes yng Ngloddaith ac wedi claddu eu plant ifanc yn Eglwys Llanrhos, gwelir y ddau yn gwneud eu siwrnai olaf i'r eglwys a oedd o fewn tafliad carreg i Loddaith, gan ddechrau traddodiad sy'n parhau hyd heddiw. Neilltuwyd rhan o'r estyniad i fynwent Eglwys Llanrhos ar gyfer claddedigaethau'r teulu yn y 19 g, a chladdwyd y chweched barwn Mostyn, Llewelyn Roger Lloyd, yno yn 2011. Gwelwyd y fynwent ar ymweliad personol ag Eglwys Llanrhos ym Medi 2011.

mae'n gryn syndod mai dim ond un englyn a ganodd i farwnadu Tomas a Bridget, a hynny 'pan glywodd farw Syr Tomas Mostyn a'i Arglwyddes'.[473]

Nid oes cerddi ar gael i gadarnhau bod Huw Morys wedi canu yn flaenorol yng Ngloddaith ond mae'n cyfeirio yn ei farwnad at gymwynas Tomas Mostyn i'r traddodiad barddol drwy ei nawdd ac efallai ei fod yntau wedi profi'r haelioni hwnnw:

Pawb a roi gwrs pybyr eu gwaith
Arfer gwledda ar fwrdd Gloddaith.
Rhydd ei lys, rhwydd elusen,
Rhoi da'r byd rhad ar ei ben.
Llys afiaith a llysieufwyd,
Llys y barch gyda lles bwyd.
Hyd fedd bu rhyfedd barhau,
Aur i feirdd ar ei fyrddau.
Ymrwygodd y Gymreigiaith
Am gladdu'r ymg'leddwr iaith.
Och Gwynedd, yn iach ganu
Â llais beirdd i'r llys y bu
Llais galar a llesg wylaw
Lle sy' drist yw yr llys draw.
Aberth o fawl i'w barth fu,
Blas cynnes a blys canu.
Gwan yw nerth i ganu'n iawn
Gywydd gofid, gwaedd gyfiawn. [474]

Er bod y gerdd yn cyfeirio at Tomas yn noddi'r beirdd hyd at y diwedd, nid oes cerddi i gadarnhau hyn ac roedd ei feirdd arferol – Morys Parry, Siôn Edward ac Edward Morris – wedi marw flynyddoedd ynghynt, a Rhys Cadwaladr oedd yr olaf o'r beirdd i farw yn 1690. Roedd Siôn Dafydd Las wedi ymadael am Nannau oddeutu 1687, ac ni welir iddo ddychwelyd i farwnadu ei noddwr cynnar. Felly, roedd oes aur y beirdd wedi dirwyn i ben yng Ngloddaith cyn i Owen Gruffydd a Huw Morys ganu eu marwnadau.[475]

Gan Huw Morys ceir cyfeiriad at y berthynas glos, gariadus rhwng Tomas a Bridget. Er nad oes cerddi eraill ganddo i'r ddau wedi goroesi, mae ei ganu yn awgrymu ei fod yn gyfarwydd â theulu Gloddaith ac yn adnabod y ddau yn dda:

[473] Cerdd 37 – 'Englyn marwnad i Tomas a Bridget Mostyn' – t. 117. Dair blynedd yn gynharach, yn 1689, canodd Siôn Dafydd Las gywydd marwnad i Edward Morris, Perthi Llwydion. Peniarth 241, 309.
[474] Cerdd 36, t. 111.
[475] Mae dyddiadau cerddi Siôn Dafydd Las yn awgrymu ei fod yn Nannau o tua 1687 ymlaen. Gweler W. Gareth Morris, 'Gwaith Siôn Dafydd Las'.

Un foddion yn fyw oeddynt,
Un gred goel, un gariad gynt,
Un galon union, un air,
Un ddaioni yn ddianair.
Brau doddiad, bwrw eu dyddiau
Heb awr ddig y bu yr ddau.[476]

Mewn marwolaeth, ni allai'r ddau fod ar wahân:

Nid all dim â dull damwain
Ysgar y ddau gymar gain.
Brigied i'w gofled a gadd
Barwn henryw brenhinradd.[477]

Yr hyn sy'n ddiddorol yn achos y ddwy farwnad, yn arbennig cywydd Owen Gruffydd, yw'r cyfeiriad at achau'r uchelwr. Ddwy flynedd ynghynt, roedd Owen Gruffydd wedi olrhain achau Rosier Mostyn, tad Tomas, genhedlaeth wrth genhedlaeth hyd at Ieuan Fychan (m. 1477) gan gynnwys cyfeiriadau at linachau eraill y teulu.[478] Cyfeiriodd hefyd at y pum llys hynafol – Pengwern, Tref Gastell, Mostyn, Tref Garnedd a Gloddaith – nodweddion na welir mohonynt yn ei farwnad i Tomas a Bridget yn 1692. Rhaid ystyried felly tybed a luniodd Owen Gruffydd farwnad Rosier Mostyn yr un amser â'r farwnad i Tomas a Bridget yn 1692 gan hepgor yr achau a'r llysoedd o'r ail gerdd yn lle eu hailadrodd?

Nodwedd ddiddorol arall ar y ddwy farwnad yw'r sylw i deulu Tomas a Bridget. Tebyg yw'r cyfeiriadau yng ngwaith y ddau fardd, nes bod lle i awgrymu bod y ddau fardd yn dilyn cyfarwyddiadau. Cana'r ddau ŵr yn gynnil iawn am linach Tomas, gan ddefnyddio'r un cyfeiriad achyddol penodol :

Aer o Dudur, aur didau',
Trefor oedd, rychor yr iau.
(Huw Morys)[479]

Hil Tudur, haelwaed dedwydd,
Trefor, lys tra fawr, ei lwydd.
(Owen Gruffydd)[480]

[476] Cerdd 36, t. 110.
[477] Ibid.
[478] Cerdd 6, tt. 9-14.
[479] Cerdd 36, t. 110.
[480] Cerdd 35, t. 104.

Yr un yw'r trywydd sydd i achau Bridget yng ngherddi'r ddau:

Lloer o aeres, lliw'r eira,
O Biston tirion waed ta.
(Huw Morys)[481]

Ond ceir mwy o fanylder am ei llinach deuluol gan Owen Gruffydd:

Bridget oedd, mawr achoedd maith,
Arglwyddes pywer Gloddaith.
Savage hil dieiddil dŷ,
Llawn da orsedd, llin Darcy.
Aeres lân, euroes linoedd,
Wir fawr sail o Rivers oedd.[482]

Rhestrir y meibion yn y marwnadau, ond heb lawer o fanylion, a cheir cyfeiriad at y ddwy chwaer gan y beirdd, ynghyd â chyfeiriad ehangach at frawd Tomas Mostyn, sef Richard Mostyn, Penbedw, sy'n awgrymu mai o dan ei oruchwyliaeth ef y trefnwyd i ganu'r marwnadau

Mae un brawd am oen Brydain
Buraidd serch yn brydd ei sain,
Pendefig clir gywir ged
Hap iawnbarch teulu Penbed. [483]

Canodd Owen Gruffydd am ffydd ddwys Tomas, gan adleisio'r hyn a ddywedwyd yn flaenorol gan feirdd eraill am ei dduwioldeb:

Ni bu i'w ddydd neb oedd iach
Ar ddeulin ŵr dduwiolach,
Ymprydio a gweddio'n ddwys,
Bwriadu am baradwys,
Ceid bob dydd gu ffydd goffhad
Y gwasanaeth gwiw seiniad
Yn ei addas neuaddau
Foreu a hwyr o'i fawrhau.[484]

[481] Cerdd 36, t. 113
[482] Cerdd 35, t. 105.
[483] Cerdd 35, t. 106.
[484] Cerdd 35, t. 107.

Er mai Pabyddes oedd Bridget, roedd Tomas wedi gwrthwynebu dylanwad yr Hen Ffydd ar goedd ar sawl achlysur, gan gynnwys llawr Tŷ'r Cyffredin yn 1679.[485] Roedd hefyd yn chwyrn yn erbyn dylanwad modryb Bridget, Mary Gerard, o deulu pabyddol Mostyniaid Talacre, a chyfeiria'n benodol ati yn ei ewyllys.[486] Fodd bynnag, ni allai ddiystyrru crefydd ei wraig a chan ei fod hefyd yn byw yn y Creuddyn, cadarnle yr Hen Ffydd yn Sir Gaernarfon, ac wedi ei fagu ger Treffynnon, canolfan bwysig i bererinion Pabyddol, roedd yn fwy cymhedrol ei safiad ac wedi meithrin goddefgarwch crefyddol.[487] O ystyried mai gwŷr eglwysig Protestannaidd oedd ei feirdd mawl lleol, ni chlywir unrhyw feirniadaeth ganddynt ynghylch crefydd Bridget a rhaid tybio nad oedd ei ffydd yn creu unrhyw rwystr iddynt ddod i Loddaith. Ni fu ffydd Bridget ychwaith yn rhwystr wrth gladdu, gyda Tomas a hithau yn rhannu'r un bedd yn Eglwys Gloddaith ar 24 Mehefin, 1692. Wrth briddo'r ddau, daeth cyfnod i ben. Meddai Owen Gruffydd:

Ni ddaw i'r wlad dduoer loes
Fyth doriad o'i fath deiroes.
Och am farchog cefnog gwych
Dawn rhuddin, doniau rhwyddwych.
Am Syr Thomas urddasol
Mostyn wych mae wast yn ôl,
Wast ar bawb, o ystyr barn,
A oedd codwm hydd cadarn.
O derfyn gwlad, darfu'n glir
Am un cyfion, mwyn, cofir.[488]

Roger Mostyn (1673-1739)

Ganwyd mab hynaf Tomas a Bridget Mostyn ar 31 Gorffennaf, 1673, a chan i Roger gael ei fedyddio yn Eglwys Chwitffordd ar 3 Awst,[489] mae'n debyg mai ym Mostyn neu yn un o gartrefi'r teulu yn Sir y Fflint y cafodd ei eni. Prin yw'r manylion am addysg ramadeg

[485] Gweler gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/mostyn-thomas-1651-92.
[486] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 183. Bu Tomas Mostyn mewn cysylltiad â'i nai, Owen Salesbury, Rug, wedi iddo rwygo'r teulu wrth droi at Babyddiaeth. Er i Tomas fynegi syndod at y newydd, roedd yn falch fod Owen a'i wraig gartref yn ddiogel ac am weddïo drostynt. Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9069, llythyr 32.
[487] Mae Mostyn a Glenn yn cyfeirio at gapel o fewn y plasty yng Ngloddaith a ddefnyddiai Bridget ar gyfer addoli yn ôl trefn yr Hen Ffydd. HFMM, 156. Gweler cyfrol Emyr Gwynne Jones am gefndir crefyddol yr ardal yn ystod y cyfnod, *Cymry a'r Hen Ffydd* (Caerdydd, 1951).
[488] Cerdd 35, t. 103.
[489] HFMM, 158.

Roger ond gwelir Philip Foulke, Swydd Amwythig, yn cyfeirio at siwrnai 'Mostyn's little bearer' mewn llythyr at Tomas Mostyn yn 1684/85[490] a cheir llythyrau eraill yn cyfeiro at ei addysg yn nodi mai yn Amwythig y bu am gyfnod pan oedd oddeutu un ar ddeg oed.

Canodd Rhys Cadwaladr ddwy gerdd i Roger Mostyn a gellid tybio iddynt gael eu canu oddeutu'r cyfnod pan oedd Roger yn gadael cartref i gael addysg:

Boed eich gras, bur urddaswych,
Yn orau i gyd, yn ŵr gwych.
Yn farchog hen bo'ch, f'enaid,
O fawl i'ch tŷ fal eich taid. [491]

Bu pryder am iechyd Roger ar sawl achlysur ac mae'r ail gerdd yn awgrymu iddo ddod adref i wella ar un cyfnod:

Croeso Roger bêr, o burion – achau,
Iechyd yn eich calon,
Ffyniant a llwyddiant llon
Gan' oes i'ch bochau gw'nion.[492]

Cofrestrodd Roger fel myfyriwr yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 10 Chwefror, 1689/90 a cheir adroddiad sy'n nodi ei fod yn astudio'n galed ac yn ŵr bonheddig, ond nad oedd yn ysgolor wrth reddf. Efallai mai dyma'r rheswm pam na raddiodd o'r coleg.[493] Pan oedd yn 19 oed, bu farw ei dad a'i fam, Tomas a Bridget Mostyn, ym Mehefin 1692, ac etifeddodd Roger ystad helaeth y teulu. Gyda Roger yn benteulu, gwelir cyfnod newydd yn hanes y Mostyniaid, a gwelir nad doeth fu ei arweinyddiaeth ar yr ystad bob amser, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar. Os oedd ei dad, Tomas Mostyn, yn fodlon ei fyd yn ei lyfrgell yng Ngloddaith, yn cysylltu â gwŷr o ddylanwad drwy gyfrwng llythyr, gwelir bod Roger yn llawer mwy egnïol ei ddiddordebau ac yn awchu am gymryd rhan ym mwrlwm y byd gwleidyddol, lle gallai gymdeithasu a thrafod gyda bonedd y wlad. Un

[490] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9069, llythyr 4.
[491] Cerdd 38 – 'Cywydd i Roger Mostyn' – t. 118. Bu farw Rhys Cadwaladr yn 1690.
[492] Cerdd 39 – 'Englynion i Roger Mostyn' – t. 119. Gwelir cyfeiriadau at ei iechyd yn llythyrau'r teulu yn Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9069, llythyr 4; 9071, llythyr 39; 9072, llythyrau 3, 4, 6, 7, 12, 16.
[493]HFMM, 158, ac Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9072, llythyr 22 – 8 Hydref, 1691. Hefyd gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1690-1715/member/mostyn-sir-roger-1673-1739

dylanwad anffodus oedd ei ddiddordeb mawr mewn rasio ceffylau, diddordeb na allai ei ystad sylweddol ei gynnal mewn gwirionedd.

> *The Postboy*, of October 10, 1699 (no. 704), states that "We have advice that the great horse match at Newmarket between his Grace the Duke of Devonshire and Sir Roger Mostyn for £1,000 a heat commenced on Monday last. The latter won the first heat and they are to run two heats more at £1,000 each." The result is not known. He owned, among others, a horse called "Jigg" by the Bryerley Turk. This horse made a great mark on the breed of horses between 1690 and 1700.[494]

Bu i'w wariant gormodol ei dlodi'n sylweddol o fewn ychydig flynyddoedd i farwolaeth ei dad, ac mae'n debyg bod ei frawd, Thomas, mewn sefyllfa fwy cadarn yn ariannol i sefyll fel aelod seneddol dros Sir y Fflint yn 1698.[495] Er mai bywyd gwleidyddol a aeth â bryd Roger yn ddiweddarach, roedd yn gweithredu yn lleol yn gynnar iawn yn ei yrfa, gan gael ei benodi yn siryf Sir Gaernarfon yn 1700-1, yn gwnstabl ar Gastell y Fflint ar ddau achlysur ac yn *custos rotulorum* ac Arglwydd Lefftenant yn Sir y Fflint.[496] Ond Llundain a Thŷ'r Cyffredin oedd yn denu Roger, ac o 1701 hyd 1734 fe'i gwelir yn treulio cyfnodau prysur a gweithgar fel aelod seneddol dros Sir y Fflint, ynghyd ag un tymor dros Sir Gaer. Ac yn y cyfnod cynnar hwn y daeth i sylw'r gwleidydd, Daniel Finch, 2il Iarll Nottingham, gŵr a ddaeth yn dad yng nghyfraith iddo yn 1703 ac a gafodd yr orchwyl o fenthyg arian i Roger yn fuan iawn wedi'r briodas i glirio ei ddyledion.[497] Fe ellid tybio bod y cysylltiad â theuluoedd gwleidyddol dylanwadol wedi bod o fudd i Roger yn ei yrfa a chafodd ei benodi yn Dâl-feistr i'r Llynges yn 1711 a Chlerc y Trysorlys yn 1714.[498]

Drwy briodas Roger â'r Arglwyddes Essex Finch, gwelir pryderon y beirdd am Seisnigeddio'r bonedd yn cael eu gwireddu. Er mor helaeth oedd ystad Roger ar draws gogledd Cymru a Sir Gaer, nid oedd mor gyfforddus ei fyd â meibion yng nghyfraith eraill Daniel Finch a rhaid tybio na fyddent yn rhoi llawer o werth ar unrhyw beth Cymraeg na Chymreig, gan gynnwys yr iaith. Hefyd, gyda Roger i ffwrdd yn y Senedd yn Llundain am

---

[494] HFMM, 160.
[495] Gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1690-1715/member/mostyn-sir-roger-1673-1739
[496] Daliodd y swyddi hyn yn ysbeidiol rhwng 1701 a'i farwolaeth yn 1739. Gweler gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1690-1715/member/mostyn-sir-roger-1673-1739
[497] http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1690-1715/member/mostyn-sir-roger-1673-1739
[498] Gweler gwefan Tŷ'r Cyffredin am fwy o fanylion am yrfa wleidyddol Roger Mostyn a Daniel Finch: http://www.historyofparliamentonline.org

gyfran sylweddol o'i fywyd priodasol, gellid tybio nad oedd y Gymraeg yn cael lle mor amlwg bellach ar yr aelwyd ym Mostyn a Gloddaith. Ganwyd deuddeg o blant i Roger ac Essex Mostyn gyda dau, os nad tri, ohonynt yn marw'n ifanc.[499] Yn oedolion, ymddiddorai'r hynaf ohonynt, Thomas (m. 1758), aer Syr Roger Mostyn (m. 1739), mewn llenyddiaeth gan ychwanegu at y llawysgrifau ym Mostyn, tra dilynodd ei frawd, John, yrfa yn y fyddin, gan ennill sawl dyrchafiad, cyn cael ei benodi'n lywodraethwr ar Ynys Minorca. Ymunodd y trydydd mab, Savage (m. 1757), â'r llynges, gan ddiweddu ei yrfa lwyddiannus yn Is-lyngesydd. Bu'r tri mab hefyd yn aelodau seneddol mewn gwahanol etholaethau, a rhwng 1747 a 1757, bu tymor y tri yn Nhŷ'r Cyffredin yn cyd-redeg.[500]

Roedd atyniadau'r ddinas wedi creu cryn argraff ar Roger Mostyn, a gwelir ei fod yn ymhyfrydu yn arbennig ym myd y ddrama boblogaidd Seisnig. Cymaint oedd ei ddiddordeb fel y rhoddodd nawdd yn 1700 i un o ddramodwyr ifanc poblogaidd y cyfnod, George Farquhar (1676/7-1707).[501] Os mai mwynhau ffrwyth y traddodiad barddol Cymraeg y bu ei gyndadau, gan dderbyn moliant drwy gyfrwng y cywydd a'r awdl, mae'r cyflwyniad i Roger Mostyn ar ddechrau'r ddrama gomedi, *The Constant Couple*, yn cyfleu'r newid a fu yn chwaeth lenyddol y teulu erbyn y ddeunawfed ganrif:

To the HONOURABLE Sir Roger Mostyn, Bar$^{t.}$
OF
Moftyn-Hall in Flintfhire.

Sir,

'Tis no fmall Reflection on Pieces of this Nature, that Panegyrick is fo much improv'd, and the Dedication is grown more an Art than Poetry; that Authors, to make their Patrons more than Men, make themfelves lefs; and that Perfons of Honour are forc'd to decline patronizing Wit, becaufe their Modefty cannot bear the grofs Strokes of Adulation.

---

[499] Enwir Thomas, John, Essex, Anne, Mary a Charlotte gan J Y W Lloyd a Mostyn a Glenn ond mae Lloyd hefyd yn cyfeirio at Daniel a D'Arcy, tra mai Savage, Roger Elizabeth a Heneage yw'r enwau ychwanegol a gofnodir gan Mostyn a Glenn. Ni ellir creu rhestr bendant o'r plant ond credir bod dau os nad tri phlentyn wedi marw yn eu babandod. Mae Mostyn a Glenn yn nodi bod Roger Mostyn wedi treulio amser sylweddol yng Ngloddaith, ond sylwer mai yn Eglwys Chwitffordd y bedyddiwyd o leiaf tri o'r plant, sy'n awgrymu mai ym Mostyn y cawsant eu geni. HP, 153; HFMM, 160.

[500] Gweler HFMM, 170-2, am fwy o fanylion am Thomas Mostyn (m. 1758) a gweler gwefan Tŷ'r Cyffredin am yrfa y tri: http://www.historyofparliamentonline.org.

[501] Ganwyd George Farquhar yn Iwerddon 1676/7 ac wedi cyfnod byr fel actor, cafodd lwyddiant fel dramodydd yn Llundain. *Constant Couple* oedd ei gomedi lwyddiannus gyntaf, drama a lwyfannwyd am 53 noson yn 1699-1670, record na thorrwyd mohoni tan 1728/9. Bu farw Farquhar yn 1707, wedi cyfnod byr o lwyddiant fel dramodydd. Cyhoeddwyd y ddrama yn Rhagfyr 1699, gan gynnwys y cyflwyniad i Roger Mostyn. Shirley Strum Kenny, 'Farquhar, George (1676/7–1707)', *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/9178, cyrchwyd 14 Mai 2013].

> But give me leave to fay, Sir, that I am too young an Author to have learnt the Art of Flattery; and I hope, the fame Modefty which recommended this *Play* to the World, will alfo reconcile my Addreffes to You, of whom I can fay nothing but what your *Merits* may warrant, and all that have the Honour of your Acquaintance will be proud to vindicate.
>
> The greateft *Pengyrick* upon you, Sir, is the unprejudic'd and bare Truth of Your Character; the Fire of Youth, with the *Sedatenefs* of a *Senator*, and the *Modern Gaiety* of a fine *Englifh* Gentleman, with the Noble *Solidity* of the Antient *Briton.*
>
> This is the Character, Sir, which all *Men*, but your Self, are proud to publifh of You, and which more celebrated *Pens* than mine fhould tranfmit to Pofterity.
>
> The *Play* has some Noble Appearances to honour its *Reprefentation;* and to compleat the *Succefs*, I have prefum'd to prefix fo Noble a Name to ufher it into the World. A ftately *Frontifpiece* is the Beauty of a Building. But here I muft tranfverfe *Ovid:*
>
> *Materia fuperabit Opus.*
>
> I am, Honourable SIR,
> Your moft Devoted, and
> Humble Servant,
> GEO. FARQUHAR.[502]

Mae yn fwy anodd mesur cyfraniad Roger Mostyn i'r byd llenyddol yn ôl adref yng Nghymru. Nid oes tystiolaeth iddo noddi'r beirdd a chyda'r wasg argraffu yn cynnig cyfle newydd i hybu llenyddiaeth Gymraeg, ni welir ef mor barod ag aelodau eraill y teulu i gefnogi cyhoeddiadau o'r wasg, megis *Ystyriaethau o gyflwr dyn, yn y bywyd hwn, ac yn yr hwn sy i ddyfod*, cyfieithiad Griffith Wynne *c.* 1724 o waith Jeremy Taylor, *Contemplations of the state of man in this life and in that which is to come.*[503] Ymysg noddwyr y gyfrol, gwelir enwau nifer o uchelwyr Cymreig y cyfnod, gan gynnwys Richard Mostyn, Penbedw, Roger Mostyn, Cilcain, Foulke Lloyd, Bryn Lluarth, Arthur Trefor, Bryncinallt a Cadwaladr Wynne, Foelas, perthnasau a chyfeillion y teulu a rhai o gyn-noddwyr y beirdd. Mae'n arwyddocaol nad yw enw Roger Mostyn yn eu plith.

Ni ellir ychwaith ganfod i ba raddau yr oedd Roger Mostyn yn medru cyfuno ei ddiddordeb ym myd y ddrama yn Llundain gyda'r casgliad o lawysgrifau a llyfrau prin a etifeddodd gan ei dad yn 1692. Gellid tybio bod Roger yn parhau gyda gwaith ei dad o ychwanegu at y casgliad o lawysgrifau ac roedd Thomas Pennant yn argyhoeddedig mai Roger a sefydlodd y llyfrgell yng Ngloddaith:

---

[502] Anon. *A Select Collection of English Plays from the Best Authors,* Vol III (Caeredin, 1759).
[503] Griffith Wynne, Jeremy Taylor, *Ystyriaethau o gyflwr dyn, yn y bywyd hwn, ac yn yr hwn sy iddyfod, o waith Jeremiah Taylor; ac a gyfieithwyd gan Gr. Wynn, offeiriad Llan Cadwaladr* (Caerlleon, 1724?).

> At *Gloddaeth* is another large library, confifting chiefly of old *English* hiftory, and very valuable *Welfh* MSS. collected by Sir *Roger Mostyn*, grandfather to the prefent baronet.[504]

Fodd bynnag, roedd llyfrgell eisoes wedi ei sefydlu yng Ngloddaith drwy ymdrech Tomas Mostyn. Roedd catalog wedi ei gynhyrchu yn 1692 i gofnodi'r llyfrau a'r llawysgrifau a etifeddodd Roger Mostyn ac ni ellir esbonio pam y bu i Thomas Pennant anwybyddu'r cofnod hwn, yn enwedig ac yntau yn meddu ar gopi o'r catalog.[505] Er nad yw cefnogaeth Roger Mostyn i lenyddiaeth Cymraeg yn amlwg, roedd gweithgarwch llawysgrifol yn parhau ar aelwyd y teulu yn y ddeunawfed ganrif, fel y cyfeiria un John Jones yn NLW 21252B:

> Myfi John Jones A sgrifenodd y Llyfr hwn, ym Mostyn, yn y Flwyddyn. 1725. [506]

Roedd Thomas, mab Roger Mostyn, wedi llunio catalog o gynnwys y llyfrgell ym Mostyn rywdro rhwng 1727 a 1733,[507] a rhaid ystyried felly mai o dan ei gyfarwyddyd ef ac nid ei dad yr oedd John Jones yn y plas yn 1725. Gyda Roger yn cael ei gladdu yn Eglwys Llanrhos yn 1739, mae'n debyg mai Gloddaith oedd ei gartref erbyn hyn, ond mae'n ddigon tebyg bod y tad a'r mab yn ychwanegu at gasgliadau llawysgrifol cynharach yn y ddau blasty.

Roedd celf weledol hefyd yn bwysig i'r teulu yng nghenhedlaeth Roger a gwelir ef yn noddi arlunwyr amlwg ar sawl achlysur. Ceir nifer o ddarluniau o'r teulu o'r cyfnod hwn, a bu i'r arlunydd brenhinol, Godfrey Kneller (1646-1723), ddarlunio Essex Finch ar fwy nag un achlysur. Cyfeiria Thomas Pennant hefyd at ddarluniau o Roger Mostyn a'i feibion, Thomas, John a Savage, yn y plasty ym Mostyn.

> The late Sir *Thomas Mostyn* [m. 1758], and the general *John Mostyn*, painted when they were children of seven or eight years of age, in

---

[504] HPWH, 73. Ni ellir dibynnu'n llwyr ar ffeithiau Pennant ond o ystyried bod ei wraig, Ann, yn wyres i'r Roger Mostyn (m. 1734) a grybwyllir, byddai'n gyfarwydd gyda chasgliad ei thad a chasgliad cynharach ei thaid.

[505] Ceir trafodaeth fanwl ar gasgliad Syr Tomas Mostyn (m. 1692) a'r catalogau yng nghyfrol Daniel Huws; MWM, 303-329.

[506] Cyfrol o awdlau, cywyddau, englynion, dyrïau, a.y.b. yn Llawysgrif NLW MS 21252B. Gweler y llyfryddiaeth am fwy o fanylion am y gyfrol.

[507] MWM, 308.

> one piece. Sir *Thomas* is dressed in a blue silver-lace suit. His younger brother habited exactly like a girl, in stays, a frock, and an apron, with his neck naked: too ridiculous to be attempted by the artist, or permitted by the parents.[508]

Bu farw Essex Finch o'r frech wen ym Mai 1721 a bu farw Roger yn 1739, wedi oes o wasanaeth i'r wladwriaeth a Sir y Fflint.[509] O gofio i'r traddodiad barddol ddirwyn i ben ar farolwaeth ei dad yn 1692, ni chafodd Roger Mostyn ei farwnadu, a geiriau George Farquhar ar ddechrau'r ddrama gomedi, *The Constant Couple,* yw'r unig rai i dystio i'w nawdd llenyddol.[510]

[508] HPWH, 68.

[509] Yn ychwanegol at ei ddyletswyddau lleol ac fel aelod seneddol, treuliodd gyfnod fel 'paymaster of marines' a 'teller of the Exchequer'. HFMM, 159. Ceisiodd Roger Mostyn sefyll fel aelod seneddol dros Sir Gaernarfon yn 1713 ond cafodd ei drechu yn sylweddol yn yr etholiad gan William Griffith, a daliodd y teulu eu gafael ar y sedd am 27 mlynedd. Cynrychioli etholaethau Sir y Fflint a Sir Gaer a wnaeth aelodau o deulu'r Mostyn wedi hyn. http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1690-1715/constituencies/caernarvonshire

[510] Roedd marwnadwyr ei dad, Tomas Mostyn (m. 1692), hefyd wedi marw erbyn hyn, Huw Morys, Pontymeibion, yn 1709 ac Owen Gruffydd, Llanystumdwy yn 1730.

Pennod 3

Bridget Savage (*c* 1656-1692) – Ei hachau a'i theulu.

Roedd Bridget Savage, gwraig Tomas Mostyn (m.1692), yn hanu o Sir Gaer ond gallai olrhain ei hachau ar ochr ei mam at Rhisiart ap Hywel (m. 1540). Tarddai llinach Tomas o fab hynaf Rhisiart ap Hywel, Tomas Mostyn (m. 1558), tra mai o'r trydydd mab, Pyrs Mostyn, y tarddodd llinach Talacre o'r Mostyniaid, sef teulu Bridget. Er mai ychydig filltiroedd a geir rhwng Mostyn a Thalacre, dilynodd y ddwy linach drywydd crefyddol gwahanol, gyda theulu Mostyn yn mabwysiadu Protestaniaeth a theulu Talacre yn cadw'n ffyddlon i'r Hen Ffydd Babyddol. Cadwodd Bridget ddaliadau crefyddol ei theulu wedi ei phriodas, a thrwy olrhain ei hachau, gwelir bod Pabyddiaeth yn gysylltiedig â llinachau ei thad a'i mam yn ystod yr 16g. Trafodir cefndir teuluol Bridget yn rhan gyntaf y bennod ac yna ceir hanes ei bywyd priodasol gyda Tomas Mostyn.

Prin yw'r manylion yn y cyfrolau achyddol gan amlaf am Bridget Savage, a nodir yn unig ei bod yn ferch ac aeres i Darcy Savage, Leighton a Beeston, Sir Caer, ac yn wraig i Syr Tomas Mostyn, Gloddaith. Yng nghanu'r beirdd, caiff ei chanmol am ei hanwyldeb a'i thlysni, ac mae'n rhannu'r clod gyda'i gŵr, Tomas, am eu haelioni ar yr aelwyd yng Ngloddaith. Ceir rhai awgrymiadau prin gan y beirdd ei bod o linach hynafol ond ni helaethir ar hyn ac efallai mai ei chefndir pabyddol sydd i gyfrif am hyn. Ffowc Wyn, Nantglyn, yw'r unig fardd i gyfeiro at ffydd Babyddol Bridget Mostyn a hynny yn yr unig gerdd ganddo i Tomas Mostyn.

A'i wraig dda fwyneiddia'n fyw
O fonedd mawr yw'r fenyw,
'N benna' gweddiwn beunydd
Yn ffest ar ei throi i'n ffydd. [511]

Os mai tawel oedd y beirdd ynghylch cefndir crefyddol Bridget, mae'n annhebygol eu bod yn anwybodus ynghylch ffydd Babyddol ei theulu, gan fod ei theulu, o linach ei thad ac o linach ei mam, wedi dilyn llwybrau cadarn yn enw eu ffydd.

[511] Cerdd 13, t. 35.

Ganwyd Bridget Mostyn oddeutu 1656, yn ferch i Darcy Savage, Leighton a Beeston, Sir Gaer, ac Ann Mostyn, Talacre. Ni cheir cofnod pendant o'i genedigaeth na'i bedydd, ond mae cytundeb priodas ei rhieni wedi ei ddyddio ar 29 Hydref, 1655, pan gofnodir y trefniant ynghylch tiroedd penodol yn Sir Gaer ar uniad y ddau deulu.[512] Yn ddiddorol, dyma un o'r dogfennau prin sydd yn cysylltu Ann Mostyn gyda Darcy Savage. Ceir dogfen achyddol yng Nghasgliad Mostyn, Archifdy Prifysgol Bangor, lle cofnodir priodasau teulu'r Savage, a gadawyd bwlch amlwg ar gyfer gwraig Darcy Savage.[513] Daw'r cofnod mwyaf manwl o deulu Ann Mostyn yn *Flintshire, Denbighshire and other North Wales Pedigrees*[514] ac wrth ddilyn llinach Mostyniaid Talacre, daw'r cysylltiad teuluol rhwng Bridget Savage a Tomas Mostyn i'r amlwg.

Llinach Mostyn, Talacre

Rhisiart ap Hywel=Catrin Salusbury
|
Pyrs Mostyn=Elen Griffith
|
Wiliam Mostyn=Ann ferch Harri
|
Edward Mostyn=Elizabeth Morgan
|
John Mostyn=Ann Fox
|
Darcy Savage=Ann Mostyn
|
Tomas Mostyn=Bridget Savage

[512] Enwir Darcy Savage, Syr Richard Grosvenor, Henry Fox (taid Ann Mostyn o ochr ei mam) ac Edward Mostyn, Talacre (brawd hynaf Ann Mostyn) yn y cytundeb sydd yn Archifdy Sir y Fflint, D/M 3631. Dyma'r unig ddogfen a welwyd sy'n cyfeiro at briodas Darcy Savage ac Ann Mostyn. Ni fu modd darganfod cofnod o'r briodas mewn cofnodion eglwysig nac o fedydd eu merch, Bridget Savage.

[513] Bangor (Mostyn) 711. Er bod nodiadau ynglŷn ag aelodau'r teulu ar y ddogfen, ni cheir eglurhad pam na chofnodwyd enw gwraig Darcy Savage yn y llawysgrif. Â'r cofnod ymlaen i nodi cenedlaethau o Fostyniaid a darddai o uniad Bridget a Tomas Mostyn.

[514] Llawysgrif Harley 1971 (Llyfrgell Brydeinig) – gwaith Jacob Chaloner, gydag ychwanegiadau diweddarach gan y ddau Randle Homes (1627-1700, a *c* 1659-1707), y tri yn beintwyr heraldau ac achyddwyr. Mae pennod ar achau'r teulu hefyd o'r 16g. hyd 1755 yn T. Wotton, E. Kimber a R. Johnson, *The Baronatage of England containing A Genealogical and Historical Account of all the English Baronets now existing, Volume the Second* (Llundain, 1771), 349-51.

Datblygodd llinach Mostyniaid Talacre o drydydd mab Rhisiart ap Hywel (m. 1539/40), sef Pyrs, ac fel ei frawd Tomas (m. 1558), mabwysiadodd y cyfenw Mostyn, y genhedlaeth gyntaf i wneud hynny. Drwy ei wraig, Elen Griffith, Pant y Llongdy, Tegeingl, cafodd Pyrs saith mab a saith merch,[515] gyda'r ail fab, William, yn etifeddu'r ystad gan i'w frawd hynaf, Pyrs, farw yn ddi-blant. Drwy ei wraig, Ann, etifeddodd Wiliam Mostyn y Maes Glas ac Abaty Basing, tiroedd a werthwyd i dad Ann, Harri ap Harri, Llanasa, yn 1540 pan ddiddymwyd y mynachlogydd gan Harri VIII. Ganwyd pum mab a phum merch[516] i William ac Ann Mostyn, gyda'r mab hynaf, Edward yn etifeddu'r ystad. Fel ei dad a'i daid o'i flaen, priododd Edward â merch leol, yn achos Edward, gydag Elizabeth Morgan, Golden Grove, Tegeingl[517], merch o deulu Pabyddol cadarn, a ganwyd iddynt ddau fab – John a William – a dwy ferch, Mary ac Anne. Priododd John, y mab hynaf, gydag Anne Fox o Hurst, swydd Amwythig, a magodd y ddau dri mab a phedair merch, gan gynnwys Ann Mostyn, mam Bridget Savage. Er mai fel Mostyniaid Talacre yr adnabyddir y teulu, mae lle i gredu mai yn y Maes Glas (Greenfield), pentref ar yr arfordir ger Treffynnon, yr oedd cartref John ac Anne Mostyn.[518]

Teulu Ann Mostyn, Talacre



Yr hyn sy'n drawiadol am deulu Mostyn, Talacre, a'r hyn sy'n eu gosod ar wahân i'w perthnasau ym Mostyn, yw eu hymlyniad wrth y ffydd Babyddol, er gwaethaf y

[515] Mae enw un o'r merched, Mary Mostyn, gweddw Ithel Wyn o Goed Llai, ar restr reciwsantiaid 1621, a chladdwyd merch arall, Margaret, gweddw Siôn Conwy, Botryddan, liw nos yn 1627 gan ei bod hithau yn reciwsant. Cysylltir teulu Mostyn Talacre gyda cherflun pren Eglwys Gadeiriol Bangor – 'Y Crist o Fostyn' – a nodir y cefndir hanesyddol gan Enid Roberts, 'Y Crist o Fostyn', *Bwletin Bwrdd Astudiaethau Celtaidd*, XXI (1966), 236-242.

[516] Daeth Ann, un o ferched William ac Ann Mostyn, yn wraig i Gwilym Puw, Y Penrhyn, Creuddyn, sef aelod o deulu reciwsantaidd mwyaf amlwg gogledd Cymru. Enid Roberts, 'Y Crist o Fostyn', 241.

[517] Ceir cyfeiriad at Golden Grove fel Golgref yn HP, 160.

[518] Mae atgofion eu merch, Margaret, yn cyfeirio at ei chartref yn y Maes Glas. Gweler cyfrol Edward Bedingfield, *The Life of Margaret Mostyn (Mother Margaret of Jesus): Religious of the Reformed Order of our Blessed Lady of Mount Carmel, 1625-1679* (Llundain, 1878).

gwaharddiadau ar hyn yn y cyfnod. Er bod Harri VIII wedi torri yn rhydd o Eglwys Rufain yn 1534, ni chafodd deddfau, gwaharddiadau nac erledigaeth y dylanwad disgwyliedig o ran troi'r wlad yn llwyr oddi wrth yr Hen Ffydd. Tra oedd hi'n fanteisiol i'r uchelwyr droi eu cefn ar Babyddiaeth yn y ganrif ddilynol i gydymffurfio â deddf gwlad, mae'n debyg fod nifer ohonynt wedi parhau yn fwy goddefgar o'r ffydd o fewn muriau eu cartrefi, ac mae'n ddiddorol mai enwau gwragedd sydd yn fwyaf amlwg yn y rhestrau a luniwyd yn flynyddol wedi 1581 i gofnodi y rhai a fu'n absennol o wasanaeth eglwys am bythefnos neu fwy.[519] Bu rhai ardaloedd yn fwy cefnogol na'i gilydd i barhad y ffydd Gatholig a chyda Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon yn gyrchfan bwysig i bererinion ers canrifoedd, gellid tybio bod hyn wedi dylanwadu ar barhad yr 'Hen Ffydd' yn Sir y Fflint.[520]

Bu John Mostyn a'i wraig, Ann Fox, yn bleidiol iawn i'r achos Pabyddol yn lleol, gyda'r ddau yn cynnal ysgol i reciwsantiaid yn yr abaty yn y Maes Glas am gyfnod, a hynny yn ddigon agored.[521] Bu farw John Mostyn yn 1640 pan oedd ei blant yn ifanc ond parhaodd y teulu yn ffyddlon i'r Hen Ffydd.[522] Mae'r hanesydd Thomas Pennant yn cyfeiro at gofeb i ail ŵr Ann Mostyn, George Petre, yn Abaty Basing, y Maes Glas, sy'n nodi iddo adael y wlad am Iwerddon oherwydd erledigaeth chwyrn yn erbyn Pabyddion.[523] Nid yw'n

---

[519] Defnyddiodd Emyr Gwynne Jones y rhestrau a luniwyd gan wardeiniaid y plwyfi at ddefnydd erlyniad yn llysoedd y Sesiwn Fawr yn ei gyfrol ar Gatholigiaeth yng Nghymru o gyfnod y Diwygiad Protestannaidd ymlaen. Er mor ddefnyddiol ydynt i gyfleu darlun o'r cyfnod, mae'r hanesydd yn cydnabod mai cyndyn fu'r swyddogion i fradychu eu ceraint a'u cymdogion. Nid annisgwyl felly iddo ddarganfod mwy o enwau ar restr y llysoedd. Enwir Jane Pennant, ac nid ei gŵr, Nicholas Pennant, ar restr Treffynnon, felly hefyd gydag Elizabeth Mostyn, gwraig Edward Mostyn. Gweler Emyr Gwynne Jones, *Cymru a'r Hen Ffydd*, 50.

[520] Ceisiodd awdurdodau'r cyfnod – Cyngor Cymru a'r Gororau, a swyddogion yr Esgobaeth – weithredu ar sawl achlysur i atal Ffynnon Gwenffrewi rhag datblygu fel canolfan i bererinion ac i Babyddion. Ceir un adroddiad am Esgob Bangor yn teithio i Dreffynnon yn 1620 i arestio offeiriad pabyddol a'i gynulleidfa, gyda'r dyrfa leol yn codi fel un yn ei erbyn ac yn ei luchio i ffos. Gweler Alexandra Walsham, 'Holywell: Contesting sacred space in post-Reformation Wales' yn Will Coster ac Andrew Spicer (goln.), *Sacred Space in Early Modern Europe* (Caergrawnt, 2011), 228.

[521] Am fwy o wybodaeth am y gweithredu a fu i gynnal yr Hen Ffydd yn Nhreffynnon a'r Maes Glas, a rhan John ac Ann Mostyn yn hyn, gweler erthygl ddiddorol Colleen M. Sequin, 'Cures and Controversy in Early Modern Wales: The Struggle to Control St. Winifred's Well', *North America Journal of Welsh Studies*, Vol 3, 2 (Summer 2003) – http://spruce.flint.umich.edu/~ellisjs/Seguin.pdf.

[522] Mae rhai ffynonellau yn cyfeirio at ei farwolaeth yn 1640 ac yn nodi i'w weddw ailbriodi yn 1641 â George Petre. Gweler Henry Foley, *Records of the English Province of the Society of Jesus*, Cyfrol 4 (Llundain, 1878), 523. Ceir peth anghysondeb am ddyddiad yr ail briodas, gan y ceir cyfeiriad at Ann Mostyn (m 1672) yn ennyn diddordeb yr awdurdodau a chael ei chyhuddo, ar y cyd â'i hail ŵr, George Petre, o adeiladu tafarn newydd yn 1640, Tafarn y Seren yn Nhreffynnon, at ddibenion cynnal gwasanaethau a chyfarfodydd Pabyddol. Wedi ymchwiliad, canfyddwyd mai di-sail oedd y cyhuddiadau, gyda'r cyhuddwyr yn dod o flaen eu gwell am eu rhan yn y cynllwyn. Colleen M Sequin, 'Cures and Controversy in Early Modern Wales: The Struggle to Control St. Winifred's Well', 13. Bu farw George Petre yn 1647.

[523] Yn ôl y gofeb yn Abaty Basing, bu farw George Petre yn Wexford yn 1647, yn 34 oed, a chladdwyd ei gorff yn yr abaty ger Treffynnon. Am fwy o fanylion gweler HPWH, 196.

hysbys a aeth ei wraig, Ann Mostyn, gydag ef i Iwerddon yn ystod y cyfnod hwn ond fe welir rhai o'i phlant ar y cyfandir o 1644 ymlaen, gyda George Petre yn marw yn Iwerddon yn 1647.

Er gwaethaf ymlyniad cryf y teulu wrth y ffydd Babyddol dros y blynyddoedd, ni fu croeso ar y dechrau i'r newyddion am fwriad merched hynaf John ac Ann Mostyn, Margaret ac Elizabeth, i ymuno â chwfaint. Cofnodir cymhellion a phenderfyniad Margaret mewn cofiant iddi, *The Life of Margaret Mostyn (Mother Margaret of Jesus): Religious of the Reformed Order of our Blessed Lady of Mount Carmel, 1625-1679*.[524] Nid yw'r cofiant yn cyfeirio at y ddwy chwaer arall, Mary ac Ann, sef mam Bridget Savage; dilynodd y ddwy fywyd mwy confensiynol, gan briodi a magu teulu.
Prin hefyd yw'r cyfeiriad yn y cofiant at y brodyr – Edward, John ac Henry – ond mae cofnodion swyddogol Cymdeithas yr Iesuwyr yn nodi i'r tri fynychu colegau Iesuaidd dramor, gan ddefnyddio enw ffug i'w diogelu rhag erledigaeth. Mae'r cofnodion yn cynnwys cefndir teuluol y meibion, yn eu geiriau eu hunain, yn 1647:

> My name is Edward Mostyn, I am the eldest son of my father, who died when I was but twelve years of age. He was called Sir John Mostyn, Kt., and lived in Flintshire. My mother was Anne, daughter of Sir Henry Fox, Kt., who six years ago married Sir George Petre, Kt. As far as I gather from others I shall be nineteen years of age on April 5th, and was born at Basingwerke, and being taken from home three years ago into France, on account of the terrible troubles in England, I went to Ghent, in Flanders, and there made my humanity studies for a year and a half, more or less. I have two brothers in Flanders, now studying at the English College of St. Omer. I have four sisters, two in the English Convent, Antwerp, and two in England, all firm Catholics. I was always a Catholic, and was sent by order of my parents into these parts, that I might, as a convictor in the College, diligently apply myself to my studies.
> (Signed) Edward Seaborne[525]

Ceir cofnod tebyg gan ei frawd John (g. 1632) yn 1650 wrth iddo ymuno â choleg yn Rhufain.[526]

Cwfaint Seisnig Teresaidd yn Antwerp oedd cyrchfan Margaret ac Elizabeth Mostyn,

---

[524] LMM. Cyhoeddwyd atgofion Elizabeth Mostyn (Chwaer Ursula'r Holl Saint) o'r daith i Ffrainc yn Nicky Hallet, *Lives of Spirit: English Carmelite Self-Writing of The Early Modern Period* (Aldershot, 2008), 182.
[525] Henry Foley, *Records of the English Province of the Society of Jesus*, Cyfrol 4 (Llundain, 1878), 523-524.
[526] Foley, *Records of the English Province of the Society of Jesus*, 4, 524. Ni fu modd canfod mwy o fanylion am y trydydd brawd, Henry.

lleiandy a sefydlwyd ar ddechrau'r 17g. Derbyniwyd Margaret (Margaret yr Iesu) yn aelod llawn o Urdd Sanctaidd Mynydd Carmel yn ugain oed yn 1645, a derbyniwyd Elizabeth (Ursula'r Holl Seintiau) yr un dydd.[527] Ymhen tair blynedd i'r urddo, symudodd y ddwy i gwfaint newydd yn Lierre yn 1648 ac yno y treuliodd Margaret ac Elizabeth weddill eu bywydau, gyda Margaret yn cael ei phenodi yn Briores ar y cwfaint yn 1654, ac yn 1679, ar farwolaeth Margaret, etholwyd Elizabeth i'r swydd. Ni cheir manylion am y cyswllt rhwng y ddwy a'u teulu yn Sir y Fflint – bu eu mam, Ann Petre, farw yn 1672 – ond mae'n debyg eu bod yn derbyn cefnogaeth ariannol ganddynt[528] ac fe geir adroddiad bod darlun o Margaret yn ei gwisg fel lleian wrth ochr gwely ei brawd.[529]

Roedd bywyd neilltuedig lleian hefyd yn denu nith y ddwy, merch hynaf Edward ac Elizabeth Mostyn – Elizabeth (1654-1707). Yn 1670, yn un ar bymtheg oed, fe dderbyniwyd Elizabeth (Liwsi yr Ysbryd Glân) yn lleian, y gyntaf o gyfnitherod Talacre Bridget Mostyn i gael ei derbyn.[530]

Roedd yn gyfnod o newid i'r teulu yn y Maes Glas hefyd, pan urddwyd Edward Mostyn yn farwnig gan Siarl II am ei ffyddlondeb i'r goron, ac oddeutu'r cyfnod yma, teithiodd ei ddwy ferch arall – Margaret (1659-1743) ac Ann (1663-1715) – i Baris i dderbyn addysg Babyddol mewn cwfaint Seisnig. O ganlyniad i gyhuddiadau ffug Titus Oates yn 1678 am gynllwyn i ladd y brenin, gwaethygodd sefyllfa pob Pabydd ym Mhrydain i'r fath raddau fel y bu i nifer, fel Edward Mostyn a'i wraig, adael y wlad a symud dramor. Ymgartrefodd y ddau ym Mharis am gyfnod, yn agos at Ann. Roedd Margaret, yr hynaf o'r chwiorydd, wedi cwblhau ei haddysg yn y cwfaint erbyn hyn ac yn briod â gŵr gweddw o Swydd Rhydychen.[531]

---

[527] Ceir cofiant byr i fywyd Elizabeth ar ddiwedd cyfrol LMM, 261-269.

[528] Yn gyffredinol, o deuluoedd bonheddig y deuai'r Pabyddion Seisnig alltud, ac roedd gan rai ffynonellau ariannol teuluol i'w cynnal, ac eraill bensiynau pabyddol. Ceir mwy o fanylion am Babyddion alltud yng nghyfrol Peter Guilday, *The English Catholic refugees on the continent 1558-1795* (Llundain, 1914); gweler ei gyflwyniad am gefndir hanesyddol yr alltudio, yn arbennig *xix*. Amharodd y Rhyfel Cartref a chyhuddiadau Titus Oates (*c.* 1678) ar allu'r noddwyr Pabyddol ym Mhrydain i gyfrannu'n ariannol tuag at gynnal sefydliadau Pabyddol dramor, a dioddefodd nifer o'r lleiandai dlodi. Guilday, *The English Catholic refugees on the continent 1558-1795*, 369-370.

[529]Yn y cofiant, ceir sylw gan Elizabeth – y Chwaer Ursula'r Holl Seintiau – i'w brawd (John mae'n debyg) gael ei ddeffro gan sŵn un noson, ac yn y bore darganfod bod y darlun wedi ei symud i wynebu drws ei lofft, a gwedd nefolaidd, wahanol ar ei chwaer. Cymharwyd dyddiadau yn ddiweddarach a chanfod i hyn ddigwydd y noson y bu ei chwaer, Margaret, farw. LMM, 257-8.

[530] Croniclwyd bywyd Elizabeth yng nghofiant ei modryb, priores Lierre, erbyn hyn Mam Margaret yr Iesu . LMM, 269-270.

[531] Daw'r wybodaeth o'r cofiant i Margaret Mostyn a luniwyd gan ei chwaer a'i nithoedd. LMM, 270-271. Ceir llythyrau gan Margaret Fetiplace o Swydd Rhydychen at Tomas a Bridget Mostyn yn 1689, gydag un

Wedi rhai misoedd ym Mharis, penderfynwyd ei bod yn ddiogel dychwelyd i'r Maes Glas, ac Ann gyda hwy, ond ymuno â'i chwaer a'i modrybedd yn y cwfaint yn Lierre a wnaeth Ann dan yr enw Mary Ann y Santes Gwenffrewi (Mary Ann of St Winifred). Ymunodd merch hynaf Edward Mostyn – Margaret – â chwfaint yn Ffrainc ar farwolaeth ei gŵr, Bartholomew Fettiplace. Cafodd ei derbyn yn 1694 ac wedi cyfnod gyda'r lleianod yn Rouen a Dunkirk, ymunodd â'i dwy chwaer a'i modrybedd yn y cwfaint yn Lierre.

Ddwy flynedd ynghynt, yn 1692, ymunodd un o feibion Edward Mostyn, Andrew, â'r Iesuwyr ac ymunodd brawd arall, John, yn 1693. Ni fu modd darganfod tynged un mab, Edward, ond o wyth o blant (bu farw'r cyntafenedig, John arall), dilynodd pump ohonynt fywyd crefyddol. O linach Pyrs Mostyn, mab hynaf ac etifedd Edward Mostyn, daeth mab arall ac ymunodd yntau â'r Iesuwyr, a chan iddynt drosglwyddo'r iaith Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth, bu teulu Mostyniaid Talacre yn flaenllaw iawn yng nghynhaliaeth yr Hen Ffydd yng Nghymru drwy gyfnodau digon tywyll am ganrifoedd. Yn fwy diweddar, yn yr ugeinfed ganrif, penodwyd un o ddisgynyddion Pyrs Mostyn, sef Francis Mostyn, yn Archesgob Catholig Caerdydd rhwng 1920 a 1939.

Nid yw'r cofnodion mor fanwl am gefndir Mary ac Ann Mostyn, merched ieuengaf John Mostyn ac Ann Fox, ond gwelir mai Pabyddion o'r un ardal yn Sir Gaer a briododd y ddwy, Mary gyda James Poole, Poole,[532] ac Ann gyda Darcy Savage, Castell Beeston a Leighton, yn 1655. Ganwyd dau fab i James Poole a Mary Mostyn, Benjamin a William, ac mae'n ddiddorol nodi bod pob merch a anwyd i'r ddwy genhedlaeth nesaf o linach Mary Mostyn (ac eithrio un) wedi mynd yn lleian ar y cyfandir, tair ohonynt i gwfaint Lierre.[533] Ailbriododd Mary Mostyn â Syr William Gerard,[534] ac ymddengys iddi greu y fath atgasedd yn Tomas Mostyn, Gloddaith (m. 1692), gŵr Bridget Savage, at Babyddiaeth fel ei fod wedi cyfeirio at fodryb ei wraig yn ei ewyllys:

---

llythyr yn nodi ei hapusrwydd fel gwraig briod. Gweler Casgliad Mostyn yn Archifdy Prifysgol Bangor, 9070, 19; hefyd 9071, 22 a 30.

[532] Roedd James yn fab i Thomas Poole, gŵr cyntaf Ellen Draycott. Ailbriododd Ellen Draycott gydag Edward Mostyn, brawd hynaf Mary Mostyn. Roedd Ellen Draycott felly yn llysfam i James, a chwaer yng nghyfraith i'w wraig, Mary. Gweler Thomas Wotton, Edward Kimber a Richard A Johnson, *The Baronatage of England, II* (1771), 424.

[533] Roedd y lleianod felly yn ferched ac wyresau i gefndryd Bridget Mostyn. Am linach teulu Poole, gweler gwefan http://wwtn.history.qmul.ac.uk/ftrees/Poole.pdf.

[534] Gyda rhai eithriadau prin, aeth y mwyafrif o ferched teulu Gerard yn lleianod am dros ddwy ganrif, gweler gwefan http://wwtn.history.qmul.ac.uk/ftrees/Gerard.pdf.

'that wicked and dangerous woman their Aunt Gerrard'. [535]

Er yr ymddengys i Tomas Mostyn fod yn gymodol tuag at grefydd Babyddol ei wraig, Bridget, mae'r ewyllys, a luniodd yn 1680, yn annog gwarcheidwaid ei dri mab, Roger, Thomas a John, i'w cadw rhag unrhyw gyswllt gyda'u teulu Pabyddol.

Llinach teulu Darcy Savage, Sir Gaer (Cheshire)

Thomas Savage=Elizabeth Darcy
│ William Whitmore=Margaret Beeston
│ │
Thomas Savage=Elizabeth Somerset, nee Whitmore
│
Darcy Savage=Ann Mostyn
│
Bridget Savage=Thomas Mostyn

Yn ogystal â theulu Mostyniaid, Talacre, roedd teulu Bridget Mostyn o ochr ei thad, Darcy Savage hefyd o gefndir Pabyddol cryf. Roedd gan y teulu gysylltiadau â'r llys brenhinol ac yr oeddynt hefyd yn perthyn i nifer o ieirll ac arglwyddi. Yr aelod mwyaf nodweddiadol o'r teulu yn ddi-os oedd nain Darcy Savage, Yr Arglwyddes Elizabeth Darcy (1584-1650), Is-iarlles Savage, ac yn ddiweddarach Cowntes Rivers. Bu'n Foneddiges wrth Alwad (Lady of the Bedchamber) yn llys y Frenhines Henrietta Maria, a'i gŵr, Thomas Savage (1586–1635), Is-Iarll Savage, yn gweithredu fel Canghellor y llys.[536] Cryfhawyd y cysylltiad brenhinol wedi genedigaeth eu mab hynaf a'r aer, John (g.1603), pan gytunodd Harri, Tywysog Cymru, i fod yn dad bedydd iddo.[537] Roedd cysylltiad brenhinol y teulu yn faith, ac yn dyddio o 1066 pan ddaeth Le Sieur Thomas de Savage o Ffrainc i ganlyn Wiliam Goncwerwr.[538] Drwy ei chysylltiad brenhinol, roedd Elizabeth Darcy yn un o'r cylch bach o ferched bonedd pabyddol i gael caniatâd i fynychu

[535] Gweler Bangor (Mostyn) 183, yng Nghasgliad Archifdy Prifysgol Bangor.
[536] Gweler G H White (gol.), *The Complete Peerage*, XI (Llundain, 1949), 458, am fwy o fanylion am gefndir achyddol y ddau. Ceir hefyd fanylion am swyddi eraill Thomas Savage yn y senedd a'r llys.
[537] Gweler George Francis Armstrong, *The Ancient and Noble family of the Savages of the Ards* (Llundain, 1888), 38.
[538] Armstrong, *The Ancient and Noble family of the Savages of the Ards*. Mae Pennod II (8-68) yn cyfeirio'n benodol at linach Sir Gaer a Swydd Derby, sef llinach Darcy Savage.

gwasanaethau'r Hen Ffydd yn gyfreithiol gyda'r frenhines Henrietta Maria "in her little oratory".[539] Yn ogystal â bywyd llys brenhinol, roedd teulu Savage yn mwynhau sylw arlunwyr a beirdd amlwg y cyfnod, a gwelir bod John Milton ymysg y beirdd a luniodd farwnad i un o'r merched, Jane – 'An Epitaph on the Marchioness of Winchester'[540]

O ganlyniad i'r Rhyfel Cartref yn 1642, dioddefodd y teulu yn enbyd oherwydd eu cefnogaeth i Siarl I yn ogystal â'u hymlyniad wrth y ffydd Gatholig (bu farw Thomas Savage yn 1535 mewn dyled), gydag Elizabeth Savage, a'i mab, John Savage (Is-iarll Colchester ac yn ddiweddarch Iarll Rivers), yn cael eu herlid am flynyddoedd. [541] Ceisiodd Elizabeth Savage dalu'r dirwyon llym a roddwyd arni oherwydd ei ffydd a'i chefnogaeth i'r goron drwy werthu rhai o'r tiroedd ond aflwyddiannus fu ei hymdrechion, a chafodd ei charcharu am ei dyledion a marw yn fuan wedyn yn 1651 yn fethdalwr.[542]

Dioddefodd ei mab, John Savage, [2il] Iarll Rivers, hefyd yn enbyd oherwydd ei ffyddlondeb i'r goron. Mae ei ddeiseb i'r Senedd yn Hydref 1645 yn apelio am faddeuant a thrugaredd ac yn cyfeirio at golledion trwm mewn incwm oherwydd y difrod a wnaethpwyd i'w ystad. Oherwydd hyn, ni allai'n hawdd dalu'r dirwyon a roddwyd arno am ymgyrchu dros y brenin.[543] Ceir cofnod hefyd o ddirwy a roddwyd i'w frawd, Thomas Savage, Beeston[544] (tad Darcy Savage) ac mae'n debyg ei fod yntau wedi cymryd rhan amlwg yn y Rhyfel Cartref yn Sir Gaer. Yn 1646, ar orchymyn y senedd, dinistriwyd Cestyll Halton a Beeston, cartrefi y ddau frawd, ynghyd â phrif gartref y teulu yn Rock Savage, a gwaharddwyd John a Thomas Savage o swyddi ustusiaid heddwch. Prin yw'r cyfeiriadau

---

[539] Dyfynir sylw Amerigo Salvetti, cynrychiolydd dugiaid Twsgani yn Lloegr, yn Lyn Boothman, Richard Hyde Parker a David Dymond, *Savage Fortune: An Aristocratic Family in The Early Seventeenth Century* Woodbridge, 2006), xl.

[540] Bu farw Jane yn 1631, gyda'r beirdd Ben Jonson,William Davenant a William Coleman hefyd yn cofnodi ei marwolaeth. Ceir darlun o ferch arall, Henrietta Maria, gan yr arlunydd Jacob Huysmans mae'n debyg. Dymond, *Savage Fortune: An Aristocratic Family in The Early Seventeenth Century*, xlvii a lxii.

[541] Mae awgrym bod y Rhyfel Cartref wedi bod yn gyfrwng i denantiad yn ne Lloegr weithredu yn erbyn y bonedd a'r tirfeddianwyr yn enw'r Seneddwyr, yn arbennig Pabyddion a reciwsantiaid. Ceir adroddiadau byw gan Bruno Ryves o ddigwyddiadau cythryblus y cyfnod, gan gynnwys cyfeiriad manwl at y difrod sylweddol a wnaethpwyd i blastai Countess Rivers yn ei gyfrol *Mercurius Rusticus* (Caergrawnt, 1685). Gweler tt.15-17 am y cyfeiriad at Cowntes Rivers.

[542] Gweler ODNB am fanylion pellach am Elizabeth Savage, Cowntes Rivers – http://www.oxforddnb.com/view/article/69349?docPos=17. Hefyd cyfrol Boothman, Parker a Dymond, *Savage Fortune: An Aristocratic Family in The Early Seventeenth Century*.

[543] Nodir y ddeiseb yn Nhrafodion Tŷ'r Arglwyddi, Cyfrol 7, 22 Hydref, 1645, ar wefan British History Online – http://www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=33427&strquery=earlrivers.

[544] Nodir dirwy o £557 i Thomas Savage, Beeston, £1,110 i'w frawd John Savage, Iarll Rivers, a £100 i'w mam, Elizabeth Cowntes Rivers, gan George Francis Armstrong, *The Ancient and Noble family of the Savages of the Ards*, 50.

atynt wedi hyn ac mae'n debyg bod eu dyledion bellach yn eu hatal rhag ymyrryd ym mywyd a gwleidyddiaeth y sir. Ni ddaeth adferiad y bywyd breinitiedig yng nghyfnod John Savage a bu farw'n fethdalwr yng Nghastell Frodsham ar 10 Hydref, 1654.[545]

Mae rhai cofnodion yn nodi mai John oedd yr hynaf o bedwar ar bymtheg o blant i Thomas Savage ac Elizabeth Darcy.[546] Bu farw pedwar o'r meibion yn ddi-blant, gydag un mab arall, Charles, yn priodi a chael un ferch. Priododd pump o'r merched â gwŷr o deuluoedd bonedd amlwg, Jane[547] gyda John Pawlett, yr Arglwydd St. John ac yn ddiweddarach Marcwis Caer-wynt, Dorothy gyda Charles, Arglwydd Andover, Elizabeth[548], gyda Syr John Thimbleby, Irnham Ann gyda Robert Brudenell, Iarll Aberteifi a Henrietta Maria gyda Ralph Sheldon, Beoley. Aeth merch arall, Katherine, yn lleian yn Dunkirke.[549]

Fel ail fab i Thomas Savage ac Elizabeth Darcy, prin yw'r manylion am Thomas Savage (1606-1651), brawd John Savage, [2il] Iarll Rivers, ond gan iddo gael ei ddirwyo a'i wahardd o swydd ustus fel ei frawd, mae'n debyg i'r ddau weithredu yn yr un modd er budd Siarl I, a derbyn yr un canlyniadau. Priododd y ddau frawd gyda merched o gefndir pabyddol, John gyda Catherine Parker, merch Barwn Monteagle[550] a Thomas gydag Elizabeth Somerset, gweddw Edward Somerset a merch William Whitmore[551] a Margaret Beeston.[552] Roedd teulu Whitmore yn gysylltiedig ag ardal Caer ers canrifoedd, ac erbyn diwedd yr 16g, roedd y teulu wedi ymsefydlu yn Leighton ar benrhyn Cilgwri, gyferbyn ag

---

[545] Ibid.
[546] Ganwyd un ar ddeg mab ac wyth merch iddynt yn ôl cofnod yr ODNB.
[547] Bu farw Jane, Ardalyddes Caer-wynt (Marchioness Winchester), yn dair ar hugain oed ar enedigaeth ei hail fab yn 1633, a chanodd nifer o feirdd y cyfnod farwnadau iddi, gan gynnwys Milton – 'Epitaph on the Marchiness of Winchester'. George Francis Armstrong, *The Ancient and Noble family of the Savages of the Ards*, 41.
[548] Ceir darlun o Elizabeth gyda'i chwaer, Dorothy, yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain, o waith Anthony van Dyke *c* 1637. Gellir gweld y darlun ar wefan yr oriel – http://www.nationalgallery.org.uk/paintings/anthony-van-dyck-lady-elizabeth-thimbelby-and-her-sister.
[549] Gweler John Burke a John Bernard Burke, *A genealogical and heraldic history of the extinct and dormant baronetcies of England* (Llundain, 1838), 471, am fwy o fanylion am y teulu.
[550] Daeth Cynllwyn Guto Ffowc i'r amlwg mewn llythyr at Arglwydd Monteagle yn 1605. Gweler gwefan ODNB am fwy o fanylion: http://www.oxforddnb.com/view/article/21345.
[551] Roedd mam a chwiorydd William Whitmore yn reciwsantiaid, ac wedi eu dirwyo'n drwm am hynny ar sawl achlysur rhwng 1581 a 1601. K R Wark *Elizabethan Recusancy in Cheshire*, Cyfrol 3, Cyfrol 19, 198.
[552] Diddorol yw nodi bod enwau Thomas Savage, William Whitmore a Syr Hugh Beeston yn dilyn ei gilydd ar ddeiseb sy'n cofnodi reciwsantiaid oedd yn dal swyddi cyhoeddus. *The Parliamentary or Constitutional History of England* (Llundain 1763), 290. Bu farw tri o frodyr John a Thomas Savage yn ddi-blant, gyda brawd arall, Charles, yn priodi a chael un ferch.

arfordir Sir y Fflint.[553] Daeth tiroedd teulu Whitmore yn Sir Gaer i berchnogaeth Thomas Savage (m. 1651) mewn amser, drwy etifeddiaeth ei wraig, Elizabeth Somerset,[554] fel y gwnaeth etifeddiaeth Margaret Beeston (g. *c.* 1570). Ymhen amser, gwelir y tiroedd hyn yn dod i ran Bridget Savage (m. 1692) drwy ei thad, Darcy Savage, gan nad oedd mab i'w hetifeddu. Cysylltir Thomas Savage, tad Darcy Savage, gyda Beeston,[555] ond ni cheir fawr o fanylion amdano, ac eithrio ei gysylltiad gyda'i frawd yng nghyfnod y Rhyfel Cartref. Difrodwyd Castell Beeston a'i adael yn adfail ac mae'n debyg i'r teulu ymsefydlu mewn cartref arall yn y cyffiniau, sef plasty Beeston. Ganwyd pedwar o blant i Thomas Savage ac Elizabeth Somerset a magwyd y teulu yn yr Hen Ffydd, gyda dwy o'r merched, Elizabeth a Katherine, yn cael eu cyhuddo o reciwsantiaeth yn Llys y Sesiwn Fawr yng Nghaer yn 1641. Gohirwyd eu hachos i'r llys gael cyfle i gael cyngor ar gosbi rhai dan un ar bymtheg oed.[556] Roedd un ferch arall, Jane, ond mae'n debyg iddi hi a Katherine farw yn ifanc gan mai am Elizabeth (geni 1625) y ceir yr unig wybodaeth bellach am y chwiorydd, yn bennaf gan iddi briodi Marmaduke Langdale, [2il] Barwn Landale o Holme yn 1655.[557]

Er i Elizabeth briodi'n fanteisiol i deulu o gefndir pabyddol a fu drwy brofiadau tebyg i'r hyn a wynebodd ei theulu, ai diffyg arian neu'r cysylltiad teuluol â methdalwyr oedd y rheswm fod Elizabeth yn ddeg ar hugain oed yn priodi yn 1655? Priododd Darcy (geni *c* 1630), ei brawd, yn ddiweddarach yr un flwyddyn, ac fel ei chwaer, creodd uniad gyda

[553] Ceid dau Leighton yn sir Gaer yn y cyfnod hwn, y naill ger Nantwich a'r llall dan sylw ger Neston. O'r wyth trefgordd a nodir yn Neston gan Daniel Lysons a Samuel Lysons – Great Neston, Little Neston, Leighton, Raby, Ness, Willaston, Thornton Hough, Ledsham – mae'n ddiddorol nodi mai Leighton yw'r unig leoliad i gael ei golli, gyda Lysons yn nodi bod ffermdy bychan wedi ei godi ar safle'r plasty. Daniel Lysons a Samuel Lysons, *Magna Carta: Being a Concise Topographical Account of the Several Counties of Great Britain*, II (Llundain, 1810), 714-716,

[554] Cyfeirir ati fel Bridget Whitmore mewn rhai cofnodion .

[555] Drwy briodas Thomas Savage gydag Elizabeth Somerset, merch William Whitmore a Margaret Beeston, sefydlwyd teulu Savage o Beeston. Byr fu cyfnod y teulu o dan yr enw hwn gan mai eu mab, Darcy Savage, oedd y genhedlaeth olaf yn llinach Beeston. Gweler John Burke a John Bernard Burke, *A genealogical and heraldic history of the extinct and dormant baronetcies of England*, am fwy o fanylion am yr achau.

[556]Archifdy Prifysgol Bangor – Bangor (Mostyn) 704. Erbyn 1640, roedd nifer y teuluoedd reciwsantaidd yn Sir Gaer wedi gostwng o 24 yn 1583, i 3 teulu, gyda'r Savages yn cael eu hystyried yn Babyddion eithafol, fel y Masseys a'r Stanleiaid. Gweler J S Morrill, *Cheshire 1630-1660: County Government and Society during the 'English Revolution'* (Rhydychen, 1974), 18.

[557] Ceir dogfen gyfreithiol ar ran tair chwaer yn erbyn eu brawd, Darcy Savage, Beeston, yn 1659, ymysg casgliad Archifdy Sir y Fflint – D/M/3033. Roedd tad Marmaduke Langdale (hefyd o'r un enw), ymysg arweinwyr amlycaf Siarl I yn ystod y Rhyfel Cartref, a hefyd yn Babydd.

theulu Pabyddol, gan gael gwraig dros aber afon Dyfrdwy yn Sir y Fflint, sef Ann Mostyn.[558]

Prin iawn yw'r cyfeiriadau at Darcy Savage (*c* 1630-1670) ond mae rhai o ddogfennau teulu Mostyn yn Archifdy Sir y Fflint (Casgliad Mostyn) yn nodi ei gyfeiriad yn Leighton a Beeston, Sir Gaer (Cheshire). Fel Darcy Savage, Leighton, y daw i gael ei gydnabod yn ddiweddarach ac mae'n debyg mai yno y magwyd ei unig blentyn, Bridget (m.1692). Nid oes cofnod o Darcy Savage yn dal unrhyw swydd gyhoeddus, ac er fod ei etifeddiaeth yn deillio o sawl llinach, nid ef oedd y gŵr cyfoethocaf yn Beeston.[559] Ganwyd merch iddo *c.* 1656 ac mae'n drawiadol mai fel merch Darcy Savage y cyfeirir at Bridget mewn cyfrolau achyddol diweddarach, heb enwi ei mam.[560] Ni ellir cynnig dyddiad geni manwl ar gyfer Bridget gan na fu modd darganfod cofnod o'i geni na'i bedydd, ac ni chofnodwyd ei hoedran yn y marwnadau iddi yn ddiweddarch. Bu farw ei thad, Darcy Savage yn 1670 a chladdwyd ei weddillion yn Eglwys St Mary a St Helens yn Neston ar 1 Medi, gyda Bridget, ei unig blentyn, yn etifeddu ei ystad a'r tiroedd yn Sir Gaer.[561]

Bridget Savage (*c* 1656-1692)



Fel ei thad, prin yw'r wybodaeth am Bridget, yn arbennig yn ystod ei magwraeth ac ni fu modd darganfod ai yn Sir Gaer y bu yn byw yn ystod y cyfnod hwn neu a fu dramor i

[558] Ceir dogfen yn nodi'r trefniant priodasol yn Archifdy Sir y Fflint – D/M/3631 – yn ddyddiedig 29 Hydref, 1655, rhwng Darcy Savage, Beeston a Sir Richard Grosvenor, Eaton, Henry Fox, Hurst (taid Ann Mostyn), ac Edward Mostyn, Talacre (brawd Ann Mostyn).
[559] Lleoliad y tiroedd a ddaeth iddo drwy ei nain, Margaret Beeston. Rhestrodd Fred H Crossley, *Cheshire* (Llundain, 1949), 242-243, enwau'r saith prif dirfeddiannwr yn Bunbury (lleoliad Castell Beeston) yn ôl gwerth trethiannol eu tiroedd, a gwelir Darcy Savage yn bumed ar y rhestr.
[560] Yng nghofnodion Eglwys St Mary and St Helens, Neston, cofnodir claddedigaeth Ann Savage, gweddw, ar 2 Tachwedd, 1671, ond ni ellir cadarnhau mai enw mam Bridget Savage sydd yma.
[561] Ymddengys nad yw ewyllys Darcy Savage wedi goroesi ond diogelwyd y rhestr eiddo a luniwyd ar ôl ei farwolaeth ac er nad yw yn gyflawn, gellir gweld rhai o'r eitemau yn ei gartref, megis platiau - £50, holl eiddo'r gegin - £30. (Archifdy Sir Gaer, Casgliad Ewyllysiau– Darcy, Savage, WM, 1670)

dderbyn addysg mewn cwfaint fel y bu yn achos ei chyfnitherod yn Sir y Fflint, sef Margaret ac Ann, merched Edward Mostyn, y Maes Glas a Thalacre, brawd hynaf ei mam. Gyda'u cartrefi o fewn chwe milltir i'w gilydd ar draws Afon Dyfrdwy a chefndir Pabyddol cryf yn gyffredin iddynt mewn amser cythryblus, efallai mai absenoldeb o'r wlad sydd i gyfrif am y diffyg manylion am Bridget (ac efallai ei mam) yng nghyfnod cynnar ei bywyd. Byddai magwraeth yn Ffrainc hefyd efallai yn egluro pam bod cyfrifon tŷ'r teulu (wedi iddi briodi â Tomas Mostyn) mewn Ffrangeg.[562] Gan mai tair milltir oedd rhwng y Maes Glas (lle roedd teulu ei mam, Ann Mostyn, yn parhau i fyw) a Mostyn, a chysylltiad teuluol yn uno'r ddau deulu, mae'n annhebygol na fyddai Bridget Savage eisoes yn gyfarwydd â Tomas Mostyn. Erbyn 1672, roedd yn glir ei bod wedi gwneud cryn argraff ar Tomas, fel y gwelir oddi wrth ei lythyr at yr Arglwydd Bulkeley:

> ...the sweetness of her nature and the goodness of her temper has finished what her eye began. [563]

Mae'n debyg nad oedd Tomas yn awyddus i'w deimladau tuag at Bridget ddod yn gyhoeddus, gan ei fod yn siarsio Bulkeley i losgi'r llythyr cyn i neb arall ei ddarllen, er efallai mai'r manylion a ddilynai am y trefniant ariannol ar gyfer ei deulu yr oedd yn awyddus i'w gelu.

Priododd y ddau ddiwedd yr haf yn 1672 pan oedd Bridget oddeutu un ar bymtheg oed.[564] Ni cheir dim sôn am ei mam yn y Cytundeb Priodasol ac mae'n debyg fod Bridget a'r ystad a etifeddodd ddwy flynedd ynghynt ar farwolaeth ei thad dan ofal Syr Geoffrey Shakerely, Hulme, Sir Gaer, Thomas Cholomondeley, Vale Royal, Sir Gaer, ac Edward Pennant, Bagillt.[565] Wedi'r briodas, ymgartrefodd Tomas Mostyn a Bridget Savage yng Ngloddaith, Llanrhos, ger Llandudno, un o bum llys y teulu y cyfeirwyd ato droeon yng nghanu beirdd cynharach. Nid oes tystiolaeth fod beirdd yn bresennol i ddathlu'r briodas ond yn ddiweddarach, mynegir dymuniad y bardd Rhys Cadwaladr am ffyniant a thwf i linach y teulu:

---

[562] Archifdy Sir y Fflint, Casgliad Mostyn – D/M 4256, o'r cyfnod 1680-1682.
[563] Roedd Arglwydd Bulkeley yn gefnder i Tomas Mostyn, gyda'r ddau yn wyrion i Thomas Bulkeley (m. 1659). Ceir y llythyr yn Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn – 9066, llythyr 1.
[564] Mae'r Cytundeb Priodas yn ddyddiedig 31 Gorffennaf, 1672. Casgliad Mostyn, Archifdy Sir y Fflint, D/M 3639. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, lluniwyd dogfen i gywiro camgymeriadau yng Nghytundeb Priodas 1672. Archifdy Sir y Fflint, D/M 3647 a D/M 3648.
[565] Archifdy Sir y Fflint, D/M 3647 a D/M 3648. Nid yw ewyllys ei thad, Darcy Savage, wedi goroesi ond mae'r Cytundeb Priodasol yn awgrymu bod yr ystad dan ofal ymddiriedolwyr gan fod Bridget o dan oed.

Arch lwyddiant orchwyl addas,
Bendithion blithion i'w blas
A chynnydd yn ychwaneg,
Gynnes dw' ac einioes deg
Iddo a'i 'rglwyddes fawrlles fydd
Gannaid liw, blodau gwinwydd,
A ffrwyth ei bru, berfeithia' bron,
Cadeiriog fal coed irion
A'u enwau a'u braint yn ein bro
O gariad i flaguro. [566]

Ganwyd un ar ddeg o blant i Tomas a Bridget Mostyn,[567] ond bu farw tri o'r meibion a'r pedair merch yn eu plentyndod a gellir gweld cofeb un ferch, Mari, yn Eglwys Llanrhos:

Yma mae corff Mari ferch Tomas Mostvn o Loddaeth Esq
yn aros i ail gysvlltv ar enaid a ddychwelodd at i wnevthvrwr
cvn gwybod drwg Medi 17 1675.

Erbyn 1680, roedd tri mab yn cael eu henwi yn ewyllys ddrafft Tomas Mostyn, sef Roger, Thomas a John,[568] ac er y ganwyd mwy o blant wedi hyn, dim ond un mab arall – Savage – a oroesodd ei blentyndod. Ceir llythyr at Tomas Mostyn gan ei gyfnither, Margaret Fetiplace, ym Medi 1689, i gydymdeimlo â Tomas ar golli merch fach ac i holi am gyflwr Bridget a oedd yn wael iawn.[569] Ni cheir unrhyw awgrym a oedd y gwaeledd yn gysylltiedig â geni plentyn neu a oedd haint yn gyfrifol am farwolaeth y plentyn ac afiechyd y fam. Roedd iechyd Bridget wedi creu pryder yn Chwefror 1684/85 – 'a dangerous fitt of sickness'[570] – ac eto yn 1686, pan aeth Tomas, ei gŵr, â hi i Tunbridge Wells i gymryd y dŵr ac mae'n debyg iddynt fod yno am rai wythnosau, gan aros yn Llundain yn ddiweddarch nes iddi gryfhau.[571] Derbyniodd Bridget gyflenwad o 'quieting pilles and hysterick pouders' gan Philip Foulke, [572] gŵr o gefndir meddygol y ceir sawl ymholiad a chyngor ganddo am iechyd y teulu yn ei lythyrau at Tomas Mostyn.[573]

---

[566] Cerdd 17, t. 46.
[567] Ganwyd saith mab a phedair merch yn ôl Arglwydd Mostyn a T A Glenn, HFMM, 156. Ni fu modd cadarnhau hyn a chynigir awgrymiadau gwahanol mewn ffynonellau eraill. Mae'r cofnodion Eglwys Llanrhos yn cyfeirio at gladdedigaeth Savage yn 1678, Richard yn Ebrill 1689 ac Ann yn Nhachwedd 1689.
[568] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 183
[569] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9071, llythyr 31.
[570] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9069, llythyr 11.
[571] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9069, llythyrau 57, 58, 61, 62.
[572] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9068, llythyr 24
[573] Gweler y drafodaeth arno uchod.

Ganddo ef y ceir y sylw bod Bridget yn dioddef o 'rheums and coughs that she is subject to.' [574] Bu ei gwaelodd o gryn bryder i nifer, a cheir Rhys Cadwaladr yn canu cywydd i erfyn ar Dduw am wellhad iddi:

Na ddiffodd frig mewn dig du,
Ow! 'mogel lin yn mygu,
Ac na thor ag egni o'th ddig
Anwesol gorsen ysig.
Gad iddi hi mewn bri braint
A'i gwlad hon gael gweld henaint. [575]

Bu ei hadferiad yn destun llawenydd yn ddiweddarach, a chanodd Rhys Cadwaladr drachefn i ddathlu ei gwellhad:

A gwell na diolchgarwch mud
Yw mentro doedyd rhywbeth.[576]

Mae'r gerdd hon yn unigryw yng nghasgliad y canu i Tomas Mostyn a'i wraig, gan ei bod yn arddull y canu rhydd ar ffurf carol, dull na ddefnyddiwyd mohono gan y beirdd wrth gyfarch Tomas, sy'n awgrymu fod y canu newydd yn fwy derbyniol i glust Bridget, tra oedd Tomas yn fwy gwerthfawrogol o'r canu caeth traddodiadol.

Ar wahân i'r hyn a gyfleir yn y cerddi, daw'r unig wybodaeth am Bridget o'r llythyrau yng nghasgliad y teulu a daw yn glir fod perthynas hapus rhyngddi a Tomas, fel sy'n cael ei gyfleu o'i chyfarchiad mewn llythyr ato pan oedd yn Llundain yn 1680 – ' My Dearest Deare Hart'[577]. Mae'n debyg i Bridget dreulio rhai cyfnodau yn Llundain gyda Tomas, gan aros yn un o dai Sgwâr Bloomesbury, lle trigai'r aristocratiaid a'r bonedd. Dyna dystiolaeth Siôn Dafydd Las:

I'r hen ddinas urddasawl
Pan y'r elych, fwynwych fawl,
Yno gofyn yn gofus
Am Bloomesbury Squâr, liwgar lys,
Lle mae llety, llawndy lles,
Aer Gloddaith a'i arglwyddes,

[574] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9069, llythyr 58.
[575] Cerdd 30, t. 85
[576] Cerdd 31, t. 87.
[577] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9067, llythyr 76.

A'u cwmpeini heini hwy,
Mawledig, canmoladwy. [578]

Yno, deuai'n gyfarwydd â dylanwadau'r cyfnod ac eisteddodd ar gyfer darlun gan un o arlunwyr amlycaf yr 17g, Syr Peter Lely (1618-1680).[579] Mae'n glir oddi wrth ganu'r beirdd ei bod yn hawddgar a hael ar yr aelwyd yng Ngloddaith, a chreodd yno gartref hapus i'w theulu ac i ymwelwyr. Yng ngeiriau Edward Morris:

Llys iach hwyl, llys wych yw hon
Llys dau annwyl, lles dynion[580]

Er gwaethaf swyddi cyhoeddus ei gŵr, ac awyrgylch gwrthbabyddol y cyfnod, parhaodd i ddilyn yr Hen Ffydd, gan addoli yng nghapel y teulu yng Nghloddaith.[581] Nid yw'n debyg i hyn amharu ar gyfeillgarwch ei gŵr gyda William Lloyd, Esgob Llanelwy, a Humphrey Humphreys, Deon, yna Esgob Bangor (a Henffordd yn ddiweddarach), dau a oedd yn nodedig am eu gwaith sylweddol yn eu hesgobaethau, yn arbennig wrth geisio denu Anghydffurfwyr yn ôl i'r Eglwys wladol.[582] Roedd un esgob arall yn gohebu â Tomas Mostyn, sef John Fell, Esgob Rhydychen, a mynegai ei farn yn glir am ei wrthwynebiad i grefydd Bridget Mostyn.[583] Efallai mai ffydd Babyddol eu mam a oedd wrth wraidd sawl sylw gan y gwŷr eglwysig uchod ynghylch addysg meibion Tomas a Bridget Mostyn. Mae eu llythyrau yn cyfeirio at ragoriaethau y gwahanol ysgolion, a gwelir i Roger, y mab hynaf, gael ei anfon i ffwrdd o gartref yn 1684/5 pan oedd oddeutu deg neu un ar ddeg oed.[584] Fe'i dilynwyd yn ddiweddarach gan Thomas a John ac aeth y tri ymlaen i Rydychen yn eu tro. Mae'n debyg mai dyma'r cyfnod y ganwyd Savage (bu farw mab arall o'r un enw yn 1678), ond prin yw'r cyfeiriadau ato mewn ffynonellau achyddol,[585] er bod y beirdd yn ei enwi yn y marwnadau i'w dad a'i fam. Er enghraifft, Huw Morys:

---

[578] Cerdd 29, t. 81.
[579] Roedd y darlun ym Mhlas Mostyn yn 1925. Gweler HFMM, 157.
[580] Cerdd 8, t. 23.
[581] HFMM, 156.
[582] Gweler y Bywgraffiadur Arlein am fwy o fanylion am gefndir y ddau.
[583] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, 9066, llythyrau 52 a 53.
[584] Mae gohebiaeth ei dad, Tomas Mostyn, yn cyfeirio at addysg Roger yn Amwythig, Sunningwell, a Llundain. Gweler Casgliad Mostyn yn Archify Prifysgol Bangor (9066-9097).
[585] Enwir Savage, gyda'i dri brawd, yn Nhystysgrif Angladdol ei daid, Roger Mostyn, yn 1690. Gweler HFMM, 150.

Saveg lân, degan y dydd,
Bid i euro'n bedwerydd.[586]

Bu farw Tomas a Bridget o fewn diwrnod i'w gilydd ym Mehefin 1692, gan adael tri phlentyn yn eu harddegau a Savage, mae'n debyg, yn iau na hyn. Ni cheir cyfeiriad at waeledd yn ystod y flwyddyn hon yn llythyrau'r teulu, er bod cyfeiriad flwyddyn ynghynt ynglŷn â salwch Tomas a Bridget Mostyn oherwydd dŵr Mostyn.[587] Bu farw Tomas ar 17 Mehefin, a bu farw Bridget ddiwrnod yn ddiweddarach, a chladdwyd y ddau yr un diwrnod, ar 23 Mehefin yn yr un bedd yn Eglwys Llanrhos.[588] Efallai i'r ddau ddioddef o'r un haint, ond mae Huw Morys yn awgrymu mai torcalon oedd yn gyfrifol am farwolaeth Bridget:

A'i arglwyddes, wawr Gloddaith,
I ran Duw aeth i'r un daith.
Ni ddymunodd i'w maenol,
Aeres wych, aros o'i ôl.[589]

Ychydig o wybodaeth a geir am y meibion yn y blynyddoedd cynharaf wedi marwolaeth eu rhieni ond yn ddiweddarach priododd y ddau frawd hynaf, Roger gyda'r Arglwyddes Essex Finch, merch Iarll Caerwynt, a Thomas gyda Margaret Mostyn, merch Wiliam Mostyn, Rhyd, Sir y Fflint[590]. Ni fu plant o briodas Thomas a Margaret a bu farw'r trydydd brawd, John, yn ddibriod Noswyl y Nadolig, 1720.[591] Prin iawn yw'r sylw i'r pedwerydd mab, Savage, a rhaid ystyried a fu yntau farw yn blentyn neu a gafodd ei fagu ar wahân i'r teulu. Drwy Roger, y mab hynaf, y ceir yr unig barhad i'r llinach, gyda deuddeg o blant yn cael eu geni i'w wraig, Essex Finch, ond gyda'r genhedlaeth hon, a'r cenedlaethau dilynol, gwelir i nifer ohonynt farw yn blant, yn ddibriod neu briodi a marw yn ddi-blant. Ymhen tair cenhedlaeth arall, gwelir yr etifedd gwrywaidd olaf – Thomas

[586] Gweler Cerdd 36, t. 114; hefyd Cerdd 35 gan Owen Gruffudd, t. 105.
[587] Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn 9072, llythyr 19.
[588] Saif yr eglwys o fewn hanner milltir i Gloddaith.
[589] Cerdd 36, t. 109-10.
[590] Roedd perthynas bell rhwng y ddau, gyda changen Margaret – Mostyniad Rhyd – yn tarddu o drydydd mab Tomas Mostyn (m. 1617/18) tra oedd cangen Thomas ei gŵr yn tarddu o'r ail fab. John Burke, *A Genealogical and Heraldic Dictionary of the Landed Gentry,* I (1852), 985.
[591] Burke a Burke, *A Genealogical and Heraldic History of the Extinct and Dormant Baronetcies of England*, 377.

Mostyn – yn marw'n ddibriod yn 1831.[592] Fel ag y digwyddodd gyda llinach Savage Sir Gaer a nifer o deuluoedd bonedd y wlad yn ystod y ganrif hon a'r un flaenorol, daeth diwedd ar linach uniongyrchol hynafol y Mostyniaid.[593]

[592] Disgynnodd yr etifeddiaeth drwy linach wrywaidd uniongyrchol o Roger Mostyn (m. 1739) i'w fab, Thomas Mostyn (m. 1758), yna i Roger Mostyn (m. 1796) ac yn derfynol i Thomas Mostyn (m. 1831).
[593] Drwy chwaer Thomas Mostyn (m. 1831) – Elizabeth – aeth yr ystad i'w gŵr, Syr Edward Pryce Lloyd, Pengwern, Bodelwyddan, Sir Ddinbych. Gweler BA: Mostyn (Teulu) am fwy o fanylion.

Pennod 4

Llanw a thrai'r traddodiad barddol, 1692-1847.

Er y gwelir y traddodiad barddol yn dirwyn i ben yn 1692 gyda marwolaeth Tomas a Bridget Mostyn, cynhaliwyd y diddordeb teuluol mewn casglu llawysgrifau a llyfrau am genedlaethau gan eu hetifeddion. Ceir cadarnhad gan Thomas Pennant, yr hynafiaethydd a'r teithiwr, o weithgarwch diwylliannol y teulu yn y 18g. ac er na welir beirdd yn canu ar aelwydydd Gloddaith a Mostyn mwyach, fe welir bod y teulu yn gefnogol i ddatblygiadau ym maes y celfyddydau Cymreig, megis cyhoeddiadau'r wasg argraffu a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn achyddol, daeth diwedd ar linach hynafol teulu Mostyn yn y 19g. wrth i'r olyniaeth wrywaidd uniongyrchol ddod i ben gyda marwolaeth Thomas Mostyn yn 1831. Ond gyda diwedd un cyfnod, daw dechrau ar gyfnod newydd a dyma a geir wrth i Edward Pryce Lloyd, Pengwern, Rhuddlan, etifeddu ystad Mostyn drwy ei wraig, Elizabeth Mostyn. Drwy ei weithgarwch, unwyd cynnwys llyfrgelloedd teulu Mostyn dan yr un to ym mhlas Mostyn, ac fe'u diogelwyd o genhedlaeth i genhedlaeth, gan gynnwys cynnyrch hynafol y traddodiad barddol, hyd at yr ugeinfed ganrif.

Thomas Mostyn (1704-1758)

Tomas Mostyn (m. 1692) = Bridget Savage
|
Roger Mostyn (m. 1739) = Essex Finch
|
Thomas Mostyn (m. 1758) = Sarah Western

Ganwyd Thomas Mostyn yn Llundain ar 24 Ebrill, 1704, pan oedd ei dad, Roger Mostyn (m. 1739) yn y ddinas ar ddyletswydd yn Nhŷ'r Cyffredin fel aelod seneddol dros Sir Gaer. Roedd ei fam, Essex Finch, hefyd o deulu gwleidyddol, gyda'i thad, Iarll Nottingham, yn aelod seneddol a gwleidydd dylanwadol.[594] Er i Thomas gael ei eni yn

[594] Gweler gwefan y senedd am fwy o fanylion amdano: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/finch-daniel-1647-1730

Llundain, yn ogystal â chael addysg ramadeg mewn ysgol yn Westminster,[595] gwelir ei dad yn cael ei ddewis fel aelod seneddol dros Sir y Fflint yn 1708 ac mae'n debyg mai ym Mostyn y cafodd Thomas ei fagu.[596] Wedi'r addysg yn Westminster, aeth Thomas ymlaen i Goleg Crist, Rhydychen yn 1720, ac yno yr oedd yn 1721 pan fu farw ei fam, Essex Finch, o'r frech wen. Yn dilyn hyn, bu cyfnod hir o deithio ar y cyfandir, taith yn dilyn ffasiwn y cyfnod i uchelwyr cefnog. Treuliodd Thomas Mostyn gyfnod o bedair blynedd a hanner yn ymweld â phrif ddinasoedd Ewrop, gan greu sylfaen gadarn i'w ddiddordeb yn y celfyddydau a'i werthfawrogiad o'i dreftadaeth.[597] Cyfeira Thomas Pennant at y penddelwau ym mhlas Mostyn a gasglwyd gan Thomas Mostyn yn Rhufain yn ystod y daith ddiwylliannol hirfaith:

> In the room are some busts collected by the late Sir Thomas Mostyn, when he was at Rome; among them is a beautiful head of a young Faun, in a Phrygian bonnet, placed (by no very un-common mistake) on a female body, which it never owned.[598]

Pan ddychwelodd i Fostyn, gwelir Thomas yn ymddiddori yng nghynnwys y llyfrgell yno, gan greu catalog o'r cynnwys rywdro rhwng 1727 a 1733.[599] Cyfeiria Thomas Pennant at Thomas Mostyn fel sylfaenydd y llyfrgell ym Mostyn, gan nodi yn 1796 pa mor wych oedd y casgliad:

> At one end of this building is the library, a room most unworthy of the valuable collection of manuscripts and books it contains. Few, if any, can boast of the number or beauty of the first, especially the illuminated; and I suspect that the number, rarity, and value of the antient classics, medallic histories, genrs, and variety of every species of polite literature, is without parallel. They are of the scarcest editions, and printed by the most esteemed printers.[600]

Roedd y llyfrgell ym Mhlas Mostyn yn y cyfnod hwn yn cynnwys casgliad Dr Thomas Hobart, o Goleg Crist, Caergrawnt, casgliad o lyfrau ysblennydd o Ffrainc ac o'r Eidal yn

---

[595] Cofrestrodd fel disgybl yn Westminster yn 1716. http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1715-1754/member/mostyn-thomas-1704-58.
[596] Bu ei dad, Roger Mostyn (m. 1739) yn Gwnstabl Castell y Fflint.
[597] Cychwynnodd ar y daith ar 3 Hydref, 1723, gan ddychwelyd i Greenwich ar 20 Mai, 1728. HFMM, 170.
[598] HPWH, 64.
[599] Cyfeiria Daniel Huws at y blynyddoedd rhwng 1727 a 1733, ond os yw dyddiadau Mostyn a Glenn yn gywir, roedd Thomas yn parhau ar y cyfandir yn 1727. Mae'r catalog bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol – NLW 21244C, fol. 237. MWM, 308.
[600] HPWH, 72.

bennaf a brynwyd gan Thomas oddeutu 1730.[601] Ceir catalog pellach, yn llaw Thomas Mostyn, o gynnwys llyfrgell Gloddaith yn 1744, sy'n awgrymu bod Thomas wedi ymgartrefu yno wedi ei briodas â Sarah Western, aeres o Lundain, oddeutu 1733.[602] Ganwyd naw o blant i'r ddau, gyda phump ohonynt yn marw yn ifanc.[603] O'r pedwar a oroesodd, bu farw dau yn oedrannus a dibriod – Thomas yn 1808 yn 71 oed a Francis yn 1827 yn 80 oed.[604] Priododd Ann â'r hanesydd lleol, Thomas Pennant, Downing, yn 1777, a thrwy'r cysylltiad hwn, ceir myrdd o wybodaeth am fywyd y teulu a chynnwys y plastai yn y cyfnod drwy gyfrol fanwl Pennant.[605] Yr hynaf o'r pedwar plentyn oedd Roger, yr aer, a anwyd yn 1734, a gwelir yntau yn ymddiddori mewn llenyddiaeth a'r celfyddydau.

Yn fuan wedi priodi a dechrau teulu, gwelir Thomas Mostyn yn ysgwyddo baich ei dad yn wleidyddol drwy gymryd ei le i gynrychioli Sir y Fflint yn y senedd am y tro cyntaf yn 1734 ond prin yw'r wybodaeth am unrhyw swyddi gweinyddol eraill y bu iddo eu dal yn lleol.[606] Trwy drefniant gyda Thomas, gwelir Syr John Glynne yn cael ei ethol dros Sir y Fflint yn 1741, a Thomas unwaith eto yn cael y sedd yn 1747. O'r tymor seneddol hwn ymlaen, llinach Mostyn fu'n cynrychioli Sir y Fflint hyd at 1837.[607] Gwelir bod diddordeb gwleidyddol y tad, Roger Mostyn (m. 1739), wedi dylanwadu ar y meibion, gyda John a Savage Mostyn, brodyr Thomas, hefyd wedi eu hethol fel aelodau seneddol, John yn

---

[601] MWM, 308.

[602] Roedd Sarah yn ferch i Robert Western a'i wraig, Ann Shirely, chwaer ac etifeddes Sir Richard Shirely, Preston. HFMM, 170.

[603] Ar gofrestr claddedigaethau Eglwys Llanrhos nodir i bedwar ohonynt farw o fewn mis yn Chwefror 1744: Essex ar yr 2il, William ar 10fed, Charlet ar 6eg a Mary ar 23ain. Bu farw mam Thomas Pennant, y naturiaethwr a'r teithiwr, a chymydog agos i blas Mostyn, o'r frech wen yn Ebrill 1744, sy'n awgrymu mai hyn oedd achos marwolaeth plant Thomas a Sarah. Charles W. J. Withers, 'Pennant, Thomas (1726–1798)', *ODNB*, 2004; online edn, Oct 2007 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/21860, cyrchwyd 16 Mai 2013].

[604] HFMM, 170. Ceir cyfeiriadau at Sarah Western yn marw ar 28 Mai, 1740, ond mae cofnodion Eglwys Llanrhos yn nodi iddi gael ei chladdu yno yn 1782. Ganwyd Francis iddi yn 1747, fel y noda Mostyn a Glenn, ond ni ellir bod yn sicr mai mab oedd y plentyn hwn, gan na fu modd darganfod ai Francis neu Frances oedd y sillafiad cywir o'r enw.

[605] Gyda chyfrol Thomas Pennant, gellir gwerthfawrogi'r manylion a ddaw o'i wybodaeth leol wrth lunio cynnwys *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* a gyhoeddwyd yn 1796. Bu farw Ann yn 1802.

[606] Bu ei dad yn *custos rotulorum* yn Sir y Fflint ar ddau achlysur, yn 1714-1717 ac yn 1727-1739, ond ni welir Thomas yn cael ei benodi i'r swydd hon, er y gwelir ei fab, Roger, yn ddiweddarach yn y swydd yn ogystal â swydd Arglwydd Lefftenant Sir Fflint.

[607] Ni fu'r dewis yn unfrydol ar bob achlysur, ond, yn gyffredinol, roedd yr etholaeth yn ei chael yn anodd gwrthwynebu traddodiad o ethol aelod seneddol nad oedd o deulu Mostyn. Gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1715-1754/constituencies/flintshire.

Malton, Swydd Efrog, a Savage yn Weobley, Swydd Henffordd. Cydoesai'r tri brawd yn Nhŷ'r Cyffredin rhwng 1747 a 1757.[608]

Nid oes modd darganfod a oedd teulu Mostyn yn parhau i siarad Cymraeg erbyn hyn. Yn achos John a Savage yn benodol, byddai eu hunig gysylltiad â'r iaith wedi bod yn ystod blynyddoedd cynnar eu plentyndod, a da cofio y byddai cyfran dda o weision y plastai a'r trigolion lleol yn Gymry uniaith. Rhaid hefyd ystyried a oedd eu mam, Essex Finch, wedi dysgu Cymraeg, gan bod dros ganrif bellach ers i uchelwr Gwydir, Syr Siôn Wynn, fynegi ei obaith y byddai ei ferch yng nghyfraith yn dysgu Cymraeg.[609] Gellid tybio fod gan Thomas ac efallai Ann, ei ferch, well cyfle i arfer yr iaith gan i'r ddau barhau i fyw yn Sir y Fflint, ond o dderbyn sylw gŵr Ann, Thomas Pennant, yn ei gyfrol, *A Tour in Wales*, mae awgrym bod yr iaith wedi prinhau yn sylweddol ymysg yr uchelwyr erbyn canol y ddeunawfed ganrif.

> In all my journies through Wales, I was attended by my friend the reverend John Lloyd, a native of Llanarmon, and rector of Caerwis: to his great skill in the language and antiquities of our country I own myself much indebted; for without his assistance, many things might have escaped me, and many errors crept into my labours.[610]

Yn ei erthygl gynhwysfawr ar John Lloyd a'i gyfraniad i lenyddiaeth a hanes Cymru, mae R Paul Evans yn nodi mai Lloyd a gyfieithodd y llawysgrifau Cymraeg y cyfeiriodd Pennant atynt, gan fod Thomas Pennant heb fawr, neu efallai ddim, gafael ar yr iaith ei hun, nodwedd gyffredin ymysg uchelwyr Cymreig y cyfnod.[611]

Byddai'n drist meddwl bod Thomas Mostyn yn yr un sefyllfa ieithyddol â'i fab yng

---

[608] Cafodd John yrfa lewyrchus iawn yn y fyddin ac yn y llys brenhinol, gyda Mostyn a Glenn yn cyfleu darlun o ŵr hwyliog a phoblogaidd gan bawb. Ond cafodd ei ddisgrifio fel un o'r 'most obnoxious men of any inferior degree' yn y senedd. I'r llynges yr aeth Savage, ac eto gwelir ef yn cael ei ddyrchafu'n gyson, gan ddiweddu fel is-lyngesydd, wedi gyrfa liwgar. Cyfunodd y ddau eu gyrfaoedd yn ddiweddarach gyda thymhorau yn Nhŷ'r Cyffredin, John ei sedd yn Malton o 1741-1768 a Savage yn cynrychioli etholaeth Weobly rhwng 1747 a 1757. Dilynodd eu brawd, Roger, yrfa eglwysig, a chael ei benodi yn ganon yn Windsor. G. Le G. Norgate, 'Mostyn, Sir Roger, third baronet (1673–1739)', rev. M. E. Clayton, *ODNB*, 2004; online edn, May 2007 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19416, cyrchwyd 15 Mai 2013].

[609] Llyfrgell Genedlaethol Cymru, H. Milford, *Calendr of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515-1690, in the National Library of Wales and elsewhere* (Llundain, 1926), 72, llythyr 430 – 15 Ionawr, 1606/7.

[610] Dyfynir gan R. Paul Evans, 'Reverend John Lloyd of Caerwys (1733-93): Historian, Antiquarian and Genealogist', *Flinthsire Historical Society Journal*, 31 (1983-1984), 116.

[611] Ibid.

nghyfraith a'i gymydog, Thomas Pennant, ac yn gorfod dibynnu ar eraill i werthfawrogi cynnwys ei lyfrgelloedd gwych yng Ngloddaith a Mostyn. Ond ceir llygedyn o obaith nad hyn oedd y sefyllfa, gan i'w fab hynaf, Roger, noddi cyfrolau printiedig o farddoniaeth Gymraeg a phriodi aeres Bodysgallen. Ceir awgrym felly fod yr iaith wedi cael ei meithrin ar aelwyd Thomas Mostyn hyd ei farwolaeth yn 1758. Fe'i goroeswyd gan ei wraig Sarah am dros ugain mlynedd. Bu hi farw yn 1782 ac mae'r ddau yn gorwedd yn Eglwys Llanrhos.

Roger Mostyn (1734-1796)

Thomas Mostyn (m. 1758) = Sarah Western
| Parch Huw Wynn = Catherine Vaughan
| |
Roger Mostyn (m. 1796) = Margaret Wynn

Ganwyd Roger ar 13 Tachwedd, 1734, yr hynaf o blant Thomas Mostyn a Sarah Western ac yn ôl traddodiad y teulu aeth i ysgol Westminster yn 1745 yn un ar ddeg oed i dderbyn addysg ramadeg, cyn cofrestru yng Ngholeg Crist, Rhydychen yn 1751. Prin yw'r wybodaeth amdano wedi hyn ond gellir tybio ei fod wedi dilyn ôl troed ei dad a threulio cyfnod yn teithio yn Ewrop, yn arbennig gan ei fod yn ŵr ifanc cefnog iawn wedi iddo etifeddu £60,000 gan ei ewythr, Savage Mostyn, yn 1757.[612] Ond gyda'i dad yn marw flwyddyn yn ddiweddarach, roedd Roger yn sicr yn ôl yn Sir y Fflint erbyn gwanwyn 1758 ac yn cymryd lle ei dad yn y senedd ar 26 Ebrill, 1758, yn 23 oed, sedd a ddaliodd yn ddiwrthwynebiad hyd at ei farwolaeth.[613] Yn ogystal â chynrychioli Sir y Fflint yn y senedd yn Llundain, gwelir Roger yn weithredol o fewn y sir, gan arwain *militia* Sir y Fflint yn 1760, cael ei benodi'n Arglwydd Lefftenant y sir yn 1761 a *custos rotulorum* yn 1772, swyddi y bu hefyd yn eu dal hyd ei farwolaeth yn 1796.[614]

[612] J. K. Laughton, 'Mostyn, Savage (*c*.1713–1757)', rev. Roger Morriss, *ODNB*, 2004 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/19417, cyrchwyd 15 Mai 2013]. Bu farw brawd arall ei dad, John Mostyn, hefyd yn ddibriod wedi gyrfa lewyrchus iawn ac mae'n rhesymol tybio y byddai Roger wedi etifeddu cyfran o'i ystad yntau.
[613] HFMM, 173.
[614] Ibid.

Am y tro cyntaf ers pedair cenhedlaeth, gwelir etifedd Mostyn yn priodi aeres Gymreig,[615] gyda Roger yn priodi merch o Sir Gaernarfon, Margaret Wyn, Bodysgallen, merch Hugh Wynn, Berth Ddu, a'i wraig, Catherine Vaughan, Corsygedol.[616] Roedd Margaret hefyd yn aeres i Robert Wyn, Bodysgallen, a thrwy'r briodas â Roger Mostyn gwelir un o blastai gwreiddiol y pum llys yn dychwelyd yn ôl yn rhan o'r ystad. Drwy ei mam, daeth Plas Hen, Corsygedol a Bodidris hefyd yn rhan o etifeddiaeth Margaret Wynn.[617] Ganwyd un mab a saith merch i Roger a Margaret – Essex, Charlotte, Sarah (efeilles i Charlotte a fu farw'n blentyn), Elizabeth, Thomas, Anna-Maria, Catherine a Mary Bridget.[618]

Yn ogystal â'i weithgarwch cyhoeddus dros fuddiannau Sir y Fflint, bu Roger yn is-lywydd y *Welsh Charity School* yn Llundain am flynyddoedd. Bu hefyd yn noddi cyhoeddiadau Cymreig, yn fwyaf nodedig cyfrol enwog Ieuan Brydydd Hir (Evan Evans) sef *Some Specimens of the Poetry of the Ancient Welsh Bards* (1764). Yn wir, fe gyflwynodd Ieuan y gyfrol iddo:

TO

SIR ROGER MOSTYN,

OF

MOSTYN AND GLODDAITH, BART.,

Representative of the County, Lord Lieutenant, and Lieutenant Colonel of the Militia of Flintshire.

SIR,

I hope you will pardon my presumption in prefixing your name to the following small collection of British poems, to which you have a just claim, as being lineally descended from those heroes they celebrate, and retain in an eminent manner the worth and generous principles of your renowned ancestors. The British Bards were received by the nobility and gentry with distinguished marks of esteem, in every part of Wales, and particularly at Gloddaith and Mostyn, where their works are still preserved in your curious libraries. I

[615] Syr Roger Mostyn (m. 1690) oedd yr aer diwethaf cyn hyn i briodi Cymraes, gan briodi Lumley Coetmor yn 1676. Er bod gan ei ferch yng nghyfraith, Bridget Savage, gysylltiadau teuluol agos, roedd yn tarddu o Sir Gaer. Deuai Essex Finch a Sarah Western, gwragedd y ddwy genhedlaeth nesaf, o Nottingham a Llundain. Aeth Bodysgallen allan o feddiant ystad Mostyn pan briododd aeres Richard Mostyn, Margaret, â Huw Wynn, Berth Ddu. Gweler Y Bwygraffiadur Ar-lein am fwy o fanylion am deulu Berth Ddu a Bodysgallen: http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-WYNN-BER-1550.html.

[616] John Burke, *A Genealogical and Heraldic History of the Extinct and Dormant Baronetcies of England*, 2ail Argraffiad (Llundain, 1841), 318

[617] Robert Williams, *The History and Antiquities of the Town of Aberconwy and its Neighbourhood* (Dinbych, 1835), 132.

[618] HFMM, 172.

hope, therefore, an attempt to give the public a small specimen of their works will not fail of your approbation, which the editor flatters himself with, from the generous manner with which you treated him, particularly by lending him some of your valuable books and manuscripts.

That you may long continue to be an ornament to your country, and a pattern of virtuous actions, and a generous patron of learning, is the sincere wish, of,

Sir,
Your obliged

Humble Servant,
EVAN EVANS.[619]

Ceisiodd y bardd fanteisio ar Roger unwaith eto yn 1785 i noddi casgliad helaeth o lenyddiaeth a barddoniaeth gynnar:

> *To Sir Roger Mostyn of Mostyn and Gloddaith*
> Worthy Sir
> As you have condescended to be a Patron of a few specimens of ancient British Poetry published several years ago, I do not know to whom I can with more propriety dedicate the labours of my whole life, which are a collection of what I found most valuable and rare in the several libraries of your country, where they are still carefully preserved. ..... As I have taken great pains to rescue these remains of British Literature from oblivion, together with many antient Tracts too long to insert here, I hope the Gentlemen of the Principality, & the Members of Jesus College in the University of Oxford, and the members of the Cymmrodorion society in London will unanimously contribute towards their publication.....
> From my study at Gynhawdref, August 8th 1785.
> Evan Evans[620]

Er na cheir gwybod beth oedd ateb Roger Mostyn, aflwyddiannus fu cais Ieuan y tro hwn ond gan i frawd yng nghyfraith Roger, Thomas Pennant, a Paul Panton gasglu tanysgrifiadau blynyddol i gynnal y clerigwr a'r ysgolhaig yn ei henaint a'i waeledd, hawdd tybio y gallai aer Mostyn fod wedi cyfrannu at yr achos.[621]

---

[619] Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), *Some Specimens of the Poetry of the Ancient Welsh Bards* (Llundain, 1764), iii-iv.

[620] Caiff y llythyr ei ddyfynnu yn llawn yn J Gwynogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, Vol II, Part III, Panton; Cwrtmawr (Llundain, 1905), iii a v. Er mor werthfawr oedd cyfraniad Ieuan Brydydd Hir i hanes a llenyddiaeth Cymru, collodd ymddiriedaeth yr uchelwyr a'r Eglwys oherwydd ei feddwod ac wedi iddo werthu ei lawysgrifau i Paul Panton, cafodd ei waith ei gyhoeddi yn ddiweddarach heb unrhyw gydnabyddiaeth. BA: Evans, Evan (Ieuan Fardd neu Ieuan Brydydd Hir).

[621] BA: Evans, Evan (Ieuan Fardd neu Ieuan Brydydd Hir).

Os na welodd Roger Mostyn ei ffordd yn glir i noddi gwaith Ieuan Brydydd Hir, roedd yn barod i gefnogi gwaith Cymreig yr arlunydd Richard Wilson (1712/13-1782), gŵr a chanddo gysylltiadau agos â Sir y Fflint drwy ei fam ac a gafodd ei fagu yn yr Wyddgrug.[622] Roedd gwaith cynnar Wilson o olygfeydd yng Nghymru yn cyd-fynd gyda'r brwdfrydedd ymysg gwŷr llengar i hybu hynafiaeth y Cymry a'u diwylliant, megis ymgyrchoedd y Cymmrodorion, ac er na fu Roger yn perthyn i'r Anrhydeddus Gymdeithas, gwelir ef yn prynu'r darluniau *Summer Evening (Caernarvon Castle)* a *Castell Idris, Llyn-y-cau* (*c.* 1765-6) o waith Richard Wilson.[623]

Yng nghyfnod Roger Mostyn, gwelir ymdrechion newydd yn cael eu meithrin i ddyrchafu'r ymdeimlad o Gymreictod a thrwy hyder y dosbarth canol gwelir yr uchelwyr yn fwy parod i werthfawrogi eu hynafiaeth. Efallai mai hyn sydd i gyfrif bod Roger wedi priodi aeres leol ac heb edrych am uniad gyda theulu dros y ffin. Gwelir dwy o'i ferched hefyd yn priodi gydag uchelwyr o Gymru, Elizabeth gyda Syr Edward Pryce Lloyd, Pengwern, Sir y Fflint a Bodfach, Sir Drefaldwyn yn 1794, ac Anna-Maria gyda Syr Robert Williams Vaughan, Nannau yn 1802. Ond aeth Charlotte i Wlad yr Haf, gan briodi Thomas Swymmer Champneys, mab Uwch Siryf y Sir, Syr Thomas Champneys, Orchardleigh. Ni phriododd yr unig fab, Thomas, ac felly ei chwiorydd a etifeddodd ystad teulu Mostyn ymhen amser.[624]

Er ei bod ddeng mlynedd yn iau na'i gŵr, bu farw Margaret Wynn ar 14 Hydref, 1792, yn 48 oed, a bu farw Roger Mostyn bedair blynedd yn ddiweddarach, ar 26 Gorffennaf, 1796, yn 62 oed, gan ddod â gwasanaeth o 38 mlynedd fel aelod seneddol dros Sir y Fflint i ben.[625]

---

[622] Roedd ei fam, Alice Wynne, yn hanu o Goed Llai, Sir y Fflint, ac yn perthyn i deuluoedd Mostyn, Corsygedol a Wynnstay yn ôl gwybodaeth yr *ODNB*, ond ni fu modd darganfod y cysylltiad hyd yma. David H. Solkin, 'Wilson, Richard (1712/13–1782)', *ODNB*, 2004; online edn, Sept 2010 [http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/29680, cyrchwyd 16 Mai 2013]. Hefyd BA: Wilson, Richard.
[623] Peter Lord, *Diwylliant Gweledol Cymru: Delweddu'r Genedl* (Caerdydd, 2000), 112.
[624] HFMM, 172.
[625] HFMM, 172-3.

Thomas Mostyn (1776-1831)

Roger Mostyn (m. 1796) = Margaret Wynn

Edward Pryce Lloyd = Elizabeth Mostyn **Thomas Mostyn (m. 1831)**

Efallai fod unig fab Roger Mostyn a Margaret Wynn yn un o efeilliaid, ond mae camgymeriad yn y dyddiadau a gofnodir, gydag Elizabeth ei chwaer yn cael ei geni ar 25 Awst, 1776, a Thomas ar 20 Hydref, 1776.[626] Fel ei dad, bu Thomas yn ddisgybl yn ysgol ramadeg Westminster, gan gofrestu yng Ngholeg Crist, Rhydychen yn 1793 yn unol â'r traddodiad teuluol. Pan fu farw ei dad, Roger Mostyn, yn 1796, un o gamau cyntaf Thomas oedd ymdrechu i'w olynu yng Nhŷ'r Cyffredin i gynrychioli Sir y Fflint. Ond er iddo gael mwyafrif o'r pledleisiau yn yr etholiad, fe gollodd ei sedd gan nad oedd yn ddigon hen i fod yn aelod seneddol.[627] Cafodd flwyddyn fel siryf yn Sir Gaernarfon rhwng 1798 a 1799, ac ym Meirionnydd yn 1799, cyn ailafael yn ei freuddwyd seneddol pan ddaeth i oed, gyda deiliad sedd Sir y Fflint, John Lloyd, yn ymddiswyddo i ganiatáu i Thomas gynrychioli'r sir yn 1799.[628] Er iddo gael ei ethol yn aelod seneddol Sir y Fflint am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain yn ddiwrthwynebiad, ceffylau a hela llwynogod oedd ei brif ddiddordeb heb unrhyw amheuaeth. Roedd diddordeb lleol mewn rasio ceffylau wedi arwain at sefydlu cwrs rasio ceffylau yn lleol ar ran o ystad y Mostyniaid yng Ngorsedd, Sir y Fflint, lle cynhaliwyd y ras gyntaf yn 1768,[629] ac er bod hen daid Thomas, Roger Mostyn (m. 1734), wedi cadw ceffylau rasio, gwelir bod diddordeb Thomas yn ymylu ar weithgarwch llawn amser, fel y nododd un o ohebwyr chwaraeon y dydd yn 1821.

> Sir Thomas Mostyn, though a young man, is an old master of fox-hounds, having held them entirely at his own expense nearly twenty-five years... A single man, possessed of a fine fortune, and at ease in his circumstances, the expense is not an object to him; and his conduct in the field is particularly

[626] HFMM, 172 a 177. Roedd efeilliaid eisoes yn y teulu, er i un o'r merched, Sarah, farw yn ifanc.
[627] Gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/mostyn-sir-thomas-1776-1831.
[628] HFMM, 174.
[629] Prin yw'r manylion am y cwrs rasio, a elwid yn Gwrs Rasio Treffynnon, ond bu rasio ceffylau yno tan o leiaf 1842. http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Tourism/Discover-Carmel,-Gorsedd,-Lloc-and-Pantasaph.pdf.

> gentlemanlike – added to which, no man, did his health permit him to enjoy it, is more found of the sport.... Sir Thomas Mostyn's hunting establishment is on a very liberal and extensive scale; but his country will not admit of his hunting more than four days a week, and sometimes not so often.[630]

Gan iddo symud i fyw i blwyf Bicester, ger Rhydychen, ac arwain yr Helfa yno o 1800 hyd at 1829, mae'n amlwg fod Thomas Mostyn wedi ymbellhau oddi wrth ei wreiddiau Cymreig.[631] Gyda'r tymor hela rhwng Awst a Mai[632] a'i waith seneddol yn Llundain, prin y byddai Thomas ym Mostyn i oruchwylio ei ystad. Ond gan fod ei frawd yng ngyfraith, Syr Edward Pryce Lloyd (gŵr Elizabeth Mostyn) hefyd wedi prynu tŷ o fewn ychydig filltiroedd iddo yn ne Lloegr, gallai barhau i gynnal cysylltiadau Cymreig.

> His brother-in-law, Sir Edward Lloyd, resides at Stratton Audley, so that between them both they have formed a little colony of Welsh in that neighbourbood.[633]

Hefyd yn hela yn Swydd Rhydychen gyda'i dad a'i ewythr, Thomas Mostyn, yr oedd Edward Mostyn Lloyd, gŵr a oedd yn ymfalchïo yn ei Gymreictod yn ogystal â bod yn heliwr brwdfrydig:

> Sir Edward [Pryce] Lloyd is a good sportsman, has a good eye to hounds, and few men at his time of day, and of his weight, ride to them so well. His eldest son promised to be a *first rate*. He is, however, a hard rider, a popular man in the country, and delights in fox hunting.[634]

Er bod y traddodiad barddol Cymreig wedi dod i ben erbyn cenhedlaeth Thomas Mostyn, fe welir bod ei gŵn hela wedi bod yn ysbrydoliaeth i feirdd anhysbys ganu cerddi iddynt yn Saesneg, ac mae dwy ohonynt wedi goroesi, 'With Sir Thomas Mostyn's Hounds'[635] a cherdd i'w ast hela orau, 'Lady':

---

[630] Nimrod, *Nimrod's Hunting Tours: Interspersed with Characteristic Anecdotes, Sayings, and Doings* (Llundain, 1835), 21-22. Gwir enw'r awdur oedd Charles James Apperley (1779-1843), gŵr a anwyd ger Wrecsam. Gweler BA: Apperley, Charles James. Cafodd Thomas Mostyn ei ddarlunio gan un o arlunwyr poblogaidd y cyfnod, Henry Thomas Alken (1785-1851), – 'All Night Hunt with Sir Thomas Mostyn' – ar gyfer cyhoeddiadau ar hela ac mae copïau ohono yn parhau ar werth.
[631] http://bicesterhunt.co.uk/?page_id=21.
[632] Nimrod, *Nimrod's Hunting Tours: Interspersed with Characteristic Anecdotes, Sayings, and Doings*, 20.
[633] HFMM, 175.
[634] Nimrod, *Nimrod's Hunting Tours: Interspersed with Characteristic Anecdotes, Sayings, and Doings*, 29-30.
[635] Archifdy Sir y Fflint, Casgliad Mostyn: D/M 7152.

Of all ladies, live or dead,
In the chase that we have spied,
Here the honoured relicks rest
Of the fleetest and the best.
From the best, the best are bred
And in truth it may be said,
Lady, if we hope to see
A better Lady 'tis from thee.

Exult foxes! For your foe,
Lies beneath this Pillar low,
Yet exulting, tremble too,
Fleet your bushes to pursue
From her blood, behold another
Lady rises, like the mother.

Why does Mostyn rival Maynele?
Why? Because from Lonsdale's Kennele
He took to comfort him for life
A lovely Lady for a wife.
That lovely Lady's dead; bereft
Of her, what comfort has he left!
What comfort! Much – her girls & boys
Are sources still of endless joys.

In memory of
Lady
Mother of most of his best hounds
This Pillar was erected
By Sir Thomas Mostyn Bart
Ann. Dom. 1812.[636]

Yn ogystal â'r gerdd a'r piler i gofio'r ast, roedd gan Thomas Mostyn eisoes ddarlun o 'Lady' o waith yr arlunydd Bennett,[637] a thra mai cywyddau a farwnadodd 'Miss', gast Thomas Mostyn (m. 1692) bedair cenhedlaeth ynghynt, gwelir bod yr awydd am goffadwriaeth i anifail anwes yn parhau, er bod cryn newid yn y mynegiant.[638]

[636] Archifdy Sir y Fflint, Casgliad Mostyn: D/M7151. Cafodd y piler ei godi mewn cae ger cartref Thomas Mostyn yn Bicester. HFMM, 176. Yn ogystal â'r cerddi i'r cŵn, ceir tair cerdd arall ymysg papurau'r teulu, yn dyddio rhwng 1780 a 1826, ac yn amrywiol o ran eu themâu, gyda Caradog, y Saith Gŵr Doeth a Mrs Mostyn, Bodysgallen, yn cael eu clodfori yn Saesneg. Gweler Casgliad Mostyn, Archifdy Sir y Fflint, D/M 7171, D/M 7176, D/M 7179 a D/M 7152.
[637] HFMM, 176.
[638] Cerdd 24 – 'Cywydd Marwnad 'Miss', gast Tomas Mostyn' – tt. 70-2; Cerdd 25 – 'Marwnad am golwyn Tomas Mostyn' – tt. 73-4.

Er mai yn Bicester y treuliodd Thomas lawer o'i fywyd, roedd yn parhau yn aelod seneddol dros Sir y Fflint, a tra nad oedd ei ddaliadau wrth fodd ei etholaeth ar adegau, roedd yn parhau yn aelod seneddol poblogaidd a daliodd y swydd yn ddiwrthwynebiad o 1799 hyd ei farwolaeth yn 1831.[639]

Ni luniwyd unrhyw farwnad farddol i Thomas Mostyn pan fu farw yn ddibriod ar 17 Ebrill, 1831, ond mae'r goffadwriaeth a gafodd mewn cylchgrawn chwaraeon cyfoes yn cyfleu'r newid cymdeithasol a ddaeth i ran y teulu gyda'r genhedlaeth hon, a'r olaf o linach hynafol uniongyrchol teulu Mostyn:

> He was of retired habits, disliking large dinner parties, which circumstance drew upon him the imputation of forming some slight exception to the character generally attached to his countrymen, of opening their doors to their friends. He was a liberal landlord, a kind master, and his death was very universally lamented.[640]

Gyda diffyg olyniaeth wrywaidd, aeth ystad y teulu i Syr Edward Lloyd, Pengwern, brawd yng ngyfraith Thomas, sef gŵr Elizabeth Mostyn, a daeth eu mab, Edward Mostyn Lloyd, i'w hetifeddu.

Sir Edward Pryce Lloyd (1768-1854) ac Edward Mostyn Lloyd-Mostyn (1795-1884)

John Lloyd, Pontruffydd=Rebecca Owen

William Lloyd Syr Edward Lloyd (m. 1795) = Anna-Maria Lloyd, Pengwern

Bell Lloyd (m. 1793) = Ann Pryce, Bodfach

Roger Mostyn = Margaret Wynn

Edward Pryce Lloyd (m. 1854) =Elizabeth Mostyn Thomas Mostyn (m. 1831)

Edward Mostyn Lloyd-Mostyn (m. 1884)

[639] HFMM, 172; gweler hefyd wefan y senedd, http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1820-1832/member/mostyn-sir-thomas-1776-1831

[640] *The New Sporting Magazine*, Vol 2, No 7 (Tachwedd 1831), 209.

Un o linach John Lloyd (m 1729), Pontruffydd, Bodfari, oedd gŵr Elizabeth Mostyn, sef Edward Pryce Lloyd (m. 1854). Ganwyd dau fab i John Lloyd a Rebecca Owen, sef William ac Edward, ac er i Edward briodi ar ddau achlysur, bu farw'n ddi-blant, a mab William, Bell Lloyd, oedd i etifeddu ei ystad ym Mhengwern, Rhuddlan.[641]

Roedd Bell Lloyd yn briod ag Ann Pryce, Bodfach, Llanfyllin, a chan iddo farw yn 1793,[642] ei fab hynaf, Edward Pryce Lloyd, ddaeth i etifeddu ystad a barwniaeth Pengwern ar farwolaeth Edward Lloyd yn 1795.[643] Er bod Edward Pryce Lloyd wedi etifeddu cartref ei fam yn Llanfyllin, ym Mostyn y ganwyd ei fab, Edward Mostyn Lloyd, yn Ionawr 1795, yn dilyn ei briodas ag Elizabeth Mostyn yn 1794 (merch Roger Mostyn (m. 1796) a chwaer Thomas). Ymhen rhai misoedd i eni ei fab, roedd Edward Pryce Lloyd wedi etifeddu Pengwern ac yma yr ymgartrefodd y teulu i fagu dau fab a dwy ferch, Edward, Thomas, Elizabeth ac Essex. Dyma ddisgrifiad Twm o'r Nant o Bengwern:

Plas Pengwern mewn cern, min coed – adargell,
Caniad organ ddaudroed,
Gardd eglwysgerdd gwrdd glasgoed
Pen côr pynciau ceinciau coed.

Plas Pengwern llusern, gwellhad – i gannoedd
Gogoniant y ddwywlad,
O eitha' Powys lwys wlad,
I fôr Gwynedd fawr gennad. [644]

Nid oedd cysylltiad teuluol hirfaith â Phengwern gan mai drwy briodas gyntaf Edward Lloyd (m. 1795), y daeth yr ystad yn eiddo iddo, ag Anna-Maria Lloyd yn aeres Pengwern. Er bod beirdd wedi canu yn flaenorol i linach mam Edward Pryce Lloyd ym Modfach, prin

[641] J Y W Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog,* V (Llundain, 1885), 299-230.
[642] Mae awgrym bod Bell Lloyd wedi marw yn fethdalwr mewn carchar yn Llundain wedi iddo wario'n helaeth ar welliannau sylweddol i ystad Bodfach. Ni fu modd cadarnhau hyn ond rhaid tybio bod yr addewid o etifeddiaeth Pengwern wedi bod yn ystyriaeth allweddol i Roger Mostyn ganiatáu i'w ferch, Elizabeth Mostyn, briodi â mab i fethdalwr. Gweler http://www.bodfachtrust.org.uk/history_of_bodfach_hall.php.
[643] Dyrchafwyd Edward Lloyd, Pengwern yn farwnig yn 1778 am ei waith fel Ysgrifennydd Rhyfel. John Burke, *A General and Heraldic Dictionary of the Peerage and Baronetage of the British Empire,* Volume 2 (Llundain, 1883), 107.
[644] Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 348, 357 – 'Englynion i Bengwern, Rhuddlan'. Ailadeiladwyd y plasty gan dad yng nghyfraith Edward Lloyd, Syr Edward Lloyd, tad Anna-Maria Lloyd, yn 1770, ond ni fu modd canfod unrhyw gerddi i'r plasty o'r cyfnod hwn. Mae'r plas bellach yn ysgol annibynnol gan elusen. http://map.coflein.gov.uk/index.php?action=do_images&cache_name=cG5tcnNuYW1lLHBlbmd3ZXJuX3BvbGRjb3VudHksRmxpbnRzaGlyZV9zZWFyY2h0eXBlLGFkdmFuY2VkX29yYQ==&numlink=36101#tabs-4

yw'r dystiolaeth fod teulu Lloyd, Pontruffydd wedi noddi'r beirdd, ond gan mai newydd-ddyfodiad oeddynt i Bodfari o blwyf Llansannan rywdro yn ail hanner yr 17g, mae'n debygol fod traddodiad barddol yn llinachau hynafol y teulu.[645]

Wedi cyfnod byr o weinyddu fel siryf yn siroedd y Fflint, Caernarfon a Meirionnydd rhwng 1796 ac 1805, cynrychiolodd Edward Pryce Lloyd fwrdeisdrefi y Fflint yn y senedd rhwng 1806 a 1831, a chafodd gyfnod o chwe mlynedd yn cynrychioli Biwmares rhwng 1897 ac 1812.[646]

Mae cyflwyniad Twm o'r Nant i'w gerdd i Syr Edward Pryce Lloyd yn cadarnhau ei falchter yn ei Gymreictod:

> Yn ddiolchgar gydnabod haelioni a pharodrwydd anghydmol Syr Edward P. Llwyd, o Bengwern, Swydd Fflint, i goleddu iaith a barddoniaeth ei genedl, ynghyd â'i dueddfryd serchiadol yn amddiffyn breintiau ei wlad enedigawl ar bob achlysur.[647]

Gwelir cyfnod newydd o gefnogi'r traddodiad barddol os derbynnir geiriau Twm o'r Nant:

I noddi awenyddion – Syr Edward
Sy' ŵr od o ffyddlon;
Gwelaf mae Llwyd, o galon,
Yw 'Ifor Hael' y fro hon.[648]

Yn niwedd y 18g a dechrau'r 19g, gwelir brwdfrydedd cynyddol i greu mudiadau Cymreig, a chymdeithasau megis y Cymmrodorion, y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion ymysg y datblygiadau newydd hyn.[649] Gwelir Edward Pryce Lloyd yn cynnig Syr Watkin Williams Wynn fel llywydd yng nghyfarfod sefydlu cangen o'r Cymmrodorion yn Wrecsam ar 6 Hydref, 1819. Aeth y cyfarfod ymlaen i drefnu Eisteddfod Wrecsam, ar 2-3 Awst, 1820, ynghyd â'r cystadlaethau a'r gwobrau.[650]

---

[645] Roedd prif linachau'r teulu yn hanu o Hafodunnos a Fforest, Llansannan, gydag is-gangen o'r teulu yn symud i Fodfari, ger Dinbych. John Burke, *A General and Heraldic Dictionary of the Peerage and Baronetage of the British Empire,* II (Llundain, 1883), 107.
[646] Gwefan y Senedd: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1790-1820/member/lloyd-sir-edward-pryce-1768-1854
[647] *Y Gwyliedydd* 1824, Llyfr II (Bala, 1824), 58
[648] Ibid. Ceir tri englyn ar ddeg yn y gerdd i Edward Pryce Lloyd.
[649] R T Jenkins, Helen M Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion and of the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies,* (1751-1951) (Llundain, 1951).

Ceir adlais o ganu'r beirdd ar aelwyd noddwr unwaith eto ym Mhengwern yn 1816 pan ddathlodd mab Edward Pryce Lloyd ac Elizabeth Mostyn ei ben-blwydd yn 21oed, a derbyn fod Robert Davies, Bardd Nantglyn (1769-1835), yno'n bresennol i gyfarch Edward Mostyn Lloyd (1795-1884).

Yfwn iechyd hyfryd hedd,
Y glân etifedd teg,
Hwn ydyw Edward Mostyn Llwyd,
Mae'n deffro clychau Dyffryn Clwyd.
Gwledd a gawn o lawn lawenydd,
Hen fir, a newydd fwyd.
Trwy ddisglaer Fflint a Dinbych
Mae'r clych ar lanwych led,
Dros Afon Conwy ac Afon Gaer,
Gwyl glaer ar aer a red,
Llên Llwydiaid wiwbliad wawr,
Llin Mostyn llwyni mawr,
Pur ei anian pob rhieni
O benna' llwythi'r llawr.[651]

Ni ellir bod yn sicr a oedd beirdd yn bresennol yn canu eu cerddi ym Mhengwern, ond roedd ymrwymiad Edward Price Lloyd i barhad y diwylliant Cymraeg, gan gynnwys y traddodiad barddol, yn amlwg drwy ei gefnogaeth i'r Eisteddfod a chymdeithasau Cymreig y cyfnod.[652] Os nad oedd nawdd barddol bellach yn bodoli yn ei ffurf draddodiadol, bu Edward Price Lloyd yn weithgar yn cefnogi creu sefydliad a fyddai'n cynnal parhad barddoniaeth Gymraeg.

Wrth i linach Mostyn gael ei throsglwyddo drwy olyniaeth fenywaidd i deulu Pengwern, Rhuddlan, un o amodau'r etifeddiaeth oedd bod teulu Elizabeth Mostyn (chwaer Thomas Mostyn, m. 1831) i fabwysiadu'r cyfenw Mostyn. Tra mai Edward Pryce Lloyd a ddyrchafwyd yn Farwn Mostyn ym Medi 1831, roedd ei fab, Edward Mostyn Lloyd-Mostyn, wedi ychwanegu'r cyfenw Mostyn at ei enw drwy drwydded yn gynharach yn y flwyddyn. Nid oedd yr etifeddiaeth heb ei chymhlethdodau, a'r un mwyaf heriol oedd

---

[650] Gwelir yr arfer o gynnig tlws ar ffurf telyn arian yn cael ei atgyfodi gan y pwyllgor yng nghystadleuaeth y delyn deir-rhes. *The Cambro-Briton: September, 1819 - August, 1820* , Volume 1, 113-115.

[651] Detholiad o 'Dwy ffrwd ynghanol Dyffryn a wna lef o fewn y llyn', i'w chanu ar 'Watkyn y March'. Dau bennill i annerch Edward Mostyn Lloyd, Ysgr. mab ac etifedd Syr Edward Price Lloyd, Barwnig, ar ei ddyfodiad i'w 21 mlwydd oed.' Llawysgrif y Llyfrgell Genedlaethol, NLW 672D, 261.

[652] Ato ef y trodd Angharad Llwyd gyntaf pan oedd angen cymorth i gynnal bardd – Evan Evans, Trefriw – drwy addysg ddiwinyddol. Mary Ellis, 'Angharad Llwyd, 1780-1866', *Flintshire Historical Society publication,* 26 (1973-74), 62.

dyledion enfawr Thomas Mostyn (1831), ac ychwanegwyd at hyn gan ŵr a mab Elizabeth Mostyn. Dilyn cwys ei ewythr a wnaeth Edward Mostyn Lloyd-Mostyn, gan wario'n helaeth ar gadw ceffylau a phleserau adloniadol, tra gwariodd ei dad ar ehangu plas Mostyn yn 1846-47, gwaith a gyfrannodd at ei ffurf bresennol.[653] Un o ddatblygiadau pellgyrhaeddol gweledigaeth Edward Pryce Lloyd oedd adeiladu llyfrgell sylweddol ar gyfer uno casgliadau pwysig y teulu, fel y cofnododd y cyhoeddwr a'r gwerthwr llyfrau o Gaer, Edward Parry, mewn llythyr at Gwallter Mechain yn 1842.

> Mr Mostyn is going to build a new library, large enought to contain the united libraries of Cors y Gedol, Plas-hen, Gloddaeth, Bodysgallen, Bodidris, Pengwern and the Mostyn Library.[654]

Drwy'r gwaith adeiladu hwn, diogelwyd casgliad sylweddol o lyfrau a llawysgrifau am genedlaethau, casgliadau a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn teulu Mostyn hyd at 1920. Er bod tristwch mewn gweld casgliad pwysig yn cael ei rannu mewn ocsiwn fel â ddigwyddodd gyda llyfrgell Mostyn yn 1920 a 1974, bu'n gyfle i'r llyfrau a'r llawysgrifau fynd i ddwylo cyhoeddus, ac i'w cynnwys gael eu gwerthfawrogi o'r newydd gan gynulleidfa ehangach.

[653] Christopher Draper, *Llandudno before the Hotels* (Pwllheli, 2007), 262. Hefyd gwefan Coflein, Mostyn Hall: http://www.coflein.gov.uk/pdf/CPG101/.
[654] Dyfynir yn MWM, 305, o lawysgrif NLW 1807E. Mae'n ddiddorol mai fel 'Mr Mostyn' y cydnabyddir Edward Pryce Lloyd, er na fabwysiadodd y cyfenw fel ei fab. Roedd eisioes yn farwnig fel etifedd ei ewythr cyn cael ei urddo'n Farwn Mostyn.

Cerddi teulu Mostyn, c 1675-1692

1

Englyn i deulu Mostyn

Hiliogaeth dda odiaeth ydyn' – beunydd,
Bonedd llys Mostyn.
Eu henw, pawb ohonyn',
4 Gras Duw hael, Grist ei hun.

Ffynhonnell:
Ba(M) 9, 30b

Awduraeth:
Siôn Edward

Darlleniad:
Awduraeth: Syr John Edward a'i cant

2

Englyn i fyfyrgell

’Stafell, wych gafell, gyfion – filwr,
I foli Duw’n gyfion.
Einioes i’r marchog union
I fyw yn hir o fewn hon.

Ffynhonnell:
Ba(M) 9, 30b

Awduraeth:
Siôn Edward

Darlleniad:
Teitl: Englyn i gloset newydd Syr. R.M.

3

Englynion i Syr Rosier Mostyn

Ple mae llys apla' llesawl – i'w gynnal
Drwy gynnes glod hollawl
A marchog calonnog hawl
4 A'i arglwyddes raglyddawl?

Mostyn bur bybyr lles ei bobloedd – ydyw,
Odiaeth bob amseroedd,
Mostyn lef megis nefoedd
8 Fyth yn deg a'i fath nid oedd.

Henwch dŷ yn uwch daear – hynod,
Ni henwch mo'i gymar;
Bwydydd o bob adar,
12 Ehediad gwylltiad a gwâr.

Pob dynion a ddigonir – yn ddilys
Ar a ddelo i'r frodir.
Llifeiriant oll a fwrir
16 Yno i bawb o win a bir.

Pob gwlad yn dywad i'w deiau – llawnin
O bob lluniaeth gorau;
Gwinoedd a biroedd genau
20 Bore a hwyr i barhau.

Ardderchog farchog, ei fawl – a ganaf
A'i gynnydd anfarwawl
A'i arglwyddes bryd lesawl,
24 Barod iaith ferch brydferth fawl.

Dewr filwr âi drwy filoedd – megis llew
Yn ymgais lladd lluoedd.
Oen cu yn ifainc oedd,
28 O gadarn enwog ydoedd.

Gwrol ymhlaid y goron – am lwyddiant
Ymladdodd yn ffyddlon
Galonnau y gelynion
32 Dibrin i'w frenin o'i fron.

Miloedd ar gyhoedd, ei gyd – yn gyfan,
A gafodd ddedwyddfyd
Yn amser anfad adfyd
36 Gydag e' a'u cadw i gyd.

Er bonedd Gwynedd, ei gyd – hybarch,
A Deheubarth hefyd,
Ni fegir ac ni fagwyd
40 Naws dyn glân, ail Mostyn glyd.

Llon dylwyth llawen deulu – yw Mostyn
A mawr ystad Cymry,
A'i arglwyddes gynnes gu
44 Orau ei rhinwedd yn rhannu.

Boed bendith rif gwlith y glyn, – hir oesog
Fo Syr Rosier Mostyn
A'i 'rglwyddes bêr arogl wiwddyn,
48 Oll gwaed da ill dau yn gytûn.

Ffynonellau:
A – Ba (M) 9, 3a; B – NLW 11087, 61

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr, Curad Llanfairfechan

Darlleniadau:
Teitl: A – Englynion i Syr Roger Mostyn o Fostyn, 1679; B – Englynion i'r plas y Mostyn; 1: lleshawl – llesawl; 9 a 10: hennwch – ffurff o enw, enwch; 10: mai; 12: gwlltiad; 17: llewnin; 31: Galonne;

Amrywiadau:
Teitl: A – Rhys Cadwaladr, B – Syr Rhys Cadwaladr a'i Cant; 7: B – llêf; 14: B – A ddelo; 16: B – ei bawb; 29: A – llwyddiant; 20: B – boreu; 45: B – Bod bendith rhif gwlith; 47: B – A'i arglwyddes.

4

Croesi Mynydd Tegan

Nid hagr ond mynydd Tegan – oll drosto
Lle mae'n drist bod allan.
Rhag curlaw ni cheir corlan
4 Na llety na thŷ na thân.

Niwl trwch tywyllwch tew ollawll – sy' arno
O naws oerni angheuawl;
Tarth pwll dig archrodigawl
8 O uffern ddu neu ffroen ddiawl.

Tir Aiphtiaid diriaid, dyrys – bod allan,
Rhwng tyllau peryglys,
Na ddelo yma'n ddilys
12 Yr un o'r rhain i ran Rhys.

Mi amgeisiaf am wlad Gosen – yn fanwl
O'th fynydd anniben,
Lle ceir draw groeso llawen
16 Dan do tŷ a diod hen.

Penbyd, plas hyfryd pleserfron – ydyw,
Adail gynnes ddigon;
Man lle trig boneddigion,
20 Dyna le bras dan ael bron.

Gwlad lân, ail Canaan, le cynnes – Syr Rosier
A'i rasol arglwyddes,
Llawen hynod llon hanes
24 O ryw a gradd, orau ei gwres.

Ffynonellau:
A – NLW 11087B, 62b; B – Cw 206B, 134b

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniadau:
Teitl: A, B – Dychan mynydd Tegeingl pan oedd y prydydd yn dowad trosto i Bembed ar dywydd temhestlog; 1: A,B – hagar; 3: A – corllan; 5: B – ollawl; 6: anchrodigawl (anghredigawl); 10: A – tylle; B – yn ddilys; 12: A,B – o rhain; 13: A – Goshen, fann [diwedd y gair yn aneglur]; 21: B – Sr Risiart; 24: A – oreu, B – orau gwres; A – Sr R.Cad. Ai Cant, B – Sr Rhys Cad^{r} ai cant.

5

Englyn i ofyn porfa i Syr Rosier Mostyn

A geiff hencen, rhemen rhwth,
Yn y morfa borfa beth
Gan haelioni siri syth
4 A dery'n chwyrn â'r dwrn chwith.

Ffynhonnell:
NLW 11999, 19

Awduraeth:
Morys Parry, Person Llanelian

Darlleniadau:
Teitl: Englyn i ofyn porfa i Sr Rog. Mostyn; 4: a dery yn.

6

Cywydd Marwnad Syr Rosier Mostyn, 1690

Pa beth yw'r byd sadfyd sydd?
Pwy nis gŵyr poenus gerydd,
Poen oer loes bob pen i'r wlad
4 Parodd fawrnych prudd far'nad?
Plaened trom y'i planwyd draw,
Pryd alaeth, parod wylaw.
Pasio wnaeth, oes alaeth sôn,
8 Pawb ar oedd pybyr roddion.
Priddo a wnaed, prudd i ni,
Perl ynys pur yleni.
Pell yw'n gloes, pallu o'n gwlad
12 Parch gadarn pur wych geidwad.
Pallu a wnaeth, pwyll iawn wedd,
Eryr gwyn oror Gwynedd.
Collodd gogledd, Gwynedd gain,
16 Gwrs haelfyd ei gwir sylfain**.**
Hoff lawnt demaens Fflint a Môn,
Gwn oerfel, ac yn Arfon
Am un marchog rywiog ryw,
20 Walch hyddoeth, wylwch heddiw.
Prudd gofio heb rwydd gyfarch
Am Syr Rosier, piler parch,
Aer Syr Tomas addas oedd,
24 Bywer uchel, bur iachoedd.
Ŵyr iawn glod o aeron Glyn
Mwysdeg Syr Rosier Mostyn
Ap Syr Tomas, gloywlas gledd,
28 O iach Wiliam uchelwedd
Ac o union gu winwydd
Tomas Mostyn, haelwyn hydd.

Dyma alaeth sywaeth syn
32 Am hil Risiard, hael rosyn,
A hil o waed Hywel oedd,
Iawn lesol yn ei lysoedd,
Ab Ifan hael Fychan fu,
36 Ŵr hoff union ar ffynnu,
Ac o eurwaed gu wiwrym
Tudur Trefor, ragor rym,
Hwn oedd Iarll hoen ddioerllyd
40 O Henffordd, nerth brydferth bryd,
Syr Rosier ddwys lwys luoedd
I hwn o dad i dad oedd.
Och o g'wirwaed iach gywraint
44 Syr John Wyn hil brigyn braint,
Gwaed ir o lys Gwydir lân,
Haul cannaid o hil Cynan
A gwaed mewn nerth Goodman oedd
48 O Gaerlleon, gawr lluoedd.
Am waed Einion mae dwned
A mawr loes yma ar led,
Llin dedwydd, llawen didwyll,
52 T'wysog Powys barchus bwyll
A bron hanes brenhinwaed
Llys y Penrhyn, goedfryn gwaed.
Oes ôl briw, dwys Salbri deg?
56 Draw achwynwch dro 'chwaneg.
Claddwyd o Fadog Gloddaith
Farchog hwylus, dawnus daith,
Heddiw llin Syr Gruffydd Llwyd,
60 Wych hedyn, gwanach ydwyd.
Oer iawn hynt am aeron hawl
Edwin frenin, dôn freiniawl,
A mwy llawn glod meillion glân
64 Fu ach Ednyfed Fychan.

Mae oer hin am ŵyr hynod
Syr James wiw hedd glwysedd glod,
Dyma gnoc i Whitloc lân,
68 Dwys gerydd nid esgoran,
Dwys gŵyn oedd dewis gwiw nerth
Dâr o goednant dewr gydnerth,
Dewr iawn a fu'n plannu plaid
72 Rhag ystrîn rhwyg estroniaid.
Ni bu ddewr i neb oedd dda
Ond ar gnafiaid daer gnofa,
Clywch am farchog cefnog call
76 Ochain dwbl, achwyn diball,
Hir gwynwn oeri gwaneg
Ei bum plas, twf addas teg.
Pengwern oedd, pa winoedd well
80 Fu gostus? A Thref Gastell
A Mostyn glir maes dan glod,
Annedd pur winoedd parod,
Gloddaith hawl gloywddoeth helynt,
84 Mawr oedd gwledd Tref Garnedd gynt,
Mawr oedd gariad ceidwad cu
Modd union i'w meddianu
Mawr sail dda, mor rasol ddoeth
88 Ei aer heddiw, ŵr hyddoeth.
Syr Tomas, addas wiwddysg,
Mostyn deg am estyn dysg
Rhag camraint rhywiog Gymro
92 I ennyn braint yn ein bro,
A'n dewr rwysg un Duw o'i ras,
Siried tymer Syr Tomas.
Am ei dad pur gariadus
96 Wylodd farchog wleddog lys,
Hiroes iddo'n orseddawl
A'i arglwyddes mynwes mawl.

Richard Mostyn, ddichlyn ddydd,
100 Yw'r ail oen arael winwydd,
Perchennog pur wych union
Pen Bedw ar Nant, llwyddiant llon.
Canys hwn yn cwyno sydd
104 A'i wraig gynnes, frig gwinwydd.
Och roi briw i ochre bron
Merch gynnes marchog union,
Honno yw Siân**,** hynaws wedd,
108 Gwraig marchog, enwog annedd,
Syr John Trefor, rhychor rhin,
Ged freiniol gyda'i frenin,
Ceidwad grym er codiad gras,
112 Sail a dwrn sêl y Deyrnas.
Trwm am farchog doniog da
Och hefyd i'w ferch ifa',
Margred sydd ni chudd â'i chŵyn,
116 Yma'n uchel mae'n achwyn,
A'i wyrion, pleth aeron plaid,
Lân iraidd lwyni euraid
I'w gofio sydd, gyfa serch,
120 Ddi-os union ddwys annerch,
A'i lân geraint lawn gariad
Gwelir sydd mewn galar sad.
Cyfathrach oerach arwyl
124 'N gaeth ei gwedd bob gwaith a gwyl
Gwae ei ddeiliaid, gwedd ddilys,
Baun hael oedd, na bai'n ei lys,
Pob tenant wylant eilwaith
128 Lawer mis o alar maith.
Prudd i wael priddo ei wên,
Aml les, am ei elusen.
Am Syr Rosier llawer llu,
132 Syn oer waith, sy'n hiraethu,

Gwladwr bro, gwiw lediwr braint,
Trwy fwyn garu trefn gywraint.
Colofn bro oedd o i'w ddydd
136 A'i hwyl odiaeth wyliedydd.
Milwr llu ymaelwr llon,
Dewr gwrol o du'r goron,
Llew wrth drawsion blinion blaid,
140 Ac oen gwyn i gŵyn gweiniaid.
Ni wnâi gam, ŵr dinam doeth,
Dros unawr o drais annoeth,
Na cham gan ŵr cwsniwr cau,
144 Ddu ddyfais ni ddioddefau.
Diwair fu hyd awr ei fedd
Oen rhadol ei anrhydedd.
Mawr oedd y cri gloffi gwlad
148 Ddydd addas ei ddiweddiad,
Oed Iesu gwiw, D'wysog gwych,
Cwyn odrwm, cawn ei edrych,
Mil saithgant, bwriant ei bod,
152 Ond dengmlwydd pwynt dianglod
Hoed oer ei fodd, Hydre' fis,
Yr âi Dduw â'i rwydd ddewis,
Y pedwerydd dydd, rhy dost,
156 Am wir iawnbarch aur winbost.
Yn iach, hael fron uchel fri,
Yn iach, lawn wych haelioni,
Yn iach, garw nych i'w geriant
160 Yn ôl marchog frigog fraint,
Yn iach hyd ddydd y bydd barn
Gan iachawdr gwan a chadarn.

Ffynonellau:
A – Cw 467B, 232; B – P 124, 170; C – NLW 593E, 209;
Ch – Llyfrgell Plas Mostyn; D – NLW 672D, 150; Dd – Cw 485E, 27.

Awduraeth:
Owen Gruffydd o Lanystumdwy

Darlleniad y llawysgrifau:
Teitl: A – Cywydd Marwnad Syr Roger Mostyn, Marchog. 1690 [y dyddiad mewn llawysgrif wahanol]; B, C, D, Dd – Cywydd Marwnad Syr Roger Mostyn; Ch – Cywydd Marnad Syr Roger Mostyn, Marchog

4: Dd – farwnad; 5: B,C,D, Dd – drom, Dd – planed; 7: Ch – Pasio a wnaeth; 9: D – prioddo wnaed, prudd ini; 11: A, B,C – pall; 12: Ch, D, Dd – purwych; 14: Dd – Gwyn; 17: D, Dd – demeans; 22: A,B, C, Ch,D, Dd – Roger; 24: D, Dd – bower, C, D – achoedd; 25: A – auron; 26: A, B, C, Ch, D, Dd – Roger; 27: Dd – Ab; 28: B,C,D,Dd – ach; 32: Dd – I hil, Ch – Richiard; 35: B,C,D,Dd – Ap, C – Evan, A,Ch,Dd – fychan; 41: A, B, C, Ch, D, Dd – Roger; 43: A,B,C,Ch,D,Dd – gwyrwyd, B,C,D,Dd – ach; 44: D – Syr John Wynn brigyn braint; 61: Ch – auron; 64: A,Ch – fychan; 67: Ch – Whitlock; 69: D – gwiwnerth; 72: C – y stin, Ch – y strin; 74: B – on'd,B,C,D – cnafiad, Dd – doe'r gnofa; 78: A,B,C,D, Dd – I; 85: Dd – cariad; 86: A,B,C,Ch,D,Dd – yw; 88: D – Ai; 90: A,B,C,Ch – ystyn; 91: C – Cymro; 94: Dd – tyner; 102: Ch – a Nant, Dd – a'r Nant;104: B,C – ei; 107: A,Ch – Siane; 112: A,B,C,Ch – dernas;115: D, Dd – Marged, 115: D, Dd – ei chwyn;117: A – auron; 118: D – iredd; 119: Dd – Yw cofio sydd cyfa serch; 126: Baen hael oedd na bae'n 'i lys; 130: A – i elusen, D – am alusen, Dd – Aml o les am elusen; 131: A, C, Ch, D, Dd – Roger; 140: D – Ac oen gwyn i gweiniaid; 141: Ch – dinan; 144: Dd – ddioddefai; 150: C – odren, A,B,C,Ch – cawn i edrych; 151: A,B,C,Ch,Dd – i bod; 153: C – Noed, D, Dd – Rhoed, A,B,C,Ch,D,Dd – i fodd; 155: C – r y dost, D – rydost, Dd – rhydost; 156: C – iawn barch, Dd – O wir iawn barch aur win bost; 158: C – lawnwych; 161: D, Dd – i bydd; 162: C – Gaim.

Nodyn ar ddiwedd y gerdd: A[mewn llawysgrif wahanol] – Cafodd y Bardd 50 o sylltau am wneud y cywydd uchod £2-10-0; D, Dd – Fe gafas am dano £2.10-0.

7

Awdl Foliant Tomas Mostyn ar y Pedwar Mesur ar Hugain

1. ***Unodl Union***

Llew Gloddaeth, bennaeth beunydd, – llwyr fwynder,
Llaw'r fendith dragywydd,
Llys goludog, lles gwledydd,
4 Lle dylai'r glod fod, hi fydd.

2. ***Unodl Cyrch***

Bydd yno glod byddin glau,
Beraidd gwlm, a beirdd gwyliau.
Byw ddawn hir a bydd ein hiaith
8 Bryn Gloddaith, bron y gwleddau.

3. ***Unodl Crwca***

Bron Tomas yw'r braint yma,
Bron y llwydd oll, breinlle dda,
Brig Mostyn, rosyn ni rusa – buredd,
12 Bron bonedd bri'n benna'.

4. ***Prost Cadwynodl***

Ei fonedd ryw, fwynedd ras,
O Drefor lwyth drwy y fawr les.
Enwedig ŵr, Oen di-gas,
16 A haela' tan haul a tes.

5. ***Prost Cyfnewidiog***

Oes dan haul, was Duw un hynt
Â'r Esgwier a roes i gant?
A mwy rhwysg yma â rhent,
20 Aml air pell, am lawer punt?

6. ***Cywydd Llosgyrniog***

Llawer enwog oll i'r annedd,
Llys gwir genedl, lles gwŷr Gwynedd,
Llwyn aur annwyl, llawen rinwedd,
Llin mowredd, llawn ymwared.
Llad a fytho, lle difethiant,
Llaw Dduw fyddo'n llwyddo feddant
Lle mae rhoddwr, llew mawr haeddiant,
Lle gwiriant llaw egored.

7. ***Deuair hirion***

Da yw'r llwydd o'i dai ar lled,
Dewis doreth, da i 'styried.

8. ***Deuair fyrion***

Gŵyr ef gref gred
Gynnal gweinied.

9. Awdl gywydd

Downys fyth, dieinioes fer,
Diwag hyder Duw cadwed
Darian grym, diriona'gras,
Dro iawn addas drwy nodded.

10. Toddiad

Nawddol diangol dynged – i'r gwrda,
Ni bu gan bara neb gyn bured.

11. Gwawdodyn byr

Dianwadalwch dawn y deilied,
Dewr at rai anwir, da i'r trueinied,
Dewr wrth ddewr, tradewr troedied – orthrymwyr,
Dewra' dan awyr, da i'r diniwed.

12. ***Cyhydedd nawban***

A fu nag Ifor fwy enw gofied
Yn nydd cynhelieth, a Nudd cyn haeled?
Os iawn rinwedd oes un ar aned
Yn cynnal weithian cyn helaethed?

13. ***Byr a Thoddiad***

A'i arglwyddes dduwies ddaued – 'r achau
O'r uchel henafied.
Aeres enwog orau synied
Gefn i Savage gyfneseified.
Gŵr a'i lanwych, gu aur luned,
Yn cydrannu cyn dirioned,
Oes ddau i'w teiau tyed – mor ffyddlon
Oddynion adduned?

14. Clogyrnach

I'w hil deilwng o hawl deled
I dda gynnydd Dduw ogoned
A'i ras oreusant a phenna' ffyniant
Iawn fwyniant anfoned.

15. Cyhydedd fer

Ar was'naethwyr ei ras nithied
A'u gorchwylion hygyrch eled,
Allu gwirddawn, oll i gerdded
Iawn fan degwych yn fendiged.

16. Cyhydedd hir

Yr ŷd ar rodir a'r clud o'r cleidir
A gwair morfadir, gŵyr mawr fuded,
A deilwair dolydd, ir wellt ar elltydd
A llyna foelydd llu anifeilied.

17. Gorchest y beirdd

A gwres y grawn o des y dawn,
Er lles ar llawn yw ar lled,
Iawn bwyth yn bawr yw'r llwyth o'r llawr
A'r mwyth i'r mawr yrr a'i med.

18. Cadwyn fyr

Dasau dwysion desol dwysau,
Dasel duswau disal dasied,
Dirion doreth darren dyrau,
Dawel deiau diwael deued.

19. Tawddgyrch cadwynog

Eurddawn urddol, wyrddion arddau
A'u perllannau, pur eu lloned,
A llwyn breiniol, llawn o breniau,
A dyfr lynnau, difyr loned,
A meirch heidiau, uchel neidiau,
Wamal reidiau, amal reded,
A cherbydau ar bob prydau
Uwch y rhydau, iach y rhodied.

20. ***Rhupunt hir***

Y cynyddion â chŵn hirion
A bath hoywon yw bytheied,
Craff saethyddion, cwning tyrfion
Cyrraedd olion, ceirw ddalied;

21. ***Rhupunt byr***

Pob gweilch helgar, pasg ar adar, pysg a rwyded,
O bob amlder y cawn lawer cyn oleued.

22. Cyrch a chwta

Iawn geyrydd yn egored,
A ddaw dydd â'i ddedw'dded
Y fath wiwlys fyth weled
O deulu a'u duwioled?
Un galon enwog wylied
Ar addoliant yw'r ddyled.
Yn neddfau Duw, noddfa deg,
Ychwaneg a chwi uned.

23. Gwawdodyn hir

Oes a gwir enw seigiau a ranned
Yno a'r bwydydd ni arbeded,
O gynnal enwog y gwin a lanwed
A lli o firoedd y llifeiried,
Y wledd, deg annedd, digoned – myrddiwn
A hawdd y gwiriwn eu howddgared

24. Hir a thoddiad

Enwog hir goelion, yno ceir gweled
Y beirdd a'u gorchest a beraidd gyrched,
A thŷ y brawd hyna', iaith y Brytanied
O fawl blaid awen fal y blodeued
Aur wialau doniau dwned – athrawiaeth
Y llew o Gloddaeth alluog lwydded.

Epilog

Llew o Gloddaeth, bennaeth beunydd, – llwyr fwyner
Llaw'r fendith dragywydd,
Llys goludog, lles gwledydd,
Lle dylai'r glod fod, hi fydd.

Ffynonellau:
A – M 96, 50; B – Brog 5, 424; C – Ba 93, 18a, Ch – CM 43 (anghyflawn, llinellau 47 ymlaen yn unig)

Awduraeth:
Edward Morris, Perthi Llwydion

Darlleniadau:
Teitl: A – Moliant Tomas Mostyn Esq o loddait mewn owdl ar y pedwar mesur ar hugain, B – Cerdd ar y 24 Mesur. I Thomas Mostyn Esqr o Loddaith, C – Owdwl o foliant i Thomas mosun o Loddaeth Esqr, mab ag aer Sr Roger mostun Dr ag arni mae 24 mesur, Ch – dim teitl [tudalennau yn brin];
1: A – beňnydd, C – beniaeth, llwun; 6: C – cwlwm; 7: B, C – budd, C – ddarn; 9: C – iw i braint; 10: C – Bron llwudd; 11: C – rysa; 12: C – yn bena; 14: B – Drefor lin [lwyth ar yml y dalen], C – drwu fawr; 15: A: di gâsm, C – Enwog wr; 16: C – y tes; 17: C – hael, yn; 18: C – Esqr; 19: C – y rhwsg; C – Cywyd llosgyrnog; 24: C – y mowredd; 25: C – Laud y fotho lle difethant; 26: C – yn llwuddo; 27: C – mae'r; 28 – [yn eisiau yn C]; 30: B – doraeth, C – doreth i ystyried; [Trefn yn C – 31-32, 29-30]; B – 10 Toddaidd; 37: A – Llawddol;
38: B – [nodyn ar ddiwedd y llinell]*gan barhau, C – ged bured; 41 – [yn eisiau yn C], B – ryfygwyr; B, C – 12 Cyhydedd 9 bann; 44: A – Ynydd, B – Y nydd, C – Yn cynhalieth yn nudd cynhaelied; 45: B,C – Oes iawn; 46: C – cyn al, B – weithiau; B – 13. Byr a Thoddaidd, C, Ch – 13. Deg air fyrion; 47: B – A'i 'rglwyddes dduwies ddaed yr achau, C – A'i arglwyddes ddiwies ddaed yr achau, Ch – ddaed yr achau; 48: C, Ch – henfeied; 49: C, Ch – Aures, ore; 50: C – Gefn i Safange gyfneseified, Ch – Safnge; 51: C – loned, Ch – Gwr ai Lan wych, gy aur Loned; 52: C – cen, Ch – Yn Cyd ran cen Dirioned; 53: A – yw, C – tued, Ch – Teuau Tued; 55: C – Ir hil; 56: C – Eu gynudd duw gogoned, Ch – Ey, gogonedd; 57: A – ffenna, C – phene, Ch – a'i phene ; 59: C, Ch – eu; 60: C,Ch – Ei gorchwilion; 62: C, Ch – degwch; 63: A – clyd, claidir, B – clai-dir, gwŷr, C,Ch – ro dir; 64: Ch – mor fadir, fydedd; 66: B – an'feilied, C – llymma, lly, Ch – llyma, lly; 69: C,Ch – Iw yr; 70: A – ŷr, C,Ch – urr; 71: B – di som dwysau, C,Ch – disom dwusau; 72: C,Ch – Dasel duswan; 74: A – daued, B – dayed, C,Ch – dyed ; 75: C – wrddion, Ch – wir ddawn; 76: C,Ch – Ai pellenau; 77: C,Ch – Lawn; 78: B – Dyfr lynniau, difyr laned, C – A dyfwr lyniay, difyr lanau, Ch – A dyfwr Lyniau, difir Lanau; 80: B,C – A mael reidiau, Ch – [dechrau'r llinell yn brin], A – amal redeg, C,Ch – amal redied; 81: C,Ch – prydiau; 82: C,Ch – iach y rhedied; A,B – Hupunt hir, C – Hypunt hir; 84: A – hoewon, C,Ch – houwon; 85: C – cwnwng fyrfion, Ch – cwnwng fyrion; 86: B – Cair helyddion, ceirw ladded, C,Ch – Cyraedd oilion, Ch – dalied; A,B – Hupunt, C – Hypunt; 87: C,Ch – yr adar, Ch – [diwedd y llinell, 'pysg a rwyded', yn brin]; 88: Ch – amalder; 89: A – gaerydd, C – gaerud, Ch – Iawn gaeryd yn y gored; 90: C,Ch – ddedwed; 91: C – wiwlwus, Ch – wiwlwys; 92: C,Ch – eu; 94: Ch – Ar ddoliant; 96: C – Ychwaeneg, Ch – achu; 98: C – a'i bwududd, Ch – oi bwydydd; 99: B – a gwin, C,Ch – gwin lanwed; 100 – [y llinell yn brin yn C a Ch]; 101: Ch – anedd; 102: B – hawddgared; 103: C – hailion, Ch – Ai Enwog hir heilion; 105: B – Brutunied, C – A thu brawd; 106: C – fel; 107: C – widlau, dyned; 108: B – o Loddaeth, C,Ch – y llinell yn brin; A – Epilogue, B – [yr epilog yn brin]; 109: C – Y llew gloddaeth Boniaeth beunudd lawn fwunder, Ch – Y llew gloddaeth Beoniaeth beunydd; 110: C – Law yr fendith Lawenudd, Ch – Lawn fwynder. Llaw yr fendith Llawenudd; 112: A – hi a fudd; Ch – Lle dylar glod.

Darlleniad Gwenllian Jones:
Teitl: Moliant Tomas Mostyn Esq. o Loddaeth mewn Awdl ar y Pedwar Mesur ar Hugain; 7: budd; 9: Thomas; Proest Cadwynog; 14: drwy fawr les; Proest Cyfnewidiog; 18: Esgwîr; Cywydd llosgyrnog; 24: mawredd; 26: llwyddo' [i] fedd[i]ant; 28: agored; 32: Cynnal; 33: Dawnys; 44: cynhaliaeth; 45: Oes iawn; Byr a Thoddaid; 47: A'i Arglwyddes dduwies, ddäed – 'r achau; 51: Luned; 56: Ei; 63: clud; 74: däed; 78: lynau; 96: â; 81: prydiau; 85: (ff)yrfion; 89: agored; 90: ddedwydded; 80: A mael reidiau; 105: Brutanied.

8

Cywydd Moliant i Tomas Mostyn, wyneb a gwrthwyneb

Mi af i'r llys, mwyfwy'r llwydd,
Daith hwylus odiaeth hylwydd.
Lles yr iaith, llys orau oedd,
4 Llys Gloddaith, llys y gwleddoedd.
Llys orau sydd, lles yw'r serch,
Llys awenydd, llais annerch,
Llys orau fydd, lles ar faeth,
8 Lles beunydd, llys i bennaeth,
'Sgweir Mostyn, ais grymuster,
Llys y glyn, lliaws o glêr
Llys Domas, a llys dwymyn
12 Yw'ch llys bras uwch llawes bryn.
Llys da'i glod, lluesty gwledd,
Llys hynod, lles i Wynedd.
Mae'n lles yr ŵyl, mewn llys rydd
16 A lle annwyl llawenydd.
Llys gorau dawn, llys gŵr da
Gwiw rywiogddawn a gwreigdda,
Llys gwrda, llys y gardod,
20 Llys da i gla', llys diau glod,
Llys Ifor, a lles afiaith,
Llys ym min môr, lles mewn maeth,
Llys rhoddion, llys yr haeddiad,
24 Yw'r llys hon orau llesâd.
Llys amlhau, lles mil yw hwn,
Llys gorau, llys a garwn.
Llys y fawl, 'wllysiaf fi
28 Ddedwyddawl ddŵad iddi,
Llys y ddysg a lle sy' dda,
Lle gwir addysg, lle'i gwreiddia,

Llys ffynnon, lles hoff inni,
32 Llys garbron, lles gwŷr a'u bri.
Llys gwir gerdd, llais ac ergyd,
Llys y gerdd a'i lles i gyd.
Llyfr dŷ llawn, llafurdai dysg,
36 Lle breuddawn, llwybrau addysg,
Llys gras mawr, llys groeso mwyn,
Llys roddfawr, lles wir addfwyn.
Llys gwyn maeth, llys gwin a medd,
40 Llys bennaeth, llys y bonedd,
Llys seigiau lluosogion,
Llys gŵr brau a lles garbron.
Llys enwog, oll o synnwyr,
44 Llys aml cog, llys mêl cwyr,
Llys biroedd, lle syberwyd,
Llys y bioedd roi lles a bwyd.
Llys dedwydd, lles da ydyw,
48 Llys a lwydd, a llesol yw.
Llys gŵr mawr 'wyllysgar mwyn,
Llys graddfawr, lles gŵreiddfwyn.
Llys bendith, llys byw undod,
52 Lles fel gwlith 'wyllysfawl glod.
Llys y rhad Duw, lles i'r tai,
Lys unduw ail 'lusendai.
Llys gair mwys, llys garu mawl,
56 Llys Baradwys, lle ysbrydawl.
Llys aberth, lles a'i wybod,
Llys aer y nerth, lle sai'r nod,
Llys hwyr y ces lles aer call,
60 Llys aeres yw'r llys arall.
Llys dilys, lles adeilad,
Llawer llys i'w llwyr wellhad,
Llys iach hwyl, llys wych yw hon,
64 Llys dau annwyl, lles dynion.

I'w llys dalio lles dilyth,

Llaw Dduw fo i'w llwyddo fyth.

Ffynonellau:

A – C 23, 300; B – M 96, 49; C – C65, 135; Ch – C48, 12; D – NLW 11567, 12; Dd – NLW 783,11; E – NLW 17528, 158; F – NLW 666, 1; Ff – B 31093, 230a; G – NLW 4995E, 26;

Awduraeth:
Edward Morris

Darlleniadau:
Teitl: A – Cowydd moliant ir anrhydeddus Thomas Mostyn Esq ac yw anneddfawr gynhaliaeth yngloddaith mewn ffordd o gynhildeb ar gowydd wyneb y gwrthwyneb yn gyfrodeddig drwyddo ar gynghannedd groes rywiog ddychweledig, B – Cywydd moliant i Tomas Mostyn o Loddaith Esq mewn ffordd o gynhildeb ar gowydd wyneb y gwrthwyneb yn gyfrodedig drwyddo ar gynghanedd groes rowiog ddychweledig, C – Cowydd Moliant ir parchedig Tho[rhwyg yn y papur] ag yw aneddfawr gynhaliaith [rhwyg yn y papur] ar y gynghanedd a Enwir Groes [rhwyg yn y papur], Ch – Cowydd i Thomas Mostyn Esqr o loddaith ar y ganghanedd a Elwir Croes Ddychweledig, D – Cowydd moliant ir anrhydeddus Thomas Mostyn Esq ag iw aneddfawr gunalieth yngloddeth mewn ffordd o genhildeb ar Cowydd hwn yn gefrodedd wuneb y gwrthwyneb yn gefrodeddig drwyddo ar gynghanedd, Dd – Cywydd Moliant Sr Thomas Mostun yw, dreuthu wyneb y gwrthneb, E – Cowydd Moliant ir Anrhydeddus Thomas Mostyn Esqr ac yw Annedd fawr gynhaliaeth yngloddaeth; mewn ffordd o gynhildeb ar gowydd Wyneb y Gwrthwyneb yn gyfrodeddig Drwydd ar gynghanedd groes rywiog Ddychweledig, F – Cywydd Moliant ir Anrhydeddus Thomas Mostyn Ysw ac i'w aneddfawr gynhaliaeth yng Ngloddaeth; mewn ffordd o gynhildeb ar gywydd wyneb a gwrthwyneb yn gyfrodeddig drwyddo ar gynghanedd groes rywiog ddychweledig, Ff – Cy moliant ir anrhydeddus Tomas Mostyn Ysw: ac yw anneddvawr gynhaliaeth yngloddaith mewn ffordd o gynildeb ar gywydd wyneb gwrthwyneb yn gyvrodeddig drwyddo ar y gynghanedd groes rywiog Ddyrchafedig, G – Cywydd Moliant ir anrhydeddus Thomas Mostyn Ysw; Awduraeth: F, G – Edward Morys o'r Perthi llywdion ai Cant; 1: Dd – mwy fwy yr llwydd; 2: Ch – Odiaeth hwylus daith hylwydd; 4: Dd – llys gwleddodd; G – lles y gwleddoedd; 5 a 6: [Ff yn brin o'r llinellau hyn]; 5: D – lles yw serch; 7: Ch – Llys orau a fydd, Ff – Llys orau sydd, lles ar vaeth; 8: C,Ch – Llys beunydd, C – llys y bennaeth, D – llys Bennaeth; 9: B, Ff, G – 'Sgwier, C – Scwire, Ch – Ysgweir, D, F – Sgweier, Dd – Esgweiar; 10: Dd – lliaws y glêr; 11: C – lles dwymyn, D, F, G – Llys Tomas a llys twymyn; 13: D, Dd, E, F, Ff – da ei glod, F, G – da i glod, Ff – llwyth gwledd;15: D, E – Mae yn lles yr wyl, mae llys rydd, Dd – Mae'n lles ir ŵyl, mae'n llys rydd, F – Mae yn lles yr wyl, mewn llys rhydd, Ff – mae'n llys rydd, G – Mae'n lles yr wyl, mae'n llys rhydd; 16: D – a lle annwyl a llawenydd; 18: E, F – rywiog ddawn; 19: B – a llys y gardod, D – llys y gwrda, llys gardod; 20: A – llys da ei gla, D – llys da ei glod, Ff – llys da ei glo; 22: B – Llys 'min mor, A, E – y min mor, G – Llys yn min mor; 26: Ch – llys y garion; 27: Dd –'wellysia fi, F, G, G.J. – 'wyllysiaf fi, Ff – 'wyllysiaf I; 29: B – Llys y ddysg, lle sy dda, E,F, G – llys a ddysg, G – sydd dda; 28: B,C,Ch – ddowad; 30: Ch,F,G – lle gwreiddia, D – lle'i gwreidda, E, Ff – lle i gwreiddia; 31: G – i mi;

32: B,C, E, Ff – a'i bri, G – eu bri; 33: B,C,Ch,F – gwirgerdd, D – gwyr gerdd, Dd – gwir-gerdd; 35: B, Dd – Llyfrdy dawn, llafurdai dysg, C, Ch – Llyfrdy dawn, llafurdy dysg, E – Llyfrdy llawn, llafurda i ddysg, F – Llyfrdy y ddawn, llafur da i ddysg, Ff – Llyfrdy llawn, llafurdai dysg, G – Llyfrdy y ddawn, llafur da i ddysg; 37: G – groesaw; 38: Ch – Llys roddfawr, llys wir addfwyn, E, F, G – Llys raddfawr, lles wyr addfwyn; 38: C – Llys graddfawr, lles gwreiddfwyn; 42: A,B,C,Ch,D, E,F,G – gar bron, Dd – a llys gar bron, Ff – ger bron; 43: F, G – allo synwyr; 44: D – amal gog, Dd – amal cog; 45: Ff – Llys bir oedd; 46: B,Ff – llys a bioedd, C – Llys bioedd, Ch – Llys buroedd, Dd – Llys bi oedd, F, G – Llys a bioedd roi lles bwyd; 48: D,Dd, Ff – llys o lwydd, Dd – llesol yw; 50: C – Llys roddfawr, llys wir addfwyn, Dd – gwir addwyn, G – gwareidd fwyn; 52: B – Llys fal gwlith, C,Ch, F – Llys fel gwlith, C – ywyllsfawr glod; 53: C – yr had Dduw, Dd,G – llys rhad Duw; 54: Ch – Llys unduw, ail llysendai, F – Llys unduw ail llusendai, G – Llys un Duw ail lluesndai; 55: Ch, Dd – llys gorau mawl; 57: D – Llys o berth lles a'i gwybod, E – Llys o berth lles ai wybod, F, G – Llys aberth lles ei wybod; 59: Ch – y ceis, G – hwyr y cei; 60: B – Llys aeres yw, lles arall; 61: D – lle adeilad; 62: A – yw llwyr; 65: A – Yw llys; 66: B, D, E – yw llwyddo, Dd – yn llwyddo fyth.

Golygiad Gwenllian Jones: (E.Morris: Gw 210) – 'Bywyd a gwaith Edward Morris, Perthi Llwydion', traethawd MA Prifysgol Cymru (1941)

9: 'Sgwîr; 20: glaf; 27: 'wyllysiaf; 30: lle gwrieddia'; 32: gar bron; 33: gwirgerdd; 35: llyfyrdy dawn; 38: raddfawr; 42: gar bron; 44: amal; 46: llys bioedd; 50: gŵreiddfwyn;56: 'sbrydawl; 62: yw llwyr.

Cyhoeddwyd y gerdd yng nghyfrol Hugh Hughes, *Barddoniaeth Edward Morris, Perthi Llwydion* (Lerpwl, 1902)

G – Yn ôl nodyn ar y dudalen gyferbynniol, mae llinellau ychwanegol i'w cynnwys rhwng llinellau 29 a 30 ond i gerdd arall y perthyn y llinellau ychwanegol hyn. Mae'r llawysgrif yn gyflawn ac yn gywir fel y mae.

9

Englynion i Tomas Mostyn

Gerwin yw anniolchgarwch – delwas,
Adolwg, pardywch;
Anfoddol ac na fyddwch
4 Wrth wan hen ŵr llên o'r llwch.

Petawn llanc ifanc fe'm caid – heb wyro
Yn barod wrth amnaid,
Gwas'naethwn, byddwn di-baid
8 Am was tan y Mostyniaid.

Duw ŵyr, fy synnwyr y sydd – ddiarfaeth**,**
Fe ddarfu fy 'menydd,
Fy araith a lleferydd,
12 Fy ngenau'n denau bob dydd.

Tra bo tyrfa deg, tra fo terfyn – dydd,
Tra fo dail ar gelyn,
A da gŵr, a du a gwyn,
16 'Y meistr i yw Mostyn.

Da gwelaf rodio y gwylie – i Loddaith
I wledda dan greigie;
Tan y graig fe gair seigie
20 Heb ail ond yn adail Ne'.

Ail i Nef adail oedd fod
Yn Rhos rhwng Maelgwyn a Rhyd,
Yn llys berffaith, Gloddaith gled
24 Lle mae gwres a lles a llad.

Gwin a bîr a sir, dda sud,
Ac yn fraisg bob saig yn frwd
Heb na chudd na lludd na llid
28 Onid llawenydd yno[d].

Yr Ystwyll deuaf i'm restio – i Loddaith
Bo hir lwyddiant yno,
Duw weithian a fendithio
30 Bob un yn Fostyn a fo.

Ffynhonnell:
M 96, 83

Awduraeth:
Morys Parry, Person Llanelian

Darlleniad:
Teitl: Englynion i Thomas Mostyn, Esq.
Awduraeth: Morys Parry a'i cant, Person Llan Elian
12: Fy ngene'n dene; 17: Gloddeth; 23, berfeth, Gloddeth;

10

I Tomas Mostyn

Tra fo tyrfa da, tra fo terfyn – dydd,
Tra fo dail ar gelyn,
A da gŵr, a du a gwyn,
4 ’Y meistr i yw Mostyn.

Tra fo dŵr a dyn, tra fo deri – dôl,
A thra deilio ’rheini,
Gyda Mostyn, frigyn fri,
8 Am ’y ngwadd y mae ’ngweddi.

Bendiged, triged bob tro yng – Ngloddaith,
Ang’l addas i wylio,
A thaned bendith yno
12 Ymhob man o dan ei do.

Ffynhonnell: B 14975, 309 (iii)

Awduraeth: Morys Parry

Darlleniad:

Teitl: I Thomas Mostyn o Loddaith
Awduraeth: Morris Parry, Psn Llanelian
6: gida; 8: i;12: Y’ mhob.

11

Cywydd i groesawu Tomas Mostyn i Uwchmynydd

Y llew pur, allu parod,
Iach dewr glwys, uchder y glod,
Tomas gwiw, iawndras gwindraul,
4 Mostyn hir am oes dan haul.
Hir einioes hoyw i'r wyneb
Drwy gariad yn anad neb.
Haeddai gariad, hydd gwrawl,
8 Rhyglyddu a meddu mawl.
Cu ras a serch, croeso y sydd
I chwi, mwynwalch Uwchmynydd
Gan Gadwaladr, paladr parch,
12 Wiw anwylwedd, Wyn alarch,
A'i gydwedd, oleuwedd lon,
Enwog wiwlwys, un galon,
Lle'r ydych bron, gwreiddion gras,
16 Oen y fawl, yn y Foelas.
Nid oes dyn a'ch edwyn chwi
Na chaffom yn eich hoffi.
Cael hybarch eglurbarch glau
20 Yw cael ennill calonnau.
Gorau anrheg, breudeg bron
Diwair goel, ydyw'r galon.
Cewch honno, ein bro iawn bris,
24 Dan un Duw, dyna ein dewis.
Pob hawddgarwych rwyddwych rad
Doniau gŵr, dyna ei gariad,
Cariad Duw, o cair at hwn,
28 Ni naceir, ninnau a'i carwn
O ceir dim, cariad yma
Yw lles dyn o ewyllys da.

Lles a wnaeth, ’wyllsiwn ni
32 Iddo uniawn ddaioni.
Dyna fael, daioni fo,
A dedwyddwch doed iddo.
Pob dedwydd, nod rhwydd, nid rhith,
36 Cu hoff fwynder, caiff fendith.
Pob rhoddiad, daliad dilyth,
Dylai yn fawr a’i dilyn fyth.
Gwedd ddi-feth, a gweddi fo,
40 Dda deilwng, iddaw delo
Wrth haeddiant, fuddiant feddwr,
Hawdd ei gael o haeddai gŵr
Rhad a bydd rhwydeb iddo,
44 Llew arael fyth, lle’r êl fo.
Duw yn ei borth, ni amorth neb,
Bur waith iawn, heb wrthwyneb.
Da’r elo, diwair alarch,
48 Glain y pwyll, goleuni parch,
Les da i fod i’w lys di-feth,
Drwy lwyddiant adre i Loddeth.
Llwyddiannus i’w fawrllys fo,
52 A llwyddiant i’w holl eiddo.

Ffynhonnell:
M96, 45

Awduraeth:
Edward Morris

Darlleniad:
36: ceiff; 45: amhorth

12

Cywydd i annog Tomas Mostyn adref o Lundain

Hiraethodd deutu Gloddeth,
Egni pawb yw cwyno peth,
O'r wlad amdanoch adre'
4 O ofer drwst y fawr dre',
Lle'r aethoch llawer weithian,
Fag hireth drwy Loddeth lan.
Mawr yw cwyn pob rhyw wyneb
8 A dwys yn awr, nid oes neb
Yn llawen na bae 'leni
Fwyn burdeb eich wyneb chwi
Mewn urddas eich plas a'ch plwy,
12 Fan cynnes ar fin Conwy
Mae eich arglwyddes bryd lesol
Yn wir eich disgwyl yn ôl,
A Syr Rosier, bêr ei bart,
16 Ŵr odiaeth, a Syr Edwart
Mostyn hynod a'u clod clau
Oesawg a'u harglwyddesau,
A Rosier, ifanc rosyn
20 Mewn hiraeth helaeth yw hyn,
A'ch mab, Tomas urddaswych
Rhwng dwylo Gwen yn dal a gwych
Mewn iaith deg berffaith a da
24 Yn d'wedyd, 'P'le mae dada?'
A'ch annedd yn rhyfeddu
Gy'd yw'ch taith heb gadw'ch tŷ.
Nid oes lanc ifanc afiaith
28 Yn iach wedd, na hen 'chwaith,
Na bun lwys, na benyw lân,
A ddiodde' fawr ymddiddan,

Heb lwyr ddigonol holi
Eich gwlad eich dychweliad chwi.
Mae'r hollwlad mewn trawiad trwch,
Drosti oll yn dristwch
Er pan aethoch, pen ieithydd,
O'r gywir wlad i Gaerludd.
Darfu'r amod penodol
A wnaed i ddyfod yn ôl,
Y Sulgwyn aeth ymaith amod
Yn ddiball ac addo bod
Gyda'ch plas a'ch perthnasau
Mewn llon hedd i'w llawenhau.
Yr ŷd oedd heb aredig,
Ei le i'n bro sy' lawn brig,
Yn colli ei rawn a'i ddawn dda
I'ch amod na ddoech yma.
Y prennau hyd glannau glyn
Irnerth a blodau arnyn',
Gwchion wedd yn gochion aeth
Oherwydd cywir hiraeth.
Er porfa las a brasgeirch,
Yn y maes pruddion yw'r meirch,
Prudd yw sŵn cŵn y cenel,
Gwenyn mân sy'n egwan mêl
Er blodau, nid hardd y garddau
Na'u cnwd, nid aeddfed y cnau,
A'ch pysgod da, hynod oedd
I lenwi eich amryw lynnoedd,
Yn eu rhith ni ddôn' i'r rhwyd
O wlybwr i gael abwyd,
A'ch c'lomennod gloywnod, glân,
Ond da achos yn tuchan.
A'r llech yn brudd, llochfa brain,
Lle cogor oll y cigfrain

Yn sythion eisiau'u saethu,
Egni taer a'r gynnau'n tŷ.
Nid oes draw ddim yn llawen
68 Yn y coed ond llwynog hen,
A'r dyfrgi sydd heb 'guddio
Gan ddoedyd 'Gwyn i fyd fo
Fod drymer swrth a chlog wrtho
72 Yn brudd', a chwithau o'ch bro.
Mae digon o ffyddlondeb
Yn wir yn anad i neb,
I'ch dowad yn iach adre,
76 Yn gynta' o Droea dre,
Ac alloch drwy deg 'wyllys
I feddiannau eich lle a'ch llys.

Ffynhonnell:

M96, 41

Awduraeth:
Rhys Cadwladr

Darlleniad:
Teil: Cywydd i gwyno am Tomas Mostyn, Esq, adre o Lundain; 15: Sr. Roger; 26: Gu'd yw eich taith heb gadw eich tŷ;14: i'ch; 24: pla; 69: ymguddio.

13

Cywydd i ofyn am fytheiad gan Tomas Mostyn

O hil marchogion hael iawn,
Gwâr, enwog, yw'r gŵr uniawn,
Ie, ei dad yn anad neb
4 Yn iawndeg a wna undeb.
Rosier, gwnaeth lawer o les
I'r anghenog a'r 'nghynnes,
Mostyn, y mae aml maes teg,
8 A chyn nemor pryn 'chwaneg,
A hyn yw y gŵr heini,
Baronet 'n bura i ni
Ceraint da eu braint a'u bri
12 I aer Gloddaith yw'r 'rglwyddi.
Tomas gyweithas a gwych,
Ei dro yn fwyn a edrych.
Ys dowch at Esgwier Mosdyn,
16 O fewn ei dai'n fwyna' dyn,
Iustus o heddwch a'i stôr
O wyrda dan ei ordor,
Iustus o heddwch a'i stad
20 Mor gwyredd, mawr ei gariad,
Yn ffreind i lawer, yn ffri,
Yn siwr yr â yn sieri.
O'i weled ef, eiliad oedd,
24 Y sieri yn ein siroedd,
Gŵr o ddysg a gŵr i Dduw,
Ara' doeth yn wir ydyw,
A gŵr call mawr ei allu
28 A gŵr llon dan y fron fry,
Pendefig diddig a da
Hylaw a gŵr o'r haela,

Gŵr trugarog, cefnog yw,
32 A gŵr odiaeth gwir ydyw,
Gŵr crefyddol, duwiol da,
Gwir yw, ei ddull a gara'.
Caru'r gân, wrth dân ydyw,
36 Gymraeg, ie, yma o ryw,
A'i lyfr ydi ei fyf'rdod,
Yn ddi-gêl rhown iddo glod.
Gwych yw pob tro ar y gŵr
40 Hwylus ond nid â'n heliwr.
A'i wraig dda fwyneiddia'n fyw
O fonedd mawr yw'r fenyw,
'N benna' gweddiwn beunydd
44 Yn ffest ar ei throi i'n ffydd.
Gwen o liw, gwna i ni les
Er oeri plas yr aeres.
A'i ddau fachgen glân a ddaw
48 I'w diroedd 'n wŷr i dariaw.
Yn drymion dod dy ddoniau
O Dduw, i bob un o'r ddau.
Gweddus yw clod i'w frodyr
52 A'u taith i fynd 'n gyfraith-wŷr.
Ei geraint sydd i'w garu,
On'd da i'w myned i'w du?
Yng Nghaer nid oes, nac yng nghred
56 I'w geraint well llais 'gored.
A'i siaplen sydd yn hapus
Yn ei le o fewn ei lys.
Gŵr ffeind yw Mastr Gryffydd
60 Yn ystidio nos a dydd.
Gair Duw, y mae y gŵr dwys
Da ei glod mewn dwy eglwys.
F'enaid, os dysg a fynni,
64 I Eglwys Rhos, oh! dos di,

A'i dro i Landudno draw
I weini cyn ei giniaw.
Yn ei lys, cewch, Syr Rhys, ran
68 O'r sir, o'r bir, o'r arian.
Difudd yw mynd i dafarn,
I bwy y mynwch roi barn?
Ai gŵr graddol gweddol wyd
72 A difai yn dy fywyd?
Nid difai mynd i dafarn,
Och! Gwêl beth, gwyliwch gael barn.
A'i *steward* a'i gard, ei gyd,
76 Yno yn waetio ennyd,
A'i ddau ben gwas, gras iddynt,
O wŷr hyf a ddaw o'r hynt,
Ei fir, oni fyn y fo,
80 Ei *jester* i ymgestio,
Ond ei fwtler, tyner, tal
Eto sydd yn ei atal,
Ie, a'i goetsman dan dewi
84 I'w ffreind oni bydd yn ffri?
'G'newch *room*!' medd ei *groom* yn groch,
Ymdynnu gwna amdanoch.
Draw yn dynn bydd dau neu dri
88 O'i gygod yn ymgegi
A'i *durnspit* – on'd ffit ydyw? –
O ŵr blin yn ei gegin yw?
Adail fu o'i deulu fo,
92 Deugeinyn daw i ginio,
Cerbydau ar 'gaeu'r goedd
A'i goredau gwir ydoedd.
Da in o gored Dudnaw,
96 Gleisiadau'n ddiau a ddaw.
Gyda'r don daeth i honno
Taliesyn yn burwyn i'n bro.

Cael y bardd, nid yn harddwych,
100 Trwy siawns yng nghwr y tir sych
Hawdd, hawdd i'n wybod heddiw
Y gw'rthiau'n ddiau o Dduw.
Trallawn fu gored Trillo,
104 Ildiai a fynnai fo.
Gwych yw ei g'lomendy, gwêl,
A'i ochor yn dra uchel.
Taro y mae y trowynt
108 Yn erwyn ei felin wynt
A'i waren draw ar oror
I'w thrin sydd ym min y môr.
O clyw arwydd y clêrddyn,
112 Câr addysg, dos i'r Creuddyn.
Yn y plas pennaf yno
Di gei, a bydd dda dy go',
Ie, wir glod gan y gŵr glân
116 A'i gwrw, sir**,** ac arian,
Mil chwechant, meddant i mi,
Chwedeg – on'd gwych, ydi? –
Maith yw, a dwy ar bymtheg
120 Yw oed ein Pryniawdr yn deg.
Rhoddwch a moeswch i mi
Y ceneu, rwyf mewn cyni.
O fytheiad sydd fwythus
124 Ar fyr a gyrrwch ar frys
Yn rhodd im, yn rhwydd yma,
A hardd yw'r fael ddiwael dda,
Tawbot yr wyf yn tybio,
128 Eglur fydd, y gelwir fo.
Mae yn gi torgoch glustgoch glew
Cefndu sy gan y ci c'fndew.
Yn ei fyw fo fyn yfô
132 Y geinach bach i'w ginio.

Fal y mêl af i hela,
Goreu dim, at y gwŷr da,
Weithiau i gyrrau y garth
136 I fronlle ’ddiar Brynlluarth.
Y gŵr tew, ie, a gâr toc
(Siôn Llwyd sy’ yn alluoc)
Hwylio dyfod i hela,
140 Ie, â gwên deg â’i gŵn da,
Trwy chwys, weithiau drwy chwant,
Poenus at aer y Pennant,
Thomas Llwyd, diwyd ei dôn,
144 Crych, chwyrn am sew i’r crochon.
Ni ’wnawn frad yr hen fadyn
A’i fâr sydd yn difa’r ŵyn,
A’i swydd yw lladd y gwydde,
148 Euog, anfoddog yw fe.
Os y llwynog o’r ogof
Yw gelyn pob aderyn dof,
Gelyn tost, yn y glyn toc,
152 Llynnedd oedd Siôn Llwyd i’r llwynog.

Ffynonellau
A – Nant 2, 198; B – NLW 263B, 15

Awduraeth:
Ffowc Wynn

Darlleniadau
A [-97-102; - 143-144]
B[– 51-56; -77-78; -83-90]

Teitl: A – Cy- i D.M., Esqr. ag i ofyn Bytheiad iddo ef, B – Cowydd[i] Thomas Mostyn o Loddaith escr. i ofyn bytheid ganddo ef; 4: A, B – iawn deg; 5: A – Ro-, B – Roger, A, B – Sr ger y llinell; 6: B – ar anghynes; 8: B – chyn-nemmawr; 9: B – A e[] hyn; 10: B – Baronet yn bur in ni;11: B – Ceraint (da eu braint a’u bri); 12: B – Arglwyddi; 13: A – da i braint a’i bri; 15: B – Dowch, dowch at Ysgweiar Mostyn; 16: B – yn fwyna; 18: A,B – wŷr da; 20: B – gwyredd; 21: B – ffrynd; 24: B – mewn chwe siroedd; 26: B – Ara a doeth;

29: B – diddig ŵr da; 32: B – a ydyw; 37: B – fyfyrdod; 38: B – rhof iddo; 40: A – []n hwylus; 43: B – yn benna'; 44: B – am ei throi; 49: B – Yn d[]drymion; 55: A - Yng'Aer; 57: A – Chaplain, B – Chaplen; 59: B – Gŵr ffest; 59: A – Mesitr; 61: B – y mae'r gŵr; 67: B – ceiff, A,B – Rees; 83: A – goatchman; 93: B – er gauau ar goedd; 94: B – gorerdau; 95: B – Didnaw; 96: B – yn ddiau; 110: B – sy ym; 114: A – goffadwrieth ar yml y dudalen ger 'go'; 115: B – Di gei a dal yn dy go'; 121: B – Rhodded a moesed im mi; 122: A – Y ceneu ('rwyf mewn cyni); 'mewn diffyg amdano' wedi ei ysgrifennu gyferbyn a'r llinell; 124: B – gyred; 131: B – fe fyn y fo; 133: B – Ac fel y mêl; 134: B – (Ac er dim) at y gwyr da; 136: B – oddiar Frynlluarth; 138 a 152: A – John Lloyd; 139: B – Hwylio a dyfod i hela; 144: B – Thomas Lloyd

14

I Tomas Mostyn yn ei afiechyd

Pob gloesau, glwyfau neu glefyd – o'r galon
A gilia'r fyr ennyd,
A chwedi'r boen, Iechawdwr byd
4 A rydd ichwi rwydd iechyd.

Mae gobaith diweniaith dynion – o'ch einioes
Yn ychwaneg ddigon,
I fyw mewn amser, llawnder llon,
8 Gywir aerod gorwyrion.

Ffynhonnell:
B 14975, 309

Awduraeth:
Dienw

Darlleniadau:
Teitl: I'r un gwr pan oedd yn gla' iawn; 1: Pob gloese, glwyfe ne' glefyd; 4: i chwi; 8: Gowyr.

15

Marwnad Rosier Mostyn, brawd Tomas Mostyn

Doeth i chwi ’leni, rhy lawnion – i’r wlad,
Arw loes newyddion,
Galar am frawd un galon,
4 Dyna eich briw dan eich bron.

Ymynedd rhoed Duw bob munud – i’ch einioes
A chynnal eich iechyd;
Efo a ganfu fwy gwynfyd
8 Ar ŵyl fawr yn yr ail fyd.

Ffynhonnell:
B 14975, 309

Awduraeth:
Siôn Edward

Darlleniad:
Teitl: Pan fu farw i frawd ef Roger Mostyn yn Llundain; 1: doeth i chi leni ru lownion; 4: Dyna’ch briw dan y’ch bron; 7: gwnfyd.

16

Cywydd gofyn am gwrw i Siôn Edward

Y gŵr enwog, gwiw rinwedd,
Cu orau rhad, carwr hedd,
Aer Gloddaith i roi gwleddau
4 I'r lle'n hir er llawenhau.
Pawb yno ddelo'n ddilys,
Fwyn wellhad, o fewn y llys.
Rhwydd anian, rhoddi yno
8 Ei win a'i fwyd a wna fo.
Ei gwrw a'i fir gorau fydd,
Traul union, trwy lawenydd,
Gwledd gostus o foethus faeth,
12 Gorau gwledda gwŷr Gloddaith.
Mae un i'w lys myn ei le,
Siôn Edwart, nis newidie
Mo'r plas hwn, y Brytwn brau,
16 Mael blys, er mil o blasau.
Coel yw ennill calennig
Am y tro, yma y trig.
Yma y tyr, amod tirion,
20 Wrth yfed, ei syched, Siôn.
Os tyr fyth, was taer ei fant,
Natur awchus, y trachwant,
Cysur yw ceisio ei ran,
24 Clywch ddialedd Clochydd Elian.
Dymuna Siôn, burdon bêr,
Iachus helynt o'ch seler.
Er llesiant'r 'wllysiwn
28 Hocsied bum hobed i hwn.
Mae yn ei geg, ddwysteg ddyn,
O fâr aruthr, far'oryn.

Wedi yfed fawrged fu
32 Mwy yw'r syched, mawr sechu,
Eisiau diffodd, gwirfodd gall,
Pentewyn, pennod diwall,
Yng ngheudod gŵr, clymwr clod,
36 Dwys goludd, nid oes gwaelod.
Caid Neres, ddiafles ddydd,
Yfe unwaith afonydd.
Yntau Siôn, gyson ei geg,
40 Byth chwennych beth ychwaneg.
Llyn mawr, ail llanw moroedd,
On'd llymed i'w yfed oedd.
Syn a fydd, os huna fo,
44 Bâr eilwaith ei barilo.
Dyna dywallt dan dewi
Nes yfed eich hocsied chwi.
Ei dybaco, tro nid trwch,
48 Wedi ei fir, yw difyrrwch
Siôn, ŵr helaeth, sy'n rhylew
O'r tân i'r gwlyb, tynnwr glew.
Coelion sydd, cael a wna Siôn
52 I'w dda agwedd ei ddigon,
Os oes dim all, freugall fri,
Dda gynnyrch ei ddigoni.
Mi a weddia', llawndra llwyr,
56 Fi a Siôn fwya' synnwyr,
Llawer gwyliau, llwyr goelio,
Llawn fydd a llawen a fo
Eich wyneb, holl undeb lles,
60 Wych rugl wedd, a'ch arglwyddes,
A'r hocsied pa weithred well?
Dda gu amod, ddigymell,
Fawr gwymp ar fir i gyd,
64 A chwechyn at eich iechyd.

Ffynhonnell:
M 96, 45b

Awduraeth:
Edward Morris

Darlleniad:
Teitl: Cywydd i ofyn Hogsied o fîr yn galenig i Siôn Edward
30: faroryn; 37: Nerress; 44: i barilo; 64: chwchyn

Darlleniad traethawd M.A. Gwenllian Jones – ‘ Bywyd a Gwaith Edward Morris, Perthi Llwydion’:

Teitl: Cywydd i Ofyn Hogsied o Fir yn Galennig i Siôn Edwart.
3: Gloddaeth; 12: gwŷr Gloddaeth; 19: Yma tyr; 27: yr ’wyllysiwn; 28: Hogsied; 30: farworyn; 37: Nerxes; 38: yfai; 42: ond; 44: Bâr eilwaith y barilo; 46: hogsied; 48: Wedi’i; 55: Mi weddïa’; 61: hogsied; 63: [ei] fir; 64: chwchyn.

17

Cywydd yn Galennig i Tomas Mostyn

Yr haul teg, rheol wyt ti,
Olwynog yw d'oleini,
Dy gariad yw magwrieth
4 A rhoi i bawb bob rhyw beth.
Grymus arglwydd dedwydd, da,
A diddan cyn bod Adda,
Hŷn ydwyd, hyn ni wedir,
8 Na chnawd dyn, ochenaid hir,
Ein Duw yn groyw a'th greawdd
I'th roi i ni a thrwy nawdd
Llygad y byd, dall agos,
12 Hebot ti sydd i ni nos
A'i galon deg, olwyn o dân,
Gynnes yn wresog anian.
Drwy angen, rhaid dringi'n rhwydd
16 Gyrrau y deuddeg arwydd,
I roi pob rhad a mad mau
Diamhuredd dymhorau.
Ias fywiol, nid oes fywyd
20 Heb dy faeth, bennaeth y byd,
Dy rinwedd ydyw'r einioes
Oll inni, ganhwyllun oes.
Meirch dy gerbyd tanllyd ti
24 Amrosgo sydd mor wisgi
Nas gwelir ôl eu pedolau
Ar ryw gwr i'r awyr gau.
Gyrfa redeg fawr odieth,
28 Gwmpas y byd, gampus beth,
Yw dy swydd dedwydd, di-dwyll,
Yn llon barch a llawen bwyll.
Dy lygaid a wêl eigion

32 Duoer grwst ein daear gron.
Pybyr greadur ydwyd,
Wybren yn wir brenin wyd
Diddan ac anrhydeddus
36 Ymhob rhyw fan, llan a llys.
Deg o gennad, dwg annerch,
Rwydda swydd, fel arwydd serch,
At Tomas, llew urddaswych,
40 Awdur y gerdd, penadur gwych,
Aer Mostyn o Fostyn fawr,
Orau gwleddfan ryglyddfawr,
A Gloddaith, odiaeth ydyw,
44 Man is yr haul, mynwes rhiw
Ac amryw le o Gymru lân.
Dedwyddwch i'w dai diddan
Tyn yr haul attyn' yn rhwydd,
48 Dywed eiriau, dod arwydd,
T'w'nned dy wynepryd dawnus
Yn helaith ar Loddaith lys.
Arch lwyddiant orchwyl addas,
52 Bendithion blithion i'w blas
A chynnydd yn ychwaneg,
Gynnes dw' ac einioes deg
Iddo a'i 'rglwyddes fawrlles fydd
54 Gannaid liw, blodau gwinwydd,
A ffrwyth ei bru, berffeithia' bron,
Cadeiriog fal coed irion
A'u enwau a'u braint yn ein bro
60 O gariad i flaguro.
Dod rinwedd rhyfedd ar hyd
A thoraeth, helaeth wryd
A phob cynnydd dedwydd da
64 I sylfaen ei breswylfa.

Ffynhonnell:
M 96, 80

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniad:
Teitl: Cywydd i anfon yr haul yn gennad at y gwir barchedig Thomas Mostyn o Loddaith, Esqr. i erfyn llwyddiant i'w deuluoedd yn galennig ddydd Calan neu Ddydd yr Enwaediad, 1679.
Awduraeth: Syr Rhys Caddr. a'i cant

18

I ofyn diod i fwtler Gloddaith

Cwyd, Gabriel dawel, a dod, – adolwg,
I'm dwylo beth diod;
Oni chaf, ni thry 'nhafod,
4 Ddyn deg lais, i ddwyn dy glod.

Ffynhonnell:
NLW 11999B, 19

Awduraeth:
Morys Parry, Person Llanelian

19

I Gabriel, bwtler Gloddaith

Annwyl in Gabriel enwog, – llew nerthol,
Llun Arthur galonnog,
Hepe ddewr-glân, heudda aur glog
4 Am orchwyl yn llys marchog.

Ffynhonnell:
NLW 11999B, 20

Awduraeth:
Siôn Edward

Darlleniad:
Awduraeth: J.E.; 1: [ ]wyl (rhwyg yn y llawysgrif); 1: yn; 3: heudde.

20

Cywydd i ofyn cymod Tomas Mostyn

Tua Gloddaith, tŷ gwleddoedd,
Troes y mawl at reswm oedd.
Tŷ bonedd ei gyfedd gwin,
4 Wych ffrydau**,** a chyffredin;
Caer bwrdd hael, caer beirdd yw hon,
Caer y ddwyradd cerddorion.
Caerau mawl lle cair y medd,
8 Caer trueiniaid, cwrt rhinwedd,
Caerau braint, cywir heb rith,
Caer i fynd, ceir y fendith.
A'r gŵr hael o'r wiwgaer hon,
12 Pwy yw 'nghoel, piau 'nghalon,
Fy holl ateg, fy llety.
Is gwar craig, ysgwier cry,
Tomas Mostyn, rhosyn rhad,
16 Tarian gwŷr, tirion gariad,
Aer y barnet, wir burnerth,
Mostyn yw, mae oes dan nerth,
Gwinllan aur o ganllin ach,
20 Gwinwydd heb neb amgenach.
Ei fardd a fûm i'w fwrdd fo,
Ba atal na bwy' eto?
Ai gwir brig y gwŷr a'u bro,
24 Och, Dduw agwrdd**,** iwch ddigio?
Os gwir fyth m'sgora fi
Y dig hwn o daw cenny',
Ac yn fy mai gwn fy mod
28 Yn debyg un diwybod.
Lle bu ar gwymp a llwybr gwaeth
Fai'n y byd f'anwybodaeth,

A fu’r achos o frychau,
32 Nid rhyfyg oedd trofa gau,
Bu oernych a bai arnaf,
Coffais nych, cyffesu wnaf,
Od wyf ŵr edifeiriol,
36 Beth a wnaf na bythwy’n ôl?
Ymgrymu? Llechu’n y llwch?
A darostwng o dristwch?
Eryr ych, ara’ rychawr,
40 Dryw gwan wyf i drwy gŵyn fawr,
Llew ydych chwi lle daw’ch ail
Oenyn wyf, wan anifail.
Na rowch, arwgaeth roch oergam
44 Bwys derwen a’r gorsen gam.
Craig fawr ei nerth, serth a sai’,
A graeanyn a grynai.
Tŵr ydych at hir rwydeb,
48 Bwth gwan wyf, ba waeth gan neb?
A’i arf ddur, awch bur, uwch ben
A rydd ddul ar y ddeilen,
Truan ydwyf, trinedig,
52 Oes lew a’ch deil islaw’ch dig.
Wych gaead hydd, eich gwaed da,
Oreugwr, a rywioga’,
Ŵr iawn ei glod i roi’n glau
56 Imi nawdd am ’y nyddiau
Paen da ei afael, pendefig,
Naws diwael ddawn, nis deil ddig,
A gŵr gwael a gâr gilwg
60 Yn wrengyn fal drengyn drwg.
Trugarog at ragori,
Caru eich iaith y ceir chwi,
Rhywiog ŵr cu, rhagor cant,
64 Rhwym Dduwiol, rhoi maddeuant.

Ymlaen hyn, ymlawenhau
A ’nawn ’danoch, nen doniau,
Eich nawdd im a chynnydd iaith,
68 Atolwg, eto eilwaith,
On’d e’ ni ddaw un dan ddig
Yn eich wyneb na chynnig.
Eich arglwyddes, duwies dawn,
72 Wraig annwyl, rywiog, uniawn,
Hon yn f’oes a’i henw yn faith
A’ch dwg im o’ch dig ymaith.
O cha’i unwaith eich wyneb,
76 I’n bywyd ni ethryd neb,
Dof i’r llys, difyr wellhad,
Draw i ganu drwy gennad,
Nid er rhodd ond er heddwch
80 Â’r llaw am cyfyd o’r llwch.
Tramwyo wna’i trwy ’mywyd
I ganu mawl, gwyn ’y myd.

Ffynhonnell:
M 96, 73

Awduraeth:
Edward Morris, Perthi Llwydion

Darlleniadau’r llawysgrif:
Teitl: Cywydd i ofyn cymod y Parchedig Thomas Mostyn o Loddeth, Esqr.
26: cenni; Edward Morys a’i cant, 1683

21

Cywydd Moliant i Tomas Mostyn

Rhoddais fy mryd, munud mau,
Ofer ydoedd fwriadau,
Bryd mawr a bwriad am iaith
4 A'r bryd oedd ar brydyddiaith.
Rhodiais y wlad, gariad gwŷr,
Ymofynnais am fwynwyr,
Gorau gwŷr, gwiwryw agwedd
8 A garai'r iaith, geirwir wedd,
A chlywais fod achles faith,
Angel addwyn yng Ngloddaith,
Gŵr fyth y gorau a fyn
12 Grymusdaith ac aur Mostyn.
Tomas yw cotwm y sir,
Tirion fawl, teyrn a folir,
Ysgwîr iawn, ais gwirionedd,
16 Lle dwyn glod â llydan gledd.
Aer Syr Rosier, mwynder maeth,
Yn deilwng iawn waedoliaeth,
Piler ireidd-der yr iaith,
20 Pinagl addwyn pen Gloddaith.
Llew enwog, calonnog, clau,
A'i feirddion ar ei fyrddau,
Ac yn mawrhau, gorau gwaith,
24 Fwriad hynod Frutaniaith,
Lle mae llawer, trymder tro,
Naws gloes, yn ei hesg'luso.
Gorau ffraethlew, gŵr ffrwythlawn,
28 Gŵr dewr wych a gordia'r iawn.
Digynnwr' yw'r gŵr ar goedd,
Un rhywiog iawn yn rhoi gwinoedd,

A’i wraig wen, rywiog winwydd,
32 Dirion un foddion a fydd.
Doethum i’w lys ddawnus, dda,
Bêr anneddfawr, bur noddfa.
Ei fawr serch a’i fir y sydd
36 ’Rŵan gwn ar iawn gynnydd.
Mae gwirionedd, lwybredd les,
Wedd glaear oedd a glywes,
Gŵr gweddaidd geiriau gwiwddoeth,
40 Gwiw rywiog ddull a gwraig ddoeth,
A theulu glân diddanawl,
Ac yn eu mysg eigion mawl,
Ac yn y llys egni llon,
44 Ac er seigiau gwresogion,
Cu eigion dawn cegin deg,
Sylwedd cegin Maesaleg,
Seler hardd, sail orau hynt,
48 Neuadd hael, unwedd helynt.
Tŵr a sai’n hir tros ein hiaith,
Teg oleuddawn tŷ Gloddaith,
Llys Madog, lles mwy ydoedd,
52 Gwiwlewddoeth ŵyl Gloddaith oedd.
Yno’r aeth yn awr weithian,
Cymraeg lwys y Cymry glân,
I holl gysur eglur iaith
56 A’i gwiw lwyddiant yw Gloddaith,
A’r beirddion o wir burddysg,
A fu yn llawn dawn a dysg,
Yn danfon mawl, deddfawl daith,
60 At haelion y tair talaith.
Drwy burawch dysg, drwy barch da,
Yn cael arian yn clera,
Caen’ raddau breiniau ger bron,
64 Dwys agwedd, gan d’wysogion,

Ac yn awr, gwynan' oeredd,
Yr aethon' yn waelion wedd,
Heb na ched, adduned dda,
68 Na chael arian na chlera,
Na gwŷr mawrion, ffrwythlon, ffri,
Iawn hyffordd yn eu hoffi.
Un gŵr llon a gâr eu llais
72 Yw'r hynod ŵr a henwais.
Myn gerdd deg, myn gyrraedd dysg,
Myn gywyddau mewn gwiwddysg,
Myn englynion breisgion, brau,
76 Mwyn adlais a myn awdlau.
Myn bob cân fwynlan a fo,
Yn lys annwyl i seinio,
A minnau a ddymunwn
80 Fy mod yn fardd hardd i hwn,
I brydu mawl, bwriad mwyn,
Yn anneddfawr, yn addfwyn,
I chwilio dawn a chael dysg,
84 Pencerddiol pynciau eurddysg.
Ei holl 'wllys, dawnus daith,
Am ragori'r Gymreigiaith
A'i gariad pur, cysur co',
Teilwng, un Duw a'i talo.

Ffynhonnell:
M 96, 74

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las, 1683

Darlleniad:
15: Esquier

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las'

Teitl: Moliant Tomas Mostyn (IV); 5: Rhodies; 7: goreugwyr; 12: Grymustaith ac; 15: esgwier; 17: Rhosier, maith; 18: waedoliaith; 26: hesgluso; 35: ysydd; 36: rowan, iwan; 42:

ag; 43: ag; 45: ager; 52: gwiw lewddoeth hwyl; 54: glwys; Eu holl; 56: A'u; 61: bur awch; 63: gar; 64: dwysogion; 65: Ag, gwynaw; 71: gŵr llên; 78 I'w lys; 82: I'w anneddfawr; 86: Am ragor i'r Gymreigiaith; 88: Unduw.

22

Cywydd ymddiddan rhwng y Prydydd a'i Awenydd

Prydydd:

Fy awenydd fai annoeth,
Fae'l egwan bwnc, fel gwŷn boeth.
Pa gynnwr iaith, pa gân rydd,
4 Bu'n mynych boeni 'mennydd?
Poen drydar pendro ydwyd,
Pry'n y pen, pa r' anap wyd?
Pa ofer sŵn, pa ferw sydd
8 Pa ruadwr yw prydydd?
Paid â'r gerdd, pe doi awr gall,
Paid awen, pwy a'i deall?
Pa astudio, pwys dadwrdd?
12 Pa' na ffoi o'r pen i ffwrdd?
Pa ryw sŵn parhaus ynof?
Pa ddilio cerdd, pa ddal cof?
Pa barch yw pybyrwch iaith?
16 Pa ryw ennill pur unwaith?
Ai'r miwses, 'rwy'n ormeswr,
A dâl dreth ac ardrerth gŵr?
Prudd westle, pwy rydd wystlon
20 Amlhau cerdd am Helicon?
A phwy a bryn fryn, yn frau,
Parnasus, purion oesau?
Myfi werthaf, trymaf tro,
24 Hwyl annoeth fy hawl yno.
Bûm golledwr, rhodiwr rhydd,
Ry fynych ar fy 'wenydd.
Colli wneis, cell awen iaith,
28 Oer fryd hen ar Frutaniaith.
Coll amser ofer afieth,

Colli budd, cael llai o beth,
A cholled na wyped neb
32 Colli ennill callineb.
Nid o'm cerdd, fel oferddyn,
Y daw lles, 'rwy'n deall hyn,
A rhy hwyr, mae'n llwyr y llais,
36 O dôi wall, y deuellais.
Celaf addysg celfyddyd,
Seisnigedd yw bonedd byd.
O'r Saesneg deg y digwydd
40 Pur iach wellhad, parch a llwydd
Can oes ws'naeth cawn Saesneg,
Llafur tâl, a llyfrau teg,
A gwaith ein beirdd, gwaeth yw'n byd,
44 Mewn llai achles, mae'n llychlyd.
Llafur ein hoes, llyfrau'n hiaith
A dalennau dilanwaith,
Pob barcutan llyfran llwyd
48 Heb lai acw a bliciwyd.
Colli'r plu, cael llawer plant,
A rhai eger ai rhwygant.
Pob dalen, gwelen' g'wilydd,
52 Yn tanio tybaco bydd.
Mae iaith gain Prydain heb pris,
Mae'n ddiobrwy, mae'n ddibris.
Darfu ar feth, dirfawr fodd,
56 Ei 'mg'leddiad a 'mgwilyddiodd.
Y Gymraeg a gam rwygir,
C'wilydd ar gywydd yw'r gwir.
Darfu ei braint, a'i faint fu,
60 Ai mewn lloches y mae'n llechu?
Na choded yn iach wedi,
(Mawr yw hyn oll) o'm rhan i.
Pa awr a'i dwg, pa wŷr da?

64 Pa sicrwydd, pwy a'i swcria?
Pwy a wneiff, nid o'm pen i,
Nod addysg, farwnad iddi?
Taw Awen, gad, rhwymiad rhydd,
68 Poen lanwaith, i'm pen lonydd.

Yr Awenydd yn ateb:

Ow'r Brytwn annhalgrwn hwyl,
Fu o'i 'wenydd fwy annwyl,
A ddigiaist ti, ddygas dwyll,
72 Wrth d'awen, araith dywyll?
Anufudd dro, na fydd drwm,
Duw a'm rhoes, dyma rheswm.
Dawn Duw ydwyf, dyn didwyll,
76 O'm hiawn arfer purder pwyll.
Gwnïa di'r iaith, gwna dy ran,
Da yw d'wyllys dod allan.
Ac na thristâ**,** llawna' llid,
80 I'm plâu agos o'm plegid.
Mwy rhad yw, mawrha d'awen,
Di gei barch a dwg i ben.
O'r gelfyddyd, poenfryd pell,
84 Nid oes golled, dysg wellwell.
O borthmoneth, gobeth gwan,
Mae colled a'm cau allan.
Os troi at Saesneg, deg daith,
88 Nid oes drin ond estroniaith.
Mwyn glod hir mae i'n gwlad hon
Fagad o bendefigion
Eto garant deg eiriau
92 Y bur iaith hen heb wartháu
Dwg cŵyn i'r rhain, di ai cei'n rhwydd
I ti'n swcraeth tan sicrwydd.
Y pinagl iaith penna' ei glod

96 Yw aer Mostyn, rym ystod,
Tomas o rad diamarch,
Aer Syr Rosier purder parch.
Aer â'i genedl ar gynnydd,
100 Aer marchog yn farchog fydd.
Aer Gloddaeth o arglwyddwaed,
O fawrhydi gwythi gwaed.
Colofn yr iaith, odiaith ŵr
104 Am glau addysg, a'i 'mg'leddwr.
Sêl o fewn oes, sylfaen iaith,
A brawd hynaf Brutaniaith.
Cais i'r fan, cysur a fydd,
108 Tyn di yno tan ei 'denydd.
Penna' o'r llwyth, pwy wna'r lles,
Aer Gloddaeth a'i Arglwyddes.
Aeres i fil a roes fudd,
112 O ryw Savage, ras ufudd.
Dau hoff annwyl, da eu ffyniant,
Gwres hap a lwc, gras i'w plant.
Gyda hwn i'w gyd-henwi
116 Yn glod a nerth i'n gwlad ni
Mae un arall, mwyn eryr,
O'i gymdogeth, gobeth gwŷr,
Ei gâr, enaid gwirionedd,
120 Robert Wyn oreubert wedd,
Aer y Berth Ddu, rwyddgu ran,
Dwys gall, a Bodysgellan.
Mur ceraint, mawr eu cariad,
124 O fawl a dull fel ei dad.
Fe gâr yr iaith glodfaith glau,
Câr feirddion, ceir i'w fyrddau.
Dyna ddau, daioni ddêl
128 Yn dynged i'n dau angel.
Llewod agos lle digir,

Dau oen i'r gwan, dyna'r gwir.
Purwych haeddgamp, parch hawddgar,
132 Cymraeg hen, Cymru a'u câr.
Dos i'w llysoedd, lluoedd llawn,
Gwa'dd a gefaist, gwedd gyfiawn.
Na chyrch o anwych orchest,
136 Cymer wadd un cam ar west,
A rhwydded oll rhoddwyd it
Wahoddion, er na haeddit.
Cei o fwyndra cyfiawndrefn
140 Dau enwog ŵr, a Duw'n gefn.

Y prydydd

Da gwneist hepgor cyngor co',
I'm fy 'wenydd, mi af yno.
Duw o fwynder dy fendith
144 Drwy gwplâd a drig i'w plith.

Ffynonellau:
A – C 23, 294; B – M 96, 47; C – P 198, 85;
Ch –NLW 11087, 144; D – Ba (M) 13, 17a; Dd – B14890, 302; E – P 245, 233;
F – NLW 4971, 430; Ff - B 14876, 646; G – Cw 448, 15; Ng – Ll 166, 104;
H – C 64, 187; I – Wy 7, 179; J – NLW 11567, 10; L – B 15010, 107a;
Ll – Ba 93, 23B; M – Ba 758, 24; N – NLW 17528, 153; O – C 4.9, 156;
P – M 130, 305; Ph – B 14962, 256a. R – C84, 237; Rh – NLW 783, 9;
S – NLW 666, 3; T – B 31093, 195a; Th – NLW 4995E, 26.

Awduraeth:
Edward Morris, Perthi Llwydion

Darlleniadau:
Trefn y llinellau:
A, Rh, S a Th – 1-144;
J – 1-137, 139-144;
B,C,D,Dd,E,G,L a P – 1-98, 101-102, 105-106, 103-104, 107-144;
Ch – 1-14, 17-66, 69-86, 89-92, 95-98, 101-102, 105-106, 103-104, 109-130, 133-138, 141-144;
F,M – 1-18, 25-52, 55-68; 69-78, 81-92, 95-98, 101-102, 105-106, 103-104, 107-124, 127-144;
Ff,Ph – 1-6, 13-58, 65-82, 93-98,101-102, 105-106, 103-104, 107-144;
H – 1-98, 101-102, 105-106, 103-104, 107-128, 131-144;
R – 1-92, 95-98, 101-102, 105-106, 103-104, 107-144;

T – 1-44, 49-98, 101-102, 105-106, 103-104, 107-144;
I – 1-24.

Teitl: A – Cowydd yn yr hwn y mae prydydd yn ymliw ai awen am ei ddenu i wario ei amser wrth y gymraeg yr hon sydd wedi colli ei braint, ar awenydd gan atteb yn ei gynghori ef i fyned am nodded lle byddai tebycaf yw chael sef at y parchedig Thomas Mostyn o Loddaith a Robert Wynn o fodysgellan Esqs.
B – Cywydd yn 'r hwn y mae'r prydydd yn ymliw ai awenydd am i ddenu ef i wario ei amser wrth y gymraeg 'r hon sydd wedi colli ei braint ar awen gan ateb yn i gynghori ef i fyned am nodded lle byddai tybycaf iw chael yn enwedig at Tomas Mostyn o Loddaith a Robert Wyn o Fodysgallan Esq.ried.
C – Cowydd yn yr hwn y mae'r prydydd yn ymliw a'i Awen am i ddenu ef i wario i amser wrth y Gymraeg yr hon sydd wedi colli i braint, Ar awen gan ateb yn ei gynghori ef i fyned am nodded lle byddai tebygol iw chael, sef at y Parchedigion Thomas Mosten o Loddaith a Robert Wynn o fodysgellan, Esq.s
Ch – Cywydd ym ymliw rhwng y prydydd ai awenydd
D – Cowydd yn yr hwn y mae'r prydydd yn ymliw ai awenydd am i ddeni ef i wario i amser wrth y gymraeg, yr hon sydd gwedi colli ei braint. Ar awen gan ateb yn i gynghori ef i fyned am nodded lle bydde tebycaf iw chael, sef at y parchedig Tho. Mosty, a Robt Wynn, Ygr.
Dd – Cywydd yr Awen
E – C. ymddiddan rhwn y Prydydd ai Awenydd
F – Dechre Cowydd yr hwn mae Edward Morus yn ymliw ai awen am i ddenu i golli ei amser. Dechreu'r ail Cowydd yr awen yn i ateb.
Ff- Cywyd ymdidan rhwng Bard a'i Awenyd
G – Cowydd o ymddiddan rhwng prydydd ai awenydd
Ng – Cowydd yn'r hwn y mae'r prydydd yn ymlio ai Awenydd am i ddenu i wario i amser wrth y cymraeg yr hon sydd gwedi colli i braint ar Awenydd gan atteb yn i gynghori ef i fynhad amnodded lle byddaj dybycca iw chael sef at y parchedig Thomas Mostyn o Loddaith a Robert Wynn o Fodysgellan, Esq.s
H – Gŵr yn gofyn cyngor iw awen drwy ymddiddan a hi pa le y cyngorau hi iddo fynd er swcwriaith iddi hi.
I – Cywydd yr Awen gwaith Ed Morus
J – Cowydd yn yr hwn ymay prydydd yn ymliw ai awen ami ddenu i wario ei amser wrth y gymraeg yr hon sydd wedi colli ei braint ar awenydd gan atteb y i gynghor ef i fyned am nodded lle byddeu tyebyccaf yw chael sef at y parchedig Yhomas Mostyn o Loddeth a Robert Wynne o fodysgellan. Esqes.
L – Cowydd o ymddiddan rhwng y Bardd ai Awenydd
Ll – Cowydd yn yr hwn i mae'r prydudd yn ymymliw ai awenudd am i ddeni i wario i amser wrth y gymraeg yr hon sudd gwedi colli i braint ar awenudd gan atteb yn i gynghori ef i fyned am nodded pe byddau tebyca i'w chael sef at y Parchedig Thomas Mostun o Loddaeth a Robert Wynne o bodysgellan Esqr.
M – Dechre Cowydd yr hwn y mae Edward Morus yn ymilw ai Awen am ei ddenu i golli amser; Dechre'r ail gywydd yr awen yn ei atteb.
N – Cowydd yn yr hwn y mae'r Prydydd yn ymliw ai Awen am ei ddenu i wario ei amser wrth y gymraeg yr hon sydd wedi colli eu braint, ar awenydd gan atteb yn ei gynghori ef i fyned am nodded lle byddau Tebygol yw chael sef at y Parchedig Thomas Mostyn o Loddaith a Robert Wynn o fodysgallen Esqr.
O – Cywydd edliw rhwng y Prydydd ai Awen

P – Cowydd yn yr hwn y mae'r prydydd yn ymliw ai awenydd am i ddeni i wario ei amser wrth y Gymraeg, yr hon fu wedi colli ei braint: Ar awen gan atteg yn i gynghori ef i fynad am nodded, lle bydde debyccaf iw chael sef att y parchedig Thomas Mostyn o Loddeth, a Robert Wynne Bodyscellen, Esq
Ph – Ymdidan rhwng y Bard a'i Awenyd
R – 'Cywydd ymliw rhwng y Prydydd ai Awenydd' wedi ei newid i 'Cywydd yn yr hwn y mae'r Prydydd ym ymliw ai Awenydd am ei ddenu ef i wario ei amser wrth y Gymareg yr hon sydd wedi colli braint. Ar Awen yn ei atteb ag yn ei Gynghori ef i fyned am nodded lle byddai efe tebycca iw chael. Sef at y Parchedig Mr Tho: Mostyn o Loddaith a Mr Robert Wynn o Fodsgallen.
Rh – Dechre cywydd yr Awen ai gyry lle mae mwya o groeso
S – Cywydd y Prydydd yn ymliw ai Awen
T – I'r Awenydd
Th – Cywydd y Prydydd yn ymliw ai Awen

[Ar ddechrau'r gerdd:] Ch – Pr:; D – Y Prydydd yn dechrau ('yr ail tro' wedi ei ychwanegu mewn inc gwahanol); F – Cowydd yr Awen; Ff – Y Bard.; G – Yr Awen; L – Y Bardd; P – Bardd;

1: Ch – Pr: ar yml y dalen, D – Y Prydydd yn dechrau, D – fri annoeth, L – Ti fy awenydd, N – fai ynof anoeth, Ph – awenyd, Rh – a fy annoeth; 2: Ch – Fu egwan, fal, F,M,R – Fy egwan, Dd,I, T – Wael egwan, E, H,J,Ph, S,T,Th – fal gwyn, G – Fath egwan, Ng – Fal egwan, H – Fel, J,L – gwun, L – Fath egwan Bwngc fal gwyr boeth, O – val; 3: Ch – ry, Ff,Ph – ryd, T – gynnwrf; 4: Ch – Bu yn, F, Th – ymenydd, Ff,Ph – Poen mynych poeni menyd, Ng,J – Bu mynych boeni ymenydd, M – y menydd; 5: F,M, Rh,S,Th – ydwyt, N,O,Th – Pa drydar; 6: A – pru, Ch – pry yn, D,I,Ll – Pru yn y pen par anhap wyd, E, G, – Pru yn y pen par anap wyd, F, M – Pru yn y pen par anap wyt, Ff,Ph,R – Pry'n y pen, pa'r anhap wyd, J – Pry yn y ben par anhap wyd, L,N, P,S,T – Pry'n y pen par anap wyd, Rh – Pry yn y pen par anap wyt, Th – pa anhap wyt; 7: E,G,H,L – Pa ofer swydd, pa ferw sydd;8: D, Dd, E,H.I,J,T – yw'r, F – yw yr, G,P, Rh – i'w 'r, M – ruadr yw'r, R – Pa ruadr iw y pyrydydd; 9: A,B,C,Ch, D,Dd, E,F, Ff,G,Ng,H,I,J,L,Ll,M,N,O,P,Ph,R,Rh, S,T,Th – ar, J – pe dae, F – Paid ar gerdd p[ ] Daeawr goll, M – pa dae, Rh – pa doe, Th – air gall; 11: Ch,L – studio, D,G,H,I,O,R,Rh,T – ystudio, F, J – stydio, M – stidio; 12: C,Ch,Dd,E, Ff,H,T – Pan na, D, J,L,M,P,Ph,Th – Pam, F,M – o'm pen, I – ei ffwrdd, J – ben, O – foi, fwrdd; 13: D – yno, Ff,Ph – Pa'r a sŵn parhaus yno? Th – rhyw; 14: A,P,S,T,Th – ddulio, D – co', Ff – Pa duli cerd, pa dal cô? Ph – Pa dulio cerd pa dal co?; 15: D,F, Ng,Ph – i'w, E – pyburwch, G,H,I,L,S – pyburach; Ll – pyburbarch, N,R – Pa barch pyburwch iaith, O – pybyrwych;16: T – Pa ryw enw; 17: B,C,Ch,D,R – Ai 'r muses (wyf ormeswr), Dd – Ai Muses wyf or Meswr, E, L – Ai'r Miwsus wyf ormeswr, F – Au miwsus wut or Mesur, G – Ai Miwsus wyf ormewswr, Ng, Ll – Ai'r misis rwy yn ormeswr, H – A'r Miwsus wyd ormeswr, M – Au miwsus wut or mesur, P – Ai ir muses rwyf ormesswr, Ph – Ai yr miwses yr wy'n ormeswr, S – Ai ir Miwsis yr wy'n ormeswr, T – Ai Muses [bwlch], Th – Ai i'r Muses rwy'n ormeswr;18: D – nag ardreth, N – at arderth, R – Y dal dreth ag ardreth, F,M – gwŷr; 19: Ff,Ph – Prud westlau, pwy ryd wystlon, G, H,J,L,Rh – Prydd, H – westlau, R,S – westl; 20: E,G,L – I amlhau, Ff,Ph – cerd, Th – Am hau cerdd; 21: Ff,Ph – fryn frau, R – y bryn; 22: A,G,L – parnasws; 23: Ch, Ng,R – Myfi a wertha, tryma tro, G,Rh – Myfi a werthaf, H,T – Myfi wertha' tryma' tro, Ll – Fy fi a wertha, Ph – trimmaf; 24: R – <u>unwaith</u> fu [ychwanegwyd 'anoeth' ar ddiwedd y llinell]; 25: Ff,Ph – rhyd, Ng – rhodir rydd; 26: Ch, Ff,M,Ph,R – Rhy, F – Rhu, B,C, Dd, E,O,T,Th – f'awenydd, D,F,Ll,M,Rh – fy awenydd, Ff, Ph – f'awenyd, P – Rhi, R – fu; 27: C,Ch,D,J, LL,Rh – Colli a wneis, Dd – Colli a

wnawn, F – Colli awnes, G, H,L,Ph,Th – wnes, Ng – cellawen, H – coll, R – y wneis, M – a wnes, T – Colli wnawn; 28: A,Rh, Th – Oerfryd, H – y Frytaniaith, P – Frydtaniaith, R – Frydaniaith; 29: D,Ll,M,P,T – Colli, L – Colli amser ber afieth, R – Baili amser [ychwanegwyd 'colli' ar ddiwedd y llinell]; 30: Ff,Ph – bud, J,L R – bydd; 31: Ff – Colled, P – A colled; 33: B,G,S – fal, Dd,T – wyf oferddyn, Ff, Ph – cerd, oferdyn, J,Rh – am, O – val; 34: G, H,L – I daw; dall, Ng,Ll – 'rwy yn; 35: Dd,T – llwyr y llês, Ff,M,Ph – fy llais, Ll – mae yn, Ph –rhywyr; 36: C,D,G,H – well, D, Ff,R – deallais, Dd,T – A dau well y dealles, E – i deullais, F – Od iw wall y Deallais, G – i deallais, L – Y doe well i deallais, M – Od yw wall y deallais, N – O doe wall deuellais, P – O do i well y deallais, Rh – O dae wall y deuellais [ychwanegwyd 'doe' ar yml y llinell], S,Th – O doe arall y deallais; 37: Ff,Ph – adysg celfydyd, J – [Ail ysgrifennwyd y llinell ar y llinell nesaf hefyd]; 38: C – Saesnigedd, Ff,Ph – Seienigaid, bonaid, Ll – y bud, M – y byd, R – Sasnigedd; 39: Ff ,Ph– digwyd, J,N, R,Rh,S,Th – Ar, M,P – O Saesneg, O – A Saesneg, T – i digwydd; 40: D – Puriach, Dd,H,G,L,T – Purach wellad, E – purach, Ff – llwyd, J,Rh – Pur iaith; 41: C,D,E,G,P – wasaneth, Dd – was'naeth, F,M – Can os wsnaeth, Ff – Can os wasanaeth, Ng – cwyn Saesneg, H – Can wasaneth, L – Gwaith yw yn llais, Ph – Can os wasnaeth, T – Canoes wasnaeth, Th – Can oes cosmaeth; 43: B – yw ein byd, F – A gaith ein beirdd gwaeth yw yn byd, Ff – Gwaith ein beird gwaeth yw i'n byd, Ng – A gwaith yn beirdd gwaeth yw yn byd, M – Ag iaith, P – A gwaith yn, Ph – Gwaith ein Beird, gwaeth i'n Byd, T – gwaeth yn byd, 44: Dd,F,G, Ng,J,L – yn llychlyd, T – Mewn llu achles yn llychlyd; 45: B,LL,N – ein hiaith, Ch – A llyfrau ein hoes llafur ein hiaith, F,M,R – A llyfrau'n hoes, llafur ein iaith, Ff,Ph – Llafur ein hoes, llyfrau'n Iaith, Ng – Llafyr yn hoes, llyfrau ein hiaith, J – Llafyr ein hoes, Llyfre ein hiaith, L – Llafur hoes llyfrau'n Hiaith, Rh – Llafur in hoes llyfrau ein hiaith; 46: B,D, Ff,H,J,L,N,P,Rh, dolennau, G – A Dolenau o'i lanwaith; 47: B – byrcuttan, Th – barcutau, llyfrau; 48: Ch – Yn llai, Ff – bluwyd, Dd – Heb elw acw a blyciwyd', G – bliceiwyd, Ng – Heb gai, J – bliccwyd, R – y blicciwyd; 49: B – Cael 'r plu, F – Colli yr plwy cael yn llaw yr plant, M – Colli'r plwy cael yn llaw'r plant, R – Colli'r plu cael llaw yr plant [ychwanegwyd 'plwy' uwchben 'plu'], Rh – Colli yr plu; 50: F – A'i rhai, Ff, Ph – O rai, T – egr, Th – egron a'u; 51: Ff, N,O,Ph,Rh – dolen, gwilyd, L – dalan gwelan, Ll – dolan, M – gwelai'n; 52: B,Ll,R – y bydd, C,E,G,L – i bydd, Dd, H – Tanio tybaco y bydd, Ff,Ph5 – Tanio Tobacco y byd! T – Tanio tybacco i bydd; 53: C,Ch,G, Ng,H,L,Ll,O,Ph,R,T,Th – brydain, Ff,G,H,,LL, O,Ph,R,S – bris; 54: Ch – Yn ddiobrwy, E – ddobrwy, Ff,Ph – Yn di obryd, mae'n debris, Ll – Mae yn ddi obrwu mae yn ddibris, P – Mae'n ddiwobrwy, R – Yn ddi=obrwy yn dd=bris [ychwanegwyd 'mae'n ddi obrwy mae'n ddibris ar ddiwedd y llinell], Th – Mae'n ddirprwy; 55: Ff,Ph – Fod, ar fath; 56: B – E 'mgleddiad ymgwilyddiodd, C,M – Ei 'mgleddiad a 'mgluddiodd, Ch – I ymgleddiad a ymg'wylyddiodd, D,F,M,P,R,Rh – Ei ymgleddiad ymgwilyddiodd, Dd,Th – Ei mgleddiad ymgwilyddiodd, E,G,L – I 'mgleddiad a'mgwilyddiodd, Ff,Ph – Ymgledіad ymgwilydiod! Ng,Ll – Ei ymgleddiad am gwilyddiodd, H – I 'mgleddiad ymgwilyddiodd, O,T – Ei 'mleddiaid ymgwilyddiodd, S – Ei mgeleddiad ymgwlyddiodd; 57: F,O – gamrwygir, Ll – y gamrwugir, R – y gam rwygiwr; 58: D,P – Gwilydd, R – c'ywilydd, F – yw yr gwir, Ff,Ph – Cwilyd a'r gowyd yw'r gwir! J – Cwilydd y cycowydd; 59: Dd – A ddarfu'i, F,M – a fu, Ng – Darfu yn, Ll – ein braint, P – Darfi i fraint, Rh – i fraint, T – A ddarfu braint; 60: B,C,Ch,D,Dd,E,G,Ng,H,L,M,O – mewn llwch, F – Ai mewn llwch y mae yn llechu, R – Ai mewn llwch i mae yn llechu, J,O,Th – lloches mae'n llecu, Ll – Ai mewn lloches i mae yn Llechy, Rh – yn llechu, S – 'mae'n llechu, T – Ai mewn y mae'n llechu; 61: F – mae yn iach, M – mae'n iach, P – Na cholled; 62: G – Marw, H,L – Marw yw hon oll om rhan i; 63: C – Pa awr dwg, Dd,E,G,H,T – pa ŵr da? Ng,Ll – Pa wr ai dwg, L – Pwy wr da; 64: F,Ng,M,N,P, Rh,S,T,Th – swcra, Ll – pwu an; 65: Dd, Ff,H,Ph,T,Th – pwy a wna; 66: B,Ch,Ff,J,P,Ph– far'nad, D – marwnad, Ff,Ph – Nod adysg Far'nad idi? H – Nod

addas; 67: F,Ng,M – rwymiad rydd, Ff, Ph – rwymiad ryd, Ll – rymiad rydd; 68: Dd, Ff,H, Ph – lawnwaith, F,G,L,M,P – lownwaith, Ff – lonyd, R – lawn waith, Rh - lanweth, S – Pen lanwaith, Th – Pin lanwaith;
A – Yr Awenydd yn ateb, B – Yr awenydd'n atteb, C – Yr Awen yn ateb, Ch – [ ]wenydd [ ]atteb, D – Yr Awenydd yn Atteb, Dd – Llinell fer rhwng ll. 68 a 68, E – Y Prydydd, F – Dechrau'r ail Cowydd yr awen yn i ateb, Ff – Yr Awen, G – Aw:, Ng – Yr Awen yn Atteb, H – Atteb yr awen, J – Yr awenydd yn atteb, L – Yr Awen, Ll – Yr Awen yn atteb, M – Dechrau'r ail gwywydd yr awen yn ei ateb, N - Yr awenydd yn Atteb, O – Atteb yr Awen, P – Atteb yr Awenydd, Ph – Yr Awen, R – Yr Awenydd yn Atteb, Rh – Yr Awen yn Atteb, S – Awenydd, Th – Awen; 69: H – Ow Bryttwn; 70: Ch,F,J,M,R – awenydd, Ff,Ph – wenyd'n, Th – Fu o'i Awen; 71: A,D,Dd,J,N,O – ddigas, B – ddu gas, C,H,P – A ddigiaist di ddu gas dwyll, E,G,Ll – A ddigiaist di ddi gas dwyll, F – A ddigiast Di ddu gas dwyll, Ff,Ph – A digiaist di digas dwyll, Ng,L,Rh,T – A ddigiaist di ddigas dwyll, M – A ddigiest di ddu gas dywyll, R – <u>i ddy</u> gâs [ychwanegwyd <u>di dd</u>i uwchwben y ddau air], Th – A ddigiais ti ddygas twyll; 72: M, Rh – dy awen; 73: Ff,Ph – fyd; 74: Ch,Dd,O,P,T – dyma'r rheswm, F,G,L – dyma y rheswm, N – dyna reswm, Ff,Ph – Duw nêr rhoes, dyna'r rheswm, S,Th – dyna'm rheswm; 75: F – dyn di dwull, G,L – i'r dyn didwyll, H – ydwy r'dyn didwyll; 76: B,H,L,N,S,T – A'm hiawn, Ch,Ff,Ll,Ph – O'm iawn, D,Dd,F,M,R – Am iawn, Th – Om iawn harfer; 77: B – Gwina, E – Gwnia idi'r, Ng – Gwnai di'r, L – Gwnia'r iaith, Ll – gwna di dy ran, T – Gwna di'r gwaith a gwna dy ran; 78: Ch,F – Da ydyw d'wyllys doed allan, Ll, Rh – Da iw dy wllus, M,N – d'wllys, R – Da ydiw d' 'wllys doed allan; 79: Ch,R – llwyra llid, Ff,Ph – thrist-ha llyma llid, L – thristha; Ll – thristia, P – llonna; S – llyd, Th – llawen llyd; 80: Ff,Ph – I'm plaid agos, H,J – plygid, S – plegyd; 81: Ch – Mawr rhad yw mawrhau d'awen, F,M – mawrhau d'awen, Ff,Ph - mawrhad Awen, G – Mwy rhaid yw mawrhau awen, J – mawr rhad awen, L,P – Mwy rhaid yw mawrhau d'awen, Ll – dy awen, O – mawrhaad awen, N,S,T,Th – mawrhad awen, R – <u>Mawr</u> Rhâd [ychwanegwyd 'mwy' ar ddiwedd y llinell]; 82: B – Dia gei, Dd,F,M,T – a'i dwg i ben, Ff,Ph – ond dwg; 83: A,G,Ng,J,N,P– poen fryd, B,F,M – poenfyd, Dd,Rh – poen-fryd, R – peon<u>fryd</u> [ychwanegwyd 'fyd' uwchben y gair]; 84: Dd – well well, Ll – dwus well well; 85: C,E,F,L – borthmonaith, gobaith, Ch,S – bormonaeth gobaeth; 86: E – am cau i allan, F,M – Bydd colled om cau allan, G,H,J,L,Th – o'm cau; 87: G – deg dy iaith; 88: H,Ll – esdroniaith, M – os esdroniaith, R – trin, Th – dim; 89: B – ein gwlad, D – Mwy glod hir mae'n gwlad hon, F – Mewn glod hir, M – Mewn clod; 91: B,D,J, N, O,P, Rh – teg, C,F – Eto a garant, E – garan', G,L – Eto a garan', H – geraint teg, L – Etto a garan, Ll – Etto agartant teg eiriau, R – y garant; 92: F – O bur waith hen heb warth hau, G,H,L, Rh – O bur, Ll – y bar, M – O bur waith hen bob warth-hau, Th – Y bur iaith heb warthau, O – buriaith; 93: C – gwyn, di gei'n, Dd,T – Dwg cwyn i rhain di cai'n rhwydd, Ff – Dwg ei cwyn di ai cei'n rhwyd, G – Dwg gwyn i'r rhain di a gei'n rhwydd, Ng – Dwg cwyn i rhain di a gei yn rhwydd, H – Dwg gwyn i rhain di gei'n rhwydd, L – Dwg gwyn i'r rhain di a gei yn rhwydd, Ll – Dwg cwun ir rhain di ai cai yn rhwudd, O – Dwg gwyn i rhain di cei'n rhydd, P – Dwg cwyn i rhain di ai cei'n rhwydd, Ph – Dwg ei [bwlch]di ai cei'n rhwyd, S – Dwg gwyn i rhain diau cei'n rhwydd, Th – Dwg gwyn ir rhain diau cai'n rhwydd; 94: B,N,O,S,T,Th – Iti'n, D,Ng,J,Ll – Itti yn, E – Itti â, Ff,Ph – It yn swcraeth, G,H – Itti swccriaith, L – Itti swccriaeth, O – dan, Rh – I ti yn; 95: Ch,F,R – Y pinagl aur, Dd,H – Pinacl iaith penna' ei glod, Ff,Ph – Pinagl y Iaith, pen y glod, Ng – pen ar glod, Ll – pena'r glod, M – Y pinagl aur pena i glod, Th – pena'i glod; 96: Ch,F,R – Yw aur Mostyn am ystod, Dd – rymysdod, Ff,Ph – grym ystod, M – am ystod, T – Am aer rymustod; 97:B,C,Ch,D,Dd,E,Ff,G,H,L,P, Ph – had, F – o hud, Ff,Ph,T – Tomas, J – Thomas Mostyn rym ystod[camgymeriad ar y llinell yma], M,R – o hyd; 98: A,B,C,Ch,D,Dd,E,F,G, Ng,H,J,L,Ll,M,N,O,P,R,Rh,T – Roger; J – pyder; 99: Ng,Ll – Aer i genedl; 99-100: B,C,Ch,D,Dd,E,F,G, L,M,R,T – [heb y

ddwy linell yma]; 100: J – a fydd; 101: Ch,R –Aer Gloddaith ai arglwyddwaed, F –Aer Gloddaith ai arglwydd waed, Ff,Ph – a'i harglwydwaed, J – Aer Gloddeth Arglwydd wayd, Ll – Aer Gloddaeth arglwydd waed, M – Aer Gloddiaith ai arglwyddwaed;102: B,C,Ch,D, Dd,E,F,Ff,G,H,M,P,Ph,R,T – A mawrhydi, F – agwaed, M – a gwaed; 103: D – Clofn ein, F,R – Colofn y Iaith, G,P – Clofn, H – Cylofn; 104: Ch,F,R, S,Th – addysg ymgleddwr, Dd,E,G,L – A'i glau addysg ymgleddwr, Ff – Glau adysg, a'i hymgledwr, Ng,LL, Rh – ai ymgleddwr, H – Sy' glau addas ymgleddwr, M – addusg ymgleddwr, N – addysg 'mglwddwr, O – addysg amgleddwr, Ph – Glân adysg a'i hymgledwr, T – Ar glau addysg ymgleddwr; 105 a 106: B,C,Ch,D, E,F, Ff,G,H – newidwyd trefn y llinellau ar y llawysgrifau hyn ac ysgrifennwyd y ddwy linell o flaen y cwpled flaenorol, ll.103-104; 105: Ff, Ph – Elo fewn, O – Sel o vlaen oes sailvaen iaith, M – Sel o fewn sylfaen Iaith, T – Sel o fewn a sylfaen iaith; 106: F,Ng,H,M,P,Ph,R – hyna', J – y Bryttanieth, R – Brudaniaith; 107: F – cysur fydd, Ff,Ph – cysur a fyd, S – ei fan; 108: Dd – Ty'n di tan ei adenydd, F,Ll,P, Rh – tan i adenydd, Ff,Ph – tan 'denyd, Ng,J,S,Th – adenydd, H – Tyn dyno tan eu denydd, M – Tun di yno dai i hadenydd, O – tan 'denydd, T – Tyn di tan ei adenydd; 109: B,C,Ch,D,Dd,E,Ff, H,L,P,Ph – Pen ar y llwyth, F,M – Pen ar llwyth, G – Pen ar y llwyth pwy a wna'r lles, Ng,J,N,Rh – a wna'r lles, R,T – Pen ar llwyth pwy wnae'r lles; 110: Ff,Ph – Glodaith, Arglwydes, M – Gloddiaith; 111: Ff,Ph – o fil, fud, Th – Aer; 112: Dd – Savads, Ff,Ph – ufud, J – a roes y fydd, O – Savaets, M,R – Safads, Th – was; 113: F,M – hoff anian, Ch – mewn ffyniant, Dd – da'u ffyniant, C,D,E,G,Ng, Ll,N,O,P – i ffyniant, Ff,Ph – dau ffyniant, H,T – da ffyniant, R – annwyl mewn [ychwanegwyd 'Anian da'i' uwchben y ddau air], S – da'w; 114: B,Ch,H,L.N,T – yw plant. J – blant; 115: Ch – A chyda hwn i gyd henwi. F – Gyda hwn i gyd henwi. R – A chyda [ychwanegwyd 'Gyda' uwch y ddau air]; 116: B,C.R,S – ein gwlad, Ng,Ll – Un glod; 117:D – Mae oen arall;118: C,L – gymdogaith gobaith, Ch – Yw gymdogaeth,Ff,Ph – I'w gymdogaeth, G – gymadogaith gobaith; 119: Ch – I garenaid gwirionedd, Ff – gwirioned, H – E gar, J – gwirion oedd, L – y gwirionedd, Ll – Y gar, M – A gar, P,R – I gar; 120: Ff, Ph – oreubart wed, Ng – o reubart, M,N – oreubart, R – oreu bert, S – orewbart, T – Rhobert; 121: Ff,Ph – Du, rwydgu, N – Aer Berth Ddu rwydd gu ran, P – rhywdd-gu rhan, Th – rhwyddgu; 122: Ch,F,Ff,M,Ph – Bodysgallan, O,Th – dwysgall; 123: Dd,H – mur ei geraint, mawr gariad, Ch – Aer gwrol i fawr gariad, E,G – Mur i geraint mawr gariad, F,M – Aer gwrol fawr ei gariad, Ff,Ph – ei cariad, Ng,P,Rh – i cariad, L – Mur i geraint a mawr gariad, Ll,Th – Mae'r ceraint, RS – Mae ceraint, T – Mawr ei geraint mawr gariad; 124: C,Ch,D,Ng,Ll,P – i dad, D,Dd,L,R,T – fal, J - ei dyll, O – val;125: Ch,Ng – gar'r iaith, Ff,Ph,Rh – Fo, G,L – Fe gar iaith glodfaith glau;126: Dd – cair i'w, Ff,Ph – feirdion, fyrdau, Ng – gwn i'w, Ph – wir i'w, T – cair yw; 127: B,C,D,Dd,F,G, J,L,M,Rh, T – daioni a ddel, Ch – ddaioni a ddel, N – Dyna ddau ddau daioni ddel, Ff,Ph – Dyna dau, daioni 'dêl, Ll – ddaioni ddel, P – Dyna dau dauoni a ddel, R – y ddel, Th – Dyma ddau daioni a ddel; 128: C,Dd, E,T – un dynged, C, Ff,Ph,R,Rh,S – ein, G,H,L – Un dynged a dau angel; 129: C,Ch,Dd,T – lle i dygir, Ff,S – lle'u dygir, J,O,P – lle i digir, Ll – dygir, Ph – lleu digir, R – llei, Th – lle eu digir; 130: F – yr gwir; 131: C,D,Dd,E. F,G,H,L,Ll,M,N,P, R,T – Pur wych, D,P –hardd-gamp, F,Rh – howdd gamp, Ff,Ph – haedgamp, hawdgar, G – hauddgamp, M – howddgamp, howddgar; R – hawddgamp; Th – hoyw gamp; 132: C – y cymru a'i; E,F,Ff , Ll,M,N, O,P, Ph,R,Rh,S,T– ai; G – Cymry a'i car, Th – Cymry a'u câr, J – cymin ai gar; 133: F,H,M,S – lleoedd, Ff,Ph –llysoed, lleoed, J – does i'r, L – does yw, N,S, Th – Dos i'r, Rh – Does i'r, Th – lleuodd llawn; 134: Ff,Ph – Gwad, gwed, Ng – Gwaedd; 135: Ff,Ph – amarch orchest, M – Na chyrch anwych orchest; 136: Ff,Ph – wad, O – wedd, Ph arwest, Th – o'r; 137: B – yt, C – A rhwydd oll i rhoddwyd yt, Ch – rhodded it, D – A rhwydd a da rhoddwyd it, Ff,Ph – rhwyded y rhodwyd, G,L – A rhwyddwyd, Ng – i rhoddwyd it, Ll – A rhwudeb oll y rhoddwud it, P – A rwydd oll, R – rhodded ['rhoddwyd' ar ddiwedd y llinell]; 138: B,C –

haeddyt, Ff, Ph – Wahodion, haedit, G,H,L – Wahoddiad, J – [Ni chopiwyd y llinell hon ar y llawysgrif]; 139: Ng,J,Ll, – cyfiawn drefn, E,F,G,L – cyfiawn-drefn, Dd – Cai, F,M – Lle cei fwyndra, Ff, Ph – Cei yno fwynder cyfiawndrefn, O – vwynder, R – Cei fwyndra cyfion drefn, Th – fwynder;
A – Y Prydydd, B - Atteb y prydydd, C – Y Bardd yn addo myned, D – Y Prydydd, E – Y Prydydd, F – Y prydydd yn i ateb, Ff – Bard, H – y dyn, J – Y prydudd, L – Y Bardd, Ll – prydudd, N – Y Prydydd, O – Y Prydydd, P – Atteb y prydydd i orphan, R – Edd. Maurice, Rh – Y dyn yn atteb, S – Prydydd, Th – Prydydd;
140: B – yn dy gefn, Dd,Ng,Ll,Rh,Th – a Duw yn gefn, F,M – Da enwog ŵr a Duw yn ei gefn, J – Dau gyfiawn ŵr a Duw yn gefn; 141: Ch, R – Cest ragor mewn cyngor cof, D – gwnaist, Dd,T – Da it hepcor cyngor co, E,G, Ng – Da i gwnest hepcor cyngor co', F,M – Ces rhagor mewn cyngor co', J – Da gwnaythost, L – Da i gwnaist hebcor cyngor cof, Rh – cof, Th – gwnest; 142: C – Ym 'fawenydd, Ch – Fy 'wenydd, D – I'm fawr ennyd mi af yno, Dd,E,G,J,L,O,P,T – I'm f'awenydd, F,M,R – Fy awenydd, Ff,Ph – Fy 'wenyd, S – F'awenydd, H – I'm f'awenydd m'âf yno, Ll – Im fy anwenudd, Rh – Im fy awenydd mi af ynof, Th – I'm f'awen; 143: Ch – A Duw o'i fwynder da fendith, E,G – i fendith, F,M – Duw Dy fwynder dod fendith, Ff,H,L,Ph – ei fendith, Ng,Ll – fwyndra, R – A Duw <u>oi</u> fwynder <u>da</u> fendith [ychwanegwyd '<u>dy</u>' a '<u>dod</u>' uwchben y ddau air]; 144: A – i'n, B,Ch – yw plith, D – gwplhâd, Dd,T – Drwy gwblhad a drigo i'w plith, E,G – Drwy gwplad a drigo yw plith, Ff, H – Drwy gwplhad drig i'w plith, Ng – gwblhad, J – Drwy gwplhad a drigo i'n plith, L – Drwy gwplad a drigo iw plith, M – Drwy gwplhad a drig yw plith, R – Drwy gwpplhad a drig iw plith, S,Th – gwblhad.

Darlleniad Gwenllian Jones:
5: ydwyt; 6: wyt; 12: Pan na; 17: miwsis; 26: f'awenydd; 36: deellais; 41: was'naeth; 57: gamrwygir; 58: c'ywilydd; 60: mewn llwch; 64: swcra; 65: pwy a wna; 74: dyma'r rheswm; 93: gwyn, di gei'n; 97: had; 98: Roger; 102: A mawrhydi; 109: Pen ar y llwyth; 123: Mur ei geraint, mawr gariad; 128: un dynged; 129: lle'u dygir; 144: i'w plith.

23

Englynion i Tomas Mostyn a Gloddaith

Dêl pob dawn uniawn i annedd – Loddaith
Drwy lwyddiant a mawredd,
Ac i'w pherchen lawen wledd
4 Blaid gynnes blodau Gwynedd.

Bendithion llawnion a llawenydd – fyth
A fytho'n ei cheyrydd;
Ei chlydwr a'i swcwr sydd
8 I dlodion dwy o wledydd.

Trugarog rhywiog yn rhaid – y gweddwon
Ac eiddil ymddifaid;
Dyfal i gynnal gweiniaid,
12 Daioni i'w plith Duw'n eu plaid.

Yn weddus ddawnus ddynion – yn ddofaidd
Ac yn ddifalch ddigon,
Yn helaeth ac yn haelion
16 O'i haur a'i bwyd hir y bôn.

A'i phlanhigion llon lluniedd – hap odiaeth
Pedwar impin mwynedd;
Deled â gras diwaeledd
20 Cynnydd i'r rhain can Dduw'r hedd.

Bendithion rhwyddion yn rhi' – iawn imi
Yn amal eu rhoddi,
Am bob tirion ddaioni
24 Gofus wedd a gefais i.

Ffynonellau;
A – M 96, 76; B – B 14975, 312.

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniad:
Teitl: A – Englynion i'r un gŵr [Tomas Mostyn, Gloddaith]; B – dim teitl.
Awduraeth: A – Sion Dafydd a'i cant; B – Sion Dafydd Penllyn a'i cant
Llinell 6: A a B - Ceurydd
Llinell 7: A – Ei clydwr; B - I clydwr
Llinell 16: A- bo'n; B - bôn
Llinell 17: planigion
Llinell 18 – Y dyddiad 1684 wedi ei nodi ar yml y llinell ar Ffynhonnell A.
Llinell 19: A – Deled a grâs; B – Deled mewn grâs

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las':
Teitl: Englynion Moliant i Tomas Mostyn o Loddaith; 6: eu ceyrydd; 7: eu clydwr a'u swcwr; 10: amddifad; 16: O'u haur a'u bwyd; 17: A'u planhigion, odieth; 20: Gynnydd, gan.

24

Cywydd marwnad 'Miss', gast Tomas Mostyn

Wrth edrych, llewych llawen,
I gyd bethau'r byd o'i ben
A deall cwrs a dull caid
4 Y dewrion greaduriaid,
Rhai yn well a rhai yn waeth
Ac eraill mewn rhagoriaeth,
Hynod fydd rhai ohonyn'
8 Gwell eu rhyw a'u lliw a'u llun
Rhai'n bur yn cael rhan o barch,
Rhai ysgymun, rhwysg amarch,
A'u rhyw i fod, rhai a fydd
12 Mewn galwad mwy na'i gilydd.
Rhai dedwydd, llonydd wellhad,
A rhai iddyn' â rhoddiad.
Coffa wnaf y caiff y naill
16 Ei garu'n fwy nag eraill.
Mi wn un ast, mwyn iawn oedd,
Creadur cywir ydoedd,
Un fechan, hoywlan helynt,
20 Lluniedd gorff, llawenydd gynt.
Mwyn ydoedd, bob munudyn,
A chryno'i gwedd a'i chroen gwyn
A nodau duon wedi
24 O'i deutu i'w harddu hi.
Pob aelod, pawb a welai,
Yn ddi-feth heb ynddo fai,
A'i llinoedd oedd well ennyd
28 A gawn o ben holl gŵn byd.
Mi wn ei bod, mawrglod mau,
Yn gares i'r cŵn gorau.

Os da oedd nes ei diwedd
32 Ei rhyw a'i llun yn un wedd,
Dau well oedd, deall iddi,
Ei mwynder a'i harfer hi.
Glân erioed a'i hoed oedd hen
36 A pharchus gan ei pherchen.
Yn y byd mi wn na bu
Ei chywirach i'w charu.
I'w Meistir cywir y'i caid
40 A llawenydd ei llonaid.
I'w dŷ hardd o deuai hon
I'w chanffod yn llonni 'i chynffon,
Hawdd oedd wybod drwy glod glau,
44 Da antur, y dôi yntau.
Diamau od âi ymaith
O'i dŷ a myned i daith,
Yn dirion hi a darief,
48 Ddull da, ar ei ddillad ef.
Ni bu gast na neb o gi
Mwy synnwyr na Miss heini.
Daeth clefyd, bla enbyd blin,
52 Rhyw ddolur i'w hir ddilyn,
Ac ni fynne modde maith
Drwy amod ei droi ymaith.
Er cyngor doctor, nid âi,
56 Er ffisig ni orffwysai
Nes caffael, drwy afael dro,
Naws hynod einioes honno.
Yn iach ast, o'i bath na chi,
60 Un wych oedd, yn iach iddi.

Ffynonellau:
A – M 96, 84; B – M 130, 406

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniadau o'r llawysgrifau:
Teitl: A –Marwnad am yr un Colwyn, B – Cywydd Marwnad am Ast o Golwyn gŵr bonheddig a elwid Miss; 10: B – Ai rhyw; 39: A,B – cywir i caid; 42: B – A chanffod; 50: A – Misse; henw yr Ast [nodyn ar ddiwedd y llinell]; 54: A, B – i droi; [Awduraeth:] A – Sion Dafydd a'i Cant, 1684. B – Jo.n Davies ai Cant.

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las':
Teitl: Marwnad Colwyn Tomas Mostyn; 6: Ag; 21 lluniaidd; 42: ; 47: darie; 48: dillad e; 50: Heini; 52: ddilin.

25

Marwnad am golwyn Tomas Mostyn

Rhai a gân rhyw wag enwir,
Eraill a gân dröell y gwir,
Pob un yn ôl buddiol beth
4 A nwy taer ei naturieth
Finnau a ganaf ennyd
Fach i beth fu wych ei byd.
Mawl a fydd, anaml ei faint,
8 I oes hon eisiau henaint.
Miss ydoedd, gymwys odieth,
Naws da pur, gonesta' peth,
Gestyn gloyw, hoyw oedd hi,
12 Liw addas heb ail iddi.
Gestyn rywiog, fywiog, fach,
Nid oedd un mwy diddanach.
Gestyn tew, esmwyth flewyn,
16 Oedd ddi-goll o ddu a gwyn.
O flaen cynffon aflonydd
Yn dda raen hyd y ddwy rudd,
Dwyglust lathraidd weddaidd wych,
20 Loywdrem o'i manwl edrych,
Yn chwarae fel dwy chwioredd
O'r un waith ac o'r un wedd,
A'i thrwyn nid hir, difyr dop,
24 Trauan eitha' trwyn Ethiop.
Yn iewpen ar ddeuben ddydd,
Llafar oedd ei llyferydd.
Roedd iddi hi, er na wyddai'i hiaith,
28 Ddull dewr o ddealltwriaeth
A'i ffyddlondeb, cudeb call,
Yn gywirach nag arall.

Gestyn brithliw, gwiw ei gwedd,
32 Golwyn fach â glân fuchedd,
Ni bu mewn gwlad, er dadwrdd,
Ast o'r fath'n eiste' ar fwrdd.
Ni bu 'rioed dan wybr iach
36 Alw ei naturiolach,
Na chreadur, gwych rydyd,
A'i enw o'i bath yn y byd.
Marw wnaeth, ymroi'n eitha'
40 Y bywyd hwn o'i byd ta.
Ymado, gado gwedi,
Bywyd a wnaeth byd i ni.

Ffynhonnell:
M 96, 83

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniad:
[Teitl:] Marwnad am Golwyn Thomas Mostyn o Loddeth, Esqr.; 4: naturieth; 5: finne; 9: Enw'r Ast [nodyn ar yml y dudalen]; 9: Misse; 23: difir;
28: dealltwriaith; Syr Rhys Cadwaladr a'i cant, 1684.

26

Cywydd i'r Llech

Mae craig gadarn a farnaf,
Teiladaeth a wnaeth Duw naf,
Man a garwyd mewn goror
4 Y sydd rhwng mynydd a môr.
Uchel yw'r daith uwchlaw'r don,
Gelltydd i adar gwylltion,
Gwar castell yn graig gestog,
8 A chlyd yw bod tan ei chlog.
A llwybrau serth certh, le cau,
Fan c'regog ar fin creigiau,
A grisiau sydd, deunydd da,
12 I gamu draw ac yma.
Drws a'r wat, dyrys yw'r wedd
Mewn clogwyn, man cul agwedd.
Oes lannerch is law yno?
16 Twll yn y graig, tŷ llawn gro.
Mae 'no ogof mewn eigion
O feini teg ar fin ton,
Hen adail o'r hynoda'
20 A seiliodd Duw, sylwedd da.
Caer gadarn cerrig ydyw,
Cell erioed yn nhroed y rhiw,
Ceulan ym min drycin draw,
24 Arloes i 'ochel oerlaw.
Man cry, gwych mewn craig uchel,
Gwaith y sydd mor gaeth â siel.
Yn y gwaith mae yno gell
28 Cystal â llawer castell,
Cerrig â naddiad cywrain,
Ceir rhad, ar bob cwr i'r rhain,

A cherrig yn ei cheyrydd
32 Yn fordiau, yn feinciau ’ fydd.
Ffynnon oer, hoff union wedd,
Mae ar honno mwy rhinwedd,
A llyn dwfn sydd yn llawn dŵr,
36 Ceir ynddo y croyw iawnddwr
O fewn gwryd, fan gerwin,
I gwr môr ac ar y min.
Lle digrif garllaw dwygraig
40 A seler gref sail o’r graig.
Dyna le o dan y lan,
Can miloedd a’u canmolan’.
Lle nodded llawenyddwych,
44 Llawn lluniau a gweithiau gwych,
Gwedi’i drwsio dano’n deg
I aer Mostyn rymusdeg.
Costiodd a’i gweithiodd cystal
48 O faen â chalch fynych wal.
Lle gorffwyso Cymro cain
Yw’r newyddfur o’r naddfaen.
Pan êl i’r môr, drysor draw,
52 Hyd ei rydid i rodiaw,
Gaiff hefyd gymryd ei gwch,
Da fwriad, er difyrrwch,
A myned o rym waneg
56 Heibio i Landudno deg
A physgota ’wna yn wir
Yn ddiofal, yn ddifir,
A mynd i’r lan at ’r annedd
60 I’r ogo’ wych, rywiog wedd,
A chael yn hon, fodlon fyd,
Loches i gynnal iechyd.
Lle ddigon yn ffrwythlon, ffri,
64 I roi gwledd i arglwyddi,

Lle da, hardd, lle daw i hon
Fawr wych agwedd farchogion.
O'i mewn ni ddaw, mae'n ddi-wad,
68 Ddau gannwr yn ddigennad.
Duw, dod i hwn, Brutwn bro,
Lwyddiant a hoedl iddo,
A bendithion galon gwŷr
72 Uwchlaw pawb, wych lew pybyr.
Os aeth hen oes Seth i neb,
Seth einioes i'w syth wyneb.

Ffynonellau:
A – M96, 77; B – B 14975, 309

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniad:
Trefn y llinellau yn B: 17-20, 22, 21, 23-26, 7,8, 45-68, 27-32, [Llinellau ychwanegol] Bord gron y sydd, deunydd da, O naddfaen yn y noddfa, 33-38, 41,42, [Llinellau ychwanegol] Mewn ogof mae 'no gegin, Isalw'r gwaith a seler gwin, 43-44, [Llinellau ychwanegol] Lle is y graig, llys y gro, Dedwyddwch dywad iddo, Lle sy' odiaeth, lles ydyw, Is gwar gallt i 'sgweiar gwiw, 69-72.

7: B – Cryn gastell cerwyn gestog; 17: B – Mae un ogof; 21: B – Cadarn fel monarc ydyw; 36: A – croywion-ddŵr; 45: B– Trwsiwyd hon yn dirion deg; 46: B – I aer Mostyn, ŵr mwysdeg; 47: A – a'u weithiodd; 49: B – Tŷ gorffwyso; 50: B – yw'r newyddfodd; 53: B – E' gaiff gymeryd ei gwch; 59: A – i'r lan at yr annedd; 66: A – Farchogion; A – Sion Dafydd a'i cant, 1685; B – Sion Dd a'i cant.

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las':
4: ysydd; 10: cregog; 12: ag; 13: ar; 15: Ces landerch; 26: ysydd; 29: o naddiad; 39: gar llaw; 42: a'i; 46: rymusteg; 47: weithiodd; 48: o fain; 50: naddfain; 52: rydyd; 53: Caiff; 59: yr annedd; 68: ganwr; 70: hoedel; 73: aethen.

27

Englyn i Loddaith

I Loddaith eilwaith hyd elor – y dof,
Lle mae Duw a'i drysor;
Mi dyngaf nad af i angor
4 I gafn mwy ar gefn môr.

Ffynhonnell:
B 14975, 309

Awduraeth:
Siôn Edward

Darlleniad:
Llinell 1: i dof.

28

I garreg fawr mewn wal

Yna byddi di yn d'oes – y garreg
Ac yn gorwedd eisoes,
I ninnau daw pen einioes,
4 Mudo wnawn 'mado â'n oes.

Ffynonellau:
A – B 14975, 312; B – M 96, 76

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniadau:
Teitl: A – I garreg fawr mewn gwal; B – Englyn i garreg fawr oedd mewn gwal yn agos i Loddeth
Awduraeth: A – John Davidd; B – Sion Dafydd a'i cant.

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las':
Teitl: Englyn i'r maen mawr mewn wal yng nghyffiniau Gloddaith.

29

Cywydd i annog Tomas a Bridget Mostyn i ddychwelyd o Lundain

Prydydd:

Yr edn lwyd â'r adain las,
Wyt hardd, di haeddit urddas.
Dy fawl sydd, difalais wyd,
4 Dedwydd, diniwed ydwyd.
C'lomen lwys, cael mewn y wlad,
Da iawn gennyf di'n gennad.
Buost gennad, bost ganwaith,
8 Noa'n ei arch, union waith.
Cario'n ôl, cywir iawn yw
Deilen iddo y dilyw.
Cennad can' hoesiad cyn hyn,
12 Cennad dros lawer cannyn.
Am unwaith, bydd i minnau,
A gân dy glod, gennad glau.
Cennad i fynd, mewn cynnydd,
16 O gwr y wlad i Gaerludd.
Dinas a elwid unwaith,
Troy Newydd, gelfydd ei gwaith.
Bid hawdd ei 'dnabod heddiw,
20 Llawn da yn awr, Llundain yw.
A oes gar bron afon iach
Trwy ynys le tirionach?
Dysg na phlaid nid rhaid un tro,
24 Fan dawnus i fynd yno.
Y ffordd a wyddost o'i phen,
Lawndaith i fynd i Lunden,
I'r hen ddinas urddasawl
28 Pan y'r elych, fwynwych fawl,
Yno gofyn yn gofus

Am Bloomesbury Squâr, liwgar lys,
Lle mae llety, llawndy lles,
32 Aer Gloddaith a'i arglwyddes,
A'u cwmpeini heini hwy,
Mawledig, canmoladwy.
O fryd maith afraid i mi,
36 Mwy o hanes mo'u henwi.
Dwg anerchion, cwynion, cant,
Draw i'w ffenestr drwy ffyniant,
Yn gyntaf peth, heb fethiant,
40 I'w plith ddyletswydd eu plant.
Tirion blanhigion hygar,
Olewydd neu'r gwinwydd gwâr,
Yn cynyddu cain addysg,
44 Yn llawn o bob dawn a dysg,
Yn iach, lawen, wych liwys,
Yn ddigri, yn llenwi'r llys,
Yn disgwyl, bob gŵyl a gwaith,
48 Eu dychweliad iach, eilwaith.
Dwg annerch yn deg yna
Eu ffyddlon gymdogion da,
A dwg, atolwg o'u tŷ,
52 Teilwng wasanaeth teulu
A dywaid fod, diwad fydd,
Hiraeth i bawb o'u herwydd.
Trwm i'r llys yw tramwy'r lle
56 Yn odrist hebddyn' adre.
Gloddaith am y pennaeth pêr
Yw ail llong a ollynger
Ar fôr heb angor a fydd
60 Na llyw na phen na llywydd.
Ac ail, er maint ymgeledd,
Eilwaith yw Loddaith i wledd.
Er bod amrywiau bwydydd,

64 Gwinoedd a biroedd, o bydd
Heb pennaeth loywdaith y wledd,
Nid yw fawr ond oferedd.
Y Creuddyn, cri a wyddiad,
68 Chwithder i lawer o'r wlad.
Er llawned y perllannau,
A haeled llys, felys fau,
Mwy gwellhad i'w hollwlad hwy
72 Yno'u dyfod na deufwy.
Par iddyn' a'u pur eiddo,
Ar frys ddychwelyd i'r fro,
A delon' hyd lan Conwy
76 Mewn urddas i'w plas a'u plwy.
Y lle fu gynt yn llawen,
Annedd wag yw'r neuadd wen.
Cwyn yw 'stafellau cynnes
80 A fuon' lawnion o les.
Parlyrau, garddau gwrddion,
A chaer a'i brig ar ochr bron,
Lle mae llawer gwiwber gainc
84 A dyfodd o goed ifainc.
Hyn i gyd, dro enbyd draw,
Rhydost bod heb eu rhodiaw.
Cychwyn i'th daith, helaeth hynt,
88 A hed eto hyd atynt.
A dywaid faint ydwyd fwyn
Ac uched cri ac achwyn.
Ac na ddychwel lle gwelwy
92 I dir Creuddyn hebddyn' hwy.

Colomen:

Hyn a wnaf heno yn wir,
Air breudeg, er eu brodir.
Coelia' ag 'w'llys calon

96 Odiaeth yw genny'r daith hon.
Yn rhwydd y deudaf yn rhad
Dy gwynion ar dy ganiad.
Tariaf yno trwy 'faenol
Yn wir nes delon' yn ôl.

Ffynonellau:
A – M 96, 89; B – B 14975, 383a; C –Ba (M) 48; Ch – C65, 157

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniadau:
Teitl: A – Cywydd i yrru'r golomen yn gennad i annerch Thomas Mostyn o Loddaith, Esqr a'i deulu pan oeddynt yn Llundain, Anno Domini 1686, B – Cowydd i yrry'r Golomen i annerch Thomas Mostyn o Loddaith Esqr. a'i deulu pan oedd yn Llundain, C – Cywydd i yrru y glomen yn gennad i Lundain at Thomas Mostyn o Loddaith Esq a M^{m}Bridgett, ei wraig, a'i cwmpeini ac i erfyn iddynt frysiaw i'r wlâd, Ch – Cywydd I yrry'r G[rhwyg yn y papur] gennad i Ludain i an[rhwyg yn y papur] edig Thomas Mostyn o Lo[rhwyg yn y papur] ai deuly pan oeddynt yno A. [rhwyg yn y papur]; Awduraeth: A – Sion Dafydd a'i cant, B – John Davies a'i cant, C – John Davies, Ch – Jo. Davies; 1: B – ar adain; 4: Ch – diniwaid; 8: Ch – Noa yn ei arch; 9: C – Cario wneist; 10: Ch – deilien; 30: Ch – Square; 35: A,B,C,Ch – imi; 38-44: Ch – [rhwyg yn y papur, yn brin o ddiwedd y llinellau]; 45-49: Ch – rhwyg yn y papur, yn brin o ddechrau'r llinellau; 56: Trwm yw'r llys; 47: C – Gan ddisgwyl; 52: C – was'naeth eu teulu; 60: A– Heb un llyw neu ben llywydd; 61: Ch – I 'mgeledd; 72: Yno ei dyfod; 89-96: Ch – rhwyg yn y papur, yn brin o ddechrau'r llinellau; 95: B,C - Coelia o 'wllys; 99: A – trwy y Faenol, C – tref unol; B [–97-8]; Ch – [-97-100].

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las':
Teitl: Gyrru colomen i annerch Tomas Mostyn a'i deulu yn Llundain; Y Prydydd; 1: â'r; 2: haeddyt; 5: Clomen; 16: Gaer Ludd; 18: Troi; 19: i dnabod; 21: a fo'n iach; 17: Ynys; 28: yr elych; 30: Bloomsbury Sgwâr; 37: cant; 42: oliwydd;44: liwus; 53: dowaid; 61: Ag, eu mgeledd; 65: bennaith; 69: eu perllannau; 70: felus; 73: Pâr; 75: Lanconwy; 79: Cwyn i'w; 87: helaith; 89: dowaid. Y golomen; 95: o wllys.

30

I Bridget Mostyn pan oedd yn wael

O Dduw, gwraidd gŵraidd i gyd,
A byw achos pob iechyd,
Anniwarth barch, nerth y byd,
4 Bywiol a ffynnon bywyd,
Iôr y glod a ŵyr yn glau
Gyngor bywyd ac angau,
Na ddwg drwy loes einioes un,
8 Rymusdeg gwraig aer Mostyn,
Gwraig ddiwair, wâr, fal Sara,
Gwraig yn llawn pob dawn da.
Na ddod gorff pêr mewn gweryd
12 Na bedd yn nechreuad ei byd.
O myn iddi, mae'n addas,
Einioes hwy i'w phlwy a'i phlas.
Gyr o'r Nef dy leferydd,
16 Iachâ ferch a gwych a fydd.
Di a godaist, Duw geidwad,
O'r un rhyw feirw'n rhad,
Cyfod i'n plith eto hithe
20 Yn iach, er daed y Ne'.
Rhoist i'r mudan, gwan gynnydd,
I fod y rhawg dafod rhydd,
Ac i'r cloff egwan anferth
24 Ei draed yn iach, drwy dy nerth.
Eilfyd i hon ddigonol
Nerth ac iechyd yn ôl.
Dy ewyllys, di a elli
28 Â gair teg ei gwared hi.
Nid byrrach dy fraich bywrym

I’r llaw gre’, nid llai’r grym,
Na’r pryd ar flwydd, drwy rwydd ras,
32 Oes y cadd Heseceias.
Os yw hon heb fodloni
Yn haeddu gwg d’olwg di,
Dyro gerydd drwy gariad
36 Am gas tew megis tad.
Na ddiffodd frig mewn dig du,
Ow! ’mogel lin yn mygu,
Ac na thor ag egni o’th ddig
40 Anwesol gorsen ysig.
Gad iddi hi mewn bri braint
A’i gwlad hon gael gweld henaint.
Duw byw, dod i’w hwyneb bach
44 Oes gefnog ac ysgafnach
O bwys dolur dwys dig
Adwyth orthrymedig.
Na ddod ddiben ar fendith
48 Fwya’ i’n plaid a fu i’n plith
A gweled ei hardded hi
O rinwedd yn coroni
Bendithion noethion y naill
52 A thoraith bendith eraill.
Dyro’n rhwydd iddi lwyddiant,
Main’ ei phleth, er mwyn ei phlant.
Os yw mor groes i’n oes ni,
56 Hynod annheilwng iddi,
Gad hi, Dduw, yn fyw heb feth
O’i teml dwg hwynt ymeth.

Ffynhonnell:
M 96, 42

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniad:
Teitl: Cywydd i erfyn iechyd i Mrs Mostyn o Loddeth pan oedd yn glaf; 4: bowyd; 18: feirw'n; 19: cyfod ein; 28: i gwared; 42: gw'led.

31

Carol i Bridget Mostyn wedi iddi wella

Yr hwn sy'n byw o fewn y byd,
Mewn llawen iechyd nerthol,
Heb gyrhaeddyd yn ei oes
4 Adnabod loes wrth'nebol,
Nis gŵyr mor llawn o gur di-drai
Y dyddiau y rhai cystuddiol.

Mae dyletswydd, nerthol rym,
8 A dygn rwymedigaeth
Yn peri im adeiladu yn hoff
Uwch dirion goffadwriaeth,
A gwell na diolchgarwch mud
12 Yw mentro doedyd rhywbeth.

Chwi a roesoch arwydd i'r holl fyd
Fod ynoch ysbryd bywiol,
A bod hefyd tan eich bron
16 Yn aros galon wrol,
Orchfygodd drwy amynedd pur
Rym soriant cur amserol.

Nid arwydd o drueni trwch
20 Nag annedwyddwch ydi
Diodde' amserol gur a sen
Dan bwys a gwialen cledi,
Ond yn hytrach nod di-gêl
24 O gariad uchel i chwi.

Cystudd a wna ddwl yn ddoeth,
Fo gosba boeth annwydau,

Fo rydd amynedd gwell i'r da,
28 Fo gadarnha rinweddau,
Fo ddengys wagedd tegwch pryd,
Fo nithia o fywyd feiau.

Pwy feddyliau ynoch fod
32 Y cyfryw hynod ddoniau,
Cyn iwch roi tystiolaeth gref
Drwy fydol ddioddefiadau,
Nad arswydech weled gwg
36 Neu gongl golwg angau.

Brwydr lidiog, ymladd llym,
A ddengys rym y milwr,
A therfysg môr tymhestlog maith,
40 Gelfyddyd faith y llongwr.
Amlycach felly eich cysur ffraeth
Pa isa'r aeth eich cyflwr.

Er i'r corwynt siglo yn ddig
44 Fôn a brig ar unweth
Y winwydden gnydiog gre'
A chwythu ei blodau ymeth,
Lawer amlach fydd ei grawn
48 A thirion iawn ei thoreth.

Mae'r garreg nadd yn ail,
Cyn mynd mewn adail undyn,
Yn diodde' pwys morthwylion dur
52 A gweithio wrth fesur llinyn.
Pen fo, a'r geirwon greigiau yn bod
Heb dderbyn dyrnod arnyn'.

Daw tes i doddi du rew trwch,
56 Daw'n ôl tywyllwch ole
Er bod eich oes 'mron y llwch.
Mae'n ôl ddedwyddwch dyddie
Ymaith f'aeth eich cystudd prydd
60 I nôl llawenydd adre'.

Ffynhonnell:
M 96, 43

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniad:
Teitl: Carol i Mrs Mostyn o Gloddaith ar ôl ei dychweliad i'w hiechyd.

32

Marwnad Siôn Edward

I gysgu'r eis, gwasgu'r oedd,
Naws ledwyr, nos ŵyl ydoedd,
Morpheus swrth, ymorffwys hun,
4 A'm trôi ymaith i'm tremyn,
A'm bryd oedd a'm bwriad i,
O fawr ged, forau godi,
Rhwng Titan, ddiogan dda,
8 Gaer euraid, ac Aurora,
Rwydda' tymp i roddi taith
Drwy lwyddiant draw i Loddaith.
Rhoi fy mhen ar obennydd,
12 Breuddwydiais hyd a'rlais dydd
Gan huno, egwan hanes,
Gweledigaeth gaeth a ges.
Gwelwn ŵr a galw a wnâi
16 I'm dwned a'm adwaenai.
Siôn Edward, oes newidiawl,
Saer prysur yn mesur mawl,
Hwn oedd fyw, a henwodd fi.

Siôn: "Dos, Edward, nid oes oedi,
Dos i Loddaith, dwys lwyddiant,
Llawer a'i cyrch lle'r â cant.
Y cyscladur cais godi
24 Y gwyliau, dos a gwêl di
Fod yno groeso gwresawg
A llys rhydd a lles y rhawg."

Edward: A'm ateb oedd, i'm tyb i,
28 "I dŷ annedd daioni

Af yn wir, difyr yw dau,
Ystod iaith, os doi dithau."

Siôn: "Na ddo', anawdd na ddeni
32 Trwy Dduw mawr, nid rhydd i mi
Droi f'wyneb drwy fai anwir
I'r byd tost o'r bywyd hir."

Edward: "Nid byd tost ond bywyd da
36: Llawer rhodd a lle rhydda'
Sydd yng Ngloddaith clodfaith clêr,
Yno Mostyn, ein meister,
A'i Arglwyddes i'r gwleddau
40 A'th ddisgwyliant, breininant brau.
O'i dai odiaeth y d'wedir
Drwg gan hael a driga'n hir.
Ni welais yno wyliau
44 Naddo hebod, mawrglod mau.
Dwedai fil mai da dy fod,
Diddanwch ydoedd ynod.
Tyr'd â mawl at wrda mwyn
48 Eto eilwaith, atolwyn!
Bir a chwrwf, barch arael,
A gawn ar hyd gan ŵr hael,
Gwin gwresog ac iawn groeso
52 Yn neuadd brig, annedd bro.
Bacchas yn llys, melys mawl,
A gadd feddiant, gwedd fuddiawl."

Siôn: "Os bûm lle troes f'einioes fer
56 Yn yfed ac yn ofer,
Edifeirwch, da fwriad,
A gefais, lluniais wellhad.
Pob hynod bechod a bai,

60 I mi, Dduw a'i maddeuai
Yn ddyn chwyrn ni ddo'i, na chais,
I'r gyfedd orau gefais."

Edward: "Apolo sydd i'r plas hwn,
64 Awn â cherdd, yno chwarddwn.
Yno y mae, awn i'w mysg,
Prydyddion parod addysg.
Mae Parry ymhob puriaith,
68 Mae Syr Rhys yn mesur iaith,
A gardd aur o gerddorion,
Athro serch, i'th aros, Siôn."

Siôn: "Parry lowndeg, perl unduw,
72 Aeth â'i gân ddiddan i Dduw.
Mwy ni chân mewn iach ennyd
O wir barch i wŷr y byd.
Gogoniant gwiw a ganwn,
76 Mwy-fwy hawl, myfi a hwn,
Yn nheyrnas Ne', mangre mawl,
Drwy gu addysg dragwyddawl."

Edward: "Os y llên hen a hunodd,
80 On'd oer yw hyn, nad â rhodd?
Defeinydd difai annerch,
Daionus oedd, doniau serch,
Person Llanelian olau,
84 Pery ei gerdd, pa air gau?
Parry gofiwn, pur gyfarch,
Perffeithrwydd cerdd, pencerdd parch.
Os i Loddaith, sail addysg,
88 Ni ddaw colofn y ddofn ddysg,
Siôn, ddiegrwydd, sain ddigri,
Siôn, er na ddêl, dychwel di.

Fe fu'r dydd, fyfyr diddan,
92 Doit ar frys i'r gloywlys glân,
A phan ddelit, trigit tro,
Doit ddyn, nid ait oddi yno.
Toriad mawl cu, tyr'd mal cynt,
96 Tyred eto, tyr'd atynt.
Ac oddi yno, gwedd uniawn,
Rhoi oed a wneist, rhodio 'wnawn
I Fodysgellan lân lwys
100 I gyd-ganu, gwawd gynnwys,
At Robert Wyn, ffun hoff wedd,
Ap Huw,'r enwog pur rinwedd.
Yno buom, disom daith,
104 Ato awn eto unwaith,
A dychwelyd, awch hoywlawn,
Ffordd ymaith i Loddaith lawn,
A dilyn Mostyn â mawl,
108 A'i dai gwynion digonawl.
Amgenach a mwy gennyd,
Llawn o barch, na lle'n y byd,
Ac yno ymysg gwin a medd
112 Cartrefa cariad rhyfedd.
Man gorau golau gwelir,
Gŵr â thai ac aur a thir,
Gorau gwreigdda, mwyna' maeth,
116 Yw arglwyddes aer Gloddaith."

Siôn: "Gorau cefais, gwir cyfa',
Y rhain o ddull rhinwedd dda.
Er ei daed**,** air diwael,
120 Mwy a fydd i mi o fael.
Fy nghartref yw'r Nef, iawn ym,
At yr Iesu y troesym.
Oddi yno ni ddown yn ôl

124 I’r byd awr, er bod eiriol,
A chael y byd, uchel barch,
A’i dda imi’n ddiamarch.
Fy nghynhaliaeth perffaith pêr,
128 A fu Mostyn, fy meister.
Fy lluniaeth, fy llawenydd,
Union fyw’n iawn yn fy nydd,
Fy ’wyllys oedd, fy lleshad,
132 Fy llaw egor, fy llygad,
Fy nghoel nerth, fy ngalon i,
Fy nglydwr yn fy ng’ledi,
Fy ’mgeledd, llwybredd wellhad,
136 Fy nerthwr, fy niwarthiad.
Costiwr fy nghladd, clodradd clau,
Yn niweddiad ’y nyddiau.
Ei fardd wyd, i’w fyrddau aeth,
140 Annerch ef, iawn or’chafiaeth
A phob un, a phawb yno,
Dêl i fysg ei deulu fo,
Lle tyciont i’r llu teca’,
144 Nefolion, fendithion da.”

Edward: “Siôn, gu annwyl syn genni’
Na ddaethost, od aethost di.
Drygfyd ni ddaw i drigfa
148 Dilys ddyn, dy le sy’ dda.
Chwithdod, wŷr hynod, i’w rhan,
Hiraethus fydd rhai weithian
Yng Ngloddaith o angladdu
152 Dy wyneb, cowirdeb cu.
Diddrwg iawn, diddrygioni,
Difyrru teulu wneit ti,
Diarwen cynfigen faith
156 Diwenwyn a diweiniaith,

Diabsen drwg, amlwg ŵr,
Dichwannog, diachwynwr,
Diathrod, tafod difyr,
160 Di-air gau, diwyro gwir.
Gorau d'wedit, gair didwyll,
Gorau am bawb, gwiwrwym bwyll,
Teuluwr, eiriolwr iawn,
164 Gonest a phur ac uniawn.
Mwy wyddyt yma, wiwddyn,
O 'wllys Duw a lles dyn,
Yn gyfraid i enaid iach,
168 Gowir daith, na gwŷr doethach.
I naddu mawl ni ddoi mwy,
Rwydd ateb er a ddoetwy'."

Deffrois o'm lludd, benbrudd bwyth,
172 Siôn, ni ddeffry, sy'n ddiffrwyth.
Adgyfodiad ni wada',
Deffrown oll a deffro 'wna.

Ffynonellau:
A – P200, 30; B – M 96,68

Awduraeth:
Edward Morris

Darlleniad:
A: 1-42 yn unig; Teitl B: Marwnad Sion Edward ar ffordd o ymddiddan mewn gweledigaeth nos. 3: A, B – ymorphwys; 4: A, B – troe; B – ymeth; A – trym-hun; 9: B – Rhwydda tymp'n rhoddi taith; 10: B –Teg lwyddiant tŷ a Gloddaith; 17: B – Edwart; 20: B – Edwart; 22: B – au cyrch; 23: B – cysgadur; 27: B – ym; 31: B – ni ddeni; 32: B – imi; 36: A - E: Llawer rhodd a lle rhydda'; 37: B – clodwaith; A,B – yngloddaith; 42: A – dricca'n, B – dricco'n; 52: B – Yneuadd; 101: B – ffyn; 128: B – A fy; 139: B – 'aeth.

Darlleniadau Gwenllian Jones:
Teitl A : Gweledigaeth nos; 4: i'n trymhun; 6: fore-godi; 9: i roddi; 12: arlais; 23: cysgadur; 41: dwedir; 42: driogo'n; 47: tyrd; 49: chwrw; 52: y neuadd; 53: Bacchus; 76: lawndeg; 76: mwyfwy; 80: arhodd; 87: Loddaeth; 95: tyrd; 101: ffyn; 112: cartrefu; 119: eu däed; 127: perffeth; 132: llaw agor; 135: F'ymgeledd; 139: wyt; 149: wir; 152: cywirdeb; 155:

cynfigen; 160: diair; 161: dwedit; 162: gwiwrym; 165: gwyddit; 168: gywir; 173: atgyfodiad.

33

Cywydd marwnad Siôn Edward

Cwyno mae'n hiaith helaith, hen,
Diduedd am dad awen,
Siôn, o awen a synnwyr,
4 Awdurdod barch, ap Edward bur,
Diamhuredd rinwedd rith,
Bywiol adrodd heb ledrith,
Awdur cerdd a'i phen'dur coeth,
8 Un tyner heb fraint annoeth.
E' a ganai yn ddigonaidd
Awen â grym yn ei gwraidd.
Drwy iawn bwyll dirwyn i'w ben
12 Gywydd crydeddig awen.
Carwr Brytaniaith cywrain
Mewn mesur, synnwyr a sain.
Dywedai am bob alltudiaeth,
16 Gwag erioed neu goeg yw'r iaith.
Pob gair drwy gellwair a gaid
O'i fynwes. Nef i'w enaid.
O'i enau ni ddôi anair
20 Er hyn i gyd, na rhoi 'n gair
O gelwydd, achwyn gilwg,
O gas drais i geisio drwg,
Ni roddai'n wir o'r eiddo i neb
24 Er tynder anghytundeb.
Ei foddion oedd dangneddfawl
Yn ein mysg i ennyn mawl.
Hoff ganddo ef lef neu lais
28 Chwedlau, digrifwch adlais.
Roedd yn ei ben arwyddion beth
Mwy na bydol wybodeth.

Nid oedd arwydd celwydd cau
32 Na’r somiant i’w resymau,
A’i ’mddiddan heb lafan lw
Gormesol na gair masw.
Caredig, cywir ydoedd,
36 Dduw da, mor ddiniweid oedd,
Ac anhawsed, trymed tro,
Atom ei ddychwel eto.
Nid allai bendefig hollawl,
40 Tomas Mostyn, fwyn o fawl,
Na’i gynnes arglwyddes glau
G’redigrwydd, na’i gri dagrau,
Na gyrru am bisigwriaeth,
44 Na dim i rwystro mo’i daith.
Ped f’ase rodd neu fodd ni fu,
Egwyl hynod, gael hynny.
B’asai Siôn, dra union dro,
48 Yn f’ateb yn fyw eto.

Ffynhonnell:
M 96, 71

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniad
7: ffenadair; 9: gane; 15: Dweydai; 15: alltydiaith; 16: yr ioed ne goeg; 23: rodde’n; 27: ne; 43: bysygwriaith; 47: Base; Syr Rhys Cadwaladr a’i cant.

34

Cywydd marwnad Siôn Edward

Prydydd: Coed lwyn oedd caead lennais,
Coedlwyn o feirdd cu adlais,
Coed helaeth mewn cydhwyliad,
4 Gwiw iraidd serch a gwraidd sad
A'i gwraidd oedd a garai ddawn
Fagad o bendefigiawn.
Y rhain oedd â'u rhinweddau
8 A mwya' rhwysg i'w mawrhau.
'Rowan mae o'r un modd
Bendefig baun a dyfodd,
Aer Mostyn o rymusdaith,
12 Gŵr â'i ryw a garai'r iaith.
Yn llys yr hwn, lles y rhawg,
Bur ddoniau, 'roedd bardd enwawg
Yn cael achles gynnes gu,
16 Gwrs hoywedd a'i groesawu.
Parod ei ddysg, prydydd oedd,
Siôn Edwart, wiw sain ydoedd.
Doethum ar fy ymdeithiad
20 I Loddaith berffaith heb wad,
I weled Siôn, olud serch,
Fardd union fawredd annerch,
Am nad yw fo'm andwyawdd;
24 I mofyn hwn mi af 'n hawdd
Pan na ddoi? Pa fan ydd wyd?
Piler odiaeth, ple'r ydwyd?
A'i mewn carchar siomgar siêl
28 Yr wyt ti, eiriau tawel?
Ai dros y môr dyrras maith
Y'th gariwyd o'th gywiriaith?

A aed a’th wedd odiaeth dda
I ynysoedd yn Asia?
Ba na ddoi Siôn, beunydd sant,
Tŷ a Gloddaith teg lwyddiant,
Man y buost mewn bywyd,
Ddiwyd fodd, yn dda dy fyd.
Coel sicrwydd yn cael swcriaeth
A bir a medd bura maeth.
Cefaist gariad, gwastad go’,
Bob ennyd gan bawb yno.
Mae ar y gŵr, glydwr gwlad,
Doniol hiraeth am danad,
A’i gâr glwys, gwiw, rywiog, glân,
Dysg oll o Fodysgallan.
Y rhain a rwy’ i’w henwi
Dan y tes adwaenit ti.
Cefaist ganddyn’, Ow, cofia!
Helaeth barchedigaeth da.
A ’dewi di, dywaid ŵr,
Eu cwmpeini, camp anwr.
Mae eilwaith, pan na ’mweli?
Weision a morynion ri,
Pan gofion, ddwyfron ddifri,
Ffyddlondeb dy wyneb di,
A’th burder, eglurder gwlad,
A’th gu eiriau a’th gariad,
Bydd pob grudd yn brudd a bron
Yn tywallt dagrau tewion.
Pe doet yn ôl, drwy urddol dro
Grasol, gwn y caet groeso.

Ateb: Pa ryw siarad prysurwaith
Sy’n dilio swnio mal saith**?**
Pa ofer sŵn? Pa ferw y sydd?

64 Pa ryw ydych? Ai prydydd?
Taw â'th ddwndro, taith hindrol,
Tra egwan ffull, trwy gân ffôl.
'Rwyf i yn siŵr, cyflwr cu,
68 Lluosog, yn llaw Iesu
Mewn trugaredd, sadwedd siŵr,
Gar bron fy hawddgar Brynwr.
Aeth fy nghorffyn, terfyn, taer,
72 I Eglwys y Rhos wiwglaer.
Yn ddi-fêth, ni ddeuaf i
Eto er hyn at 'rheini.
Dwg annerch da, serch di-syn,
76 I Meistir Tomas Mostyn.
Dwg annerch yn deg unwaith
I Fod'sgellan, diddan daith
A'i deulu brau, diwael bryd,
80 Ran ffyniant yr un ffunud,
Ac annerch fy ngwraig union
O 'w'llys, brau ystlys bron,
A'm bendithion, purion peth
84 Daionus i'm dwy eneth.
Dwg annerch, da wiw gynnydd,
I bob Cristion ffyddlon ffydd,
O Lanelian, wiwlan waith,
88 I Gonwy fwy nag unwaith,
Ac annerch, dewrserch, bob dyn
Cywir addas o'r Creuddyn.
O bum gynt, trwy helynt tro,
92 Un beunydd yn byw yno,
Rowan euthum, ran wythwell
I law y saint, le sy' well.
Ffarwel brydydd dedwydd da,
96 Amod hir, yma y taria'.

Prydydd: Ow'r glanddyn, mewn terfyn tost
Neithiwr ai marw wnaethost?
Ai tybied ddarfod d'obaith
100 A'th awen oedd wythen iaith?
Mae rhyw feddwl, drwbwl dro,
Yn y galon i goelio
Fod y prifardd hardd o hyd
104 Yn gorwedd dan y gweryd.
O claddwyd hwn, Brutwn brau,
Claddwyd enaid cledd doniau.
O caewyd dysg mewn coed hen,
108 Call ddeall collodd awen.
Daearwyd fyth di-rwd fawl
A naddiad awenyddiawl.
Tan y pridd yn tŷ'n y pren,
112 Tragywydd y trig awen.

Ffynhonnell:
M 96, 71

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniad:
Teitl: Cywydd Marwnad am yr un gŵr [Siôn Edward] ar ddull ymddiddan; 1: cayad-lennais; 4: iroedd; 7: a'i; 10; Baen; 24: Il; 25: pa fann idd ŵyd?; 45: a rŵy yw henwi; 46: adweinyt: 49: A'd ewi di,; 50: an-ŵr; 51: pana'mweli; 61: prysur-waith; 73: ni ddeua fi; 100: wyth en iaith; Awduraeth: Sion Dafydd a'i cant.

Darlleniad W Gareth Morris – 'Gwaith Siôn Dafydd Las':
Teitl: Marwnad Sion Edward ar Ddull ymddidan; Y byw; 1: caeadlen ais; 4: â; 5: a'u; 8: a mwyn rwysg; 11: rymustaith; 13: yrhawg; 14: 'r oedd; 18: Edward; 24: af yn; 26: biler, ble'r; 31: â'th; 34: Tua Gloddaith; 42: amdanad; 45: Y rhain yr wy; 46: adwenit; 47: Adewi, dowaid; 50: campanwr; 51: pa na; 59: doit; Y marw; 63: ferw sydd; 67: 'r wyf fi; 68: lluosawg; 76: Tomas; 78: Fodsgellen; 81: ag; 91: dro; Yn beunydd; Y byw; 97: Ow! 'r glanddyn; 108: Call ei; 110: 110: awenyddawl.

35

Cywydd marwnad Syr Tomas Mostyn a Bridget, ei wraig

O Dduw gwyn, dduo Gwynedd
Oll i gyd ymhell o'i gwedd,
O gafod tost gofid hir,
4 Oedd oer chwys dduo'r chwesir.
Och i'n mysg o achwyn maith,
O ddig ludded dduo Gloddaith.
Duo plas llawn urddas llu,
8 Wisg irwyn a'i wasgaru,
Torrwyd swmer hyder hwn
A'i dulath, hynod wylwn.
Torrai colofn tŵr celfydd
12 A glain o ddysg glân i'w ddydd
Ni ddaw i'r wlad dduoer loes
Fyth doriad o'i fath deiroes.
Och am farchog cefnog gwych
16 Dawn rhuddin, doniau rhwyddwych.
Am Syr Tomas urddasol
Mostyn wych mae wast yn ôl,
Wast ar bawb, o ystyr barn,
20 A oedd codwm hydd cadarn.
O derfyn gwlad, darfu'n glir
Am un cyfion, mwyn, cofir.
O'i glod aml, galwyd ymaith
24 Y trugarog, doniog, daith,
Aeth ffyddlonder breuder bron
Bleth doniau o blith dynion
Aeth i lawr beniaeth y wlad
28 Hoff wir ged a phur geidwad
Oes ei derfyn, ias dirfawr.
Syn ar fil am synnwyr fawr

Am farchog glân, enwog glod,
32 A oes undyn heb syndod?
Marchog o gyff marchog oedd,
Aer llydan o ieirll ydoedd,
Hil Tudur, haelwaed dedwydd,
36 Trefor, lys tra fawr, ei lwydd.
Och briddo ach, bur roddion,
Hil arglwyddi, meistri Môn,
Gwaed t'wysogion union oedd
40 Bur yn hwn a brenhinoedd.
Er bod o'i fraint byd a'i fri,
O'i ryw enwog rieni,
Ni bu radd neb o'i 'r eiddo
44 Hapus fawl a'i pasiai fo
Yn ei arfaeth iawn yrfa,
Rhannai Dduw bob rhinwedd dda
Mewn synnwyr dwys glirddwys glod
48 Puraidd a deuallt parod,
A'i ddysgeidiaeth ddwys godiad
Am iawn les mwya'n y wlad
Gwedd haelwych, gwyddai helynt
52 Wir swydd gwrs yr oesoedd gynt,
Gwyddai ddeunydd gwedd uniawn,
Groegwyr oll, yn g'reugar iawn,
A Rhufeiniaid, ddyfnblaid ddysg
56 Ef a roddai fawr addysg.
Ac yn wir cywir y caid
Barod hanes Brutaniaid,
Glain Prydain glân parodwych
60 Ei Gymraeg oedd Gymro gwych.
Gwae ni ddwyn gwinwydd iaith,
Agorwr y gywiriaith,
Gwaraidd hydd gŵr oedd hyddysg
64 Am bob mater dyfnder dysg.

Ac o'i ddoniau gwedd iawnwalch
Dedwydd fodd nid ydoedd falch,
On'd addfwyn ymhob deddfau
68 Oen llawn hedd i'n llawenhau?
Yn lle dydd llawenydd lles,
Mae oer goffa, mawr gyffes,
Am farchog cu lle'i bu'n byw.
72 Wylo sydd i'w lys heddiw,
Trwm yn wir yw tramwy'n ôl
Am oen addas mwyneiddiol.
A'i briod wych burwaed aeth
76 I'w ddilyn, hyn oedd alaeth,
Bridget oedd, mawr achoedd maith,
Arglwyddes pywer Gloddaith.
Savage hil dieiddil dŷ,
80 Llawn da orsedd, llin Darcy,
Aeres lân, euroes linoedd,
Wir fawr sail o Rivers oedd.
Hon a'i marchog ddoniog ddydd
84 Ae o'r unwaith, aur winwydd,
I Eglwys Rhos, diddos do,
Gwae'r genedl gywir gwyno.
Siried Duw o'i siwr waed da
88 Ei hil addas hael wiwdda,
Syr Roger, pen piler parch,
Aer gwiwlan rywiog alarch,
Da rhodio diwair hediad
92 Oleuber daith lwybr ei dad,
Thomas a Siôn, freulon fryd,
A Savage hynaws hefyd,
Y rhain a fydd, palmwydd pêr
96 Union had inni'n hyder.
Hil y cyfion galon gwir
I fwyn daith a fendithir.

Mae un brawd am oen Brydain
100 Buraidd serch yn brydd ei sain,
Pendefig clir gywir ged
Hap iawnbarch teulu Penbed,
A'i ddwy chwaer, ddu awch hiraeth
104 Gyfan gŵyn a gofia'n gaeth
Am ŵr annwyl, mawr rinwedd,
Diwair fwyn hyd awr ei fedd.
Annwyl oedd drwy'r siroedd, siwr
108 Hoff ar led a phur wladwr
Pur naturiol raddol wraidd
Fwyn ddygiad foneddigaidd
Cu waredwr caredig
112 O'i byrth oedd heb araith ddig.
Carai Dduw, cywiraidd Iôn,
A'i eneiniog yn union
Ac athrawon doethion dwys
116 Lawn wiwglod y lân eglwys.
Carai fonedd lwyswedd lin,
Hoff radol a chyffredin,
Trwm ar fonedd freisgwedd fri
120 Oruwch gweryd rychori.
Am un boniwr, mwyn beniaeth,
Ddiwair ryw i ddaear aeth,
Ni cheir byth un rhychor bôn
124 Gysonach am gwys union,
Na'i burach yn ei berwyl
I ffrind a châr hawddgar hwyl.
Gwae'r ceraint gwewyr curiol
128 O'i dirion iach dario'n ôl
A'i gyfathrach gu feithrin
Cywir i'w blaid mewn cur blin
Gwae ei deulu gyd wylo
132 Oer iawn gri ei roi'n y gro,

A phob tenant, soniant sydd,
Drwy wast boen yn drist beunydd,
Pwy nad trist mewn penyd draw
136 Modd dostur am hydd distaw?
Oerodd yn wir wreiddyn iaith
A lles gwleddau llys Gloddaith,
Yn lle gwledd alluog lân
140 Da roddfawr y doe ruddfan,
Yn lle bir, lli' aberydd,
Gwae lawer sôn galar sydd,
Yn lle cân a llu cynnes
144 Pob calon sydd brydd heb wres.
Gwae ei feirdd a gae fawrdda
Heb air dig o'i bywer da,
Torrwyd calon beirddion byd
148 Coel foddus a'u celfyddyd,
Os aeth aur baun syth i'r bedd
Na 'ngenwn am gynghanedd,
Gwae bob cerddor, gantor gwych,
152 Am ei roddion mawr rwyddwych,
A mawr wae yma ar wedd
Lliaws gweiniaid llesg Gwynedd.
Ail leshâd Cornelius oedd
156 Hwn a'i les yn ei lysoedd,
Ac ail Daniel, gwnsel gwell,
Naws difyr yn ei 'stafell.
Ni bu i'w ddydd neb oedd iach
160 Ar ddeulin ŵr dduwiolach,
Ymprydio a gweddio'n ddwys,
Bwriadu am baradwys,
Ceid bob dydd gu ffydd goffhad
164 Y gwasanaeth gwiw seiniad
Yn ei addas neuaddau
Foreu a hwyr o'i fawrhau

Hoffodd ddoniau ffydd uniawn
168 Dduw a'i Dŷ yn ddiwyd iawn .
A Duw nef fis Mehefin
Aeth â'r marchog rywiog rin
Oed Crist, wrth nôl siriol sant
172 Iach uchel, mil a chwechant
Nawdeg a dwy, dirwy drom
Ddu oernych a ddoe arnom
O roi gŵr rywiog eiriau,
176 Diwair gorff, mewn daear gau,
Nych oerfyd yn iach yrfa
I blas Syr Tomas waed da
Yn iach, oeswr, na cheisiwn
180 Yn ôl hydd un ail i hwn.
Yn iach i'w bryd, mae'n uwch bro,
Iawnwych hedd, yn iach iddo.

Ffynonellau:
A – Cw 467, 319; B – P 124, 190

Awduraeth:
Owen Gruffydd o Lanystumdwy

Darlleniad:
Teitl: A,B – Cywydd marwnad Syr Thomas Mostyn o Gloddaith a'i Wraig;
A – [Nodyn dilynol] Y Cywyd hwn oed anngyflawn yn yr Ysgriflyfr hwn, ac a wnaed i fynu o Ysgriflyfr Peniarth – Ysgriflyfr rhif 362, [(]tudalen 190); 2: A – Olli i gyd; 11: Torri; 8: A – ir wyn; 61 A – gwinwyd; 60: A – oed Gymro; 61: A – gwinwyd; 63: A – Gwaraid hyd gwr oed hydysg; 65: A – gwed; 66: A – ydoed; 73: A – i'w; 84: B – ar unwaith; 101: B – glir; 120: A – [ni lwyddwyd i ddarllen llythyren gyntaf yr ail air; cynigir gweryd yma]; 128: B – ach; 148: A,B – a'i; 168 A – Dŷ'n; 172: B – Ach.

36

Cywydd marwnad Syr Tomas Mostyn a'i Arglwyddes

Och dorri bôn uchder byd,
Och oer bwn a chur benyd.
Och ddydd du, och ddiwedd dawn,
4 Ni chwerddir yn iach hirddawn.
Och a wyddoch i weiddi,
Och lwyr groch, uchel yw'r gri.
Och adwyth i chwi ydoedd,
8 Och! Och flin! Uwch, uwch y floedd.
Och ffarwel dost ym Mostyn,
Ffarwel hallt i'w pherl ei hun.
Rhosyn i Fostyn a fu,
12 Aeth o Gloddaith i'w gladdu.
Syr Tomas â'i air twymyn
Oedd wres haf, mae'n ddiwres hyn,
Oer lafur ar Ŵyl Ifan,
16 Rhy oer y tŷ'n rhewi'r tân.
Oer i eryr hir aros
O'i lys rhydd yn Eglwys Rhos.
I'r llys oedd ar lles iddynt,
20 Llai brys gwŷr lle bu wres gynt.
Os oerodd y llys arian
Ar eich lles, oerach y llan.
Och o'r gair, ewch o'r goror,
24 Rhowyr mynd o rhewa'r môr.
Gadel yr angel yw'r ing,
Gŵyn gofid, mewn gwain gyfyng.
Angau a'i rhoes, ing y rhaw,
28 Â'i arf erchyll ar farchawg,
A'i arglwyddes, wawr Gloddaith,
I ran Duw aeth i'r un daith.
Ni ddymunodd i'w maenol,

32 Aeres wych, aros o'i ôl.
Gado i fonedd gyd-fyned
A wnaeth Crist am wenith cred.
Un foddion yn fyw oeddynt,
36 Un gred goel, un gariad gynt,
Un galon union, un air,
Un ddaioni yn ddianair.
Brau doddiad, bwrw eu dyddiau
40 Heb awr ddig y bu yr ddau.
Cyd-fawrhau, cyd-fwrw eu hoes,
Cloi mwyniant cwlwm einioes,
Cyd-ymwasg caead amod,
44 Cyd-gadw clêr, cyd-godi clod,
Cyd-ddiweddu ced ddiddan,
Cyd-fyw'r un lwc, cyd feirw yn lân.
Cyd-hunodd, unodd y ddau,
48 Cyd-orwedd o'u cadeiriau.
Diau fyned dau fonedd,
Dau ran y byd i'r un bedd.
Nid all dim â dull damwain
52 Ysgar y ddau gymar gain.
Brigied i'w gofled a gadd
Barwn henryw brenhinradd.
Syr Tomas am urddas mawr,
56 A fu lonydd yn flaenawr.
Ceir ei fawl acw ar ei fedd,
Cu hoff bennaeth, cyff bonedd.
Aer o Dudur, aur didau',
60 Trefor oedd, rychor yr iau.
Gwael ydyw braint gwlad heb rym,
A gair dewredd gwŷr dirym.
Galarus faglu eryr,
64 Fawledig walch, flodau gwŷr.
Ei fawr fudd fu ryfeddol

Fel yr âi fil ar ei ôl.
Ifor Hael, â'i fawr helynt,
68 A fu i'w gael fwya' gynt.
Syr Tomas lownfras ei law
Oedd haelach ei ddeheulaw.
Mwyn gyfaill, mwy nag Ifor,
72 Am rannu gwin ym min môr.
Ni fu inni yn fyw ennyd
Iarll o'i fath yn yr holl fyd.
Pawb a roi gwrs pybyr eu gwaith
76 Arfer gwledda ar fwrdd Gloddaith.
Rhydd ei lys, rhwydd elusen,
Rhoi da'r byd rhad ar ei ben.
Llys afiaith a llysieufwyd,
80 Llys y barch gyda lles bwyd.
Hyd fedd bu rhyfedd barhau,
Aur i feirdd ar ei fyrddau.
Ymrwygodd y Gymreigiaith
84 Am gladdu'r ymg'leddwr iaith.
Och Gwynedd, yn iach ganu
Â llais beirdd i'r llys y bu
Llais galar a llesg wylaw
88 Lle sy' drist yw yr llys draw.
Aberth o fawl i'w barth fu,
Blas cynnes a blys canu.
Gwan yw nerth i ganu'n iawn
92 Gywydd gofid, gwaedd gyfiawn.
Pob pen sydd, briw efrydd bro,
Ac awenydd i gwyno.
Sal'mon sir Arfon siŵr oedd,
96 Seiliedig â'i sail ydoedd.
Ni thâl gwlad ymddifad ddim,
Suddo addysg sy' ddiddim.
Athro da ei weithred oedd,

100 Di-lid a duwiol ydoedd.
Mae gwŷr sir, mwy garw sôn,
Fflint yn waeth na phlant noethion.
Aeth y wlad etholedig
104 Yn waeth ei braint, noethi ei brig.
Gar'foel yw, gair aflawen,
Golli'i pharch ac eillio'i phen.
Ym Mostyn y mae ystyr
108 Am les byd melys a byr.
Ffei o'r byd, na phery beth!
Ffei dda amod, ffodd ymeth!
Dau air du, dorri dau ŵr,
112 Diben clod, dau ben clydwr.
Gwŷr mawrion i gau'r moroedd,
Gleiniau serch rhag aliwns oedd.
Mab a thad am obaith hir
116 A ddewisodd y ddwysir.
Syr Rosiar ddewrgar, ddurgorff,
Ynad chwyrn, enaid a chorff.
Ni châi drawsion eich dreisiaw,
120 O dôi lid, ofnid ei law.
Amnaid ei lygaid a'i lun,
Ŵr sad, oedd arswyd iddyn'.
Hwn yn ei fro, hen iawn fraint,
124 A hunodd yn ei henaint.
Gwag yw'r lle, gwae Gaerlleon,
Gwae wŷr fil o Gaer i Fôn.
Syr Tomas, glain teyrnas teg,
128 Sidan gwŷr, sy' dan garreg.
Dyna'i orweddfa raddfawr,
Dyna yr lwc dano ar lawr.
Dychwelwch, dewch i wylo,
132 Ufudd feirdd, ar ei fedd fo.
Derwen oedd yn dirwyn iaith,

Adeiladwr dilediaith.
Ei frawd annwyl, frwd annerch,
136 Galarus yw gloi ar serch.
Y Meistyr Richiard Mostyn,
Wisg aur gorff, ysgwïer gwyn,
Mae achreth hireth a haint
140 I'w chwiorydd a cheraint.
Duw a'i dug, dwy a deugen
Fu yr oes fer hanner hen.
Oed Iesu, a'i dewisawdd,
144 A roes yn hwn ras yn hawdd,
Dau wythgant, moliant miloedd,
Wyth ddeg a deuddeg, Duw oedd.
Os ber fu oes y barwn,
148 Oer oes hir yw eisiau hwn.
Eisiau nerth a'i ras i ni
Eisiau gwladwr sy' gledi.
Pob gŵr o gryfdwr a grŷn
152 Am rymuster mawr Mostyn.
Gwae'r bonedd, pruddedd bob rhai,
Gwae'r gwerin, gwŷr a garai.
Ni cheir ced na châr cadarn,
156 Gwenwyn fyw, nac union farn.
Twyll a sai', tywyll y sir,
Taried arswyd trwy deirsir.
Ni wêl dyn ond y niwl du
160 Ar frig camrig fro Cymru.
Haul y ddaear, hawl ddioed,
O hil yr ieirll haela' erioed,
A'r lloer wen, a'r llaw a rodd,
164 Fwya 'i chlod, a fachludodd .
Lloer o aeres, lliw'r eira,
O Biston tirion waed ta.
Hwn a hon ni wahanwyd

168 O ran eu rhoi yn yr un rhwyd.
Od oes gysur, dwys geisiwn
O hoyw hil y hi a hwn.
Y mae egin yn magu
172 Yn llwyn fal y winllan fu,
Pedwar o impiau adail
Perion sydd, pur yn eu sail.
Blodau ar bobl ydynt,
176 Blagur gwaed ni blyga'r gwynt.
Cedrwydd ffres, coed a rydd ffrwyth,
Cyfion, teilwng, cefn tylwyth.
Mae Syr Raigiar, hawddgar hedd,
180 Heddiw'n ben, rhuddin bonedd.
Daw i Fostyn, dwf wastad,
Golygwr lyw, 'n glog i'r wlad
Tomas yw'r ail, arail yw,
184 Tëyrn waed, tirion ydyw.
Siôn raddol, sai'n ei wreiddyn,
Yn drydydd llywydd o'r llin.
Saveg lân, degan y dydd,
188 Bid i euro'n bedwerydd.
Purder help, parod yw rhain,
Pur loyw bryd perlau Brydain.
Gorau mam a fu'n tramwy,
192 Gorau tad oedd eu tad hwy.
O ddwyfil dda fywoliaeth,
Gorau dau i'r gweryd aeth.
Duwiol oedden', dau lwyddiant,
196 Dau lân gyrff a dalen gânt.
Dau enaid y daioni,
Dwy rodd Nef, dau rydda' i ni.
Dau lain Duw a'i lawenydd,
100 Ddawnus ran, o'i ddinas rydd.
Oi ddinas rydd.

Ffynonellau:

A – Cw 224,11; B – Cw 5,554; C – Ll 166, 139; Ch – D/M/7155 (Archifdy Sir y Fflint); D – NLW 311E,44; Dd – NLW 1237B,98

Cyhoeddwyd y gerdd yn *Eos Ceiriog, sef casgliad o Ber Ganiadau Huw Morus yn ddau llyfr: O gynnulliad a Diwygiad W.D., Llyfr 1* (Wrecsam, 1823)

Awduraeth:
Huw Morys

Darlleniadau:
Teitl: A – [rhwyg ar ochr y dalen]wydd marwnad Syr Tomas Mostyn [ ]Arglwyddes a gladdwyd yn y run bedd, B – Cywydd marwnad Sir Thomas Mostyn o Fostyn ar Arglwyddes a gladdiwd yn yr un dydd ar un bedd 1692, C – Cywydd Marwnad Sr Tomas Mostyn o fostyn ai Arglwyddes a gladdwyd yn yr un dydd ar un bedd 1692, Ch, Dd – Cywydd Mawrnad Syr Thomas Mostyn ai Arglwyddes a gladdwyd yn yr un bedd, D – Cywydd Marwnad Syr Tomas Mostyn ai Arglwyddes, a gladdwyd yn yr un Bedd – A.D. 1692; 4: D – hir ddawn; 9: A – y Mostyn, B,C – farwol dost i Folstyn, Ch – ymostyn;10: A,B,Ch,D,Dd – halld;14; B,C – yn ddiwres;16: Dd – Rhu oer y ty ni thenir tan; 17: Dd – Oer i corff hir aros; 18: C – O'i llys;19: D – aur lles; 22: A,B,C,Ch,D,Dd – ych lles; 24: C – rhywyr; 33: D – Gida i; 34: Ch – Christ; 38: B – ddaioni'n; 43: B,C,Ch – cariad amod; 45: C – cyd-diwedd; 46: A,B,C – 'run lwc, Dd – Cyd fyw run liw cyd feiau yn lan; 46: B,D – cyd feirw'n; 50: A,Ch,D,Dd – Dau ran byd; 51: B,C – mewn dull; 52: B,C – ysgair; 53: C – Bridged; gowled; 57: Ch [rhwyg yn y papur]ccw ar i fedd; D – ar 'i fedd; 59: Dd – Aer o Dudwy; 64: B,C – fawledig waith; 66: C – Fal i rai; Ch – Fel y rai; 68: B,C – Fu yw gael yn fwya' gynt; 69: D,Dd – 'i law; 70: B,C – Oedd helaeth; 70: D,Dd – 'i ddeheulaw; 72: D – Am rann; 72: A,C,D,Dd – y min mor,B – y myn mor, Ch – y' min mor; 75: B,Ch – Pawb roe gwrs pybyr i gwaith, C – Pawb red; 75: D – pybyr 'i gwaith; 76: B,C – Arfer gwledd ar fir Gloddaith, Ch – Arfer gwledda ar fir Gloddiath; 77: A – Rydd, C – Rhodd, D,Dd – Rhydd i lys; 78: D,Dd – ar 'i ben; 80: C – Llys i barch; 81: B – bu rhydd barhau, C – bu rydd barhau; 83: Dd – Ymrewygodd, B,C – y gymraeg iaith; 84: A,C,Ch,D,Dd – gladdu yr; 88: B,C,D – yw'r llys; 90: B – Plas; 91: C – Gwain i'w nerth; 94: C – Ac at weinydd; 95: B – Salmon ac Arfon, D – Solomon; 96: D,Dd – Seledig; 98: C – sydd; 99: D – da 'i weithred; 101: B,C – Mae gwyr y sir, Ch – mwy garw yw son; 103: C – Aeth i wlad; 104: D,Dd – waeth 'i braint; 107: A,Ch,D,Dd – Y Mostyn, B,C – Yn; 108: B,C – mel a byr; 109: Dd – na fferi; 111: B,C – aur du; 112: Dd – i gan ro moroedd; 117: B – Syr Roger ddeurgar, C – Syr Roger deigar ddur gorff, Ch – Syr Ragiar, Dd – Syr Rasiar; 119: A,B,C,Ch,D,Dd – ych; 120: B,C – ofned, D,Dd – O doe lid, ofnid 'i law; 126: Dd – Gwae myre fil;127: D,Dd – tyrnas; 128: Dd – sedan gwyn; 129: B,C – dyna orweddfa; 130: B,C – Dyna lwc, Ch,D – Dyna'r**,** Dd - Dyna yr lwrr; 131: A,Ch,D,Dd – dowch;132: C – Un fudd feirdd, Dd – A fydd feirdd; 133 a 134 – Llinellau yn brin ar A, D a Dd; 133: B – Derwed, C – Dewred; 134: C – A deiladwr, Ch – Adiladur; 135: B,Ch – Ei frawd enwog;136: Galarus iw; D – aer serch; 137: C – Y Meisdir, B,C – Richard, Ch – Y Meister Richart, D – Richiart, Dd – Y Meistr Richiart; 139: B – hiraeth; 140: A,D – chwaiorydd, Ch – chwariorydd; Llinell 142 Ch – [rhwyg yn y papur] dewisawdd; 146: B,C – Wyth deg; 149: B,C,D,Dd – Eisiau i nerth; 151: C – gryfder, D – grym; 153: A,C,Ch - Gwae yr, B – brudded bob, C – beunydd bob rhaiu, D,Dd – pob; 153: B – gwir a garai;156: C – Gerwyn;158: B,C – drwy; A,Ch,D,Dd – Camrig;162: B – haela 'r 'ioed, C,Ch – haela' 'rioed;163: B – A lloer wen, C – A llaw wen i llaw a roedd;166: D – dirion; 167-186: Ch – llinellau yn brin [rhwygwyd y llawysgrif, hanner y dudalen yn eisiau];168: A,Dd – i rhoi, D – ei rhoi, A,Ch,D – yn y run;169: O

does;170: B,C – O hoyw hil, hi a hwn, Dd – O honn hil y hi a hwn; 173: D – Pedwar impin ar adail; 174: A,B,C,Ch,Dd – i sail, D – ei sail;175: B – y bobl;176: Dd – blygai'r; 178: B – cefen, A,Dd – tolwyth;179: B – Rossier, C – Roger;180: C – yn ben; 182: C – Golygwr iw yn glog iw wlad; 184: A – Teuyrn, B,C – Teuryn, Dd – Teuryw; 185: C – sai yn i wreiddyn; 186: B – lywydd;187: B – degan dydd, C – A Savage lan dlos i rydd, Ch – A Savage lan degan dydd; 188: B – ei euro yn, D – i euro yn, C – Byd i daro yn bedwerydd; 189: B,C – yw'r rhain, Dd – iw rhain; 190: B – perllan Prydain, Ch [rhwyg yn y papur]w bryd Perlau B[ ]; 191: D – goreu; 192: D – goreu; 195: B,C,D – oeddynt, Dd – da lwyddiant;196: C – gynt; 198: B – ry dda i ni, C – radd, D – ini; 201: A – Ail ysgrifennwyd geirau olaf y cywydd – 'Oi ddinas rydd' – ar y linell ddilynol.

Darlleniadau David Jenkins – 'Bywyd a gwaith Huw Morys (Pont y Meibion) 1622-1709', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1948

19: aur lles; 24: rhywyr; 38: ddaioni'n; 68: Fu yw gaelyn fwya' gynt; 73: Ni fu i ni'n fyw ennyd; 75: Pawb roe gwrs pybyr ei gwiath; 76: fwr'; 81: bu ryfedd; 88: y llys; 93: Solmon; 96: Seledig; 97: amddifad; 101: Mae gwŷr y sir; 104: noeth ei brig; 112: dauben; 131: dowch;149: Eisiau i nerth; 152: pob; 168: rhoi'n yr un; 175: ar y bobl.

37

Englyn marwnad i Tomas a Bridget Mostyn

Dwyn marchog eurog a geres, – dwyn paun,
Dwyn pennaeth a hoffes;
Dwyn yn llwyr, daioni ’n lles
4 Aer Gloddaith a’i arglwyddes.

Ffynhonnell:
NLW 431B, 77

Awduraeth:
Siôn Dafydd Las

Darlleniadau:
Teitl: Englyn a wnaeth Sion David, y prydydd, pan glywodd farw Syr Thomas Mostyn a’i Arglwyddes; Awduraeth: John Davies a’i cant; 3: ddaioni’n lles; 4: Aûr Gloddeth a’i ’r Arglwyddes.

Darlleniad W Gareth Morris – ‘Gwaith Siôn Dafydd Las’:
Teitl: Englyn Marwnad Tomas Mostyn (IV) a’r Arglwyddes Mostyn; 3: ddaioni’n.

38

Cywydd i Roger Mostyn

Meistr Roger fwynber fin,
Da, gampus o deg impin,
Ŵyr Syr Roger, dyner dw',
4 Oen hynod o'r un henw.
Mab Tomas Mostyn rasol,
Dygwch y dygiaid i'ch ôl,
Llwyth Trefor, blaenor heb ludd,
8 A Savage o ras ufydd.
Eginyn o wreiddyn ryw,
Odiaeth pen bonedd ydyw.
Boed eich gras, bur urddaswych,
12 Yn orau i gyd, yn ŵr gwych.
Yn farchog hen bo'ch, f'enaid,
O fawl i'ch tŷ fal eich taid.
Cynyddwch fal gwinwydden
16 Yn y coed, doreithiog hen.
Ffyniant, llwyddiant a lles
Manwl a ddel i'ch mynwes,
A doniau hardd, dianael,
20 I fyw y rhawg fal Ifor Hael.
Oes Nestor a'i rhagori,
A rhwydd-deb i'ch wyneb chwi.

Ffynonellau:
A – Ba(M) 9, 30a; B – NLW 11087, 62

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniadau:
Teitl: A – Cywydd i'r un rhyw, B – Cywydd i Mr Roger Mostyn, mab hynaf y Mr Thomas Mostyn o Loddaith; Awduraeth: A – R.C., B – Syr Rhys Cadwalader a'i cant; 6: A – Dygwch i dugiaid ych ôl; B – Dygwch i dygiad eich ôl; 7: B – llŷdd; 14: B – eich; 22 – Rhwyddeb.

39

Englynion i Roger Mostyn

Croeso Roger bêr, o burion – achau,
Iechyd yn eich calon,
Ffyniant a llwyddiant llon
4 Gan' oes i'ch bochau gw'nion.

Mab cynnes fynwes, prif ennaint – llawen,
Llywydd pawb o'i geraint.
Pendefig, aed brig a braint
8 Gradd hwn i gyrraedd henaint.

Ffynonellau:
A - Ba(M) 9,30a; B - NLW 11087, 62b

Awduraeth:
Rhys Cadwaladr

Darlleniadau:
Teitl: A a B – Englynion i Mr Roger Mostyn; 1: B – iachau**;** 4: B – Cannoes eich; 5: B – prifennant**;** 8: B – ei gyrraedd.

Nodiadau

1

Mae englyn Siôn Edward yn cyhoeddi cyfnod newydd o nawdd barddol ar aelwyd plas Mostyn, ar ôl bwlch yn y traddodiad o hanner canrif. Y bardd olaf cyn hyn i gael ei groesawu ar aelwyd plas Mostyn oedd Siôn Cain yn 1628 (Llawysgrif Peniarth 116, 97) ac ar wahân i'w farwnad i Rosier Mostyn yn 1642 (Llawysgrif Peniarth 116, 797), ni fu canu i'r teulu hyd *c.* 1678.

Gwelir bod yr adfywiad yn cael ei gynnal yn bennaf gan wŷr eglwysig, ac mae Siôn Edward, ClochyddLlanelian, yn un ohonynt. Cofnodir ei waith barddol dan yr enw Siôn Edward a Syr John Edwards ond tybir mai yr un yw'r gŵr, gyda'i ganu yn dyddio *c.* 1678 hyd *c.* 1682. O'r cerddi o'i eiddo sydd wedi goroesi yn llawysgrifau Bangor (Mostyn) 9, Bangor (Mostyn) 21, B. Add. 14975, Caerdydd 4.10, Cwrtmawr 5, Mostyn 96, Mostyn 148, NLW 11999, a NLW 11087, mae nifer ohonynt wedi eu canu i deulu Mostyn neu yn ymryson gyda Rhys Cadwaladr, curad Llanfairfechan, un arall o feirdd Mostyn a Gloddaith. Yn ei waeledd, cafodd Siôn Edward loches yng Ngloddaith gan Tomas a Bridget Mostyn, ac mae'r caredigrwydd hwn tuag at y bardd yn cael lle amlwg yn y tair marwnad iddo gan Edward Morris, Perthi Llwydion, Rhys Cadwaladr a Siôn Dafydd Las (Cerddi 32-34). Ni cheir y manylion achyddol traddodiadol yn y marwnadau, ond ceir cyfeiriad at wraig a dwy ferch yng ngherdd Siôn Dafydd Las (Cerdd 34. 81, 84) ac ef hefyd sy'n nodi mai yn Eglwys Llanrhos y claddwyd Siôn Edward (34. 71-72). Gwelir Rhys Cadwaladr yn cyfeirio at wraig o'r enw Ann a drigai yn Llandudno mewn cywydd i Siôn Edward a dyma'r unig awgrym o gefndir teuluol y bardd. Gweler Mostyn 96, 62.

Cofnodir yr englyn i deulu Mostyn yn llawysgrif Bangor (Mostyn) 9 mewn cyfrol sy'n dyddio o 1734 ac sy'n cynnwys pump o gerddi a ganwyd i Rosier Mostyn (m. 1690) a'i ŵyr, Roger Mostyn (m.1734) *c.*1679. Gweler Cerddi 1-3, 38-39. Er i Siôn Dafydd Las gasglu cerddi i'r teulu mewn un gyfrol (Mostyn 96), mae'r cerddi hyn yn absennol o'i lawysgrif.

1 **hiliogaeth dda** Roedd llinach hynafol Rosier Mostyn yn cynnwys gwŷr amlwg yn lleol a chenedlaethol, yn weinyddol, gwleidyddol a diwylliannol, ers cenedlaethau. Yn eu mysg ceir Rhisiart ap Hywel (m. 1539/40) a Wiliam Mostyn (m. 1576), comisiynwyr Eisteddfodau Caerwys, ond drwy briodasau, unwyd y teulu gyda nifer o deuluoedd blaenllaw ar draws gogledd Cymru.

2 **llys Mostyn** Plas Mostyn, sef prif gartref y teulu o ganol y 15g hyd y presennol. Lleolir y plas ger arfordir y gogledd-ddwyrain, ger pentref Mostyn, Sir y Fflint, a chyfeirir ato fel un o bum llys y teulu mewn nifer o gerddi. Etifeddwyd y pum llys yn ei gyfanrwydd gan Rhisiart ap Hywel (m 1540), sef Pengwern, Llangollen; Trecastell, Penmon; Tregarnedd, Llangefni; Gloddaith, Llandudno a Phlas Mostyn, Sir y Fflint, gan roi presenoldeb i'r teulu ar draws gogledd Cymru. Tra mae neuadd y plas yn dyddio *c.* 1470 (gweler nodiadu Cerdd 2) dechreuodd Wiliam Mostyn (m.1576) waith ailadeiladu sylweddol yn 1570, a pherthyn y Porth Mawr i ran gyntaf ei gynllun i ehangu'r plasty. Bu farw cyn cwblhau ei weledigaeth, gyda'r gwaith adeiladu diweddarach gan ei etifeddion yn seiliedig ar ehangu'r neuadd. Gweler gwefan Cadw – Cymru Hanesyddol – am fanylion am y Porth Mawr. http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21516.

4 **Gras Duw** Gwŷr eglwysig lleol oedd y mwyafrif o'r beirdd a oedd yn canu i'r teulu erbyn diwedd yr 17g.; gweler uchod.

2

Mae awgrym mai wedi ei drydedd briodas (â Lumley Coetmor) y canodd y beirdd ar aelwyd Syr Rosier Mostyn (m. 1690) gan nad oes cofnod o gerddi iddo cyn 1676. Er i Blas Mostyn gael ei addasu sawl gwaith, prin yw'r manylion am unrhyw waith adeiladu yng nghyfnod Rosier Mostyn. Er hynny, mae'r dyddiad 1678 i'w weld ar nenfwd un ystafell ym Mhlas Mostyn ac efallai mai i'r ystafell hon y canodd Siôn Edward yr englyn. Byddai'r dyddiad yn cyd-fynd gyda sylw Hanneke Ronnes am y toreth o glosetau a ymddangosodd mewn plastai yn ail hanner yr 17g., gweler Hanneke Ronnes, *Architecture and Élite Culture in the United Provinces, England and Ireland, 1500-1700* (Amsterdam, 2006) 144. Cafodd y closet sylw beirdd Lloegr yn yr un cyfnod, a chanodd Sir George Mackenzie (1636-1691)

y gerdd 'Caelia's Country House and Closet' gan gyfeirio at ystafell yn llawn creiriau crefyddol, llyfrau a darluniau. Ceir y gerdd yn Alastair Fowler, *The Country House Poem: A Cabinet of Seventeenth-Century Estate Poems and Related Items* (Caeredin, 1994) ac efallai fod Siôn Edward yn gyfarwydd gyda'r *genre.* Ceir yr unig gofnod o gerdd Siôn Edward mewn llawysgrif sy'n dyddio o'r flwyddyn 1734.

Teitl **i fyfyrgell/closet newydd** Ceir y dyddiad 1678 mewn gwaith plastr ar nenfwd un o ystafelloedd llawr cyntaf Plas Mostyn, gyda dwy linell fer o lythrennau uwch ei ben, 'M' ar un a 'Sr R L' ar y nesaf. (M i gynrychioli Mostyn, Sr R, Syr Rosier, ac L i gynrychioli Lumley.) Erbyn y dyddiad hwn, roedd Rosier Mostyn yn briod gyda'i drydedd wraig, Lumley Coetmor. Ceir dyddiadau ac enwau deiliaid cynharach mewn mannau eraill yn y plas i gofnodi gwaith adeiladu ond dyma'r unig gofnod sy'n nodi gwaith adeiladu yng nghyfnod Rosier Mostyn. Bu ei daid, Rosier Mostyn arall (m. 1642) a'i nain, Mari Gwyn, Gwydir gynt, yn gyfrifol am waith ailadeiladu sylweddol ar y plas yn 1631-2, gan greu un o blastai mwyaf y sir yn y cyfnod. Er hynny, ni cheir cofnod o unrhyw gerdd i'r plas yn y cyfnod hwn. Difrodwyd rhywfaint ar Blas Mostyn yn ystod y Rhyfel Cartref a bu Rosier a'i deulu yn byw ym Mhlas Uchaf o 1641 ymlaen, nes iddynt symud yn ôl i Blas Mostyn yn 1651. Ystafell breifat i ymneilltuo iddi fyddai closet yn yr 17g. Gweler adnodd electroneg Cadw – Cymru Hanesyddol – am fwy o fanylion am nodweddion pensaernïol y plas a'i adeiladau hynafol. http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21517

1 **milwr** Bu Rosier Mostyn yn flaengar iawn yn lleol yn ymladd dros Siarl I yn ystod y Rhyfel Cartref. Yn bedair ar bymtheg oed, a newydd etifeddu ystad y teulu ar farwolaeth ei daid ddyddiau ynghynt, cododd Rosier fyddin o 1,500 o ddynion yn lleol o fewn deuddeg awr ar ddechrau'r rhyfel. O fewn ychydig o fisoedd, roedd wedi ei ddyrchafu'n gyrnol ym myddin y brenhinwyr a bu'n arwain ymgyrchoedd i warchod Castell y Fflint a dinas Caer, yn ogystal â recriwtio yn lleol ac yn Iwerddon. Amcangyfrifir ei fod wedi gwario oddeutu £60,000 o'i boced ei hun a cheir awgrymiadau ganddo ar sawl achlysur wedi'r rhyfel ei fod mewn amgylchiadau ariannol anodd. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

3 **marchog** Urddwyd Rosier Mostyn yn farchog yn ystod haf 1660 am ei wasanaeth i'r Goron yn ystod y Rhyfel Cartref, ac ychydig fisoedd yn ddiweddarach, fe'i dyrchafwyd yn 'Knight of the Royal Oak' a'i greu'n farwnig. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

3

Mae rhai o lythyrau Rosier Mostyn (Archifdy Prifysgol Bangor, Casgliad Mostyn, yn arbennig 9068.7) yn cyfeirio at gyfnodau o gyni ond nid dyma'r sefyllfa a gyfleir gan Rhys Cadwaladr, Curad Llanfairfechan, yn 1679. Canodd yr unig gerdd yn y casgliad i gofnodi gwledd odidog ym Mhlas Mostyn yng nghyfnod Rosier Mostyn (m. 1690). Cofnodwyd haelioni Rosier Mostyn ymhellach mewn adroddiad manwl gan Thomas Dineley o ymweliad Dug Beaufort â phlas Mostyn yn 1684 pan gynhaliwyd gwleddoedd gwych a dathliadau ysblennydd, ond nid oes awgrym fod y beirdd wedi canu i ddathlu'r ymweliad arbennig hwn. Gweler Thomas Dineley, *The Account of the Official Progress of his Grace, Henry, the First Duke of Beaufort, through Wales in 1684*, (Llundain 1888), 90-97.

Cofnodir 1679 fel blwyddyn canu'r gerdd a rhydd hynny ddyddiad inni ar gyfer dechrau'r cysylltiad barddol rhwng Rhys Cadwaladr (*fl.* 1666-90) a theulu Mostyn. Roedd yn hanu o'r Coleg yn nhre Conwy (Llansteffan 15, 37) er i Siôn Edward nodi fod ganddo gysylltiadau â Gelynnin, Conwy (Mostyn 96, 63). Roedd yn fardd toreithiog a cheir ei gerddi mewn nifer o lawysgrifau. Gweler *Maldwyn*, Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau, adnodd y Llyfrgell Genedlaethol, am fanylion am eu lleoliad. Bu dau o'i gyd-feirdd ym Mostyn a Gloddaith, Siôn Edward a Siôn Dafydd Las, yn ymrysona ar sawl achlysur gydag ef ac roedd ei feddwdod yn destun llawer o'r cynnyrch barddol. Gweler J. Fisher, *The Cefn Coch Manuscripts* (Lerpwl, 1899), 226-231; hefyd llawysgrif Mostyn 96, 62 a 63. Ceir cyfieithiadau ganddo i'r Gymraeg o waith Horace a Petronius Arbiter, gwaith a gofnodwyd gan Siôn Dafydd Las yn llawysgrif Mostyn 96, 78 a 79. Ceir copi ffacsimili o'r llawysgrif yn Archifdy Prifysgol Bangor – Mostyn 9081 – ac yn y Llyfrgell Genedlaethol – NLW 3027E. Bu farw Rhys Cadwaladr yn 1690. Gweler BA: Cadwaladr, Syr Rhys.

Cofnodwyd dyddiad canu'r englynion yn y teitl (1679), a cheir y gerdd (yn yr un llawysgrifen) mewn dwy lawysgrif yn dyddio o ddiwedd yr 17g. a dechrau'r 18g.

3 Dyrchafwyd Rosier Mostyn yn farchog yn 1660 gan Siarl I am ei wasanaeth i'r goron yn ystod y Rhyfel Cartref. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

4 Bu i Rosier Mostyn briodi dair gwaith ac at y drydedd wraig, Lumley Coetmor, merch George Coetmor, Coetmor, Sir Gaernarfon, y cyfeirir yma. Bu iddynt briodi yn Chwefror 1676 ond byr fu'r briodas, gan i Lumley farw yn Hydref 1680. Gwraig gyntaf Rosier oedd Prudence , merch Syr Martin Lumley, Great Bradfield, Essex, ond bu hi farw yn 1647-8. Mary, merch Thomas, Iarll Bulkeley, Baron Hill, oedd ail wraig Rosier Mostyn a mam ei etifedd, Tomas. Bu hi farw yn 1662. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

5 **Mostyn** Pentref ar arfordir y gogledd, yn Sir y Fflint, rhwng trefi Prestatyn a'r Fflint, gyda Threffynnon bedair milltir i'r de-ddwyrain. Mabwysiadwyd enw'r plas fel cyfenw gan Tomas ap Rhisiart yn 1539, ar orchymyn yr Esgob Rowland Lee, Llywydd Cyngor Cymru a'r Gororau. Gweler HFMM, 83. Am fap hanesyddol i weld lleoliad pentref Mostyn a'r plas, gweler gwefan 'A Vision of Britain Through Time': http://www.visionofbritain.org.uk/maps/?layer=europe&xMin=3148897.00900&yMin=3016178.57646&xMax=3151697.00900&yMax=3018978.57646.

9 **Henwch dŷ** Tybir bod neuadd fawr y plas yn dyddio o *c.* 1470, sef cyfnod Ieuan Fychan a oedd yn briod ag aeres y llys, Angharad, ferch Hywel ap Tudur ab Ithel Fychan. Adeiladwyd y Porth Mawr, gan Wiliam Mostyn, lle ceir y geiriau 'Anno Mundi 1555 W.M. 1570' wedi eu naddu ar ddistiau derw mynedfa'r adeilad. Bu gwaith adeiladu sylweddol ar y plas yn 1631-2, sef cyfnod Rosier a Mari Mostyn, gan ei drawsnewid yn un o dai mwyaf y sir yn y cyfnod. Ceir disgrifiad manwl o'r plas a'i hanes cynnar gan Thomas Pennant yn *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (Fleet Street, 1796), 53-110, a manylion mwy diweddar, ynghyd â lluniau o'r plas, gan Henry Taylor yn *The Flintshire Historical Society Journal*, 6, (1916-17), 6-13. Am nodweddion adeiladol y plas, gweler gwefan Cadw: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21517 (cyrchwyd 24/4/2012).

9 **uwch daear** I'r gogledd o'r ardd, mae'r tirwedd yn disgyn yn sydyn, tuag at lannau Afon Dyfrdwy a phorthladd Mostyn.

11 **adar** Ceir colomendy yn dyddio o ddiwedd yr 16g. neu dechrau'r 17g. i'r gorllewin o'r plas. Gweler gwefan Coflein: www.coflein.gov.uk/pdf/CPG101/.

16 **gwin a bir** Yng nghofnod cronfa ddata adeiladau Rhestredig Cadw, Cymru Hanesyddol, ceir cyfeiriad at gegin distyllyr (stills room) ym Mhlas Mostyn, gydag offer bragu, megis twb cerrig a baril llydan, i'w gweld yno o hyd. http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21517.

17 **pob gwlad** Un o'r ymwelwyr mwyaf dylanwadol â Phlas Mostyn yn yr 17g. oedd Dug Beaufort, sef Henry Somerset, 3ydd Iarll Caerwrangon, yn ystod ei daith drwy Gymru yn 1684. Gweler uchod.

22 **gynnydd** Yn ystod y cyfnod wedi'r Rhyfel Cartref, bu Rosier Mostyn yn Siryf Sir y Fflint, 1665-7, Siryf Sir Gaernarfon 1666-7, yn ogystal â bod yn ynad heddwch a Dirpwy Raglaw i Sir y Fflint. Ond mae'n sicr mai ei ddyrchafiad yn 'Knight of the Royal Oak' a'i urddo'n farchog a barwnig yn 1660 am ei wasanaeth i'r Goron oedd ei orchest fwyaf. Yn ddiweddarach, bu'n cyflawni dyletswyddau'r *Custos Rotulorum* yn Sir Gaernarfon yn 1674. Gweler HFMM, 135-155.

25-32 **dewr filwr** Parhaodd ei gysylltiad gyda Milisia Sir y Fflint hyd ei farwolaeth yn 1690. Gweler 2.1n uchod.

41 **llon dylwyth** Goroesodd dwy ferch o'r briodas gyntaf gyda Prudence Lumley, Jane Puleston a Susana Thelwall/Trefor. O'r ail briodas gyda Mary Bulkeley, goroesodd Tomas Mostyn, Margaret Malet, a Richard Mostyn II. Ni fu plant o'r drydedd briodas gyda Lumley Coetmor. HFMM, 135-155.

4

Daeth Plas Benbedw, Nannerch, Sir y Fflint, yn eiddo i Syr Rosier Mostyn yn 1675 ac os derbynnir fod y gerdd wedi ei chanu yr un pryd â Cherdd 3, bu Rhys Cadwaladr ar ymweliad â'r plas oddeutu 1679. Yn 1687, trosglwyddwyd ystad Penbedw i drydydd mab Syr Rosier, sef Richard, a'i enw ef a nodir yn y gerdd ar lawysgrif Cwrtmawr 206B ac nid Rosier, ('Sr Rosier' a nodir ar NLW 11087B). Byddai cyfnod canu'r gerdd, felly, yn fwy diweddar, sef rhwng 1687 a 1690, (blwyddyn marwolaeth Rhys Cadwaladr) ond mae lle i

amau mai camgymeriad copïo fu'n gyfrifol am gyfnewid enw'r tad am y mab. Teithio o Blas Mostyn mae'n debyg yr oedd y bardd wrth groesi'r mynydd ger Chwitffordd i gyrraedd Penbedw, ond dyma'r unig gyfeiriad barddol at y plas ac mae'n debyg na fu yn arferiad i feirdd ganu ar yr aelwyd yno. Cofnodir y gerdd mewn llawysgrifau a grewyd yn ystod bywydau Rosier a Richard Mostyn, y naill yn niwedd yr 17g. a'r llall yn nechrau'r 18g. Yn unol â'r cerddi eraill i Rosier Mostyn, ni throsglwyddwyd y gerdd i lawysgrif Mostyn 96 gan Siôn Dafydd Las.

Teitl gwreiddiol, **Tegeingl** Cantref yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ar yr arfordir rhwng Afon Clwyd a glannau Dyfrdwy, ac yn cyfateb yn fras i Sir y Fflint. Yn ôl traddodiad, mae achau teulu Mostyn yn ymestyn yn ôl hyd at Edwin, arglwydd Tegeingl. Gweler Thomas Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell*, 56. Credir i'r enw darddu o lwyth y Degeangli a fu'n byw yn yr ardal yn Oes yr Haearn a chyfnod y Rhufeiniaid. Gweler Maxwell Fraser, *West of Offa's Dyke* (Llundain, 1959), 16-19. Ceir cyfeiriad at 'Mynydd Tegeingl' yn S Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (1849) a chofnodir bod y tir garw, ym mhlwyfi Chwitffordd ac Ysceifiog, bellach wedi ei amgáu. Gweler British History Online: http://www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=47826. Mae'n debyg bod Mynydd Tegan (gweler isod) yn enw lleol ar y tirwedd.

1 **Mynydd Tegan** Mae Thomas Pennant yn cyfeirio ato fel Mynydd Tegen, yn tarddu o *Tegenia* yn *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell*, 116 a 121, ac yn gwneud y sylw mai rhostir ac nid mynydd yw ei dirwedd, a'i fod wedi ei leoli i'r gorllewin ac i'r de o blwyf Chwitffordd. Mae'r comin bellach wedi ei amgáu a'r enw wedi diflannu oddi ar fapiau, ond mae'n parhau ar gof a chadw ar lafar yn yr ardal. (Diolch i Ieuan ap Siôn a Goronwy Wyn am eu gwybodaeth leol a'u cyfarwyddiadau at ffynonellau hanesyddol i ddarganfod lleoliad y mynydd.)

5 **ollawll** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai ffurf o *hollol/ollol* sydd yma (GPC 1893), gyda diwedd y gair wedi ei addasu at anghenion y gynghanedd.

7 **archrodigawl** Ni cheir y gair yn GPC a bu'n anodd darganfod eglurhad boddhaol i'w ystyr. Tybed ai *arch+rhodigawl*, sef rhodio o arch, yw'r disgrifiad o'r niwl trwchus? Bu'r gair yn ddryswch hefyd i Cadwaladr Dafydd mae'n debyg wrth gofnodi'r gerdd yn ei

lawysgrif (B – Cwrtmawr 206B) gan mai *anchrodigawl* a nodir, gydag *angrhedigawl* hefyd wedi ei ychwanegu ar ddiwedd y llinell.

9 **Tir Aiphtiaid** Lleolir Aifft, un o'r bryniau uchel sydd yn ffurfio cadwyn Bryniau Clwyd, i'r de o Foel y Parc. Lleoliad map – SJ1268.

13 **Gosen** Gwlad ffrwythlon yn yr Aifft, lle trigai tad a brodyr Joseff wedi iddynt symud o Wlad Canaan. Genesis 46, 28-31.

17 **Penbyd** Mae'r cysylltiad maith rhwng Penbedw a theulu'r Mostyn ers y 15g. yn cael ei drafod gan J. B. Lewis yn 'An Account of the Penbedw Papers in the Flintshire Record Office', *Flintshire Historical Society Publications,* 25 (1971-72), 125-129. Gweler hefyd wefan Archifau Cymru – http://www.archiveswales.org.uk/ [Flintshire Record Office: Penbedw manuscripts]. Daeth Penbedw yn gartref i drydydd mab Rosier Mostyn, Richard, yn 1687 fel rhan o'r cytundeb priodasol ar ei uniad â Charlotta Digby, ac oddi yno y bu'n llythyru gydag Edward Lhuyd. Gweler erthygl Nesta Lloyd, 'The Correspondence of Edward Lhuyd and Richard Mostyn.' *Flintshire Historical Society Journal*, 25, (1971-72), 31-61.

17 **pleserfron** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *pleser+bron* sydd yma, sef ochr bryn hyfryd.

21 **Canaan** Gwlad yr Addewid i'r Iddewon yn yr Hen Destament. Exodus 6, 2-13.

21 **Syr Rosier** Mae'r enw (sydd hefyd i'w gael yn yr un llawysgrifen yn NLW 11087, 61 a Bangor (Mostyn) 9) wedi ei gywasgu ar ymyl y dalen, gyda marc mewn inc, ˝, o dan ddiwedd y llythyren *R* a'r llythyren *o*. Fodd bynnag, nid yw'n ymdebygu i'r enw Risiart, fel sydd wedi ei nodi'n glir yn llawysgrif B (Cwrtmawr 206B). Gan nad oes cofnod i Richard (1658-1735) gael ei ddyrchafu'n farchog , mae'n debygol mai camgymeriad ar ran y copïydd yw hyn, wrth gymysgu rhwng tad a mab. Erbyn 1730, dyddiad llawysgrif Cadwaladr Dafydd (B – Cwrtmawr 206B), roedd Penbedw wedi bod yn gartref i Richard (m. 1735) ers dros ddeugain mlynedd ac efallai mai hyn sydd i gyfrif mai ei enw ef a nodwyd yn *Llyfr Cadwaladr Dafydd* ac nid ei dad, Rosier.

22 **rasol arglwyddes** Lumley Coetmor oedd gwraig Rosier Mostyn yng nghyfnod canu'r beirdd. Gan iddi farw yn Hydref 1680, gellir dyddio'r gerdd i'r cyfnod 1678/1679 ac mae'n debyg bod Cerddi 1, 2, 3, 4, 38 a 39 wedi eu canu oddeutu'r un cyfnod.

5

Prin yw'r cerddi i Syr Rosier Mostyn (m. 1690) ond mae'r englyn hwn, ynghyd ag englynion Siôn Edward a Rhys Cadwaladr (Cerddi 1, 2, 3 a 4), yn awgrymu bod beirdd wedi ymgasglu ym Mhlas Mostyn ar gyfer gwledd benodol oddeutu 1679, gyda'r gerdd hon yn ffrwyth y cellwair ymysg y beirdd. Mae'n drawiadol mai gwŷr eglwysig o Sir Gaernarfon, dau offeiriad ac un clochydd, yw'r beirdd ar yr aelwyd yn y genhedlaeth hon a bod Morys Parry (*fl* 1661-1683), fel Siôn Edward, yn gysylltiedig ag Eglwys Llanelian, ger Bae Colwyn,

Ni cheir llawer o wybodaeth am Morys Parry cyn iddo gael ei benodi'n rheithor yn Llanelian yn 1660/1 ac ni welir cysylltiad pendant gyda theulu Mostyn cyn 1674, pan fenthycodd ei gopi o lawysgrif Siôn Wyn o Wydir, *The History of the Gwydir Family*, i Tomas Mostyn, Gloddaith, mab hynaf Rosier Mostyn. Gweler NLW 3075D (Mostyn 39), hefyd y Rhagymadrodd, Pennod 2. Er bod Morys Parry yn ŵr diwylliedig, roedd ei weddw yn anllythrennog, gydag Ellen Parry yn arwyddo'r ymrwymiad cyfreithiol am rannu'r eiddo gyda chroes. Gweler Casgliad Ewyllysiau'r Llyfrgell Genedlaethol, SA 1683-84, Maurice Parry: bond, 1683. Yn ogystal â'i farddoniaeth i Rosier a Tomas Mostyn, bu'n ymrysona gyda Rhys Cadwaladr a Siôn Edward, ac mae'i gerddi i'w cael yn llawysgrifau Mostyn 96, B. Add. 14975, 309 (iii) ond yn bennaf yn NLW 11999. Mae cerddi ychwanegol wedi eu priodoli iddo dan yr enw Morys Parry (Llên) ond ni ellir bod mor sicr ynghylch awduraeth rhai ohonynt oherwydd dyddiad eu canu. Gweler *Maldwyn,* Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau a'r Bywgraffiadur Ar-lein: Parry, Morris (*fl.* 1661-1683). Pan fu farw ym Medi 1683, cyfeiriodd Siôn Dafydd Las ato mewn marwnad fel 'un o'r prydyddion gorau yn ei amser'. Gweler Mostyn 96, 85 (Bangor (Mostyn) 9081, NLW 33027E). Cafodd ei gladdu yn Llanelian. Gweler Y Bwygraffiadur Ar-lein: Parry, Morris (*fl* 1661-1683).

Ceir yr unig gofnod o'r englyn, yr unig brydyddiaeth a oroesodd i Syr Rosier gan Morys Parry, mewn llawysgrif o'r 18g.

6

Erbyn marwolaeth Syr Rosier Mostyn yn 1690, yn 67/68 oed, roedd y tri gŵr eglwysig a ganodd englynion iddo hefyd yn eu bedd. Bu farw Morys Parry yn 1683, Siôn Edward rhywbryd wedi hyn a Rhys Cadwaladr yn 1690 ac efallai mai hyn sydd i gyfrif mai'r bardd o Lanystumdwy, Owen Gruffydd, a ganodd yr unig farwnad i Syr Rosier. Roedd Esgob Bangor, Humphrey Humphreys, yn un o'i noddwyr a rhannai ei ddiddordebau mewn barddoniaeth a hynafiaethau. Gyda mab Rosier Mostyn, Tomas (m. 1692), ymysg cyfeillion Humphrey Humphreys, efallai mai drwy gysylltiad Esgob Bangor y gwnaethpwyd y trefniadau i Owen Gruffydd farwnadu Rosier Mostyn. Gweler *ODNB*: Gruffydd, Owen (*c* 1643-1730). Ceir nodyn ar ddiwedd y farwnad yn llawlyfr Owen Gruffydd (Cwrtmawr 467, 232) i'r bardd gael ei dalu 50 swllt, neu £2-10-0, am gyfansoddi'r gerdd. Mae'r farwnad yn pwyso'n drwm ar gyferiadau at linach Rosier Mostyn, gydag Owen Gruffydd yn arddangos un o nodweddion traddodiadol cerddi marwnadol, sef y gallu i olrhain achau'r uchelwr. Ni welir y manylion achyddol mor fanwl yn ei farwnad i fab Rosier Mostyn ddwy flynedd yn ddiweddarach (gweler Cerdd 35), sy'n awgrymu i'r ddwy farwnad gael eu canu ar yr un achlysur rhywbryd wedi marwolaeth Tomas yn 1692 (gweler y Rhagymadrodd uchod). Fodd bynnag, er bod y ddwy gerdd wedi eu cofnodi yn llawlyfr Owen Gruffydd, mae dros ddwsin o gerddi eraill rhyngddynt, gyda marwnad y tad felly wedi ei chofnodi beth amser o flaen marwnad y mab.

Er mai gwehydd oedd Owen Gruffydd (*c* 1643-1730) wrth ei alwedigaeth, yr oedd yn fardd toreithiog a chanodd i deuluoedd ar draws siroedd Caernarfon a Meirionnydd yn ystod ei oes. Daw ei wybodaeth fel achyddwr i'r amlwg yn y marwnadau a ganodd, crefft a arweiniodd at iddo gael ei gomisiynu gan gylch ehangach o deuluodd amlwg ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys teulu Mostyn yn niwedd yr 17g. Er ei fod yn geidwadol ei ganu, roedd yn agored i arddull y canu caeth newydd. Ymddangosodd rhai o'i gerddi yn Thomas Jones (gol.), *Carolau a Dyriau Duwiol* (1696), Dafydd Jones (gol.), *Blodeu-Gerdd Cymru* (1759), a cheir casgliad o'i waith, ynghyd â manylion am ei gefndir, yn Owen M

Edwards (gol.), *Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy* (Llanuwchllyn, 1904), sy'n cynnwys marwnad i Siôn Dafydd Las, un o feirdd diweddarach teulu Mostyn. Casglwyd gwaith Owen Gruffydd hefyd gan John Jones (Myrddin Fardd) mewn pum llawysgrif, sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gweler Cwrtmawr 3, llawysgrifau 502-6C. Treuliodd Owen Gruffydd ei fywyd yn Llanystumdwy, a chysylltir ef â Thŷ Cerrig a Siamber Fechan. Collodd ei olwg yn ei henaint ond ni fu hyn yn rhwystr iddo rhag parhau i farddoni, gyda'i gyfeillion yn cofnodi ei waith mewn ysgrifen. Pan fu farw yn niwedd 1730, canodd William Elias farwnad iddo. Gweler BA: Gruffydd, Owen (*c* 1643-1730). Am restr cyflawn o waith barddol Owen Gruffydd, gweler Maldwyn, Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau, http://maldwyn.llgc.org.uk/chwilio.php.

Ceir y farwnad i Rosier Mostyn mewn chwe llawysgrif, un yn llawlyfr Owen Gruffydd (Cwrtmawr 467, 232). Mae'r llawysgrifau eraill ychydig yn ddiweddarach, o ddiwedd y 17 g. a dechrau'r 18g.

Noder yn arbennig Llawysgrif Ch – Llyfrgell Plas Mostyn: Taflen rydd yw hon ymysg papurau'r teulu, gydag olion rhwymo ar y plyg ynghanol y ddalen. Ysgrifennwyd y gerdd ar dair o'r pedair tudalen ond gan nad oes rhif arnynt anodd fydd darganfod a yw'r gyfrol y maent yn rhan ohoni wedi goroesi.

1 **sadfyd** Ni cheir cofnod o'r gair yn GPC ond gellid tybio mai *sad+byd* a geir yma, sef amrywiad ar *sad*, sef prudd, trist (GPC 3155).

16 **haelfyd** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf cyfansawdd *hael+byd* a geir yma.

17, 18 **Fflint a Môn, Arfon** Drwy etifeddiaeth, daeth llysoedd a thiroedd yn y tair sir yn rhan o ystad y teulu. Gweler y Rhagymadrodd, Pennod 1.

23 **Syr Tomas** Bu farw Syr Tomas Mostyn, ei fab, yn 1641, flwyddyn cyn ei dad, Syr Rosier (m. 1642).

25 **aeron Glyn** Ni chafwyd eglurhad boddhaol am y cyfeiriad hwn. Gan nad oes perthynas amlwg rhwng teuluoedd Mostyn a Glyn Aeron, efallai ei fod yn cyfeirio at fferm y Glyn, ym mhlwyf cyfagos Colwyn, cartref teulu Vaughan a oedd hefyd yn ddisgynyddion i Ednyfed Fychan. Gweler W. Bezant-Lowe, *The Heart of Northern Wales* (Llanfairfechan, 1912), 365.

26 **mwysdeg** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf gyfansawdd o *mwys* 'hyfryd, teg' a *teg* a geir yma; (GPC 2524)

26, 27 **Syr Rosier Mostyn ap Syr Tomas** Syr Rosier, ei daid (m. 1642). Gyda marwolaeth tad Rosier, Tomas, yn 1641, neidiodd yr etifeddiaeth un genhedlaeth, gyda'r Rosier ifanc yn etifedd i'w daid ar ddechrau'r Rhyfel Cartref. Gweler y Rhagymadrodd.

27 **Ap Syr Tomas, gloywlas gledd** Ceir llinell debyg – *Mastr Tomas gloywlas ei gledd* – ym marwnad Wiliam Mostyn (m. 1576) o waith Wiliam Llŷn (Mostyn 129, 311), sy'n awgrymu bod Owen Gruffydd yn gyfarwydd â cherddi eraill i'r teulu ac yn meddu, efallai, copïau ohonynt.

28 **Wiliam** Wiliam Mostyn (m. 1576), ei hen, hen daid. Gweler y Rhagymadrodd.

30 **haelwyn** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf gyfansawdd o *hael+gwyn* a geir yma.

30 **Tomas Mostyn** Sef Tomas ap Rhisiart a thad Wiliam Mostyn. Bu farw yn 1558. Ef oedd y cyntaf i fabwysiadu'r cyfenw Mostyn. Gweler Peter C Bartrum, *Welsh Genealogies, AD 1400-1500,* X (Aberystwyth, 1983), 1684, a'r Rhagymadrodd uchod.

32 **hil Risiard** Rhisiart ap Hywel, m. 1540. Gweler Peter C Bartrum, *Welsh Genealogies, AD 1400-1500,* X, 1684.

33 a 35 **Hywel ab Ifan Fychan** Yn fyw yn 1464 ac o linach Pengwern, Trecastell a Mostyn. Taid Tomas ap Rhisiart neu Tomas Mostyn. Gweler Peter C Bartrum, *Welsh Genealogies, AD 1400-1500,* X, 1684.

37 **eurwaed** Ni cheir y ffurf yn GPC ond gellid tybio mai *eur+gwaed* a geir yma

38 a 40 **Tudur Trefor, Henffordd** Yn Llawysgrif NLW 11087, 128, nodir y pedair cenhedlaeth ar hugain drwy linach llys Pengwern o Rosier Mostyn hyd at Tudur Trefor, Iarll Henffordd, gyda'r ddogfen yn ddyddiedig 1682.

44 a 45 **Syr John Wynn, Gwydir** Hen daid Syr Rosier. Priododd merch Siôn Wyn, Mari, â Rosier Mostyn (m. 1642). Gweler y Rhagymadrodd uchod.

46 **hil Cynan** Gyda Gruffudd ap Cynan, Tywysog Cymru y dechreuodd Syr Siôn Wyn, Gwydir, ei gofnod o'i achau yn *The History of the Gwydir Family*. Gweler Syr John Wynn a J. Gwynfor Jones (gol.) *The History of the Gwydir Family and Memoirs* (Llandysul, 1990), 1.

47 a 48 **Goodman o Gaerlleon** Roedd ei hen nain, Ursula (m. 1578), yn ferch i William Goodman, Maer Caer. Gweler HFMM, 99.

49 a 52 **Einion** Yn achau Mostyn (NLW 4995E, 331), ceir cyfeiriad at linach Margaret Powel, Croesoswallt (gwraig Wiliam Mostyn) a oedd yn ddisgynnydd o Einion Efell a thrwyddo ef o Bleddyn ap Cynfyn, Tywysgog Powys.

54 **Llys y Penrhyn** Merch William Griffith, y Penrhyn, Siân, oedd gwraig Tomas Mostyn (m. 1558). Gweler Peter Townsend (gol.), *Burke's Peerage and Baronetage* (Llundain, 1980), 1896.

55 **Salbri** Gwraig Rhisiart ap Hywel (m 1540) oedd Catrin Salesbury, Lleweni, merch Tomos Salesbury Hên. Gweler Peter C Bartrum, *Welsh Genealogies, AD 1400-1500,* X, 1684.

57 **Fadog Gloddaith** Roedd Margaret Gruffydd, mam Rhisiart ap Hywel, yn disgyn o linach Madog Gloddaith, siryf sir Gaernarfon, 1325-26. Gweler BA: MOSTYN (Teulu).

59 **Syr Gruffydd Llwyd** Tad yng nghyfraith Madog Gloddaith; bu farw yn 1335. Gweler A. D. Carr, 'Tudor family, forebears of (*per. c.*1215–1404)', *ODNB*, Oxford University

Press, 2004 [http://www.oxforddnb.com/view/article/60238, cyrchwyd 6 Gorffennaf, 2013]. Hefyd y Rhagymadrodd uchod.

62 **Edwin** Edwin o Degeingl, un o hynafiaid Angharad ferch Hywel, gwraig Ieuan Fychan (m. 1477). Gweler BA: EDWIN, arglwydd Tegeingl.

64 **Ednyfed Fychan** Hen daid Syr Gruffydd Llwyd. Gweler A. D. Carr, 'Tudor family, forebears of (*per. c.*1215–1404)', *ODNB*, Oxford University Press, 2004 [http://www.oxforddnb.com/view/article/60238, cyrchwyd 6 Gorffennaf, 2013]

66 **Syr James Whitloc** (Whitlock); Prif farnwr Caer a thaid Syr Rosier. Gweler J E Lloyd, R T Jenkins, W Ll Davies (goln), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953),634. Hefyd y Rhagymadrodd.

66 **glwysedd** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf o *glwys* a geir yma; 'hardd, prydweddol, glandeg' (GPC 1413)

70 **goednant** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *coed* + *nant* a geir yma.

79 **Pengwern** Pengwern, Llangollen – un o'r pum llys a etifeddodd Tomos Mostyn (m. 1558) ac a drosglwyddwyd, genhedlaeth wrth genhedlaeth, i bob aer drwy'r canrifoedd. Enwir y pedwar llys arall hefyd yn y gerdd – Tref Gastell, Penmon; Tref Garnedd, Llangefni; Gloddaith, Llandudno a Mostyn, Treffynnon.

89 **Syr Tomas** Etifeddodd ystad Mostyn ar farwolaeth ei dad ond bu yntau farw ymhen dwy flynedd yn 1692 a chanodd Owen Gruffydd gywydd marwnad iddo yntau a'i wraig, Bridget. Gweler Cerdd 35 a'r Rhagymadrodd, Pennod 2.

97 **orseddawl** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *gorsedd* yw'r bôn (GPC 1496).

99 a 102 **Richard Mostyn, Pen Bedw ar Nant** Yr ail fab a oedd yn byw ym Mhenbedw ar Nant yn Sir y Fflint. Priododd aeres, Charlotte Theophila Digby, Sir Buckingham, ac fe gawsant ddwy ferch. Gweler Peter Townsend (gol.), *Burke's Peerage and Baronetage* (Llundain, 1980), 1896.

107 **Siân** Plentyn hynaf Syr Rosier o'i wraig gyntaf, Prudence Lumley; roedd Siân yn hanner chwaer i Tomas a Richard. Gweler Peter Townsend (gol.), *Burke's Peerage and Baronetage* (Llundain, 1980), 1896.

109 **Syr John Trefor** Mab yng nghyfraith Syr Rosier wedi iddo briodi Siân (1643-1704), merch Syr Rosier a gweddw Syr Roger Puleston, Emral. Yn hanu o Fryncunallt, Sir Ddinbych, cafodd John Trefor (*c.* 1637 – 1717) yrfa gyfreithiol a gwleidyddol liwgar gan gynnwys bod yn llefarydd Tŷ'r Cyffredin a Thwrnai Cyffredinol i'r frenhines Mary. Yn 1695, fe'i cafwyd yn euog o dderbyn llwgrwobrwyon a'i ddiswyddo fel llefarydd ond parhaodd i ddal swyddi cyhoeddus amlwg eraill yn Llundain ac yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Gweler *ODNB*, (2004), 'Trevor, Sir John (*c.*1637–1717)'.

115 **Margred** Merch ieuengaf Syr Rosier o'i ail wraig, Prudence. Gweler HFMM, 150-151. Mae ei llythyrau at ei brawd, Tomas, yn awgrymu bod anghydfod chwerw rhwng Margred a'i thad am gyfnod, a cheir sawl cyfeiriad ganddi at ymdrech i gymodi. Ceir casgliad o lythyrau personol y teulu, o 1672
hyd at 1740, yn Archifdy Prifysgol Bangor – Casgliad Mostyn 9066-9076.

143 **cwsniwr** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf o *cwsner* a geir yma, sef 'twyllwr, hocedwr' (GPC 650).

152 **dianglod** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *di+an-+clod* sydd yma, i olygu 'clodwiw, canmoladwy'.

7

Er bod beirdd wedi canu i Rosier Mostyn (m. 1690) oddeutu 1678, mae'n debyg bod ei fab hynaf, Tomas Mostyn, Gloddaith, wedi bod yn noddi'r beirdd o gyfnod cynharach. Gwelir bod gwŷr eglwysig lleol ymysg y beirdd a ganai i Tomas Mostyn rhwng *c.*1675 a 1692, a hefyd bardd yr awdl hon, sef y porthmon Edward Morris (*c* 1633-1689), gŵr a feddai gryn

feistrolaeth ar y canu traddodiadol. Canwyd yr awdl hon ar y pedwar mesur ar hugain, ac efallai bod y gerdd hon wedi ei llunio er budd beirdd Gloddaith yn ogystal â chyflwyno nodweddion y canu caeth ar ffurf moliant i'w noddwr.

Cysylltir Edward Morris â'r Perthi Llwydion, Cerrig-y-drudion, ac ef oedd mab hynaf Morris ap Huw a'i wraig Lowri. Ni cheir cyfeiriad at addysg na ffynhonnell ei wybodaeth farddol, ond fe'i cydnabyddir fel un o'r beirdd caeth gorau yn niwedd yr 17g. Cyfeiria Huw Morys ato yn ei farwnad fel 'pen bardd' (Bangor 758, 26), ac yn ogystal â'r canu caeth roedd wedi mabwysiadu arddull gyfoes y cyfnod, gyda'r canu rhydd hefyd yn rhan o'i ddatganiadau. Cyhoeddwyd rhai o'i gerddi yn Thomas Jones, *Llyfrau Carolau a Dyriau Duwiol,* 3ydd cyhoeddiad (Amwythig, 1720) ac yn Dafydd Jones, *Blodeu-gerdd Cymru* (Amwythig, 1779). Gweler hefyd Nesta Lloyd, 'Late Free-Metre Poetry' yn R Geraint Gruffydd (gol.), *A guide to Welsh Literature c 1530-1700* (Caerdydd, 1997), 100-27. Cofnodir ymron i dri chant o'i gerddi ar *Maldwyn*, Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau, adnodd electronig y Llyfrgell Genedlaethol, lle nodir eu lleoliad. Dilynai Edward Morris alwedigaeth fel porthmon, ond ystyriai ei hun yn fardd i Tomas Mostyn (Cerdd 20, llinell 21), gyda'i ganu ar aelwyd Gloddaith yn cadw at arddull draddodiadol y canu caeth. Gweler cerddi'r casgliad. Bu hefyd yn gyfrifol am gyfieithu o ryddiaith John Rawlet, *The Christian Monitor*, sef *Y Rhybuddiwr Christnogawl*, cyfrol a gomisiynwyd gan Margaret Fychan, Llwydiarth, ac a gyhoeddwyd gyntaf, eto ar gost Margaret Fychan, ym mlwyddyn marwolaeth Edward Morris. Priododd y bardd â Sarah Davies, Llaethwryd, Cerrig-y-drudion, oddeutu 1670 a ganwyd chwech o blant iddynt. Bu farw Edward Morris yn ystod taith borthmona yn Nhachwedd 1689 tra oedd yn Essex ac yno y claddwyd ef. Gweler Gwenllian Jones, 'Bywyd a Gwaith Edward Morris, Perthi Llwydion', Traethawd M.A. (Aberystwyth,1941), hefyd *ODNB:* Morris, Edward.

Ceir y gerdd i Tomas Mostyn mewn pedair llawysgrif, dwy yn gyfoes ag amser canu Edward Morris (Mostyn 96 a Brogyntyn 5) a dwy o ddechrau'r 18g. (atgynhyrchir gwallau llawysgrif Bangor 93 (llinellau yn brin) yn Cwrtmawr 43, lle ceir rhai gwallau ychwanegol).

1 **Gloddaeth** Fel Mr Mostyn, Gloddaith, y byddai Tomas Mostyn yn cael ei gydnabod ac yma yr ymgartrefodd hyd ei farwolaeth er iddo etifeddu prif lys y teulu ym Mostyn ar farwolaeth ei dad yn 1690. Daeth y plas a'i diroedd i feddiant y teulu yn y bymthegfed ganrif drwy briodas Margaret Gloddaith â Hywel ap Ieuan Fychan, gan ddod yn un o'r pum

llys a ffurfiai ystad y teulu. Cofnodir gwaith adeiladu ac ehangu ar y plas yn niwedd y 15g. gan Lewys Môn, ac adeiladwyd ychwanegiadau i'r neuadd wreiddiol ar sawl achlysur wedi hyn. Gweler Eurys I Rowlands (gol.), *Gwaith Lewys Môn,* (Caerdydd, 1975), 217-219, hefyd gwefan Cadw – Cymru Hanesyddol, http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=3411. Saif y plas – ysgol breswyl St David's College bellach – ger Llanrhos, gyda thref Llandudno ddwy filltir ymhellach ar yr arfordir.

6 **gwlm** Treigliad o *cwlm* (cwlwm). Yn ogystal â 'chlymiad' neu 'blethiad', gall hefyd olygu caniad o ryw fath arbennig mewn hen gerddoriaeth, 'cân, alaw, cainc' (GPC 640). Defnyddiwyd y term mewn cyd-destun cerddorol gan Dafydd ap Gwilym ac ymddengys yn ddiweddarach yn llawysgrif Robert ap Huw. Ceir trafodaeth helaeth ar ei nodweddion cerddorol yn erthygl Peter Greenhill, 'Fformiwlâu Melodig yn Llawysgrif Robert ap Huw', yn John Harper (gol.), *Hanes Cerddoriaeth Cymru,* 3 (1999), 310.

9 **Tomas** Tomas Mostyn (1651-1692), mab hynaf ac etifedd Rosier Mostyn (m. 1690) a'i ail wraig, Mary Bulkeley, Baron Hill (m. 1662).

14 **Drefor lwyth** Tudur Trefor, Iarll Henffordd. Gweler y nodiadau i Gerdd 6.

37 **nawddol** *Llawddol* a nodir yn llawysgrif A ond nid yn yr union ffurf â'r llythyren 'll' mewn mannau eraill yn y llawysgrif. Gan na cheir 'llawddol' yn GPC, derbyniwyd *nawddol* ar gyfer y golygiad, fel sydd yn y llawysgrifau eraill.

43 **Ifor** Cymhariaeth ag Ifor Hael, noddwr Dafydd ap Gwilym.

44 **Nudd** Cyfeiriad at Nudd Hael, cymeriad o ail hanner y 6g. a drigai yng ngogledd Prydain, ac y cysylltir ei enw â haelioni yng nghanu'r cywyddwyr. Gweler Rachel Bromwich, *Trioedd Ynys Prydein: The Triads of the Island of Britain* (Caerdydd, 2006), 462-65, am fwy o fanylion am ei gefndir.

50 **Savage** Gwraig Tomas Mostyn oedd Bridget Savage, Leighton, merch ac aeres D'Arcy Savage a'i wraig, Ann Mostyn, Talacre. Gweler Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities*

of the Counties and County Families of Wales, II (Llundain, 1872), 452, a'r Rhagymadrodd uchod.

50 **gyfneseifiaid** Treigliad o *cyfneseifiaid;* dyma'r unig gyfeiriad yng ngherddi'r teulu at y berthynas waed oedd rhwng Tomas a Bridget Mostyn, y ddau o linach Rhisiart ap Hywel: Tomas drwy'r mab hynaf, Tomas (m. 1558), a Bridget drwy'r trydydd mab, Pyrs neu Pierce, sylfaenydd llinach Mostyniaid Talacre. Gweler Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales,* II, 452, a'r Rhagymadrodd uchod.

51 **luned** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai amrywiad ar *lluniad* sydd yma, mewn ffurf dreigliedig: 'ffurf, gwedd, ymddangosiad' (GPC 2224). Yn *Gwaith Siôn Tudur*, mae *Luned* (o'r chwedl 'Owain a Luned') yn cyfleu doethineb, caredigrwydd a lletygarwch, ac os mai cyfeiriad at Bridget Mostyn sydd yma, fe fyddai'r gair, fel enw priod, yn taro. Gweler Enid Roberts, *Gwaith Siôn Tudur*, II (Caerdydd, 1980), 62.

63 **clud** Aneglur yw'r ystyr, gall gyfeirio at y weithred o gario neu gludo, yn ogystal â'r hyn sy'n cael ei gario (GPC 509). Ceir cyfeiriad at *gludwair* yn Huw Jones, *Cydymaith Byd Amaeth*,1 (Llanrwst, 1999), 270, sef *clud* (cario) +*gwair*.

64 **morfadir** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *morfa+tir* sydd yma; 'gwastadir isel, cors, rhos, gwaun'.

71 **dasau** Treigliad o *tasau*. Ceir eglurhad manwl ar adeiladwaith tas a'r eirfa berthnasol yn Huw Jones, *Cydymaith Byd Amaeth*, 4 (Llanrwst, 2001), 151.

71 **dwysau** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai ffurf lafar a chywasgedig o *tywysennau* sydd yma (GPC 3688).

85 **tyrfion** Ni cheir y gair yn GPC ond ceir *tyrfu* yn yr ystyr 'turio, twrio' (GPC 3682).

107 **wialau** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai ffurf gywasgedig o *gwialennau* sydd yma, yn *ffig*, am 'farddoniaeth'.

8

Fel y gerdd flaenorol, mae'r gerdd hon yn arddangos meistrolaeth Edward Morris ar y canu caeth wrth ddefnyddio ffurf brin o ganu a oedd yn fwy cyffredin yn y 15g. a'r 16g., sef yr arddull 'wyneb a gwrthwyneb'. Mae'r bardd yn cyfeirio yn y gerdd at 'liaws o glêr' yn bresennol yn 'llys y gwleddoedd' yng Ngloddaith, ac er ei fod efallai yn or-hael gyda'i gyfrif, tybed ai arddangos enghraifft o'r ffurf i'w noddwr a'r beirdd lleol oedd ei fwriad? Oherwydd cyfrwng y canu, bu cryn ddiddordeb yn y gerdd, ac fe geir cofnod ohoni mewn deg llawysgrif, tair llawysgrif o gyfnod y canu neu efallai rai blynyddoedd yn ddiweddarch (llawysgrifau Mostyn 96; Caerdydd 1.5; Caerdydd 5.30). Daw pedwar copi o lawysgrifau o'r 18g. (Caerdydd 5.10; NLW 11567; NLW 783; NLW 17528), a thri o'r 19g. (NLW 666; B 31093; NLW 4995E).

Teitl gwreiddiol: **wyneb y gwrthwyneb** Treigliad o *gwyneb;* cyfeiriad at arddull y datganiad sydd yma, gyda threfn y llinellau ymhob cwpled yn gyfnewidiol. Gwelir y ffurf yn bennaf yng ngwaith beirdd y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg. Ceir enghreifftiau prin yng ngwaith Dafydd ab Edmwnd (B Add 14999, 286), Dafydd Nanmor (Llansteffan 169, 77), Owain Gwynedd (Bangor 421, 128) a Siôn Tudur (NLW 6496, 237b), (GPC 3742-3).

33 **ergyd** Fe ellid ystyried mai cyfeiriad prin at yr arfer o gadw curiad gyda ffon neu bastwm wrth ddatgan cerdd sydd yma. Ceir gwybodaeth am y Datgeiniad Pen Pastwn yng Ngramadeg Siôn Dafydd Rhys,

> Datceiniad Penn Paftwn, a elwir yr vn a bhô ynn datcanu heb bhedru dhim canu Tant ihûnan ; a' hwnnw a dhyly febhylh yn ghhenawl y Neuadh, a' churaw 'i phonn, a'chanu 'i Gywydh neu 'i Owdl gyd â 'r dymrnodieu. Ac or bydh Gwr wrth Cerdh Tant lhe y delo, ny dhyly y Datceiniad hwnnw gynnyc na beidhaw cymryd arnaw ganu na Chywydh nac Owdl, heb dheisybh cennad i'r Gwr wrth Gerdh Tant i ganu. Ac hebhyd, ebho a dhyly bod megys Gwâs i'r Gwr wrth Gerdh Tant, ac i Brydydh ym mhôb lhe ac y delo.

Cambrobrytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones et Rudimenta (1592).

36 **breuddawn** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *brau+dawn* sydd yma; *brau* 'hael' (GPC 311), *dawn* 'gras, rhinwedd' (GPC 906).

52 **'wyllsfawl** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *ewyllys+mawl* sydd yma.

60 **Llys aeres yw'r llys arall** Nid yw'r ysytr yn gwbl glir ond mae'n debyg mai cyfeiriad at Bodysgallen sydd yma. Etifeddodd Margaret Mostyn y plas gan ei thad, Richard Mostyn, ar ddechrau'r 17g. Ceir cyfeiriad penodol gan Edward Morris at groeso a lletygarwch Bodysgallen yn 'Cywydd y Prydydd a'i Awen', Cerdd 22.120-23. Daeth Bodysgallen yn ôl yn rhan o ystad y Mostyniaid yn y 18g. pan briododd Margaret Wyn (1744-1729), wyres Robert Wyn ac aeres ystadau Berth Ddu a Bodysgallen, gyda Roger Mostyn (m. 1796). Gweler BA: Wynn (Teulu), Berthddu a Bodysgallen, sir Gaernarfon, a'r Rhagymadrodd uchod.

9

Ceir cyfeiriad at gyfnod y gwyliau a'r Ystwyll yn yr englynion hyn, sy'n awgrymu bod ymweliadau'r beirdd â Gloddaith yn y 17g. yn adlewyrchu o leiaf un o gyfnodau clera y traddodiad barddol yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, sef y Nadolig. Nodir hefyd y Pasg a'r Sulgwyn fel cyfnodau cymwys i ymweld â noddwyr, a hefyd neithior. Gweler y drafodaeth yn y Rhagymadrodd uchod. Yn ôl ei eiriau ei hun, roedd Morys Parry mewn gwth o oedran yn canu'r gerdd hon, ac er ei fod yn cyfeirio at Tomas Mostyn fel 'Y meistr i yw Mostyn', ni cheir ond dau englyn arall o'i eiddo i Tomas Mostyn. Gweler Cerdd 10, sy'n cynnwys un englyn o'r gerdd hon. Ni ellir dyddio'r gerdd yn fwy manwl na rhywbryd cyn dyddiad marw Morys Parry, sef 1683. Daw'r unig gofnod o'r gerdd o lawysgrif Mostyn 96, y gyfrol a luniwyd gan Siôn Dafydd Las i Tomas Mostyn oddeutu 1685, ychydig flynyddoedd ar ôl marwolaeth Morys Parry, sy'n awgrymu bod llawysgrif arall wedi bodoli ar un adeg, neu bod y gerdd ar gof a chadw.

2 **pardywch** Nid oes cofnod o'r gair yn GPC ond gellir tybio bod cyswllt rhyngddo a *pardynu* 'rhoddi pardwn (i), maddau (i)' (GPC 2655). Tybed ai gwall am yr 2 lluosog *parynwch* sydd yma?

13-16 Ceir yr englyn hwn hefyd yng Ngherdd 10 (a gofnodwyd yn llawysgrif B.Add. 14975), gyda dau englyn arall.

9 **ddiarfaeth** Nid oes cofnod o'r gair yn GPC ond gellir tybio mai *di+arfaeth* (pwrpas) sydd yma, wedi ei dreiglo, sef 'dibwrpas'.

22 **Rhos, Maelgwyn a Rhyd** Lleoliadau ym mhlwyf Llanrhos, gyda Bryn Maelgwyn i'r gorllewin o Loddaith a Morfa Rhyd i'r dwyrain. (http://www.getamap.ordnancesurveyleisure.co.uk)

25 **sud** Amrywiad ar *sut* 'modd, ffurf' (GPC 3358).

29 **Ystwyll** 6 Ionawr; Gŵyl Gristnogol sy'n coffáu amlygiad Crist i'r Doethion (GPC 3868)

10

Cofnodwyd y tri englyn fel ychwanegiad diweddarach i lawysgrif B 14975, cyfrol o'r 17g. Mae'r ychwanegiadau yn cynnwys cerddi eraill sy'n berthnasol i deulu Mostyn, sef Cerddi 14, 15, 23, 25, 27, 28 . Ceir hefyd gerdd gan Rhys Cain i Tomas Mostyn (m. 1617/18) yn 1604 ar achlysur ei urddo'n farchog. Ymddengys englyn cyntaf y gerdd ymysg yr englynion yng ngherdd 9 (Mostyn 96, 83) ond anodd yw darganfod ai ychwanegiad at y gerdd honno a geir yma, neu fersiwn gynnar ohoni. Gan fod dyddiadau'r llawysgrifau yn ddigon tebyg (*c.* 1685 ar gyfer Mostyn 96 a 1686 ar gyfer yr ychwanegiadau at B. Add. 14975) nid ydynt o gymorth i gynnig ateb pendant. Gan nad oes cysylltiad amlwg rhwng y ddwy lawysgrif, un yn y Llyfrgell Brydeinig a'r llall ym Mhlas Mostyn, ni chyfunwyd yr englynion, er mai yr un yw'r bardd ac arddull y moliant.

Gyda Phentrefoelas (gweler y nodiadau isod) ond ychydig filltiroedd o gartref Edward Morris yng Ngherrig-y-drudion, nid annisgwyl gweld y bardd o Berthi Llwydion yn canu ar aelwyd Cadwaladr Wyn, a hynny i groesawu ei noddwr yng Ngloddaith, Tomas Mostyn, i'r Foelas. Ni cheir ond un gerdd arall gan Edward Morris i Gadwaladr Wyn (Peniarth 200, 7) sy'n awgrymu bod y traddodiad o noddi'r beirdd ar fin dirwyn i ben yn Uwchmynydd pan ganwyd y cywydd hwn. Ni cheir dyddiad i'r gerdd ond mae ewyllys drafft Tomas Mostyn yn dangos bod cysylltiad agos rhyngddo a Cadwaladr Wyn *c.* 1674. Gweler llawysgrif Bangor (Mostyn) 174. Ceir yr unig gofnod o'r gerdd yn Mostyn 96, y gyfrol sy'n parhau ym Mhlas Mostyn ac yn llawysgrifen Siôn Dafydd Las.

Teitl a 10 **Uwchmynydd** Llannefydd Uwchmynydd oedd yr enw ar Bentrefoelas yng nghyfnod Llywelyn ab Iorwerth. Roedd yn cael ei weinyddu o dan y drefn eglwysig ganoloesol fel rhan o blwyf Llannefydd ac yn cynnwys y tiroedd a roddwyd i Abaty Aberconwy yn 1195. Parhaodd rhywfaint o'r drefn yma hyd at 1729. Gweler D R Thomas, *The History of the Diocese of St Asaph: General Cathedral and Parochial,* II (Croesoswallt, 1911), 41-2. Ceir trafodaeth bellach am enwau a hanes Pentrefoelas yn erthygl G O Heald, 'Pentre Foelas', yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 23 (1974), 264-85.

11 a 12 **Cadwaladr Wyn** Uchelwr o deulu Wynne, y Foelas, a chanddo gysylltiadau teuluol gyda nifer o fonedd gogledd Cymru. Ail-luniodd Tomas Mostyn ei ewyllys yn Nhachwedd 1674 ac ymddengys enw Cadwaladr Wyn ar y ffurf ddrafft ymysg aelodau agos o deulu Tomas fel gwarchodwyr i'w blant. Gweler llawysgrif Bangor (Mostyn) 174. Ceir mwy o gefndir teulu'r Foelas yn BA: Wynne (Wynne-Finch) (Teulu), Voelas. Roedd cysylltiad teuluol hefyd rhwng Cadwaladr Wyn a Tomas Mostyn, gan fod taid ei ail wraig, Sidney Thelwall – William Wyn – yn frawd i Mari Gwyn, Gwydir, hen nain Tomas Mostyn.

13 **A'i gydwedd** Priododd Cadwaladr Wynn (m.1719) deirgwaith yn ôl y manylion ar gofeb ar wal ddeheuol Eglwys Conwy. Ei wraig gyntaf oedd Grace Williams, pedwaredd ferch Syr Griffith Williams, Penrhyn-mawr, Sir Gaernarfon; yr ail wraig oedd Sidney Thelwall, ail ferch Cyrnol Thelwall, Plas y Ward, Sir Ddinbych, a'r drydedd wraig oedd

Jane Holland, trydedd ferch Holland Williams, Conwy. Gan nad oes dyddiad i'r gerdd, ni ellir darganfod at ba un o'r tair y mae'r cyfeiriad hwn.

16 **Foelas** Safai Hen Foelas i'r gogledd-orllewin o bentref Pentrefoelas cyn cael ei ddymchwel yn 1819. Codwyd plasty newydd i aeres y Foelas, Jane Wyn, a'i gŵr, Charles Finch, ar safle arall ar yr ystad.

19 **eglurbarch** Nid oes cofnod o'r gair yn GPC ond gellid tybio mai *eglur+parch* a geir yma.

12

Bu Tomas Mostyn yn Aelod Seneddol dros Sir Gaernarfon yn 1679 a 1681 ond cyfeiria'r gerdd yma at ymweliad oddeutu 1675 neu 1676, pan oedd Bridget, ei wraig, adref yng Ngloddaith gyda'u dau fab ifanc, Roger a Thomas. Gweler HFMM, 55, hefyd gwefan y senedd, http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/mostyn-thomas-1651-92. Ymysg papurau'r teulu, ceir llythyr gan Bridget at ei gŵr pan oedd yn Llundain ar achlysur arall yn 1680, gyda'r cyfarchiad 'My Dearest Deare Hart', gweler Bangor (Mostyn) 9067, 76. Oni bai mai ar ôl dychwelyd adref y cyfarchwyd Tomas Mostyn gan Rhys Cadwaladr, diau i'r gerdd gael ei hanfon i Lundain i gael ei darllen gan Tomas Mostyn. Ceir enghreifftiau eraill o feirdd yn annog noddwyr i ddychwelyd adref, megis y gerdd 'Gyrru'r eos i geisio Antni Stanlai adref o Lundain' gan Gruffudd Hafren (*fl.c.* 1600), gw. Cwrtmawr 243, 36. Mabwysiadodd Siôn Dafydd Las yr un arddull yn ei gywydd i annog Tomas a Bridget Mostyn adref o Lundain yn 1686, gw. Cerdd 29. Ceir yr unig gofnod o'r gerdd mewn cyfrol sydd yn parhau ym mhlas Mostyn, Mostyn 96 (NLW 3027E; Bangor (Mostyn) 9081.)

12 **Conwy** Saif tref Conwy ac Afon Conwy o fewn dwy filltir i Gloddaith.

15 **Syr Rosier** Tad Tomas Mostyn. Bu farw yn 1690, ddwy flynedd o flaen Tomas.

16 a 17 **Syr Edwart Mostyn** Gŵr o linach Mostyniad Talacre a brawd hynaf Ann, mam Bridget Mostyn. Gweler Thomas Wotton, Edward Kimber a Richard A Johnson, *The Baronetage of England containing a Genealogical and Historical Account of the English Baronets now existing* (Llundain, 1771), 349.

19 **Rosier ifanc** Y mab hynaf a'r trydydd barwnig. Cafodd ei eni yn 1673 a graddiodd o Goleg Iesu, Rhydychen. Bu'n briod â'r Arglwyddes Essex Finch, merch hynaf Daniel, Iarll Winchester a Nottingham a'i ail wraig, Anne, unig ferch Christopher, Is-iarll Hatten. Gweler HFMM, 158-159, a'r Rhagymadrodd uchod.

21 **Tomas** Yr ail fab, (m. 1737). Priododd â Margaret, merch hynaf ac aeres William Mostyn, Llys, Rhyd, a bu'n Aelod Seneddol dros Sir y Fflint, gweler HFMM, 156.

22 **Gwen** Ni chafwyd mwy o wybodaeth am y ferch, ond mae'n debyg mai morwyn neu efallai laethfam Tomas sydd yma.

36 **Caerludd** Enw Cymraeg hynafol ar Lundain. Credid bod Lludd wedi cynorthwyo i ail-adeiladu waliau'r ddinas. Gweler P C Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth, 1993), 416.

39 **Sulgwyn** Rhoddwyd pwysigrwydd mawr ar y Sulgwyn yng nghalendr y beirdd yn Ystadud Gruffudd ap Cynan fel un o'r tri chyfnod y caniateid i'r beirdd ymweld â'u noddwyr, fel y cadarnhawyd yn Eisteddfod Caerwys. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

44 **brig** Yn amaethyddol, y clwstwr tywysennau ar ben y gwelltyn o ŷd, brig y ceirch, yr haidd, y gwenith. Gweler Huw Jones, *Cydymaith Byd Amaeth*,1, 122.

61 **gloywnod** Ni chofnodir y gair yn GPC ond *gloyw+nod* mae'n debyg.

71 **drymer** Ni cheir cofnod o'r gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf o *trwm* a geir yma. Tybed ai gwall ydyw am *trymder* 'tristwch, prudd-der'(GPC 3641)?

76 **Droea** Sef Troea. Yn ôl Sieffre o Fynwy, bathwyd yr enw Troea Newydd ar Lundain gan ei sylfaenydd, Brutus. Gweler Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary*, 62.

13

Dyma'r unig gerdd i Tomas Mostyn gan Ffowc Wyn, *fl c.* 1677-1705, sef Foulk Wynne o Nantglyn, ger Dinbych. Canodd y cywydd gofyn ar ran John Lloyd, Bryn Lluarth, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, Dinbych, ac mae'r flwyddyn 1677 yn cael ei chrybwyll yn y gerdd. Nodir tair genhedlaeth o deulu Bryn Lluarth yn dwyn yr enw John Lloyd gan J Y W Lloyd, ond ni fu modd darganfod ar gais pa un ohonynt y canodd Foulk Wynne. Gweler HP, 164. Mae'r gerdd yn adlewyrchu diddordeb uchelwyr y cyfnod mewn helwriaeth ac yn dangos fod hela llwynogod bellach yn disodli ceirw fel prae. Ceir yma yr unig feirniadaeth yng ngwaith y beirdd o ffydd Babyddol Bridget, gwraig Tomas Mostyn. Nid dyma'r unig enghraifft o gerydd ar sail crefydd a geir gan Foulk Wynne, gan fod ei waith yn cynnwys cerddi yn beirniadu Crynwyr am eu daliadau. Gweler Geraint H Jenkins, 'Quaker and anti-quaker literature in Welsh from the Restoration to Methodism', *Welsh History Review* ,7 (1974-75), 423.

Cofnodir llinach Foulk Wynn (g. *c* 1632), Nantglyn, yn Lloyd, *The History of the Princes,* VI, 85-86. Prin iawn yw'r wybodaeth am gefndir y bardd ond credir ei fod yn fab i Robert Wynn, Nantglyn, a'i wraig, Jane Lloyd Rosindale, Foxhall, Henllan. Gweler John Williams, *Ancient & Modern Denbigh: A Descriptive History of the Castle, Borough and Liberties* (Dinbych, 1836), 187. Mae cyfran helaeth o'i waith barddol i'w gael mewn dwy o'i lawysgrifau. Arhosodd un ohonynt ym meddiant y teulu am gryn amser ond bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llawysgrif Plas Nantglyn 2. Am yr ail lawysgrif, gweler NLW 263B.

Cofnodwyd y gerdd gyntaf mewn cyfrol a ysgrifennwyd yn chwarter olaf yr 17g., yn llawysgrifen Foulk Wynn a Robert Lloyd, (Nant 2, 198) gyda'r ail lawysgrif, o ddechrau'r 19g, yn gopi o hon, (NLW 263B, 15).

15 *borrowed* wedi ei ysgrifennu ger llinellau 149-150 ar lawysgrif A (Nant 2, 198), a'r ddwy linell mewn llawysgrifen wahanol i weddill y llawysgrif.

42 Drwy ei mam, Ann Mostyn, roedd Bridget yn perthyn i linach Mostyniaid Talacre a sefydlwyd gan Pyrs Mostyn, trydydd mab Rhisiart ap Hywel. Trwy ei thad, Darcy Savage,

roedd yn perthyn i linach Iarll Rivers ac felly hanai Bridget o ddwy linach o Babyddion pybyr. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

44 **ei throi i'n ffydd** Dyma'r unig gyfeiriad sydd at grefydd Bridget Mostyn yn y cerddi i'r teulu. Er bod Tomas yn Brotestant, roedd Bridget yn Babyddes a'r capel ym Mostyn yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau Catholig. Gweler HFMM, 156, a'r Rhagymadrodd uchod.

46 **Er oeri plas yr aeres** Nid yw ystyr y sylw hwn yn glir oni bai ei fod yn cyfeirio at gartref Bridget yn Sir Gaer. Prin iawn yw'r wybodaeth am hynt ei rhieni ar wahân i farwolaeth ei thad, Darcy Savage, yn 1670. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

47 **ddau fachgen** Ei feibion hynaf, Roger a Thomas. Ganwyd un ar ddeg plentyn i Tomas a Bridget Mostyn ond gellid tybio i'r gerdd gael ei chanu cyn i'r plant eraill gael eu geni.

51 **frodyr** Un brawd oedd gan Tomas Mostyn, sef Richard Mostyn, Penbedw. Mae'r cyfeiriad felly yn cynnwys ei frodyr yng nghyfraith, John Trefor a William Salisbury, sef gwŷr Jane a Mary Mostyn. Gweler HFMM, 150.

64 **Eglwys Rhos** Eglwys Llanrhos sydd o fewn chwarter milltir i Gloddaith. Cyfrannodd teulu Mostyn at yr adeiladwaith mewn sawl cenhedlaeth. Gweler Lloyd, *The History of the Princes*,VI, 253-58.

92 **deugeinyn** Nid yw'r gair yn cael ei gofnodi yn GPC ond mae'n debyg mae at ddeugain o wŷr y mae'r cyfeiriad.

95 **gored Dudnaw** Cofnodir dwy gored yn Llandudno gan N V Campbell Bannerman, sef cored Gogarth a chored Maelgwn, ac yn ogystal â chored Rhos Fynach yn Llandrillo-yn-Rhos, mae'n cofnodi cored yn Nhrecastell, dros y Fenai ar Ynys Môn, sef lleoliad un o bum llys y Mostyniaid. Am fwy o fanylion a map o'r lleoliadau, gweler erthygl
N V Cambell Bannerman, 'Flood, Folklore and Fishweirs':
http://www.nbannerman.co.uk/Flood_Folklore_and_Fishweirs.pdf, cyrchwyd 23 Mawrth, 2012.

95 **Dudnaw** Ffurf o Tudno.

98 **Taliesyn** Y bardd o'r 6g. a'r cymeriad chwedlonol. Gweler Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997), 694-695.

103 **gored Trillo** Gellir gweld gweddillion y pileri coediog yn achlysurol yn Llandrillo-yn-Rhos. Ceir manylion pellach am bysgodfeydd mynaich Rhos Fynach yn erthygl Nigel Bannerman a Cecil Jones, 'Fish-trap types: a component of the maritime cultural landscape.' *International Journal of Nautical Archaeology,* 28 (1999), 70–84.

105 **g'lomendy** Adeiladwyd colomendy yng Nghloddaith gan Syr Tomas Mostyn (m. 1617/19). Gweler HFMM, 101.

108 **ei felin wynt** Bellach yn adfail, cofnodir ei lleoliad i'r gogledd-ddwyrain o Loddaith gan John Hicklin, *The Hand-Book to Llandudno and its Vicinity* (Llundain a Chaer, 1861), map.

117-120 Mae'r flwyddyn 1677 yn cael ei chrybwyll.

127 **Tawbot** Talbot; ci hela gwyn yn wreiddiol. Newidiodd ystyr yr enw i gyfleu ci hela mawr, trwm.

136 **Brynlluarth** Brynlluarth, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, Dinbych.

138 **Siôn Llwyd** Bu John Lloyd, Brynlluarth, yn Siryf Sir Ddinbych yn 1701 ond ni ellir bod yn sicr ai cyfeiriad ato ef neu at ei dad, o'r un enw, a geir yma. Gweler T Nicholas, *Annals of the Counties and County Families of Wales* (Llundain 1872), 165.

142 a 143 **Aer y Pennant, Thomas Llwyd** Ni chanfuwyd unrhyw wybodaeth am y gŵr hwn.

152 Mae sillaf yn ormod yn y gynghanedd, ond cadwyd at eiriad y ddwy lawysgrif wrth olygu.

14

Ceir sawl cyfeiriad yn llythyrau Tomas Mostyn at ei waeledd ond ni cheir manylion pendant am natur ei afiechyd. Daw'r cyfeiriad cynharaf yn 1674, gyda chyfeiriadau eraill o 1683 ymlaen. Yn 1684/85, cyfeiria Tomas Mostyn at ei afiechyd fel rheswm dros beidio ymgeisio am sedd fel Aelod Seneddol, gweler Casgliad Bangor (Mostyn) 9069, 8. Mae'r englynion i Tomas Mostyn yn ddienw yn y llawysgrif ond yn debygol o fod yn waith Siôn Edward. Ni ellir dyddio'r gerdd hon gyda sicrwydd o'r llawysgrif, gan iddi gael ei hychwanegu gan Siôn Dafydd Las at gyfrol o ddechrau'r 17g. Mae ei ychwanegiadau yn cynnwys barddoniaeth Morys Parry, Siôn Edward a'i waith ei hun, gweler llawysgrif B 14975.

15

Prin yw'r manylion am Rosier Mostyn, brawd Tomas Mostyn (m. 1690), ond mae cofnod ohono yn cofrestru yng Ngholeg Crist, Rhydychen, ac yna yn symud i dderbyn addysg gyfreithiol yn y Deml Fewnol yn Llundain yn 1672. Yno y bu farw yn ŵr ifanc yn 1678 ac fe'i claddwyd yn Eglwys y Deml Fewnol ond mae'n debyg mai yng Ngloddaith y canwyd y farwnad. Gweler HFMM, 153. Dioddefodd Tomas a Bridget sawl profedigaeth o golli plant yn eu babandod neu eu plentyndod ifanc ond nid oes cofnod o farwnadau iddynt hwy. Er mai cywydd neu awdl fyddai'r mesur traddodiadol ar gyfer marwnad, ar ffurf englyn y mae Siôn Edward wedi canu ei farwnad, gan gadw at gyfrwng arferol ei ganu. Ceir y farwnad i Rosier Mostyn mewn llawysgrif o'r 17g. cynnar, ar ffurf ychwanegiad mewn llawysgrifen wahanol yn niwedd y ganrif (B 14975, 309).

16

Prin yw'r wybodaeth am Siôn Edward, ClochyddEglwys Llanelian, ond o'r dystiolaeth a geir yn ei gerddi a'r marwnadau iddo, fe welir ei fod ymysg y beirdd lleol a ganai i Tomas

Mostyn. Gweler y nodiadau i Gerdd 1. Gan y ceir cyfeiriad at galennig yn y gerdd hon, efallai fod ymdrech i ail-greu un o'r cyfnodau noddi traddodiadol yng Ngloddaith, gyda gwleddoedd yn rhan bwysig o ddathliadau gŵyl y Nadolig. Yn sgil y gerdd hon cawn dystiolaeth fod cysylltiad agos rhwng y porthmon o Gerrig-y-drudion a'r gwŷr eglwysig a ganai i Tomas Mostyn. Yn un llawysgrif, ceir cywydd gan Rhys Cadwaladr i Siôn Edward am ganlyniadau goryfed, cerdd a arweiniodd at ymryson rhwng y ddau fardd (gw. Mostyn 96, 62-4) ac fe ellid tybio bod Edward Morris wedi canu'r cywydd gofyn yng Ngloddaith yn ystod yr un ymweliad. Daw'r unig gofnod o'r gerdd o gyfrol sy'n parhau ym Mhlas Mostyn, ac yn dyddio o ddiwedd yr 17g., sef cyfnod canu'r gerdd.

3, 12 **Gloddaith** Gweler y nodiadau i Gerdd 7.

14 **Siôn Edwart** Gweler y nodiadau i Gerdd 1.

24 **Clochydd Elian** – gweler y nodiadau i Gerdd 1 am fwy o fanylion am Siôn Edward. Lleolir Eglwys Llanelian yn Llanelian-yn-Rhos, pentref heb fod nepell o Fae Colwyn, yn Sir Conwy. Am fwy o fanylion am yr eglwys, gweler gwefan Coflein: http://www.coflein.gov.uk/cy/safle/165227/manylion/ST+EILIAN%27S+CHURCH%3B+ST+HILARY%27S+CHURCH%3BLLANELIAN-YN-RHOS+CHURCH/

28 **Hocsied** Mesur gwlyb (ac weithiau mesur sych) a'i faint yn amrywio yn ôl y cynnwys a'r ardal (GPC 1882).

37 **Neres** Mae'n debyg mai cyfeiriad at Nereus a geir yma, sef un o hen dduwiau'r môr a oedd yn adnabyddus am ei ddoethineb a'i allu i broffwydoliaethu. Gweler S Hornblower & A Spawforth (goln), *The Oxford Classical Dictionary*, 3ydd argraffiad (Efrog Newydd, 1996), 1036.

64 **chwechyn** Y ffurf *chwchyn* a nodwyd ar y llawysgrif ond gan na cheir y gair yn GPC , tybir mai ffurf lafar o *chwechyn* sydd yma neu bod camgymeriad wrth gofnodi'r sillafiad, sef darn chwe cheiniog (GPC 846). Ceir cyfeiriad at wario chwechyn ar gwrw ar ôl angladd a hefyd manylion y tâl a dderbyniai'r gwŷr eglwysig am eu gwasanaeth yn Joseph

Hemingway, *Panorama of the beauties, curiosities, and antiquities of North Wales* (Llundain, 1844), 19.

17

Cofnodir dwy gerdd yn gofyn am galennig gan Tomas Mostyn yn yr 17g., ac efallai fod dathliadau'r Nadolig yng Ngloddaith yn gyfle i ail-greu un o'r cyfnodau noddi traddodiadol. Canwyd y gerdd hon gan Rhys Cadwaladr yn 1679 ac efallai ei bod yn perthyn i'r un achlysur â chywydd gofyn Edward Morris, Cerdd 16. Daw'r unig gopi o'r gerdd o gyfrol sy'n parhau ym Mhlas Mostyn, ac sydd yn dyddio o chwarter olaf yr 17g., Mostyn 96.

Teitl **Calennig** Am fanylion am yr arfer o hel calennig a dyddiadau'r Calan a'r Hen Galan gweler cyfrol Twm Elias, *Tro Drwy'r Tymhorau*: *Almanac o Wyliau a Dathliadau'r Flwyddyn* (Llanrwst, 2007), 10-11, 14-17.

Teitl gwreddiol **Dydd yr Enwaediad** Dethlir yr ŵyl yn draddodiadol ar 1 Ionawr, yr wythfed dydd wedi'r Nadolig, i goffáu enwaediad Crist. Gweler E. A. Livingstone (gol.), *The Concise Oxford Dictionary of the Christian Church* (Rhydychen, 2006): http://0-www.oxfordreference.com.unicat.bangor.ac.uk/view/10.1093/acref/9780199659623.001.0001/acref-9780199659623-e-1223?rskey=wdojMB&result=1.

6 **Adda** Y gŵr cyntaf i'w greu, Genesis 3:17.

16 **y deuddeg arwydd** Arwyddion y sidydd (zodiac); yr Hwrdd, y Tarw, yr Efeilliaid, y Cranc, a.y.b., sef enwau ar glystyrau o sêr a fathwyd gan Roegwyr cynnar.
John Roberts (gol.), *Oxford Dictionary of the Classical World* (Rhydychen, 2007): http://0-www.oxfordreference.com.unicat.bangor.ac.uk/view/10.1093/acref/9780192801463.001.0001/acref-9780192801463-e-558?rskey=KhkYSM&result=7.

23 **Meirch dy gerbyd** Ceir cyfeiriad at doriad gwawr fel codiad yr haul gyda'i geffylau yng ngwaith y bardd Rhufeinig cynnar, Virgil. Gweler Jon R Stone, *The Routledge Dictionary of Latin quotations: The Illiterati's Guide to Latin Maxims, Mottoes, Proverbs and Sayings* (Abingdon, 2005), 291.

39 **Tomas** Tomas Mostyn (m. 1692).

41 **Aer Mostyn o Fostyn** Roedd ei dad, Rosier Mostyn (m. 1690), yn byw ym mhrif gartref y teulu ym mhlas Mostyn, Sir y Fflint.

43 **Gloddaith** Cartref Tomas a Bridget Mostyn. Gweler y nodiadau i Gerdd 7 am fwy o fanylion am y plas.

18

Ceir dau englyn i Gabriel, bwtler Gloddaith, ac mae'r unig gofnod ohonynt yn ymddangos mewn cyfrol o'r 18g. yn llawysgrif Twm o'r Nant (NLW 11999B). Gweler Cerdd 19 am yr englyn gan Siôn Edward. Ceir cyfeiriad at Gabriel yn llyfr cyfrifon tŷ'r teulu, 1680-82, a ysgrifennwyd mewn Ffrangeg ac efallai fod y bwtler, yn ogystal â cheidwad y cyfrifon, yn Ffrancwr. Ymysg y taliadau a nodir y mae'r cofnod: donné a gabriele qui a travaille toutes les fort que madame a ete a Londres' 10/- (Archifdy Sir y Fflint, Casgliad Mostyn, D/M 4256). Ni ellir dyddio'r englynion i'r bwtler ond mae'n debygol iddynt gael eu canu ar yr un achlysur gan eu bod yn ymddangos, naill ar ôl y llall, yn NLW 11999B. Yn amlwg, roedd hynny rywbryd cyn marwolaeth Morys Parry yn 1683.

1 **Gabriel** Enw Beiblaidd a welir gyntaf yn yr Hen Destament (Daniel 8:16; 9:21) ond prin fu ei ddefnydd fel enw cyntaf yn yr iaith Saesneg hyd yn ddiweddar. Mae yn fwy cyfarwydd fel enw bedydd yn y Ffrangeg, gweler Patrick Hanks, Kate Hardcastle a Flavia Hodges (goln), *A Dictionary of First Names* (Rhydychen, 2006): http://0-www.oxfordreference.com.unicat.bangor.ac.uk/view/10.1093/acref/9780198610601.001.0001/acref-9780198610601-e-1229?rskey=mklIsL&result=2696.

19

Ni roddwyd teitl i'r englyn yn y llawysgrif (NLW 11999B, 20) ond mae'n dilyn englyn Morys Parry, '*I ofyn diod gan fwtler Gloddaith*', lle cyferchir gŵr o'r enw Gabriel. Gweler Cerdd 18. Fe ellid tybio bod beirdd wedi ymgasglu yng Ngloddaith ar gyfer gwledd, gyda'r bwtler yn destun i englynion y ddau ŵr eglwysig o Lanelian.

Teitl ac 1 **Gabriel** Gweler y nodiadau i Gerdd 18.

2 **Arthur** Cyfeiriad at y Brenin Arthur.

3 **hepe** Ni cheir y gair yn GPC ac aneglur yw'r ystyr, efallai mai ffurf dafodieithol sydd yma yn tarddu o'r ferf *hepian* (cysgu'n ysgafn, pendwmpian) i gyfleu person cysglyd, swrth (GPC 1855).

4 **marchog** Fel Mr Mostyn, Gloddaith, y byddai Tomas Mostyn yn cael ei gyfarch cyn iddo etifeddu'r farwniaeth ar farwolaeth ei dad yn 1690. Dyrchafwyd y pedair cenhedlaeth flaenorol yn farchogion ac efallai fod Siôn Edward am ddyrchafu Tomas Mostyn o flaen ei amser ar gyfer anghenion y gynghanedd.

20

Er bod bwlch wedi bod yn nhraddodiad nawdd teulu Mostyn yn yr 17g., mae Edward Morris yn cyfleu yn y gerdd hon bod yr arfer yn ôl mewn bri ar aelwyd Tomas Mostyn erbyn chwarter olaf y ganrif, gyda beirdd a cherddorion yn bresennol mewn gwleddoedd yng Ngloddaith. Ceir cyfeiriad penodol yn y gerdd at draddodiad nawdd, a chawn Edward Morris yn datgelu ei fod yn fardd i Tomas Mostyn. Ni cheir awgrym tebyg yng ngwaith y gwŷr eglwysig ac efallai iddynt gael eu hystyried yn 'amaturiaid' galluog, gydag Edward Morris yn cael ei gydnabod fel bardd 'proffesiynol'. Gwelir Siôn Dafydd Las yn dymuno am yr un statws yng Ngherdd 21.79-80. Canwyd cerdd Edward Morris yn 1683, ac mae'r llawysgrif hefyd yn dyddio o'r cyfnod hwn, gweler Mostyn 96.

1 **Gloddaith** Gweler y nodiadau i Gerdd 7.

6 **y ddwyradd cerddorion** Ceir cofnod o delynorion a chrythorion yn cael eu graddio yn Eisteddfod Caerwys yn 1567 a thrafodir dylanwad Statud Gruffudd ap Cynan ar gerddorion yn nhraethawd Einir Gwenllian Thomas 'Ystatud Gruffudd ap Cynan' , Traethawd Ph.D., (Bangor, 2001), 517-23, hefyd 707- 22.

11 **wiwgaer** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *gwiw+caer* sydd yma, sef 'caer wych; gwiw' (GPC 1672).

15 **Tomas Mostyn** Gweler y nodiadau i Gerdd 7.

17 **aer y barnet** Cyfeiriad at ei dad, Syr Rosier Mostyn, (m. 1690). Gweler y nodiadau i Gerdd 1.

19 **ganllin** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *cant+llin* sydd yma.

21 **Ei fardd a fûm i'w fwrdd fo** Cyfeiriad at y beirdd yn ymgasglu wrth y bwrdd tâl.

33 **oernych** Ni cheir cofnod o'r gair yn GPC ond gellid tybio mai *oer+nych* a geir yma.

39 **rychawr** Treigliad a ffurf o *rhychor*, sef yr anifail gorau o bâr dan yr iau yn aredig. Ceir trafodaeth helaeth ar ddefnydd y beirdd o eiriau amaethyddol yn erthygl Ffransis G. Payne 'Cwysau o Foliant Cyson', *Y Llenor*, XXI (1947), 3-24.

43 **oergam** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *oer+cam* a geir yma.

43 **arwgaeth** Ni cheir y gair yn GPC ond mai'n debyg mai *garw+caeth* a geir yma, wedi ei dreiglo.

72 a 73 **wraig annwyl** ….**a'i henw yn faith** Gwraig Tomas Mostyn, sef Bridget, merch D'Arcy Savage, Leighton, a'i wraig, Ann Mostyn, Talacre. Roedd cangen Talacre o'r teulu yn tarddu o drydydd mab Rhisiart ap Hywel (m. 1539/40), Pyrs Mostyn, ac felly byddai

Bridget yn rhannu achau ei gŵr yn y 16g. O ochr ei thad a'i mam, roedd cefndir Pabyddol cryf yn llinach deuluol Bridget. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

79 **rhodd** Dyma'r unig gyfeiriad penodol yn y cerddi at nawdd i fardd gan Tomas Mostyn. Os mai Edward Morris oedd yr unig fardd i dderbyn nawdd traddodiadol, byddai hyn yn atgyfnerthu ei statws fel bardd 'proffesiynol'. Bu'r gwŷr eglwysig yn barod iawn i ganu am haelioni Tomas Mostyn ac mae'n bur annhebygol na fyddent hwythau yn derbyn nawdd mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Bu farw Edward Morris yn 1689 a blwyddyn yn ddiweddarach talwyd pum deg swllt i Owen Gruffydd, Llanystumdwy, am gywydd marwnad i Syr Rosier Mostyn (m. 1690). Gweler Cerdd 6 am fwy o fanylion am y farwnad.

81 **tramwyo** Gan mai porthmona oedd galwedigaeth Edward Morris, fe ellid tybio bod hwn yn air perthasol iawn iddo ef.

21

Gwelir y bardd ifanc o Lanuwchllyn, Siôn Dafydd Las, yn ymuno â beirdd Tomas Mostyn oddeutu 1683, ac mae'r gerdd hon ymysg y rhai cynharaf iddo eu canu yng Ngloddaith. Bu cysylltiad blaenorol rhwng Rhys Cadwaladr a Siôn Dafydd Las ac efallai mai'r cysylltiad hwn a arweiniodd at bresenoldeb Siôn Dafydd Las yng Ngloddaith, lle bu yn copïo llawysgrifau i Tomas Mostyn rhwng *c* 1683 a 1686. Gweler y Rhagymadrodd, Pennod 2. Heblaw am eithriadau prin, cofnodwyd ei gerddi i Tomas Mostyn mewn cyfrol a luniwyd gan y bardd, sef Mostyn 96.

Ganwyd Siôn Dafydd Las mae'n debyg yn y Pandy, Llanuwchllyn, a chysylltir ef hefyd â Thy'n-y-ffridd er mai prin yw'r wybodaeth am ei gyfnod cynnar. Mae ei gywyddau i Rhys Cadwaladr a chlerigwr arall, Edward Tomas, yn cael eu dyddio i 1676 a 1677 ond mae'r cyfnod yma yn anghyson â'r cyfeiriad at ei addysg farddol gan feirdd Gloddaith a phrif gyfnod ei ganu, sef 1680-1694. Gweler ei farwnad i Edward Morris, Perthi Llwydion – 'F'athro oedd ef' – (llawysgrif Peniarth 241, 309). Gweler hefyd W Gareth Morris, 'Gwaith Siôn Dafydd Las', Traethawd PhD Llanbedr Pont Steffan/Bangor, 1996. Gellir ei

ystyried fel un o'r beirdd olaf i dderbyn nawdd gan uchelwyr gogledd Cymru, a dilynwyd ei gyfnod yng Ngloddaith yn 1687 gan ei gysylltiad â theulu Nannau. Fel bardd teulu Nannau y cyfeirir ato ym marwnad Owen Gruffydd wedi ei farwolaeth yn 1694, heb gyfeiriad at ei gyfnod yng Ngloddaith. Gweler Owen M Edwards, *Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy*, 33-36. Hefyd BA: Davies, John ('Siôn Dafydd', 'Siôn Dafydd Lâs').

10 **Yng Ngloddaith** Cartref Tomas a Bridget Mostyn ger Llanrhos, Llandudno. Gweler y nodiadau i Gerdd 7 am fwy o fanylion am y plas.

12 **Mostyn** Cyfenw'r teulu a gymerwyd o leoliad y prif gartref ar lan Afon Dyfrdwy yn Sir Y Fflint. Gweler y nodiadau i Gerdd 3.

13 **Tomas** Etifedd Syr Rosier a'i ail wraig, Mari Bulkeley. Gweler y Rhagymadrodd, Pennod 2, am fwy o'i gefndir.

15 **ysgwîr** Fel Mr Mostyn, Gloddaith, Ysgwier, y byddai Tomas Mostyn yn cael ei gydnabod cyn i'w dad farw yn 1690, fel y gwelir oddi wrth deitl gwreiddiol y gerdd hon yn y llawysgrif (Mostyn 96, 74).

27 **ffraethlew** Ni cheir y gair yn GPC ond diau mai ffurf o *ffraeth* 'parod, hael' *a llew* a geir yma.

46 **Maesaleg** Cymhariaeth gyda Maesaleg neu Basaleg, a geir yma, sef Llys Ifor Hael, un o noddwyr Dafydd ap Gwilym. Ceir nodyn gyferbyn â llinell 46 yn y llawysgrif yn cadarnhau'r cysylltiad.

51 **Llys Madog** Cartref Madog Gloddaith, sef un o hynafiaid teulu Mostyn, trwy linach Margaret, mam Rhisiart ap Hywel. Gweler A D Carr,'The Making of the Mostyns: The Genesis of a landed family', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1979, 138.

60 **Y tair talaith** Aberffro, Mathrafal a Dinefwr. Enwir y tair talaith yng nghywydd marwnad Wiliam Cynwal i Ruffudd Hiraethog, ac mae D J Bowen yn eu dosbarthu i

gynrychioli Gwynedd, Powys a'r Deheubarth. Mae hefyd yn olrhain gwreiddiau'r taleithiau i gyfnod Rhodri Mawr a'u defnydd diweddarach yn oes y Cywyddwyr a hefyd gan Gyngor Cymru a'r Gororau wrth gyhoeddi Comisiwn i gynnal eisteddfod Caerwys yn 1576. Gweler D J Bowen, 'Taleithiau'r Gwŷr wrth Gerdd', *Llên Cymru*, XVII (1992), 139-142.

61 **burawch** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai ffurf o *pur+awch* sydd yma.

22

Bu cryn ddiddordeb yng ngherdd Edward Morris am dranc y traddodiad barddol, fel y dengys y copïau lluosog a wnaed ohoni, yn arbennig yn hanner cyntaf y 18g. Ceir chwech ar hugain o gopïau o'r gerdd, nifer sylweddol iawn o ystyried mai un neu ddau o gopïau sydd wedi goroesi o'r mwyafrif o'r cerddi eraill a ganwyd i deulu Mostyn yn niwedd yr 17g. Enwir Tomas Mostyn a'i gymydog, Robert Wyn, Bodysgallen, yn y gerdd fel dau a roddai groeso i feirdd, ac felly gwelir nad oedd yr adferiad mewn noddi beirdd yn gyfyngedig i Gloddaith yn unig. Bu Morys Parry, Siôn Dafydd Las a Rhys Cadwaladr yn canu ym Modysgallen ac mae llawysgrif Mostyn 96 (NLW 3027E; Bangor (Mostyn) 9081) hefyd yn cynnwys tair cerdd i Richard Wynn, Gwydir.

Ceir y gerdd, gyda rhai amrywiadau, mewn sawl llawysgrif o gyfnod y canu (llawysgrifau A-F). Ysgrifennwyd y cyfran helaethaf o'r llawysgrifau yn y 18g, (llawysgrifau Ff-Rh), gyda thair arall yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (llawysgrifau S-Th).

20 **Helicon** Mynydd Helicon. Ym mytholeg y Groegiaid, safle dwy o ffynhonnau yr awenau. Gweler Dale H. Hoiberg et al., *Britannica Concise Encyclopedia* (Chicago, 2003), 839.

22 **Parnasus** Mynydd Parnasws. Ym mytholeg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, mynydd a oedd yn gysylltiedig ag Apolo a'r Awenau. Gweler *Britannica Concise Encyclopedia*, 1413.

46 **dilanwaith** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *di+glanwaith* sydd yma.

83 **poenfryd** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *poen+bryd* sydd yma.

96 **Mostyn** Cyfenw y teulu. Gweler y nodiadau i Gerdd 3.

97 **Tomas** Gweler y nodiadau i Gerdd 7 a'r Rhagymadrodd am fwy o fanylion am Tomas Mostyn.

98 **Syr Rosier** Tad Tomas Mostyn. Gweler y nodiadau i Gerdd 1 a'r Rhagymadrodd am fwy o fanylion amdano.

101 **Gloddaeth** Cartref Tomas Mostyn ger Llanrhos, Llandudno. Gweler y nodiadau i Gerdd 7 am fwy o fanylion.

112 **Savage** Merch D'Arcy Savage, Leighton, oedd Bridget, gwraig Tomas Mostyn. Gweler y nodiadau i Gerdd 7 am fwy o fanylion amdani, a'r Rhagymadrodd hefyd.

120-123: **Robert Wynn .... aer y Berth Ddu ..... a Bodysgellan**. Unwyd ystad Bodysgallen gyda Berth Ddu ar ddechrau'r 17g., pan briododd Margaret (m. 1637), merch ac aeres Richard Mostyn, gyda Huw Wyn. Gorwyr iddynt fyddai Robert Wyn. Gweler BA: WYNN (Teulu), Berthddu a Bodysgallen, sir Gaernarfon. http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-WYNN-BER-1550.html. Canodd Rhys Cadwaladr gyfres o englynion i Robert Wynn, Bodysgallen, a'i wraig, Elin, ar achlysur eu priodas (Bangor (Mostyn) 45), a chanodd Owen Gruffydd, Llanystumdwy, farwnad iddo (Bangor (Mostyn) 25).

23

Canwyd y gerdd yn 1684, sef y cyfnod pan oedd Siôn Dafydd Las yng Ngloddaith yn copïo llawysgrifau ar gyfer Tomas Mostyn. Ceir yr englynion hyn yn Mostyn 96, un o'r cyfrolau a luniodd Siôn Dafydd Las i gofnodi'r farddoniaeth a ganwyd i Tomas Mostyn ynghyd â barddoniaeth i genedlaethau cynharach. Gweler Pennod 2. Daw'r ail gofnod o'r gerdd o

lawysgrif o ddechrau'r 17g., ac mae'r gerdd hon ymysg ychwanegiadau diweddarach ynddi (llawysgrif B 14975).

4 **Gwynedd** Cyfeiriad efallai at un o dair talaith y gwŷr wrth gerdd yn oes y Cywyddwyr. Gweler 21.60n.

18 **Pedwar impin** Ganwyd saith mab a phedair merch i Tomas a Bridget Mostyn ond bu farw nifer ohonynt yn fabanod neu blant ieuainc. Roedd Roger, yr etifedd, (m. 1734) a'i frawd, Thomas, wedi eu geni pan ganwyd y gerdd, gyda mab arall, Richard, hefyd yn fyw yn 1684 (bu farw yn 1689). Gweler HFMM, 156, am fwy o fanylion am blant Tomas a Bridget Mostyn. Hefyd Cofnodion Bedyddio Eglwys Llanrhos, 1668-1837 a Rhestr Gladdu Eglwys Llanrhos, 1669-1837.

24

Pan fu farw 'Miss', gast Tomas Mostyn, wedi gwaeledd, canodd Siôn Dafydd Las a Rhys Cadwaladr gywyddau marwnad iddi. Prin yw'r enghreifftiau o farwnad i gŵn neu anifeiliaid ac fe ellid tybio o'r cerddi fod 'Miss' yn fwy o gi anwes nag o gi hela. Ceir cyfeiriad at hela a physgota mewn cerddi eraill i Tomas Mostyn, diddordebau a fyddai'n gysylltiedig ag adloniant uchelwyr y cyfnod, ond mae'n ddiddorol nad oes dim cyfeiriad at hyn ym marwnadau 'Miss'. Gweler Cerddi 12 a 24. Ceir y gerdd mewn dwy lawysgrif, y naill yn llaw Siôn Dafydd Las o ddiwedd yr 17g. (Mostyn 96), a'r llall, o 1785, yn llawysgrifen Iolo Morganwg (Mostyn 130).

25

Fel Siôn Dafydd Las yng Ngherdd 24, canodd Rhys Cadwaladr gywydd marwnad i 'Miss', gast Tomas Mostyn, yn 1684. Ceir yr unig gofnod o'r gerdd yn Mostyn 96, cyfrol yn llawysgrifen Siôn Dafydd Las o'r cyfnod hwn.

24 **Ethiop** Ffurf o'r enw *Ethiopiad*, brodor o Ethiopia, dyn du (GPC 1253) .

25 **iewpen** Nid oes cofnod o'r gair yn GPC ond fe ellir ystyried mai amrywiad lleol ar *iepian* sydd yma; *iepian* = 'rhoi cyfarthiad(au) byr a chyffrous' (GPC 2012).

26

Darganfuwyd ymron i hanner cant o ogofeydd ym Mhenygogarth a Thrwyn y Fuwch, Llandudno, ac mae nifer ohonynt wedi ennyn cryn sylw gan archaeologwyr a chlybiau archwilwyr ogofeydd. Mae un ohonynt yn berthnasol iawn i lenyddiaeth Gymraeg, gan mai mewn ogof ar Drwyn y Fuwch yr argraffwyd *Y Drych Cristianogawl* yn 1585, y llyfr cyntaf i gael ei argraffu yng Nghymru. Gweler R Geraint Gruffydd, *Argraffwyr Cyntaf Cymru: gwasgau dirgel y Catholigion adeg Elisabeth* (Caerdydd, 1972); hefyd gwefan 'Caves of North Wales': https://sites.google.com/site/cavesofnortheastwales/10-caves-of-llandudno-area; John Kicklin, *The Hand-Book to Llandudno and its vicinity* (Llundain, 1858), 66-68 am fanylion yr ogof a http://www.llgc.org.uk/index.php?id=291&L=1 am fanylion *Y Drych Cristianogawl.* Mae'r gerdd hon yn cyfeirio at un ogof arbennig a ddefnyddiwyd gan Tomas Mostyn fel lloches bysgota. Cariwyd cerrig nadd o chwarel Talacre, Sir y Fflint, un o adnoddau ystad y teulu, i adeiladu waliau, meinciau a bwrdd carreg o fewn yr ogof. Gweler cronfa ddata'r Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: http://www.coflein.gov.uk/cy/safle/23009/manylion/LLECH+CAVE+OR+GROTTO%3BPWLL-Y-BABAN%2C+HIDING+CAVE/.

Cofnodwyd y gerdd mewn dwy lawysgrif, a cheir amrywiaeth sylweddol yn nhrefn y llinellau. Gan fod y ddwy lawysgrif yn dyddio o'r 17g., ni fu modd darganfod pa fersiwn yw'r gynharaf. Gwelir y cywydd yn fwy cyflawn yn llawysgrif Mostyn 96, sef cyfrol yn llawysgrifen Siôn Dafydd Las, awdur y gerdd, gyda'r dyddiad 1685 wedi ei nodi ar ddiwedd y gerdd. Daw'r ail gofnod o lawysgrif o ddechrau'r 17g., lle mae'r gerdd, ynghyd â cherddi eraill, wedi ei ychwanegu yn ddiweddarach mewn llawysgrifen wahanol, (Llawysgrif B.Add 14975).

2 **teiladaeth** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai ffurf lafar ar *adeiladaeth* a geir yma, sef 'peth wedi ei adeiladu', 'adeiladwaith' (GPC 15).

13 **wat** Ni cheir cofnod o'r gair (na *gwat*) yn GPC; tybed ai defnydd o'r Saesneg, *watch,* sydd yma, fel yn yr ystyr *watch tower?*

17 **ogof** Mae mynediad i'r ogof bellach yn beryglus ac anodd iawn ond darlledwyd ymweliad â'r ogof ar raglen y BBC, 'Coast' yn 2009 – http://www.youtube.com/watch?v=XXtmt9IDc6U.

43 **llawenyddwych** Ni cheir y gair yn GPC ond diau mai ffurf gyfansawdd ydyw, *llawenydd+gwych*.

46 **aer Mostyn** Tomas Mostyn (m. 1692) fyddai'r aer i'r ystad yn 1683. Gweler HFMM, 155-158.

46 **rymusdeg** Ni cheir y gair *grymusdeg* yn GPC ond gellid tybio mai amrywiad ar ffurf gyfansawdd *grymus+teg* a geir yma.

50 **newyddfur** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *newydd+mur* a geir yma; *newyddfodd* a gofnodir ar llawysgrif B, B 14975, 309.

56 **Landudno deg** Ychydig o dyddynnod ger Eglwys Sant Tudno fyddai yn unig yn Llandudno yn yr 17g., a'r trigolion yn ddibynnol ar bysgota ac amaethu am eu bywoliaeth. Ceir cofnod darluniadol o ddatblygiad y dref yng nghyfrol Jim Roberts, *Llandudno: Past & Present* (Stroud, 2002), gweler yn arbennig Pennod 2, 'The Town Develops', 39-46. Gweler hefyd Christopher Draper, *Llandudno Before the Hotels,* (Llwyndyrys, 2007) am fwy o fanylion am nodweddion cynnar Llandudno a'i thrigolion dros filoedd o flynyddoedd.

69 **Brutwn** Amrywiad ar Brwtwn, Brytwn. Brython, Cymro, Prydeiniwr (GPC 341)

74 **Seth** Trydydd mab Adda; bu Seth farw yn 912 oed (Genesis 5:8)

27

Ceir yr unig gofnod o'r englyn i Loddaith yn llawysgrif B 14975, yn dilyn cywydd Siôn Dafydd Las i Ogof Llech, lloches bysgota Tomas Mostyn ym Mhen y Gogarth, Llandudno. Gweler Cerdd 26. Mae'r englyn gan Siôn Edward yn awgrymu ei fod yntau wedi ymuno â'r ymweliad â'r ogof.

1 **Gloddaith** Cartref Tomas Mostyn, yn Llanrhos, ger Llandudno. Gweler y nodiadau i Gerdd 7 am fwy o fanylion am y plas.

4 Mae'r llinell yn fyr o sillaf; tybed ai *y môr* sydd i fod yma?

28

Gellir gweld olion cylchoedd cerrig ym Mhenygogarth, Llandudno, ac ar ucheldir Penmaenmawr ond ceir hefyd gerrig mawr unigol fel y cyfnodir gan W Bezant-Lowe, *The Heart of Northern Wales* (Llanfairfechan, 1912), 59. Nid fu modd darganfod cyfeiriad penodol at garreg fawr yng nghyffiniau Gloddaith ond gellid tybio bod un yno gyda rhyw nodwedd drawiadol i dderbyn sylw gan Siôn Dafydd Las ac efallai mai cyfeiriad at faen hir mewn adeiladwaith wal sydd yma. Ceir y gerdd yn llawysgrifau Mostyn 96 a B Add 14975, y ddwy yn dyddio o'r 17g. Llawysgrifen Siôn Dafydd Las sydd yn Mostyn 96 ac ysgrifennwyd B Add 14975 ar ddau gyfnod, gyda'r gerdd hon yn ychwanegiad diweddarach.

29

Fel Rhys Cadwaladr ddegawd ynghynt, canodd Siôn Dafydd Las gerdd i Tomas Mostyn pan oedd yn Llundain yn 1686, i'w annog i ddychwelyd i Loddaith gyda'i wraig ac aelodau eraill y teulu. Tybed ai efelychu curad Llanfairfechan yr oedd Siôn, wedi iddo gofnodi cerdd Rhys Cadwaladr yn llawysgrif Mostyn 96? Gweler Cerdd 12. Nid yw'n glir ym mha

fodd y derbyniodd Tomas Mostyn y cywydd, ai darllen y gerdd yn Llundain a wnaeth neu wrando ar ddatganiad wedi iddo ddychwelyd i Gloddaith? Yn llawysgrif B Add 14975, yn dilyn y gerdd hon, ceir cyfres o englynion gan Siôn Dafydd Las i William Hughes i'w annog yntau adref o Lundain, ac er nad enwir Tomas Mostyn, ceir cyfeiriad at Loddaith ynddynt (llawysgrif B Add 14975, 385a). Mae tair o'r llawysgrifau sydd yn cynnwys y cywydd i Tomas Mostyn yn dyddio o gyfnod canu'r gerdd mae'n debyg, *c.* 1686, (llawysgrifau Mostyn 96, Bangor (Mostyn) 48 a B Add 14975, gyda'r ddwy lawysgrif gyntaf yn llawysgrifen Siôn Dafydd Las). Mae'r bedwaredd lawysgrif yn dyddio o'r un cyfnod neu o ddechrau'r 18g. (Caerdydd 5.30, 157).

18 **Troy Newydd** Amrywiad ar Troia Newydd. Honai Sieffre o Fynwy fod Brutus wedi sefydlu dinas o'r enw ar lannau'r Tafwys.

30 **Bloomsbury Squâr** Bloomsbury Square, Llundain, un o gyfeiriadau mwyaf ffasiynol y cyfnod a adeiladwyd yn niwedd yr 17g., ac fel un o sgwariau cynharaf Llundain, aristocratiaid a'r bonedd fyddai yn byw yn y tai teras urddasol.

30

Bu iechyd Bridget Mostyn, gwraig Tomas Mostyn, yn destun pryder ar sawl achlysur, fel y gwelir yn rhai o'r llythyrau at Tomas Mostyn. Ceir nifer o lythyrau gan Philip Fouke rhwng 1683-1691 gyda chynghorion meddygol, ac anfonodd 'quieting pilles and hysterick pouders' i Bridget ar un achlysur. Gweler Casgliad Bangor (Mostyn), 9069-9072, yn arbennig 9068, 22, a hefyd 9069, 4. Yn ystod misoedd yr haf 1686, roedd iechyd Bridget unwaith eto yn creu pryder a bu yn Tunbridge Wells am rai wythnosau i geisio gwellhad drwy'r dŵr mwynol, fel y gwelir o lythyrau Thomas Millington a Philip Fouke at Tomas Mostyn. Gweler Casgliad Bangor (Mostyn) 9069, 57 a 58, a'r Rhagymadrodd uchod.

Os canwyd y cerddi yn 1686 pan fu Bridget yn Tunbridge Wells, mae'n debyg ei bod oddeutu deg ar hugain oed pan ganodd Rhys Cadwaladr y gerdd hon iddi. Yn ychwanegol at y gerdd hon, canodd Rhys Cadwaladr garol i Bridget yn llawenhau iddi gael gwellhad, a

chan fod y ddwy gerdd yn dilyn ei gilydd yn y llawysgrif, tybir eu bod yn cyfeirio at yr un gwaeledd. Am yr ail gerdd, gweler Cerdd 31.

Daw'r unig gofnod o'r ddwy gerdd o lawysgrif Mostyn 96 a ysgrifennwyd gan Siôn Dafydd Las *c.* 1686, a byddai hyn yn cyd-fynd gyda'r awgrym ynghylch dyddiad gwaeledd Bridget Mostyn. Ni cheir Cerdd 14 (i Tomas Mostyn yn ei waeledd) yn llawysgrif Mostyn 96, sy'n awgrymu nad yw honno'n perthyn i'r un cyfnod â gwaeledd Bridget.

8 **rymusdeg** Ni cheir y gair yn GPC ond gellir tybio mai *grymus+teg* sydd yma i olygu 'rhinweddol,daionus' (GPC 1540).

8 **Mostyn** Cyfeiriad at ŵr Bridget, Tomas Mostyn, sef mab hynaf Rosier Mostyn (m. 1690).

9 **Sara** Gwraig Abraham yn yr Hen Destament (Genesis 11-23) a gofir am ei ffyddlondeb i'w gŵr a'i chariad tuag ato ef a'u mab, Isaac. Gweler T Rees, D F Roberts, J T Evans, D Williams, I Williams (goln), *Geiriadur Beiblaidd,* II (Wrecsam, 1929), 1265.

29 **bywrym** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *byw+grym* sydd yma

32 **Heseceias** Brenin Jwda a gafodd iachâd wedi iddo weddïo ar Dduw (2 Brenhinoedd, 20: 1-7). Yn ychwanegol, mae lle i gredu bod Heseceias yn noddwr i lenyddiaeth a cherddoriaeth (2 Cron. 29: 25-30). Gweler T Rees *et al.* , *Geiriadur Beiblaidd,* II, 691.

31

Canodd Rhys Cadwaladr gywydd (Cerdd 30) i Bridget Mostyn pan oedd yn wael ac mae'n debyg mai dilyniant iddo yw'r garol hon. Dyma'r unig gofnod o'r canu caeth newydd yn cael ei ddefnyddio i gyfarch aelod o deulu Mostyn yn yr 17g., ond fe welir bod beirdd Gloddaith hefyd wedi mawbwysiadu'r arddull newydd, er enghraifft Siôn Edward (NLW 11999, 17), Siôn Dafydd Las (NLW 559, 26; M130, 342) a Rhys Cadwaladr (NLW 11999,

2; NLW 8341, 1 a Cw 204, 246). Gweler Nesta Lloyd, 'Late Free-Metre Poetry' yn R Geraint Gruffydd, *A guide to Welsh literature c. 1530-1700* (Caerdydd, 1997), 100-127.

Daw'r unig gofnod o'r gerdd o lawysgrif Mostyn 96, sef y gyfrol a luniwyd gan Siôn Dafydd Las ar gais Tomas Mostyn, *c* 1686.

32

Pan fu farw Siôn Edward, clochydd Eglwys Llanelian, canodd tri o'i gyd-feirdd yng Ngloddaith, Edward Morris, Rhys Cadwaladr a Siôn Dafydd Las, farwnadau iddo. Gweler Cerddi 33 a 34. Fel y nodir ym marwnad Edward Morris, talodd Tomas Mostyn gostau angladdol Siôn Edward a hyn sydd i gyfrif mae'n debyg fod y marwnadau hyn yn gerddi o fawl i Tomas Mostyn yn ogystal â choffâd i Siôn Edward. Ceir cyfeiriad yn y gerdd at ŵr lleol arall, Robert Wynn, Bodysgallen, a gellid tybio bod cymydog Tomas Mostyn hefyd wedi estyn nawdd i Siôn Edward. Er bod tueddiad erbyn yr 16g. a'r 17g. i feirdd gynnwys dyddiad y canu, nid yw hyn yn ymddangos yn y cywyddau hyn a phrin iawn yw'r wybodaeth am fywyd Siôn Edward; gweler nodiadau Cerdd 1. Ceir cofnod yng nghofrestr Eglwys Llanrhos o gladdedigaeth John Edwards ar 6 Mawrth, 1682. Gweler *Llanrhos alias Eglwys Rhos Bishop's Transcripts/Parish Register: Marriages 1676-1837, Burials 1669-1837*, cyhoeddiad 'Clwyd Family History Society & Gwynedd Family History Society' (Gwernymynydd, 2000).

Ni cheir marwnad i Siôn Edward gan Morys Parry (m. 1683), sy'n awgrymu bod ei ddyddiau canu wedi dod i ben. Nid enwir Siôn Dafydd Las yn y farwnad gan Edward Morris, er bod cyfeiriad at feirdd eraill Gloddaith, ac efallai bod ei farwnad ef wedi ei chanu flynyddoedd ar ôl canu Edward Morris a Rhys Cadwaladr. Bu cryn drafodaeth am y bwlch rhwng dyddiad marw a pherfformio'r farwnad, fel y nodir yn erthygl Huw M Edwards, 'Dwyn Marwnadau Adref', *Llên Cymru*, 20 (2000), 21-38. Nid yw'n glir i ba raddau yr oedd y traddodiad yn parhau yng Ngloddaith erbyn cyfnod Tomas Mostyn ac efallai mai ymgais i adfywio'r arfer a geir yma.

Ceir copi anghyflawn o farwnad Edward Morris yn llawysgrif Peniarth 200, gyda difrod i'r papur erbyn llinell 44. Tybir bod y llawysgrif yn llaw Edward Morris, *c.* 1667-76, ond roedd Siôn Edward yn fyw yn 1678 pan ganodd farwnad i frawd Tomas Mostyn (Cerdd 15). Cofnodwyd y gerdd yn ei chyfanrwydd yn llawysgrif Mostyn 96, fel y ddwy farwnad arall i Siôn Edward, sy'n dyddio o *c.* 1686.

3 **Morpheus** Duw cwsg a breuddwydion ym mytholeg Groeg a Rhufain. *Britannica Concise Encyclopedia,* 1263.

7 **Titan** Lloeren fwyaf y blaned Sadwrn ac enw hefyd ar gymeriad ym mytholeg Groeg. *Britannica Concise Encyclopedia,* 1869-70.

8 **Aurora** Duwies y wawr ym mytholeg Rufeinig. *Britannica Concise Encyclopedia,* 129.

23 **cysgladur** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai amrywiad llafar ar *cysgiadur* neu *cysgadur* sydd yma; 'cysgwr' (GPC 813)

42 **Drwg gan hael a driga'n hir.** Ceir llinell debyg ond gyferbyniol yn 'Cywydd mawl i Mastr Conwy o Fotryddan' gan Siôn Tudur – 'Da fydd cael un hael yn hir'. Gweler Alan Llwyd (gol.), *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg* (Llandysul, 1988), 265.

48 **atolwyn** Ni cheir y gair yn GPC ond mae esboniad John Morris Jones yn nodi mai ebychiad yw *atolwyn*, yn tarddu o *atolwg*. Gweler John Morris Jones, *A Welsh Grammar, Historical and Comparative* (Rhydychen, 1913), 452.

53 **Bacchas** Ffurf o'r enw *Bacchus*. Duw gwinoedd a ffrwythlondeb mewn mytholeg Rufeinig. *Britannica Concise Encyclopedia,* 142, 538.

63 **Apolo** Ym mytholeg y Groegiaid, Duw'r haul, saethyddiaeth, cropiau a anifeiliaid; noddwr cerddorion, beirdd a dawns. Ibid, 87.

67, 71, 83 **Parry... Person Llanelian**. Un o feirdd Tomas Mostyn, sef Morys Parry (*fl.* 1661-83). Cyfeiriodd Siôn Dafydd Las at Morys Parry mewn marwnad yn 1684 fel un o'r

prydyddion gorau yn ei amser (Mostyn 96, 85). Roedd yn glerigwr – fel Person Llanelian y cyfeirir ato mewn llawer o'r llawysgrifau – ac yn rhannu diddordeb Tomas Mostyn mewn hen lawysgrifau. Roedd yn berchennog ar lawysgrif *History of the Gwydir Family,* llawysgrif a fenthycodd Tomas Mostyn ganddo yn 1674. Gweler nodiadau Cerdd 5.

68 **Syr Rhys** Rhys Cadwaladr (m. 1690); clerigwr a bardd a ganodd i dair cenhedlaeth o'r Mostyniaid. Roedd ganddo yntau ddiddordeb eang mewn llenyddiaeth, a chyfieithodd waith Horas a Seneca i'r Gymraeg. Gweler nodiadau Cerdd 3.

92 **gloywlys** Mae'n debyg mai *gloyw+llys* sydd yma, sef 'llys disglair' (GPC 1411).

99, 101-2 **I Fodysgellan ... Robert Wyn ... ap Huw** Drwy briodas Margaret, aeres Richard Mostyn gyda Huw Wyn, Berth Ddu, aeth Bodysgallen o feddiant y Mostyniaid oddeutu canol yr 16g. Gweler y Bywgraffiadur Arlein: Wynn (teulu), Berthddu a Bodysgallen, sir Gaernarfon.

105 **hoywlawn** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *hoyw+llawn* sydd yma; yn 'heini, sionc, siriol iawn' (GPC 1901).

126 **ddiamarch** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *di+amarch* sydd yma, 'yn rhydd o warth neu sarhad'.

136 **niwarthiad** Ni cheir *diwarthiad* yn GPC ond mae'n debyg mai *di+gwarthiad* sydd yma (GPC 1588).

137 **clodradd** Ni cheir y gair yn GPC ond fe ellid tybio mai *clod+gradd* sydd yma.

155 **diarwen** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai ffurf o *diarwain* sydd yma.

162 **gwiwrwym** Ni cheir y gair yn GPC ond mae'n debyg mai *gwiw+rhwym* sydd yma.

163 **teuluwr** 'Bardd teulu; bardd wedi ei hyfforddi yng nghelfyddyd cerdd dafod ac iddo safle rhwng clerwr a phrydydd yn nhair cainc draddodiadol cerdd dafod' (GPC 3491).

33

Ceir tair marwnad i Siôn Edward, ClochyddLlanelian, gan y gwŷr a ganai ar aelwyd Tomas Mostyn ond ni cheir ynddynt ddim o nodweddion arferol marwnadau'r uchelwr, fel cofnod o'r achau ac enwi'r wraig a'r plant. Gweler marwnad Edward Morris (Cerdd 32) a marwnad Siôn Dafydd Las (Cerdd 34). Hefyd, gweler George Owen Harry, 'Well-spring of True Nobility', dyfynnir gan E D Jones yn 'Presidential Address', *Archaeologia Cambrensis, 112*, (1963), 4-5. Nid yw'r cywyddau marwnadol ychwaith yn cynnwys dyddiad marwolaeth Siôn Edward. Gweler nodiadau Cerdd 32 am awgrym o ddyddiad ei farwolaeth. Ceir yr unig gofnod o gerdd Rhys Cadwaladr yn llawysgrif Mostyn 96, sy'n dyddio o *c.* 1686.

12 **crydeddig** Ni chofnodir y ffurf yn GPC 620. Ond mae'n debyg mai ansoddair *cordeddog* sydd yma yn seiliedig ar y ffurfiau *cyrdeddu*, a.y.b., sef amrywiadau ar *cyfrodeddu* (GPC 719).

40 **Tomas Mostyn** Ceir cyfeiriad ato yn y tair marwnad, a noda Edward Morris iddo dalu am angladd Siôn Edward (Cerdd 31).

43 Mae sillaf yn ormod yn y gynghanedd, ond cadwyd at eiriad y llawysgrif wrth olygu.

34

Dyma'r drydedd farwnad i Siôn Edward ac mae'n dilyn ffurf marwnad Edward Morris, sef sgwrs rhwng y prydydd (Siôn Dafydd Las) ac ateb Siôn Edward. Gan nad enwyd Siôn Dafydd Las ym marwnad Edward Morris, mae peth ansicrwydd ynghylch amser canu'r farwnad hon ac efallai ei bod rai blynyddoedd yn ddiweddarach na'r ddwy farwnad arall. Gweler Cerdd 32 a'i nodiadau, hefyd Cerdd 33.

Cofnodwyd y tair marwnad yn llawysgrif Mostyn 96, yn llawysgrifen Siôn Dafydd Las, ac wrth gopïo efallai i'r bardd ddefnyddio'r cyfle i gynnwys ei deyrnged ef i Siôn Edward.

41 **Mae ar y gŵr, glydwr gwlad** Cyfeiriad at Tomas Mostyn, Gloddaith fel un a fyddai'n darparu cysgod a chynhesrwydd i'r bardd.

72 **Eglwys y Rhos** Eglwys Llanrhos, ger Llandudno. Mae'r eglwys o fewn hanner milltir i Gloddaith.

87/88 **O Lanelian ... I Gonwy** Mae sawl cyfeiriad mewn cerddi eraill at Siôn Edward fel clochydd Eglwys Llanelian ond nid yw'n glir beth yw'r cysylltiad â Chonwy. Ceir cyfeiriad at Ann a drigai yn Llandudno mewn cywydd cynharach gan Rhys Cadwaladr i Siôn Edward, ond efallai fod y gerdd yn awgrymu bod ganddo wraig a dwy ferch yng Nghonwy pan fu farw.

90 **Creuddyn** Y penrhyn i'r gogledd a'r dwyrain o aber Afon Conwy, gyda'r enw yn tarddu o gwmwd canoloesol.

35

Yn ŵr gweddol ifanc, bu farw Tomas Mostyn ym Mehefin, 1692, yn 42 oed, gyda'i wraig, Bridget, yn marw rai dyddiau yn ddiweddarach. Prin yw'r wybodaeth am Bridget Mostyn, ond tybir ei bod oddeutu 36 oed yn marw. Claddwyd y ddau yr un dydd, yn yr un bedd, yn Eglwys Llanrhos, ger eu cartref yng Ngloddaith. Gweler Pennod 2. Erbyn 1692, roedd y mwyafrif o'r beirdd a ganai i Tomas Mostyn wedi marw – Morris Parry yn 1683 a Siôn Edward oddeutu'r un cyfnod, Edward Morris yn 1689 a Rhys Cadwaladr yn 1690 – a hyn sydd i gyfrif mae'n debyg mai Owen Gruffydd, Llanystumdwy, a ganodd farwnad i Tomas a Bridget Mostyn, yr unig gerdd ganddo i'r ddau. Gweler y nodiadau i Gerdd 6. Canodd Huw Morys gywydd marwnad i Tomas a Bridget hefyd, ac fel Owen Gruffydd dyma'r unig gerdd iddynt ganddo. Gweler Cerdd 36.

Ni fu ymgais i gofnodi'r ddwy farwnad gyda'i gilydd mewn un llawysgrif nac yn llawysgrif Mostyn 96. Ceir marwnad Owen Gruffydd mewn dwy lawysgrif, sef llawlyfr y bardd yn dyddio o ddiwedd yr 17g., Llawysgrif Cwrtmawr 467B, a llawysgrif o ddechrau'r 18g., Llawysgrif Peniarth 124, 190. Collwyd tudalennau ar ddechrau llawlyfr Owen Gruffydd, a

dim ond o linell 67 ymlaen y cofnodwyd y gerdd yn llawysgrifen y bardd. Yn yr 20g., ychwanegwyd llinellau 1-66 at ddechrau'r gyfrol, gyda nodyn yn egluro mai Peniarth 124 yw ffynhonnell y llinellau hyn, sef yr unig lawysgrif arall sy'n cynnwys y gerdd.

4 **chwesir** Môn, Caernarfon, Meirionnydd, Dinbych, Fflint, Caer; yn ogystal â dal tiroedd ar draws gogledd Cymru a thros y ffin yn Sir Gaer, roedd aelodau o deulu Mostyn wedi priodi â theuluoedd bonedd yn y siroedd hyn. Gweler Peter Townsend (gol.), *Burke's Peerage and Baronetage, 105th Edition* (Llundain, 1980), 1896.

35 a 36 **Hil Tudur Trefor** Gellir olrhain yr achau yn ôl drwy linach Ieuan ab Adda at Tudur Trefor, Iarll Henffordd ac Arglwydd y ddwy Faelor, Croesoswallt a'r Drewen (NLW 11087). Daw'r cyfeiriadau at waed brenhinol o'i gysylltiad â Hywel Dda, ei dad yng nghyfraith. Gweler BA: TREVOR (Teulu) Brynkynallt, sir Ddinbych.

38 **meistri Môn** Yn ogystal â'r cysylltiad teuluol â Baron Hill, ger Biwmares, drwy ei fam, Mary Bulkeley, roedd ystadau Trecastell, ger Penmon, a Thregarnedd, ger Llangefni, wedi dod i law'r Mostyniaid drwy briodasau yn y 14g. a'r 15g., Angharad gydag Ieuan ab Adda, a Margaret gyda Hywel ap Ieuan Fychan. Gweler A D Carr, 'The Making of the Mostyns: The Genesis of a Landed Family', 139, a'r Rhagymadrodd uchod.

42 **enwog rieni** Cyrnol Syr Rosier Mostyn (m. 1690) a'i ail wraig, Mary Bulkeley, Baron Hill, Sir Fôn.

54 **Groegwyr** Yn ogystal â derbyn addysg brifysgol yn Christ Church, Rhydychen, mae gwybodaeth a diddordeb Tomas Mostyn yn y Clasuron ac mewn llawysgrifau Cymraeg yn cael ei amlygu yn ei lythyrau wrth drafod ychwanegiadau at ei gasgliad sylweddol. Gweler HFMM, 155; hefyd llythyrau'r teulu yn Bangor (Mostyn) 9066-9076 a'r Rhagymadrodd uchod.

78 **pywer** Ni cheir y ffurf yn GPC ond mae'n debyg mai amrywiad ar *pŵer* sydd yma; 'grym; awdurdod' (GPC 3319/20).

79 **Savage** Roedd Bridget yn ferch ac aeres i Darcy Savage, Leighton, Sir Gaer. Gweler y Rhagymadrodd uchod.

82 **Rivers** Cyfeiriad at hen nain Bridget Mostyn, sef Elizabeth Darcy, Iarlles Rivers. Priododd hi â Thomas Savage yn 1602 ac roedd gan y ddau swyddi aruchel yn llys y Frenhines Henrietta Maria, yn rhannol oherwydd eu cefndir Pabyddol cryf. Yn ddiweddarach, yn ystod ei gweddwdod, cafodd Elizabeth Darcy ei herlid yn chwyrn yn ystod y Rhyfel Cartref a dinistriwyd ei chartrefi yn St Osyth a Melford. Er i'w hystad gael ei dychwelyd iddi dan orchymyn y Senedd, bu farw yn fethdalwr oherwydd cost y difrod a'r dirwyon arni hi a'i mab. Gweler *ODNB*: Savage [née Darcy], Elizabeth, *suo jure* Countess Rivers (1581–1651). Mae'n amlwg fod y beirdd yn ymwybodol o gefndir Pabyddol Bridget Mostyn ac mae'n ddiddorol na wnaeth yr un o'r gwŷr eglwysig gyfeirio at hyn wrth ganu iddi. Gweler ymhellach y Rhagymadrodd uchod.

85 **Eglwys Rhos** Eglwys Sant Ilar (Hilary), yn Llanrhos, Llandudno. Mae rhan o'r fynwent newydd wedi ei neilltuo ar gyfer y teulu ond mae'n debyg i Tomas a Bridget Mostyn gael eu claddu yng nghorff yr eglwys.

89 **Syr Roger** Mab hynaf Tomas a Bridget Mostyn a'r aer (m. 1734). Gweler y Rhagymadrodd uchod.

93 a 94 **Thomas a Siôn ... a Savage** Yn ogystal â Roger, dim ond dau fab arall, Thomas a Siôn (John), sy'n cael sylw mewn cofnodion achyddol, ond yn ôl y gerdd roedd Savage hefyd yn fyw pan fu farw'r rhieni. Gweler Peter Townsend (gol.), *Burke's Peerage and Baronetage, 105th Edition*, 1896.

99 **un brawd** Cyfeiriad at frawd Tomas Mostyn, sef Richard Mostyn, Penbedw. Priododd â Charlotte Theophila Digby, aeres o Gothurst, Buckingham a ganwyd dwy ferch iddynt. Gweler Peter Townsend (gol.), *Burke's Peerage and Baronetage, 105th Edition*, 1896.

103 **ddwy chwaer** Jane Trefor a Margaret Mostyn. Gwraig gyntaf Syr Rosier Mostyn (m. 1690), Prudence Lumley, oedd mam Jane, tra mai Mary Bulkeley, yr ail wraig, oedd mam Margaret, yn ogystal â Tomas a Richard.

119 **freisgwedd** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *braisg+gwedd* sydd yma, sef 'cadarn ei wedd'.

120 **rychori** Ni cheir y ffurf *rhychori* yn GPC ond gellid tybio mai berf ydyw sy'n cyfeirio at ych neu geffyl yn cerdded y rhych wrth aredig, ac yn ysgwyddo mwy o bwysau'r iau o ganlyniad (GPC 3125). Gweler hefyd drafodaeth F. Payne ar y defnydd o eiriau amaethyddol yng ngwaith y beirdd, 'Cwysau o Foliant Cyson', *Y Llenor,* XXVI, (1947), 3-24.

123 **rhychor bôn** Yr ych neu geffyl a gerddai'r rhych oedd y *rhychor* (gweler 120n uchod). Defnyddiwyd yr un gyffelybiaeth gan Siôn Tudur ym marwnad Wiliam Mostyn. Gweler Enid Roberts, *Gwaith Siôn Tudur,* 93.

145 **ei feirdd** Cyfeiriad at Syr Rhys Cadwaladr, Edward Morris, Siôn Dafydd Las, Morys Parry a Siôn Edward. Ni ellir cynnwys Owen Gruffydd ar y rhestr gan na chanodd i Tomas Mostyn tra oedd yn fyw. Er i'r bardd o Lanystumdwy ganu marwnad i Syr Rosier Mostyn (m. 1690), mae lle i amau erbyn hyn mai wedi marwolaeth Tomas a Bridget y canodd y farwnad honno. Er mai marwnad Huw Morys yw'r unig gerdd o'i waith i Tomas Mostyn sydd wedi goroesi, efallai iddo ganu yn flaenorol ar aelwyd Gloddaith.

146 **bywer** Ni cheir y ffurf yn GPC ond mae'n debyg mai amrywiad ar *pŵer* sydd yma, wedi ei dreiglo; 'grym; awdurdod' (GPC 3319/20).

155 **Cornelius** Canwriad Rhufeinig a addolai Dduw, fel gweddill ei deulu, ac a oedd yn nodedig am weddïo'n gyson ac am rannu elusen. Llyfr yr Actau 10, 1-33.

157 **Daniel** Proffwyd o'r Hen Destament a gafodd ei ddyrchafu yn llys y brenin Nebuchadnesar am ei ddoethineb wrth ddehongli gweledigaethau. Daniel 2, 1-49.

174 **oernych** Ni cheir y gair yn GPC ond diam mai *oer+nych* sydd yma.

36

Yr unig enghraifft o gerdd gan Huw Morys i Tomas Mostyn a'i wraig yw'r farwnad hon iddynt, cywydd a geir yn llawlyfr y bardd o ddiwedd yr 17g. Gweler Cwrtmawr 224. Ni ellir bod yn sicr o ddyddiad canu'r gerdd ond efallai i hyn ddigwydd ar achlysur pan oedd Owen Gruffydd, Llanystumdwy, hefyd yn bresennol gyda'i farwnad. Gweler Cerdd 35. Er yr ystyrir Huw Morys ymysg y beirdd mwyaf cynhyrchiol yn y Gymraeg, nid oes cofnod iddo gael ei noddi gan Tomas Mostyn. Bu mwy o gopïo ar farwnad Huw Morys yn y llawysgrifau o gymharu â marwnad Owen Gruffydd. Ynghyd â'r copi yn llawlyfr Huw Morys, ceir pum copi arall o'r farwnad, dau mewn llawysgrifau o chwarter cyntaf y 18g. – Cwrtmawr 5 a Llansteffan 166 – a thaflen rydd ymysg papurau'r teulu, bellach yn Archifdy Sir y Fflint (D/M/7155). Daw'r ddau gopi diweddarach o lawysgrifau o ddechrau'r 19g. – NLW 311E a NLW 1237B.

Tybir mai yn Llangollen y ganed Huw Morys yn 1622 ond i'r teulu symud i Bontymeibion, Llansilin, ger Glyn Ceiriog, oddeutu 1647. Derbyniodd addysg mae'n debyg yn Ysgol Ramadeg Rhuthun neu Ysgol Rad Croesoswallt cyn cael ei brentisio fel crwynwr yng nghyffiniau Croesoswallt. Ond adre i ffermio gyda'i dad, yna ei frawd, John, y daeth Huw Morys, galwedigaeth a ganiatâi iddo ymweld â'i noddwyr gan gynnwys teulu Myddelton yng Nghastell y Waen, William Williams, Glascoed, Llansilin, a William Owen, Brogyntyn. Mae ei waith sylweddol yn amrywiol o ran themâu ac arddull, gyda cherddi traddodiadol a'r canu caeth newydd yn cael eu mabwysiadu i ganu i gylch eang o'r gymdeithas. Fel warden ar Eglwys Llansilin, gwelodd ei ddinistr bwriadol dan law'r Seneddwyr, a defnyddiodd Huw Morys ei farddoniaeth i sylwebu ar hyn a digwyddiadau hanesyddol y cyfnod. Yn ogystal â thros bum cant o gerddi, ysgrifennodd y bardd ddwy anterliwt, 'Y Rhyfel Cartref' ac 'Y Mab Afradlon'. Cyhoeddwyd rhai o gerddi Huw Morys gan Gwallter Mechain, Walter Davies (gol.), *Eos Ceiriog, sef Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morys; yn ddau lyfr, o gynulliad a diwygiad W.D.* (Wrecsam, 1823), hefyd O M Edwards (gol.), *Gwaith Huw Morys*,1, Cyfres y fîl, 5 (1902). Bu farw Huw Morys yn Awst 1709 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Llansilin. Roedd Owen Gruffydd, Llanystumdwy, yn un o'r beirdd a ganodd farwnad iddo. Gweler Maldwyn, Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau am fanylion ynghlych ei gerddi lluosog: http://maldwyn.llgc.org.uk/chwilio.php. Hefyd *ODNB*: Morys, Huw, ac BA, Morys, Huw ('Eos Ceiriog', 1622-1709).

15 **ar Ŵyl Ifan** 24 Mehefin. Mewn ymdrech i amharu ar ddylanwad paganaidd dathliadau Troad y Rhod, sef diwrnod hiraf y flwyddyn, 21 Mehefin, dyrchafwyd dathliad pen-blwydd Ioan Fedyddiwr yn ŵyl Gristnogol gan yr eglwys. Gweler Twm Elias, *Tro drwy'r Tymhorau*: *Almanac o Wyliau a Dathliadau'r Flwyddyn*, 76.

54 **brenhinradd** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *brenin+gradd* sydd yma.

59 a 60 **Aer o Dudur ... Trefor** Gellir olrhain yr achau yn ôl drwy linach Ieuan ab Adda at Tudur Trefor, Iarll Henffordd ac Arglwydd y ddwy Faelor, Croesoswallt a'r Drewen (NLW 11087). Gweler y Rhagymadrodd, Pennod 1.

95 **Sal'mon** Salomon. Sillafiad yr Esgob William Morgan yn *Y Beibl Cysegr Lan* o Solomon. Gweler William Morgan, *Y Beibl Cysegr Lan* (Llundain, 1588), 259.

105 **gar'foel** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *garw+moel* sydd yma.

115 ac 116 **Mab a thad am obaith hir /a ddewisodd y ddwysir** Bu Tomas Mostyn a'i dad, y Cyrnol Syr Rosier Mostyn (m. 1690), yn ddeiliaid sawl swydd gyhoeddus yn Sir Gaernarfon a Sir y Fflint. Gweler y Rhagymadrodd, Pennod 2, am fwy o fanylion am eu swyddi cyhoeddus.

117 **ddewrgar** Ni cheir y gair yn GPC ond gellid tybio mai *dewr+gar* sydd yma.

117 **ddurgorff** Cyfeiriad at wisg filwrol Syr Rosier yn ystod y Rhyfel Cartref.

124 **henaint** Roedd Syr Rosier yn 66 oed yn marw, fel y cofnodwyd ar ei dystysgrif angladdol. Gweler HFMM, 150.

125 **Gaerlleon** Enw arall ar ddinas Caer. Gweler gwefan Mapping Medieval Chester: http://www.medievalchester.ac.uk/context/faulkner.html, (cyrchwyd 29 Mawrth 2012).

126 **o Gaer i Fon** Ymledai ystad Tomas Mostyn o sir Gaer ac ar draws gogledd Cymru.

141 **dwy a deugen** Cofnod o oedran Tomas Mostyn yn marw.

145 a 146 **dau wythgant ... wyth ddeg a deuddeg** 1692, y flwyddyn y bu Tomas a Bridget Mostyn farw.

158 **trwy deirsir** Fflint, Caernarfon a Môn, y siroedd lle'r oedd ystad Tomas Mostyn.

166 **Biston** Beeston, tref yn Sir Gaer, gogledd-orllewin Lloegr. Gellir olrhain llinach Bridget yn yr ardal hon yn ôl i 1271 pan fabwysiadwyd yr enw fel enw'r teulu. Daeth yr ystad, ynghyd ag arglwyddiaethau cyfagos Peckfreton, Leighton a Thornton, i feddiant Bridget fel etifeddes ei thad, Darcy Savage.

173 **Pedwar o impiau** Y plant a oroesodd eu rhieni, sef Roger, Thomas, Siôn a Savage.

185 **Siôn raddol** Wedi ei addysg yn Ysgol Westminster, aeth Siôn ymlaen i Goleg Iesu, Rhydychen, a graddio yn Feistr yn y Celfyddydau (M.A.). Gweler E. Kimber a R Johnson, *The Baronetage of England,* II (Llundain, 1771), 84.

37

Er bod Tomas Mostyn wedi etifeddu ystad y teulu yn 1690, gan gynnwys Plas Mostyn, prif gartref y teulu, fel aer Gloddaith y mae'n parhau i gael ei gydnabod yn y farwnad gan Siôn Dafydd Las, sef cyfeiriad at y cyfnod pan fu'r bardd ar yr aelwyd yno. Roedd cysylltiad Siôn Dafydd Las â Gloddaith wedi dod i ben *c* 1687, sy'n egluro pam na cheir yr englyn yn y gyfrol a luniodd Siôn Dafydd Las tra bu yno, sef llawysgrif Mostyn 96. Ychwanegwyd yr englyn at lawysgrif o ddiwedd yr 17g., NLW 431F, 77, a hwn yw'r unig gopi.

38

Canwyd y gerdd i Roger Mostyn (1673-1739), mab hynaf Tomas Mostyn (m. 1692), gan Rhys Cadwaladr pan oedd Roger yn blentyn neu lanc ifanc. Ceir y cywydd, ynghyd â cherdd arall i Roger gan y bardd (Cerdd 39), gyda'r cerddi a ganwyd i'w daid, Rosier

Mostyn (m. 1690), sy'n awgrymu i'r bardd gyfarch yr ŵyr pan oedd ar ymweliad â phlas Mostyn. Gweler Cerddi 1-4. Ni ellir dyddio'r gerdd yn bendant ond os yw'r gerdd yn gyfoes ag englynion Rhys Cadwaladr i blas Mostyn yn 1679 (Cerdd 3), byddai Roger yn chwech oed pan gafodd ei gyfarch ar gân. Ceir copïau o'r gerdd hon a'r ail gerdd iddo gan Rhys Cadwaladr (Cerdd 39) yn llawysgrifau NLW 11087B a Bangor (Mostyn 9) a gwelir bod y cywydd yn blaenori'r englynion yn y llawysgrif gyntaf, ond yn eu dilyn yn yr ail lawysgrif. Anodd, felly, yw canfod pa un yw'r gerdd gynharaf, oni bai bod y ddwy wedi eu cyfansoddi yr un pryd. Ni chofnodwyd y cerddi hyn i'r hen ŵr a'r plentyn yn Mostyn 96 (NLW 3027E; Bangor (Mostyn) 9081) pan luniodd Siôn Dafydd Las y gyfrol i Tomas Mostyn, sy'n awgrymu mai cerddi plas Mostyn ydynt yn hytrach na Gloddaith, fel gweddill y casgliad.

Mae rhan gyntaf llawysgrif NLW 11087B o'r 16g. ac yn cynnwys ychwanegiadau diweddarch, a Bangor (Mostyn 9) yn dyddio o ddiwedd yr 17g., a hefyd yn cynnwys ychwanegiadau diweddarach. Ceir sawl llawysgrifen yn y ddwy lawysgrif, ond, ac eithrio un gerdd – Cerdd 39 (Bangor (Mostyn) 9) – mae'r cerddi i Rosier a Roger yn yr un llawysgrifen yn y ddwy gyfrol.

7 **Llwyth Trefor** Gellir olrhain achau'r Mostyniaid yn ôl at linach Tudur Trefor. Ceir cofnod o hyn yn NLW 11087, 128, lle'r olrheinir ach Cyrnol Syr Rosier Mostyn dros dair cenhedlaeth ar hugain yn ôl hyd at Tudur Trefor.

8 **Savage** Cyfeiriad at linach Bridget Savage, sef mam Roger Mostyn.

14 **taid** Fe ellid tybio mai cyfeiriad at y Cyrnol Syr Rosier Mostyn sydd yma, gŵr a fu'n arweinydd milwrol yn lleol yn ystod y Rhyfel Cartref. Gweler y Rhagymadrodd.

20 **Ifor Hael** Ifor ap Llywelyn (*fl. c*. 1320 - 1360/1380) o Fasaleg, sir Fynwy, a gafodd ei gyfarch fel Ifor Hael gan Ddafydd ap Gwilym yn ei gywyddau i glodfori ei letygarwch a'i nawdd. Gweler D. Johnston *et al.* (goln), *Cerddi Dafydd ap Gwilym*, (Caerdydd, 2010), 605.

21 **Nestor** Cymeriad ym mytholeg Groeg. Yn *Iliad* Homer, mae'n cael ei bortreadu fel hen wladweinydd uchel ei barch, ac yn gryf a dewr mewn brwydr er gwaethaf ei oedran. Gweler

S Hornblower ac A Springford (goln), *The Oxford Classical Dictionary* (Efrog Newydd, 1996), 1039.

39

Nid yw'n hysbys ar ba achlysur y canodd Rhys Cadwaladr yr englynion i Roger Mostyn (m. 1734), ond fel Cerdd 38, fe geir copi ohoni gyda'r cywydd i blas Mostyn yn 1679, cartref ei daid, Syr Rosier Mostyn (m. 1690). Os canwyd yr englynion oddeutu'r un cyfnod, byddai Roger felly yn chwech oed ac yn debygol o fod wedi dioddef cyfnod o waeledd. Gweler Pennod 2. Cofnodwyd y gerdd yn llawysgrifau NLW 11087B a Bangor (Mostyn 9), lle ceir cerdd arall i Roger gan Rhys Cadwaladr a cherddi hefyd i'w daid, Rosier Mostyn (m. 1690). Yn ddiddorol, mae'r copi o'r englynion i Roger mewn llawysgrifen wahanol yn llawysgrif Bangor (Mostyn) 9 i'r gerdd ddilynol i Roger (Cerdd 38) a'r cerddi i'w daid (Cerddi 1-4). Gweler nodiadau Cerdd 38.

Geirfa:

Ceir mwy nag un ystyr i rai geiriau, nodwedd fanteisir arno o dro i dro gan y beirdd, a chynhwyswyd yr amrywiadau wrth lunio'r eirfa. Oni nodir yn wahanol, Geiriadur Prifysgol Cymru (GPC)yw ffynhonnell yr eirfa.

a'rlais awrlais; cloc, oriawr 32.12

absen drygair neu anghlod a fwrir ar ddyn yn ei gefn 32.157

achles nodded, amddiffyn, ymgeledd 21.9, 22.44

achreth cryndod, twymyn 36.139

achwynwr cwynwr, grwgnachwr 32.158

adail lle ag adeiladau arno, tŷ annedd a'i amgylchoedd; adeiladwaith yn enw. ar lun tŷ neu blas 4.18, 9.20, 9.21, 13.91, 31.50, 36.173

addwyn da, rhinweddol; hawddgar, tirion; hardd, lluniaidd 21.10

adfyd gofid, trallod 3.35

adolwg ffurf o *atolwg*, yn rhodd, yn wir, erfyniaf, erfyniwn 9.2, 18.1

adwyth [1]clefyd, anhwyldeb 30.46

adwyth [2]dinistr, angau; drwg, aflwydd, anffawd 36.7

aerod lluosog *aer*; etifedd/etifeddion 14.8

aeron ffrwythau, grawn 6.25, 6.61, 6.117

afiaith hwyl, sbri, llawenydd 8.21,12.27, 36.79

afieth ffurf lafar o *afiaith*; hwyl, sbri, llawenydd 22.19

aflawen creulon, milain; digalon, trist; anniben, anghynnes 36.105

agwedd ymarweddiad, cyflwr neu osgo meddwl; modd, gwedd, ffurf 26.66

agwrdd cadarn, cryf, dewr 20.24

ais bron, mynwes, calon 8.9, 21.15

alaeth tristwch, cwynfan, galar, gofid 6.6, 6.31

alarch yn aml yn *ffig*. 35.90

aliwns lluosog *aliwn*; estron, 'alien' 36.114

amarch dianrhydedd, gwarth, anfri, sarhad 22.97, 24.10

amgeisiaf chwilio am ei gilydd 4.19

amlhau cynyddu, lluosogi 8.25

amnaid[1] o'r ferf *amneidio*, gwneuthur llygad bach, 'wink' 36.121

amnaid[2] arwydd, syniad; ewyllys, gorchymyn 9.6

amod cytundeb, cyfamod 36.43

amorth rhwystr, anffawd 11.45

amrosgo mawr, anferth, helaeth; trwsgl trwstan, lletchwith 17.24

anap anhap; anffawd, aflwydd, niwed 22.6

anawdd anodd; caled 32.31

andwyawdd ffurf 3 unigol gorffennol *andwyo*, difetha, colledu 34.23

anfad anffodus; drygionus; ofnadwy 3.35

anfoddol anfodlon, amharod; anfuddiol, anghymwys, anfoddog 9.3

ang'l angel 10.10

anghenog crwydriad, tlawd 13.6

anghynnes oer, digysur 13.6

anian natur, tymer, ansawdd, cyfansoddiad 16.7, 17.14

annedwyddwch anhapusrwydd, anfodlonrwydd; anffawd, aflwydd 31.19

annhalgrwn anghryno, gwasgaredig, ansicr 22.69

anniwarth diwarth, anrhydeddus. 30.3

annoeth ffôl, disynnwyr 22.1

anwr dihiryn, llyfrgi 34.50

anwych gwael, truan, gwan, llesg 22.135

anwylwedd cariad, serch, hoffter, hawddgarwch 11.12

apla gradd eithaf *abl* 3.1

arael hyfryd, tirion, mwyn 6.100, 11.44, 32.49

arail gwarcheidiol, gwyliadwrus, gofalus 36.183

ardreth teyrnged, treth, toll 22.18

arglwyddwaed gwaed bonheddig, uchel ach 22.101

arloes lle gwag, gofod 26.24

aruthr ofnadwy, arswydus; didostur, creulon 16.30

arwyl angladd, cynhebrwng, claddedigaeth, defodau angladdol 6.123

ateg cynhalieth, cefnogaeth 20.13

athrod enllib, anair, cabledd 32.159

awenyddiawl *awenyddol* , barddonol, dawnus, medrus 34.110

bagad torf, llu, nifer, mintai, llawer 22.90

bai 3 un. amherffaith dibynnol y ferf *wyf:bod* 22.1

bâr chwant, trachwant, gwanc, rhaib 13.146, 16.30, 16.44

barcutan barcud bychan 22.47

barilo gosod mewn baril(au) 16.44

bar'net ffurf lafar o *barwnet*, barwnig 20.17

baronet barwnig 13.8

bath math, llun, ffurf 7.84

berw cynnwrf, cyffro; cyffro neu ysbrydoliaeth farddonol, gwaith bardd 22.7

bid bydded, boed 36.188

bir cwrw 3.16, 16.teitl, 21.35, 35.141

biroedd lluosog *bir*; cwrw 3.19, 7.100, 8.45

blaenawr ffurf o *blaenor*; arweinydd, pennaeth; rhagflaenydd 36.56

blaenor pennaeth, arweinydd; rhagflaenydd, hynafiad 38.7

blagur blaendwf, egin, impiau, yn aml yn *ffig.* 36.176

blys chwant cryf, trachwant; archwaeth at fwyd 16.16

bo'ch byddoch, o'r ferf *bod* 38.13

bôn gwaelod, rhan isaf o foncyff coeden, gwraidd 31.44

boniwr yr ych olaf mewn gwedd, yn *ffig.* am un sy'n dal cyfrifoldeb 35.121

bordiau bordau, byrddau 26.32

braint hawl neu urddas, anrhydded 6.44

braisg bras, helaeth 9.26

brasgeirch ceirch bras 12.51

brau hael, rhwydd; gwych, coeth, cain, 8.42, 16.15, 34.79

breiniawl breiniol 6.62

breininant braint, urddas 32.40

breiniol bonheddig, urddasol, brenhinol 6.110, 7.77

breinlle safle neu swydd freiniol neu urddasol 7.10

breisgion ffurf l. *braisg*; bras, helaeth; grymus, gwych 21.75

brenhinwaed gwaedoliaeth a thras frenhinol 6.53

breudeg ffraeth, rhugl, parod 29.94

breugall doeth a bonheddig, coeth, llednais 16.53

breulon hynaws, caredig, hawddgar 35.93

bri anrhydedd, teilyngdod, parch 35.119

brig top (ar goeden), blaen tywys ŷd, yn *ffig* am hiliogaeth 6.104, 12.44, 30.37

brigog canghennog, ceinciog, yn *ffig.* llewyrchus, llwyddiannus 6.160

brigyn yn *ffig* am etifedd, disgynnydd 6.44

brithliw amliwiog, amryliw, cymysgliw, ysmotiog 25.31

briw dolur, anaf, niwed, clwyf; wedi torri'n ddarnau, candryll; clwyfedig, dolurus 6.55

bronlle bron (llethr bryn) + lle, man ar ochr bryn 13.136

bru croth gwraig; yn *ffig* am darddiad, ffynhonnell 17.55

Brutainiaith Brytaniaith; Cymraeg 22.28, 22.106

Brytwn Brython, Cymro, Prydeiniwr 16.15, 22.69

buchedd ymarweddiad, ymddygiad 25.32

bun merch, cariadferch, rhiain, gwraig 12.29

bwriant ffurf o *bwrw*; meddwl, tybio, ystyried 6.151

bwth cwt, twlc, caban, llety, lluest 20.48

bytheiad ci hela, helgi, yn enwedig at hela llwynog 13.123

bytheied ffurf lafar o *bytheiaid*, lluosog *bytheiaid* 7.84

c'fndew *cefn+tew* 13.120

cadeiriog canghennog, brigog, yn ymestyn ac yn ymledu 17.56

caead mur, clawdd; wedi ei amgáu 36.43

cafell cysegr, cangell, cell, siambr 2.1

caffom ffurf 1 lluosog dibynnol *caffael*, *cael* 11.18

caid ffurf amhersonol dibynnol y ferf *cael* 24.3

calennig anrheg a roddir ar ddydd Calan neu ar y Nadolig, rhodd, gwobr 16.17

camraint, camfraint amraint, coll neu dor braint, difreiniad; amarch, gwarth, dirmyg 6.91

camrig yn *ffig* am rywbeth purwyn 36.160

cannaid gwyn, disglair, gloyw, pur, glân, golau, gwych 6.46, 17.56

cannwr cant o wŷr neu o filwyr 26.68

cantor canwr, cerddor 35.151

câr perthynas trwy waed, cefnder, yn aml yn *ffig*. 22.119, 36.155

cardod elusen, rhodd er diwallu angen; trugaredd, cariad, ewyllys da 8.19

careugar cariadus, hawddgar, caruaidd 35.54

cas atgasrwydd, llid 30.36

cau [1]yn cau neu'n amgáu 35.176

cau [2]gwag oddi mewn, â gwacter neu lle gwag 26.9

cau [3]heb graidd neu sylwedd mewnol: yn *ffig* ffals, twyllodrus 6.143

ced ffafr, bendith, lles, cymorth, cymwynas; yn *ffig* yn aml am un haelionus 6.110, 21.67, 35.28, 36.45, 36.155

cedrwydd pren cedr, coed bytholwyrdd yn enwedig y math a dyfai ar lechweddau Libanus 36.177

ceinach ysgyfarnog 13.132

celaf 1 unigol presennol *celu;* cuddio, cadw'n ddirgel 22.37

cell lle bychan caeëdig, encilfa, yn aml yn *ffig.* 22.27, 26.22

cenel cwt i gi, tŷ lle y cedwir cŵn hela 12.53

cenau anifail ifanc o arth, blaidd cath, ci, llew, a.y.b.; yma ci ifanc 13.122

ceraint lluosog *câr*; perthynas trwy waed, cefnder, cyfaill, ffrind, yn aml yn *ffig* 13.11, 22.123

ceres ffurf lafar o *cerais,* 1 unigol gorffennol *caru* 37.1

certh aruthr, rhyfeddol, ofnadwy 26.9

cerwyn llestr mawr at ddal cwrw neu ryw ddiod arall pan fo'n eplesu, twb,casgen, baril 26.7

cerydd cosb, dwrdiad, disgyblaeth am fai; bai, pechod, cam, euogrwydd 6.68

cestog boliog, tew, crwn, weithiau'n *ffig*. 26.7

ceudod ceuedd mewnol y corf, bol, cylla, crombil, gwasg; gwagle mewnol, twll 16.35

ceulan min afon, torlan, ymyl, dibyn, weithiau'n *ffig.* 26.23

ceyrydd lluosog *caer* 23.6, 26.31

chwannog awchus; trachwantus (am gyfoeth, &c), blysig; uchelgeisiol 32.158

chwechyn chwe cheiniog 16.64

chwioredd chwiorydd; lluosog *chwaer*; yn *ffig.* cymhares, partneres 25.21

cilwg gwg, golwg gas; casineb, drwgewyllys 20.59, 33.21

claear tirion, tyner, mwyn; teg, braf 21.38

clau [1]cyflym, chwim, parod, rhwydd 7.5, 20.55

clau [2]cywir, diffuant, didwyll 12.17, 22.104, 32.137

cled clyd, cysgodol, sych, cynnes, cysurus, cyfforddus, cefnog 9.23

c'ledi caledi; cyni, cyfyngder; gerwinder, creulondeb 31.22

clera mynd ar gylch i ganu mawl am lety a rhoddion bob tair blynedd yn ôl arfer y beirdd a'r cerddorion gynt; cardota fel clerwr 21.62

clerddyn bardd; clerigwr 13.111

clodfaith hir ei glod, clodfawr, enwog 22.125, 32.37

cloffi anafu, niweidio, analluogi, llesteirio; yn *ffig* bod yn ansefydlog 6.147

clog yn *ffig,* gorchudd, cysgod 36.182

closet myfyrgell, ystafell breifat 2.teitl

clud gweler nodiadau'r gerdd 7.63n

clydwr cysgod, cynhesrwydd, cysur, diogelwch, amddiffyn 23.7, 32.134, 34.41, 36.112

clymwr un sy'n rhwymo rhywbeth, weithiau'n *ffig.* am fardd 16.35

clywes ffurf lafar o *clywais* 21.38

cnafiaid lluosog *cnaf*; dihiryn, dyn diffaith, rog, taeog 6.74

cnoc ergyd, trawiad, curiad 6.67

cnofa brathiad, cnoad, gwayw arteithiol (yn enw. yn y coluddion a'r cylla); gofid meddwl gan euogrwydd cydwybod 6.74

cnydiog ffrwythlon, toreithiog, cynhyrchiol 31.45

coedd cyhoedd; yn perthyn i bawb; a wneir yn amlwg i bawb 13.93

coedfryn allt o goed, llechwedd coediog 6.54

coedlwyn llwyn o goed 34.2

coel cred boblogaidd hygoelus, cred yng ngwirionedd rhyw hanes; ymddiriedaeth, dibyniaeth, ffydd 16.17,

coelion lluosog *coel* 16.51

coetsman coestmon, 'coachman', gyrrwr coets neu gerbyd 13.83

coffais ffurf 1 unigol gorffennol *cofféau*; cofio, atgofio, cofnodi, crybwyll 20.34

cofus cofiadwy; meddylgar, pwyllog, doeth 23.24, 29.29

cog cogydd 8.44

cogor twrw, trwst, crawc, clwcian, trydar 12.64

colledwr un sy'n colli neu'n dwyn colled, collwr 22.24

colofn yn *ffig*, cynheiliad, cefnogydd 22.103

colwyn un ifanc o epil rhai anifeiliaid, e.e. arth ci; ci arffed, ci bychan, adargi 24.teitl, 25.teitl

cordia 3 unigol presennol *cordio*, barnu, penderfynu 21.28

cored argae i ddal pysgod, cawell pysgod 13.95

coredau lluosog *cored*; argae i ddal pysgod, cawell pysgod 13.94

corllan *cordd+llan*, ffurf wreiddiol *corlan*: lle wedi ei amgáu â chlwydi neu waliau cerrig ar gyfer cadw defaid,&c, i mewn ynddo. 4.3

corsen calaf, coesyn, pelydr planhigyn 30.40

costiwr treuliwr neu wariwr arian; darparwr 32.137

cotwm gwychder, rhagoriaeth ansawdd 21.13

creigie ffurf dafodieithol *creigiau* 9.18

crochon crochan, llestr at ferwi a choginio 13.144

crwst crawen, rhan allanol neu orchudd (am belen y ddaear) 17.32

crych chwyrn, cryf 13.144

crŷn y weithred neu'r proses o *grynu*, cryndod; hefyd yn *ffig* 36.151

cu annwyl, hoff, cariadus, hawddgar; gwerthfawr, cain 6.29, 6.37,16.2, 22.121, 35.111

cudd cuddfa, ymguddfa 9.27

cudeb anwylder, hoffter, serch, cariad 25.29

curiol gofidus, yn peri nychdod 35.127

cwlm ffurf o *cwlwm*; gweler y nodiadau gyda cherdd 7. 7.6

cwning cwningod 7.85

cwplâd cwblhad, y weithred o gwblhau, cyflawniad 22.144

cwrs rhan o bryd o fwyd 36.75

cwrs rhediad, hynt; rhodiad, ymarweddiad; ysbaid, cyfnod 6.16

cwrt llys, plasty, cartref uchelwr 20.8

cwrwf cwrw 32.49

cwyn achwyniad, datganiad o ofid; galar, gofid 6.150

cwyredd ffurf dafodieithol *cwyraidd*, mwyn, tyner 13.20

cy'd cywasgiad o *cyhyd*; o'r un hyd (â), mor hir â (am ofod ac amser) 12.26

cydnerth cryf a chytbwys, cadarngryf, cyfartal ei nerth 6.70

cydwedd priod; gŵr neu wraig; cymar 11.13

cydymwasg ymwasg, cyd-fyw 36.43

cyfa ffurf o *cyfan*, llawn, cyflawn; cadarn, cryf; teyrnged, ffyddlon 6.119

cyfathrach perthynas; ach, carennydd; ceraint 6.123

cyfedd cydyfed, gwledd, gwledda, gloddesta ynghyd 20.3, 32.62

cyff yn *ffig* a *thros*, tras, llinach, hynafiaid person 36.58

cyfiawn cywir, iawn, priodol, cymwys 22.134, 22.139

cyfion cyfiawn, uniawn tuag at bawb, teg 2.1, 35.22, 35.97, 36.178

cyfneseifiaid lluosog *cyfnesaf;* perthynas agos, câr 7.50

cyfraid darpariaeth neu gyflenwad digonol i ddiwallu angen; gwasanaeth; angenrheidiol, 32.167

cyfrodedd cyfrodeddig, cydblethedig, wedi ei nyddu ynghyd, cymhleth 8.teitl

cygod lluosog *cog* 13.88

cymryd ffurf o'r ferf *cymeraf* 26.53

cynfigen cenfigen; eiddigedd 32.155

cynnwr cynnwrf; cyffro, aflonyddwch 22.3

cynyddion lluosog *cynydd*; heliwr, helsmon, ceidwad cŵn hela 7.83

cyrch man neu nod i ymgyrraedd ato; ffurf o'r gair *cyrchu*; ymofyn, ceisio; yn *ffig*, cyfeirio at 22.135

cyrhaeddyd ffurf o *cyrraedd* 31.3

cyrrau lluosog *cwr*, cornel, congl; ymyl, ael, terfyn, ffin 13.135, 17.16

cystudd dioddefaint, cur, gofid; salwch, afiechyd 31.25

cystuddiol trallodus, helbulus, gofidus 31.6

cyweithas hynaws, moesgar 13.13

cywirwaed gwaed pur, gwehelyth diledryw; o'r iawn ryw 6.43

cywraint cywrain, doeth, call 6.43, 6.134

dadwrdd grwgnach, sôn ar led 25.33

daed gradd gyfartal *da* 30.20

dalio ffurf 3 unigol dibynnol o'r ferf *dal*; 8.65

danoch 'danoch, ffurf o *amdanoch* 20.66

dâr derwen; yn *ffig*, blaenor mewn brwydr, &c, arweinydd galluog, arglwydd cadarn 6.70

dasau lluosog *das; tas:* pentwr cymesur o wair, ŷd, grawn 7.71

dasel pentwr, mwdwl 7.72

dasied ffurf lafar o *dasiad*; y weithred o dasu 7.72

dawn yn *ffig*, un â gallu godidog (am bennaeth, arglwydd, &c) 36.3

dawnus hael; dedwydd; grasol, rhinweddol, aml ei fendithion; gwerthfawr 6.58, 21.33, 36.100

deddfawl ffurf o *deddfol*; unol â deddf, arfer, rheol 21.59

defeinydd difinydd, difeinydd; gŵr eglwysig, offeiriad 32.81

deilwair gwair deiliog, e.e. meillion 7.65

delwas person afrywiog 9.1

demaens ffurf lafar o *demesne*; demên, demenau; ystâd, ystadoedd 6.17

deri lluosog *dâr* 10.5

deuallt ffurf lafar o *deall*; dirnadaeth 35.48

deuellais ffurf lafar o *deellais/deallais*, 1af un. gorff. y ferf *deall* 22.35

deufwy cymaint arall, cymaint ddwywaith; yn ddyblyg 29.72

deulin y ddau lin 35.160

deutu o boptu, o ddeutu 12.1

'dewi ffurf 2 unigol *gadewi* 34.49

diabsen amharod i absennu, dieuog o absen neu athrod; dianair 32.157

diachwynwr *di+achwynwr* 32.158

diafles yn deillio o *diawl*, diafol, dieflig, cythreulig 16.37

di-air dileferydd, distaw 32.160

diamhuredd ffurf o diamur, diamhur; glân, difrycheulyd, pur 17.18, 33.5

dianael haelionus, rhwydd, caredig 38.19

dianair di-fai; clodfawr 36.38

diangol ffurf lafar o *dihangol*; diogel 7.37

dianwadalwch sefydlog, anghyfnewidiol 7.39

diathrod di+athrod 32.159

diau sicr, di-ddadl; diamheuol, gwir; pendant, plaen 8.20

dichlyn dewisol, dethol, gwych; cwrtais, gofalus, gochelgar 6.99

dichwannog *di+chwannog* 32.158

diddan dymunol, hyfryd; cysurlon, cysurol 17.6, 17.35

diddanawl ffurf o *diddanol*; cysurlon, cysurus, diddanus, yn rhoi cysur 21.41

diddig bodlon, rhadlon, tawel 13.29

di-drai heb drai; di-ball, di-baid 31.5

di-dwyll rhydd o dwyll a dichell, diffuant, gonest, cywir; trwyadl 17.29

diegrwydd pêr, ffres, newydd; hefyd yn *ffig*. 32.89

di-gêl digel; amlwg, cyhoedd, gwybyddus, enwog 31.23

digrif hyfryd, braf, pleserus, dymunol 26.39

digymell heb orfodaeth, gwrifoddol, ohono ei hun, naturiol 16.62

dilediaith pur (am iaith), croyw 36.134

dilio dulio; curo, taro 22.14, 34.62

dilys cywir, diffuant; cadarn, cymeradwy; gŵr dibynnol 8.61

dilyth di-feth, di-ffael; cryf, egnïol, bywiog 8.65

diniweid amrywiad ar *diniwed* 33.36

diobrwy *di+gobrwy* 22.54

dioed heb oedran 36.161

dioerllyd twym, cynnes 6.39

dirfawr mawr iawn, enfawr, difesur 22.55

diriaid drwg, diffaith, ofnadwy 4.9

di-rwd heb effaith rhwd 34.109

disal difai, gwych, campus 7.72

disom di-siom; heb siom; sicr, didwyll 32.103

di-syn heb synnu 34.75

diwad heb nacâd 26.67

diwael gwych, rhagorol, aruchel 13.126, 34.79, 32.119

diwair di-lwgr, pur, glân; ffyddlon, teyrngar, dibynnol 6.145, 30.9, 35.106, 35.122, 35.176

diwall cwbl, cyflawn; difai, diddiffyg; dyfal, diwyd 16.34

diweddiad diwedd (oes), terfyn; terfyniad 6.148

diweiniaith *di+gweniaith* 32.156

diwenwyn digenfigen 32.156

diwres heb wres, oer 36.14

doedyd dywedyd; llefaru, siarad, mynegi, datgan 31.12

doeth 3 unigol, gorff. y ferf *dod*, daeth 15.1

doniau haelioni, parodrwydd i roi 35.25

doniog hael, rhoddgar, rhydd; ffodus; buddiol, llesol, dawnus, talentog 6.113, 35.83

dowad ffurf lafar o *deuaf/dyfod* 12.75

drengyn gŵr sarrug, taeog 20.60

drin brwydr, gwrthdaro, helbul, trafferth, trallod, hefyd yn *ffig* 22.88

drygfyd *byd+drwg* 32.147

dug 3 un. gorff. y ferf *dygaf: dwyn* 36.141

dul ergyd â chwip, dyrnod 20.50

durgorff *dur+corff* 36.117

dŵad amrywiad ar *dyfod*; dod 8.28

dwndro ffurf o *dwndwr/dwndr*; sŵn, twrw 34.65

dwned [1]si, siarad, cleber, baldordd 6.49

dwned [2]llyfr gramadeg 7.107

dwned [3]myfyrdod 32.16

dwys [1]aml, helaeth 6.41

dwys [2]taer, angerddol, dyfal 22.122

dwysion lluosog *dwys* 7.71

dwysteg *dwys+teg* 16.29

dyddie ffurf lafar o *dyddiau* 31.58

dygas digas; atgas, ffiaidd 22.71

dygiad meithriniad 38.6

dygiad ymddygiad, ymarweddiad 35.110

dygwch ffurf o'r ferf *dygu*; olrhain achau 38.6

dyrras drwg, anfad, diffaith, ffiaidd 34.29

dywad amrywiad ar *dyfod, dod* 3.17

edn aderyn 29.1

edwyn 3 un. pres. myn y ferf *adwaen, adnabod* 11.17

efrydd anafus, methedig 36.93

eger ffurf lafar o *egr*; sur; diamynedd, chwyrn, ffyrnig, gwyllt, digywilydd, haerllug 22.50

egin yn *ffig*, disgynyddion, hiliogaeth 36.171

eginyn egin, blagur; yn *ffig*, disgynyddion 38.9

egor agored 32.132

egored agored 7.28

egwan gwan, eiddil, llesg, di-rym 22.2

eigion dyfnfor, cefnfor; canol, perfeddion (y daear), yn *ffig.* dyfnder (trugaredd, trueni, &c), gwreiddyn (mater, &c) 17.31, 21.42

eiriol ymbil, erfyniad, deisyfiad 32.124

eiriolwr un sy'n eiriol, plediwr, dadleuwr dros arall; erfyniwr 32.163

elor fframwaith o goed i gludo arch neu gorff marw at fedd 27.1

ennaint eli, iraid, olew; hefyd yn *ffig*. 39.5

enwir anwiredd 25.1

ergyd trawiad nerthol, clec; gorchest; yn *ffig.* nod, amcan, pwrpas 8.33n

erwyn llym, ffyrnig, enbyd, ofnadwy 13.108

eryr yn *ffig*, arwr, gwron, pennaeth; tywysog, blaenor, arweinydd 6.14, 36.17

esgoran' ffurf 3 un. lluosog o *esgor*; dianc rhag, osgoi 6.68

ethryd enllib, drygair maleisus 20.76

euro yn *ffig*, anrhydeddu, enwogi 36.188

fael lles, maintais, budd 32.120

fae'l gweler *mae'l*

ffei Ymaith! Och! Gwae fi! 36.110

ffest egnïol, dygn 13.44, 13.53

ffreind ffrynd, ffrind; cyfaill 13.21, 13.84

ffri rhad, am ddim, hael, hynaws, parod 13.21, 21.69, 26.63

ffrwythlawn ffrwythlon 21.27, 26.63

ffrydau lluosog *ffrwd*; afonig neu nant lifeiriol, ffrydlif; hefyd yn *ffig.* 20.4

ffull brys, prysurdeb, cyflymder; cyfeiliorn; ynfydrwydd 34.66

ffun ysbryd, bywyd, enaid 32.101

gado ffurf o'r ferf *gadael*; ymadael â 25.41, 36.33

’gaeau argaeau 13.93

garbron ger, gerbron 8.42

gard giard, gwarchodwr; gosgordd, gwarchodlu 13.75

garllaw gerllaw, ger llaw, yn ymyl, yn agos 26.39

garth penrhyn, ucheldir; gallt, coedwig, tir gwyllt 13.135

geirwon lluosog dwbl *garw* 31.53

gerwin garw 9.1, 26.37

gestyn gast; ci benywaidd 25.11

glain gem, maen gwerthfawr; perl; hefyd yn *ffig.* am berson, anwylyd, tlws, trysor 35.12, 36.19, 36.127

glanwaith wedi ei lunio’n gelfydd neu’n gywrain; glân 22.46

gleiniau lluosog *glain* 36.114

gleisiadau ffurf dafodieithol o *gleisiaid*, eogiaid neu samwn ifanc 13.96

glew dewr, eofn; ffyrnig, bywiog, egnïol 13.129

glin cymal canol y goes 30.38

gloes poen mawr, ing, gwewyr, artaith, dolur archoll 6.11, 21.26

gloesau lluosog *gloes* 14.1

gloywddoeth *gloyw+doeth*; disglair; *glan+dysgedig*, medrus 6.83

gloywlas o liw glas disglair neu glir 6.27

glwys hardd, glandeg, hyfryd; glân, pur, sanctaidd 6.41,11.2

glwyswedd *glwys+gwedd* 35.117

glyw cadarn, cryf, awdurdodol 36.182

gobrwy gwobr, tâl 22.54

godrwm go drwm neu ofidus; godrist, prudd 6.150

gogel gwarchod, amddiffyn, diogelu; gofalu, ymochel 30.38

gole ffurf lafar o g*olau* 31.56

goleuber eglur a phêr; disglair, yn disgleirio 35.92

goleuddawn gwych 21.50

goleuwedd pryd golau, goleuni, disgleirdeb; golau ei wedd, golau 11.13

goludd llestair, anhawster, rhwystr 16.36

golygwr gwarcheidwad, gofalwr 36.182

gorchest camp, rhagoriaeth; goruchafiaeth, llwyddiant; ymdrech 22.135

goreubert *gorau+pert* 22.120

goreugwr gŵr gorau neu flaenaf; pendefig, y bonedd uchaf 20.54

gormeswr un sy'n gormesu, gorthrymwr 22.17

goror cylch, bro; ffin, ymyl; glan môr, arfordir; ochr, llechwedd 6.14, 13.109, 26.3, 36.23

gorweddfa bedd 36.129

graddfawr *gradd+mawr* 8.50, 36.129

graddol urddasol, gwych; uchel ei radd (safle, bonedd), urddol, breiniol; hefyd yn raddedig (mewn prifysgol) 35.109, 36.185

grasol graslon, tirion, trugarog 38.5

gw'nion ffurf lafar o *gwynion*, sef lluosog *gwyn* 39.4

gwadd ffurf o'r gair *gwahodd* 22.136

gwaed yn *ffig*, tylwyth, cenedl, ach, tarddiad 22.102, 36.176

gwaedoliaeth teulu, hil, llinach, bonedd 21.18

gwaelion ffurf lluosog *gwael*; tlawd; truenus 21.66

gwahoddion lluosog *gwahodd*, gwahoddiad, galwad (i dderbyn rhyw fudd, cymryd rhan mewn rhyw ddigwyddiad, &c); gwledd 22.138

gwain cas cleddyf; yn *ffig* neu *dros*, lle neu beth cyfyng 36.26

gwalch yn *ffig* a *thros*, milwr gwych, ymladdwr glew, pendefig; gwron, arwr 6.20, 36.64

gwamal chwareus 7.80

gwaneg [1]pryd, gwedd, ymddangosiad 6.76

gwaneg [2]ton, ymchwydd 26.55

gwâr boneddigaidd, moesgar, mwyn, caredig 13.2

gwar man uwchlaw a thu cefn i rywbeth, rhan uchaf, min, ymyl, glan (uwchlaw) 26.7

gwared iachâd, adferiad, gwaredigaeth, ymwared 30.28

gwaren darn o dir sy'n fagwrfa i gwningod 13.109

gwarthau lluosog *gwarth*; cywilydd, dianrhydedd, sarhad 22.92

gwast diffaith, anial, gwyllt; anghyfannedd-dra, difrod; 35.18, 35.134

gwchion lluosog *gwych*; godidog, cain, ysblennydd 12.49

gwedd dull, agwedd, modd; hefyd yn *ffig*, gostyngeiddrwydd, gwrogaeth 22.134

gweddaidd cwrtais, moesgar; gweddus, priodol; hardd, lluniaidd, gwylaidd, cymedrol 21.39, 25.19

gwedi [1]wedyn, yna 25.41

gwedi [2]ffurf o *wedi* 26.45

gweiniaid lluosog *gwan*; tlawd, isel ei fyd; diamddiffyn; eiddil, dibynnol ar eraill, claf, methedig 6.140, 23.11, 35.154

gweinied ffurf lafar o *gweiniaid* 7.32

gwellwell gwell a gwell o hyd, rhagorach 22.84

gweniaith ymadrodd teg tywyllodrus, ffug foliant 32.156

gwenith yn *ffig*, gŵr da neu wraig rinweddol 36.34

gweryd pridd, daear, tir, yn *ffig.* bedd 30.11, 34.104, 35.120, 36.194

gwest arhosiad neu letyaeth dros nos; llety; lletygarwch, croeso; gwledd; gwestai, ymwelydd 22.136

gwestle llety, gwesty, tafarn 22.19

gwialau gweler 7.107n

gwilie ffurf dafodieithol o *gwyliau* 9.17

gwinbost noddwr neu gynhaliwr sy'n rhannu gwin 6.156

gwindraul y weithred o rannu gwin, yn treulio neu'n heilio gwin 11.3

gwinwydd [1]yn *ffig* (heb fod yn y lluosog) rhiain, merch, gwraig 21.30

gwinwydd [2]yn *ffig* (yn y lluosog) cyff neu dylwyth bonheddig 6.29, 6.104, 20.20

gwinwydden coeden sy'n dwyn grawnwin (fe'i hystyriwyd gynt y ffrwythlonaf o'r coed ffrwythau). 38.15

gwiriant cadarnhau 7.28

gwisgi cyflym, sydyn, chwim; sionc, heini, hoenus 17.24

gwiw teilwng, rhagorol, hardd 6.66, 6.133, 8.18,11.12, 16.1, 21.40, 25.31, 32.162, 35.164

gwiwddoeth teilwng a doeth, gweddu, addas a llawn doethineb 21.39

gwiwddyn dyn neu ferch deilwng neu ragorol 32.165

gwiwddysg hyddysg, dysgedig 6.88, 21.74

gwiwglod clodwiw, canmoladwy, clodfawr, hyglod 35.116

gwiwlan sanctaidd, teilwng a phur, glân; hawddgar; teg, harddwych 35.90

gwiwlys llys neu blas teilwng (yn darparu croeso a lletygarwch); hael neu groesawus yn ei lys 7.91, 11.14

gwiwrym grym neu allu gwych; cadarnwych, godidog o rymus 6.37

gwiwryw bonheddig, urddasol, rhagorol 21.7

gwladwr arweinydd neu flaenor gwlad; gwladgarwr; gwleidydd 36.150

gwleddog yn perthyn i wledd, o natur gwledd, bras, helaethwych, treulfawr 6.96

gwlybwr llyn; gwlybaniaeth, lleithder 12.60

gwnia ffurf 3 un. pres. o *gwnïo;* pwytho, rhwymo; yn *ffig*, cyfansoddi (cerdd gywrain) 22.77

gŵraidd nodweddiadol o ŵr o ran natur, ymarweddiad, gwrol, dewr, gwych 30.1

gwrawl gwrol, dewr, eofn; gwych, campus; cryf, grymus; rhinweddol; gwryw; mewn oed 11.7

gwrda uchelwr, pennaeth; gŵr teilwng, dyn rhinweddol 32.47

gẃreiddfwyn *gẃraidd+mwyn*; gẃraidd = gwrol 8.50

gwreiddyn yn *ffig*, dechreuad, ffynhonnell, tarddiad; bonedd, gwehelyth (person) 38.9

gwrengyn dyn o isel radd, taeog 20.60

gwres yn *ffig*, angerdd (teimlad), brwdfrydedd 22.114

gwrthiau ffurf lafar o *gwyrthiau* 13.102

gwryd [1]gwroldeb, dewrder; cryfder, cadernid, nerth 17.63

gwryd [2]mesur o chwe throedfedd, cufydd a hanner (*fathom)* 26.37

gwybodeth ffurf lafar o *gwybodaeth* 33.30

gwyddiad ffurf o'r ferf *gwybod* 29.67

gwyliedydd person sy'n gwylio (er diogelwch), gwyliwr, gwarchodwr 6.136

gwylltiad aderyn gwyllt 3.12

gwŷn poen, dolur; llid, cynddaredd 22.2

gwynion lluosog *gwyn*; gwych, rhagorol, dymunol; hoff, annwyl, yn ffefryn (gan); teg yr olwg 32.108

gwystlon lluosog *gwystl*; gwarant, ernes, bet; morgais 22.19

gwythen gwythïen, yn *ffig.* cyhyr, giewyn 34.100

gwythi lluosog *gwythïen*; llinach, tras, bonedd 22.102

haeddgamp camp deilwng; teilwng a rhagorol ei gamp 22.131

haeddiad haeddiant, teilyngdod 8.23

hap ffawd dda, ffyniant 22.114

haul yn *ffig.* 6.46

hawddgarwych *hawddgar+gwych* 11.25

hedyn un gronyn o had, eginyn; yn *ffig* ffurf elfennol (person), dechreuad, cnewyllyn 6.60

helaith amrywiad ar *helaeth* 33.1

hencen oen blwydd, llo blwydd 5.1

henryw *hen+rhyw* 36.54

hil had, hiliogaeth, epil, digynyddion; cyff, tras, llinach, cenedl 6.44

hiliogaeth llinach, disgynyddion 1.1

hindrol ffurf o *hindrio*; rhwystro 34.65

hirddawn *hir+dawn* 36.4

hireth ffurf lafar o *hiraeth* 12.6

hithe ffurf lafar ar *hithau* 30.19

hobed ffurf lafar o *hobaid*; llond hob, mesur sych (gan amlaf) a'i faint yn amrywio o ardal i ardal; llestr yn dal y cyfryw fesur, hob 16.28

hocsied casgen fawr, baril; mesur gwlyb (ac weithiau mesur such) a'i faint yn amrywio yn ôl y cynnwys a'r ardal 16.teitl, 16.28, 16.46

hoed hiraeth, tristwch, galar, gofid 6.153

hoedl bywyd 26.69

hoen llawenydd, llonder, sirioldeb; bywiogrwydd, angerdd; llewyrch, disgleirdeb, gloywder 6.39

hollawl hollol 3.2

hoyw siriol, llawen; heini, bywiog; gwych, ffyniannus 11.5, 25.11, 36.170

hoywedd gwedd hardd, gwych 34.16

hoywlan glandeg, hardd; dymunol, hyfryd 24.19

hoywon lluosog *hoyw*; heini, bywiog 7.84

hwylus mewn hwyl neu dymer dda, diddig; trefnus, deheuig, hyfedr; parod, hylaw 6.58

hybarch yn haeddu parch; parchus; anrhydeddus 11.19

hydd carw; yng ngwaith rhai o'r cywyddwyr, ystyrid gynt fod iddo oes faith; hefyd yn *ffig.* 6.30, 11.7, 20.53, 35.180

hyddoeth doeth iawn, call 6.20, 6.88

hyffordd hyddysg, wedi ei hyfforddi, medrus, ffyniannus 21.70

hygyrch hawdd mynd ato, o few cyrraedd; llawer o dramwy ato 7.60

hylwydd llwyddiannus, ffyniannus, hwylus, buan, cyflym 8.2

iach ach, llinach, tras, cofrestr hynafiaid 6.28

iachoedd achoedd, lluosog *iach* 6.24

iau darn o bren pwrpasol a sicrheir ar draws gwarrau (neu weithiau wrth gyrn) dau neu ragor o anifeiliaid (dau ych fel rheol) sy'n cydweithio wrth yr aradr neu'r gert, &c, a dynnir ganddynt 36.60

iawnbost gwir gynhaliwr 6.156

iawndras *iawn+tras* 11.3

iawnwych *iawn+gwych* 35.182

iddaw ffurf o *iddo* 11.40

ifaf ieuaf, yr ieuengaf 6.114

impiau lluosog *imp*; (yn *dros* ac yn *ffig*) aelod ieuanc o deulu (bonheddig), mab (weithiau merch) ifanc, disgynnydd 36.173

impin amrywiad o *imp;* aelod ifanc o deulu, disgynnydd 38.2

ing artaith, gofid dirdynnol 36.25

Iôn Yr Arglwydd, Duw 35.113

ir byw, llewyrchus, llawn bywyd; newydd, ieuanc; gwyrddlas, ffres 6.45

iraidd ieuanc; ir, ffres, gwyrddlas; byw, llewyrchus, llawn bywyd, bywiog 6.118, 34.4

ireidd-der ffresni, gwyrddni; hefyd yn *ffig.* bywiogrwydd, nwyfiant 21.19

irion lluosog *ir* 17.56

irnerth *ir+nerth* 12.48

irwellt glaswellt, porfa, tyfiant gwyrddlas ac iraidd 7.65

iustus ustus 13.17

iwch ffurf o *i* ; yn y cyswllt yma, i chwi 20.24

jester cellweiriwr, gwamalwr 13.80

lawnt tir agored, gwastadedd, llannerch 6.17

lediwr un sy'n arwain, arweinydd 6.133

ledwyr lluosog *lediwr* 32.2

luned gweler 7.51n

llad diod feddwol, cwrw; lles, bendith, rhinwedd, daioni 7.25, 9.24

llafan llafn; gwedd, ffurf 33.33

llafurdai lluosog *llafurdy* 8.35

llathraidd disglair, llachar, a sglein arno 25.19

llawes godre, ymyl, cwr 8.12

llawndra llawnder, helaethrwydd, digonedd 16.55

llawnin ffurf o *llawn* 3.17

llech craig fawr, clogwyn; cuddfan, lloches 26.teitl, 12.63

llef lle 3.7

lleferydd llais; llais Duw 30.15

llesiant mantais, budd, elw, lles, daioni 16.27

llewych goleuni, disgleirdeb; golwg llewyrchus, ffyniant 24.1

llid dig, dicter; angerdd, nwyd 9.27, 22.79, 36.120

llidiog gwyllt, cynddeiriog, ffyrnig 31.37

llin llinach, tras, ach, gwehelyth, tylwyth 6.51, 35.117, 36.186

llinoedd lluosog *llin* 24.27

lliwus glandeg, golygus 29.45

llochfa lloches, ffau, gwâl 12.63

llonaid llawn, cymaint ag a ddeil rhywbeth 24.40

llownfras ffurf o *llawnfras*; helaeth, haelionus 36.69

llud rhwystr, gwaharddiad, gwrthwynebiad 9.27

lludd rhwystr; gwrthwynebiad 38.7

lludded blinder (mawr), llesgedd; ymdrech, poen 35.6

lluesty preswylfa dros dro, pabell, bwthyn; hefyd yn *ffig*, llety milwyr, gweithwyr &c. 8.13

lluniedd ffurf lafar ar *lluniaidd*; siapus, gosgeiddig, hardd 23.17

llw datganiad difrifol, ymrwymiad; rheg, melltith, cabledd 33.33

llwybredd ffurf lafar o *llwybraidd*; cymwys, addas; medrus, parod, rhwydd, dilestair 21.37, 32.135

llwydd llwyddiant, ffyniant, cyflwr llwyddiannus; un ffodus; yn peri llwyddiant neu ffyniant 7.10, 8.1, 8.48

llwyn yn *ffig*, teulu, hiliogaeth, disgynyddion 36.172

llyferydd lleferydd 25.26

llyfran llyfr bychan, llyfryn, pamffled 22.47

llyfrdy llyfrgell; neu yn *ffig.* canolfan dysg 8.35

llymed ffurf lafar o *llymaid*: dracht, llond ceg o ddiod; diod feddwol 16.42

llysieufwyd bwyd wedi ei wneud o lysiau; bwyd wedi ei drin â pherlysiau neu sbeisys 36.80

llywydd arlywydd, arglwydd, arweinydd, hefyd yn *ffig* 36.186

mad da, daionus, rhinweddol, teg, hyfryd; daioni, tegwch, gweithred dda 17.17

madyn llwynog, cadno 13.145

mae'l mae fel 22.2

mael [1]pennaeth, arglwydd, tywysog 16.16

mael [2]tâl, budd, gwobr 13.126

maenol maenor, plas, plasty; arglwyddiaeth, tiriogaeth, ystad diriog 36.31

maeth cynhaliaeth, lluniaeth, ymborth, magwraeth 8.39, 32.115

mag maeth 12.6

magwrieth ffurf lafar o *magwraeth*, *magwriaeth;* y weithred o fagu neu o ddwyn i fyny; maeth, lluniaeth, maethlonrwydd 17.3

mangre lle, man, lleoliad, trigfan 32.77

mant ceg, gennau 16.21

marnad marwnad, cerdd, &c, yn mynegi galar am berson (anifail, &c.) marw; galarnad, galargan 6.4

marworyn ffurf o *marwor*, gweddillion tân glo, &c sy'n dal i fudlosgi, cols byw, sindrys (poeth) 16.30

masw ffôl, ofer, di-fudd; masweddus, anllad 33.34

mau yn perthyn i mi, fy rhan i, eiddof (i) 17.17, 21.1

mawledig moledig, teilwng o fawl, clodwiw, clodfawr 36.64

mawrged rhodd neu haelioni mawr; hael, haelionus 16.32

mawrhydi mawredd (gallu, awdurdod, urddas, &c) 22.102

mawrnych dioddefaint mawr, trallod 6.4

med ffurf 3 un. pres. o *medi*; cynaeafu, torri a chasglu (cnwd) 7.70

meddwr Meddiannwr, rheolwr 11.41

meth methiant, diffyg, gwall, ffaeledd 22.55

mg'leddiad 'mg'leddiad, ffurf lafar o *ymgeleddiad*; ymgeledd, gofal, cynhaliaeth 22.56

min [1]gwefus, ceg, hefyd yn *ffig* 38.1

min [2]ymyl, ochr, glan 26.38

miwses lluosog *miws, muws*; un o'r naw chwaer-dduwies a gyfrifid yn ysbrydolwyr dysg a'r celfyddydau, yn enwedig barddoniaeth a cherddoriaeth; hefyd yn *ffig*. 22.17

modde ffurf lafar ar *moddau;* moddion, meddyginiaeth 24.53

moddion [1]lluosog *modd*; dull, ffordd, cyfrwng 21.32

moddion [2]lluosog *modd*; meddyginiaeth, hefyd yn *ffig*. 36.35

moel noeth, llwm; heb wallt, penfoel 36.105

moesed dyro fenthyg 13.121

monarc teyrn, unben, tywysog 26.21

mwyfwy yn mwynhau neu'n cynyddu'n gyson, ar gynnydd, mwy a mwy o hyd 8.1

mwynber hyfryd, dymunol 38.1

mwyndra mwynder, tirondeb; cwrteisi; pleser 22.139

mwyneiddio gwneud yn fwyn, tyneru 13.41

mwynwalch *mwyn+gwalch* 11.10

mwythus llawn moethau; tyner; hoff o foethau; wedi ei ddifetha, wedi ei faldodi 13.123

myfyr cof, coffa, coffadwriaeth 32.91

mygu gollwng mwg; mogi, llethu 30.38

mynne ffurf lafar ar *mynnai*, mynnu, cael, hawlio 24.53

mynych helaeth 26.48

myrddiwn deng mil, myrdd 7.101

nadd rhywbeth wedi ei gerfio, cerfiad; naddedig, cerfiedig 31.49

naddfaen carreg nadd, tywodfaen 26.50

naf arglwydd, pennaeth, meistr; yn cyfeirio at Dduw 26.2

nageir *nag + gair;* gwrthodiad11.28

naturiaeth cymeriad neu anian (gynhenid), natur 25.4

nawddol amddiffynnol, gwarchodol 7.37

nefolion preswylwyr y nefoedd 32.144

nemawr nemor, dim 13.8

nen arglwydd; top, brig 20.66

nerthwr cynhaliwr, cefnogwr 32.136

nithia ffurf 3 un. pres. o *nithio;* gwahanu (grawn) oddi wrth us, gwyntyllio, gogrynu 31.30

nithied ffurf 3 un. gorch. o *nithio*; gwahanu (grawn) oddi wrth us; gwyntyllio, gogrynu, hefyd yn *ffig* 7.59

nodded noddfa, lloches, amddiffyniad 26.43

nwy nwyf; teimlad (cryf), angerdd, chwant (cnawdol); llawenydd, dedwyddyd; asbri, ynni, egni 25.4

nych poen (meddwl), gofid, poendod, loes 6.159, 20.34, 35.177

ochain ochneidio, griddfan, cwynfan, wylofain 6.76

ochre ffurf lafar o *ochr/ochrau* 6.105

od os 20.35, 24.45

odiaeth gwych, rhagorol, eithriadol, hynodrwydd; hefyd yn *ffi*g 1.1, 3.6, 6.136, 12.16, 17.43, 17.27, 22.103, 25.9, 29.96, 32.41, 34.26, 38.10

odieth ffurf lafar o *odiaeth* 17.27

oesawg ffurf o *oesog*, hen, hynafol, hiroesoesog, tragwyddol 12.18

oeswr cyfoeswr 35.179

oferddyn bardd (crwydr), clerwr, ?bardd doniol, digrifwr 22.33

olwynog tebyg i olwyn, yn cylchdroi 17.2

orlais cloc, watsh 32.12

pa'r pa ryw 22.6

paladr llinach, teulu; colofn neu lafn o olau; colofn, piler; coes neu droed planhigyn; bôn (coeden) 11.11

pallu marw, darfod, peidio 6.11

part plaid, ochr (mewn dadl); rhan 12.15

parth aelwyd, cartref 36.89

pasg y weithred o besgi 7.87

pasiai ffurf 3 un. amherffaith o'r ferf *pasio*, mynd heibio 35.44

pawr porfa, tir pori 7.69

penadur pennaeth, arglwydd, uchelwr, pendefig, tywysog, brenin, rheolwr, arweinydd 17.40, 33.7

penbrudd prudd, digalon, trist 32.171

pencerddiol ffurf o *penceirddiol*, yn perthyn i bencerdd neu i farddoniaeth pencerdd; yn dilyn cwrs o hyfforddiant i ennill gradd fel pencerdd 21.84

pendro penysgafnder, teimlad chwil, anwadalwch 22.5

peniaeth pennaeth 35.27, 35.121

pennod prif amcan, diben, pwrpas, bwriad 16.34

pentewyn darn o bren a gynheuwyd yn y tân, ffagl, marworyn 16.34

penyd poen, artaith 36.2

perion lluosog *pêr*, hyfryd, dymunol 36.174

pert hardd, prydferth, gwych 22.120

pinagl tŵr bach addurnol ac iddo big fel pyramid neu gôn; hefyd yn *dros*. ac yn *ffig*. 22.95

pioedd ffurf o *piau;* y mae yn eiddo iddo 8.46

phisigwriaeth amrywiad ar *ffisigwriaeth/physygwriaeth*; meddyginiaeth; moddion 33.43

plaened ffurf o *plaen, plain*; eglur, amlwg, clir, hawdd ei ddeall 6.5

plaid cwmni, torf, tyrfa, mintai, lliaws 6.71, 6.139

pleth plethwaith, rhydwaith; wedi ei blethu; hefyd yn *dros* ac yn *ffig* 6.117, 30.54

pliciwyd ffurf 3 un. gorff. o'r gair *plic(i)o*; tynnu (plu, blew, &c) o'r croen, hefyd yn *ffig*. 22.48

poeth dwys, angerddol, brwd 22.2

porthmoneth ffurf lafar o *porthmonaeth* 22.84

priddo gorchuddio â phridd, claddu (yn enwedig corff marw) yn y ddaear, dodi mewn bedd 6.9

prudded tristwch 36.153

prydau lluosog *pryd*; achlysur, amser 7.81

prydu prydyddu, barddoni, cyfansoddi, llunio (cerdd, barddoniaeth) 21.81

prydydd bardd 22.8

prydyddiaith ffurf o *prydyddiaeth*; barddoniaeth, mydryddiaeth, cerdd, priod swydd a gwaith prydyddu 21.4

Pryniawdr prynwr, gwaredwr 13.120

purddysg *pur+dysg* 21.57

purder purdeb 36.189

purdon *pur+tôn* 16.25

purion lluosog *pur*; dilychwyn (am wirionedd, iaith, awen, bonedd, ach, &c) 22.22

purnerth *pur+nerth* 20.17

purwych *pur+gwych* 22.131

purwyn hollol wyn, claerwyn, disglair 13.98

pwn llwyth, baich, hefyd yn *ffig.* 36.2

pwyth pwynt, pwnc, testun 32.171

pybyr bywiog, brwd, grymus, dewr, ysblennydd, disglair, 3.5, 6.8, 17.33, 26.72, 36.75

pybyrwch cryfder, nerth; bywiogrwydd 22.15

pywer pŵer, person neu beth ac iddo rym, dylanwad, awdurdod, &c 6.24

restio gorffwys, cael seibiant, ymlacio 9.29

rhad haelioni, daioni, graslonrwydd; gras, bendith, ffafr; dawn, rhodd 8.53,16.2, 20.15, 22.97, 26.30, 36.78

rhadol llawn gras, graslon; hael, rhydd 6.146, 35.118

rhaglyddawl rhaglyddol, teilwng, clodwiw 3.4

rhawg yrhawg; yn awr, bellach; am amser hir, o hyn allan 32.26

rhemen rhamblo, crwydro 5.1

rheol arglwyddiaeth, llywodraeth, sofraniaeth 17.1

rhin rhinwedd, cynneddf, priodoledd, ansawdd; natur; hanfod, nodd 6.109, 35.170

rhith lledrith, dan swyn 12.59

rhoch griddfan, ochenaid, yn *dros* ac yn *ffig.*20.43

rhoddfawr *rhodd+mawr* 8.38, 35.140

rhoddiad dawn neu allu naturiol 24.14

rhowyr rhywyr, rhy hwyr 36.24

rhuadwr un sy'n rhuo, gwaeddwr; rhywun cwerylgar, cecryn 22.8

rhuddin craidd a rhan galetaf coeden; cryfder cymeriad; gwroldeb, dewrder, dygnwch 35.16

rhusa ffurf 3 un. pres. o *rhusio*; petruso, ofni; oedi, gwrthod 7.11

rhwth eang, agored 5.1

rhwydd hael, rhoddgar; person hael 22.121

rhwydd-deb rhadlonrwydd; llwyddiant, ffyniant 38.22

rhwyddgu *rhwydd+cu* 22.121

rhwyddwych *rhwydd+gwych* 11.25, 35.16, 35.152

rhwydeb rhwydd-deb, rhwyddineb, hwylustod; llwyddiant, ffyniant; haelioni, rhadlonrwydd 11.43, 20.47

rhwym peth sy'n rhwymo, yn clymu; hefyd yn *dros* ac yn *ffig.* 32.162

rhwysg nerth; gallu 6.93

rhwysg rhuthr, cyrch, hynt (gyflym), nerth, grym 24.10

rhychawr ffurf o *rhychor* 20.39

rhychor ych neu geffyl sy'n cerdded y rhych wrth aredig (sef y gorau o'r pâr dan yr iau); yn aml yn *ffig*, pencampwr, arweinydd, meistr; gweler hefyd nodiadau i gerdd 20. 6.109, 35.123, 36.60

rhydd hael 32.26

rhydda *rhy+da* 36.198

rhydid rhyddid; y cyflwr o fod yn rhydd 26.52

rhydost *rhy+tost*; rhy llym, rhy arw, rhy greulon; rhy drist, rhy drallodus 29.86

rhydyd rhyddid; y cyflwr o fod yn rhydd 25.37

rhyglyddfawr haeddiannol 17.42

rhyglyddu haeddu, teilyngu 11.8

rhylew *rhy+glew*; dewr iawn, gwrol dros ben, cryf iawn, craff/galluog iawn 16.49

rhyw hil, cenedl, teulu, llinach 22.112, 35.122, 36.54, 38.9

rhywiog [1]ucheldras, bonheddig, urddasol, gwych, cwrtais, caredig, hael 6.19, 6.91, 21.30,35.170

rhywiog [2]mewn cyflwr da, o safon uchel, graenus 26.60

rhywiog [3]rhadlon, hynaws, addfwyn 25.13,

rhywiogaf y mwyaf rhywiog; ucheldras, bonheddig, ardderchog, gwych; hael 20.54

rowan 'rowan; ffurf dafodiaethol o *yrŵan*, yn awr, ar hyn o bryd, bellach 34.9

sad [1]cadarn; dibynadwy, doeth, pwyllog 36.122

sad [2]prudd, trist; sobr, dwys, difrifol 6.122

saif 3 un. pres. myn. y ferf *safaf: sefyll* 36.185

sechu ffurf lafar o *sachu, sechi*: rhoddi mewn sach, bagio, llenwi (sach) 16.32

seigie ffurf dafodieithol o *seigiau*, lluosog *saig*; dysgliaid o fwyd, pryd bwyd, gwledd 9.19

seiniad sain, y weithred o seinio, caniad 35.164

sêl darn o gŵyr, &c, hefyd fel arwydd o swydd; hefyd yn *ffig*. 6.112, 22.105

sen sarhad, difenwad; cerydd, cystwyad, hefyd yn *ffig.* 31.21

sew cawl, potes 13.144

siaplen caplan 13.57

siêl jêl, gêl; carchar 26.26, 34.27

sieri siryf 13.22

sir croeso, lletygarwch, difyrrwch, arlwy, gwledd; hefyd yn *ffig.*13.68

siri siryf 5.3

siried ffurf o'r ferf *sir(i)o*; sirioli, llawenhau, codi calon 6.94, 35.87

somiant siomiant, siomedigaeth 33.32

soriant dicter, anfodlonrwydd, tymer ddrwg; tristwch 31.18

stât ystad; statws, urddas; gradd, dosbarth; galwedigaeth; gwladwriaeth, gwlad; eiddo 13.19

steward swyddog sy'n rheoli materion domestig tŷ neu gweinyddu eiddo megis ystad dros ei gyflogwr 13.75

swcraeth swcr, nawdd, ymgeledd 22.94

swcria ffurf 3 un. pres. o *swcrio*; ymgeleddu, cynorthwyo, llochesu; annog, cymell 22.64

swcwr nawdd, croeso, lloches 23.7

syberwyd boneddigrwydd, moesgarwch, mwynder; haelioni 8.45

sylfain ffurf o *sylfaen* 6.16

sywaeth, ysywaeth gwaetha'r modd 6.31

t'w'nned ffurf lafar ar *tywynned*, *tywynnu;*disgleirio, pelydru, goleuo 17.49

ta amrywiad llafar o *da* 25.40

taned ffurf o *taenu*, gwasgaru, lledaenu 10.11

tano tan, yn uniongyrchol islaw 36.130

tariaw ffurf o *tario*13.48

taried ffurf o *tario* 36.157

tarief ffurf o *tario* 24.47

tario aros (mewn lle), preswylio, parhau (mewn rhyw gyflwr), ymdroi, llesteirio 35.128

tarren bryncyn, bryn serth, llethr, bryn creigiog 7.73

tegan anwylyd, cariad, ffefryn, anwesyn 36.187

teiau lluosog *tŷ;* annedd, cartref 3.17, 7.53

tes gwres (yr haul), cynhesrwydd, heulwen; tarth(gwres) 31.55, 34.46

tesol tesog, heulog, hefyd yn *ffig*. 7.71

teuluwr bardd teulu 32.163

tew helaeth, niferus 30.36

teyrn arglwydd, pennaeth, arweinydd, hefyd yn *ffig*. 36.184

tid cadwyn, tsiaen, hefyd yn *dros* ac yn *ffig* 36.59

tidaur *tid+aur* 36.59

toc cyn bo hir, yn y dyfodol agos 3.136

toddiad y weithred o doddi, ymdoddiad, hefyd yn *ffig*. 36.39

top copa, brig, pen 25.23

toreth ffrwythlondeb; cnwd, ffrwyth, cynnyrch 31.48

torgoch coch neu frown ei fol 13.129

tost llym, garw, caled; trallodus, trist 6.155, 35.3, 36.9

tramwy cerdded, teithio, hefyd yn *ffig* 36.191

tramwyo teithio (ar draws), croesi, crwydro; hefyd yn *ffig*. 35.73

traul darpariaeth, cynhaliaeth; cost, gwariant; ymdrech, trafferth 16.10

trawiad osgo, ymarweddiad, tuedd 12.33

trawsion lluosog *traws*; creulon, treisgar, gormesol 6.139, 36.119

treisiaw ffurf o'r gair *treisio*; gormesu, gorthrymu 36.119

tremyn taith, cwrs, llwybr 32.4

trigfa trigfan, preswylfa, annedd, cartref, hefyd yn *ffig.* 32.147

triniedig wedi ei drin neu ei baratoi; ond mae'n debyg bod yr ystyr yn fwy perthnasol i fôn y gair, *tringar,* sef dyrys, problemus 20.51

troëll troad (ymadrodd) 25.2

trom trwm, dwys, llym, caled 6.5

trwch trwchus, dwys; dwfn; gall hefyd olygu trist, truenus, gwael 12.33, 16.47

trwsio atgyweirio, adfer (i gyflwr da ar ôl difrod, traul, &c), gwella 26.45

trwst sŵn mawr, twrw, cynnwrf, cythrwfl 12.4

try ffurf 3 un. pres. o'r ferf *troi* 18.3

trydar clebran, baldorddi, cadw sŵn 22.5

tulath trawst, trawslath; ceibr, dist, croeslath; hefyd yn *ffig*. 35.10

turnspit bêr-droellwr; cigwain neu wialen o bren neu o fetel a wthir drwy ddarn o gig i'w droi a'i rostio o flaen tân 13.89

tuswau lluosog *tusw;* bwndel, sypyn 7.72

tw' ffurf o *twf,* tyfiant 38.3

twf ffyniant 36.181

twymyn cynnes; dwys, angerddol 8.11, 36.13

twysau gweler 7.71n

tyciont ffurf 3 un. pres. dibynnol o *tycio*; bod o werth neu o fantais, ffynnu, llwyddo 32.143

tymp amser (penodedig), adeg, pryd, cyfnod, tymor 32.9

tynnwr person neu beth sy'n tynnu; hefyd yn *ffig.* lluniwr (cytundeb, &c) 16.50

tyrfion gweler 7.85n

uchelwedd *uchel+gwedd* 6.28

ufudd yn (fodlon) ufuddhau, gwneud ei ddyletswydd, ffyddlon; ewyllysgar 22.112

undeb cytundeb, harmoni, cytgord; cymdeithas, cynghrair 13.4

uniawn union; cywir, teg, diffuant, didwyll 13.2

unweth ffurf lafar o *unwaith* 31.44

urddaswych *urddas+gwych* 38.11

waetio gweithredu fel gwasanaethydd neu weinydd, gweini; gwylio, aros, disgwyl 13.75

wast gwastraffu, oferdraul, afradlonedd; diangen, gwastraffus 35.134

wedi hefyd, yn ogystal; wedyn, yn ddiweddarach 22.61, 24.23

wybr ffurfafen, awyr, nefoedd 25.35

yfe ffurf lafar ar *yfai*, ffurf 3 un. amherffaith o'r ferf *yfed*; yfed (alcohol), hefyd i ormodedd 16.38

yleni, eleni y flwyddyn hon, (o fewn) y flwyddyn bresennol 6.10

ymaelwr ymladdwr, ymaflwr codwm, ymgodymwr; hefyd yn *ffig* 6.137

ymddifaid amddifaid 23.10

ymdynnu ymryson, ymgodymu; ymdrechu; tynnu'n ôl, encilio, dianc; tynnu ato 13.86

ymesgora' *ym+esgoraf*; esgor = gwaredigaeth 20.25

ymeth ffurf lafar ar *ymaith* 30.58, 31.46

ymgegi ffurf lafar o *ym+gegu* (cegu); llyncu, traflyncu; cecru; clebran, clepian; bloeddio 13.88

ymgeledd noddfa, gofal, cymorth, cynhaliaeth, nawdd, cysur 32.135

ymgeleddwr noddwr, cynhaliwr 22.104, 36.84

ymgestio yfed neu fwyta'n awchus neu i ormodedd, llawcio, traflyncu 13.80

ymgwilyddiodd ffurf o *ym+cywilyddio* 22.56

ymogel *ym+gogel* 30.38

ymynedd amynedd 15.5

ysgwîr ffurf o *ysgwïer*, person nesaf ei radd islaw marchog, gwas marchog, swyddog i frenin, bonheddwr; bonheddwr gwledig 21.15

ysgymun ffiaidd, atgas, drwg, drygionus; wedi ei ysgymuno neu ei ddiarddel 24.10

ysig cleisiedig, briwedig, anafus 30.40

ystod cwrs, hynt, llwybr 22.96, 32.30

ystrîn gwrthdaro, cynnen, ymrafael, ffrwgwd, ysgarmes, ymladdfa, brwydr; hefyd yn *ffig.* 6.72

ystyn, estyn peri parhau; ehangu, helaethu; cyflwyno (tir, &c) 6.90

Mynegai enwau personau yn y cerddi

Adda 17.6

Apolo 32.63

Arthur 19.2

Aurora 32.8

Bacchas 32.53

Bridget Savage 35.77, 36.53

Cadwaladr Wyn11.11

Cornelius 35.154

Cynan 6.46

Daniel 35.157

Darcy 35.80

Ednyfed Fychan 6.64

Edwin 6.62

Einion 6.49

Gabriel 18.1, 19.1

Goodman 6.47

Gryffydd 13.59

Gwen 12.22

Helicon 22.20

Hesecias 30.32

Hywel 6.33-35

Ifor Hael 36.67, 38.20, **Ifor** 7.43, 8.20

Madog Gloddaith 6.57`

Margred 6.115

Morpheus 32.3

Parry Morys Parry 32.67

Mostyn 7.11, 10.4, 26.46, 30.8, 32.107, 34.13, **Mostyniaid** 9.8

Nestor 38.21

Nudd 7.44

Rhys Cadwaladr 4.12, 13.67, 32.68

Richard Mostyn 6.99, 36.137

Risiard Rhisiart ap Hywel 6.32

Rivers 35.82

Robert Wyn 22.120, 32.101

Rosier Salbri 6.55

Sara 30.9

Savage[1] 7.50, 22.112, 38.8

Savage[2] Savage Mostyn 35.94, 36.187

Siân 6.107

Siôn Edward 16.14, 32.17, 33.3, 34.18

Siôn Llwyd 13.138

Siôn Siôn Mostyn 35.93, 36.185

Syr Edwart Mostyn 12.16

Syr Gruffydd Llwyd 6.59

Syr James Whitloc 6.66-67

Syr John Trefor 6.109

Syr John Wyn 6.44

Syr Rosier Mostyn (m. 1690) 3.46, 4.21, 6.22, 12.15, 21.17, 22.98, 35.89, 36.117, 38.3,

Syr Raigiar 36.179,

Syr Roger Mostyn (m. 1739) 38.1, 39.1 **Rosier** 12.19

Syr Tomas Mostyn 6.23,7. 9, 8.11,11.3, 12.21,13.13, 17.40, 20. 15, 21.13, 22.97, 33.40, 34.76, 35.13, 36.183, 38.5.

Taliesin 13.98

Titan 32.7

Thomas Llwyd 13.143

Tudur Trefor 6.38, 35.35, 36.59, **Trefor** 7.14, 38.9

William William Mostyn 6.28

Mynegai enwau lleoedd yn y cerddi

Arfon 6.18, 36.95

Asia 34.32

Biston 36.166

Bloomesbury Squâr 29.30

Bodysgellan 22.122 , 32.99, 34.44

Bronlluarth 13.136

Caer 13.55, 36.126

Caerlleon 6.48, 36.125

Caerludd 12.36, 29.16

Canaan 4.21

Conwy 12.12, 29.75, 34.88

Deheubarth 1.38

Fflint 6.17, 36.102

Gloddaith 7.1, 8.4, 9. 17, 10.9, 11.50, 12.1, 13.12, 16.12, 17.50, 20.1, 21.10, 21.12, 22.101, 23.1, 29.32, 32.10, 34.34, 35.6, 36.12, 37.4; **Gloddeth** 12.6

Gosen 4.13

Gwydir 6.45

Gwynedd 1.37, 6.14, 7.22, 8.14, 23.4, 35.1, 36.85

Henffordd 6.40

Llandudno 13.65 , 26.56

Llanelian 32. 83, 34.87, **Elian** 16.24

Rhos Llanrhos 9.22, 13.64, 34.72, 35.85, 36.18

Llundain 29.20 **Llunden** 29.26

Maelgwyn 9.22

Maesaleg 21.46

Môn 6.17, 35.38, 36.126

Mostyn 1.2, 17.41, 36.9

Mynydd Tegan 4.1

Pen Bedw a'r Nant 6.102 **Penbed** 35.102

Pennant 13.142

Powys 6.52

Rhyd 9.22

Tref Castell 6.80

Tref Garnedd 6.84

Trillo 13.103

Troea 12.76 **Troy Newydd** 29.18

Uwchmynydd 11.10

Y Berth Ddu 22.121

Y Creuddyn 13.112, 29.67, 34.90

Y Foelas 11.16

Y Penrhyn 6.54

Mynegai'r llinellau cyntaf

A geiff hencen, rhemen rhwth 8
Annwyl in Gabriel enwog, – llew nerthol 49
Coed lwyn oedd caead lennais 99
Croeso Roger bêr, o burion – achau 119
Cwyd, Gabriel dawel, a dod, – adolwg 48
Cwyno mae'n hiaith helaith, hen 97
Dêl pob dawn uniawn i annedd – Loddaith 68
Doeth i chwi 'leni, rhy lawnion – i'r wlad 41
Dwyn marchog eurog a geres, – dwyn paun 117
Fy awenydd fai annoeth 57
Gerwin yw anniolchgarwch – delwas 26
Hiliogaeth dda odiaeth ydyn' – beunydd 1
Hiraethodd deutu Gloddeth 31
I gysgu'r eis, gwasgu'r oedd 90
I Loddaith eilwaith hyd elor – y dof 78
Llew Gloddaeth, bennaeth beunydd, – llwyr fwynder 15
Mae craig gadarn a farnaf 75
Meistr Roger fwynber fin 118
Mi af i'r llys, mwyfwy'r llwydd 2
Nid hagr ond mynydd Tegan – oll drosto 6
O Dduw gwyn, dduo Gwynedd 103
O Dduw, gwraidd gŵraidd i gyd 84
O hil marchogion hael iawn 34
Och dorri bôn uchder byd 109
Pa beth yw'r byd sadfyd sydd? 9
Ple mae llys apla' llesawl – i'w gynnal 3
Pob gloesau, glwyfau glefyd – o'r galon 40
Rhai a gân rhyw wag enwir 73
Rhoddias fy mryd, munud mau 53
'Stafell, wych gafell, gyfion – filwr 2
Tra fo tyrfa, tra fo terfyn – dydd 28

Tua Gloddaith, tŷ gwleddoedd 50
Wrth edrych, llewych llawen 70
Y gŵr enwog, gwiw rinwedd 42
Y llew pur, allu parod 29
Yna byddi di yn d'oes – y garreg 79
Yr edn lwyd â'r adain las 80
Yr haul teg, rheol wyt ti 45
Yr hwn sy'n byw o fewn y byd 87

Llawysgrifau'r cerddi – lleoliad a disgrifiad

Oni nodir yn wahanol, daw'r disgrifiadau o gyfrol Daniel Huws, *Repertory*.

Archifdy Prifysgol Bangor

Bangor 93: Cyfrol anghyflawn o farddoniaeth Gymraeg, ynghyd â charolau ac englynion gan feirdd 18g. ardal y Bala. Yn llaw Richard Hughes, Pentre, Llanycil gan fwyaf, yn y cyfnod rhwng 1760-63.

Bangor 758: Casgliad o gywyddau a chanu rhydd, nifer gan Rolant Huw ac yn ei lawysgrif yn y cyfnod rhwng oddeutu 1790-1802. Yn cynnwys ychwanegiadau gan eraill.

Mostyn 1: Cyfrol a luniwyd yn 1596 i ddathlu priodas Rosier Mostyn (m. 1642) a Mari Gwyn, Gwydir, mewn chwe llaw, gan gynnwys Huw Pennant a Simwnt Fychan. Ceir awdl i Siôn Wyn, tad y briodferch, ar ddechrau'r gyfrol, gyda naw cywydd yn dilyn yn cofnodi'r briodas. Ar ddiwedd y gyfrol ceir dwy farwnad, y naill i Margaret Brereton a'r llall i'w merch Ursula Goodman, nain a mam Rosier Mostyn.

Mostyn 9: Casgliad o farddoniaeth gan feirdd o sawl cyfnod yn y 17g. ac mewn sawl llawysgrifen, yn cynnwys cerddi i Roger Mostyn yn llaw Rhys Cadwaladr oddeutu 1679.

Mostyn 13: Cyfrol anghyflawn o farddoniaeth, yn bennaf i deulu Nannau, ac yn llaw Siôn Dafydd Las rhywbryd rhwng 1687 a 1694.

Mostyn 48: Cywydd gan Siôn Dafydd Las ar daflen sengl, rydd, ac yn ei lawysgrif yn y flwyddyn 1686.

Mostyn 9081: Copi ffacsimili o gyfrol sy'n parhau yn llyfrgell Plas Mostyn. Gweler Mostyn 96 isod. E Gwynne Jones, *A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection*, II, 320, (cyfrol heb ei chyhoeddi).

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Brogyntyn I.5: Cyfrol amrywiol ac yn cynnwys casgliad o farddoniaeth yn gysylltiedig â theuluoedd Clenennau a Glyn gan fwyaf, mewn un llawysgrifen oddeutu 1683. Ychwanegiadau o farddoniaeth, mewn sawl llaw, oddeutu 1698-1700 ac eto yn 1713.

Cwrtmawr 5: Llawysgrif o farddoniaeth mewn dwy ran, y gynharaf oddeutu 1600 ac yn debygol yn llawysgrifen Edward Owen, Hengwrt, gyda'r ail ran mewn sawl llawysgrifen rhwng oddeutu 1680 a 1707.

Cwrtmawr 43: Cyfrol o farddoniaeth yn bennaf yn llawysgrifen Richard Hughes, Pentre, ar gyfer Griffith Jones, Blaen Cynllwyd, Llanuwchllyn, yn 1761.

Cwrtmawr 206B: Cyfrol o farddoniaeth gan Cadwaladr Dafydd, Llanymawddwy, ac eraill, yn llaw y bardd yn bennaf, rhwng oddeutu 1737 a 1749. Hefyd yn cynnwys peth rhyddiaith. Ychwanegiadau pellach yn ail hanner y 18g. gan eraill, yn cynnwys William Wynn ac Evan Evans.

Cwrtmawr 224B: Cyfrol o farddoniaeth, yn bennaf o waith Huw Morys, ac yn ei lawysgrifen yn y cyfnod rhwng oddeutu 1697 a 1703. Ychwanegiadau niferus mewn sawl llaw.

Cwrtmawr 448A: *Llyfr Cywyddau Margaret Davies.* Cyfrol o gywyddau a rhai englynion, yn llawysgrifen Margaret Davies yn bennaf, yn 1725.

Cwrtmawr 467B: *Llyfr Cyw[y]ddau.* Cyfrol o farddoniaeth Owen Gruffydd, yn bennaf yn llawysgrifen y bardd, o'r cyfnod 1677-1692, ac ychwanegiadau yn llaw William Elias ac eraill yn ddiweddarach.

Cwrtmawr 485E: Cyfrol o farddoniaeth, yn bennaf yn llaw Robert Williams a Myrddin Fardd oddeutu 1804.

Llansteffan 166: Cyfrol o gywyddau a chanu rhydd, yn llaw Evan Richard o'r Plassey yn y cyfnod oddeutu 1719-30. Hefyd yn cynnwys ychwanegiadau amrywiol gan eraill.

NLW 263B: Barddoniaeth Foulk Wynn, Nantglyn, gan fwyaf ac yn ei lawysgrifen. Wedi ei ysgrifennu yn y cyfnod o oddeutu 1684 ac yn cynnwys gwaith rhai cerddi gan feirdd eraill.

NLW 311E: Casgliad o gerddi Huw Morys yn llawysgrifen David Samuel rhywdro yn y cyfnod rhwng oddeutu 1770 a 1790, hefyd yn cynnwys ychydig gerddi gan feirdd eraill. Ceir hefyd englynion gan Iolo Morganwg yn ychwanegiad yn 1794.

NLW 431B: Casgliad o farddoniaeth Gymraeg a Saesneg ar bapur, gyda hanner y clawr yn felwm. Yn dyddio *c.* 1690 ac yn llawysgrifen Robert Parry, gydag ychwanegiadau diweddarach gan eraill.

NLW 593E: Cywyddau ac englynion o waith nifer o feirdd ond Owen Gruffydd yn bennaf. Yn debygol o fod yn llawysgrifen Evan Lloyd, o oddeutu 1720, gydag ychwanegiadau diweddarach gan eraill.

NLW 666C: Cyfrol yn llawysgrifen Williams Jones (Bleddyn), Llangollen, o farddoniaeth gan amryw o feirdd ac yn dyddio o'r 19g.
http://isys.llgc.org.uk/isysquery/irl43b2/107/doc – rhif 107.

NLW 672D: Cyfrol amrywiol yn cynnwys barddoniaeth Owen Gruffydd a beirdd eraill, yn bennaf yn llaw Edward Williams, Penmorfa, a Morgan Davies, Pantyllwyfog. Hefyd yn cynnwys casgliad o achau rhai o deuluoedd gogledd Cymru ac yn dyddio oddeutu 1797-1845.

NLW 783B: Cyfrol yn cynnwys cywyddau ac englynion gan nifer o feirdd, yn cynnwys Edward Morris a Thomas Prys. Yn llawysgrifen Gabriel Salusbury, Dinbych, *c.*1730-41.

NLW 1237B: *Y Gell Ddiddan*. Cyfrol amrywiol o farddoniaeth Gymraeg, yn bennaf yn garolau Huw Morys; hefyd barddoniaeth a rhyddiaith Saesneg. Yn llawysgrifen John Jones, Ty'n Llwyn, ac yn dyddio *c.* 1811-19.

NLW 3027E: Copi ffacsimili o gyfrol sy'n parhau yn llyfrgell Plas Mostyn. Gweler Mostyn 96 isod.

NLW 3038B (Mostyn 130): Cyfrol o farddoniaeth yn bennaf yn llaw Siôn Dafydd Las (ac yn cynnwys peth o'i waith) ac yn dyddio rhwng oddeutu 1687 a 1694.

NLW 4971C: Casgliad o farddoniaeth, yn bennaf o waith Huw Morys, Edward Morris a beirdd o Sir Feirionnydd. Ac eithrio un gerdd, yn llawysgrifen John Beans rhwng 1752 a 1754.

NLW 4995E: *Ysgriflyfr 'Meudwy Môn'*. Cyfrol amrywiol o farddoniaeth a rhyddiaith yn llawysgrif Owen Jones (Meudwy Môn) yn bennaf, wedi ei gasglu o ffynonellau printiedig a llawysgrifol yn yr 19g.
http://isys.llgc.org.uk/isysquery/irl43ab/110/doc.

NLW 11087B: Casgliad o farddoniaeth mewn sawl llaw ond yn bennaf yn llawysgrifen Peter Vaughan, Abergele, oddeutu 1688. Ceir hefyd gasgliad o achau teuluoedd lleol, gan gynnwys manylion am bum plas y Mostyniaid yn 1682.

NLW 11567D: Cyfrol o farddoniaeth yn llawysgrifen Hugh Jones 'Cowper', oddeutu 1755, yn cynnwys gwaith Siôn Tudur, Edward Morris a beirdd lleol y cyfnod.

NLW 11999B: Casgliad o farddoniaeth o waith nifer o feirdd, gan gynnwys Rhys Cadwaladr, Morys Parry a Siôn Edward, yn bennaf yn llawysgrifen John Parry, Llanelian, diwedd y18g a dechrau'r 19g.

NLW 17528A: Cyfrol yn cynnwys barddoniaeth Gymraeg gan nifer o feirdd, a rhai caneuon Saesneg. Yn llawysgrifen Hugh Evans, morwr o Gaernarfon, ac yn dyddio o 1770-1, ac englynion o waith William Williams hefyd wedi eu cynnwys yn llaw y bardd.

NLW 21252B: Cyfrol o farddoniaeth yn llaw John Jones pan oedd ym Mhlas Mostyn yn 1725, hefyd yn cynnwys cerddi ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal. Mae'n debyg mai copi o lawysgrif 'Llyfr Cadwalader y gô' yw rhan gyntaf y llawysgrif, llawysgrif sydd yn debyg iawn i gynnwys llawysgrif Llansteffan 49.

Peniarth 124: Cyfrol o farddoniaeth Owen Gruffydd, Gruffydd Phylip a beirdd eraill ac yn dyddio oddeutu 1714, ac yn bennaf mewn un llaw anhysbys.

Peniarth 198: *Y Llyfr Brith o Gors y Gedol*. Cyfrol wedi ei hysgrifennu oddeutu 1700, i Griffith Roberts, Sygyn, Nanmor a Rhiwgoch, Trawsfynydd, ac efallai ei fod yn ei lawysgrifen ef, ynghyd â rhai eraill. Y tudalennau wedi eu rhoi mewn trefn gan Lewys Morris yn 1745. Yn cynnwys cerddi gan nifer o feirdd ac achau teulu Griffith Roberts.

Peniarth 200: Barddoniaeth, yn bennaf gan Edward Morris ac yn ei lawysgrifen, yn y cyfnod oddeutu 1673 i 1689. Rhai ychwanegiadau o englynion a phenillion yn llawysgrifen eraill.

Peniarth 245: Barddoniaeth gan feirdd o'r 16g-18g., yn llawysgrifen John Davies, Bronwiau, Brithdir, oddeutu 1723-6, peth ychwanegiadau gan eraill.

Plas Nantglyn 2: Cyfrol o bregethau a barddoniaeth, yn Gymraeg a Saesneg, ac yn llawysgrifen Foulk Wynn, Nantglyn, a Robert Lloyd, Segrwyd Uchaf, saer, rhwng 1625-1688. Mae rhai o'r cerddi o waith Foulk Wynn ac ychwanegwyd englynion yn ddiweddarach mewn sawl llaw.

Wynnstay 7: Cyfrol wedi ei wneud gan William Elias yn 1726 ac yn cynnwys ei waith barddol a barddoniaeth ei athro, Owen Gruffydd. Yn bennaf yn llawysgrifen William Elias, ond rhai beirdd eraill hefyd wedi ychwanegu eu cerddi i'r gyfrol rhwng 1726-30.

Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain

Nodir y llawysgrifau fel B[rhifau] ar 'Maldwyn', adnodd electroneg y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth ond mae'r Llyfrgell Brydeinig yn eu cofnodi fel B. Add. [Additional] ar ei chronfa ddata.

Add. 14876: Casgliad o farddoniaeth Gymraeg, yn llaw Richard Morris a Lewis Morris, rhwng 1722 a 1749.

Add. 14890: Dwy lawysgrif, o ddiwedd yr 17g. a dechrau'r 18g. o farddoniaeth Gymraeg, un yn llawysgrif James Davies ac wedi eu cyfuno erbyn canol y 18g.

Add. 14962: Casgliad o waith amryw o feirdd, yn llawysgrifen Owen Jones yn bennaf, ond gydag ychwanegiadau diweddarach gan eraill. Yn dyddio oddeutu 1768 ac ymlaen .

Add. 14975: Casgliad o farddoniaeth Gymraeg yn dyddio o ddechrau'r 17g, yn bennaf o waith Tudur Aled, Wiliam Llŷn a Rhys Cain a rhan o'r llawysgrif yn llaw Rhys Cain. Hefyd yn cynnwys dwy ddrama o waith Wiliam Cynwal ac ychwanegiadau diweddarach o farddoniaeth, yn llaw Siôn Dafydd Las ac eraill, o waith beirdd yn gysylltiedig â Gloddaith oddeutu 1686. Ychwanegwyd carol ac englyn i'r llawysgrif yn 1727.

Add. 15010: *Y Digrif Doeth*. Casgliad yn cynnwys barddoniaeth ac achau yn llawysgrifen William Roberts yn bennaf, yn y cyfnod 1757-63.

Add. 31093: Casgliad o farddoniaeth Gymraeg yn llawysgrifen Owen Jones a'i nai, Huw Maurice, o'r 19g.

Llyfrgell Plas Mostyn, Mostyn

Mostyn 96: Llawysgrif yn llaw y bardd Siôn Dafydd Las ac yn cynnwys nifer o gerddi o'r 17g. i aelodau o deulu Mostyn, gyda cherddi i genedlaethau cynharach o'r teulu hefyd wedi eu cofnodi yn yr un llawysgrifen. Cyfrol 14 x 9 modfedd; papur, wedi'i rhwymo gyda felwm gwyn, ac yn dyddio ar ôl 1674. [Ceir copi ffacsimili yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth – NLW 3027E, Mostyn 96 – ac yn Archifdy Prifysgol Bangor – Bangor (Mostyn) 9081.]

Taflen rydd o gerdd 6: 'Cywydd Marwnad Syr Rosier Mostyn', o waith Owen Gruffydd, Llanystumdwy. Darganfuwyd y daflen yn llyfrgell Plas Mostyn ymysg papurau'r teulu gan Shaun Evans yn 2010 wrth ymchwilio ar gyfer ei ddoethuriaeth.

Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Caerdydd 1.5 (Caerdydd 23): Cyfrol o farddoniaeth, yn bennaf yn llaw Foulk Owen yn y cyfnod rhwng 1673 a 1691. Ychwanegiadau pellach o farddoniaeth, yn debygol yn llaw y beirdd, ac yn cynnwys gwaith Edward Morris ymysg eraill.

Caerdydd 4.156 (Caerdydd 64): Yn cynnwys barddoniaeth amrywiol o'r 16g. hyd at ddechrau'r 18g. Yn llawysgrifen Margaret Davies ac o'r cyfnod 1736-37, gyda pheth ychwanegiadau diweddarach.

Caerdydd 4.9: Cyfrol amrywiol yn cynnwys barddoniaeth Gymraeg a rhyddiaith yn llawysgrifen William Jones, Llangadfan, ar gyfer Edward Jones, Bardd y Brenin, yn 1794.

Caerdydd 4.10 (Caerdydd 84): Cyfrol o gywyddau, yn bennaf yn llawysgrifen Dafydd Jones, Trefriw. Hefyd yn cynnwys barddoniaeth o oddeutu 1730-36, yn llawysgrifen eraill. Wedi ei rhwymo gyda moroco gwyrdd i Edward Jones, Bardd y Brenin.

Caerdydd 5.10i (Caerdydd 48): Cywyddau ac englynion o'r 14g-18g, yn llaw William Griffith, Dolgellau, oddeutu 1750.

Caerdydd 5.30 (Caerdydd 65): Barddoniaeth o'r 14g-17g yn llawysgrifen Siôn Dafydd Las, y llawysgrif yn dyddio rhwng 1682 a 1684. Hefyd yn cynnwys ei farddoniaeth a beirdd y cyfnod, a gwaith Edward Morris yn ei law ei hun. Ychwanegiadau diweddarach oddeutu 1737 yn llaw Margaret Davies, ac englynion Lewis Morris yn ei law ef.

Archifdy Sir y Fflint, Penarlag

D/M/7155: Taflenni yn cofnodi marwnad Tomas Mostyn, yn wreiddiol wedi eu rhwymo mewn cyfrol anhysbys ond bellach yn rhydd. *D/M/Mostyn MSS*, Cyfrol 6, 7, (catalog heb ei gyhoeddi).

Llawysgrifau ychwanegol

Archifdy Prifysgol Bangor

Bangor (Mostyn) 711: Llawysgrif yn ddyddiedig 1801 yn cofnodi coeden deulu Savage, Sir Gaer a nodiadau am aelodau'r teulu. Nodir hefyd y cysylltiad â theulu Mostyn drwy briodas Bridget Savage a Tomas Mostyn. E Gwynne Jones, *A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection,* I, 93, (cyfrol heb ei chyhoeddi).

Bangor (Mostyn 9066-9076): Llythyrau amrywiol wedi eu hanfon neu eu derbyn gan aelodau o deulu Mostyn rhwng 1672 a 1740. E Gwynne Jones, *A Calendar of (Bangor) Mostyn Additional Manuscripts,* VII, 1-155, (cyfrol heb ei chyhoeddi).

Llyfrgell Prifysgol Bangor

Flintshire, Denbighshire and North Wales Pedigrees – [llun gopi o lawysgrif Harley 1971 a 1972, wedi ei rwymo]. Llawysgrif o waith Jacob Chaloner, gydag ychwanegiadau Randle Holme II, Randle Home III a Randle Holme IV, yn dyddio o'r cyfnod 1623-1705. Yn cynnwys casgliad o achau teuluoedd gogledd Cymru ynghyd â'u harfbeisiau.

Llyfryddiaeth - Llyfrau, Erthyglau a Thraethodau Ymchwil

Awdur anhysbys , *The Parliamentary or Constitutional History of England, from the Earliest Times to the Restoration of Charles II*, VII (Llundain, 1763)

Awdur anhysbys, *A Catalogue of the Harleian Manuscripts, in the British Museum, with Indexes of Persons, Places and Matters*, II (Llundain, 1808)

Awdur anhysbys, *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, 1 (Aberystwyth, 1940-2003)

Awdur anhysbys, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts* (1980, 1993, 1994, 1996)

Awdur anhysbys, *Peniarth MSS: A Catalogue of Additional Manuscripts* (1990)

Golygydd anhysbys, *A Select Collection of English Plays from the Best Authors*, III (Caeredin, 1759)

Golygydd anhysbys, *The Cambro-Briton: September, 1819-August, 1820*, 1 (Llundain, 1820)

Golygydd anhysbys, 'Character of Hunting Countries, no. 1: The Mostyn Hunt', *The New Sporting Magazine*, II, 7 (1831), 206-210.

Armstrong, George Francis., *The Ancient and Noble Family of the Savages of the Ards, with Sketches of English and American Branches of the House of Savage* (Llundain, 1888)

Ashton, Glyn M., 'Arolwg ar Brydyddiaeth Gymraeg, 1801-25', *Llên Cymru*, 14 (1984), 224-252.

Bannerman, Nigel, a Jones, Cecil, 'Fish-Trap Types: A Component of the Maritime Cultural Landscape', *The International Journal of Nautical Archaeology (1999)* 28.1: 70-84, vol. 28 (1999), 70-84.

Barnwell, E. L. 'Bodrhyddan Memoirs', *Archaeologia Cambrensis* (1864), 320-328.

Bartrum, Peter C., 'Bonedd Henrri Saithved', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,*14 (1966), 330-334.

---. *Welsh Genealogies, A.D. 300 - 1400,* III (Aberystwyth, 1974)

---. *Welsh Genealogies, A.D. 300-1400,* IV(Aberystwyth, 1974)

---. *Welsh Genealogies, AD 1400-1500,* X (Aberystwyth, 1983)

Bedingfield, Edmund, *The Life of Margaret Mostyn (Mother Margaret of Jesus): Religious of the Reformed Order of our Blessed Lady of Mount Carmel, 1625-1679* (Llundain, 1878)

Betham,William, *The Baronetage of England: Or the History of the English Baronets, and such Baronets of Scotland as are of English Families, with Genealogical Tables and Engraving of their Armorial Bearings* (Llundain,1802)

Bezant-Lowe, W. , *The Heart of Northern Wales* (Llanfairfechan, 1912)

Boothman, Lyn, Parker, Richard Hyde, a Dymond, David, *Savage Fortune: An Aristocratic Family in the Early Seventeenth Century* (Woodbridge, 2006)

Bowen, D. J., 'Agweddau ar Ganu'r Unfed Ganrif ar Bymtheg', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* (1969), 284-335.

---. 'Graddedigion Eisteddfod Caerwys', *Llên Cymru,* 2 (1952), 129-134.

---. 'Carcharu Ithel a Rhys ab Ieuan Fychan', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* VIII (1953), 119-120.

---. 'Gruffudd Hiraethog ac Argyfwng Cerdd Dafod', *Llên Cymru,* II (1953), 147-160.

---. 'Ail Eisteddfod Caerwys a Chais 1594', *Llên Cymru,* III (1954-1955), 139-161.

---. *Gruffudd Hiraethog a'i Oes* (Caerdydd, 1958)

---. 'Croesoswallt y Beirdd', *Y Traethodydd,* CXXXV (1980), 137-143.

---. 'Canrif Olaf y Cywyddwyr', *Llên Cymru,* XIV (1981-82), 1-51.

---. *Dafydd Ap Gwilym a Dyfed* (Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun a'r Fro, 1986)

---. 'Siân Mostyn, "Yr Orau o'r Mamau ar Sydd yn Traythu Iaith Gamberaec", Williams, J E Caerwyn, (gol.), *Ysgrifau Beirniadol,* XVI (1990), 111-126.

---. 'Taleithiau'r Gwŷr Wrth Gerdd', *Llên Cymru,* XVII (1992), 139-142.

---. 'Graddau Barddol Tudur Aled', *Llên Cymru,* XVIII (1994), 90-103.

---. 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif (I & II)', *Llên Cymru,* XVIII (1994-95), 53-89, 221-257.

---. 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif (III)', *Llên Cymru,* XIX (1996), 1-28.

Bowen, Ivor, 'John Williams of Gloddaeth', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 1927-1928 (1929), 1-91.

Brasenose College, *Brasenose College Register: 1509-1909*, I (Rhydychen, 1909)

Brewer, E. Cobham, *Dictionary of Phrase and Fable* (Efrog Newydd, 2000)

Bromwich, Rachel, *Aspects of the Poetry of Dafydd Ap Gwilym:Collected Papers* (Caerdydd, 1986)

---. *Trioedd Ynys Prydein:The Triads of the Island of Britain* (Caerdydd, 2006).

Bruce, John, *Liber Famelicus of Sir James Whitelocke: A Judge of the Court of King's Bench* (Llundain, 1858)

Burke, John, *A General and Heraldic Dictionary of the Peerage of England, Ireland, and Scotland, Extinct, Dormant, and in Abeyance* (Llundain, 1831)

---. *A Genealogical and Heraldic History of the Extinct and Dormant Baronetcies of England*, 2nd edn (Llundain, 1841)

---. *A General and Heraldic Dictionary of the Peerage and Baronetage of the British Empire*, II (Llundain, 1883)

Burke, John Bernard, *A Genealogical and Heraldic Dictionary of the Landed Gentry of Great Britain and Ireland for 1852: Comprising Particulars Upwards of 100,000 Individuals*, I (Llundain, 1852)

Burke, John, a Burke, John Bernard, *A Genealogical and Heraldic History of the Extinct and Dormant Baronetcies of England* (Llundain, 1838)

Burton, John, Walters, Liza, a Trill,Suzanne, 'The Earlier Seventeenth Century: General and Prose', *The Year's Work in English Studies*, VIII (2009), 1-23.

Camden, William, Lhuyd, Edward, a Morden, Robert et al. , *'Camden's Wales, being the Welsh Chapters Taken from Edmund Gibson's Revised & Enlarged Edition of William Camden's Britannia (1722);Tr. from the Latin, with Additions'* (Caerfyrddin, 1984)

Caradoc, Llwyd, Humphrey, Powell, David, et al. , *'The Historie of Cambria, Now Called Wales: A Part of the most Famous land of Brytaine, Written in the Brytish Language Aboue Two Hundreth Yeares Past'* (Llundain, 1584)

Carr, A. D. 'The Mostyn Family and Estate, 1200-1642', Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, Bangor (1976)

---. 'Rhys Ap Rhobert', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 25 (1976), 156-163.

---. 'Medieval Gloddaith', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 38 (1977), 7-32.

---. 'The Mostyns of Mostyn, 1540-1642, Part I', *Flintshire Historical Society Journal,* 28 (1977-1978), 17-37.

---. 'The Making of the Mostyns: The Genesis of a Landed Family', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* (1979), 137-157.

---. 'Gloddaith and the Mostyns, 1540-1642', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon,* 41 (1980), 33-57.

---. 'The Mostyns of Mostyn, 1540-1642, II', *Flintshire Historical Society Journal,* 30 (1981-1982), 125-144.

---. ' Pengwern: A Medieval Family', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 31 (1982), 5-27.

---. 'Lineage, Power and Land in Medieval Flintshire: The Descendants of Ithel Fychan', *Flintshire Historical Society Journal*, 36 (2003), 59-81.

Chandler, Jacob, Holme, R., Holme, R., a Holme, R., *Flintshire, Denbighshire and North Wales Pedigrees: British Museum Mss.Catalogue; Harley 1971 & 1972* (Llundain)

Charles, R. Alun, 'Teulu Mostyn fel Noddwyr y Beirdd', *Llên Cymru*, IX (1966-67), 74-110.

---. 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth (1967)

---. 'Casgliad Teipiedig o Waith Edward Ap Raff', Cyfrol 91,(Misc. Vol), Llyfrgell Gendlaethol Cymru (1970)

---. 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', *Llên Cymru*, XII (1972), 3-44.

Chrimes, S. B., Hearder, Harry, a Loyn, H. R., *British Government and Administration; Studies Presented to S. B. Chrimes* (Caerdydd, 1974)

Clarke, Simone, a Roberts, Michael, *Women and Gender in Early Modern Wales* (Caerdydd, 2000)

Costigan, N.G., Daniel, R. Iestyn, a Johnston, Dafydd, *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth, 1995)

Crossley, Fred H., *Cheshire* (Llundain, 1949)

Cruickshanks, Eveline, Handley, Stuart a Hayton, David, *The History of Parliament: The House of Commons, 1690- 1715* (Caergrawnt, 2002)

Daniel, R. Iestyn, *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth, 1999)

Davies, Alun Eirug, *Traethodau Ymchwil Cymraeg a Chymreig a Dderbyniwyd gan Brifysgolion Prydeinig, Americanaidd ac Almaenaidd, 1887- 1971. Welsh Language and Welsh Dissertations accepted by British, American and German Universities, 1887-1971* (Caerdydd, 1973)

---. *Welsh Language and Welsh Dissertations, 1887-1996. Traethodau Ymchwil Cymraeg a Chymreig, 1887-1996* (Caerdydd, 1998)

Davies, Aled Lloyd, *Gwŷr Wrth Gerdd* (Rhuthun, 1981)

Davies, Dyfrig, 'Astudiaeth Destunol o Waith Siôn Mawddwy', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth (1965)

Davies, Edward, *Traethawd ar Enwogion Swydd Feirion, Hen a Diweddar, yn Gelfyddydwyr, Beirdd, Gwyddonwyr, Pregethwyr &c., &c.: Buddugol yn Nghylchwyl Lenyddol Blaenau Ffestiniog, Llun y Sulgwyn 1870* (Caernarfon, 1870)

Davies, Elizabeth M., 'Noddwyr y Beirdd yn Llŷn', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru (1973)

Davies, Glenys, *Noddwyr Beirdd ym Meirion* (Dolgellau, 1974)

Davies, J. Glyn, *Welsh Metrics* (Llundain, 1911)

Davies, J. H., 'The Roll of the Caerwys Eisteddfod of 1523', *Transactions of the Liverpool Welsh National Society,* 20-24 (1904/05-1908/09), 87-102.

---. *A Catalogue of the Cwrtmawr Music Manuscripts* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2004)

Davies, R. R., 'Owain Glyn Dŵr and the Welsh Squierarchy', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1968), 150-69.

---. *Lordship and Society in the March of Wales, 1282-1400* (Rhydychen, 1978)

---. *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Rhydychen, 1995)

Davies, R. R., a Jenkins, Geraint H., *From Medieval to Modern Wales: Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Caerdydd, 2004)

Davies, Walter, a Morus, Huw, *Eos Ceiriog: Sef, Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morus yn Ddau Llyfr; o Gynnulliad a Diwygiad W. D* (Wrecsam, 1823)

Davies, W. Ll., *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943)

Davies, William Ll., 'Phylipiaid Ardudwy – A Survey and a Summary', *Y Cymmrodor*, XLII (1930), 155-239.

Delahunty, Andrew, a Dignen, Sheila, *Oxford Dictionary of Reference and Allusion* (Rhydychen, 2012)

Dineley, Thomas, *The Account of the Official Progress of His Grace Henry the First Duke of Beaufort (Lord President of the Council in Wales and Lord Warden of the Marches) through Wales in 1684 :By Photo-Lithography from the Original Ms. of Thomas Dineley in the Possession of His Grace, the Eighth Duke of Beaufort* (Llundain, 1888)

Dodd, A. H. , *Studies in Stuart Wales* (Caerdydd, 1952)

---. *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd, 1971)

Draper, Christopher, *Llandudno before the Hotels, 10,000 B.C. - 1854 A.D.* (Llwyndyrys, 2007)

Earwaker, J. P. , *East Cheshire: Past and Present; Or, A History of the Hundred of Macclesfield, in the County Palatine of Chester. from Original Records* (Llundain, 1877)

Ebblewhite, E. A., 'Flintshire Genealogical Notes', *Archaeological Cambrensis* (1892), 315-325.

Edwards, Huw M., 'Murnio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-Farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned,* 5 (1999), 47-70.

---. 'Dwyn Marwnadau Adref', *Llên Cymru,* 23 (2000), 21-38.

Edwards, Hywel Teifi, *Yr Eisteddfod: Cyfrol Ddathlu Wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976* (Llandysul, 1976)

Edwards, Owen Morgan, 'Rowland Huw', *Cymru,* I (1891), 107-110.

---. *Gwaith Owen Gruffydd o Lanystumdwy* (Llanuwchllyn, 1904).

---. *Beirdd y Bala* (Llanuwchllyn, 1911)

Edwards, Owen Morgan, a Morus, Edward, *Gwaith Edward Morus o'r Perthi Llwydion* (Llanuwchllyn, 1904)

Edwards, Stanley J, *Eglwys Rhos (Llan Rhos) Parish Church: A Brief History and Description* (1955)

Edwards, Thomas., *Gardd o Gerddi : Neu, Gasgliad o Ganiadau : Sef, Carolau, Marwnadau, Cerddi, Awdlau, Englynion, Cywyddau, &c* (Llundain, 1826)

Elias, Twm, *Tro Drwy'r Tymhorau: Almanac o Wyliau a Dathliadau'r Flwyddyn* (Llanrwst, 2007)

Ellis, John S., 'The Prince and the Dragon: Welsh National Identity and the 1911 Investiture of the Prince of Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru,*18 (1996-97), 272-294.

Ellis, Mary. 'Angharad Llwyd, 1780-1866', *Flintshire Historical Society Publications,* 26 (1973-74), 52-95.

Ellis, Osian, *The Story of the Harp in Wales*, (Caerdydd, 1991)

---. 'Hanes y Delyn yng Nghymru', *Allwedd y Tannau,* 51 (1992), 48-63.

Estcourt, Edgar E., a Payne, John Orlebar (goln), *The English Catholic Nonjurors of 1715: Being a Summary of their Estates with Geneological and Other Notes* (Llundain, 1885)

Evans, Evan, (Ieuan Brydydd Hir), *Some Specimens of the Poetry of the Ancient Welsh Bards, Translated into English, with Explanatory Notes on the Historical Passages, and a Short Account of Men and Places Mentioned by the Bards,* (1764, Llanidloes, 1826)

Evans, Evan, Roberts, William John, a Parry, Richard, *Geirionydd: Cyfansoddiadau Barddorol, Cerddorol, a Rhyddieithol, y diweddar Barch. Evan Evans (Ieuan Glan*

Geirionydd). Wedi eu Casglu a'u Trefnu gan ei Nai, W.J. Roberts, Trefriw, gyda Nodiadau ar ei Fywyd a'i Weithiau Llenyddol (Rhuthun, 1862)

Evans, Idris, *Hard Road to London: A Graphic Account of the Lives of the Welsh Drovers* (Rhuthun, 2008)

Evans, J. Gwenogvryn, *Report on Manuscripts in the Welsh Language: The Welsh Manuscripts of Lord Mostyn at Mostyn Hall, Co. Flint*, I (Llundain, 1898)

---. *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (Llundain, 1898-1919)

---. *Report on Manuscripts in the Welsh Language: Jesus College, Oxford, Free Library, Cardiff, Havod; Wrexham; Llanwrin; Merthyr; Aberdâr*, II (Llundain, 1902)

---. *The Poetry in the Red Book of Hergest* (Llanbedrog, 1911)

Evans, Meredydd, *Allwedd y Tannau*, 50 (1991), 48-56.

---. *Allwedd y Tannau*, 51 (1992), 58-63.

Evans, Meredydd, a Kinney, Phyllis, 'Hanes a Datblygiad Canu Gyda'r Tannau', *Hanes Cerddoriaeth Cymru/Welsh Music History*, 6 (2004), 155-173.

Evans, R. Paul, 'Reverend John Lloyd of Caerwys (1733-93): Historian, Antiquarian and Genealogist', *Flintshire Historical Society Journal*, 31 (1983-84), 109-124.

Farmer, David Hugh, *The Oxford Dictionary of Saints* (Oxford, 2003)

Farquhar, George, *The Constant Couple: Or, A Trip to the Jubilee; A Comedy Acted at the Theatre-Royal in Drury-Lane, by His Majesty's Servants* (Llundain, 1735)

Fells, Richard, a Grevatt, Tim, *A Visitor's Guide to Underground Britain: Caves, Caverns, Mines, Tunnels, Grottoes* (Exeter, 1989)

Fisher, John, *The Cefn Coch Mss: Two Mss. of Welsh Poetry Written Principally during the 17th Century* (Lerpwl, 1899)

Fitch, Edward A., a Smith, C. Fell, *The Essex Review: An Illustrated Quarterly Record of Everything of Permanent Interest in the County,* IX (Llundain, 1900)

Foley, Henry, *Records of the English Province of the Society of Jesus,* 4 (Llundain, 1878)

Fowler, Alastair, *The Country House Poem: A Cabinet of Seventeenth-Century Estate Poems and Related Items* (Caeredin, 1994)

Fraser, Maxwell, *West of Offa's Dyke* (Llundain, 1959)

Fychan, Cledwyn, 'Tudur Aled: Ailystyried Ei Gynefin', yn Gruffydd, R. Geraint (gol.), *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 23ain argraffiad, (1983-84), 45-74.

Gittings, Clare, *Death, Burial and the Individual in Early Modern England* (Llundain, 1984)

Glenn, Thomas Allen, 'Notes on the Conways of Plas yn y Nant', *Northern Flintshire: Historical, Genealogical and Archaeological,* 1 (1913), 55-58.

---. 'Plas yn y Nant', *Northern Flintshire: Historical, Genealogical and Archaeological,* 1 (1913), 26-30.

---. 'Ithel Vychan of Halkyn, and some of his Descendants', *Archaeological Cambrensis,* 136 (1922), 135-146.

---. *The Family of Griffith of Garn and Plasnewydd in the County of Denbigh* (Llundain, 1934)

Greenhill, Peter, 'Fformiwlâu Melodig yn Llawysgrif Robert Ap Huw ', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 3 (1999), 237-251.

Griffith, John Edward, *Pedigrees of Anglesey and Caernarfon Families with the Collateral Branches in Denbighshire, Merionethshire and Other Parts* (Wrecsam, 1914)

Griffith, W. P., *Learning, Law and Religion: Higher Education and Welsh Society c.1540-1640* (Caerdydd, 1996)

Griffiths, Bruce, a Jones, Dafydd Glyn, *The Welsh Academy English-Welsh Dictionary =Geiriadur Yr Academi* (Caerdydd, 1995)

Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan, a Morrice, J. C., *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan* (Bangor, 1910)

Gruffydd, R. Geraint (gol.), *A Guide to Welsh Literature c. 1530-1700* (Caerdydd, 1977)

---. *Argraffwyr cyntaf Cymru: gwasgau dirgel y Catholigion adeg Elisabeth* (Caerdydd, 1972)

---. *'Athro Pawb Oedd': Golwg Ar Ddafydd Ap Gwilym* (Llandybïe, 1992)

---. 'Gwasg Ddirgel yr Ogof yn Rhiwledyn', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Cyfrol 9, Rhif 1 (1958), 1-23.

Gruffydd, R. Geraint, a Jones, Bedwyr Lewis, *Llenyddiaeth y Cymry* (Llandysul, 1989)

Gruffydd, William John, *Llenyddiaeth Cymru, Rhyddiaith o 1540 hyd 1660* (Wrecsam, 1926)

---. *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922)

Guilday, Peter, *The English Catholic Refugees on the Continent 1558-1795 – Vol. 1, the English Colleges and Convents in the Catholic Low Countries, 1558-1795* (Llundain, 1914)

Gutun Owain a Bachellery, Edouard, *L'Oeuvre Poetique De Gutun Owain, Barde Gallois De La Deuxieme Moitie Du Quinzieme Siecle;Edition Critique Du Texte Avec Traduction Et Notes* (Paris, 1950)

Gweinidogion yr Eglwys Sefydledig (goln.), 'Barddoniaeth', *Y Gwyliedydd,* Llyfr II (Bala, 1824)

Gwyndaf, Robin, 'Some References in Welsh Poetry to Sixteenth and Early Seventeenth Century New and Rebuilt Houses in North-East Wales', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 22 (1973).

Hallet, Nicky, 'Lives of Spirit: English Carmelite Self-Writing of the Early Modern Period', in Travitsky, Betty S., Prescott, Anne Lake (goln.), *The Early Modern Englishwoman 1500-1750 Contemporary Editions* (Aldershot, 2008)

Hanks, Patrick; Harcastle, Kate, a Hodges, Flavia, *A Dictionary of First Names* (Rhydychen, 2006)

Harper, Sally, 'Music in the Welsh Household c. 1580-1620', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 21 (2003), 621-645.

---. 'Instrumental Music in Medieval Wales', *North American Journal of Welsh Studies*, 4 (2004), 20-42.

---. *Music in Welsh Culture before 1650: A Study of the Principal Sources* (Aldershot, 2007)

Harper, Sally, a Thomas, Wyn, *Cynheiliaid y Gân/Bearers of Song* (Caerdydd, 2007)

Harries, Gerallt, 'Ail Eisteddfod Caerwys', *Llên Cymru*, III (1954-1955), 24-31.

Harry, George Owen, a Jones, E. D., 'Well-Spring of True Nobility; Presidential Address', *Archaeologia Cambrensis* (1963), 4-5.

Hayes, Gerald Ravenscourt, *Musical Instruments and their Music, 1500-1750* (Llundain, 1928)

Headley, Gwyn, a Meulenkamp, Wim, *Follies: Grottoes & Garden Buildings* (Llundain, 1999)

Heald, G. O., 'Pentre Foelas', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 23 (1974), 264-285.

Hemingway, Joseph, *Panorama of the Beauties, Curiosities, and Antiquities of North Wales: Exhibited in its Mountains, Valleys, Waterfalls, Lakes, Cities and Towns, Castles and Ruins, etc. : Intended as a Pocket Companion to the Tourist and Traveller* (Llundain, 1844)

Hewitt, Herbert James, *Mediaeval Cheshire; an Economic and Social History of Cheshire in the Reigns of the Three Edwards'* (Manceinion, 1929)

Hicklin, John, *The Hand-Book to Llandudno and its Vicinity* (Llundain, 1858)

Hilling, John B, *The Historic Architecture of Wales: An Introduction* (Caerdydd, 1976)

Hiraethog, Gruffudd, a Bowen, D. J. (gol.), *Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd, 1990)

Hoiberg, Dale H, Pappas, Theodore N, a Mackenzie, Marsha, *Britannica Concise Encyclopedia* (Chicago, 2003)

Holt, Geoffrey, *St Omar's and Bruges Colleges 1593-1773: A Bibliographical Dictionary* (Catholic Record Society, 1979)

Hornblower, Simon, a Spawforth, Antony, *The Oxford Classical Dictionary* (Efrog Newydd, 1996)

Howard, Sharon, 'Riotous Community: Crowds, Politics and Society in Wales, c. 1700-1840', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 20 (2001), 656-686.

Hubbard, Edward , *The Buildings of Wales: Clwyd (Denbighshire and Flintshire)* (Harmondsworth, 1986)

Hughes, Arwyn Lloyd, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Feirionnydd', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, (1969)

Hughes, Garfield H., 'Cefndir Meddwl yr Ail Ganrif Ar Bymtheg: Rhai Ystyriaethau', *Efrydiau Athronyddol*, XVIII (Caerdydd, 1955), 31-41.

---. ‘Ffasiynau'r Dadeni’, yn Williams, J. E. Caerwyn (gol.)., *Ysgrifau Beirniadol*, V (Dinbych, 1970), 62-70.

Hughes, Hugh, *Edward Morris, y Bardd o Berthi Llwydion, Plwyf Cerrig-y-Drudion, Sir Ddinbych, ei Achau Gyda'r Rhan Fwyaf o'i Weithiau Barddonol, yn cynnwys caniadau, cywyddau, penillion, ar wahanol destynau, a charolau Nadolig; hefyd marwnadau am yr anrhydeddus fardd, Edward Morris, o waith Hugh Morris, Glyn Ceiriog; ac eraill* (Lerpwl, 1902)

Hughes, Meredith J., 'Notes on Tegeingl', *Flintshire Historical Society Publications,* 7 (1920), 90-98.

Hughes, Philip Gwyn, *Wales and the Drovers* (Caerfyrddin, 1988)

Huws, Bleddyn Owen, 'Golwg Ar y Canu Gofyn', yn Williams, J. E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol,* XXI (Dinbych, 1996), 37-50.

---. *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350-c.1630* (Caerdydd, 1998)

Huws, Daniel, *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd ac Aberystwyth, 2000)

---. *Repertory* [Cyfrol heb ei chyhoeddi.]

Hyde, Edward , *The History of the Rebellion and Civil Wars in England to which is Added a View of the Historical Affairs of Ireland'*, III (Rhydychen, 1826)

Iolo Goch, Lewis, Henry, Roberts, Thomas, a Williams, Ifor, (goln.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill, 1350-1450* (Caerdydd, 1937)

James, Daniel Lynn, 'Bywyd a Gwaith Huw Machno', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Abertawe, (1960)

James, T., *Camden's Wales being the Welsh Chapters Taken from Edmund Gibson's Revised & Enlarged Edition of William Camden's BRITANNIA (1722)* (Caerfyrddin, 1984)

Jarman, A. O. H., Hughes, Gwilym Rees, a Johnston, Dafydd, (goln.), *A Guide to Welsh Literature* (Caerdydd, 1992; 2000)

Jarvis, Branwen, 'Llythyr Siôn Dafydd Rhys at y Beirdd', *Llên Cymru*, XII (1972), 45-56.

Jenkins, David, 'Bywyd a Gwaith Huw Morys (Pont y Meibion) 1622-1709', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, (1948)

---. 'Carolau Haf a Nadolig', *Llên Cymru*, II (1952-1953), 46-54

Jenkins, Geraint H., *Literature, Religion and Society in Wales, 1660-1730* (Caerdydd, 1978)

---. *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997)

Jenkins, R. T., a Ramage, Helen M., *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion and of the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies, 1751-1951* (Llundain, 1951)

Jenkins, Simon, *Wales: Churches, Houses, Castles* (Llundain, 2008)

Johnston, D. R. (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988)

Johnston, Dafydd, *Llên Yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005)

Johnston, Dafydd, Edwards, Huw Meirion, Evans, Dylan Foster, et al., *Cerddi Dafydd Ap Gwilym* (Caerdydd, 2010)

Jones, Bobi, *I'r Arch : Dau o Bob Rhyw : Ysgrifau Llên a Hanes* (Llandybie, 1959)

---. *Llên Cymru a Chrefydd ; Diben y Llenor* (Abertawe, 1977)

Jones, Dafydd Glyn, a Jones, John Ellis, *Bosworth a'r Tuduriaid* (Caernarfon, 1985)

Jones, David, *Blodeu-Gerdd Cymry: Sef Casgliad o Caniadau Cymreig, Gan Amryw Awdwyr o'r Oes Ddiwaethaf. Yr Hwn a Gynnwys Draethiadau Duwiol, a Ddiddanol; y Rhai Ni Fuant Gyhoeddedig Mewn Argraph o'r Blaen / O gynnulliad Dafydd Jones, o Drefriw* (Amwythig, 1779)

---. *Blodeu-Gerdd Cymry; Sef Casgliad o Ganiadau Cymraeg* (Treffynnon, 1823)

Jones, David James [Gwenallt], *Yr Areithiau Pros* (Caerdydd, 1934)

Jones, E. Alfred, *Memorials of Old North Wales* (Llundain, 1913)

Jones, E. D., 'A Welsh Pencerdd's Manuscripts', *Celtica,* 5 (1960), 17-27.

---. 'Presidential Address', *Archaeologia Cambrensis,* CXII (1963), 1-12.

---. 'The Brogyntyn Manuscripts, IV', *National Library of Wales Journal*, 6, rhan 1, Haf 1949, 1-42.

Jones, Emyr Gwynne, 'Catholic Recusancy in the Counties of Denbigh, Flint and Montgomery, 1581-1625', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1945), 114-133.

---. *Cymru a'r Hen Ffydd* (Caerdydd, 1951)

Jones, Gwenllian, 'Bywyd a Gwaith Edward Morris, Perthi Llwydion', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, (1941)

Jones, Gwen Saunders, 'Fy Nhad a Ddywede am Hyn: Agweddau ar Farddoniaeth Alis Ferch Gruffudd', Traethawd Ph.D. Prifysgol Bangor, (2010)

Jones, Huw, *Cydymaith Byd Amaeth*, 1 (Llanrwst, 1999)

---. *Cydymaith Byd Amaeth'*, 4 (Llanrwst, 2001)

Jones, John Gwynfor, 'Cerdd a Bonedd yng Nghymru, Rhai Argraffiadau', *Cerddoriaeth Cymru/Welsh Music, Cyfrol Gaeaf/Winter* (1981-82), 22-33.

---. 'Yr Esgob Richard Parry, 1560-1623', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 23 (1974), 126-146.

---.*Concepts of Order and Gentility in Wales, 1540-1640* (Llandysul,1992)

---. 'Addysg a Diwylliant yng Nghyfnod Syr John Wynn', *Taliesin,* 20 (1970), 87-94.

---. 'Y Wreigdda Rowiogddoeth – Y Ferch Fonheddig yng Nghymru Cyfnod Elisabeth I', *Taliesin,* 35 (1977), 73-89.

---. 'The Welsh Poets and their Patrons *c.*1550-1640', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 9 (1979), 245-277.

---. 'Y Bardd a'r Uchelwr, 1540-1640', *Taliesin,* 39 (1979), 9-22.

---. 'Caernarvonshire Administration: The Activities of the Justices of the Peace, 1603-1660', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 5 (1970-71), 130-163.

---. 'Patrymau Bonheddig Uchelwrol yn Sir Ddinbych *c*1540–1640', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 29 (1980), 37-77.

---. 'Educational Activity among the Wynns of Gwydir', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 42 (1981)

---. 'Cerdd a Bonedd yng Nghymru, 1500-1640: Rhai Argraffiadau', *Cerddoriaeth Cymru*, 6 (1981-2), 22-33.

---. 'Rhai Agweddau ar y Consept o Uchelwriaeth yn Nheuluoedd Bonheddig Cymru yn yr Unfed a'r Ail Ganrif ar Bymtheg', yn Williams, J. E. Caerwyn (gol.)., *Ysgrifau Beirniadol*, XII (Dinbych, 1982), 201-249.

---. *The Wynn Family of Gwydir: Origins, Growth and Development c. 1490-1674* (Aberystwyth, 1995)

---. *Beirdd Yr Uchelwyr a'r Gymdeithas yng Nghymru c. 1536-1640* (Dinbych, 1997)

Jones, John Gwilym, 'Cyfnod Olaf y Beirdd yng Ngwedir (1627-74)', yn Williams, J. E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XV (1988), 121-141.

Jones, R. L., 'Astudiaeth Destunol o Awdlau, Cywyddau ac Englynion gan William Cynwal', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, (1969)

---. 'Casgliad Teipiedig o Waith Huw Pennant', *Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Misc. Vol)*, 247 (1976).

Jones, Thomas, *Carolau, a Dyriau Duwiol: Neu Goreuon Gwaith y Prydyddion Goreu Yng-Hymru* (Amwythig, 1696)

Jones, Thomas, *Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol* (Amwythig, 1720)

Jones, T. G., 'Detholiad o Ryddiaith a Phrydyddiaeth', *Llên Cymru*, III (1926)

Jones, T. Gwynn, 'The Welsh Bardic Vocabulary', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, I (1921-1923), 310-333.

---. *Gwaith Tudur Aled*, II (Caerdydd, 1926)

---.*Bardism and Romance: A Study of the Welsh Literary Tradition* (Llundain, 1914)

Kerr, Rosemarie, 'Cywyddau Siôn Brwynog', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, (1960)

Kinney, Phyllis, *Welsh Traditional Music* (Caerdydd, 2011)

Klausner, David, 'Diddanwch Teuluaidd ymysg Salsbriaid Lleweni a'u Cylch, 1591-1641', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 6 (2004), 143-154.

Klausner, David N. (gol.), *Records of Early Drama: Wales* (Llundain, 2005)

Knowles, Elizabeth, *A Dictionary of Phrases and Fable* (Rhydychen, 2006)

Lewis, Barry J, *Cyfres Beirdd yr Uchelwyr: Gwaith Gruffudd ap Maredudd*, I – *Canu i Deulu Penmynydd* (Aberystwyth, 2003)

---. *Cyfres Beirdd yr Uchelwyr: Gwaith Gruffudd ap Maredudd – Y Cerddi Crefyddol* (Aberystwyth, 2005)

Lewis, C., 'The Decline of Professional Poetry', yn Gruffydd, R. Geraint (gol.), *A Guide to Welsh Literature* (Caerdydd, 1997), 29-74.

Lewis, J. B., 'An Account of the Penbedw Papers in the Flintshire Record Office', *Flintshire Historical Society Publications,* 25 (1971-72), 124-152.

Lewis, Saunders, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1932)

---. 'Adolygiadau: 'Gramadegau'r Penceirddiaid", *Y Llenor,* XIII (1934), 250-256.

Lewis, William Gwyn, ‘Astudiaeth o Ganu'r Beirdd i'r Herbertiaid hyd Ddechrau'r Unfed Ganrif ar Bymtheg’, Traethawd PhD Prifysgol Cymru, Bangor, (1982)

Lloyd, J. E, Jenkins, R. T., a Davies, W. Ll. (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940* (Llundain, 1953)

Lloyd, J. Y. W., *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, and the Ancient Lords of Arwystli, Cedewen, and Meirionydd* (Llundain, 1881)

---. *The History of the Princes, the Lords Marcher and the Ancient Nobility of Powys Fadog and the Ancient Lords of Arwystli, Cedewen and Meirionydd*, IV (Llundain, 1884)

---. *The History of the Princes, the Lords Marcher and the Ancient Nobility of Powys Fadog and the Ancient Lords of Arwystli, Cedewen and Meirionydd*, VI (Llundain, 1887)

Lloyd, Nesta, 'The Correspondence of Edward Lhuyd and Richard Mostyn', *Flintshire Historical Society Publications,* 25 (1971-1972), 31-61.

---. 'Late Free-Metre Poetry', yn Gruffydd, R. Geraint (gol.), *A Guide to Welsh Literature c.1530 -1700* (Caerdydd, 1997), 100-127.

Lloyd, Nesta, a Cyhoeddiadau Barddas, *Blodeugerdd Barddas o'r Ail Ganrif ar Bymtheg* (Abertawe, 1993)

Lloyd-Williams, Pegi, *Hen Glochyddion Cymru* (Talybont, 2011)

Llwyd, Alan, *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg* (Llandysul, 1988)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515-1690, in the National Library of Wales and Elsewhere* (Llundain, 1926)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Davies, W. Ll., *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943)

Lord, Peter, *Delweddu'r Genedl* (Caerdydd, 2000)

Lord, Peter, a Morgan-Guy, John, *Gweledigaeth Yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003)

Lysons, Daniel, a Lysons, Samuel, *Magna Carta: Being a Concise Topographical Account of the several Counties of Great Britain,* II (Llundain, 1810)

MacKillop, James, *Dictionary of Celtic Mythology* (Rhydychen, 1998)

Madoc, John, a Jones,Thomas, *Gwaith Barddonol Ioan Madog:Ynghyd a Bywgraffiad o'r Awdwr, a Llythyrau oddiwrth Rai o Brif Feirdd y Genedl: O Dan Olygiaeth Cynhaiarn* (Pwllheli, 1881)

McDonald, R. W., 'Bywyd a Gwaith Lewis ab Edward', Traethawd M.A. Prifysgol Lepwl, (1960-61)

Messham, J. E., 'The County of Flint and the Rebellion of Owen Glyndwr in the Records of the Earldom of Chester', *Journal of the Flintshire Historical Society*, 14 (1967-68), 1-34.

Meurig, Cass, 'Y Ffidler yng Nghymru'r Ddeunawfed Ganrif', *Hanes Cerddoriaeth Cymru/Welsh Music History*, 5 (2002), 41-58.

---. 'Dawns yng Nghymru yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg a'r Ddeunawfed Ganrif', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 7 (2007), 73-91.

Moore-Colyer, Richard J., *Welsh Cattle Drovers: Agriculture and the Welsh Cattle Trade before and during the Nineteenth Century* (Ashbourne, 2002)

Morrice, James Cornelius, *A Manual of Welsh Literature: Containing a Brief Survey of the Works of the Chief Bards and Prose Writers from the Sixth Century to the End of the Eighteenth* (Bangor, 1909)

---. *Wales in the Seventeenth Century: Its Literature and Men of Letters and Action* (Bangor, 1918)

Morrice, James Cornelius, a Wiliam Llŷn, *Barddoniaeth Wiliam Llŷn a'i Eirlyfr, Gyda Nodiadau [in English]* (Bangor, 1908)

Morrill, J. S., *Cheshire 1630-1660: County Government and Society during the English Revolution* (Rhydychen, 1974)

Morris-Jones, John, *Cerdd Dafod sef Celfyddyd Barddoniaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1980)

Morris-Jones, Rhiannon, Morris-Jones, John, a Parry-Williams, T. H., *Llawysgrif Hendregadredd* (Caerdydd, 1933)

Morys, Huw, a Jones, Ffion Mair (goln.), *Y Rhyfel Cartrefol* (Bangor, 2008)

Mostyn, Yr Arglwydd, 'Piers Mostyn, the First of Talacre', *Flintshire Historical Society Publications*, 11 (1925), 45-48.

Mostyn, Yr Arglwydd, a Glenn, Thomas Allen, *History of the Family of Mostyn of Mostyn* (Llundain, 1925)

Nicholas, Thomas, *Annals & Antiquities of the Counties & County Families of Wales, Anglesey (Môn)*, 2 (Llundain, 1872)

---. *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales; Containing a Record of all Ranks of the Gentry ... with Many Ancient Pedigrees and Memorials of Old and Extinct Families* (Llundain, 1872)

Nimrod, *Nimrod's, Hunting Tours, Interspersed with Characteristic Anecdotes, Sayings, and Doings of Sporting Med, Including Notices of the Principal Crack Riders of England with Analytical Contents and General Index of Names* (Llundain, 1835)

Ormerod, George, King, Daniel, Smith, William, et al., *The History of the County Palatine and City of Chester; Comp. from Original Evidences in Public Offices, the Harleian and Cottonian Mss., Parochial Registers, Private Muniments, Unpublished Ms. Collections of Successive Cheshire Antiquaries, and a Personal Survey of Every Township in the County; Incorporated with a Republication of King's Vale Royal and Leycester's Cheshire Antiquities* (Llundain, 1882)

Owen, Ann Parry, *Cyfres Beirdd yr Uchelwyr: Gwaith Gruffudd Ap Maredudd*, III (Aberystwyth, 2007)

Owen, Elias, 'On some Customs Still Remaining in Wales', *Y Cymmrodor,* II (1878), 133-137.

Owen, Goronwy Wyn, 'Argyfwng y Beirdd a'r Dyneiddwyr Yn Yr Unfed a'r Ail Ganrif Ar Bymtheg', *Llên Cymru,* 33 (2010), 107-123.

Owen, Geraint Dyfnallt, *Elizabethan Wales, the Social Scene* (Caerdydd, 1962)

Owen, Idloes, 'The Mostyns of Talacre Hall', *Country Quest,* 35 (1995), 24-25.

Owens, Owen, 'Gweithiau Barddonol Morus Dwyfech', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Bangor, (1944)

Parry, T., 'Gramadeg Siôn Dafydd Rhys', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd,* VI (1931-33), 55-62.

Parry, Thomas, 'Statud Gruffudd Ap Cynan', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd,* V (1929-31), 25-33.

---. 'Pynciau Cynghanedd', *Bwrdd Astudiaethau Celtaidd,* X (1939), 1-5.

---. *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd, 1953)

Parry, Thomas, a Morgan, Merfyn, *Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1976)

Payne, F. G., 'Cwysau o Foliant Cyson', *Y Llenor,* XXVI (1947), 3-24.

Pennant, Thomas, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (Fleet Street, 1796)

---. *The Journey from Chester to London* (Llundain, 1811)

---. *The Journey to London* (Llundain, 1811)

---. *A Tour in Wales*, I (Bridgend, 1991).

Phillips, John Roland, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642- 1649* (Llundain, 1874)

Powell, Nia W., 'Robert ap Huw', *Hanes Cerddoriaeth Cymru/Welsh Music History,* 3 (1999), 5-29.

Rees, Thomas, Roberts, D. Francis, Evans, J. T., et al., *Geiriadur Beiblaidd* (Wrecsam, 1926)

Rees, William, *Industry before the Industrial Revolution :Incorporating a Study of the Chartered Companies of the Society of Mines Royal and of Mineral and Battery Works* (Caerdydd, 1968)

Richards, Thomas, 'The Whitford Tithes: A Battle of Wits', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,* 1924-25 (1926), 1-76.

Rimmer, Joan, 'James Talbot's Manuscript VI: Harps *c.* 1690', *Galpin Society Journal,* 16 (1963), 63-70.

Roberts, Brynley F., 'Etifeddion Edward Lhuyd ', *Cylchgrawn Hanes Cymru,* 25 (2010), 97-115.

Roberts, D. Hywel E., 'Casgliad Teipiedig o Waith rhai o Farwnadwyr Tudur Aled, Disgyblion Disgyblaidd ac Ysbas Ail Eisteddfod Caerwys (ac eithrio Huw Pennant ac Ieuan Tew) a Robert ab Ifan o Frynsiencyn', (Misc Vol) 93, (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1969)

Roberts, Enid, 'Y Crist o Fostyn', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd,* XXI (1965), 236-242.

---. 'Siôn Tudur', *Llên Cymru,* 2 (1952-53), 82-96.

---. 'Wiliam Cynwal', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 12 (1963), 51-85.

---. 'Marwnad Rhisiart Miltwn', yn Williams, J. E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol,* II (Dinbych, 1966), 241-270.

---. 'Marwnadau Telynorion', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 15 (1966), 80-117.

---. 'Eisteddfod Caerwys 1567', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 16 (1967), 23-61.

---. 'Ymryson y Salsbriaid 1593 ', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 17 (1968), 108-146.

---. 'Siôn Tudur yn Llundain', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,*18 (1969), 50-82.

---. 'Rhagor am Siôn Tudur yn Llundain', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 19 (1970), 103-107.

---. 'Siôn Salsbri, Lleweni', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 19 (1970), 79-80.

---. 'Priodasau Catrin o Ferain', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 20 (1971), 31-56.

---. "A Gwraig Orau o'r Gwragedd", *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych,* 21, (1972), 28-56.

---. 'Uchelwyr y Beirdd – Y Llys', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 24 (1975), 38-73.

---. 'Uchelwyr y Beirdd – Y Llan', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 25 (1976), 51-91.

---. *Gwaith Siôn Tudur*, I & II (Caerdydd, 1980)

---. *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion* (Aberystwyth, 2003)

Roberts, Enid, a Hague, Douglas Bland, *Tai Uchelwyr y Beirdd, 1350-1650* (Caernarfon,1986)

Roberts, Glyn, 'Wales and England, Antipathy and Sympathy, 1282-1485', *Cylchgrawn Hanes Cymru*,1 (1969), 375-396.

Roberts, J. Aelwyn, *North Wales Privies / Tai Bach Gogledd Cymru* (Newbury, 1998)

---. *Privies of Wales* (Llandegai, 2000)

Roberts, Jim, *Llandudno: Past and Present* (Stroud, 2002)

Roberts, John, *Oxford Dictionary of the Classical World* (Rhydychen, 2007)

Roberts, Mair, *The Harpmakers of Wales* (Llanrwst, 2000)

Roberts, Sara Elin, 'Addysg Broffesiynol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol: Y Beirdd a'r Cyfreithwyr', *Llên Cymru*, 26 (2003), 1-17.

Roberts, Glyn et al, *Aspects of Welsh History* (Caerdydd, 1969)

Roberts, J. W., ac Oxford University Press, *The Oxford Dictionary of the Classical World* (Oxford, 2007)

Roberts, Peter, Rowland, Tom, a Thomas, David Richard, *Y Cwtta Cyfarwydd : The Chronicle Written by the Famous Clarke, Peter Roberts, Notary Public, for the Years 1607- 1646* (Llundain, 1883)

Roderick, Arthur James, *Wales through the Ages* (Llandybïe, 1959; 1960)

Ronnes, Hanneke, *Architecture and Elite Culture in the United Provinces, England and Ireland, 1500-1700* (Amsterdam, 2006)

Rowlands, E. I., 'Bardic Lore and Education', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd,* 32 (1985), 143-155.

Rowlands, Eurys I., 'Y Cywyddau a'r Beirniaid', *Llên Cymru,* II (1953), 237-243.

---. *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975)

Ryves, Bruno, *Mercurius Rusticus: Or the Countries Complaint of the Barbarous Outrages Committed by the Sectaries of this Late Flourishing Kingdom Together with A Brief Chronology of the Battles, Sieges, Conflicts, and Other most Remarkable Passages, from the Beginning of this Unnatural War to the 25th March, 1646* (Llundain, 1685)

Saer, D. Roy, 'Testun Beirniadol o Waith Owain Gwynedd, ynghyd â Rhagymadrodd, Nodiadau, a Geirfa', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth (1961)

Sequin, Colleen M., 'Cures and Controversy in Early Modern Wales: The Struggle to Control St Winifred's Well', *North America Journal of Welsh Studies,* 3 (2003), 1-17.

Smith, J. Beverley, 'Gruffudd Llwyd and the Celtic Alliance, 1315-18', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd,* XXVI (1974-76), 463-478.

Spalding, Ruth, *Contemporaries of Bulstrode Whitelock, 1605-1675: Biographies, Illustrated by Letters and Other Documents* (Rhydychen, 1990)

Steegman, John, *A Survey of Portraits in Welsh Houses,* I (Caerdydd, 1957)

Stephens, Meic, *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997)

Stephens, Roy, 'Gwaith William Llŷn', Traethawd PhD Prifysgol Cymru (1983)

Stevens, Catrin, 'The Funeral Wake in Wales', *Folke Life: Journal of Ethnological Studies,* 14 (1976), 27-45.

Stone, Jon R., *The Routledge Dictionary of Latin Quotations: The Illiterati's Guide to Latin Maxims, Mottoes, Proverbs and Sayings* (Abingdon, 2005)

Stone, Lawrence, *The Crisis of the Aristocracy, 1558-1641* (Llundain, 1967)

Swett, Katherine Warner, 'Widowhood, Custom and Property in Early Modern North Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru,*18 (1996-97), 189-227.

Taylor, Henry, 'The Flintshire Militia, with a Short Biography of Sir Roger Mostyn', *Journal of the Chester Archaeological and Historical Society,* 4 (1891), 52-67.

---. 'Preface', *Flintshire Historical Society Publications,* 6 (1917), 6-13.

Thomas, D. R., *The History of the Diocese of St Asaph: General Cathedral and Parochial,* II, (Croesoswallt, 1911)

Thomas, Einir Gwenllian, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd Ap Cynan', Traethawd PhD Prifysgol Cymru, Bangor, (2001)

Thomas, Gwyn, *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd, 1968)

---.'Y Portread o Uchelwr ym Marddoniaeth Gaeth yr Ail Ganrif ar Bymtheg', yn Williams, J. E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, VIII (Dinbych, 1974), 110-129.

---. *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976)

---. 'Golwg ar Gyfundrefn y Beirdd yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg', yn Williams, J. E. Caerwyn a Gruffydd, R. Geraint (goln), *Bardos :Penodau ar y Traddodiad Barddol Cymreig a Cheltaidd* (Caerdydd, 1982), 76-94.

---. *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr wrth Gerdd* (Aberystwyth, 2003)

Thomas, Gwyn, a Jones, Bedwyr Lewis, *Llenyddiaeth y Cymry: Cyflwyniad Darluniadol* (Y Bontfaen, 1985)

Thomas, Ben Bowen, *Braslun o Hanes Economaidd Cymru hyd 1914* (Caerdydd, 1941)

Thomas, Owen, 'Beirdd Cymru Oes Cromwell', *Yr Haul*, XXXIII (1931), 130-134.

Thomas, R. J., Bevan, Gareth A., a Donovan, Patrick J (goln.), *Geiriadur Prifysgol Cymru: A Dictionary of the Welsh Language*, I-IV (Caerdydd, 2002-2007).

Townsend, Peter, (gol.), *'Burke's Genealogical and Heraldic History of the Peerage, Baronetage and Knightage, Privy Council and Order of Precedence,* (105th edn, Llundain, 1980)

Tucker, Norman, *Llanelian-yn-Rhos and its Ancient Church* (Bae Colwyn, 1950)

---. *Llanelian-yn-Rhos and its Ancient Church* (Llanelian yn Rhos, 1954)

---. 'Colonel Sir Roger Mostyn, First Baronet, 1624-1690', *Journal of the Flintshire Historical Society*, 17 (1957), 42-54.

---. *North Wales in the Civil War* (Dinbych, 1958)

---. *The Parish Church of Llandrillo-Yn-Rhos* (Dinbych, 1965)

Veysey, A. G., *Guide to the Flintshire Record Office* (Mold, 1974)

Walsham, Alexandra, 'Holywell: Contesting Sacred Space in Post-Reformation Wales', yn Coster,Will, a Spicer, Andrew (goln.)., *Sacred Space in Early Modern Europe* (Caergrawnt, 2005)

Walton, Izaak, a Cotton, Charles., *The Complete Angler* (Llundain, 1853)

Wark, K. R., *Elizabethan Recusancy in Cheshire* (Manceinion, 1971)

Whitehead, Maurice, "Superior to the Rudest Shocks of Adversity': English Jesuit Education and Culture in the Long Eighteenth Century, 1688-1832', yn Hilton, Mary, a Shefrin, Jill (goln.), *Educating the Child in Enlightenment Britain: Beliefs, Cultures, Practices* (Farnham, 2009)

Williams, A. H., 'The Origins of the Old Endowed Grammar Schools in Denbighshire', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, II (1953), 17-69.

Williams, David, *A History of Modern Wales* (Llundain, 1977)

Williams, Glanmor (gol. a chyfrannwr), *The Welsh Church from Reformation to Disestablishment, 1603-1920* (Caerdydd, 2007)

---. *Dadeni, Diwygiad a Diwylliant Cymru* (Caerdydd, 1964)

---. *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Caerdydd, 1976)

Williams, Gruffydd Aled, 'Wiliam Midleton, Bonheddwr, Anturiwr a Bardd', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 24 (1975), 74-116.

Williams, Heledd Hâf, 'Cerddi Mawl Robin Ddu o Fôn', Traethawd PhD Prifysgol Bangor (2012)

Williams, Ifor, *Gwyneddon MS 3* (Caerdydd, 1931)

Williams, Ifor, a Williams, John Llewelyn, *Gwaith Guto'r Glyn* (Caerdydd, 1939)

Williams, Iwan Ll., 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Gaernarfon', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, (1986)

Williams, John, *Ancient and Modern Denbigh: A Descriptive History of the Castle, Borough and Liberties* (Dinbych, 1836)

Williams, J. Gwynn, 'Rhai Agweddau Ar y Gymdeithas Gymreig yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg', yn Roberts, T. A. (gol.), *Efrydiau Athronyddol*, XXX (Caerdydd, 1968), 42-55.

---. 'Witchcraft in Seventeenth-Century Flintshire', *Journal of the Flintshire Historical Society*, 26 (1973-74), 16-37.

Williams, John Llywelyn, Williams, Ifor, a Guto'r Glyn, *Gwaith Guto'r Glyn* (Caerdydd, 1961)

Williams, Robert, *The History and Antiquities of the Town of Aberconwy and its Neighbourhood: With Notices of the Natural History of the District* (Denbigh, 1835)

Williams, S. Rhiannon, 'Testun Beirniadol o Gasgliad Llawysgrif Mostyn 111 o waith Wiliam Cynwal, ynghyd â Rhagymadrodd, Nodiadau a Geirfa', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, (1965)

Williams, W. Llewelyn, 'Welsh Catholics on the Continent', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1903), 46-110.

Williams, W. Ogwen, 'The Survival of the Welsh Language after the Union of England and Wales: The First Phase, 1536-1642', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 2 (1964-65), 67-93.

---. *Tudor Gwynedd; the Tudor Age in the Principality of North Wales* (Caernarfon, 1958)

---. 'The Social Order in Tudor Wales', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1967), 167-178.

Winterbottom, Derek, 'Llanrhaeadr Hall – the Fortunes of a Country House through Five Centuries', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 27 (1978), 178-189.

Wotton, Thomas, Kimber, Edward, a Johnson, Richard A., *The Baronetage of England: Containing a Genealogical and Historical Account of all the English Baronets Now Existing: With their Descents, Marriages, and Memorable Actions both in War and Peace*, II (London, 1771)

Wynn, Syr John, a Ballinger, John (gol.), *The History of the Gwydir Family* (Caerdydd, 1927)

Wynn, Syr John, a Jones, J. Gwynfor (gol.), *The History of the Gwydir Family and Memoirs* (Llandysul, 1990)

Wynne, Griffith, a Taylor, Jeremy, *Ystyriaethau o Gyflwr Dyn, yn y Bywyd Hwn, ac yn yr Hwn Sy i Ddyfod, o Waith Jeremiah Taylor; Ac a Gyfieithwyd gan Gr. Wynn, Offeiriad Llan Cadwaladr* (Merthyr Tydfil, 1825)

Llyfryddiaeth – gwefannau

Archifdy Sir y Fflint. Archifau Cymru.
Penbedw:
http://www.archiveswales.org.uk/anw/get_collection.php?coll_id=1078&inst_id=28&term=penbedw

A Vision of Britain Through Time. Prifysgol Portsmouth.
Mostyn:
http://www.visionofbritain.org.uk/maps/?layer=europe&xMin=3148897.00900&yMin=3016178.57646&xMax=3151697.00900&yMax=3018978.57646

Bannerman, N V Cambell, 'Flood, Folklore and Fishweirs'.
http://www.nbannerman.co.uk/Flood_Folklore_and_Fishweirs.pdf

BBC, 'Coast', 2009.
Ogof Llech: http://www.youtube.com/watch?v=XXtmt9IDc6U

Brewer, E Cobham, *Dictionary of Phrase and Fable.* (1898)
www.bartleby.com/81/ [Troy-Novant (London)]

British History Online. Institue of Historical Research.
Mynydd Tegeingl: http://www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=47826

Carr, A. D. 'Tudor family, forebears of (*per. c.*1215–1404)', *ODNB*, Oxford University Press, 2004 [http://www.oxforddnb.com/view/article/60238, cyrchwyd 6ed Gorffennaf, 2013]

Coflein. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru:
Plas Mostyn: www.coflein.gov.uk/pdf/CPG101/

Cyngor Sir y Fflint - Discover the Five Villages: Carmel, Gorsedd, Lloc, Pantasaph,Whitford: http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Tourism/Discover-Carmel,-Gorsedd,-Lloc-and-Pantasaph.pdf

Cymru Hanesyddol – Cofnod Cronfa Ddata o Adeiladau Rhestredig, Cadw.
Foelas: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=20585
Gloddaeth: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=3411
Plas Mostyn: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21517
Porth Mawr, plas Mostyn: http://jura.rcahms.gov.uk/cadw/cadw_wal.php?id=21516

Drych Digidol. Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Y Drych Cristianogawl: http://www.llgc.org.uk/index.php?id=291&L=1

Early Modern Letters Online. Cultures of Knowledge.
Richard Mostyn & Edward Lhuyd:
http://emlo.bodleian.ox.ac.uk/forms/quick?everything=richard+mostyn&submit-quick.x=-1388&submit-quick.y=-70&submit-quick=Search&search_type=quick

Eglwys Llanelian:
http://www.coflein.gov.uk/cy/safle/165227/manylion/ST+EILIAN%27S+CHURCH%3B+ST+HILARY%27S+CHURCH%3BLLANELIAN-YN-RHOS+CHURCH/

Getamap. Ordnance Survey.
Rhos, Maelgwyn a Rhyd : http://www.getamap.ordnancesurveyleisure.co.uk [Llanrhos]

Guto'r Glyn.net.
http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem=106&first-line=091

Hanks, Patrick; Hardcastle, Kate; Hodges, Flavia (goln), *A Dictionary of First Names* (Rhydychen, 2006).
http://0-www.oxfordreference.com.unicat.bangor.ac.uk/view/10.1093/acref/9780198610601.001.0001/acref-9780198610601-e-1229?rskey=mklIsL&result=2696

Livingstone, E. A. (gol.), *The Concise Oxford Dictionary of the Christian Church* (Rhydychen, 2006): http://0-www.oxfordreference.com.unicat.bangor.ac.uk/view/10.1093/acref/9780199659623.001.0001/acref-9780199659623-e-1223?rskey=wdojMB&result=1

Maldwyn: Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysygrifau. Llyfrgell Genedlaethol Cymru: http://maldwyn.llgc.org.uk/

Mapping Medival Chester. Arts & Humanities Research Council. Caerlleon: http://www.medievalchester.ac.uk/context/faulkner.html.

North American Journal of Welsh Studies, Cyfrol 3, 2 (Haf 2003) http://spruce.flint.umich.edu/~ellisjs/Seguin.pdf.

North Wales Caving Club. Ogof Llech: https://sites.google.com/site/cavesofnortheastwales/10-caves-of-llandudno-area

Ogof Llech: http://www.coflein.gov.uk/cy/safle/23009/manylion/LLECH+CAVE+OR+GROTTO%3BPWLL-Y-BABAN%2C+HIDING+CAVE/

Roberts, John (gol.), *Oxford Dictionary of the Classical World* (Rhydychen, 2007): http://0-www.oxfordreference.com.unicat.bangor.ac.uk/view/10.1093/acref/9780192801463.001.0001/acref-9780192801463-e-558?rskey=KhkYSM&result=7

The History of Parliament. Institute of Historical Research. Tomas Mostyn: http://www.historyofparliamentonline.org/volume/1660-1690/member/mostyn-thomas-1651-92â

Y Bywgraffiadur Ar-lein. Llyfrgell Genedlaethol Cymru http://yba.llgc.org.uk/cy/index.html